

LYFR PAWB  
AR  
BOB-PETH

AWGRYMIADAU BUDDIOL  
I BAWB.

CARU, PRIODI, CLADDU & C.

COGINIO POB MATH O  
FWYDYDD.

DAMWEINIAU SYDYN,  
A'R MODD I YMDDWYN.

DARLLEN AC YSCRIFENU  
YN GWIR.

DODREFNU A CHADW TY,  
GARDDU A FEARMIO.

GWISGO.

GWNEYD GWAHANOL  
DDIODYDD.

GWYSODAETH GYFREITHIOL  
IEDIYD, A'R MODD I'W

DDIOGELU.

LLIWID, GOLCHI, A  
GLANHAU DILLAD.

MARCHNATA.

YSTAENIO AT

MAGU GWAHANOL

GREADURIAID DEFNYDDIOL

MEDIWY Y TEULU.

MEISTRADOEDD A

GWEISION.

PARTOGADAU DEFNYDDIOL

PA FODD I FAGU

PLANT.

PETHAU BUDDIOL

A DYDDOROL.

PRYNU A GWERTHU

NWYDDAU.

RHEOLEIDDIO TEULU

TABLAU DEFNYDDIOL.

TÈ, COFFL, & C.

Y TYWYDDO.

Y FFWCH: LLAETHDY: YMEN:

YN: CAWS.


Y FFFORDD OREU I FASACNU

YMDROGHI, PYSBOTA, & C.

PHAENTIO.



600074451R









**LLYFR PAWB AR BOB-PETH.**

**WREXHAM:**

**ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWDYD GAN HUGHES AND SON,  
HOPE STREET.**

# LLYFR PAWB AR BOB-PETH:


SEF,

Y FFORDD OREU I GYFLAWNI

HOLL DDYLED SWYDDAU,

AC I GYFARFOD A

HOLL AMGYLCHIADAU BYWYD CYFFREDIN.



WREXHAM:

CYHOEDDEDIG GAN HUGHES AND SON,

HOPE STREET.

268. b. 199.



## AT Y DARLLENYDD.

---

MOR bwysig ydyw pethau bychain ! Pethau bychain a chyffredin sydd yn gwneyd bywyd. Ac y mae gwybod PA FODD i wneyd y pethau hyn, ac i gyflawni y dyledswyddau ag y mae angen am danynt mewn bywyd bob dydd, yn werthfawr i bob gradd a dosparth o ddynion. Dyma y wybodaeth a gynwysir yn y llyfr hwn. Mae gan y Cymro nifer fawr o lyfrau Crefyddol, Barddoniaeth aruchel, a Thraethodau godidog ar y Gwyddoran a'r Celfyddydau ; ond nid oes ganddo gyfrol fechan, yn cynwys gwybodaeth am bethau cyffredin bywyd. Llenwi y diffyg yma yw amcan y llyfr hwn.

Yma, ca y DYN IEUANGC gyfarwyddiadau i Ddarllen ac Ysgrifenu yn gywir ; Awgrymiadau buddiol ; Rheolau Ymddygiad ; pa fodd i Ymwisgo ; dechreu Masnachu ; Dewis Gwraig, a byw yn hapus :—Ca y FERCH IEUANGC wybod yma sut i wneyd holl angenrheidiau y Bwrdd ymdrwsio ; lliwio, glanhau, cadw ei gwisgoedd ; pa fodd i ymddwyn yn mhob man ac o dan bob amgylchiad ; a gwybodaeth pa fodd i wneyd pob peth ag y gelwir arni i'w gyflawni :—I'r PAR IEUANGC yn nghylch neu newydd BRIODI, fe geir yma Awgrymiadau yn nghylch dewis, prynu, neu adeiladu Tŷ ; dodrefnu a chadw y Tŷ mewn trefn ; gweithrediadau Teuluaid, sef saerniaeth, adgyweirio, trwsio, &c. ; llywodraethiad teuluaid ; tanwydd a goleuni ; geni a chladdu ; magu a porthi plant, &c. :—Ca y WRAIG IEUANGC yma wybod y ffordd i brynu a *choginio* pob math o fwydydd yn y dull goreu ; Carfio bwyd ; ymddygiadau wrth y Bwrdd ; gwneyd pob math o

Bwdinau, Pasteiod, Jellies, Cacenanau, Soups, Potes, Sauces, Diodydd, &c. ; Awgrymiadau ar Dê, Coffi ; y modd goreu i Biclo, Preserfio, &c. :—I'r FFERMWR neu y TYDDYNWR, y mae yma gyfarwyddiadau iddo i drin ei Ardd neu ei Fferm a'i Anifeiliaid yn y dull trefnusaf ; magu Hwyaid, Ieir, Gwyddau, Gwenyn, Moch, a phob math o greaduriaid dofaiidd ereill ; sut i gadw Buwch, gofalu am y Llaeth dŷ, gwneyd Ymenyn a Chaws, &c. :—I BAWB, fe geir yma y ffordd i wella y nifer fwyaf o *Afiechyd*on y mae y natur ddynol yn agored iddynt ; gwybodaeth a chyfarwyddiadau *Cyfreithiol* buddiol a mwyaf diweddar ; y modd i ymddwyn yn ngwyneb *Damweiniau* sydyn a pheryglus ; y dull o ddinystrio Pryfaid a Chreaduriaid niweidiol ; pwysigrwydd mawr *Iechyd*, a'r moddau goreu i'w ddiogelu ; awgrymiadau i *Feistradoedd* a *Gweision* ; y ffordd i wneyd *Parotoadau Defnyddiol* ; Pysgota ac Ymdrochi ; awgrymiadau ar y Tywydd ; Ystaenio a Phaentio ; Tablau defnyddiol ; a llawer o bethau eraill angenrheidiol eu gwybod a'u deall ar bawb.

Nid yw y llyfr hwn yn wreiddiol nac yn gyfieithiad, ond yn sylwedd degau o lyfrau ag sydd mewn bri mawr yn mhlith y Saeson. Yr ydym wedi defnyddio iaith sathredig, a arferir ac a ddeallir gan y bobl gyffredin, yn hytrach nag iaith goeth a manwl gywir, am fod *eglurder* yn bwysicach yn ein golwg wrth ei wneyd na hyny. Byddwn yn gwbl foddlon i'r beirniaid i feio yr iaith a ddefnyddir, os cawn le i dybied fod "y miloedd" yn ei ddeall. Aberthasom bob peth er ceisio cyraedd hyny.

YR AWDWR.

# CYNWYSIAD CYFFREDINOL.

(Gwel y Cynwysiad Dosranol yn y dirwedd.)

	TUDAL.
ADAR DOFAIDD: ADAR CANU: GWENYN, &c. - - - -	153
ANGENRHEIDIAU Y BWRDD YMDRWSIO - - - -	139
AWGRYMIADAU BUDDIOL I BAWB - - - -	1
BARA, CACENAU, &c.: Y DULL O'U POBI - - - -	109
CARFIO BWYD, YMDDYGIADAU WETH Y BWRDD, &c. - - - -	56
CARU, PRIODI, GENI, A CHLADDU: CYFARWYDDIADAU - - - -	125
COGYDDIAETH: PYSGOD, CIGFWYD, HELWRIAETH, FFOWLS - - - -	58
CREADURIAID DOFAIDD: Y MODD I'W MAGU - - - -	163
CYFRAITH: GWYBODAETH A CHYNGHORION CYFREITHIOL - - - -	32
DAMWEINIAU A DYGWYDDIADAU SYDYN A PHERYGLUS: Y MODD I YMDDWYN } PAN Y DIGWYDDONT - - - - - }	199
DARLLEN AC YSGRIFENU YN GWIR: CYFARWYDDIADAU I - - - -	9
DEWIS, PRYNU, AC ADEILADU TY: Y MODD GOREU I - - - -	116
DIODYDD A GWINOEDD CARTREF, DIODYDD I GLEIFION, &c. - - - -	104
DINYSTRIO PRYFAID A CHREADURIAID NIWEIDIOL: Y FFORDD I - - - -	164
DODREFN: EU DEWIS A'U TREFNU - - - -	118
FFERMWRIAETH - - - -	148

GARDDWRIAETH: GWAITH YR ARDD FLODEU A'R ARDD LYSIAU - - -	145
GWEITHREDIAU TEULUAIDD: SAERNIAETH, ADGYWEIRIO, TRWSIO, &c.	119
GWISGOEDD: A'E MODD I'W CADW MEWN TREFN - - -	136
IECHYD A'I DDIOGELIAD: AWYR, GOLAFUR, A CHWSG - - -	205
LLIWIO, GLANHAU, A GOLCHI: Y DULLIAU DIWEDDAP O - - -	140
LLYGRIAD A CHYMYSGIAD NWYDDAU: Y MODD I'W DARGANFOD -	48
LLYSIAU: EU TRINIAETH - - - - -	88
LLYWODRAETHIAD TEULUAIDD - - - - -	130
MARCHNATA, DEWIS YMBORTH, &c.: Y FFORDD OREU I - - -	51
MASNACHWYR A MASNACH: AWGRYMIADAU - - - -	3
MEDDYG Y TEULU: CYNGHORION GWERTHPAWB I WELLA YR ANHWYLDERAU } MWTAF CYFFREDIN - - - - - }	166
MEISTRADOEDD A GWEISION A MORWYNION - - - - -	134
MOESAU AC YMDDYGIADAU - - - - -	5
PAROTOADAU DEFNYDDIOL: INC, GUM, GLUE, CEMENT, &c.- - -	142
PASTEIOD, PWDIN, JELLIES, &c.: Y MODD I'W GWNEYD -	90, 93, 97
PETHAU BUDDIOL A DYDDOROL - - - - -	25
PICLO A PRESERFIO: CYFARWYDDIADAU I'W GWNEYD - - -	99
PLANT: Y MODD I'W MAGU A'U PORTH I - - - - -	110
PYSGOTA AC YMDROCHI: Y FFORDD I - - - - -	29
SOUPS, POTES, SAUCES, WYAU, &c. - - - - -	81, 84, 86
TABLAU DEFNYDDIOL: TREULION, LLŌG, BILIAU, CYTUNDEBAU, PWYSAU, &c.	209
TANWYDD A GOLEUNI: Y MODD I'W PRYNU A'U TREFNU - - -	124
TE, COFFI, &c.: AWGRYMIADAU AR - - - - -	115
TYWYDD: Y - - - - -	31
Y FUWCH: LLAETHDY: YMENYN: CAWS- - - - -	150
YSTAENIO A PHAENTIO - - - - -	144



# LLYFR I BAWB

AR

## BOB-PETH.

### AWGRYMIADAU BUDDIOL I BAWB.

**DEWIS CYFEILLION.**—Mae cyfeillgarwch a ffurfir yn frysioq fel ffrwd y mynydd—yn beryglus tra y parhau, ac ac yn myned drosodd yn fuan. Gochelwch y dyn a hawlio eich cyfeillgarwch ar gyfrif rhyw gyfarfyddiad digwyddiadol rhyw amser yn ol, neu yr hwn a gyflwynir i'ch sylw gan berson o gymeriad amheus. Yn y trefydd mawr annoeth cyfeillachu a chymydogion nad ydych yn hysbys o'u cysylltiadau. Yn y cyffredin, nid oes gwell cyfeillion na'r rhai adnabyddus i chwi yn nyddiau eich ieuenctyd. Cyfaill peryglus yw yr hwn a adroddo eich gwendidau yn gyhoeddus, neu a oddeffo i dafod yr enllibiwr eich trywanu heb eich amddiffyn. Pan y bydd i un mewn uwch sefyllfa gynvg ei gyfeillgarwch i chwi yn sydyn, byddwch ar eich gwyliadwriaeth, ac ymddygwch yn ochelgar tuag ato. Nis gellwch ffurfio cyfeillgarwch na derbyn cysur oddiwrth bersonau islaw i chwi; a byddai iddynt ystyried eich ymddarostyngiad yn wendid. Byddwch ar delerau cyfeillgar yn unig a'ch cydradd. Na ddewiswch ereill i gyfranogi o'ch pleserau na'ch ffaftrau. Pan y bydd i'r rhai adnabyddus i chwi wedi myned trwy eu prawf, derbyniwch i restr eich cyfeillion, ond nid cyn hyny. Mae y dyn sydd yn deilwng o'ch parch a'ch ymddiried yn ymweled a chwi pan yn glaf; yn fwy cyfeillgar pan y byddo adfyd a siomedigaeth wedi eich dal; a phau y byddo athrod am eich gwasgu, safu drosoc ac amddiffyna chwi.

B

**GEIRIAU.**—Geiriau tyner a dynnant y galon—geiriau sarug ydynt danwydd i fill un digofaint, a gwnant iddi fflamio yn fwy cynddeiriog. Geiriau tyner wnant bobl ereill yn dda eu tymer—geiriau oerion a rewant bobl, a geiriau poethion a'u llogant, a geiriau chwerwon a'u gwnant yn chwerwon, a geiriau digofus a'u gwnant yn ddig. Yn ein dyddiau ni y mae y fath ruthriadau o fathau ereill o eiriau, fel yymddengys yn beth dymunol i roddi siawns i eiriau tirion yn eu plith. Y mae geiriau ofer, a geiriau segur, a geiriau brysiog, a geiriau cenfigenus, a geiriau gwirion, a geiriau gweigion, a geiriau halogedig, a geiriau cynhyrfus, a geiriau ymladdgar. Cynyrcha geiriau tirion hefyd eu delw eu hunain ar eneidiau dynion, a delw brydferth ydyw. Maent yn esmwytho, yn dystewi, ac yn cysuro y gwrandawydd. Maent yn ei gywilyddio allan ac allan o'i dymer sur, angharedig, a thrymaidd. Nid ydym eto wedi dechreu defnyddio y geiriau hyn i'r graddau a ddylem. Peidiwch a bod yn brin o honynt.

**CHWEDLEUA.**—Os ydych yn dewis maguysbryd chwedleugar, ymyrgar, a goganol, yn eich plant, byddwch yn sier pan y dychwelant o'r eglwys, capel, ymweliad, neu rhyw le arall, i'w cwestiyno yn ofalus o berthynas i pa beth a wisgai pawb, pa fodd yr ymddangosai pawb, a pha beth a ddywedodd ac a wnaeth pawb; ac os cewch gwle i feio rhywbeth yn rhywun, cofiwch wneyd hyny yn eu clywedigaeth hwy. Gellwch fod yn hollol sier, ond i chwi ddilyn y cwrs yma o adydg, na fydd iddynt byth dychwel-

yd o un man heb ddigonedd o newyddion i chwi ; ac yn hytrach nag iddynt fod yn anyddolor, bydd iddynt yn raddol ddsygu addurno ychydig arnynt, a hyny i'r fath raddau nes peri i chwi ddatgan eich syndod a'ch rhyfeddod. Bydd i chwi, trwy y cwrs yma, wneyd yspryd cywreinerwydd, ag sydd yn weledig mor gynar mewn plant, a'r hwn os cyfarwyddir ef yn iawn, a ellir ei wneyd yn oferyn i gyfoethogi ac eaugu eu meddyliau, yn gyfrwng drygioni i gulhau a llygru eu meddyliau.

**RHEOLAU YMDDYGIAD.**—Mae y rheolau canlynol, a gyfansoddwyd gan yr enwog Mrs. Fry, yn amhrisiadwy :—

i. Na fydded i chwi byth golli dim amser,—nid wyf yn edrych ar yr amser a dreulir bob dydd mewn difyrwch diniwaid neu adloniant yn amser wedi ei golli ; ond bydded i chwi ffurfio yr arferiad o fod yn gwneyd rhywbeth bob amser.

ii. Na wyrwch ddim oddiwrth y gwirionedd.

iii. Na ddywedwch ddim drwg am berson y gellwch ddweyd rhyw dda am dano ; nid yn unig siaradwch yn gariadus, ond teimlwch felly.

iv. Na fyddwch byth yn groes nac yn angharedig wrth neb.

v. Na chymerwch foethau nad ydynt yn angenrheidiol.

vi. Gwnewch bob peth gydag ystyriaeth a meddylgarwch : a phan y byddo eich llwybr fwyaf dyrlyd, teimlwch ymddiried yn y Gallu hwnw yn unig a all eich cynorthwyo, a defnyddiwch eich galluoedd eich hun mor bell ag y cyrhaeddant.

**TYMERAU MENYWAIDD.**—Nid oes yr un linell fwy prydferth a dymunol mewn cymeriad merch na tymer fwyn. Nis gall cartref fod byth yn ddedwydd hebddo. Mae fel y blodau sydd yn tyfu yn ein llwybrau, yn ein hadfywio a'n cy-suro. Bydded i dilyn fyned gartref yn yr hwyr, yn flinedig a lluddedig ar ol llafur y dydd, ac mor liniarol a llongyddol yw gair yn cael ei gymell gan dymer dda ! Haulwen yn disgyn ar y galon ydyw. Y mae yn ddedwydd, ac anghofir gofalon bywyd. Mae gan dymer dda ddylanwad lleddfol ar deulu cyfan. Lle y gwelir yn y wraig a'r fam, gellwch weled caredigrwydd a chariad yn gorch-

fygu teimladau naturiol calon ddrwg. Gwenau, geiriau tirion, a gwynebau siriol a nodweddaunt y plant, a gwna heddwch a chariad eu preswylfod yno.

**CYNGHORION I'R IEUAINGC.**—Na adewch i bethau bychain eich taflu i lawr. Os tyr y pryf copyn ei wê uzgain gwaith, ugain gwaith y bydd iddo ei hadgyweirio drachefn. Gwnewch eich meddwl i fyny i wneyd rhywbeth, a chwi a'i gwnewch. Nac ofnwch os goddiweddir chwi gan drallod ; cedwch eich yspryd, er i'r diwrnod fod yn dywyll. Os bydd yr haul yn myn'd i lawr, edrychwch i fyny ar y ser. Os bydd y ddaear yn dywyll, cadwch eich llygaid ar y nefoedd. Gydag addewidion Duw, gall dyn neu blentyn fod yn ddedwydd. Ystyriwch pa beth yr ydych yn myned ar ei ol. Na fyddwch boddlon ar gloch y dwfr yr hwn a ddiflana, a phentewyn a ddiwedda mewn mwg. Ceisiwch yr hyn a ellwch gadw, a'r hyn sydd yn werth ei gadw. Ymladdwch yn ddewr yn erbyn tymer ddrwg. Daw digter, ond gwrthwynebwch ef yn gryf. Gall ffit o ddiglonedd beri achos blinder i chwi holl ddyddiau eich bywyd, Na ddialwch gam byth. Os oes genych elyn, ymddygwch yn dirion tuag ato, a gwnewch gyfaiil o hono. Efallain a enillwch ef drosodd arunwaith, ond treiwch ef eilwaith. Bydd i'r naill garedigrwydd ddilyn y llall, nes y byddwch wedi cyraedd eich nod. Trwy ychydig ac ychydig, y cwblheir pethau mawr ; a bydd i garedigrwydd ar garedigrwydd doddi calon o gareg. Pa beth bynag a wnewch, gwnewch yn ewyllysgar. Nid yw y bachgen a fflangellir i'r ysgol byth yn dysgu ei wersi yn dda. Nid yw y dyn a orfodir i weithio byth yn gofalu pa mor ddrwg y bydd iddo ei gyflawni. Yr hwn a dyno ei gôt yn llawen, ac a dorcha ei lewys o ddirif, ac a gana tra yn gweithio, yw y dyn a wna rywbeth o honi.

**CYNGHORION I FERCHED IEUAINGC.**—i. Os oes genych lygaid gleision nid oes eisiau i chwi fod yn drymaidd.

ii. Os oes genych lygaid duon nid oes angen i chwi rythu eich llygaid.

iii. Os oes genych draed bychain nid oes achos i chwi wisgo dillad cwta.

iv. Os oes amheuaeth yn eich meddwl o berthynas i hyny, nid oes niwiad wrth adael y dillad yn llaesion.

v. Os oes genych ddannedd da, na fydded i chwi chwerthin er mwyn eu dangos.

vi. Os oes genych rai drwg, na chwerthwch lai na bo'r achos yn gofyn.

vii. Os oes genych ddwyllaw a breichiau prydfferth, nis gall fod gwrthwynebiad i chwi chwareu ar y delyn os byddwch yn gallu chwareu yn dda.

viii. Os ydynt yn tueddu at fod yn drwsgl, gweithiwech rhyw wniadwaith.

ix. Os yw eich llais yn ddrwg, siaradwch yn isel.

x. Os oes genych y llais goreu yn y byd, na siaradwch mewn tŷn uchel.

xi. Os gallwch ddawnsio yn dda, na ddawnsiwch yn aml.

xii. Os na allwch ddawnsio yn dda, na ddawnsiwch o gwbl.

xiii. Os gallwch ganu yn dda, na wnech esgusodion.

xiv. Os yw eich canu yn ganolig, na phetruswch am foment pan y gofynir i chwi, oblegid ychydig o bobl sydd yn gallu barnu canu, ond y mae pawb yn deimladwy o ddymuniaid i foddhau.

xv. Os ydych am ddiogelu prydfferthwch, codwch yn foreu.

xvi. Os ydych am ddiogelu parch, byddwch yn dyner.

xvii. Os ydych am enill gallu, byddwch yn ostyngedig.

xviii. Os ydych am fyw yn ddedwydd, ceisiwch wneyd ereill yn ddedwydd.

**GALLU GWRAIG.**—Mae gallu gwraig er da neu ddrwg yn anwrthwynebol. Rhaid i gartref fod yn eisteddle dedwyddwch, neu rhaid iddo byth fod yn anadnabyddus. Y mae gwraig dda i ddyn yn ddoethineb, gwroldeb, nerth, a dyfalbarhad. Mae gwraig ddrwg yn ddyryswech, gwendid, ac anobaith. Nid oes yr un sefyllfa yn anobeithiol os bydd y wraig yn meddu penderfyniad, diysgogrwydd, a chynildeb. Nid oes unrhyw lwyddiant allanol a all wrthweithio diogi, gwastraff, a sfolineb gartref. Nis gall yspryd yr un dyn ddioddef yn hir ddylanwad drwg y wraig gartref. Mae dyn yn gryf, ond nid adamant yw ei galon. Ymhyfryda mewn gweithgarwch ac anturiaeth; ond i'w gynal y mae arno angen meddwl tawel a chalon gyfan. Mae arno angen ei allu moesol yn ei frwydrau â'r byd. I adenill ei gyd-

bwysedd a'i dawelwch, rhaid i'w gartref fod yn fan o orphwysdra, o heddwech, o lawenydd, a chysur; ac y mae ei yspryd yn adnewyddu ei nerth eilwaith, ac â allan gydag egni adnewyddol i gyfarfod â llafur a blinderau bywyd. Ond os na cha orphwysfa gartref, ac os cyfarfydda yno â thymor ddrwg, sarugrwydd, neu brudd-der, cwynfan neu anfodlonrwydd, diflana gobaith, a sudda i anobaith.

## MASNACHWYR.

**ARFERION MASNACHWR.**—Parch cysegredig i egwyddorion cyfiawnder sydd yn ifurfio sylfaen holl ymdraffod-aethau, ac yn rheoleiddio ymddygiadau y masnachwr gonest.

Mae yn cadw ei holl ymrwymiaidau yn fanwl.

Ni wna ddim yn ddiotal nac ar frys.

Ni chysloga neb i wneyd yr hyn a allo wneyd ei hun.

Cadwa bob peth yn ei le priodol.

Ni adawa ddim heb ei wneyd ag y byddo angen ei wneyd, ac amgylchiadau yn ffafriol i'w gyflawniad.

Ceidw ei ddibenion a'i fasnach o olwg ereill.

Mae yn brydlon a phenderfynol gyda'i gwsmeriaid, ac ni orfasnacha ei gyfalaf (*capital*).

Gwell ganddo goel byr nag un hir; ac arian na choel bob amser, wrth brynu a gwerthu; ac elw bychan mewn achosion o goel gydag ychydig o berygl, na mwy o elw gyda mwy o berygl.

Mae yn glir ac eglur yn ei holl far-geinion.

Ni adawa ddim pwysig i'w gof ag y gall ac y dylai ei gofnodi mewn ysgrifen.

Ceidw gopiau o'r holl llythrau pwysig a anfona ymaith, ac y mae ganddo bob llythyr, *invoice*, &c., perthynol i'w fasnach, wedi eu dosranu, a'u cadw yn eu lleoedd priodol.

Nid yw ei ddesek byth wedi ei gorchuddio â llawer o bapurau.

Mae bob amser wrth ben ei fasnach, gan wybod yn dda os bydd iddo adael ei fasnach, y bydd i'w fasnach ei adael yntau.

Creda nad yw yr hwn yr amheuir ei greddyd yn un i ymddiried ynddo.

Mae yn feunyddiol yn archwilio ei

lyfrau, ac yn gweled trwy ei holl ym-drafodaethau mor bell ag y galluogir ef gan ofal a sylw.

Gwastadha ei gyfrifon ar adegau penodol, ac anfona ei filiau i'w gwsmeriaid yn mhob man.

Gochela hyd y mae ynddo roddi biliau yn lle arian i neb, ac ymgeidw oddiwrth y gyfraith os bydd unrhyw berygl neu amheuaeth yn yr achos.

Mae yn gynil yn ei dreulion, gan fyw bob amser o fewn ei enillion.

Ceidw lyfr yn ei logell, yn yr hwn y noda bob manylion o barth ei ymrwym-iadau, ac unrhyw arian a dderbynia yn achlysurol.

Mae yn ofalus pa fodd yr â yn feichiau i neb am arian; ac yn haelfrydig pan yn cael ei gymhell gan ddybenion dyngarol.

Bydded i ddyn fabysiadu yr arferion hyn—gan gofio bob amser na cha elw oddiwrth ei ymdrafodaethau os na fydd rhagluniaeth yn ei lwyddo—a bydd i lwyddiant ddilyn ei ymdrechion.

**CYMERYD SIOP NEU LE O FUS-NES.**—Os ydych yn nghylch cymeryd siop, byddai yn dda i chwí ystyried y sylwadau canlynol:—

**CYFAFALYDDION BYCHAIN** (*small capitalists*).—Gadewch i ni gymeryd achos person heb wybodaeth drwyddai a manwl am unrhyw fasnach neillduol, ond yn meddu ychydig bach o arian, ac yn bwriadu ymgymeryd â masnach i droi nwyddau yn arian, mewn trefn i enill bywioliaeth onest trwy hyny. Mae yn amlwg, os na bydd i'r fath berson gy-chwyn gyda gofal priodol a barn gywir, y bydd i'w ychydig arian gael eu gwario heb dderbyniadau cyfatebol; bydd ar-dreth a threthi yn crynhoi, bydd i'r eiddo sefyll yn farw neu leihau yn eu gwerth, a cholled a dinystr a ddilyna. Oblegid y mae y sugniad lleiaf ar *capital* bychan yn fuan iawn yn sychu i fynu y flynon; ac nid rhaid i ni geisio darlunio y drafferth sy'n sicr o godi pan y byddo *main-spring* llwyddiant y masnachwr wedi cefnu arno.

**CYFAFALYDDION MWY** (*larger capitalists*).—Prin y gellir ystyried achos un â mwy o arian ganddo yn eithriad i'r un rheol. Oblegid mae yn debygol y byddai i'r un a mwy o arian ganddo, wrth ddechreu ei fasnach, suddo rwyw o'i

arian mewn mwy o nwyddau—bod yn agored i ardreth drymach; a byddai y trethi, cyflogau gweision a morwynion, yn fwy yn ol yr un cyfartaledd, ac felly, os na byddai y fasnach yn dwyn elw i mewn yn fuan, byddai iddo, yn fuan neu yn ddiweddar, gael ei ddilyn gan y' un canlyniadau.

**CYMYDOGAETHAU.**—Felly dylai rhai ag ychydig neu lawer o arian ganddynt, wrth ymgymeryd â masnach, ystyried yn bwyllus natur y gymydogoeth y bwriadont gario y fasnach yn mlaen ynddi, nifer y boblogoeth, arferion ac anghenion y bobl, a'r graddau y maent y pryd hyn yn cael eu cyflenwi â'r pethau y bwriada yr anturiaethwr eu cynyg iddynt.

**CYMYDOGAETHAU NEWYDDION.**—Mae yna duedd yn y rhai ag ychydig o arian ganddynt i ruthro y gymydogoethau newyddion gyda'r disgwyliad o flurfio cydnabyddiaeth fasnachol yn rhwydd yno. Mae rhenti isel hefyd yn meddu atyniad i'r lleoedd hyn. Ond yr ydym wedi cael allan, trwy sylw a phrofiad, mai anaml y llwydda y siopau cyntaf a gyfodir mewn cymydogoethau newyddion. Dechreuir masnach yn y lleoedd hyn yn aml mor fuan ag y gellir—yn aml cyn i'r tŷ gael ei orphen agoir y siop—tra y mae yr ystrydoedd heb eu palniantu, a'r ffyrdd yn anwastad a garw. Y canlyniad o hyn yw, y bydd i'r ychydig breswylwyr, gan y rhai y bydd cydnabyddiaeth â'r dref agosaf, a chyfleusdra i gael eiddo oddiyno, fyned yno i brynu eu prif angenrheidiau; a dibyna y siopwr newydd yn gyfangwbl bron ar anghof achlysurol ei gymydogion, y rhai a anghofiant weithiau brynu rhai pethau yn y siopau mwy a rhatach yn y dref; neu ar gyfnewidiadau y tywydd, yr hwn a all weithiau wneyd y daith i'r dref yn anymunol.

**METHIADAU.**—“Tra byddo y gwellt yn tyfu newyna y ceffyl;” ac felly, tra y byddo y lle newydd yn cael ei boblogi y mae arian y siopwr yn cael eu graddol fwyta i fyny, a gorfodir ef yn aml i gau ei siop yn yr adeg y byddo un arall cyfrwysach nag ef yn barod i ddyfod i mewn i elwa ar y cysylltiad a flurfwyd yn barod, ac i gymeryd mantais ar well sefyllfa y gymydogoeth. Felly, ymddengys fod yn well i'r dyn ag ychydig

arian ganddo fentro talu ychydig mwy o ardreth, mewn ardal boblogaidd, na myned i le newydd ansicr; oblegid y mae llwyddiant siopwr bach yn dibyn y hollol ar y cyflymder y gall droi ei eiddo yn arian. Dyna ddirgelwch ei lwyddiant.

**RHAGOCHELIADAU.**—Ond os bydd un ag ychydig arian ganddo yn parhau i ddymunio agor siop mewn cymydogoeth newydd, lle y mae cydymgais yn llai llym, a rhent a threthi yn llai gorthymus, y mae rhai rhagocheliadau y byddai yn lles iddo sylwi arnynt. Dylai fod yn dra gofalus i beidio agor siop i werthu pethau ellir eu gair yn nwyddau afraid; oblegid rhai, fel ef ei hunan, wedi dyfod i'r gymydogoeth newydd er gallu byw yn rhatach a chynilach ei gymydogion. Neu, os fel arall y digwydd, os bydd y gymydogoeth yn cael ei phreswyllo gan bobl arianog, wedi ymneillduo i'r wlad er mwyn iechyd, gallant hwy farchogaeth i'r dref, a gwell ganddynt brynu nwyddau prydlferth a moethau bywyd yn y siopau mawr, lle bydd mwyaf o ddewis.

**ANGENRHEIDIAU NEU FOETHAU.**—Felly, dylai y siopwr yn y gymydogoeth newydd, gyfyngu ei fasnach i werthu *angenrheidiau* bywyd. Nid dymunol gan bobl newynog ydyw gorfod myned bum' milltir o ffordd i brynu bara; a byddai cario llysiau o bellter mawr yn dra anghyfleus. Y pobydd, y cigydd, a'r green-grocer, &c., yw y rhai a sefydlant fasnach lwyddianus gyntaf mewn cymydogoethau newyddion. Ac ni ddylai masnachwyr mewn pethau eraill fentro i'r lle hyd nes y byddo y masnachwyr a nodwyd wedi eu sefydlu.

**MOESGARWCH.**—Mewn cymydogoeth boblog lle y byddo cydymgais yn gryf, mae y siopwr bach yn aml yn concro ei wrthymgeisydd mwy galluog trwy un elfen o lwyddiant, yr hon a ellir ei hychwanegu at unrhyw *stock* heb ddim côst, ond nis gellir ei hebgor heb gollod. Yr elfen hono yw *moesgarwch*. Yr ydym wedi sôn am dani mewn lle arall, ond rhaid ei dirgymell yma, fel peth aydd yn cynorthwyo moddion bychan y siopwr ieuange i raddau hynod. Mae rhyw swyn hynod yn dilyn ymddygiadau caredig a chymwynasol.

**CYWIRDEB.**—Dylai fod holl ymddiried y masnachwr ar gywirdeb ei ymdrafodaethau a moesgarwch ei ymddygiadau. Dylai gario ei fasnach yn mlaen yn y fath fodd fel y byddo yn llesiol i gwsmeriaid, ac yn ddymunol ganddynt ddyfod i'w siop. Os gwna hyn, ffurfia y cysylltiadau goreu, a thra y bydd iddo gario ei fasnach yn mlaen yn ol y cynllun yma, ni chefnant arno byth.

**DYLEDSWYDDAU SIOPWR.**—Dylai lafurio yn llawen ac arfer ei holl wybodaeth at wasanaethu y rhai a ddeuant i'w siop, ac a roddent ymddiried ynddo; gwneyd ei hun yn gyffelyb i dlawd a chyfoethog, ond peidio byth ag arfer twyll a rhagrith er enill cefnogaeth a chanmoliaeth. Dylai fod yn gynil yn ei dreulion, fel na byddo iddo, wrth dynu elw oddiwrth ei fasnach, drespasu yn ormodol ar hawliau ereill; dylai ddal y glorian yn y fath fodd rhwng dyn a dyn fel na byddo iddo deimlo euogrwydd cydwybod pan y delo y dydd iddo i orphwys oddiwrth ei lafur a byw ar ffrwyth ei ddiwydrwydd. Bydded i'r cyhoedd gael gafael yn y fath ddyn, ac yngasglant o'i gwmpas er eu mwyn eu hunain.

## MOESAU AC YMDDYGIADAU.

**AWGRYMIADAU AR FOESGARWCH.**—CYFLWYNIAD I GYMDEITHAS. —Gochelwch bob rhysedd ac ymddangosiad *gor-foesgar*, ac na fyddwch yn rhy ofnus ar y dechreu. Byddwch yn wyl-iadwrus ac yn brin o'ch geiriau. Gwir fod trwstaneiddiwch a lled chwithdod yn anfodion, ond nid ydynt yn anfadd-euol. Y mae angen am ryw beth heblaw absenoldeb plaender trwstan er troi mewn cymdeithas dda. Cadwch at eich ymrwymiadau gyda manylwch. Prydlondeb yw hanfod moesau da.

**Y GWISGIAD.**—Y mae yn ofynol talu peth sylw i'r gwisgiad. Y mae dyn yn aml yn cael ei farnu oddiwrth ei ymddangosiad allanol, ac yn aml gyda chywirdeb hefyd. Y mae ymddangosiad allanol gweddus, yn rhydd oddiwrth ormodedd a rhysedd ar un llaw, a thlodi ac atherwch ar y llaw arall, yn hawlio parch bob amser.

**GWISGIAD WRTH DALU YMWELIADAU.**—Y mae côt a throwers dŷ yn anheborol wrth dalu ymweliad â pherson o urddas. Y mae gwasgod wên hefyd yr un mor briodol.

**GWISGOEDD BONEDDIGESAU.**—Dylai boneddigesau wisgo y pethau hyny a gynrychont gydgoriad boddhaus. Na wisgwch byth fonet dywyll gyda gwisg oleu. Gochelwch gymysgu lliwiau a gynrychant argraff anymunol ar yr edrychydd; megis gwisg *straw-colour* a bonet wyrdd.

**TREFNIAD Y GWALLT.**—Y mae trefniad y gwallt o'r pwys mwyaf. Mae *bands* yn gweddu gyda gwynebau llawn. *Rings* a weddant oreu i wynebau bychain, llawen, a bywiog.

**GORMOD O FLODEU A LACE.**—Beth bynag fyddo dull eich gwynebpryd, gochelwch ormod o *lace*, a bydded i'r blodeu fod yn anaml a detholedig.

**PRIDOLDEB ADDURNIADAU.**—Y mae dull mwy gwych o wisgiad yn cael ei ganiatau i wraig briod. Iddi hi gwycheder—ond i fereh ieuang, arddull syml heb ormod o addurniadau.

**SYMLRWYDD AC URDDASOLRWYDD.**—Y mae y wisg fwyaf prydfertth yn colli ei chymeriad os na wisgir hi gydag urddas. Y mae merched ieuang weithiau yn ymddangos yn *stiff*, a gorwedda eu gwisgoedd yn anaturiol arnynt. Ni ddylai yr un foneddiges dreulio agos yr oll o'i hamser ar addurno ei gwisg. Symlwrwydd mewn gwisgiad sydd fwyaf gweddus ac yn enill mwyaf o barch bob amser.

**GLANWEITHDRA.**—Dylai y dwylaw dderbyn sylw neillduol. Hwylw hwydynt yr arwyddion gweledig o lanweithdra cyffredinol. Gellir dweyd yr un peth am y gwyneb, y gwddf, y clustiau, a'r dannedd. Ymddrinir ar y cysylltiad a fodola cydrhwng glanweithdra, a gwisgoedd, ag IECHYD, o dan y pen hwnw.

**YR HANCHERCHIEF.**—Y mae cryn fedrusrwydd yn angenrheidiol i ddefnyddio y cydymaith defnyddiol hwn gyda phrydfertthwch a chysur. Gochelwch batrymau mawr a lliwiau disglaer. Na fyddwch byth heb yr un cadach poced. Daliwch yn rhydd yn eich llaw, ac na roliwch i fyny yn lwmp. Daliwch wrth

y canol, a gadewch i'r ymylon ymledu allan. Gochelwch ei ddefnyddio yn rhy aml. Gyda rhai personau y mae yr arferiad yn dyfod yn boenus ac anymunol.

**AWGRYMIADAU AR FOESAU PERSONOL.**—Dadleuir weithiau yn erbyn llyfrau ar foesarwch am eu bod yn gwneyd y rhai a ymgynghorant â hwy i weithredu yn anaturiol a chelfyddydol, ac i ddangos mewn cymdeithas eu bod yn cael eu llywodraethu gan reolau caeth, yn hytrach na chan wybodaeth reddfol o'r hyn sydd brydfreth a boneddigaidd.

**Y MAE YR WRTHDDADL YMA YN DDIRYM,** oblegid y mae yn tybio nad yw y rhai a astudient reolau moesarwch, hefyd yn defnyddio eu galluoedd i sylwi mewn cymdeithas, a thwy eu cyfeillach ag ereill, i feddu y rhwyddineb a'r naturioldeb ag a geir yn unig trwy droi mewn cymdeithas barchus.

**MAE LLYFRAU AR FOESAU YN DDEFNYDDIOL,** trwy eu bod yn esbonio rheolau cymdeithas barchus. Ond arferiad yn unig a all ddysgu dyn y modd cywir y mae dilyn y rheolau hyny.

**PA WRTHDDADLEUON BYNAG ELLIR GODI** yn erbyn dysgeidiaeth llyfrau ar foneddigeiddrwydd a moes, nis gall fod yr un rheswm safadwy yn erbyn nifer o awgrymiadau syml a byr, i wasanaethu fel rhagocheliadau rhag cyflawni camgymeriadau mewn ymddygiadau personol.

**GOCHELWCH YMYRYD A MATERION** pobl ereill. Y mae hwn yn fai cyffredin. Anaml y bydd nifer o bobl yn cyfarfod nag y dechreuont drin achos rhywun absenol. Y mae hyny nid yn unig yn angharedig, ond yn anghyfiawn iawn. Y mae yr un peth a phe profid achos unrhyw berson yn absenoldeb yr un a gyhuddir. Hyd yn nod yn ngolwg cyfraith y tir y mae y carcharor yn ddi-niwed hyd nes y profir ef yn euog. Y mae cymdeithas, pa fodd bynag, yn llai cyfiawn, trwy ei bod yn cyhoeddi dedfryd heb glywed yr amddiffyniad. *Gellwch fod yn sicr o un peth, y bydd i'r bobl a unant â chwi i drin achosion pobl creill, fod yr un mor barod i'ch difrio chwithau yn eich absenoldeb.*

**BYDDWCH YN GYSON** yn natganiad eich egwyddorion. Na wadwch heddyw yr

hyn a gyhoeddasoch ddoe. Os gwnewch, bydd i chwi ddiraddio eich cymeriad, ac ystyrir eich barn yn fuan yn hollol ddi-bwys a diwerth. Gellwch feddwl yr enillwch ffafwr trwy eich cyfnewidioldeb a'ch gwaseiddiwrch; ond yn lle hyny, yr ydych yn sicr o golli parch ac ymddiried pawb yn y pen draw.

**GOHELWCH GELWYDD.** Y mae cariad at y gwirionedd y rhinwedd mwyaf gwerthfawr. Y mae y dyn a dwyllo ereill trwy ei gelwydd, yn sicr o golli ymddiried pawb, a'i hunan-ymddiried yn y fargen. Yn gwybod twyll ei galon ei hun, a chelwydd ei galon ei hun, rhaid y bydd ei lygaid yn wastadol yn llawn amheuaeth, a rhaid iddo golli elfen gref hynod mewn dedwyddwch—ymddiried yn y rhai fyddo o'i amgylch.

**Y MAE YR ELFENAU CANLYNOL Mewn cymeriad yn werth meddwl am danynt yn aml:—**

- i. Bod yn ddoeth yn ei ddadleuon.
- ii. Yn oen yn ei gartref.
- iii. Yn wrol mewn brwydr ac yn fawr mewn gwroldeb moesol.
- iv. Yn wylidwrus yn y cyhoedd.
- v. Yn fardd yn ei gadair.
- vi. Yn athraw yn ei deulu.
- vii. Yn gyngor yn ei genedl.
- viii. Yn gyflafaddeddwr yn ei gymydog-ogaeth.
- ix. Yn feudwy yn ei eglwys.
- x. Yn ddeddfroddwr yn ei wlad.
- xi. Yn gydwybodol yn ei weithred-odd.
- xii. Yn ddedwydd yn ei fywyd.
- xiii. Yn ddedwydd yn ei alwedigaeth.
- xiv. Yn gyfiawn yn ei fasnach.
- xv. A meddu gegoniant Duw yn y golwg yn yr oll a wna.

**GOHELWCH ARDDANGOSIADAU O DDRWG-DYMHYR.**—Y mae dyn wedi cael rheswm i'w reoleiddio. Mae tymer ddrwg yn ystym ag sydd yn dadymchwelyd rheswm. O dan effeithiau tymer ddrwg, y mae meddwl yn ddyrlysd, y wyneb yn anffurfiol, a'r corff yn afluniaiidd. Mae moment o dymar ddrwg yn aml wedi tori cyfeillgarwch oes, dinystrio gobaith oes, chweri cysur oes, a dwyn trallod a gwarth diddiwedd. Y mae tymer ddrwg yn warth ac yn niweidiol iawn mewn amrywiol ffyrdd, ac yn cael ei gondemniog gan bob dyn call.

**GOHELWCH FALCHDER.**—Os ydych yn brydferth, Duw a'ch gwaelu felly; os ydych yn ddysgedig, bu rhywun yn eich dysgu; os ydych yn gyfoethog, Duw a roddodd i chwi yr hyn sydd genych. Ereill sydd i ddarganfod eich rhagoriaethau; ond dyddod fydd iddynt eich hunan. Nis gall fod llawer o gysur yn eich gwaith yn ystyried eich hun yn well nag ydych; y mae hyny yn hunandwyllid. Y dynion goraf a mwyaf yn mhob oes ydynt y rhai mwyaf gostyngedig hefyd.

**MURSENDOD SYDD FFURFO FALCHDER.** Mewn gair, balchder wedi ei wneyd yn wrthun a dirmygedig, ydyw. Y mae rhywun, wrth ysgrifenu ar fursendod (*affectation*) wedi gwneyd y sylwadau canlynol:—

“Os oes rhywbeth a wna ddyd yn glaf, y mae dull mursenaidd a rhodresgar rhai pobl yn ceisio siarad yn sicr o'i wneyd. Y mae yn berffaith syrffetlyd. Pe byddai y cywion mwnciod hyn ag sydd yn gwasgu eu geneuau i'r fath ifurfiaw aflunaid, yn gallu teimlo mor berffaith ffaidd ydynt, gallai eu cynorthwyo i ddodi y dull heibio. Gyda llawer, y mae yn fuan yn dyfod y fath arferiad sefydledig fel nas gellir eu dysgu i siarad yn eglur, diffoesgni, a dlynol. Mewn *boarding-schools* o'r trydydd gradd, ac yn wir, yn mhob man braidd, fe geir yr hen dôn ddioglyd a mursenaidd. Bobl dda, a chwi, siaradwch yn eich tôn naturiol, os ydych yn dymuno peidio bod yn destynau gwawd a dirmyg.”

**YR YDYM WEDI MABWYSIADU Y SYLWADAU BLAENOROL** am ein bod yn cymeradwyo rhai o'r syniadau, ond yn benaf am eu bod yn dangos y gall personau yn casu mursendod fyned i'r eithafion arall—anfoesgarwch. Y mae yn anfoneddigaidd, yr ydym yn meddwl, i alw hyd yn nod y rhai mwyaf mursenaidd yn “gywion mwnciod,” &c. Gochelwch anfoneddigeiddrwydd mewn dull, siarad, a gohebiaeth. Wrth ymddwyn yn anfoneddigaidd yr ydych yn taslu sarhad ar y rhai fyddont o'ch amgylch; yn dwyn arnoch gondemniad pobl o chwaeth bur; ac yn sicr o gael eich troi o gymdeithas dda.

**GOHELWCH DYNGU.**—Nid yw rheg ond cyndaredd yspryd cyffroedig. Y

mae yn *isel*. Gwell gan ddyn o egwyddor ymddwyn tuag at sarhad gyda dirmyg distaw na dangos eiddiglonedd trwy rég. y mae yn *anfoneddigaid*: yn rhy isel i'w arferyd gan ddyn parchus. Y mae yn *an-wrol*: yn tytio ofn na cha ei gredu ac nad ufuddheid iddo heb hyny. Y mae yn *amweddus*: yn drosedd yn erbyn moesgarwch, ac yn anghymwys iawn i glustiau dynol. Y mae yn *fol*: "Diffyg moes sydd ddiffyg synwyr." Y mae yn *ddifriol*: i'r meddwl a ddirnad y rheg, i'r tafod a'i llefara, ac i'r person at yr hwn y mae yn gyfeiriedig. Y mae yn *wemeynig*: yn dangos calon y dyn yn nyth seirff; a phob tro y tynga, y mae un o honynt yn dyfod allan trwy ei ben. Y mae yn *ddirmygiedig*: yn ffforfetio parch y doeth a'r da. Y mae yn *bechadurus*: yn troseddu y gyfraith Ddwyfol, ac yn cyffroi digofaint ac anfodlonrwydd yr Hwn na chyfrif yn ddieuog yr hwn a gymero ei enw yn ofer.

**BYDDWCH YN FONEDDWR.**—Cymedroldeb, gwêldusrwydd, a threfnusrwydd ydynt nodweddau y boneddwr; y mae bob amser yn fwyn, serchog, ac awyddus i foddhau. Yn ddeallus a moesgar, y mae ei ymddygiad yn ddymunol a phrydferth. Pan yr â i fwthyn y tlawd, gwna ei oreu i guddio, os yn bosibl, y gwahaniaeth cydrhwng eu safleoedd mewn cymdeithas; bob amser yn barod i gynorthwyo y rhai fyddont o'i gwmpas, heb fod yn angharedig, ffrom, ac uchel. Yn mhalasau yr uchel, y mae ei feddwl diwylliedig yn ei gymell i blygu i foesgarwch, ond nid i ymostwng i weniaeth; y mae ei egwyddorion yn ei gadw rhag y chwareufwrdd, anghymedroldeb, a'r pechodau a'r fflo bethau a allant ei ddwyn i brofedigaeth. Byddwch yn foneddwr yn unig mewn ymddangosiad, a bydd i'w gysgod ddwyn dirmyg arnoch; byddwch yn foneddwr, a bydd i'w urddas byth aros ar eich pen.

**BYDDWCH ONEST.**—Nid am mai "gonestrwydd yw y cyfrwysdra goreu," ond am ei fod yn ddyledswydd tuag at Dduw a dyn. Y mae y galon a foddheir gan enillion anonest; yr uchelgeisedd a ellir ddigoni trwy foddion anonest; y meddwl y gellir ei gysegru i ddybenion anonest, yn ddrwg yn wir—o'r urdd waethaf.

**WEDI GOSOD I LAWYR YR EGWYDDOR-**

**ION CYFFREDINOL HYN** er rheoleiddiad yr ymddygiadau personol, bydd i ni grynhof i fyfyr eiriau y pethau ychwanegol y dymunem eu gwasgu at feddwl y darllenydd:—

**GOHELWCH SEGURDOD**—tad llawer o ddrygau ydyw. A ellwch chwi weddio, "Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol," heb glywed yr ateb, "Gwna dithau heddyw dy ddyledswydd feunyddiol?"

**GOHELWCH ADRODD CHWEDLAU YN-FYD**, y rhai sydd yn debyg i saethu ergydion yn y tywyllwch: ni wyddoch i ba galon y gallant suddo.

**GOHELWCH SIARAD AM DANOC HUN**, cannoleich gweithredoedd eich hun, a chyhoeddi eich rhinweddau eich hun. Os ydynt yn dda bydd iddynt gyhoeddi eu hunain; os ydynt yn ddrwg, goreu po leiaf a ddywedwch am danynt.

**GOHELWCH GENFIGEN**; oblegid nis gall eich llesoli chwi eich hun, ac nis gall ychwaith ddrygu y rhai y mynwesir ef yn eu herbyn.

**GOHELWCH GYNDYN DDADLEU** yn unig er mwyn dadleu. Y mae y dyn a gyndyn ddadleu, mewn yspryd amhriodol, fel y dyn a gaua i fyny y ffynon o'r hon yr yfa. Y mae dadleu yn deg a difrifol yn ganmoladwy; ond nid yw dadleu dallbleidiol erioed wedi cynyrchu dim daioni.

**BYDDWCH GAREDIG MEWN PETHAU BYCHAIN.**—Y mae gwir garedigrwydd calon yn aml yn amlycach mewn pethau bach na phethau mawr.

**BYDDWCH FOESGAR.** Moesgarwch yw barddoniaeth ymddygiad—ac fel barddoniaeth y mae iddo ragoriaethau amlwg. Na fydded eich moesgarwch yn rhy flodeuog, ond yn cyfranogi o'r mwynder prydferth hwnn ag sydd yn arwyddo natur ddiwylliedig a phur.

**BYDDWCH GYMDEITHASGAR**—gohelwch yswilder gormodol mewn cymdeithas. Cofiwch fod yr elfenau cymdeithasol, fel yr awyr a anadlwn, yn cael eu puro trwy ysgogiad. Y mae meddwl yn addurno meddwl, a gwên yn euill gwên.

**BYDDWCH BRYDLON.**—Y mae munud yn rhy ddiweddar wedi colli llawer cyfleusdra rhagorol. Heblaw hyny, y mae amhrydlondeb yn anfri ar y person i'r hwn y mae eich presenoldeb yn ddyledus.

**Y MAE Y SYLWADAU BLAENOROL YD**



fwyaf neillduol yn gyfeiriedig at egwyddorion moesau da, yn hytrach nag at fanfyllion ymddygiadau personol. Mae egwyddorion mawr, pa fodd bynag, yn 'tybio rhai llai; ac oddiwrthynt, gall y zall gael awgrymiadau gwerthfawr ar ymddygiad personol.

BYDDWCH GALONOG yn eich cyfarchiadau, gofalus a chywir yn eich cyfeillachau.

BYLDWCH BAROTACH I WRANDO nag i siarad.

YMDDYGWCH HYD YN NOD YN MHRESENOLDEB EICH PERTHYNASAU, fel un yn yn teimlo fod parch yn ddyledus iddynt.

MEWN CYMDEITHAS, na fydded i chwi byth anghofio nad ydych ond un o lawer.

PAN YN YMWELED A CHYFAILL, cydfurfiwch a rheolau ei dŷ; na phwyswch ar ei fyrdau, na rhwbio eich traed yn erbyn ei gadeiriau.

NA DDARLLENWCH LYTHYRAU heb fod yn perthyn i chwi.

TALWCH SYLW NEILLDUOL i foneddigesaau yn mhob man.

GOCHELWCH GOEGWYCHDER, a mur-senedd ynyd.

MEWN LLEOEDD CYHOEDDUS na fyddwch yn rhy fanwl i sefyll am eich iawnnderau, ond cymerwch bleser mewn gwneuthur goddefiadau.

SIARADWCH YN EGLUR, cdrychwch ar y person y byddwch yn siarad ag ef, ac ar ol i chwi siarad, rhoddwch iddo gyfleusdra i roddi atebiad.

GOCHELWCH FEDDWDOD fel mellidith; a chymedrolwch eich holl chwantau a'ch blysiâu.

GWISGWCH YN DDA, ond nid yn goeg-aidd; na fyddwch yn annhaclus, nac fel delw wedi ei hystwffio.

RHODDWCH HEIBIO BOB YMDDANGOSIADAU AFLANAIDD oddiwrth eich person. Bydded yr ewinedd, y danedd, mewn gair, yr holl gorff yn lân. Bydded i'r holl bethau hyn gael eich sylw yn eich gwely-ystafell—nid yn un man arall.

NA DDANGOSWCH ORMOD O EMAU A THLYSAU.—Nid oes dim yn edrych yn fwy merchedaidd ar ddyn.

Y MAE POB UN O'R AWGRYMIADAU HYN i'w hystyried fel canolbwynt amryw ereill, ac amhosibl i'r meddwl difrifol lai na'u darganfod.

## DARLLEN AO YSGRIFENU.

YR ORGRAFF GYMREIG.—Y mae yr Orgraff Gymraeg yn y fath sefyllfa gymysgld, fel y mae yn anhawdd gwybod pa lwybr sydd oreu i'w ddilyr. Dybla rhai y cydseiniaid fel hyn,—accen, ateb, amlyceach, cynnwys, cymmysg, amherffaith, ym mhob, yng nghyd; ac y mae rhai yn myned cybelled a'u dyblu yn y geiriau bann, byrr, honn, llymm, penn, &c. Eraill a ysgrifenant y geiriau uchod âg un gydsain, fel hyn,—acen, ateb, amlyceach, cymhwys, cymmysg, amherffaith, yn nghyd, yn mhob, ban, byr, hon, llym, pen, &c. Ysgrifena eraill fel hyn,—a'mherffaith, y'nglyd, y'mhob, yng nghyd, &c. Cytuna y tri dosparth i ddyblu y cydseiniaid yn cynnal, ammaeth, pennill, etto, &c. Rhoddir dwy gydsain gan y rhan amlaf o awdwyr yn y geiriau hyn,—annoeth, annhrefn, &c., ac yn pennod; ac ysgrifenant amherffaith, amharch, &c., ac *ny* yn unig yn anghyson, anghywir. Mae rhai ysgrifenywr yn dyblu y cydseiniaid yn y geiriau *cannu*, *torri*, &c., er dangos yr acen, ac er mwyn gwneuthur y geiriau yn fwy grymus; eraill a osodant yr acen ar y llefariaid, fel hyn—*cannu*, *tori*, ac arferant yr acen hefyd er gwahaniaethu geiriau a sillebir â'r un llythyrenau, ond ydynt yn wahanol yn eu hystyr, megys *môr* (the sea); *môr* (how, so); *tôn* (note, or tune); *tôn* (wave), &c. Arfera rhai yr arddawd yn yn mhob man; megys yn mhob, yn nghyd, &c. Ysgrifenis y gair *ameu* yn *amheu* gan rai, er cadw ei wreiddyn; a'r gair *ameg* â dwy *m*, am yr un rheswm. Ceidw rhai ddwy *n* yn y gair *meddiannu* am ei fod yn deilliaw o *meddiant*, a bod y *t* yn troi yn *n*, meddant; ond anaml iawn y rhoddant ddwy *n* yn *distanu*, er ei fod yn tarddu o *diflant*; am hyny, tybir mai gwell fyddai rhoddi ond un *n* yn y ddau air hyn a'u cyffelyb. Arfera rhai ddwy *m* yn *cymod*, dwy *n* yn *cynal*, a dwy *t* yn *cyttundeb*, am fod cymod yn tarddu o *cyd* a *bod*, cynal o *cyd* a *dal*, a cytundeb o *cyd* ac *undeb*; ond gan mai yr un peth (y mae rhai llenorion o farn wahanol) yw *cy*, *cyd*, *cyf*, *cym*, a *cyt*, pahan na wnai y tro ysgrifenu y geiriau

achod âg un gydsain? Un gydsain a arferir agos bob amser yn cymath, cyni, cysain, cysur, y rhai ydynt o'r un cyfansoddiad yn union a'r geiriau cymod, cynal, &c. Mewn geiriau y byddo perygl camgymeryd eu hystyr, efallai mai gwell fyddai dyblu y cydseiniaid, megys yn y gair *cynnelic*, yr hwn a arwydda *cyn* a *delw*, ac nid cynelw; y gair *pennod*, yr hwn a arwydda *pen nod*, &c., ac yn y geiriau lle yr arferir y negedydd *an*; megys, *annoch*, *annhrefn*, &c., am eu bod yn tarddu o *an* a *doch*, ac *an* a *trefn*, am y byddai dilêu y negedydd yn un o'r rhai hyn yn dilêu haner eu hystyr. Wedi y cwbl, gresyn ydyw meddwl nad oes gan nemawr awdwr un trefniant cywir i fyned wrtho, ond y mae weithiau yn dyblu, bryd arall yn peidio, yn ol ei chwaeth a'i fympty ei hun.

## CYFNEWIDIAD Y LLAFARIAID.

—Yn ffurfiad geiriau yn yr iaith Gymraeg, y mae cyfnewidiad llythyrenau yn cymeryd lle; a'r llafariaid a gyfnewidiant fel hyn:—

A a gyfnewidia i *ai*, *e*, *ei*, a *y*; megis bran, brain; careg, ceryg; canu, cenais; atal, etyl; iar, ietr; arth, eirth; alarch, elyrch; ffolach, ffellyph.

E a gyfnewidia i *i*, *u*, *y*, ac, medd rhai; i *ei*; megys caseg, cesig; gwnaeth, gwnauthym; maen, meini; hen, hyn; llem, llymion; nerth, neirth.

O a gyfnewidia i *a*, *e*, *w*, a *y*; megys troed, traed; ffolach, ffellyph; croen, crwyn; ffon, ffyn; gordd, gyrdd; corff, cyrff.

W a gyfnewidia i *ei*, *o*, *y*, ac *wy*; megys dwfr, deifr; tromm, trom; pun, pynau; dwfr, dyfroedd; gwr, gwyr. Beius yw ysgrifenu a *chwedi*; ac *wedi* sydd briodol; a chofiwch nad yw *w* yn cyfnewid un amser i *u*.

Y a gyfnewidia i *e* ac *ai*; megys tyn, ten; ty, tai, i *y*, ac nid i *u*, neu *i*, y mae *a*, *e*, ac *o*, bob amser yn cyfnewid. Dealler hefyd mai *u* ddylai derfynu y gair Cymru, pan yn sefyll am y *wlad*, ac *y* ddylai ei derfynu pan y meddylir y trigolion; fel hyn,—Gorchestion y Cymry (y trigolion); Mynyddoedd Cymru (y wlad).

## CYFNEWIDIAD Y CYDSEINIAID.

B a gyfnewidia i *f* ac *m*; fel hyn,—*tywyd*, ei *fywyd*, *fy mwwyd*.

C a gyfnewidia i *g*, *ngh*, ac *ch*; cyfaill, dy gyfaill, fy nghyfaill, ei chyfaill.

D a gyfnewidia i *dd* ac *n*; megys duw, ei dduw, fy nuw. Y mae cyfnewidiad afreolaidd hefyd i *d*; megys diod, diota. Sylwer,—Nid yw *d* yn cyfnewid i *th* ar ol *a* yn y cyfryw eiriau a'r rhai canlynol: dyma a dyna. Beius yw ysgrifenu a thyma a thyna.

G a gyfnewidia i *ng*; megys gwaith, fy ngwaith. Hefyd, y mae i *g* gyfnewidiad afreolaidd; megys drwg, drycach.

M a gyfnewidia i *f*; megys mam, ei fam. Ymddengys hefyd y dylid, yn ol y rheol, osod *f* ar ol *i* mewn lleoedd fel hyn;—*i* fewn, nid *i* mewn; i *f*, nid *i* *mi*; ond gan nad ydyw *sain* yn cael ei niweidio yn y lleoedd uchod, arferir y ddau ddull yn ddiwahaniaeth.

P a gyfnewidia i *b*, *mh*, a *ph*; megys pen, ei ben, fy mhen, ei phen.

Rh a gyfnewidia i *r*; megys rhan, ei ran.

T a gyfnewidia i *th*, *d*, ac *nh*; megys tad, ei thad, dy dad, fy nhad.

Y GWAHANIAETH RHWNG I AC U.—Defnyddir *i* yn derfyniad perwyddiaid pan fyddo *o* yn y sill nesaf i'r olaf; megys cynghori, arfogi, &c.; a phan fyddo y llafariad *w* nesaf o'i blaen; megys tewi, rhewi, &c.; yn mhob perwyddiaid arall yr *u* a ddefnyddir.

AM SILLAU.—Sill yw cynulliad o lythyrenau a gynanir ag un anadliad heb gyfnewid nac ysgogi y llais; geill gynwys o un lythyren hyd saith, sef o un i dair o lafariaid yn gysylltiedig neu yn anghysylltiedig âg un neu fwy o gydseiniaid, megys *a*, *af*, *aur*, *cawr*, *grawn*, *gwraig*, *cwllir*, a *trwsogl*: ac nid oes mwy na saith lythyren yn un sill Gymraeg. Dau fath sill y sydd, sef sill unseiniog, megys *câr*, a sill llios-seiniog, megys *cawr*. Ac o sillau y ffurfi geiriau o un hyd yn naw sill, megys—

DI-AD-YM-GORFF-OR-IED-IG-AETH-OL.

1 CORFF

2 CORFF-OR

3 CORFF-OR-IAID

4 CORFF-OR-IED-IG

5 CORFF-OR-IED-IG-AETH

6 CORFF-OR-IED-IG-AETH-OL

7 YM-GORFF-OR-IED-IG-AETH-OL

8 AD-YM-GORFF-OR-IED-IG-AETH-OL

8 DI-AD-YM-GORFF-OR-IED-IG-AETH-OL.

Ond nid canmoladwy yw arfer geiriau hirion, os gellir cael rhai byrion yn cynwys y meddylldrych. Mynych iawn y mae areithwyr ieuainc yn cymylu prydforthwch eu meddylldrychau, drwy bentryu lliaws o eiriau hirion, ansathredig, ac afreidiol yn nghyd, er ceisio dangos eu gwybodaeth ieithyddol, a thrwy hyny yn mawr leihau eu cymeradwyaeth a'u defnyddioldeb fel areithwyr.

AM SILLEBU.—Y mae sillebu yn gangen o addysg anheborol angenrheidiol i fod yn fedrus ynddi, cyn y mae yn ddichonadwy i neb fod yn alluog i ddarllen yn gywir ac yn hylithr; ac er hyny nid oes unepeth yn cael ei esgeuluso yn fwy yn yr Ysgolion Cymreig na hyn. Pa beth yw'r achos fod dynion yn mwmlu, yn llusgo, yn camseinio, ac yn llysenwi geiriau, onid bydrda o wybodaeth o'r egwyddor ac o sillebu? ac er hyny gadewir iddynt ymbalfalu mewn tywyllwch y naill Sabbath ar ol y llall, heb un gob-aith am eu gwellhad; oni ddylai pob athraw o gydwybod weithredu yn ddi-dderbyn wyneb, a dyweyd wrth y cyfryw ar yr angenrheidrwydd o fedru sillebu, ac ymdrechu eu perswadio i ymddarostwng i droi yn ol i'r dosbarth sillebu, ac nid oes dadl na ddysgent fwy mewn ychydig o Sabbothau fel hyn, nag wrth fwmial darllen am flynyddoedd.

UN ATTALFA mawr i blant a phobl gael blas ar sillebu yw, am y gosodir y rhan fynychaf athraw anghymhwys ar y dosbarth hwn; ni ddymunem ddiystyru nac israddio neb, ond eto rhaid i ni ddyweyd yn y fan hyn mai y dall yn tywys y dall yw hi yn rhy aml; pe gosodid un o oreuon yr ysgol ar y dosborth hwn, er iawn wreiddio a wybodaeth o sillebu, yn enwedig yn y tŷ ieuanc, deuent yn ddarllenwyr rhagorol yn negwn yr amser.

SILLEBU yw y gelfyddyd o iawn ddsbarthu geiriau i sillau, a sillau i lythyr-enau.

Y MAE rhai geiriau yn hawdd iawn i'w dosbarthu, tra y mae eraill yn anhawdd. Y mae yn hawdd iawn rhanu cysyllteiriau, megys *llaeth-oen, byd-wraig, troed-fainc*, &c. Nid yw y rhai uchod amgen na dau air cysefin wedi eu cysylltu yn nghyd; ond y mae y geiriau tarddedig, y rhai a elwir yn hanedigion, yn amrywio yn ddirfawr yn null eu cyfansoddiad, yr hyn

a bair gryn anhawsdra i'w dosbarthu yn sillau, oddieithr y byddis yn lled hysbys â'r gwahanol ddulliau o gyfansoddi geiriau.

YR HANEDIGION ynt wedi eu cyfansoddi o'r cysefiniaid, naill ai gyda blaendodiaid neu oddodiaid, neu gyda'r naill a'r llall; o ganlyniad, y mae bod yn hyddysg ynddynt o rwyddineb mawr er ein galluogi i iawn ddsbarthu gair yn sillau, ac felly i allu sillebu yn gywir.

Y BLAENDODIAID sydd fel y canlyn:

A	as	dad	dym	go	lly
ach	at	dam	dys	gor	ofer
ad	cy	dar	e	gos	oll
add	cyd	ded	ech	gwr	rhag
af	cyf	di	ed	gwrth	rhy
all	cym	dir	edd	han	tra
am	cyn	dis	eil	lu	try
an	cynt	dos	er	hy	ym
ar	cys	dy	es	lled	ys

FE GYFUNIR dan, tri, neu bedwar o'r blaendodiaid hyn yn nghyd yn nghyfansoddiad rhai geiriau, megys—

Ad-ddy	annghyd	dirag	traym
ador	annghyf	diwrth	ymad
ados	annghyn	diym	ymdry
adym	annghys	diys	ymddad
adys	arddis	dym	ymddar
adymddir	arddy	dyddym	ymddi
adymgys	arddym	goled	ymddir
anad	arddys	gores	ymddis
anadd	cyfym	gorym	ynddy
anes	dadym	goym	ymddy
anhy	darym	gwrthym	ymgyd
annar	dia	lledar	ymgyf
annedd	diad	lledym	ymgym
anedd	diadd	liedys	ymgyn
anni	diaf	oferym	ymgys
annir	diam	oferys	ymled
annis	dian	rhyddi	ymos
annos	diddos	rhyddar	ymry
annys	diddy	rhyor	ymwrth
anys	diled		

Y TERFYNIADAU a arferir i gyfansoddi geiriau ydynt y rhai hyn:—

Ach	megys	dynionach
ad	„	goleuad
aeth	„	gorfodaeth
ai	„	llatai
an	„	chwiban
ar	„	llafar
awd	„	molawd
awr	„	crythawr

dawd	megys	Duwdawd
deb	"	sefylldeb
der	"	hyfder
did	"	dyndid
dra	"	pelldra
eb	"	traetheb
ed	"	tynged
edd	"	gwagedd
eg	"	troelleg
ell	"	pihell
en	"	gwydden
es	"	dynes
eu	"	goleu
i	"	poeni
iad	"	cariad
iaeth	"	harddoniaeth
iant	"	llesiant
id	"	cadernid
ig	"	genethig
ineb	"	gwylltineb
iar	"	toniar
ni	"	brytni
ol	"	rhagorol
rwydd	"	boddlonrwydd
ur	"	penadur
ures	"	golchures
wg	"	tywyllwg
wr	"	cyfrwywr
wch	"	tegwch
yd	"	bywyd
ydd	"	gweydd
yddes	"	pobyddes.

CYFUNIR RHAI o'r terfyniadau uchod â'u gilydd yn nghyfansoddiad rhai geiriau fel hyn :—

achydd	megys	cyfeillachydd
adur	"	pechadur
aduriaeth	"	pechaduriaeth
aethwr	"	tystiolaethwr
awdwr	"	dysgawdwr
dodiad	"	Trindodiad
dodiaeth	"	Undodiaeth
dodwr	"	Undodwr
dodydd	"	Trindodydd
ediad	"	cerddediad
edydd	"	cerddedydd
eiaeth	"	llateiaeth
elliad	"	cyllelliad
ellydd	"	cylleilydd
iadwr	"	trefniadwr
iarus	"	soniarus
iedydd	"	cynlluniedydd
inebwr	"	godinebwr
inebydd	"	godinebydd
odiad	"	penodiad

odiaeth	"	penodiaeth
odraeth	"	llywodraeth
odraethiad	"	llywodraethiad
odraethydd	"	llywodraethydd
odraethwr	"	llywodraethwr
odur	"	penodur
odydd	"	penodydd
oriaeth	"	cerddoriaeth
ychiad	"	efelychiad
yehwr	"	heddyehwr
yehydd	"	heddyehydd
yddiaeth	"	prydyddiaeth

Y TERFYNIADAU a arferir er lliosogi geiriau unigol ydynt :—

au	megys	parth- <i>au</i>
aint	"	gof- <i>aint</i>
edd	"	bys- <i>edd</i>
i	"	llestr- <i>i</i>
iaid	"	creadur- <i>iaid</i>
iau	"	gwyl- <i>iau</i>
ion	"	dyn- <i>ion</i>
od	"	llwynog- <i>od</i>
on	"	llw- <i>on</i>
oedd	"	hyd- <i>oedd</i>
ydd	"	bro- <i>ydd</i> .

Y TERFYNIADAU a ddefnyddir er trosi geiriau lluosog i'r unigol ydynt :—*yn*, megys, plant, plent-*yn*; biodau, blodeu-*yn*; *en*, coed, coed-*en*; *ser*, ser-*en*. Defnyddir *an*, *yn*, *en*, *ig*, ac *ach* yn derfyniadau lleihaol hefyd, megys dyn-*an*, neu dyn-*yn*, am ddyn bach; gardd-*en* am ardd fechan; morwyn-*ig*, am eneth ieuanc; a dynion-*ach*, naill am ddynion bychain o gorffolaeth, neu o ymddygiadau gwael ac anheilwng o ddynoliaeth.—*Cyfaill yr Ysgolor*.

GEIRIAU A SILLIEDIR WAHAN-OL FFYRDD.—Gan nad oes modd gwneyd rheolau i ddangos pa fodd i silliadu pob gair, rhoddwn yma gofrestr o eiriau a silliedir wahanol ffyrdd, wedi eu silliadu yn y modd a ymddengys oreu i awdwr y *Gramadeg Cymraeg Ym-arferol*.

Acen	Ameu	Atteg
Adgas	Amod	Banllef
Addfed	Anifail	Burym
Alltud	Anog	Bygwth
Aliwys	Angen	Bywoliaeth
Amddiffyn	Angladd	Cadair
Amgeidd	Annwyd	Cadben
Amgueddfa	Arad	Camfa, nid
Amherawdwr	Araeth	Camdda

Canmol	Diwyd	Hoew
Canys	Dosbarth	Hynafiaeth
Cenfigen	Dryc-hin	Hysbys
Cenllusg	Duweinydd	Lletygar
Clauar	Dyben	Llian
Clymu	Dydoli	Llofrudd
Cnewyllyn	Dyddanwech	Lluaws
Crai	Dyddordeb	Meichiau
Croew	Dyddymu	Manol
Cyfundraeth	Dyethr	Megys
Cyffelyb	Dyfetha	Melys
Cyffwrdd	Dyferyn	Milldir
Cyllell	Dyfyneu	Munud
Cyllid	Dygywydd	Myntai
Cymharu	Dyhewyd	Mynwent
Cymhell	Dylyn	Mynwes
Cymhen	Dyoddef	Niwaid
Cymborth	Dyrwyn	Oblegid
Cymhwys	Dysglaer	Oedfa. Llu-
Cynauaf	Dysgrifio	osog
Cynddrych-	Dysgwyl	Oedfaon
Cyneu [ioli	Dysgybl	Ogofau
Cynysgaethu	Dystaw	Papur
Cynhen	Dystyllu	Parlawr
Cynhes	Eden	Plu
Cynhwrf	Engrafft	Penill
Cynghanedd	Eilun	Pennod
Cynghor	Enill	Rhybudd
Cynghrair	Enyd	Santaidd
Chwaneg	Enyn	Sarug
Chwilio	Ereill	Seisneg
Chwyldroad	Erlidigaeth	Sierwydd
Chwyrnu	Esboniad	Sio
Dadlu, neu	Ffynon	Syler
Dadluc	Gloew	Symud
Dadgan	Gorphenhaf	Tafal
Dadguddio	Grudd	Teneu
Daeac	Gruddfan	Testyn
Danedd	Gwaew	Tlawd
Dattod	Gwatwar	Tragwyddol
Deau	Gwddf	Trigain
Dedfryd	Gwegil	Trindod
Deheulaw	Gweisgi, nid	Twymo
Deugain	Gwisgi	Twysen
Diareb	Gweniaith	Tymer
Diasbedain	Gwibed	Tymestl
Dilys	Gwynebpryd	Tymor
Diniwaid	Gwrandaw-	Tynell
Diolch	Gwyllo [wyr	Ufudd
Diosg	Gwrthdrys	Ysbryd
Disberod	Haner	Ysbaid
Distryw	Hedeg	Ysbio

GEIRIAU O GYFFELYB SEIN-  
IAU, neu a gamgymerir y naill am y  
llall.

Ac, and	Esgid, a shoe
Ag, that or with	Esgud, nimble
Ael, a brow	Ewin, a nail
Ail, second	Ewyn, foam
Aer, heir	Ffaeth, luxuriant
Aur, gold	Ffaith, a fact
Air, word	
Baedd, a boar	Ffurf, a form
Baidd, a challenge	Ffyrf, thick
Bru, womb	Gwae, woe
Bri, dignity	Gwau, to weave
Budd, benefit	Gwaedd, a shout
Bydd, will be	Gwaudd, daughter- in-law
Cae, a field	Gwaeth, worse
Cau, to enclose	Gwaith, work
Ci, a dog	Gwain, a sheath
Cu, amiable	Gwaun, a meadow
Cil, a corner	Gweliau, wounds
Cul, narrow	Gwelyau, beds
Clai, clay	Gwich, a squeak
Clau, quick	Gwych, smart
Clun, hip	Gwir, true
Clin, knee	Gwyr, men
Crug, a heap	Gwiw, proper
Cryg, hoarse	Gwyw, withered
Crud, a cradle	Haedd, merit
Cryd, a fever	Haidd, barley
Cymru, Wales	Hael, liberal
Cymry, Welshmen	Haul, the sun
Cymun, sacrament	Hi, she
Cymyn, bequest	Hy, bold
Chwaeth, taste	Hin, weather
Chwaith, neither	Hun, self
	Hŷn, older
Chwith, left	Hulio, to cover
Chwyth, a blast	Hilio, to produce
Ei, his or her	Hwnt, beyond
Eu, their	Hwynt, them
Eirian, splendid	Is, under
Eurian, golden	Us, chaff
Eiryn, plums	I'w, to his, her, their
Euryrn, a golden	Yw, i;

[trinket

I fyny, <i>up</i>	Nith, <i>a niece</i>
I fynu, <i>to demand</i>	Nyth, <i>a nest</i>
I waered, <i>downwards</i>	Peri, <i>to cause</i>
I wared, <i>to save</i>	Pery, <i>will continue</i>
Llaes, <i>long</i>	Pig, <i>a beak</i>
Llais, <i>a voice</i>	Pyg, <i>pitch</i>
Llaeth, <i>milk</i>	Pridd, <i>earth</i>
Llaith, <i>moist</i>	Prudd, <i>sorrowful</i>
Llai, <i>less</i>	Prif, <i>chief</i>
Llau, <i>lice</i>	Pryf, <i>a worm</i>
Lli, <i>a flood</i>	Prin, <i>scarce</i>
Llu, <i>a host</i>	Pryn, <i>buy</i>
Llifio, <i>to saw</i>	Rhi, <i>a chief</i>
Llifo, <i>to flow</i>	Rhu, <i>a roar</i>
	Rhy, <i>too</i>
Llin, <i>flax</i>	Rhiw, <i>a slope</i>
Llun, <i>form</i>	Rhyw, <i>species</i>
Llyn, <i>a lake</i>	
Lliw, <i>a colour</i>	Rhudd, <i>red</i>
Llyw, <i>a helm</i>	Rhydd, <i>free</i>
Lluman, <i>a banner</i>	Saeth, <i>a dart</i>
Llyman, <i>a wretch</i>	Saith, <i>seven</i>
Llus, <i>bilberries</i>	Seisneg, <i>English</i>
Llys, <i>a court</i>	<i>Language</i>
	Seisnig, <i>English</i>
Mae, <i>is</i>	Sil, <i>a seedling</i>
Mai, <i>that</i>	Sul, <i>Sunday</i>
Mau, <i>my</i>	Syl, <i>a base</i>
Maen, <i>a stone</i>	Sir, <i>shire</i>
Main, <i>thin</i>	Sur, <i>sour</i>
Maeth, <i>nurture</i>	Sudd, <i>juice</i>
Maith, <i>long</i>	Sydd, <i>is</i>
Melin, <i>a mill</i>	Sylfaen, <i>a founda-</i>
Melyn, <i>yellow</i>	<i>tion stone</i>
	Sylfan, <i>a foundation</i>
Mil, <i>a thousand</i>	Taer, <i>importunate</i>
Mul, <i>a mule</i>	Tair, <i>three</i>
Mis, <i>a month</i>	Tai, <i>houses</i>
Mys, <i>a finger</i>	Tau, <i>thy</i>
Mud, <i>dumb</i>	Talaeth, <i>a province</i>
Myd, <i>a world</i>	Talaith, <i>a crown</i>
Nac, <i>nor</i>	Ti, <i>thou</i>
Nag, <i>than</i>	Tu, <i>a side</i>
	Tŷ, <i>a house</i>
Neithior, <i>a marri-</i>	Tri, <i>three</i>
<i>age feast</i>	Try, <i>will turn</i>
Neithiwr, <i>last night</i>	

Ud, <i>a howl</i>	Yntau, <i>he or him,</i>
Yd, <i>corn</i>	<i>also</i>
	Ynte, <i>them</i>

UNSILLIAID HIR A BYR.—Rhodd-ir yma, mewn dwy golofn, restr o unsilliaid, wedi eu llythyrenu yr un fath a'u gilydd, ond yn gwahaniaetlu yn hyd yr unseiniaid :—

<i>Hir.</i>	<i>Byr.</i>
Ag, <i>with</i>	Ag, <i>as</i>
Ar, <i>plough-land</i>	Ar, <i>on</i>
Bâr (pâr), <i>will cause</i>	Bar, <i>a bar</i>
Bêr (pêr), <i>sweet</i>	Ber, <i>short</i>
Câr, <i>a friend</i>	Car, <i>a car</i>
Cob, <i>a cloak</i>	Cobb, <i>a tuft</i>
Cryn, <i>a shake</i>	Cryn, <i>rather</i>
Cŷn, <i>a wedge</i>	Cyn, <i>before</i>
Dâl (tâl), <i>payment</i>	Dal, <i>will hold</i>
Dél, <i>will come</i>	Del, <i>pert</i>
Dŷn, <i>a man</i>	Dyn (ty), <i>tight</i>
Fân (mân), <i>small</i>	Fan (man), <i>place</i>
Fêl (mêl), <i>honey</i>	Fel, <i>like</i>
Gân (cân), <i>a song</i>	Gan, <i>by</i>
Gâr (câr), <i>a friend</i>	Gar, <i>a shank</i>
Gên, <i>a chin</i>	Gen (cen), <i>scales</i>
Gêr, <i>gears</i>	Ger, <i>near</i>
Glân, <i>clean</i>	Glan, <i>brink</i>
Glyn, <i>will stick</i>	Glyn, <i>a dale</i>
Gwâl, <i>a couch</i>	Gwal, <i>a wall</i>
Gwân, <i>a stab</i>	Gwan, <i>weak</i>
Gwên, <i>a smile</i>	Gwen, <i>white</i> [neck]
Gwâr, <i>mild</i>	Gwar, <i>the nape of the</i>
Gŵn (cŵn), <i>dogs</i>	Gwn, <i>I know</i>
Gŵr, <i>a man</i>	Gwr (cwr), <i>a corner</i>
Hŷn, <i>older</i>	Hyn, <i>these</i>
Llên, <i>literature</i>	Llen, <i>a curtain</i>
Mâl, <i>grind</i>	Mal, <i>like</i>
Mân, <i>small</i>	Man, <i>a place</i>
Tâl, <i>payment</i>	Tal, <i>tall</i>
Tân, <i>fire</i>	Tan, <i>under</i>
Tôn, <i>a tune</i>	Ton, <i>a wave</i>
Tŵr, <i>a tower</i>	Twr, <i>a heap</i>

GWAHANNODIAD.—Y mae gwahannodiad yn dysgu y modd i osod atalnodau, mewn ysgrifennu neu argraff, yn y fath fodd ag i ddangos y gorphwys-iadau a wnelid gan yr awdwr pe yn cyfluo ei feddwl trwy siarad yn lle trwy ysgrifennu.

YSGRIFEN AC ARGRAFFU a ddefnyddir yn lle siarad; ac y mae gwahannodiad cywir yn anheggorol i gyfluo yr ystyr a fwriedir, ac i roddi pwys dyladwy ar y

fath ranau ag y byddo yr awdwr yn awyddus am eu hargraffu ar feddwl y person i'r hwn y'u cyflêir.

Y MAE Y GWAHANNODAU fel y canlyn :—

Y Gwahannod ( <i>comma</i> )	...	(,)
Yr Adwahannod ( <i>semicolon</i> )	...	(;)
Y Gorwahannod ( <i>colon</i> )	...	(:)
Y Diweddnod ( <i>full point</i> )	...	(.)
Holnod ( <i>note of interrogation</i> )	...	(?)
Rhyfeddnod ( <i>note of exclamation</i> )	...	(!)
Sillgoll ( <i>apostrophe</i> )	...	(')
Cysylltnod ( <i>hyphen</i> )	...	(-)
Y Cromfachau ( <i>parenthesis</i> )	( )	[ ]
Gwallnod	...	(^)
Dyfynnodiad	...	(" ")
Yr Acen Amgylchynedig	...	(^)
Yr Acen Ddisgynedig	...	(^)
Yr Acen Dderchafedig	...	(')
Diffyglin	...	(—)
Didolnod	...	(~)
Sernodau	...	(**)
Myneffys	...	( <del>ff</del> )

Gan mai y nodau uchod yn unig a arferir mewn cyfansoddiadau syml a chyffredin, bydd i ni gyfyngu ein sylwadau ar y rheolau a ddylent reoli eu defnyddiad.

Y NODAU EREILL, pa fodd bynag, ydynt y rhai canlynol :—GWAHANRANOD (*paragraph*) (¶) a arferir i arwyddo dechreuad corff o ymadrodd ar unrhyw achos. Y DOSBARTHOD (*section*) (§) sydd yn nodi gwahanol ranau yn yr un traethawd ar yr un mater. Y SEREN (*asterisk*) (\*), y BIDAG (*dagger*) (†), y BER (*double dagger*) (‡), a'r DDY-BLYG-LIN (*parallel*) (||), ac weithiau y Llythyrenau mân a'r Rhifnodau, a ddefnyddir i gyfarwyddo y darlennydd at ryw nod ar ymyl neu waelod y ddalen, er prawf neu ddeongliad o'r hyn a ddarllenir.

Y Gwahannod (') a arwydda y gorphwysiad byraf; yr Adwahannod (;) ychydig fwy o orphwysiad na'r Gwahannod; y Gorwahannod (:) ychydig fwy o orphwysiad na'r Adwahannod; y Diweddnod (.) y gorphwysiad hwyaf.

Desgrifir hyd cydmarol y gorphwysidau fel hyn :—

Gwahannod (')	tra y cyfrifir	Un
Adwahannod (;)	"	Dau
Gorwahannod (:)	"	Tri
Diweddnod (.)	"	Pedwar

Nid yw hon, pa fodd bynag, yn rheol anffaeledig, oblegid y mae parhad y gorphwysiad i gael ei rooleiddio gan y gradd o gyflymder a arferir wrth ddarllen. Pan y darllenir yn araf, dylid ychwanegu at barhad y gorphwysidau.

Gall CAMOSODIAD nod mor ddibwys a'r gwahannod newid ystyr brawddeg neu ymadrodd cyfan. Nodwn engraifft. Dododd eiliwr (*barber*) y geiriau canlynol uwch ben ei ddrws, er mwyn denu cwsmeriaid i'w siop: "What do you think? I'll shave you for nothing and give you some drink." Yr oedd y rhai a elent heibio yn synu at ffolineb yr eiliwr, yn cynyg eu heillio am ddim, a rhoddi diod iddynt hefyd yn y fargen. Aeth un i mewn, a gofynnodd i'r eiliwr a oedd yn barod i'w eillio, a rhoddi diod iddo am ddim, yn ol y geiriad oedd ar yr arwydd-fwrdd (*sign*) uwchben y drws. Dechreuodd yr eiliwr chwervthin am ben ei gwsmr diniwaid, a dywedodd, "What! do you think I'll shave you for nothing and give you some drink?" Wrth ddarllen y frawddeg heb ei hatalnodi yn briodol, yr oedd yn cyfleu y syniad fod yr eiliwr am eillio a rhoddi diod i'w gwsmeriaid am ddim; ond wrth ei darllen wedi ei hatalnodi yn briodol, yr oedd yn cyfleu syniad hollol wahanol.

Dengys y frawddeg ganlynol yr anhawsrodd o ddarllen yn gywir heb gymorth yr atalnodau a ddefnyddir fel gorphwysidau :—

Nid crys anghau am ystorm na haulwen o fewn i breswylfod yn un o heolydd uchaf parchus o ran ymddangosiad ac wedi eu dodrefnu gyda'r cyfleusderau hyn y wahaniaethant drigleoedd dosbarthiadau uchaf cymdeithas gorwedddai gwr canol oed ar ei wely anghau yn dysgwyl y wŷs olaf bob moment yr oedd yr oll ag a allai cymorth meddygol goreu yr oll allai cariad mor wresog a'r gwynias a dania fynwes angel wneyd wedi ei wneyd ddydd a nos am wythnosau meithion yr oedd yr ysbrydion gwasanaethgar y fath ag yw gwraig ymroddgar a phlant caruaidd wedi gwneyd yr oll o fewn eu gallu i gadw draw yr ergyd ond yno y

gorweddai ei wallt du wedi ei dyner symud oddiar ei dalcen uchel a hardd ei lygaid tywyll wedi eu goleuo i fyny a disgleirdeb goruwehnaturiol ac yn cyferbynu yn gryf a'r gwelwder marwol a'i nodai fel disgwylydd y genad ofnadwy.

Digon hawdd deall a darllen yr un frawddeg, wedi ei hatalnodi yn briodol, gyda phrif llythrenau wedi eu gosod ar ol y diwedd-nodau, yn ol y rheol:—

Nid crys angeu am ystorn na haulwen. O fewn i breswylfod yn un o'r heolydd uchaf, parchus o ran ymddangosiad, ac wedi ei ddodrefnu gyda'r cyffusderau hyny a wahapiaethant drigleoedd dosbarthiadau uchaf cymdeithas, gorweddai gŵr canol ar ei wely angeu, yn disgwyl y wys olaf bob moment. Yr oedd yr oll ag a allai y cymorth meddygol goreu—yr oll allai cariad, mor wresog a'r gwynias a dania fyndes angel, wneyd, wedi ei wneyd; dlydd a nos, am wythnosau meithion, yr oedd ysbrydion gwasanaethgar, y fath ag yw gwraig ymroddgar a phlant caruaid, wedi gwneyd yr oll o fewn eu gallu i gadw draw yr ergyd. Ond yno y gorweddai, ei wallt wedi ei dyner symud oddiar ei dalcen uchel a hardd, ei lygaid tywyll wedi eu goleuo â rhyw ddisgleirdeb goruwehnaturiol, ac yn cyferbynu yn gryf a'r gwelwder marwol a'i nodai fel disgwylydd y genad ofnadwy.

Y GWAHANNOD ('). Dylid defnyddio gwahannodau, yn ol y *Gramadeg Cymrcig Ymarferol*, 1. *Rhwng y testyn a'r fferf os bydd y testyn yn hir*; megys, Bod yn gwbl ddifater am glod neu anghlod, sydd ddiffyg gwirioneddol mewn cymeriad. 2. *Rhwng cyfres o eiriau o'r un rhyw*; megys, yr haul, y lleuad, a'r ser, ydynt ogoniant natur. Mewn llythyr, gallwn gynghori, anog, cysuro, deisyf, ac ymresymu. 3. *Rhwng pob par o eiriau cyfunrhyw cydiedig gan gysylltiad*; megys, Y mae gwirionedd yn deg ac anichellgar, syml a chywir, unfurf a diannwadal. 4. *O flaen rhagenw perthynol, os bydd amryw eiriau yn cyfryngu rhyngddo a'r blaenorydd*; megys, Nid oes un swyn yn y rhyw fenywaidd, pa un a all gyflenwi lle rhinwedd. 5. *Rhwng ebeithoedd neu ymadroddion a'r rhelyw o'r frawddeg, pan eu harferir o flaen neu rhwng rhanau brawddeg unigol, neu ran-*

*au a fyddont yn dwyn perthynas gys-trawiaethol neu agos a'u gilydd*; megys, Gwelwyd yn fuan, *wrth chwilio, fod y clwyf yn angeuol. Pa fodd bynag*, nid oes genych ddim amser i'w golli. 6. *Rhwng yr anerchiad cyfeiriol a'r rhelyw o'r frawddeg*; megys, *Fy mab*, moes i mi dy dy galon. 7. *Lle bo berf yn ddeall-edig*; megys, oddiwrth y gyfraith y deillia y diogelwch; oddiwrth ddiogelwch, ymfyngarwch; oddiwrth ymfyngarwch, wybodaeth. 8. *Rhwng adroddiad neillduol, megys, difyniad, neu orchymyn, a'r ymadrodd a'i blaenora*; megys, wyf yn dywedyd wrth bawb, Gwylwch. 9. *Rhwng ymadroddion gorthwnebol*; megys, Y mae gwir rwyddineb mewn ysgrifenu, yn dyfod oddiwrth gelyddyd, nid damwain. 10. *Rhwng ymadroddion brawddeg wrthdröedig* megys, Yr hwn sydd wan yn y ffydd, derbyniwch chwi. 11. *Rhwng cyfres o aelodau byrion brawddeg gusfawsawdd*; megys, cefnogodd y celfyddydau, diwygiodd y cyfreithiau, amddiffynodd ddysgyblaeth filwraidd, ac ymwelodd a'r holl daleithiau yn bersonol.

YR ADWAHANNOD (;) a arferir i ddosbarthu ymadrodd cyfansawdd yn ddwy neu ychwaneg o ranau, pan nad oes cysylltiad mor agos rhyngddynt a'r rhai hyny a wahenir gan y gwahannod, a chysylltiad agosuch rhyngddynt na'r rhai hyny a wahenir a'r Gorwahannod; megys, "Pob un sydd yn gofyn, sydd yn derbyn; a'r neb sydd yn ceisio, sydd yn cael; ac i'r hwn sydd yn curo, yr agorir." "Y sail gyntaf oedd faen iaspis; yr ail, saphir; y trydydd, calcedon; y pedwerydd, smaragdus," &c.

Y GORWAHANNOD (;) a ddefnyddir 1. *Rhwng aelodau brawddeg nad ydynt yn dwyn perthynas mor agos a'u gilydd a'r rhai a gyfryngir gan Adwahannod*; megys, Na weniethiwrth wrthych eich hunain gyda'r gobaith am wynfyd perffaith: nid oes y fath yn y byd. 2. *Pan fydd amryw adwahaniadau wedi rhagflaenu, a gorphwysfa helaethach fyth yn angenrheidiol i'r dyben o nodi yr ystyr cysylltiadol neu derfynol*; megys, Deddfroddwr Dwyfol, yn adroed ei leferydd o'r nef; llywodraethwr hollalluog, yn estyn allan ei fraich i gospi neu wobrwyo; yn mynegi i ni am orphwysfa



ddiddarfod wedi ei darparu ar ol hyn i'r cyfiawn, ac am lid a digofaint yn aros y drygonus : y rhai hyn ydynt yr ystyr-iaethau sydd yn cadw y byd mewn braw, yn cynal uniondeb, ac yn lluddias tros-eddau. 3. *Rhwng difyniad o'r geiriau rhagarwcinol, os na fyddant yn dibynnu ar eu gilydd o ran cystrawiaeth*; megys, Y mae yr Ysgrythyrau yn rhoddi i ni ddarluniad hawddgar o Dduw yn y geiriau canlynol : “Duw cariad yw.”

DIWEDDOD (.) Arferir hwn, 1. *Yn niwedd pob brawddeg*. 2. *Ar ol geiriau talffyrddig*; megys, h.y. am *hynny yw*; O.C. am *Oed Crist*; D.S. am *Dalier Sylw*.

GOFYNOD (?) a osodir ar ol ymadrodd yn cynwys holiad; megys, Pwy a'th wnaeth di? Onid i'r un lle yr a pawb?

RHYFEDDOD (!) a arferir i ddyodi unrhyw gynhyrfiad disymwth o eiddo y meddwl : megys, “Rhyfedd ac ofnadwy y'm gwnaed!” “O ddyfnder golud a doethlheb a gwybodaeth Duw! Mor anchwiliadwy yw ei farnau ef! a'i ffyrdd mor anolrheiniadwy ydynt!

SILGOLL (') sydd yn arwyddo fod llythyren neu sill wedi ei adael allan; megys, *i'th yn lle i yth*; *i'n yn lle i ein*; *sy'n yn lle sydd yn*; *cym'dogion yn lle cymydogion*, &c.

CYSYLLTOD (-) a arferir i gysylltu dau air yn nghyd; megys, *prïod-fab, llaeth-ocn, llaeth-fwyd*. Arferir ef hefyd i ranu geiriau ar ddiwedd llinellau.

CROMFACHAU [ ] ac YMSANGAU ( ) a arferir i gau i mewn air neu ymadrodd a ellid ei adael allan heb niweidio y synwyr; megys, “Canys mi a wn nad oes ynof fi (hyny yw, yn fy nghnawd i) ddim da yn trigo.” Dylid darllen ymadroddionsydd rhwng ymsangau ychydig yn gyffymach, ac ag is llais na'r draith yn gyffredin.

GWALLNOD (A) a arwydda fod llythyren, sill, neu air wedi ei adael allan o ysgrif mewn anghof, a rhoddir dan y llinell gyferbyn a'r man y gadawwyd ef allan; megys,

erbyn

“Y gwir yn <sup>A</sup> y byd.”

DYFYNNODIAD (“”).—Dau wahanod gwrthdröedig a osodir ar ddechreu ymadrodd, neu ddywediad, a fo wedi ei

ddifynu o waith awdwr arall, a dau sillgoll a osodir ar ei derfyn; megys, “Tra môr tra Brython.”

YR ACEN AMGYLCHYNEDIG (^) a arferir uwch ben llafariad, i arwyddo y dylid rhoddi sain hirlaes iddi; megys, *a yn y gair glân, ac e yn y gair gwên*.

YR ACEN DDISGYNEDIG (') a arferir i arwyddo ar ba llythyren mewn gair y dylid rhoddi y pwyslais; megys, *canu, tônau, &c.*

YR ACEN DDERCHAFEDIG (') a arferir uwch ben llafariad mewn gair unsill, mewn gwrthgyferbyniad i'r un amgylchynedig; megys, *glân, gwên, &c.*

DIFFYGLIN (—) a arferir pan adewir llythyrenau allan o air, neu eiriau o ymadrodd; megys, *Ll—nd—n*, am *Llundain, &c.*

DIDOLNOD (") a arferir uwch ben y gyntaf o ddwy lafariad mewn sill, er didoli y naill oddiwrth y llall, rhag eu bod yn ddeuseiniaid, a thrwy hyny gwneir ef yn ddeusill; megys, *Gröeg, yn lle Groeg*.

SEINODAU \* \* \* \* a arferir i arwyddo fod rhyw ddiffyg yn yr ymadrodd blaenorol iddynt; neu fod gan yr awdwr rhyw beth rhy anfoesol ac anweddaidd i'w adrodd.

MYNEGYS ~~af~~ a arferir i arwyddo fod yr ymadrodd cyferbyniol yn haeddu sylw ac ystyriaeth manylaf y darlennydd.

Y PRIF LYTHYRENAU.—Y mae defnyddio prif lythyrenau agos ymhob sylweddair, ac weithiau mewn berfau a goreiriau, fel y gwnaed yn yr oesoedd gynt, wedi cael ei roddi heibio yn y dyddiau hyn fel peth dianghenrhaid. Nid ystyrir hwynt yn anghenrheidiol yn awr ond yn y lleoedd canlynol:—

1. Yn nechreu pob brawddeg.
2. Yn y gair cyntaf o bob llinell byrddyddol.
3. Yn y gair cyntaf o ddyfyniad uniongyrchol.
4. Mewn geiriau a arferir fel enwau y Duwdod.
5. Mewn enwau priodol a theitlau dynion.
6. Mewn pob gair o bwys mewn teitlau llyfrau.

Yr ebychair O! ddylai fod bob amser yn brif llythyren; a'r rhan amlaf o ansoddeiriau deilliedig o eiriau priodol; er engraifft, Arodrydd Rhufeinig; colofn Roegaidd; newyddiadur Cymraeg.

Pan fyddo awdwr yn ewyllysio rhoddi pwys neillduol ar air neu frawddeg, er

mwyn pwyslais, neu ryw ddyben arall, tyna *dair* llinell o dan y gair neu y frawddeg mewn ysgriflen yr ewyllysia iddynt gael eu hystyried fel prif lythrenau, *dwy* linell os fel mân lythrenau (*small capitals*), ac *un* linell os yn Italaidd.

Y mae y tri gair hyn—CAR DY GYMYDCG—mewn prif lythrenau.

Y MAE Y GEIRIAU HYN MEWN MAN BRIF LYTHYRENAU.

*Y mae y linell hon mewn llythrenau Italaidd.*

GWALLAU CYFFREDIN MEWN CYSTRAWEN.—Ac ac AG. *Ac*, cysylltiad, dyn ac anifail. *Ag*, arddodiad. Rhwymo âg edef. Gellir rhoddi *gydag* bob amser mewn rhyddiaeth yn lle yr *âg* yma.—Rhwymo *gydag* edef. Ni wedda *gydag* yn lle ac mewn un man. Y mae sefyllfa arall i *ag*, sef, pan fydd ar ol Ansoddair yn nghanol ymadrodd; megys, Y mae Robert mor hael ag yw ei frawd; neu, Y mae Robert mor hael ag un dyn. Ni wedda *gydag* yn lle yr *ag* yma.

NAG a NAC.—Y mae *nag* i fod mewn cysylltiad âg Ansoddair yn y ganolradd; Mwy nag ef, uwch nag ef, is nag ef, harddach nag un ferch, prydfertach nag un dyn, gwell nag aur, gwerthfawroch nag arian, &c. Fe ddichon i'r Ansoddair *nag* fod mewn rhai lleoedd yn lled bell oddiwrth eu gilydd: Y mae William wedi gwneyd *mwyl* o ddaioni, yn yr achos teilwng hwn, *nag* un dyn yn y plwyf yma; neu, Y mae William wedi gwneuthur *mwyl* o ddaioni *nag* un dyn yn y plwyf, yn yr achos teilwng yma. Sylwer mai yr un berthynas sydd rhwng *mwyl* a *nag* yn y ddwy engraifft. *Nac*, yn gysylltiad, Nid oes genyf nac fch nac asyn, nac oen, nac aur, nac arian, nac unrhyw beth arall. *Nac*, yn Negedydd, *Nac* ymrysonwch ar y ffordd, ac nac ymsenwch â'ch gilydd.

Yw ac I'w.—*Yw*, Berf, *Efe yw* y dyn. *I'w*, Arddodiad Rhagenwol, *Un i'w* faes, ac arall *i'w* fasnach. Fe wasanaetha *ydyw* yn lle *yw* yn mhob man mewn rhyddiaeth, ac y mae digon o wahaniaeth rhwng *ydyw* ac i'w; gwel mor anaddas fyddai dyweyd, *Un ydyw* faes, ac arall *ydyw* fasnach. *Hwn* idd ei y gwr aeth *ydyw* dŷ; yn lle, *Hwn ydyw* y gwr aeth idd ei dŷ.

MAI, MAE, a MAU.—*Mae*, Berf, *Mae* yn dyfod. *Mai*, Cysylltiad, "Gwybyddwch *mai* yr Arglwydd sy Dduw." *Mau*, Rhag., i fod mewn cysylltiad ag enw, megys, "Clodforaf fi fy Arglwydd *mau*." Gellir gwybod priodle *mae* a *mai* gyda yr *y*, canys gellir rhoddi *y* o flaen *mae*, megys, Y mae yn dyfod; ond ni wedda *y* un amser o flaen *mai*.

CYMAINT a CYNIFER.—Cymaint, am faint peth; cynifer, am rifedi o bethau. Y mae rhai ysgrifenywyr go dda yn arfer rhoddi cymaint yn y lle y dylai cynifer fod; megys, "Y mae gan Dafydd *gymaint* o ddefaid ag sy gan Robert." Y mae gan Dafydd *cynifer* o ddefaid, &c., ddylid roddi. "Pa faint o wartheg sydd genyf eleni? Yr un faint ag oedd genyf y llynedd." Y mae yn iawn fel hyn:—"Pa nifer sydd genyf o wartheg eleni? Yr un nifer ag oedd genyf y llynedd." "Gwnewch yr hugan newydd yn gymaint a'r hen, a rhoddwch gynifer o fotymau arni ag sydd ar yr hen hefyd." Maint y dilledyn, a nifer y botymau.

CAN, GAN, a CYN.—*Can* ddylai fod o flaen Ansoddair, megys, can wyned, can hardded, can fwyned. *Gan* o flaen Berfau, gan ddywedyd, gan roddi, gan geisio, a chan ddymunio. *Can* yn newid i *gan*, a *gan* i *chan*. *Cyn*, am amser, *Mi* a ddeuaf cyn y fory.

DIRWYO a DIRYWIO.—*Dirwy*, *fine*: dirywiad, llygriad. *Dirwyid* am lŵon oni bai fod dirywiad yn gweinyddiad y gyfraith.

DYCHWEL a DYMCHWEL.—*Dychwel*, dyfod yn ol; *dymchwel*, bwrw i lawr. "Pan ddychwelodd William o'r dafarn, *dymchwelodd* y bwrdd a thorodd y llestri," meddai Marged.

RHYW a RHIW.—*Rhyw*, rhywogaeth; *rhiw*, llethr.

CYNTAF a DIWEDDAF; BLAENAF ac OLAF.—*Cyntaf* a *diweddaf*—am amser. *Blaenaf* ac *Olaf*—am le.

YR HWN a PA UN.—Ni ddylai *pa un*, neu *pa rai*, &c., fod ond mewn gofyniad yn unig. *Beius yw*, "Dyma y ceffyl, *pa un* a welais ddoe." *Dylai* fod, "Dyma yr hwn a welais ddoe." "Dyma y bobl y rhai oedd yn y cae:" nid "Dyma y bobl *pa rai* oedd (neu oedd-ynt) yn y cae."

## Y GWALLAU MWYAF CYFFREDIN YN Y RHANAU YMADRODD.

ENW.—Rhoddi Bannod o flaen Cyfenw, sef Enw priodol lleoedd, megys, “Myned i'r America,” yn lle “Myned i America.” Cysylltu Berf âg Enw, megys, “Darllen a gweddi.” Darllen a gweddi, ddylid gysylltu.

ANSODDAIR.—Y gwall mynychaf yw rhoddi dwy radd o'r un gair; megys, “mwyaf mawr, mwyaf hardd.” Rhoddi *pa* yn lle *po*, o flaen Ansoddair; megys, *Pa* fwyaf a *ga*, mwyaf a *geisia*.” *Po* fwyaf a ddylai fod. *Pa* o flaen Enw, “*Pa* le bynag,” “*pa* ddynd bynag.” Rhoddi *cyn* yn lle *can*; megys, “Cyn laned,” yn lle “*can* laned.” Cyn o flaen Berf, “Cyn dyfod.” Rhoddi *mor*, yn lle *can*; megys, “*Mor* fwyned.” “*Can* fwyned” ddylai fod o flaen Ansoddair, yn terfynu ag *ed*; a *mor* o flaen y gair *cyn* ei dreiglo; “*mor* fwyn.”

RHAGENW.—Y gwallau mynychaf:—Rhoddi Rhagenw, heb yn gyntaf roddi yr Enw a gynddrychiola y cyfryw Rhagenw; megys, “Efe yw yr Iawn fu rhwng y lladron.” Dylasai fod “Efe (Crist) yw yr Iawn;” neu “Crist yw yr Iawn.” Mynychu Rhagenwau yn rhy aml; megys, “Fe ddywedodd efe wrthyf fi.” Gwell fuasai, “Efe a ddywedodd wrthyf;” neu, os na fydd y rhagenw yn bwysleisio, “Dywedodd wrthyf.” Y mae y Rhagenwau, yn y Gymraeg, mewn cysylltiad, yn fynych, â'r Berfau a'r Arddodiadau.

i. Rhoddi y Rhagenw *mi* yn osail yn mhob lle; megys, *mi* welodd, *mi* welwn, *mi* welwch. Ni ddylai *mi* fod ond yn unig o flaen y person cyntaf—*mi* welaf, &c. Rhoddi *pwyl* o flaen Enw; megys, “*Pwyl* dafod,” &c. *Pa* sydd i fod o flaen Enw, a *pwyl* yn mhob man arall, oddieithr *pa* ddynd bynag, &c.

ii. Rhoddi hwn, hon, hyn, hyny, yn rhy agos i'w gilydd.

iii. Rhoddi *ai* o flaen Berf; megys, *Ai* ydyw efe yma? *A* a ddylai fod o flaen Berf, ac *ai* yn mhob man arall, i furfio gofyniad.

iv. Rhoddi *pob* yn lluosog; megys, “Y mae *pob* un a ddywedant felly yn cyfeiliorni,” *pob* un a ddywedo a ddylai fod.

v. Rhoddi *pawb* yn unig; megys, “Y mae *pawb* a ddywedo yn cyfeiliorni.” *Pawb* a ddywedant sydd yn gywir.

vi. Rhoddi *pob peth* yn lluosog; megys, “*Pob peth* sydd, oeddynt yn y dechreu.” *Pob peth* sydd, oedd yn y dechreu, ddylasai fod.

vii. Rhoddi *yr holl bethau* yn unig; megys, “Yr holl bethau sydd, oedd erioed.” *Oeddynt* erioed sydd gywir.

viii. Rhoddi *a'i* yn lle *a'u* yr un modd, ac weithiau yn y gwrthwyneb.

ix. Rhoddi *a'u*, *o'u*, *eu* yn unig; rhoddi “ei mham, ei nhain,” yn lle ei *mam*, ei *nain*.

CYSYLLTIAD.—Y gwallau amlaf—Rhoddi *hefyd* rhwng enw person ac enw ei drigfan; megys, D. Jones, *hefyd*, o Danybwlech oedd yno. Fe ddylasai *hefyd* fod yn y dechreu neu y diwedd, neu ar ol enw y lle.

i. Rhoddi *chwaith* yn lle *hefyd*; megys, Nid ychydig *hefyd* yw llafur y cyfieithydd; *chwaith* ddylai fod mewn ymadrodd negyddol, yn gyferbyniol i *hefyd* mewn ymadrodd cadarnhaol.

ii. Rhoddi *ai* i luosogi; megys, “*Naill ai tydi ai efe oeddych yno.*” *Oedd* yno sydd yn gywir. Rhoddi *neu* i luosogi yr un modd.

iii. Rhoddi *ac* heb luosogi; megys, “*Tydi ac efe oedd yno: oeddych yno* sydd gywir.

iv. Rhoddi, &c., a chysylltiad gyda'u gilydd; megys, “Yr oedd *pob* rhinwedd, sef cyflawnder, doethineb, a gwirionedd, &c., yn y lle hwnw;” dylasai fod, doethineb a gwirionedd yn y lle hwnw; neu doethineb, gwirionedd, &c., yn y lle hwnw.

v. Rhoddi Cysylltiad rhwng *pob* gair lle y bydd rhifres o eiriau cyfunryw; megis, “Y mae y wlad yn amrywiog—y mae ynddi afonydd, a llynoedd, a choedydd, a gerddi:” afonydd, llynoedd, coedydd, a gerddi, ddylasai fod. Fe ddylid rhoddi y Fannod rhwng *pob* gair; megys, “Yr afonydd, y llynoedd, y coedydd, a'r gerddi.” Yr un modd o; megys, llawn o goedydd, o erddi, ac o winllanoedd. Yr un modd *gan*; megys, yn fendithiol gan goedydd, gan erddi, a chan winllanoedd. Amryw o'r Arddodiadaid ereill yr un modd.

**BANNOD.**—Anfynych y gwelir neb yn troseddu rheolau Bannod, ond yn unig yn yr enghraifft a nodwyd uchod, sef ei rhoddi o flaen enwau priodol.

**BERF.**—Y gwallau mwyaf cyffredin, yw

i. Ffurio ymadrodd *heb Ferf*. Ein beirdd sydd fwyaf euog o'r camwedd hwn.

ii. Rhoddi *Berf gynorthwyol* heb ei heisiau, ac felly chwyddo yr ymadrodd yn afreidiol; megys, Darfud wneuthur, yn lle *gwnaethym*. Yr wyf wedi bod, yn lle *bum*.

iii. Rhoddi gormod o waith i'r glust; megys, Clywed poen yn y pen, Clywed y bwyd yn dda, Clywed yr arogl yn beraidd. Onid mwy rhesymol fyddai *teimlo* poen yn y pen, *archwacthu* y bwyd yn dda, *arogli* y blodau yn beraidd, &c. Camanseru y Ferf; megys, Yr wyf yn dyfod yma y fory: yr wyf *yn bwriadu* dyfod yma y fory, ddylai fod.

**RHAGFERF.**—Y prif wallau ydynt—  
i. Rhoddi y Rhagferf *yn rhy bell* oddi-wrth y Ferf; megys, Yr wyf yn bwriadu bod yn Llynlleifiad os byddaf yn well yn fy iechyd, ac os bydd yr hin yn hyfryd i mi gychwyn ddydd Llun, ddydd Mawrth. Y mae eisiau darllen y frawddeg yma fwy nag unwaith cyn y gellir ei deall, a'r drwg yw fod y Rhagferf yn rhy bell oddiwrth y Ferf. Dylasai fod fel hyn: Yr wyf yn bwriadu bod yn Llynlleifiad *ddydd Mawrth*, &c. Neu, gyda *duw* Ferf yn lle tair, *Bwriad-wyf fod*: neu gydag un Ferf yn lle tair, *Byddaf*.

ii. Rhoddi *dim* mewn lleoedd afreidiol; megys, Nis gallaf *ddim* myned tan y fory, na *dim* dychwelyd tan drenydd. Dylai fod, Nis gallaf fyned tan y fory, na dychwelyd tan drenydd.

iii. Rhoddi *fe yn lle mi, ti, efe, &c.*; megys, Fe wneuthym, Fe wnaethost. Mi wneuthym, ti wnaethost, ddylai fod.

iv. Rhoddi *Berf*; megys, *yn ddiocedi*, yn lle Rhagferf, *yn ddioced*; megys, Cyhoeddin yn ddiocedi. *Yn ddioced* ddylai fod.

v. Rhoddi *nid a nad* i wrthwynebu eu gilydd; megys, Nid wyf yn ameu nad yw yn dywedyd y gwir. Nid wyf yn ameu *ei fod* yn dweyd y gwir, ddylai fod.

vi. Rhoddi *mai nid* yn lle *nad*; megys, Gwybyddwch mai nid hwn ydyw.

Gwybyddwch nad hwn ydyw, ddylai fod. Nid *yn dechreu* brawddeg. *Nid* efe yw y dyn. Nad yn *y canol*. Y mae yn debyg *nad* efe yw y dyn.

vii. *Ni a na* o flaen cydsain, Ni ddaw, Y mae yn debyg *na* ddaw. Peidio a newid y Cydseiniaid cyfnewidiol ar ol *ni*; Ni bydd. *Ni fydd* ddylai fod.

**ARDDODIAD.**—Y gwallau mwyaf cyffredin—

i. Rhoddi gormod o honynt yn yr un frawddeg; megys, I'r hwn a ddel yma gyntaf rhoddaf geiniog iddo. Y *iddo* yn afreidiol.

ii. Rhoddi *ag* yn afreidiol, Y dyn *ag* yr wyf yn ei ddisgwyl. Y dyn yr wyf yn ei ddisgwyl, ddylai fod.

iii. Rhoddi *i* yn afreidiol, Unioni ambell i benelin. Ambell benelin, ddylai fod. Fe ddylai *i* fod mewn cysylltiad â Berf orchymynol, Tyred i godi hwn; tyred lawr—i lawr.

iv. Rhoddi y naill yn lle y llall; Dywedodd iddynt, Dywedodd *wrthynt*—Rhoddodd iddynt, ddylai fod.

v. Gwneyd cofadwriaeth o hono—Cofadwriaeth *am* dano. Ddywedyd o *hono*, ddylai fod.

vi. Rhoddi *mewn* lle y dylai *yn* fod, —Rhodiaf mewn perffaithrwydd fy nghalon, o fewn fy nhŷ—*yn* mherffeithrwydd fy nghalon, &c., ddylai fod. Yn y gwrthwyneb—*yn* mheryglon llifddyfroedd, *yn* mheryglon lladron, &c. *Mewn* peryglon llifddyfroedd, &c., ddylai fod. Y mae gan *yn* gyfeiriad mwy uniongyrchol nag sy gan *mewn*.

vii. Rhoddi *o ac i* yn lle *neu*; megys, Bwriedir i'r gwaith ddyfod allan mewn o bump i chwech o ranau. Pump *neu* chwech, ddylai fod; canys nid oes gwagle rhwng pump a chwech.

**DARLLENIAETH.**—Darllener yn glir, yn groyw, ac yn ddigon uchel i'r holl gynulleidfa glywed. Cyn y gellir darllen yn groyw y mae yn rhaid agor y genau yn briodol, fel y caffo y llais le clir i ddyfod allan: peidier er dim a gridillio y llais drwy y dannedd; ond rhodder, meddwn eto, ffordd rydd iddo. Hefyd y mae yn ofynol, er cael darlleniad clir, seinio pob llythyren yn glir ac yn groyw, a rhoddi i bob llythyren yr un sain yn mhob man, ond yr eithriaid a nodir eto.

ACEN.—Dylid gofalu, wrth ddarllen, am sefyllfa briodol yr acen. Y mae deddf aceniaeth yn ddigon syml, ac yn haddod iawn i'w chadw yn ein hiaith ni. Mewn geiriau lluwaws-sill mae yr acen i fod ar y sill olaf ond un, ac yna llithro yn ol yn naturiol bob yn ail sill; felly, ar ol gwybod ar ba sill i ddechreu, fe ddyds natur sut i fyned yn mlaen. Fel hyn.—*ys-grif*, dyna yr acen ar *ys*; *ys-grif-en*, dyna yr acen ar *grif*; *ys-grif-en-ed*, dyna yr acen ar *ys ac en*; *ys-grif-en-ed-ig*, dyna yr acen ar *grif ac ed*. Yr eithriad i'r rheol uchod, yw yr holl eiriau sydd ag *h* yn y sill olaf o honynt, megys *trugarhau*, ac yn ol bob yn eilsill fel hyn—*tru-gar-hau*, *awr-hon*. Fe fydd rhai yn dra beius yn ceisio gwrthio yr *h* allan trwy ddarllen y gair—“yr awron,” gan roddi yr acen ar *aur*, ond cofier fe ddyliid seinio pob gair y bydd *h* yn y sill olaf fel pe byddai yn ddau air. Yr un fath y dylid darllen y gair wedi ei ysgrifenu yn *aurhon* a phie byddai wedi caei ei ysgrifenu yn *aur hon*.

PWYSLAIS.—Yr unig reol i bwysleisio yw natur. Dylid darllen fel y byddis yn siarad. Anfynech y clywir gwall pwyslais yn ymddiddan y fam a'i phlant ar yr aelwyd gartref, er y gallant fod yn hollol anwybodus o reoliau darlennyddiaeth. Bydd y piant yn gallu pwysleisio mor fuan ag y dysgant siarad. A dyma i'r darlennydd ddigon o reoli am byth ar y pwnc hwn : *Pwysleisiuoch wrth ddarllen yn union fel y byddwch yn pwysleisio wrth ymddiddan ar yr aelwyd gartref*. Dylai hyn fod yn ddigon, ond y mae y dull cyffredin o ddarllen yn profi nad yw. Y mae genym lawer o le i wella yn y cyfeiriad yma. Y bai mawr yw, defnyddio rhyw hen undoniaeth farw, alarus ag sydd yn boenus iawn i glustiau y rhai fyddant yn gorfod gwrando. Y mae rhai yn credu mai mewn rhyw don felly y dylid darllen Gair Duw. Gwir y dylid darllen rhanau o'r Beibl yn alarus, ond dylid darllen rhanau o hono yn wahanol, fel y cawn sylwi eto. Fe ddylai y pwyslais fod weithiau ar ran o air, sef y blaendod, pan bydd y cadarnhaol a'r nac-aol yn gyferbyniol, megys, doethion ac annoethion hefyd. Pryd arall fe fydd y pwyslais ar y prif air, neu eiriau, yn yr ymadrodd; megys, Yr hwn sydd

yn *gofyn*, sydd yn *derbyn*; yr hwn sydd yn *ceisio* sydd yn *cael*, ac i'r hwn sydd yn *curo* yr *agorir*, yma, *gofyn* a *derbyn*, *ceisio* a *chael*, *curo* ac *agorir*, ynt y pwysig eiriau.—Y mae rhai ymadroddion oll inor bwysig, fel ag y mae yn anhawdd gwybod ar ba air y dylid rhoddi mwyafr o bwys: megys, *Mawr yw yr Arglwydd*, a *chanmoladwy iawn*. Cofier mai po mwyaf pwysig y byddo ymadrodd mai arafaf oll y dylid ei ddarllen, canys y mae un o ddeddfau sefydlog natur yn dywedyd, nas gellir uno cyflymdra a nerth. Pa hwyaf y byddo y trosol mwyafr oll o bwysau a godir âg ef, ond po fyraf y bo cyflymaf oll y codir âg ef, os codir hefyd. Felly am ddarllenid; nid oes dim modd darllen yn gyflym a darllen yn bwysig ar unwaith. “Y mae yr hyn a enillir mewn cyflymder yn cael ei golli mewn nerth.”

Y GORPHWYSIADAU.—Amcan y gorphwysiadau ydyw rhoddi cystle i'r darlennydd i gael ei anadl. Clywsom am-bell ddarllenwr ieuange yn myned yn mlaen nes colli ei wynt, ac wedi cymeryd ei anadl yn myned yn mlaen eilwaith nes ei golli, ac felly o hyd. Y mae darllen felly yn boenus iawn i'r darllenwr, ac yn ddiiflas ddigon i'r gwrandawydd. Rhaid cael gorphwysiadau wrth ddarllen, a'r ffordd oraf yw eu cymeryd yn eu lleoedd priodol. Y mae y gelfyddyd o ddarllen, ond ei harfer yn naturiol, yn caniatáu digon o amser i'r darlennydd i gael ei anadl. Y mae darllen cywir mor ddiboen ag y siarada dau gyfaill ar y ffordd. Fydd nac byth yn blino wrth siarad felly, nac mewn perygl o golli ei wynt. Dylid darllen yn yr un modd yn gywir. Dylid defnyddio y gorphwysfâu yr un modd wrth ddarllen ac wrth ymadroddi mewn ymdddanion. Ni wii i'r darlennydd ddywedyd mai methu defnyddio y gorphwysfâu y mae wrth ymddiddan; yr un peirianau sydd yn gwneyd y ddau waith. Un gwaith a ddiylasai ddweyd,—yr un peth yn union mewn egwyddor yw darllen ag yw ymddiddan, mor bell ag y mae perthynas rhwng y ffaith a'r peirianau llafar. Y gwahaniaeth yn unig yw bod y llygad hefyd ar waith wrth ddarllen. Nis gallwn roddi gwell cyngor ar bwnc y gorphwysfâu nag anog y darlennydd i

gymeryd ei ddull o ymddiddan yn rheol. Dichon y gofynir yma, i ba beth y mae yr atalnodau yn dda, os nad i gyfarwyddo y darlennydd? Ie, i gyfarwyddo y darlennydd i ddeall yr hyn a fyddo yn ei ddarllen, rhag iddo gymysgu y brawddegau. Y mae yn hawdd profi na waeth heb yr atalnodau na'u bod, os bydd y darlennydd yn deall ei bwnc, canys nid yw yr ymddiddan wedi ei atalnodi, ac eto fe fydd plant, mor fuan ag y dysgant barablu, yn defnyddio y gorphwysiadau yn gywir. Sylwer ar yr ymddiddan canlynol rhwng y tad a'i fab William:—

*Y Tad.*—Pa bryd y daethost gartref neithiwr

*William.*—Deg o'r gloch

*Y Tad.*—Lle buost ti mor hwyr

*William.*—Yn helpu Huw Parri a Jack Edwards i gario Dafydd Jones Tyllwyd gartra

*Y Tad.*—Beth oedd arno fo

*William.*—Y ceffyla redodd a chafodd i dafu i lawr a chiciwyd o yn i goes gan y ceffyl blaen

*Y Tad.*—Ddaru o dori rhyw asgwrn tybed a ddaeth doctor yno

*William.*—Wn i ddim ond roedd i goes o wedi chwyddo yn arw

*Y Tad.*—Rhaid i mi fund i welad o dyn caredig ydi Dafydd.

Dyna ymddiddan heb yr un atalnod ynddo, ac er hyny fe gadwyd y gorphwysfâau yn y modd cywiraf, ac er fod yna wallau mewn llythyreniaeth a chys-trawiaeth, nid oes yna yr un gwall yn y gorphwysfâau. Yn awr pa rwystr sydd i unrhyw dad a mab ddarllen yr ymddiddan uchod yr un modd, os byddant yn ei ddeall? Os na fyddant yn ei ddeall, bydded iddynt ofyn i ryw gymydog mwy deallus roddi yr atalnodau i lawr, canys y mae yna le i bob un o honnynt.

**GOSLEF.**—Goslef yw y dôn a arferir wrth ddarllen, i ddangos gwahanol deimladau y galon; megys, ag mai dyben y pwyslais yw gosod allan y *synwyr* yn y modd goreu, dyben goslef

yw gosod allan y *teimlad* yn y modd goreu. Y mae darllenydd yn agored i dri o feiau pwysig mewn perthynas i oslef. Un ydyw ei defnyddio yn y lleoedd na ddylai hi fod. Ni ddylai un fath o dôn fod wrth ddarllen ymadroddion ymresymiadol, neu fleithiau yn dwyn perthynas â'r deall yn unig. Beth a allai fod yn fwy anmhrifodol na chlywed dyn yn darllen Exod. xxvi., neu eu cyffelyb, gyda rhyw dôn neillduol o ba natur bynag y byddo y dôn. Meddyl-iwn eto am ryw gangen o rifyddiaeth, megys testyn pregeth, onid gwawddio synwyr cyffredin y byddai pregethwr pan yn dywedyd fod geiriau ei destyn yn y nawfed bennod o'r Efengyl yn ol Saint Ioan a'r chweched adnod, &c., gyda rhyw fath o dôn alarus neu lawen.—Diffyg arall perthynol i oslef yw peidio a'i defnyddio yn y lleoedd y dylai hi fod, megys yn y caniadau llawen fel eiddo Solomon; neu y galarnadau, fel eiddo Jeremiah, a phob math arall o farddoniaeth cyffredin, oddigerth hanesgan. Y mae darllen cyfansoddiadau cynhyrtus mewn llais ymresymiadol yn niweidio y cyfryw gyfansoddiadau.—Diffyg arall yw rhoddi cam oslef, sef defnyddio yr un fath dôn yn mhcb man, neu roddi tôn alarus lle y dylai tôn lawen fod, neu y gwrthwyneb. Dylid sylwi hefyd yma ar ddeddf cyflymder ac arafwch, yr hon y sylwasom arni yn ei pherthynas â phwyslais. Cofier mai *dwys* a thrwm yw galar, am hyny y mae galarnadau i'w darllen yn *araf iawn*. Peth *hoiwo* a *bywiog* yw llawenydd, am hyny nid oes dim modd darllen cyfansoddiad llawen braidd yn rhy gyftym.—Gan mai mewn goslef y mae y diffyg mwyaf mewn darlleniaeth, cawn nodi yn mhellach y gwahanol fathau mwyaf cyffredin o don-leisiau. Fe ddylid darllen rhai pethau gyda thôn ledff, isel, megys araeth Juda yn Genesis xlv. 18—34: eto 1 Sam. xxvi. 7—12. Yn y gwrthwyneb yn hollol y dylid darllen 1 Sam. iv. 9. Y mae gwroldeb i fod yma. Gellir nodi yn mhellach enghraifftiau chwaganegol, megys *Digofaint* â llais cryf a gwresog: O na byddai genyf gleddyf yn fy llaw; canys yn awr y'th laddwn, Num. xxii. 29. *Llawenydd*, â llais bywiog, eglur, a

pheraidd : Nac ofnweh, canys wele yr wyf fi yn mynegi i chwi newyddion da o lawenydd mawr, Luc ii. 10—14. *Tristwech* â llais galarus : O fy mab Absalom ; fy mab, fy mab Absalom : o na buaswn farw drosot ti, Absalom fy mab, fy mab, 2 Sam. xviii. 33. *Ofn* â llais liesg a chrynedig : Dy lais a glywais yn yr ardd, a mi a ofnais, o blegyd noeth oeddwn ac a ymguddlais, Gen. iii. 10. *Dewrder*, â llais uchel a gwrol : Pwy a'n gwahana ni oddiwrth gariad Crist? Rhuf. viii. 35—39. *Cariad* â llais mwyn a melus : Mor deg ydwyf, ac mor hawddgar, fy nghariad a m hyfrydweh, Can. vii. 6.

**DRINGRADDAU.**—Fe fydd mewn ambell gyfansoddiad rhyddieithol a barddonol, fath ar ddringradd, a fydd yn galw am ddringradd yn y llais wrth ddarllen. Yn y fath amgylchiad fe ddylai y darlennydd ddechreu yn ddiagon isel, fel y byddo ganddo ddiagon o nerth erbyn cyraedd y pen. Dyma rai engreiffiau o ddringraddau,—

“Canys y mae yn ddiogel genyf, na all nac angau, nac einioes, nac angylicion, na thywysogaethau, na meddianau, na phethau presenol, na phethau i ddyfod, nac uchder, na dýfnder, nac un creadur arall, ein gwahanu ni oddiwrth gariad Duw, yr hwn sydd yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.”

“Chwanegweh at eich ffydd, rinwedd ; ac at rinwedd, wybodaeth ; ac at wybodaeth, gymedrollder ; ac at gymedrollder, amynedd ; ac at amynedd, dduwioldeb ; ac at dduwioldeb, garedigrwydd brawdol ; ac at garedigrwydd brawdol, gariad.”

Gwasanaetha “Gweddi yr Orsedd” hefyd yn engrafft,—

Dyro, Dduw, dy nawdd ; ac yn dy nawdd, nerth,  
Ac yn nerth, deall ; ac yn neall, gwybod ;  
Ac yn ngwybod, gwybod y cyfiawn ;  
Ac yn ngwybod y cyfiawn, ei garu ;  
Ac o'i garu, caru pob hanfod ;  
Ac o garu pob hanfod, caru Duw ;  
Duw a phob daioni.

**YSGRIFENU.**—Wrth ysgrifenu yr ydym yn eich taer gymhell i fod yn hollol rydd—yn rhydd yn ystyr helaeth-

af y gair. Yn rhydd oddiwrth arddulliau ysgrifenwyr ereill, a meddyliau meddylwyr ereill. Byddwch eich hunain, a pheidiwch a cheisio bod yn debyg i neb arall. Mae pob dyn yn gweld a'i lygaid ei hun, neu ni wel o gwbl. Felly, wrth ysgrifenu, dilynwch eich tueddiadau eich hun, a rhoddwch ffurf i'ch meddyliau eich hun. Os na fydd genych ddim, gwell i chwi fod yn gardotyn gonest nag yn lleidr parchus. Talwch sylw manwl i ohebiaeth llythyr-ol, gan nad oes dim yn dangos amddifadrwydd chwaeth a barn yn amlycach na llythyr didrefn. Talwch sylw i'r awgrymiadau canlynol :—

**DODWCH LYTHYRNOD** (*stamp*) ar eich *envelope*, ar ei gongl uchaf, yr ochr ddeheu.

**YSGRIFENWCH Y CYFEIRIAD** yn eglur ; bydd i hyn arbed traferth i'r llythyr-gludydd, a rhyddhau ei ffordd i gyraedd pen ei daith yn ddiogel a phrydlon.

**UWCH BEN EICH LLYTHYR**, yn y gongl ddeheu, rhoddwch eich cyfeiriad yn llawn, gyda'r dydd o'r mis o dan hyn ; nac anghofiwch hyn, pe byddai i chwi ysgrifenu at eich cyfaiil mwyaf adnabyddus, dair neu bedair gwaith yn y dydd.

**DIWEDWCH YR HYN FO ARNOCH EISIAU EI DDWEYD** yn eich llythyr mor eglur a phe baech yn siarad : dyna y ffordd oreu. Na soniwch am yr un peth lawer gwaith drosodd ; diweddwch yn llwyr ag un peth cyn dechreu ar beth arall.

**ARWYDDWCH EICH ENW** yn dra eglur (a gochelir llawer o gangymeriadau, yn enwedig pan yn ysgrifenu at ddiethriaid), ac heb lawer o *guasars*, gan nad yw y cyfryw bethau yn ychwanegu dim at brydfwrthwch llaw-ysgrifen. Gwylwch rhagdynt.

**NA CHROESWCH EICH LLYTHYRAU.** Yn sicr y mae papur yn ddiagon rhad yn bresenol i'ch galluogi i ddefnyddio haner dalen ychwanegol os bydd un yn rhy fach. (Y mae y boneddigesau yn dueddol iawn i'r bai hwn.)

**OS BYDDWCH YN YSGRIFENU AT DDIETHR-BDDYN** am wybodaeth, neu i ofyn rhyw ffafr, cofiwch anfon *envelope* a'ch cyfeiriad a *stamp* arno, modd y gallo anfon yn ol yn ddiadraftherth ac yn ddigost iddo ei hun.

Os YSGRIFENWR GWEDDOL ydych, defnyddiwch yr inc, y papyr, a'r *steel pens* gorau, gan yr edrycha ysgrifen wael yn well felly nac ar bapyr gwael.

DYLAI Y PAPYR y byddwch yn ysgrifenu arno fod yn lân, ac wedi ei blygu yn ofalus.

NI DDYLAI FOD YSTAENIAU ar yr *envelope*; y mae hyny yn arwydd sicr o aſterwch yr anfonydd.

DYLID GOFALU wrth ysgrifennu at ber-sonau anrhydeddus am roddi iddynt y teitlau priodol i'w hurddas.

YSGRIFENU I'R WASG.—Ffafr fawr a Golygyddion ac Argraffwyr, fyddai i'r rhai a ysgrifenant i'r Wasg dalu sylw i'r rheolau canlynol: 1. Ysgrifenu ag inc du, ar bapyr gwyn, wedi ei linellu yn frâs. 2. Na fydded i'r dalenau fod yn fwy eu maintiol na'r *note paper* cyffredin. 3. Na ysgrifenu ond ar un wyneb o'r papyr. 4. Gadewch le gwyn o amgylch i'r ddalen. 5. Rhifnodwch eich tudalenau. 6. Ysgrifenu mewn llaw glir, eglur, heb ofalu llawer am brydferthwch. 7. Nac arferwch dalfyriadau ag nad ydynt i ymddangos felly mewn argraff. 8. Atalnodwch yr ysgrif fel y bydd i gael ei hargraffu. 9. Am lythyrenau italaidd dodwch un linell o dan y gair; mân brif-lythyrenau, dwy; prif-lythyrenau, tair. 10. Nac ysgrifenu rhwng y llinellau heb y nod  $\wedge$  i ddangos pa le y mae i fod. 11. Cymerwch ofal neillduol gyda phob llythyren mewn enwau priodol. 12. Adolygwch bob gair, i fod yn sicr nad oes yr un yn aneglur. 13. Rhoddwch gyfarwyddiadau i'r argraffydd uwch ben y tudalen cyntaf. 14. Nac ysgrifenu lythyr cyfrinachol at y Golygydd ar yr un papyr ag y byddo eich hysgrif wedi ei hysgrifenu arno.

## OYFARWYDDIADAU I YSGRIF- ENU AT, AC ANEROH PER- SONAU URDDASOL:—

### Y TEULU BRENHINOL.

*Y Frenhines*.—Madam; Most Gracious Sovereign: May it please your Majesty.

To the Queen's Most Excellent Majesty.

*Y Brenin*.—Sire neu Sir; Most Gracious Sovereign: May it please your Majesty.

To the King's Most Excellent Majesty.

*Meibion a merched, Brodyr a chwiorydd, Penaduriaid*.—Sir, neu Madam: May it please your Royal Highness.

To His Royal Highness the Prince of Wales.

To Her Royal Highness the Princess Helena Augusta Victoria.

*Canghennau eraill o'r Teulu Brenhinol*.—Sir, neu Madam: May it please your Highness.

To His Highness the Duke of Cambridge; neu, To Her Highness the Princess Mary Adelaide of Cambridge.

### Y BENDEFIGAETH.

*Duc neu Dduges*.—My Lord, neu My Lady: May it please your Grace.

To his Grace the Duke of —; neu, To her Grace the Duchess of —.

*Ardalydd neu Ardalyddes*.—My Lord, neu My Lady; May it please your Lordship; neu, May it please your Ladyship.

To the Most Noble the Marquis (neu Marchioness) of —.

*Iarll neu Iarllles*.—Yr un fath. To the Right Honourable the Earl (neu Countess) of —.

*Isiarll neu Isiarllles*.—My Lord, neu My Lady: May it please your Lordship; neu, May it please your Ladyship.

To the Right Honourable Viscount (neu Viscountess) —.

*Baron neu Barwnes*.—Yr un fath. To the Right Honourable the Baron (neu Baroness) —.

Anerchir gweddw pendefig yn yr un dull, gydag ychwanegiad o'r gair *Dowager* yn yr arysgrifen.

To the Right Honourable the Dowager Countess —.

Rhoddir y teitl *Lord* a *Right Honourable* i feibion Dugiaid a Marquises, a meibion hynaf Iarllod; a rhoddir y teitlau o *Lady* a *Right Honourable* i'r holl ferched.

Anerchir meibion ieuangaf Iarllod; a meibion a merched Isiarllod a Barwniaid, yn *Honourable*.



**AELODAU SWYDDOGOL Y LLYWODRAETH.**

*Aelodau o Gyfringyngor Anrhydeddus ei Mawrhydi.*—Sir, neu My Lord; Right Honourable Sir, neu My Lord, fel y byddo yr achos yn galw.

To the Right Honourable —, Her Majesty's Principal Secretary of State for Foreign Affairs.

**TEYRNGENADON NEU LYWODRAETHWYR O DAN Y FRENHINES.**

Sir, neu My Lord, fel y byddo yr achos : May it please your Excellency.

To His Excellency the American Ambassador.

To his Excellency Marquis —, Lieutenant General, and General Governor of that part of the United Kingdom called Ireland.

**Y BARNWYR.**

My Lord : May it please your Lordship.

To the Right Honourable Sir —, Lord Chief Justice of England.

*Arglwydd Faer Llundain, York, Dublin, ac Arglwydd Uchelfaer Edinburgh, tra mewn swydd.*—Yr un fath.

My Lord : May it please your Lordship.

To the Right Honourable —, Lord Mayor of London. To the Right Honourable Sir —, Lord Provost of Edinburgh.

Anerchir Uchel-faer pob tref arall yn Ysgotland fel *Honourable*.

Gelwir Maerod pob corfforaeth (oddigerth y rhai a nodwyd), Siryddion, Henaduriaid, a Chofrestrydd Llundain yn *Right Worshipful*; a Henaduriaid a Chofrestwyr corfforaethau eraill, ac Ynadon Heddwch, yn *Worshipful*.

**Y SENEDD.**

*Ty yr Arglwyddi.*—My Lords : May it please your Lordships. To the Right Honourable the Lords Spiritual and Temporal in Parliament assembled.

*Ty y Cyffredin.*—May it Please your Honourable House. To the Honourable the Commons of the United Kingdom of Great Britain and Ireland.

*Llefarydd y Ty.*—Sir, neu Mr. Speaker. To the Right Honourable —, Speaker of the House of Commons. *Aelod o Dy'r Cyffredin heb deill.*—Sir. To —, Esq., M.P.

**OFFEIRIAID A GWEINIDOGION YR EFENGYL.**

*Archegob.*—My Lord : May it please your Grace.

To his Grace the Archbishop of Canterbury; neu, To the Most Reverend Father in God, —, Lord Archbishop of Canterbury.

*Esgob.*—My Lord : My it please your Lordship.

To the Right Reverend Father in God, —, Lord Bishop of Bangor.

*Deon.*—My Lord : May it please your Lordship.

To the Rev. Dr. — Dean of St. Asaph.

Anerchir Archdeaconiaid a Changellwyr yr un modd.

*Offeiriad eraill a Gweinidogion yr Efenngyl.*—Sir, Reverend Sir.

To the Rev. Dr. —, Bala.

To the Rev. —, — Street, Carnarvon; neu, To the Rev. Mr. —, &c.

**PETHAU DYDDOROL A BUDDIOL**

**ARWYDDOCAD ENWAU.**

Aaron, *Hebreaidd*, mynydd.

Abel, *Hebreaidd*, gwagedd.

Abraham, *Hebreaidd*, tad llaweroedd.

Adda, *Hebreaidd*, pridd coch.

Adolphus, *Sacsonaidd*, dedwyddwch a chynorthwy.

Albert, *Sacsonaidd*, disglaer.

Alexander, *Groegaidd*, cynorthwyr dyn.

Alfred, *Sacsonaidd*, heddychol. [io.

Ambrose, *Groegaidd*, anfarwol.

Amos, *Hebreaidd*, baich.

Andrew, *Groegaidd*, gwrol.

Anthony, *Lladin*, llwyddianus.

Archibald, *Germanaidd*, ardremiwr hyf.

Arnold, *Germanaidd*, cynhalydd anrhydedd.

Arthur, *Brytanaidd*, gŵr nerthol.

Augustus } *Lladin*, hybarch, mawr-  
Augustin } eddog.

- Baldwin, *Germanaidd*, enillwr hyf.  
 Bardulph, *Germanaidd*, cynorthwydd galluog.  
 Barnaby, *Hebreaidd*, mab proffwyd.  
 Bartholomeus, *Hebreaidd*, mab i'r hwn a wnaeth i'r dyfroedd godi.  
 Beaumont, *Ffrenig*, bryn prydfferth.  
 Bede, *Sacsonaidd*, gweddi.  
 Benjamin, *Hebreaidd*, mab deheulaw.  
 Bennet, *Lladin*, bendigedig.  
 Bernard, *Germanaidd*, calon arth.  
 Bertram, *Germanaidd*, tég, enwog.  
 Boniface, *Lladin*, gwneuthurwr daioni.  
 Brian, *Ffrenig*, yn meddu llais taranol.  
 Cadwaladr, *Brytanaidd*, gwrol mewn rhyfel.  
 Caesar, *Lladin*, addurnedig â gwallt.  
 Caleb, *Hebreaidd*, ci.  
 Cecil, *Lladin*, gwan ei olwg.  
 Charles, *Germanaidd*, yspryd gwrol.  
 Christopher, *Groegaidd*, dwyn Crist.  
 Clement, *Lladin*, addfwyn ei dymor.  
 Conrad, *Germanaidd*, cynghorwr galluog.  
 Constantine, *Lladin*, penderfynol.  
 Crispin, *Lladin*, gwallt modrwyog.  
 Cuthbert, *Sacsonaidd*, adnabyddus.  
 Daniel, *Hebreaidd*, Duw sydd farnwr.  
 Dafydd, *Hebreaidd*, anwylyd.  
 Denis, *Groegaidd*, perthynol i ddau y gwin.  
 Dunstan, *Sacsonaidd*, dyrchafedig.  
 Edgar, *Sacsonaidd*, anrhydedd dedwydd.  
 Edmund, *Sacsonaidd*, heddwch dedwydd.  
 Edward, *Sacsonaidd*, ceidwad dedwydd.  
 Edwin, *Sacsonaidd*, conewrwr dedwydd.  
 Egbert, *Sacsonaidd*, byth-ddisglaer.  
 Elias, *Hebreaidd*, Duw yr Arglwydd.  
 Eliseus, *Hebreaidd*, iachawdwriaeth Duw.  
 Ephraim, *Hebreaidd*, ffirwthlon.  
 Erasmus, *Groegaidd*, cariadus, teilwng o gael ei garu.  
 Ernest, *Groegaidd*, difrifol.  
 Ivon neu Evan, *Brytanaidd*, yr un peth a John neu Ioan.  
 Everard, *Germanaidd*, un a gair da iddo.  
 Eugene, *Groegaidd*, un o hiliogaeth anrhydeddus.  
 Eustace, *Groegaidd*, cadarn.  
 Ezecial, *Hebreaidd*, Duw a gynal.  
 Felix, *Lladin*, dedwydd.  
 Ferdinand, *Germanaidd*, heddwch pur.  
 Francis, *Germanaidd*, rhydd.  
 Frederic, *Germanaidd*, heddwch llawn.  
 Gabriel, *Hebreaidd*, un cadarn Duw.  
 Geoffrey, *Germanaidd*, llawen.
- George, *Groegaidd*, amaethydd.  
 Gerard, *Sacsonaidd*, llawn hynawsedd.  
 Gideon, *Hebreaidd*, difrodwr.  
 Gilbert, *Sacsonaidd*, dysglaer fel aur.  
 Giles, *Groegaidd*, gafr techan.  
 Godard, *Germanaidd*, duwielfrydig.  
 Godrey, *Germanaidd*, heddwch Duw.  
 Godwin, *Germanaidd*, gorchfygwr yn Nuw.  
 Griffith neu Gruffydd, *Brytanaidd*, flyddiog.  
 Guy, *Ffrenig*, uchelwydd.  
 Hannibal, *Punic*, arglwydd grasol.  
 Harold, *Sacsonaidd*, gwron.  
 Hector, *Groegaidd*, amddiffynwr dewr.  
 Henry neu Harri, *Germanaidd*, arglwydd cyfoethog.  
 Herbert, *Germanaidd*, arglwydd eirian.  
 Hercules, *Groegaidd*, gogoniant Hera, neu Juno.  
 Hezeciah, *Hebreaidd*, glynu wrth yr Arglwydd.  
 Horatio, *Italaidd*, teilwng o sylw.  
 Howel, *Brytanaidd*, cyfan neu ddianaf.  
 Herbert, *Germanaidd*, lliw disglaer.  
 Hugh, *Isellmynaidd*, uchel, dyrchafedig.  
 Humphrey, *Germanaidd*, heddwch teuluaid.  
 Ingram, *Germanaidd*, purdeb angylaid.  
 Isaac, *Hebreaidd*, chwerthin.  
 Jacob, *Hebreaidd*, disodlwr.  
 James neu Jacques, twyll.  
 Joab, *Hebreaidd*, tadogaeth.  
 Job, *Hebreaidd*, un yn wyllo.  
 Joel, *Hebreaidd*, ymostwng.  
 John, *Hebreaidd*, gras Jehofah.  
 Jona, *Hebreaidd*, colomen.  
 Jonathan, *Hebreaidd*, rhodd yr Arglwydd.  
 Joscelin, *Germanaidd*, cyfiawn.  
 Joseph, *Hebreaidd*, cynydd.  
 Josias, *Hebreaidd*, tân yr Arglwydd.  
 Joshua, *Hebreaidd*, iachawdwr.  
 Lambert, *Sacsonaidd*, oen prydfferth.  
 Lancelot, *Ysphaenaidd*, picell fechan.  
 Laurance, *Lladin*, coronedig â llawryf.  
 Lazarus, *Hebreaidd*, digynorthwy.  
 Leonard, *Germanaidd*, llewaidd.  
 Leopold, *Germanaidd*, amddiffyn y bobl.  
 Lewis, *Ffrenig*, amddiffynwr y bobl.  
 Lionel, *Lladin*, llew ieuangc.  
 Llewelyn, *Brytanaidd*, llewaidd.  
 Lucuis, *Lladin*, disglaerwych.  
 Luke, *Groegaidd*, llwyn neu goedwig.  
 Mark, *Lladin*, morthwyl.  
 Martin, *Lladin*, milwrol.

Matthew, *Hebreaidd*, anrheg.  
 Maurice, *Lladin*, hanedig o ddyn du.  
 Meredith neu Meredydd, *Brytanaidd*,  
 rhuad y môr.  
 Michael, *Hebreaidd*, pwy fel Duw ?  
 Morgan, *Brytanaidd*, morwr.  
 Moses, *Hebreaidd*, tynwyd allan.  
 Nathaniel, *Hebreaidd*, rhodd Duw.  
 Neal, *Ffrenig*, tywyll.  
 Nicolas, *Groegaidd*, buddugoliaethus ar  
 y bobl.  
 Noel, *Ffrenig*, perthynol i enedigaeth.  
 Norman, *Ffrenig*, un wedi ei eni yn  
 Normandy.  
 Obadiah, *Hebreaidd*, gwas yr Arglwydd.  
 Oliver, *Lladin*, olewydden.  
 Orlando, *Italaidd*, cynghorwr y tir.  
 Osmund, *Sacsonaidd*, heddwch y tŷ.  
 Oswald, *Sacsonaidd*, rheolwr y tŷ.  
 Owen, *Brytanaidd*, o haniad anrhydeddus  
 Patrick, *Lladin*, pendefig.  
 Paul, *Lladin*, bychan.  
 Percival, *Ffrenig*, lle yn Ffrainge.  
 Peregrinè, *Lladin*, alltudol.  
 Peter neu Petr, *Groegaidd*, craig neu  
 gareg.  
 Philip, *Groegaidd*, hoffwr ceffylau.  
 Phineas, *Hebreaidd*, geneu o bres.  
 Ralph, talfyredig o Radolph, neu  
 Randal, neu Ranulph, *Sacsonaidd*, gwir  
 gynorthwy.  
 Raymund, *Germanaidd*, heddwch tawel.  
 Reuben, *Hebreaidd*, mab gweledigaeth.  
 Reynold, *Germanaidd*, carwr purdeb.  
 Richard, *Sacsonaidd*, nerthol.  
 Robert, *Germanaidd*, galluog mewn  
 cyngor.  
 Roger, *Germanaidd*, cynghorwr galluog.  
 Rowland, *Germanaidd*, cynghorwr ei  
 Rufus, *Lladin*, cochaidd. [wlad.  
 Solomon, *Hebreaidd*, heddychlon.  
 Samson, *Hebreaidd*, mab bychan.  
 Samuel, *Hebreaidd*, gwrandawwyd gan  
 Dduw.  
 Saul, *Hebreaidd*, gofynol.  
 Sebastian, *Groegaidd*, parchusol.  
 Simeon, *Hebreaidd*, un yn gwrando.  
 Stephen, *Groegaidd*, coron.  
 Swithin, *Sacsonaidd*, uchel.  
 Theobald, *Sacsonaidd*, gwrol dros y bobl  
 Theodore, *Groegaidd*, rhodd Duw.  
 Theodosius, *Groegaidd*, rhoddedig gan  
 Dduw.  
 Theophilus, *Groegaidd*, carwr Duw.  
 Thomas, *Hebreaidd*, gefeilliad.

Timothy, *Groegaidd*, un yn ofni Duw.  
 Toby, neu Tobias, *Hebreaidd*, daioni Duw  
 Valentine, *Lladin*, nerthol.  
 Vincent, *Lladin*, gorchfygu.  
 Vivian, *Lladin*, bywiol.  
 Walter *Germanaidd*, concweriwr.  
 Walwin, *Germanaidd*, concweriwr.  
 William, *Germanaidd*, amddiffynydd  
 llawer.  
 Zaccheus, *Syriac*, diniwaid.  
 Zachary, *Hebreaidd*, cofio yr Arglwydd.  
 Zebedeus, *Hebreaidd*, rhan helaeth.  
 Zedekiah, *Hebreaidd*, cyfiawnder Duw.

---

Adeline, *Germanaidd*, tywysoges.  
 Agatha, *Groegaidd*, daioni.  
 Agnes, *Germanaidd*, dihalog.  
 Alethea, *Groegaidd*, gwirionedd.  
 Althea, *Groegaidd*, erlynydd.  
 Alice, *Alicia*, *Germanaidd*, godidog,  
 urddasol.  
 Amy, *Amelia*, *Ffrenig*, anwylyd.  
 Anna, *Anne*, neu *Hannah*, *Hebreaidd*,  
 un drugarog.  
 Arabella, *Lladin*, allor brydferth.  
 Aureola, *Lladin*, fel aur.  
 Barbara, *Lladin*, estronol neu hynod.  
 Beatrice, *Lladin*, gwneyd yn ddedwydd.  
 Benedicta, *Lladin*, bendigaid.  
 Bernice, *Groegaidd*, dwyn buddugoliaeth  
 Bertha, *Groegaidd*, clodus.  
 Blanche, *Ffrenig*, tég.  
 Bona, *Lladin*, daionus.  
 Bridget, *Gwyddelig*, tywynu yn ddis-  
 glaer.  
 Cassandra, *Groegaidd*, diwygiwr dynion.  
 Catharine, *Groegaidd*, pur neu lân.  
 Charity, *Groegaidd*, cariad, haelioni.  
 Charlotte, *Ffrenig*, pendefigaidd.  
 Caroline, *benywaidd* o *Carolus*, y *Lladin*  
 o *Charles*, yspryd pendefigaidd.  
 Chloe, *Groegaidd*, llysieuyn gwyrdd.  
 Christiana, *Groegaidd*, perthynol i Grist.  
 Cecilia, *Lladin*, oddiwrth Cecil.  
 Cicely, *Uygriad* o *Cecilia*.  
 Clara, *Lladin*, clir neu ddisglaer.  
 Constance, *Lladin*, ffyddlon.  
 Deborah, *Hebreaidd*, gwenwynen.  
 Diana, *Groegaidd*, merch Jupiter.  
 Dorcas, *Groegaidd*, ewig wyllt.  
 Dorothy, *Groegaidd*, rhodd Duw.  
 Edith, *Sacsonaidd*, dedwyddwch.  
 Eleanor, *Sacsonaidd*, ffrwythlawn.

Eliza, Elizabeth, *Hebreaidd*, llw Duw.  
 Emily, *Uygrïad o Amelia*.  
 Emma, *Germanaidd*, mamaeth.  
 Esther, Hesther, *Hebreaidd*, dirgelwch.  
 Eve neu Efa, *Hebreaidd*, bywyd.  
 Eunice, *Groegaidd*, buddugoliaeth gyf-  
 iawn.  
 Eudoia, *Groegaidd*, llwyddianus yn y  
 ffordd.  
 Frances, *Germanaidd*, rhydd.  
 Gertrude, *Germanaidd*, gwirionedd.  
 Grace, *Lladin*, ffafr.  
 Hagar, *Hebreaidd*, estron.  
 Helena, *Groegaidd*, deniadol.  
 Jane, o *Ioan*; neu,  
 Janne, *ŷ benywaidd o John*.  
 Janet, *Jennetta*, Jane fach.  
 Joyce, *Fyrcngig*, dymunol.  
 Isabella, *Yspanaidd*, Eliza dêg.  
 Judith, *Hebreaidd*, molianus.  
 Julia, Juliana, *benywaidd o Julius*.  
 Letitia, *Lladin*, gorfoledd llawenydd.  
 Lois, *Groegaidd*, gwell.  
 Lucretia, *Lladin*, boneddiges Rufeinig  
 ddihalog.  
 Lucy, *Lladin*, *benywaidd o Lucius*.  
 Lydia, *Groegaidd*, hanedig o Lud.  
 Mabel, *Lladin*, cariadus.  
 Magdaline, Maudlin, *Syriacg*, mawredd-  
 og.  
 Margaret, *Germanaidd*, perl.  
 Martha, *Hebreaidd*, chwervder.  
 Mary, *Hebreaidd*, chwerv.  
 Maud, Matilda, *Groegaidd*, boneddiges  
 anrhydeddus.  
 Mercy, *Saesoneg*, tosturi.  
 Mildred, *Sacsonaidd*, tirion leferydd.  
 Nêst, *Brytanaidd*, yr un peth ag *Agnes*.  
 Nicola, *Groegaidd*, *benywaidd o Nicolas*.  
 Olympia, *Groegaidd*, nefol.  
 Orabilis, *Lladin*, erfyngar.  
 Parnel, neu Petronilla, Peter fach.  
 Patience, *Lladin*, goddef yn amyneddgar  
 Paulina, *Lladin*, *benywaidd o Paulinus*  
 Penelope, *Groegaidd*, twrci.  
 Perris, *Groegaidd*, dinystriol.  
 Philadelphia, *Groegaidd*, cariad brawdol  
 Philippa, *Groegaidd*, *benywaidd o Philip*  
 Phoebe, *Groegaidd*, goleuni bywyd.  
 Phyllis, *Groegaidd*, cangen iraidd.  
 Priscilla, *Lladin*, oedranus.  
 Prudence, *Lladin*, pwyll.  
 Psyche, *Groegaidd*, yr enaid.  
 Rachel, *Hebreaidd*, oen.  
 Rebecca, *Hebreaidd*, pasgedig.

Rhode, *Groegaidd*, rhosyn.  
 Rosamund, *Sacsonaidd*, rhosyn heddwch  
 Rosa, *Lladin*, rhosyn.  
 Rosabella, *Italaidd*, rhosyn têg.  
 Rosecleer, *Seisonig*, rhosyn têg.  
 Ruth, *Hebreaidd*, crynedig.  
 Sabina, *Lladin*, hanedig o'r Sabinaid.  
 Salome, *Hebreaidd*, perifaith.  
 Sapphira, *Groegaidd*, fel maen saphir.  
 Sarah, *Hebreaidd*, tywysoges.  
 Sibylla, *Groegaidd*, cyngor Duw.  
 Sophia, *Groegaidd*, doethineb.  
 Sophronia, *Groegaidd*, meddwl cryf.  
 Susan, Susanna, *Hebreaidd*, lili.  
 Tabitha, *Syriacg*, ewig.  
 Theodosia, *Groegaidd*, rhoddedig gan  
 Dduw.  
 Tryphosa, *Groegaidd*, melusbêr.  
 Tryphena, *Groegaidd*, tyner.  
 Vida, *Erse*, *benywaidd o David*.  
 Ursula, *Lladin*, arthes.  
 Walburg, *Sacsonaidd*, rhadlon.  
 Winifred, *Sacsonaidd*, enill heddwch.  
 Zenobia, *Groegaidd*, bywyd Jupiter.

### MILLTIR Y GWAHANOL GENHEDLOEDD.

	Llatheni	Seisonig.
Arabaidd ...	...	2148
Bohemaidd ...	...	10137
Brabant ...	...	6082
Chiniaidd ...	...	682
Danaidd ...	...	8244
Fflemaidd ...	...	6869
Ffrcngig ...	...	4860
Eto (Morwrol) ...	...	6075
Eto (Gyfreithlon) ...	...	4262
Germanaidd (Daecaryddol) ...	...	8100
Eto (milltir hir) ...	...	10126
Eto (milltir fyr) ...	...	6859
Gwyddelig ...	...	3038
Hanburgh ...	...	6244
Hanoveraidd ...	...	11559
Hesse ...	...	10547
Dutch ...	...	6395
Hungaraidd ...	...	9113
Italaidd ...	...	2025
Lithuarian ...	...	9784
Oldenburg ...	...	10820
Poland (byr) ...	...	6093
Eto (hir) ...	...	8108
Portugal ...	...	6765
Prussiaidd ...	...	8461

	Llatheni	Seisonig.
Rhufeinig (hen) ...	...	1600
Eto (diweddar) ...	...	2035
Rwssiaidd ...	...	1167
Sacsonaidd ...	...	9905
Seisonig ...	...	1760
Eto (daearyddol) ...	...	2025
Silesiaidd ...	...	7083
Swedaidd ...	...	11704
Swissaidd ...	...	9166
Tyreaidd ...	...	1821
Westphalaidd ...	...	12155
Ysgotaidd ...	...	1984
Ysopaenaidd (gyfreithlon)...	...	4630
Eto (cyffredin) ...	...	7416

**FFRWYTHLONDEB ANFERTH.—**

Gall un planhigyn gynyrcu :—	Rhif y Blodeu.	Had ar Bob Blo-deun.	Cyfanrif.
Penfelen ( <i>Groundsel</i> )	130	× 50	= 6,500
Chickweed...	500	× 10	= 5,000
Shepherd's Purse ...	150	× 30	= 4,500

**PYSGOTA AO YMDROOHL.**

**PYSGOTA.**—Mae traethodau ar bysgota yn gyffredin yn dechreu gyda desgrifiad manwl a maith o'r gwahanol fathau o wiail pysgota, a'r ffordd i'w gwneyd, yn ogystal a'r taclau angenrheidiol ar y pysgotwr. Ond y ffordd oreu i bob un yn bwriadu myned i bysgota ydyw peidio byth meddwl am wneyd eu gwail, *line*, na'u taclau. Gallant gael pob peth angenrheidiol at y gorchwyl lawn mor rhad a llawer yn well a phrydferthach na'r rhai a allant wneyd eu hunain, yn y siopau lle y gwerthir y cyfryw bethau. Gan gymeryd yn ganiataol y bydd i'r nifer luosocaf o'n darllenwyr brynu pob peth y bydd arnynt angen am danynt, bydd i ni roddi iddynt ychydig o gyfarwyddiadau cyffredinol pa fodd i ymbarotoi gogyfer a'r difyrwch iachus a dymunol hwn. Bydd i ni ddechreu gydag ychydig eiriau ar bysgota gydag abwyd, am y pysgod a'fon llai adnabyddus, megis y *roach*, *dace*, *bream*, &c.; ac yna dywedwn ychydig am bysgota *trout* a *salmon* gydag abwyd, ac hefyd ar *fly-fishing*.

**ABWYD, GWAILL PYSGOTA, A TACKLE.**—At bysgota y math yma o bysgod rhaid i'r pysgotwr feddu un wialen dda,

gyda *reel* yn cynwys o ddeg ar hugain i ddeugain llath o *hair-line* wedi ei gwneyd yn dda, hefyd *line* yn cynwys cwpl o latheni o *gut*, ar yr hwn, yn gysylltiol a *line* y llysŵod, yr haid dodi y bach neu y bachau, a i'w bwyso gyda un neu ddwy o *shots* holltiedig, oddeutu wyth modfedd oddiwrth eu gilydd. Rhaid i'r bachau, wrth gwrs, fod yn gyfaddasol i faintioli y pysgod y bwriada y pysgotwr eu dâl, a'r *float* (peth i nofio y *line*) os defnyddia un, fod o faintioli cyfaddasol. Dylai y pysgotwr gario yr holl bethau hyn i'w ganlyn; ac hefyd, da fyddai iddo fyned ag ystôr fechan o honynt, rhag ofn iddo gollu rhai. Yr abwyd priodol at y *gudgeon*, yw llyngyren fach goch. At y *Roach*, cynrhon yw yr abwyd; ond defnyddir pâst gan rai gyda llwyddiant. Gwneir y pâst gyda blawd da wedi ei dylino yn does a i'w liwio â *vermillion*, fel ag i fod yn debyg i liw coch goleu y salmon. Gwna yr un abwyd y tro at y *dace* a'r *bream*, ond y mae cynronyn bychan yn dra chymeradwy ganddynt hwy. Llyngyren yw abwyd y *barbel* pan fyddo y dwfr y fudr; ond pan fyddo y tywydd yn glir, gellir eu cymerd yn hawdd gyda suet mutton a caws wedi eu gweithio yn nghyd. Yr abwyd goreu at y *carp* a'r *tench* yw cwpl o lyngyr daer. Y *Perch*, yr hwn geir mewn llynoedd yn gyffredin, a ellir ddenu gyda llyngyren goch o faintioli cyffredin.

**TROUT neu FRITHYLLOD.**—Ceir y pysgod yma yn gyffredin mewn afonydd cyflym, er y ceir pysgod haf mewn afonydd mwy ac arafach, yn ogystal ag yn y llynoedd mawr. Yn y *season*, y mae hwn yn bysgodyn rhagorol, ond pan allan o *season* y mae yn deneu a diwerth. Y mae yn dda iawn o Fehefin hyd yr Hydref. Yr abwyd goreu at y trout yw llyngyrod a'r pelcodyn (*minnow*). Y mae y brithylliaid yn anhawdd iawn eu dâl ar adegau neillduol, pan y byddo y dwfr a'r awyr mewn cyflwr neillduol. Er y gellir dâl brithylliaid unrhyw adeg, y mae dau gyflwr perthynol i'r dwfr, hollol groes i'w gilydd pryd y mae dâl brithylliaid â llyngyrod yn dra llwyddianus, h.y. ar lif, ar ol gwlaw, pan fyddo y dwfr yn fudr, ac yn nghanol yr haf pan fyddo y dwfr yn isel ac yn glir. Dyna'r ddwy adeg oreu.

WRTH BYSGOTA BRITHYLLIAID gydag abwyd dylai y tacl bob amser fod yn fain; nid oes angen am *float*; dylid rhoddi haelsen fechan neu ddwy, ehwech neu wyth modfedd uwchlaw y bach; a dylai y llyngyren fod o faintioli canolig. Lle y byddo y dwfr yn rhedeg yn gyflym, ac mewn cillfachau yn ymyl dwfr cryf, y mae y fath dacl, ond ei ddefnyddio yn iawn, yn llwyddianus yn aml; a phan fyddo digon o bysgod yn yr afon ac mewn cyflwr da, y diwrnod braidd yn gymylog, a'r gwynt yn chwythu o'r dehau neu y gorllewin, ar y pysgotwr y bydd y bai os dychwela oddiwrth yr afon heb bysgod.

Y SALMON.—Anhawdd pysgota Salmon heb fyned i lawer o drafferth a chost. Rhaid i'r wialen briodol i'w bysgota fod o ddeunaw i ugain troedfedd o hyd, a *reel* yn cynwys pedwar ugain o latheni o leiaf o *line* rawn gref. Yr abwyd goreu i salmon yw llyngyrod; weithiau dodir dwy neu dair o lyngyrod mawr ar y bach mawr, ac y mae yn aml yn llwyddianus. Grawn (*roe*) y salmon ei hun yw yr abwyd goraf o lawer iawn, ond gwa-herddir ei ddefnyddio am y rheswm yma.

FLY-FISHING.—Dyma y dull mwyaf difyrus o bysgota o lawer. Tynwch allan ychydig droedfeddi o'r *line* oddiar y *reel*, trochwch ei phen yn yr afon, a rhoddwch *jerk* gyflym, a byddwch yn alluog i dynu allan gymaint o'r *line* ag a fydd arnoch eisiau ar unwaith. Gochelwch adael i'r pysgodyn eich gweled; os gwna, bydd ymaith mewn moment. Wrth bysgota brithylliaid gellwch ddefnyddio tair neu bedair o blyf ar unwaith, ond wrth bysgota salmon ni ddylid defnyddio ond dwy, a'r rhai hyny bell-der da oddiwrth eu gilydd. Wrth dasu eich *line* gadewch i'r blyfen isaf ddisgyn ar y dwfr yn gyntaf, a gadewch iddi ddisgyn mor ysgafu ag y buasai y pryf naturiol yn gwneyd. Mae y pysgodyn yn fwy tebygol o gydio y foment y disgyno y bluen ar y dwfr nag wrth ei thynu ar hyd-ddo. Fel rheol gyffredin, pysgotwch yn erbyn y dwfr, yn enwedig os bydd y dwfr yn glir, a'r gwynt heb fod yn chwythu yn union gyda'r dwfr. Trwy wneyd hyn ni bydd i'r pysgodyn eich gweled, am ei fod yn gyffredin yn

edrych yn erbyn y llif, a gellwch ei lanio lle y byddwch yn sefyll, ac felly beidio afonyddu y dwfr yn uwch i fyny. Mae pysgota yn erbyn y dwfr yn fwy anhawdd na chyda'r dwfr, ond gorbwysir y llafur ychwanegol gan y mesur mwy o lwyddiant a geir. Gofalwch fod y *gut* yn mhen eich *line* yn grwn, cryf, ac heb fod yn rhy dew. Mae ei feinder yn bwysig iawn. O berthynas i'r plyf a ddylid ddefnyddio, dibyna hyny i raddau helaeth ar yr afon y byddwch yn bwriadu pysgota ynddi. Fel rheol gyffredin asgell y *wood-cock* a chlust yr ysgyfarnog, y *black hackle*, ydynt y goreuon. Os bydd y dwfr yn dywyll gellwch gysylltu rhywbeth disglair wrth y *line*.

YMDROCHI.—Ofn yw yr unig rwystr i bob person fod yn feistr ar y gelfyddyd werthfawr o allu nosio: ac y mae yu amhosibl bod yn nosfedydd da heb orchfygu yr ofn yma. Y mae rhai yn dechreu dysgu nosio yn gyffredin yn defnyddio yswigenod neu gyrc i'w cynorthwyo i gadw eu cyrff uwchlaw y dwfr: mae rhai yn condemnio y defnyddiad o hon- ynt: pa fodd bynag, gallant fod yn ddefnyddiol tra y byddo y nosiwr ieu- ange yn dysgu y "*stroke*," sef y dull neillduol o dasu allan y dwylaw a'r traed ag sydd yn angenrheidiol er iddynt symud yn y dwfr. Ond nis gellwch fod yn nosiwr hyd nes y gallwch roddi ym- ddiried yn ngallu y dwfr i'ch cario a'ch cynal felly, y y lle cyntaf, yr ydwyf yn eich aigymhell i fagu yr hyder yma; yn neillduol, trwy fy mod wedi gweled rhai yn dysgu y "*stroke*" heb nemawr o drafferth wedi iddynt feddu hyder yn y dwfr. Gwnewch fel hyn, er enill hyder a chael gwared o'r ofn ag sydd yn rhwystr i filoedd rhag mwynhau yr ym- arferiad gwerthfawr yma. Dewiswch lle y byddo y dwfr yn dwsfahau yn raddol, cerddwch yn ddiogfn iddo hyd nes y byddo at eich brêst; yna trowch eich gwyneb tua'r lán, a thafiwch wy i'r dwfr rhyngoch a'r tir; bydd iddo suddo i'r gwaelod, a gellwch ei weled yn hawdd os bydd y dwfr yn glir. Rhaid iddo fod mor ddwfn yn y dwfr fel nad allwch ei gyraedd heb suddo tuag ato. Er eich calonogi i wneyd hyny, meddylwch eich bod yn myned o ddwfr dwfn i ddwfr

basach, ac y gellwch unrhyw adeg, trwy osod eich traed o danoch, a sefyll ar y gwaelod, godi eich pen uwchlaw gwyneb y dwfr; yna suddwch o dan y dwfr gyda'ch llygaid yn agored, y rhai y mae yn rhaid i chwi eu cadw yn agored wrth fyned i'r dwfr, gan nad allwch agor eich llygaid o dan y dwfr, o herwydd y pwysau fydd ar eich amrantau: tafwch eich hun tuag at yr wy, a cheisiwch trwy weithrediad eich dwylaw a'ch traed yn erbyn y dwfr i fyned rhagoch, hyd nes o fewn ei gyraedd. Yn yr ymdrech yma bydd i chwi gael allan y bydd i'r dwfr eich dâl i fyny yn groes i'ch dymuniad; nad ydyw yn beth mor hawdd suddo ag y meddylasoch, ac nad allwch ond trwy arfer eich holl nerth, fyned i lawr at yr wy. Fel hyn, bydd i chwi ddoed i deimlo nerth y dwfr i'ch cynal, a dysgu i ymddiried yn yr elfen hono, tra y bydd i'ch ymdrech i fyned i lawr at yr wy roddi gwers i chwi ar y modd i symud eich dwylaw a'ch traed yn erbyn y dwfr, a bydd i'r un symudiad gadw eich pen uwchlaw y dwfr, neu fyned trwy y dwfr, pan y deuwch i nofio.

YR YDWYF YN EICH CYMELL YN DAER i fabwysiadu y dull yma, gan fy mod yn credu y bydd i mi allu dangos i chwi yn foddhaol fod eich corff yn ysgafnach na'r dwfr, ac y gallech nofio ynddo am hir amser gyda'ch genau yn rhydd i anadlu, pe byddai i chwi osod eich hunan yn y sefyllfa briodol, a bod yn davel, a pheidio gwingo; eto, hyd nes y bydd i chwi trwy ymarferiad enill hyder yn y dwfr, nis gallaf ddbynau y byddai i chwi feddu y presenoldeb meddwl i gofio yr ystum, a'r cyfarwyddiadau o berthynas i hyny. Byddai i'r dychryn yru y cwbl o'ch meddwl.

MAE Y CORFF DYNOL, a'i gymeryd gyda'i gilydd, yn ysgafnach na dwfr croew, ac ni wna suddo hyd nes y byddo yr ysgyfaint wedi ei lanw â dwfr, yr hyn a ddigwyddna trwy dynu dwfr i mewn yn lle awyr, pan y byddo person, mewn dychryn, yn ceisio anadlu par y byddo ei enau a'i ffroenau o dan y dwfr.

MAE Y CORFF DYNOL lawer yn ysgafnach na dwfr y môr, a byddai yn anmhosibl i ddyn suddo mewn dwfr hallt, er wedi llenwi ei ysgyfaint â dwfr, oni bai pwysau ei ben. Felly, gall dyn a

daslo ei hun ar ei gefn i ddwfr hallt, a lledu ei freichiau, orwedd i lawr am unrhyw amser o'r bron, trwy y bydd ei enau a'i ffroenau yn rhyddion i anadlu; a thrwy symud ei law, gall rwystro ei hun rhag troi, pan yn teimlo unrhyw duedd i hyny.

MEWN DWFR FFRES, nis gall dyn orwedd ar ei gefn yn hir, ond gall sefyll yn syth ynddo, gyda'r cefn yn plygu yn ol ychydig. *Felly, pe byddai rhywun, heb allu nofio, yn syrthio yn ddamweiniol i'r dwfr, yn meddu digon o bresenoldeb meddwl i beidio gwingo, ond gadael i'w gorff gymergd ei ystum naturiol, byddai iddo aros yn hir heb fod mewn perygl o foddi, ac yn y cyfamser gallai cymorth ei gyrhaeddyd; oblegid, o berthynas i'r dillad, nid yw eu pwysau ychwanegol yn y dwfr yn gwneyd ond ychydig o wahaniaeth, trwy fod y dwfr yn cynorthwyo; er y bydd iddo wedi dyfod allan o'r dwfr eu teimlo yn drymion yn wir.*

OND NI CHYNGHORWN NEB I DDBYNU AR Y PRESENOLDEB MEDDWL YMA, ond dysgu nofio yn dda pan yn ieuange. Mae gallu nofio yn werth y drafferth o ddysgu; ac nid yw dysgu nofio ond peth bychan wedi dysgu yn gyntaf feddu hyder yn y dwfr.

## Y TYWYDD.

### ARWYDDION Y TYWYDD.

GWLITH.—Os bydd y gwllith yn gorwedd yn drwm ar y ddaear ar ol diwrnod teg, y mae yn arwydd o ddiwrnod teg arall. Os na fydd gwllith na gwynt, rhaid i wlaw ddilyn. Arwydda cochni hwyrol dywydd teg; ond os bydd y cochni yn ymledu yn rhy uchel i fyny oddiwrt y terfyngylech yn y prydawn, ac yn neillduol y boreu, rhagarwydda wynt neu wlaw, neu y ddau. Pan y byddo yr awyr, mewn tywydd gwlawog, o liw y môr, sef gwyredd tywyll, bydd i'r gwlaw gynyddu; os bydd o lās tywyll, ni cheir ond cawodau.

CYMYLAU.—Yn flaenorol i wlaw trwm, bydd y cymylau yn mwyhau yn gyflym, yn enwedig o flaen taranau. Pan fyddo y cymylau yn cael eu ffurfio fel cnu, ond yn dewaidd yn y canol a dysglær tua'r ymylau, gyda'r awyr yn glir, maent yn

arwyddo rhew, gyda chenillysg, eira, neu wlaw. Os ymffurfia y cymylau yn uchel yn y nen, yn ddarnau bychain teneuon fel cudynau o wlan, arwyddant wynt, a gwlaw hefyd efallai. Pan y bydd yr holl wybr yn gymylog, a rhyw ddarnau o gymylau duon yn hedfan o danynt, maent yn arwydd sier o wlaw parhaus.

CYRFF WYBRENOL.—Os bydd yr awyr yn darthiog, yr hwn a guddia wyneb yr haul, ac yn peri iddo edrych yn wyn ac aneglur—neu yn y nôs, os bydd y lleuad a'r sêr yn dyfod i edrych yn aneglur, a chylch o amgylch y lleuad, bydd i wlaw ddilyn. Os bydd pelydrau yr haul yn ymddangos fel cyrn—os yn wyn wrth fachlud, neu heb gyrrn, neu os â i lawr i ganol pentwr o gymylau, gellir disgwyl tywydd drwg. Os edrycha y lleuad yn welw ac aneglur, disgwyliwn wlaw; os yn goch, gwynt; ac os yn naturiol ei lliw, gydag awyr glir, tywydd teg. Os bydd y lleuad yn wlyb trwyddi, y cilia pan y newidia, ac, efallai y dychwela y gwlaw yn mhen ychydig ddyddiau. Os yn deg trwyddi, ac yn wlawog ar ei newidiad, tebygol y dychwela y tywydd teg ar y pedwerydd neu y pumed dydd.

HIN-FESURYDD CYWIR A SYML.—Cymerwch botel o faintiol gweddol, a dodwch ynddi oddentu tri haner ei llon'd o ddwfr, a dodwch ynddo un eloden iach (*leech*), gan newid y dwfr yn yr haf unwaith yn yr wythnos, ac yn 'y gauaf unwaith yn y pythefnos, a bydd iddi broffwydo y tywydd gyda chywirdeb hynod. Os bydd y tywydd i fod yn deg, gorwedda yr eloden yn llonydd ar waelod y llestr, wedi ymdroi yn gyleh; os gwlaw ellir ddisgwyl, diinga i fyny i ben y botel, ac arosa yno nes y bydd y tywydd wedi sefydlu; os bydd gwynt yn agos, symuda trwy y dwfr gyda chyflymder mawr, ac anaml y gorphwysa nes y dystreua chwythu yn galed; os bydd ychreim hynod i'w disgwyl o daranau a gwlaw, bydd iddi fyw am rai dyddiau allan o'r dwfr, ac ymddangos yn anesmwyth a phoenus iawn, ac fel pe byddai yn cael ei dirdynu yn barhaus; ar rew fel ar dywydd teg yn yr haf gorwedda yn dawel yn y gwaelod; ac ar eira fel ar wlaw preswylia yn ngenau y botel. Dydylid gorchuddio geneu y botel ag ychydig fuslin.

## OYFRAITH.

### CYFREITHIAU MEISTR TIR A'R DEILLIAID.

AMOD-RWYMAU (*leases*).—Amod-rwym (*lease*) ydyw trosglwyddiad tai neu dir-oedd am nifer penodol o flynyddoedd, am ardreth flynyddol, gydag amodau penoddedig o berthynas i gyfnewidiadau, adgyweiriadau, taliad yr ardreth, fforsfeddiad, &c. Trwy ei fod yn offeryn o bwys mawr, dylai bob amser gael ei wneyd gan gyfreithiwr parchus, yr hwn a ofala ar fod yr holl delerau yn cael eu cyflawni.

RHAGOCHELIAD.—Wrth gymeryd amod-rwym (*lease*), dylai cyfreithiwr y deiliad (*tenant*) archwilio yr ysgrifau yn ofalus, neu os cymera *underlease*, sef *lease* dan *lease*, dylai chwilio i mewn i delerau y *lease* wreiddiol, onide, pan yn rhy ddiweddar, y ca allan, efallai, fod y fath gyfyngiadau ar ei feddiant o'r lle fel ag i'w wneyd yn hollol ddiles iddo, neu gall gael ei hunan mewn trafferth barhaus ac anghyfleusderau poenus; er engraifft, gall gael allan ei fod yn cael ei wahardd rhag gwneyd cyfnewidiadau angenrheidiol i'w fasnach; gall gael ei hun yn rhwym o ail-adeiladu neu dalu ardreth mewn achos o dân; neu gall ddarganfod ei hun yn agored i fforffetio ei lês, neu dalu dirwy, os bydda iddo isosod neu werthu ei hawl, dwyn yn mlaen fasnach neu grefft neillduol, &c.

AMODAU.—Yr Amodau cyffredin ar ran y Meistr Tir dynt, caniatâu y mwynhad cyfreithiol o'r lle i'r hwn a gaffo y lês; ei ddiogelu rhag colled yn ngwyneb ereill a hawliant y titi; ac hefyd rhoddi iddo sicrwydd am y dyfodol. Ar ran y deiliad, maent yn gynwysedig yn gyffredin mewn talu yr ardreth a'r trethi; i gadw y lle mewn adgyweiriad priodol; ac i roddi y lle i fyny ar ol i'r amser ddyfod i ben.

ARDRETH A THRETHI.—Mae yr hwn a gaffo y lês yn ymrwymo i dalu yr ardreth a phob treth, oddigerth trethi y tir a'r eiddo, y rhai sydd i'w tynu o'r ardreth.

TROSIADAU (*assignments*).—Os na bydd amod yn erbyn trosiadau, gellir trosi neu drosglwyddo lês, hyny yw, gellir trosi holl hawl yr hwn a gaffo y



lës i un arall, neu gellir ei his-osod (*underlet*); felly, os byddis yn dewis i'r hwn fyddo yn cael y lës i beidio trosi ei hawl neu is-osod i neb arall, dylid doddi amod yn y lës yn ei wahardd i wneyd hyny. Nis gall deiliadon o flwyddyn i flwyddyn drosi nac is-osod ar unrhyw amod.

**ADGWEIRIADAU.**—Nid yw y deiliad a amodo gadw tŷ mewn adgyweiriad yn atebol am ei ddadfeiliad naturiol, ond y mae yn rhwym o'i ddiogelu rhag gollwng dwfr neu wynt, fel na byddo iddo ddadfeilio o ddiwyg gorchudd. Y mae yr hwn a gaffo lës ac yn cytuno i dalu yr ardreth a chadw y lle mewn adgyweiriad, yn rhwym o dalu yr ardreth hyd yn nod pe byddai i'r lle gael ei losgi.

**ESGEULUSO YR ADGWEIRIADAU GAN Y MEISTR TIR.**—Os bydd y Meistr Tir yn ymrwymo i adgyweirio, ac yn esgeuluso gwneuthur hyny, gall y deiliad wneyd hyny, a chadw y gôst allan o'r ardreth. Ond doeth fod i rybudd o hyny gael ei roddi gan y Deiliad i'r Meistr Tir, yn ngwydd tyst, cyn dechreu yr adgyweiriadau.

**HAWL MEISTRADOEDD TIR I YMWEL-ED A MEDDIANAU.**—Gall Meistr Tir ymweled â'r meddianau (ar ol rhoddi rhybudd blaenorol), er na byddo hyny wedi ei nodi yn y lës, i'r dyben o chwilio i mewn i gyflwr y meddianau.

**TERFYNIAD AMOD-RWYMAU (*leases*).**—Rhaid i'r deiliad roddi ei feddiant i fyny ar derfyniad ei lës (mae y lës yn rhybudd digonol), neu bydd yn parhau yn rhwym o dalu yr ardreth fel deiliad trwy oddefiad heb yr un cytundeb newydd; ond os bydd i'r meistr tir gydnabod y fath denantiaeth trwy dderbyn ardreth ar ol i'r lës ddyfod i fyny, bydd i'r fath gydnabyddiaeth gyfansoddi tenantiaeth: ond yn flaenorol i dderbyn ardreth, gall y meistr tir ei droi allan o'r tŷ neu y lle heb rybudd; oblegid, trwy fod y lës i fyny, y mae y deiliad yn droseddwr. Y mae lës a fo yn amodi ei bod i gael ei thori os na thelir yr ardreth ar ddiwrnod penodedig, yn aros yn dda, os na fydd i'r meistr tir wneyd nodiad o hyny.

**GWRAGEDD PRIOD.**—Nis gall gwragedd priod roddi amod-rwymau (*leases*), os na fydd y gallu i wneyd hyny wedi

cael ei sicrhau iddynt yn y weithred briodas; ond gall gwyr, yn meddianu oddiwrth eu gwragedd, roddi *leases* am un mlynedd-ar-hugain. Os bydd gwraig yn gymunweinyddes, y mae gan y gŵr a'r wraig hawl i roddi *leases*, fel yn achos cyffredin gŵr a gwraig. Nis gall gwraig briod (oddigerth trwy arferiad neillduol) dderbyn *leases*; os derbynia gŵr a gwraig lës, gall hi, ar ol iddo ef farw, ei dderbyn neu ei gwrthod, yr un ffordd ag y gall plentyn wneyd hyny, ac nid ydyw yn rhwym wrth ei hamodau, er iddi barhau yn ddeiliad.

**NAWDDFEDDIANWYR (*copyholders*).**—Nis gall nawddfedianwyr ganiatau lës am fwy o amser na blwyddyn, oddigerth trwy arferiad, neu ganiatad yr arglwydd tir; ac nid yw lës goruchwyliwr maenor (*manor*) yn safadwy, os na byddo wedi ei gynysgaeddu a'r gallu priodol i'r pwrpas hyny.

**RHYBUDDION.**—Mae pob rhybuddion, o ba natur bynag, perthynol i denantiaeth, i fod mewn ysgrifen, a dylai y person a wasanaetho y rhybudd ysgrifenu ar ei gefn nodiad o'r dydd a'r mis y gwasanaethwyd ef, a dylai gadw copi cywir o'r rhybudd a'r nodiad ar ei gefn.

**TENANTIAETH FLYNYDDOL.**—Ystyrir fod tai yn cael eu cymeryd am flwyddyn, a'r tenantiaid yn rhwym i'r deddfau a reoleiddiant denantiaeth flynyddol, os na bydd cytundeb ysgrifenedig i'r gwrthwyneb.

**CYTUNDEB WRTH CYMERYD TY AR ARDRETH FLYNYDDOL.**—Memorandum of an undertaking, entered into this— day of — 187 , between R. A., of —, and L. O., of —, as follows:—

The said R. A. doth hereby let unto the said L. O. a dwelling-house, situate in —, in the parish of —, for the term of one year certain, and so on from year to year, until half a year's notice to quit be given by or to either party, at the yearly rent of — pounds, payable quarterly; the tenancy to commence at — day next.

And the said R. A. doth undertake to pay the land-tax, the property tax, and the sewer-rate, and to keep the said house in all necessary repairs, so long as the said L. O. shall continue therein. And the said L. O. doth undertake to

take the said house of R. A. for the before-mentioned term and rent, and pay all taxes, except those on land, or property, and the sewer-rate, and the other conditions aforesaid.

Witness our hands, the day and year aforesaid.

Witness, G. C.

R. A.  
L. O.

Y MEISTR TIR YN TALU Y TRETHT. — Os bydd y Meistr Tir yn cytuno i dalu yr holl drethi, yna dylai y cytundeb gael ei eirio yn wahanol, fel hyn :—

And the said R. A. doth undertake to pay all rates and taxes, of whatever natur or kind, chargeable on the said house and premises, and to keep the said house in all necessary repairs, so long as the said L.O. shall continue therein.

DIOGELIAD ODDIWRTH OL-DDYLEDION. — Os bydd y Meistr Tir yn cytuno i ddiogelu y deiliad fyddo yn dyfod i mewn oddiwrth ol-ddyledion dyledus, ar gyfrif ardreth, trethi, dylai y dyogeliad gael ei ysgrifenu ar bapur (a dylai y deiliad edrych am hyny). Gall yr ysgrif fod rywbeth yn debyg i'r ffurf ganlynol :—

*Indemnification against Rents, Rates, and Taxes in arrear.*—I, R. A., landlord of a certain house and premises now about to be taken and occupied by L. O., do hereby agree to indemnify the said L. O. from the payment of any rent, taxes, or rates in arrear, prior to the date of the day at which his said tenancy commences. As witness my hand this — day of — 187 .

Witness, G.C. Landlord of the above premises.

*Cytundeb am gymeryd Ty am dair blynedd.*—Memorandum of an agreement made the — day of —, 187 , between R. A., of —, and L. O., of —, as follows :—

The said R. A. doth let unto the said L. O. a house (and garden, if any), with appurtenances, situated in —, in the parish of —, for three years certain. The rent to commence from — day next, at and under the yearly rent of —, payable quarterly, the first payment to be at — day next.

The said L. O. doth agree to take the said house (and garden) of the said R. A., for the term and rent payable in manner aforesaid ; and that he will, at the expiration of the term, leave the house in as good repair as he found it [wear and tear excepted]. Witness our hands.

Witness, G. C.

R. A.  
L. O.

TALU ARDRETH.—Telir ardreth yn gyffredin ar y dyddiau chwarterol arferol, sef, Gwyl Fair, neu Mawrth 25ain ; Gwyl Ifan, neu Mehefin 25ain ; Gwyl Fihangel, neu Medi 29ain ; a Dydd Nadolig, neu Rhagfyr 25ain. Y mae yn ddyledus ganol dydd ; ond nis gellir cychwyn erlyniad yn ei erbyn am beidio talu, os bydd y deiliad yn aros yn ei le, hyd dranoeth.

TALIAD ARDRETH YN ORCHYMYNOL. —Ni bydd i un ystyriaeth esgusodi deiliad rhag talu yr ardreth, os bydd i'r meistr ei hawlio. Hyd yn nod pe byddai i'r tŷ gael ei losgi, ei chwythu, neu syrthio i lawr, y mae y deiliad yn parhau yn rhwym o dalu yr ardreth ; ac nis gall ymryddhau oddiwrth y denantiaeth ond trwy roddi y rhybudd arferol, yr un fath a phe buasai y tŷ yn aros yn y cyflwr mwyaf perffaith.

HAWLIO ARDRETH.—Y meistr tir ei hun yw y person mwyaf priodol i hawlio ardreth ; gall gyflogi person arall, ond os gwna, rhaid iddo ei awdurdodi trwy lythyr, neu allu cyfreithiwr ; heb hyny gellir gwrthwynebu ei hawl.

DERBYNEB (*receipt*) AM ARDRETH.—Pan y byddo goruchwyliwr wedi ei awdurdodi, y mae derbyneb (*receipt*) oddiwrtho ef yn rhyddhau y deiliad, hyd yn nod pe byddai y meistr tir wedi tynu yn ol ei awdurdod o dan yr hon y gweithredai ei oruchwyliwr, os na fydd y meistr tir wedi rhoddi rhybudd o hyny i'r deiliad.—Y mae yr ardreth i gael ei dalu mewn aur neu nodau Bank of England : nis gellir gwrthod y naill na'r llall.

FFURF DERBYNEB (*receipt*) AM ARDRETH.

Received of Mr. R. A. the sum of ten pounds ten shillings, for a quarter's rent due at Lady-day last, for the house, No. —, — street.

£10 : 10 : 0 [Stamp] L. O.

Os rhoddir y dderbyneb gan oruchwyllwr, dylai gael ei arwyddo,

G. C.

Agent for L. O., landlord of the above premises.

**GOFAL AM DDERBYNEBAU (receipts).**—Byddwch yn ofalus o dderbyneb (receipt) eich chwarter diweddfaf o ardreth, oblegid y mae dwyn hwnw yn mlaen yn diogelu rhag unrhyw hawl flaenorol. Hyd yn nod os bydd ol-ddyled yn aros ar chwarteri blaenorol, os rhoddir derbyneb (receipt) am y chwarter diweddfaf, bydd y meistir tir yn analluog i godi yr oddyled ddywededig.

**RHYBUDD I YMADAEL.**—Pan fyddo naill ai y meistir tir ai y deiliad yn bwrriadu terfynu y denantiaeth, y ffordd i fynyd yn mlaen ydyw trwy rybudd i ymadael, yr hwn a wneir yn y ddwy ffordd ganlynol :—

*Ffurf o rybudd i ymadael oddiwrth Ddeiliad at ei feistr tir.*—Sir,—I hereby give you notice, that on or before the — day of — next, I shall quit and deliver up possession of the house and premises I now hold of you, situate at —, in the parish of —, in the county of —.

Dated the — day of — 187 .

Witness, G. C. L. O.

To Mr. R. A.

*Rhybudd oddiwrth Feistr tir at ei Ddeiliad.*—Sir,—I hereby give you notice to quit the house and appurtenances, situate No. —, which you now hold under me, on or before — next.

Dated —, 187

(Signed) R. A. (landlord).

To Mr. L. O.

**RHYBUDD I YMADAEL.**—Y mae syndian lled gyffredin yn ffynu, pa fodd bynag, pan fo tŷ o ardreth bychan, fod chwarter o rybudd yn ddigonol; ond pan fo yr ardreth yn cael ei dalu yn chwarterol neu yn anamlach, y mae hyn yn gamgymeriad, oblegid os na fydd cytundeb penodol wedi ei wneyd yn nodi yr amser angenrheidiol fel rhybudd, rhaid rhoddi chwe mis o rybudd i ymadael, i ddiweddu ar yr un dydd o'r flwyddyn ag y mae y denantiaeth yn dechreu. Lle y byddo yr ardreth yn daledig yn fisol neu

wythnosol, bydd y rhybudd i ymadael yn iawn os rhoddir ef am yr wythnos neu y mis, ond gofalu iddo ddiweddu ar y diwrnod yn yr wythnos neu y mis ag y byddo y denantiaeth yn dechreu arno.

*Ffurf o Rybudd oddiwrth Feistr Tir i'w Ddeiliad i ymadael neu dalu mwy o ardreth.*—To Mr. R. A.—Sir,—I hereby give you notice to deliver up possession, and quit on or before —, the [yma noder y ty neu ran o'r ty] and appurtenances which you now hold of me in [noder yma enw yr heol, &c.], and in default of your compliance therewith, I do and will insist on your paying me for the same, the [annual or monthly] rent of —, being an additional rental of — pounds per annum, [dros ben yr ardreth flynyddol bresenol] rent, for such time as you shall detain the key and keep possession over the said notice.

Witness my hand, this — day of —, 187

Witness G. C.

L. O.

**GWRTHOD RHODDI I FYNY FEDIANT.**

—Os bydd i'r deiliad aros yn ei le, ar ol derbyn rhybudd digonol, *mewn ysgrifsen*, y mae yn agored i dalu ardreth ddwbl; os arosa yn ei le, ar ol rhoddi rhybudd ei fod yn ymadael ar air yn unig, y mae yn rhwym o dalu ardreth ddwbl.

**LLETYAU A LLETYWYR (lodgings and lodgers).**

**RHAGOCHELIADAU.**—Cyn cymeryd lle' ty heb ei ddod-drefnu, dylech gael bodlonrwydd fod ardreth a threthi y tŷ yn cael eu talu, oblegid y mae meddianau lletywr yn agored i gael eu hatafaelau am ol-ddyledion ar unrhyw adeg tra y byddont yn y tŷ.

**TROSAELWR (broker) YN MYNED I DY.**—Os bydd y broker wedi gallu cymeryd meddiant trwy y drws allanol, gall dori yn agored ddrysau neillduol y lletywr os ewyllysia, a hyny hefyd yn angenrheidiol.

**ARDRETHU AM AMSER PENODEDIG.**—Os cymerir llety am amser penodedig a sier, nid oes angenrheidiol am rybudd i ymadael. Os bydd i'r lletywr, pa fodd bynag, barhau i aros ar ol i'r amser ddyfod i fyny, y mae i'w ystyried fel lletywr rheolaidd, os na fvdd cytundeb i'r

gwrthwyneb. Os bydd ardreth yn ddyledus oddiwrtho, gall deiliad y tŷ atafaelu ei eiddo tra byddont yn y tŷ, fel y mae meistr tir yn gallu atafaelu eiddo deiliad.

**LLETYWYR A THY-DDALWYR YN RHWYMEDIG GAN YR UN GYFRAITH.**—O berthynas i daliad yr ardreth nid oes gwahaniaeth rhwng lletywyr a thenantiaid ereill; gellir eu troi allan hefyd yn yr un modd; a safant yn yr un berthynas gyda golwg ar atafaeliad am ardreth a thy-ddalwyr ereill.

**TALU WRTH YR WYTHNOS.**—Yn achos tenantiaid wythnosol, dylai y rhent gael ei dalu yn wythnosol, oblegid os gadewir ef unwaith i redeg am chwarter, ac i'r meistr tŷ ei dderbyn fel ardreth chwarter, nis gellir gyru y tenant allan heb chwarter o rybudd.

**LLETYWYR BLYNYDDOL.**—Ni ddylid cymeryd llety wrth y flwyddyn ond yn unig gan berchenog y tŷ, neu un yn meddu meddiant o hono am rai blynyddoedd o leiaf.

**LLETYAU DODREFNEDIG.**—Gosodir lletyau dodrefnedig yn gyffredin wrth yr wythnos, am daliad penodol, rhan o'r hwn a ystyrir fel ardreth am y lle, a rhan am gael defnydd y dodrefn.

**LLETYWYR YN GADAEL LLETYAU HEB RODDI RHYBUDD.**—Y mae personau yn cymeryd lletyau dodrefnedig yn aml yn absenoli eu hunain heb hysbysu gŵr y tŷ, ac efallai heb dalu yr ardreth. Os ceir rheswm tebygol fod y lletywr wedi ymadael, ar yr ail wythnos o'i absenoldeb gall gŵr y tŷ anfon am heddeidwad, ac yn ei bresenoldeb fyned i newn i ystafelloedd y lletywr a chymeryd allan ei eiddo, a'u cadw hyd nes y gwneir ymofyniad am danynt. Wedi hynny gall gymeryd meddiant o'r ystafell neu ystafelloedd; ac os, ar ol rhoddi rhybudd o berwar diwrnod ar ddeg trwy hysbysiad yn y *London Gazette*, y bydd y lletywr heb dalu yr ol-ddyled, gall meistr y tŷ werthu yr eiddo am yr arian dyledus, gan gadw yr hyn fydd dros ben, a'r eiddo na bydd angenrheidrwydd am eu gwerthu (os bydd rhai), yn barod i'w rhoddi i fyny i'r lletywr pan bryd bynag y bydd iddo eu hawlio.

**CYTUNDEBAU AR AIR.**—Os bydd i unrhyw berson wneyd cytundeb ar air i

gymeryd llety mewn rhyw amser dyfodol, a gwrthod cyflawni ei addewid, nid oes gan berchenogion y tŷ yr un feddyginiaeth; ond os rhodda ernes y mae mewn rhan yn gwneyd ei hunan yn rhwym, a gall y meistr fyned yn ei erbyn am beidio cymeryd meddiant o'r llety yn ol y cytundeb.

**MEISTR TY YN GWNEYD DEFNYDD O LETY Y LLETYWR.**—Os bydd i'r meistr tŷ fyned i mewn a gwneyd defnydd o lety y lletywr tra y byddo yn talu am dano, heb ei gydsyniad, fforfetia ei hawl i godi yr ardreth.

**LLETY I FERCHED ANFOESOL.**—Os gosodir llety i wraig ddrwg, er ei galluogi i dderbyn ymwelwyr gwrywaidd, nis gall perchenog y tŷ godi yr ardreth. Ond os na fydd yn gwybod cymeriad y wraig pan yn gosod y llety, gall godi yr ardreth, ond nid os bydd iddo ar ol gwrbod y ffaith ganiatau iddi barhau fel ei ddeiliad. Ond os na fydd y wraig ond yn unig yn lletya yno, ac yn derbyn ymwelwyr mewn lle arall, ni bydd i'w chymeryd effeithio ar ei hawl i godi yr ardreth.

**ARDRETH YN ADENILLADWY.**—Os bydd i letywr adael ei lety heb roddi rhybudd, gall meistr tŷ godi ei ardreth trwy'r gyfraith, er iddo osod hysbysiad yn ei ffenestr fod y llety ar osod.

**SYMUD EIDDO.**—Mae symud eiddo o lety dodrefnedig, gyda'r amcan o'u lladrata, yn drosedd cospadwy.

**RHWYMEDIGAETH AM ARDRETH.**—Pan y byddo y lletywr wedi ymadael, ac heb adael dim eiddo ar ei ol, y mae yr ardreth yn myned yn ddyled, ac nis gellir ei chodi ond fel y cyfryw yn Llys y Sir (*County Court*).

*Cytundeb wrth osod Ty Dodrefnedig neu ran o Dy.*—Memorandum of an agreement made and entered into this \_\_\_\_\_ day of \_\_\_\_\_, 187\_\_\_\_, between R. A., of \_\_\_\_\_ of the one part, and L. O., of \_\_\_\_\_, of the other part as follows:—That the said R. A. agrees to let, and the said L. O. to take, all that messuage or tenement (with the garden and appurtenances thereto,) situate at, &c., [neu os rhan o'r ty fydd pwnc y cytundeb] all the entire first floor [gan fod yn fanwl i nodi bob peth a lle gyda hynny], together with all the furniture, fixtures,

and other things mentioned and comprised in the schedule hereunder written, for the space of \_\_\_\_\_ months, to be computed from the \_\_\_\_\_ day of \_\_\_\_\_, at the rent of \_\_\_\_\_ pounds per quarter, payable quarterly, the first quarterly payment to be made on the \_\_\_\_\_ day of \_\_\_\_\_ next ensuing the date hereof. And it is further agreed, by and between the said parties, that each party shall be at liberty to determine the said tenancy, on giving to the other a quarter's notice in writing. And the said L. O. agrees, that in the determination of the tenancy, he will deliver up the said dwelling-house (or the entire first floor, &c.), together with all the fixtures and furniture as aforesaid, in as good condition as the same now are, reasonable wear and tear thereof excepted, and shall and will replace any of the crockery and china or other utensils that shall be broken or otherwise damaged. In witness, &c.—[*Yma y nac i ganlyn Restr o'r dodrefn y cyfeirir atyn uchod.*]

**MODDAU I GODI ARDRETH.**—Atafaelu (*distress*) yw y ffordd fwyaf effeithiol i godi ardreth, ond dylid cymeryd gofal i wneyd hyny yn gyfreithlon; os bydd yr atafaeliad yn anghyfreithlon, gall y person a atafaelir ddwyn cyfraith am iawn. Y mae atafaeliadau gormodol yn anghyfreithlon. Ni ddylai yr atafaeliwr gymeryd ond digon i dalu yr ardreth dyledus, a'r costau; pa fold bynag, os bydd i'r nwyddau a gymerir werthu am fwy o arian nag a fydd yn ddigonol i dalu y gofynion hyny rhaid dychwelyd y gweddill i'r deiliad, yr hwn a all hawlio holl gyfrifon y gwerthiad, a chodi drwy gyfraith yr hyn fydd dros ben.

**ATAFAELIAD, CYFREITHLON AC ANGHYFREITHLON.**—Nis gellir atafaelu ond am ardreth fyddo yn ddyledus, ac nis gellir ei ddodi mewn grym hyd y dydd canlynol, ar ol i'r ardreth gael ei gofyn gan y meistr tir neu ei oruchwyliwr. Ni ddylid tori y drws allanol i'r dyben o atafaelu, ac nis gellir atafaelu rhwng machlud haul a chodiad haul, nac ar y Sabboth, Gwener y Groglith, neu y Nadolig, neu ar ol i'r ardreth gael ei chynyg i'r Meistr tir neu ei oruchwyliwr. Gellir atafaelu yr ail waith os na fydd

yr hyn a gymerir y tro cyntaf yn ddigon i dalu yr ardreth a'r costau.

**ATAFAELU NWDYDDAU WEDI EU SYMUD.**—Gellir cymeryd meddiant o eiddo a ddygwyd ymaith o dŷ, mewn unrhyw fan, o fewn deg niwrnod ar hugain i'w symudiad, ac os bydd gorthrech yn angenrheidiol ar ran y meistr tir, rhaid iddo ofalu ar fod heddegidwad yn bresenol; ond nis gellir cymeryd meddiant o eiddo a symudwyd ymaith cyn bod yr ardreth yn ddyledus, ond gellir codi yr ardreth fel dyled yn y Lllys Sirol. Y rheol gyffredin yw, nis gellir atafaelu dim os nad ellir ei ddychwelyd yn ol yn yr un cyflwr ag yr oedd cyn yr atafaeliad.

**DYLEDSWYDDAU Y TRONFAELWYR (brokers) A'R PRISWYR.**—Nis gall y broker fyddo yn atafaelu fod yn un o'r priswyr, ac nis gall roddi pris ar yr eiddo—byddai i hyny wneyd yr atafaeliad yn anghyfreithlon, a gallai y deiliad hawlio iawn. Ni ddylai y priswyr feddu dim elw na buddiant yn yr atafaeliad; hefyd, os dewisid un o'r rhai a fyddant yn atafaelu yn brisiwr, byddai yr atafaeliad yn anghyfreithlon.

**ARDRETH METHDALWYR.**—Mewn achos o fethdalied, nis gellir codi dros flwyddyn o ardreth trwy atafaeliad; os bydd ychwaneg yn ddyledus, nid oes gan y meistr tir ddim mwy o hawl na'r gofynwyr ereill, ac fel hwythau gall ddyfod i mewn am y swm pellach fo'n ddyledus.

**COSTAU ANGHYFREITHLON.**—Yn ol 57 George III., pen. 65, nis gall unrhyw berson yn atafaelu am ardreth gymeryd dim am ddyledion amgen nag a nodir yn y gyfraith uchod; gall y neb a wnclo hyny gael ei orfodi i dalu yn ol gymaint o werth dair gwaith ag a gymerwyd yn anghyfreithlon.

**Y SWM O ARDRETH ELLIR GODI.**—Meddylir yn gyffredin nas gellir codi mwy nag ardreth pedair wythnos oddiar denantiaid wythnosol, pedwar mis oddiar denantiaid misol, ac ardreth pedwar chwarter oddiar denantiaid blynnyddol; nid dyna y gwirionedd, pa fodd bynag, oblegid nid yw cyfnewidiad y gyfraith, 7fed ac 8fed Vic., pen. 96, ad. 18 a 67, yn gweithredu ond yn unig mewn achos o fethdalied, neu lle y byddo yr eiddo wedi eu hatafaelu (*distraigned*) yn barod.

COSTAU :—		£	s.	c.
Gwasanaethu atafaeliad ( <i>dis-</i>	}	0	3	0
<i>tress</i> ) .....				
Y dyn mewn meddiant, y	}	0	2	6
dydd, os bydd yr ardreth o				
dan £20 .....				
Prisiad, 6c. yn y bunt ar werth yr eiddo, os dros £20.				
Prisiad, 1s. yn y bunt ar werth yr eiddo, os dan £20.				

Costau hysbysisdau, &c.

Rhestrau o'r eiddo, arwerthiad, a comisiwn, 1s. yn y bunt ar gynyrch yr arwerthiad.

COSTAU TROSFÆLWYR.—Rhaid i Dros-faelwyr roddi copiau o'u costau yn mhob achos.

PRISIAD A GWERTHIAD Y NWDYDDAU.—Y mae y nwyddau, yn gyffredin, ar ol eu prisio, yn cael eu prynu gan y prisiwr yn ol ei brisiad ef ei hun, ac y mae *receipt* ar ddiwedd y rhestr, wedi ei dystio gan yr hwn a'u tyngodd, yn rhyddhad digonol.

TYST-YSGRIFAU STAMPIEDIG.—Yn mhob achos ag y byddo y gyfraith yn gofyn am stamp, pa un bynag ai ar gytundeb neu daleb (*receipt*), na fydded i chwi esgeuluso ei ddodi. Trwy fod cyfraith y stampiau yn agored i gyfnewid yn fynych, gwel cyfeirio i'r tablau yn yr almanaciau am y flwyddyn, neu ymofynwch yn y Stamp Office.

METHDALIAD, CYFRAITH NEWYDD.—Daeth cyfraith newydd Methdaliad i weithrediad y dydd 1af o Ionawr, 1870. Y mae y *Bankruptcy Court*, cynwysedig o ddirprwywr ac ereill, wedi ei ddileu, a'r awdurdod wedi ei drosglwyddo i'r *London Court* gydag un prif farnwr, ac i Lysoedd Sir (of *County Courts*). Gall personau a ystyrir yn alluog i wneyd cytundebau wneyd eu hunain yn fethdalwyr, yn cynwys pendefigion, aelodau Ty y Cyffredin, a gwragedd priod. Mae aelodau o Dŷ y Cyffredin a gyhoeddir yn fethdalwyr yn analluog am un flwyddyn i eistedd neu bieidleisio yn y Ty. Nis gall partneriaid cofrestredig o dan y "*Companies Act, 1862*," neu yr aelodau unigol, neu ffermwr (os na fydd yn prynu anifeiliaid yn unig er mwyn eu gwerthu), porthwr anifeiliaid (*grazier*), neu lafurwr, wneyd eu hunain yn fethdalwyr. Nis gall un person gyflwyno deiseb i

wneyd ei hun yn fethdalwr, ond gall unrhyw un o'i ofynwyr wneyd hyn os bydd y ddyled iddo yn cyraedd i'r swm o £50, neu amryw ofynwyr os bydd yr arian dyledus iddynt oll yn cyraedd i'r swm o £50. Mae gweithred o fethdaliad yn cael ei chyfansoddi pan fyddo dyledwr yn trosglwyddo ei eiddo i'w ofynwyr—wedi gwneyd trosglwyddiad twyllodrus o'i eiddo—wedi gadael Lloegr er mwyn twyllo ei ofynwyr—neu wedi gwneyd ardstydiaid o fethdaliad; neu, yn mhellach, os bydd yn fasnachwr, a bod atafaeliad am ddim llai na £50 wedi ei doddi ar ei eiddo, neu y gofynwr deisebol wedi gwasanaethu y dyledwr gyda *summons* am ddim llai na £50, ac heb dderbyn taliad. Mae Methdaliad i gael ei hysbysu yn y *London Gazette* a phapurau lleol. Mewn cyfarfod cyffredinol o'r gofynwyr, i gael ei gynnal yn fuan ar ol cyhoeddi y dyledwr yn fethdalwr, rhaid i'r gofynwyr apwyntio ymddiriedolwr a phersonau cyfaddas ereill, heb fod dros bum mewn nifer, fel pwyllogor arolygol. Yn y cyfarfod hwn gellir rhoddi pleidleisio au gofynwyr awdurdodedig yn bersonol neu trwy ddirprwy. Rhaid i'r methdalwr fyned trwy archwiliad cyhoeddus ar ddiwrnod a nodir gan y llys. Rhaid i'r ymddiriedolwr ar eiddo y methdalwr gyhoeddi rhandal (*dividend*) o fewn chwe mis, neu gyfiawnhau oedaid pellach mewn cyfarfod cyhoeddus o'r gofynwyr. Bydd y methdalwr yn gallu hawlio ei ryddhad os talwyd 10s. y bunt oddiwrth ei eiddo, neu os bydd i'w ofynwyr asio "penderfyniad neillduol" iddo fyned i brofedigaeth yn anfwriadol. Fan na byddo rhyddhad yn cael ei ganiatau, y mae y methdalwr i gael llonydd am dair blynedd, ond ar derfyn yr amser yma, os na bydd yn y cyfamser wedi talu 10s. yn y bunt, gellir cynmeryd meddiant o unrhyw eiddo fyddo ganddo. Y mae gwaith unrhyw fasnachwr yn sicrhau unrhyw swm o arian i'w wraig, yn ofer, os bydd iddo gael ei gyhoeddi yn fethdalwr o fewn dwy flynedd i ddyddiad y fath sicrhad o gynysgaeth. Gall dyledwr alw cyfarfod o'i ofynwyr, a gallant hwy gyhoeddi fod ei ddyledion i gael ei lleihau trwy gytundeb a threfniad, neu gall y gofynwyr benderfynu, trwy fwyaf-rif mewn nifer a thair rhan o bedair

mewn gwerth, fod rhan-daliad (*composition*) i gael ei dderbyn. Mae carcharu am ddyled wedi ei ddileu trwy y weithred newydd; ond cospir â charchariad pan fydd y methdalwr wedi arfer twyll wrth fyned i ddyled. Mae dyledwyr a modd ganddynt i dalu, ond yn gwrthod talu eu dyledion, yn agored i gael eu carcharu, ac y mae un a gyhoeddir yn fethdalwr a geir yn euog o gadw unrhyw eiddo heb ei roddi i fyny i'w ofynwyr yn agored i gael ei garcharu am ddwy flynedd gyda llafur caled. Mae unrhyw ofynwr a wnelo gais anheg ar eiddo methdalwr, gyda'r dyben o dwyllo, yn agored i gael ei garcharu am flwyddyn gyda llafur caled. Mae rhandaliadau mewn methdaliad a arosant heb eu hawlio am bum mlynedd yn myned yn eiddo i'r Goron, ac i gael eu trefnu gan Ddirprwywr y Trysorlys.

**BILL OF SALE**—Sydd offeryn trwy yr hwn, y gall un person drosglwyddo yn ffurfiol i un arall ei holl hawl a'i fuddiant mewn nwyddau neu feddianau a nodir ynddo; megis eiddo siop, *good-will* masnach, neu gyffelyb. Nid oes dim *stamp duty* yn daleidig ar yr ysgrifau hyn, ond mewn trefn i rwystro i dwyll gael ei wneyd â gofynwyr trwy filiau dirgel, y mae yn orchymynol ar fod i'r *bill of sale* gael ei gofrestru o fewn un diwrnod ar hugain ar ol ei wneuthur, neu bydd yn ofer. Rhaid i'r *bill of sale* gael ei ardstyio, a phreswylfeydd y tystion gael ei nodi wrtho. Ni ddylid rhoddi *bill of sale* ond yn y cyfyngder mwyaf, am fod enw da yr hwn a'i rhydd yn cael ei beryglu yn fawr. Pa fodd bynag, os bydd hyn yn anheborol angenrheidiol, dylid ymgynghori â chyfreithiwr parchus, a bydd iddo ef roddi pob cyfarwyddyd angenrheidiol.

**CYFRAITH TROSIAD** (*law of assignment*).—Y mae trosiad eiddo mewn masnach yn cynwys yn unig y pethau hyn a berchenogid gan y trosglwyddwr ar yr amser y gwnawd y trosiad, ac nid yw yn cynwys unrhyw eiddo a ddelo i'w feddiant ar ol hynny, er fod y fath eiddo yn cael eu nodi yn y trosiad. Mae gorchymyn oddiwrth ofynwr ar ei ddyledwr, i dalu swm ei ddyled i drydydd person, yn drosiad cyfreithlon o'r ddyled, os bydd i'r dyledwr arwyddo ei barod-

rydd i'w thalu, a'r gofynwr yn analluog i wneyd yr archiad. Y mae archiad o'r fath yma yn gofyn stamp; heb yr un nis gellir ei dderbyn fel tystiolaeth. Os bydd person yn rhoddi benthycg arian ar sicrwydd *policy* yswiriad bywyd y benthycwr, dylai ar un fydd yn rhoddi y benthycg gymeryd gofal fod rhybudd, o dan law y benthycwr, yn cael ei roddi i'r swyddfa yswiriol. Heb y fath rybudd, pe byddai i'r benthycwr fyned yn fethdalwr, ni bydd gan yr hwn a roddo fenthycg yr un sicrwydd am ei arian; a phe byddai i'r benthycwr farw, nis gellir gorfodi y swyddfa yswiriol i dalu unrhyw swm o arian yr yswiriad i'r hwn a roddodd fenthycg. Y mae rheolwr neu ysgrifenydd y swyddfa yswiriol yn rhwym o roddi i'r person a anfonno y rhybudd gydnabyddiaeth iddo ei dderbyn.

**ARIAN A CHOEL**.—Mae coel yn gyfleusdra y telir yn ddrud iawn am dano, yn neillduol mewn trefydd mawr, lle y mae y masnachwyr, yn analluog i wybod am amgylchiadau eu cwsmeriaid, yn agored yn barhaus i golledion. Bydd i deiliwr roddi coel i gwsmer am flwyddyn, os bydd yn ei adnabod yn weddol; ond gofala am ddiogelu ei hun trwy ychwanegu y bedwaredd ran at bris yr eiddo a wertha felly. Bydd i'r *grocer*, pan y gwela fod ganddo siawns weddol o gael ei dalu, ganiatau coel hir, ond bydd iddo ychwanegu y chweched ran at bris yr eiddo. Gwna y cigyddion yr un peth. Y mae wedi ei gyfrif, a hynny gyda manylweh, fod £100 yn myned mor bell gydag arian parod ag yr â £125 gyda choel. Trwy godi y pris ychwanegol yma nid yw y gwerthwr lawer yn ei fantais; oblegid trwy roddi coel y mae yn cael colledion parhaus, o herwydd anonestrwydd rhai o'i gwsmeriaid diegwyddor, ac y mae yn trefnu pethau yn ol graddeg, fel y mae ei gwsmeriaid gonest yn ei ddigolledu am y colledion a dderbynia oddiwrth y rhai a ymddygant yn anonest. Wrth ddechreu cadw tŷ, bydded i chwi gyfarfod a'ch holl ymrwymadau yn brydlon; a dangosweh i'ch pobwr, eich *grocer*, a'ch cigydd, eich bod yn barod ar y rhybudd lleiaf i wastadhau eich cyfrifon. Yr ydym ni er's llawer blwyddyn wedi mabwysiadu y cynllun o dalu yn wythnosol am bob

peth, trwy fod hyny yn gyfleus i'r masnachwyr, ac yn ein galluogi i wybod ein traull i'w fath ym flwyddyn.

### TORI YMDDIRIED, TWYLL GAN YMDDIRIEDOLWYR AC EREILL.

—Mae arian, neu eiddo o unrhyw fath, a roddir mewn ymddiried i unrhyw berson, yn ofal cysegredig; ac os bydd i'r person a dderbyniodd y fath ymddiried droseddu yr amodau, y mae nid yn unig yn troseddu arferion cymdeithas, ond yn doddi ei hun yn agored i gael ei gospi gan y gyfraith. Os bydd i unrhyw ymddiriedolwr, masnachwr, *broker*, neu oruchwyliwr, ddefnyddio unrhyw arian neu eiddo a ymddiriedwyd i'w ofal, i'w ddybenion personol ei hun, y mae yn cyflawni lladrad, ac yn agored i gael ei garcharu neu ei alltudio.

### BLWYDD-DALIADAU (*annuities*).

—Blwydd-daliadau ydynt symniau o arian ag y mae un person yn rhwymo ei hun i'w talu i un arall, am ystod bywyd y derbynydd, neu am nifer penodol o flynyddoedd, neu a ellir eu hoedi fel ag i ddechreu ar ryw adeg ddyfodol; neu gellir gwneud eu taliad yn gysylltiedig ag unrhyw delerau a gytunir arnynt gan y partion, neu a ystyrir yn gyfaddas gan y derbynydd. Y mae yn amlwg, gan hyny, fod natur blwydd-daliadau yn caniatáu amrywiaeth mawr, a'u bod yn orphwysedig ar wahanol elfenau ag sydd yn gofyn cyfrifiad manwl a phwyllus. Ar wahan i bob ystyriaeth neillduol, gellir dweyd fod yn angenrheidiol ystyried dau beth bob amser wrth drefnu blwydd-daliadau; sef, cyfrifon o berthynas i hyd y bywyd dynol, a llôg arian. Mae amryw dablau dyrus a manwl wedi eu paratoi gan gyfrifwyr medrus, ac wedi eu derbyn fel safon ar ba rai y gellir prynu blwydd-daliadau. Y mae y tablau hyn yn deilwng o ymddiried, ac wedi eu derbyn gan y llywodraeth a'r hanciau cynilo. Gellir cael pob manylion ar y pwngw pwsig hwn ond ymofyn yn Manciau Cynilo y Llywodraeth, neu y swyddfa yswirol. Gall y darllenydd ffurfio syniad am flyydd-daliadau oddi wrth y tabl canlynol, yr hwn a ddangosa bris blwydd-dâl o *un bunt*, yn daledig ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf ar ol iddo dalu am dano, ac i'w pharhau iddo yn

flynyddol tra y byddo byw, heb ddiun ychwaneg o gôst:—

Gwerth biwydd-dal o £1.

Oedran.	£	s.	c.
5	16	11	9½
10	16	13	4½
15	16	4	6½
20	15	16	4½
25	15	6	1
30	14	14	5
35	14	2	6½
40	13	7	9½
45	12	12	11½
50	11	14	2½
55	10	7	11½
60	8	18	9½
65	7	17	3½
70	6	6	8½
75	4	19	9½
80	4	2	10½

BYWYD YSWIRIAD.—Y mae y ddyledswydd o wneyd darpariaeth ar gyfer y teulu yn un gyffredinol, ac yn cael ei chyduabod gan bob dosparth o'r wladwriaeth. Ond, er y gall gwaith a llafur masnachwr neu grefftwr a fo'n benteulu ei alluogi i gyflawni y ddyledswydd hon gyda graiddau o lwyddiant, tra y parhao ei nerth a'i iechyd; eto y mae yn digwydd yn aml nad yw y ddarpariaeth a wneir yn rhagddyfalu y posibilrwydd o farwolaeth, trwy yr llyn y gall y rhai y byddo wedi bod yn llafurio yn galed er eu cadw, gael ar unrhyw awr eu tafu i drallod, yn cael ei wneyd yn ddwbl chwervw nid yn unig gan drallodion arianol, ond efallai gan angen bara. Nis gall yr un dyn a fyddo yn teimlo cariad didwyll tuag y rhai dibynol arno, nis gall yr un dyn yn teimlo y rhwymau gorphwysedig arno, edrych, heb bryder, ar y posibilrwydd i'w deulu gael eu goddiweddyd gan y fath drallod, er llesiant y rhai y mae yn llafurio gyda'r fath ddyfalwch a phryder. Yn awr y mae Bywyd Yswiriaeth yn cynyg y fath ffordd gyfiawn ac effeithiol i'w ddyogelu rhag y drygau ag ydynt heb hyny yn anocheladwy. Y mae hyn, erbyn hyn, yn lled wybyddus, fei na raid dwyn rhesymau dros y priodoldeb a'r pwysigrwydd o hyny. Yn wir, ni ddylai yr un penteulu oedi cyflawni dyledswydd mor bwysig am foment Ar yr un pryd,



dylai fod yn ofalus am chwilio am swyddfa o gymeriad. Y mae ugeiniau o gymdeithasau yswirol wedi eu sefydlu yn ystod y blynyddoedd diweddaf; ond prin y gallwn ddwyed fod yr holl o honynt yn ddiogel. Ond y mae Cyfraith Newydd Yswiriaeth, a basiwyd yn 1870, yn gofalu nad oes yr un gymdeithas yn cael ei sefydlu os na bydd ei chyfarwyddwyr yn alluog i ddangos i'r llywodraeth ei bod yn cael ei gosod ar dir diogel a theg. Bydd i'r gyfraith yma wneyd llawer er diogelu yswirwyr rhag cyfarfod â cholledion.

**CYFRAITH BYWYD A THAN YSWIRIAETH.—BYWYD YSWIRIAETH.**—Gall gwraig yswirio bywyd ei gŵr; gall y gŵr yswirio bywyd ei wraig; gall gofynwr yswirio bywyd dyledwr. Rhaid cael cydsyniad yr yswiriedig yn mhob achos. Rhaid i'r hwn a fo ar fedr yswirio ei fywyd ateb y cwestiynau a ofynnir iddo yn gywir; y mae unrhyw dwyll yn gwneyd yr yswiriant yn ofer. Yn absenoldeb unrhyw delerau i'r gwrthwyneb, nid yw *policy* yswiriant yn cael ei ddirymu trwy i'r yswiriedig gyflawni hunan-laddiad mewn sefyllfa o wallgofrwydd. Pan y bydd i berson roddi benthg arian ar sicrwydd *policy* yswiriad, dylai gael y *policy* i'w feddiant, a rhoddi rhybudd i'r swyddfa yswirol fod y benthg wedi ei roddi a'r *policy* ei drosglwyddo fel sicrwydd. **TAN YSWIRIANT.**—Nid ydyw un wedi yswirio rhag tân i gyfnewid ei dŷ fel na byddo mwy yn cytuno â'r desgrifiad o hono yn y *policy*; pan y bwriedir gwneyd cyfnewidiadau, dylid rhoddi rhybudd i'r swyddfa yswirol. Nid yw *policy* yswirol yn diogelu eiddo ond cyhyd ag y byddont yn yr un tŷ ag yr oeddynt pan yr effeithiwyd yr yswiriant. Pan y symudir lle y preswylfod dylid rhoddi rhybudd o hyn y oruchwyliwr y swyddfa yswirol, a bydd i'r *policy* gael ei gyfnewid yn gyfatebol.

**YSWIRIANT Y LLYTHYRDY NEU Y LLYWODRAETH.**—Trwy gyfrwng y Llythyrdy, gall unrhyw berson yswirio. Yr oedran cyfyngedig yw o £16 i 60, a'r symiau cyfyngedig ydynt o £20 i £100. Y rhandal leiaf a dderbynir yw 2s. Nis gall un bywyd gael ei yswirio am lai na £20 ar y cyfan, ond pan y byddo bywyd wedi ei yswirio am £20,

gellir effeithio yswiriadau ereill ar yr un bywyd hyd nes y cyrhaeddo y cyfanswm £100.

**NEILLDUOLION YSWIRIANT Y LLYWODRAETH.**—1. Os bydd i brynwr blwydd-dal gohiriedig farw yn y byddo y blwydd-dal yn ddyledus, bydd i'r oll a dalodd, yn ddilog, gael eu dychwelyd i'w gymunweinyddwyr. 2. Pan y byddo prynwr blwydd-dal yn analluog i barhau ei daliadau, gall naill ai cael ei arian yn ol heb lŵg, neu gael blwydd-dal ohiriedig gyfatebol i'r arian a dalodd i mewn yn barod. 3. Ar farwolaeth un yn derbyn blwydd-dal, bydd i swm gyfatebol i'r bedwaredd ran o'r blwydd-dal gael ei dalu i'w gynrychiolwyr, os hawllir hyny o fewn dwy flynedd i'w farwolaeth.

**GWAHANOL DDULLIAU I DALU AM YSWIRIO CYDA'R LLYWODRAETH.**—Y mae y Tabl canlynol yn dangos naw o wahanol ddulliau i dalu am yswiriad. Gall dyn neu wraig deg ar hugain oed yswirio £100 i'r rhai a fyddant ar ei ol ef neu hi,—

	£	s.	c.
1. Trwy un taliad o .....	43	3	7
2. Trwy daliad blynyddol trwy'r bywyd o .....	2	6	7
3. Trwy daliad chwarterol ...			
4. Trwy daliad misol .....	0	4	4
5. Trwy daliad pythegnosol ...	0	2	2
6. Trwy daliad blynyddol, hyd nes y cyrhaeddo yr yswiriedig 60 oed, o ...	2	13	10
7. Trwy daliad chwarterol, hyd nes y cyrhaeddo yr yswiriedig 60 oed, o ...			
8. Trwy daliad misol, hyd nes y cyrhaeddo yr yswiriedig 60 oed, o .....	0	5	0
9. Trwy daliad pythegnosol, hyd nes y cyrhaeddo yr yswiriedig 60 oed, o			

**SUT I BRYNU BLWYDD-DAL GAN Y LLYWODRAETH.**—Gall personau o'r ddau ystlen brynu blwydd-daliadau o unrhyw swm heb fod dros £30 yn y fl., ac ar fywydau o ddeg oed ac uchod. Gall dau berson brynu blwydd-dal ar eu bywydau unedig. Y mae blwydd-daliadau gohiriedig yn flurfio rhan o'r cynllun. Gall person 30 oed brynu blwydd-dal gohiriedig o £10, i ddechreu pan y cyrhaeddo

60 oed, am un taliad o £24. 3s. 4c., neu daliad blynyddol o £1. 8s. 4c. Neu gall person 30 oed brynu taliad gohiriedig o £2. 7s. 3c. y mis, i ddechreu pan y cyrhaeddo 60 oed, trwy daliad o 8s. y mis hyd nes y cyrhaeddo yr oedraff hwnw. Gall gŵr a gwaraig yswirio eu bywydau i'r swm o £100 yr un, a gallant brynu blwydd-dal o £50, neu daliad misol o £4. 3s. 4c. Y mae gan y rhai a yswiriant neu a brynant flwydd-daliadau sierwydd y llywodraeth y telir eu harian.

**BANCAU CYNILO Y LLYWODRAETH.**—Gall unrhyw berson gael lle diogel i gadw ei gynilion yn Manc y Llythyrdy. Derbynnir i mewn unrhyw swm heb fod dros £30 mewn un flwyddyn, a'r cyfanswm heb fod dros £150. Rhoddir llôg am bob punt gyflawn yn flynyddol, yn ol chwecheiniog y bunt, yr hwn a ychwanegir at y prif swm y dydd olaf o bob blwyddyn. Gellir cael yr arian allan gyda'r rhwyddineb mwyaf. Y mae miloedd yn barod wedi cymeryd mantais ar y cyfle rhagorol a roddir gan y llywodraeth i weithwyr ac ereill i gynilo eu henillion, ac wedi doddi canoedd o filoedd i mewn yn barod. Ceir pob hysbysrwydd, a chopi o'r rheolau, ond ymofyn â meistr y Post Office.

**CYFRAITH BLWYFOL.**—Festri sydd gynulliad o'r plwyfolion er ymdrin ag achosion y plwyf. Nid yw yn anheggorol ei chynnal yn yr eglwys neu festri. Mae gan yr offeiriad hawl i lywyddu pob cyfarfod. Dylid rhoddi rhybudd cyhoeddus o bob festri dri diwrnod yn flaenorol i'r diwrnod y bwrriedir ei chynnal arno, a chopiau argraffedig neu ysgrifenedig o honynt gael eu doddi ar brif ddrysau yr eglwysi a'r capeli. Rhaid i'r rhybudd gael ei arwyddo gan yr offeiriad, y warden, neu yr *overseer*. Nid oes gan drethdalwr unigol hawl i gyhoeddi rhybudd o festri. Yn mhob cyfarfod festri y mae gan bob un o'r plwyfolion yn talu treth bleidlais. Os wedi ei drethu am ardreth flynyddol o £50, y mae ganddo hawl i roddi pleidlais am bob £25 o ardreth ag y mae wedi ei drethu am danant, ond nis gall yr un person feddu mwy na chwech o bleidleisiau. Mewn festri nis gall yr un person bleidleisio trwy ddirprwy (*proxy*).

Pan fyddo y pleidleisiau yn gyfartal, y mae gan y cadeirydd bleidlais derfynol. Dewisir *churchwardens* yn yr wythnos gyntaf ar ol y Pasg. Dewisir hwy trwy unol gydsyniad yr offeiriad a'r plwyfolion. Os na allant gytuno, dewisir un gan yr offeiriad a'r llall gan y plwyfolion. Y mae yr arglwyddi, aelodau seneddol, offeiriad, gweinidogion ymneillduol, meddygon, cyfreithwyr, ac ereill yn cael eu rhyddhau rhag gwasanaethu swydd *churchwarden*. Y *churchwardens* ydynt warcheidwaid yr eglwys; hwy yw ymddriedolwyr unrhyw arian a adewir er buddiant yr eglwys, a hwy raid edrych ar ol adgyweiriad yr eglwys a'r muriau o'i hamgylech. Nis gellir gorfodi neb i dalu treth-cglwys mewn unrhyw blwyf yn Lloegr na Chymru. Y mae yr eisteddleoedd yn yr eglwys yn eiddo y plwyf; y mae eu rhanu yn gorphwys gydag esgob yr esgobaeth neu y *churchwardens* fel ei swyddogion. Y mae unrhyw berson a brofir yn euog o ymddwyn yn anwedus yn yr eglwys yn ystod y gwasanaeth dwyfol, yn agored i ddirwy o £5, neu ddau fis o garchariad. Rhaid i *churchwardens* unrhyw blwyf ag y telir corff marw o'r môr ar ei lân, ofalu ar ei fod yn cael ei gladdu yn mynwent y plwyf.

**CYFRAITH O BERTHYNAS BLIN-BETH A FFIEIDD-DRA** (*nuisance*).—Mae gweithdai gwêr, barcerdai, cytiau moch, lliw-dai, &c., os adeiledir hwy mor agos i dai fel ag i'w gwneyd yn amhosibl byw ynddynt, yn dyfod o dan y gyfraith hon. Mae pwll budr ag y mae peth o hono yn rhedeg i ffynon cymydog yn flinbeth, fel y mae gollwng budreddi i llyn cymydog, fel ag i ladd ei bysgod. Y mae yn anghyfreithlon troi o'i gwrs ddwfr a ddefnyddir i droi melin cymydog. Y mae unrhyw berson a daw sothach i afon, fel ag i'w chau i ffyny ac ammhuro ei dyfroedd, yn agored i gael ei gospi. Mae chwareu campau ar y prif-ffordd a thanio *fireworks* o fewn haner can troedfedd i'r brif-ffordd yn drosedd cospadwy. Mae personau a adawnt ysbwrial ar y ffordd fawr yn agored i ddirwy. Y mae person a syrthio ar draws unrhyw bentwr a osodir ar y brif-ffordd, heol, neu lwybr cyhoeddus, a thrwy hyny yn cael ei niweidio, yn meddu hawl

i orfodi yr hwn a adawodd y pentwr i dalu iawn am y niwaid. Mae unrhyw berson a geidw gi yn udo, neu a oddefo swn uchel ar adegau anamserol, er anghyfleusdra i'r cymydogion, yn agored i dalu iawn. Mae casglu tyrfaoedd o bersonau aflywodraethus yn gospadwy. Mae gosod trapiau gydag abwyd persawrus arnynt, fel ag i hudo eŵn neu gathod cymydogion iddynt, yn gospadwy. Mae personau a werthont ymborth drwg ac afiachus yn agored i ddirwyon trymion. Gall personau yn cael eu poeni gan flin neu ffiائد-bethau gael iawn oddiwrth y troseddwr trwy roddi cyfraith arnynt. Bydd i ustus heddwch wahardd unrhyw flinbeth ar unwaith. Dylid ymgynghori â swyddog y Bwrdd Iechyd, a gweithredu yn ol ei gyngor, mewn achos cymydog yn gwrthod symud rhyw ddrwg y cwynwyd wrtho o'i herwydd.

**CYFRAITH MEISTR A'R-EGWYDDORWAS.**—Gellir diddymu amod-ysgrif (*indenture*) trwy gydsyniad yr holl bartion a enwir ynddi; y mae yn darfod trwy farwolaeth y meistr neu yr egwyddorwas. Pan y rhwymir egwyddorwas i ddau feistr, y mae yn dyfod yn was i un wedi i'r llall farw. Os bydd i egwyddorwas absenoli ei hun o wasanaeth ei feistr, gall ustus heddwch ei orfodi i wasanaethu yr amser a gollodd, ac os na wna, gall ei roddi yn ngharchar. Mae methdaliad y meistr yn rhyddhau yr egwyddorwas. Gall ustus heddwch ddirymu amod-ysgrif os profir creulondeb ar ran y meistr, neu gamymddygiad yr egwyddorwas. Gall ustus orchymyn y meistr i ddychwelyd yr arbrid (*premium*), neu gall ei garcharu am anuffuddod i'r gorchymyn. Mae egwyddorweision yn absenoli eu hunain yn agored i gael eu carcharu am dri mis.

**CYFRAITH MEISTR A GWAS NEU FORWYN.**—Pan na byddo amser yn cael ei nodi, ystyrir y cyflogiad fel am flwyddyn. Mae y gwas yn cael ei ryddhau ar farwolaeth ei feistr. Mae cyflogiad gwas neu forwyn yn cael ei derfynu trwy roddi mis o rybudd, neu dalu mis o gyflog. Y mae anfedrusrwydd, difolwch, anuffudd-dod, anonestrwydd, meddwod, neu anallu parhaol yn cyf-iawnhau diswyddiad gwas neu forwyn.

Os bydd i'r meistr droi ei was neu ei forwyn ymaith ar gam, gellir doddi cyfraith arno am gyflog am holl dymor y cyflogiad. Gall meistr ddwyn cyfraith ar unrhyw un a hudo ymaith ei was neu ei forwyn, ac iddo yntau mewn canlyniad gael ei golledu o'u gwasanaeth. Y mae meistr yn rhwym o ddiogolledu gwas neu forwyn oddiwrth ganlyniadau unrhyw beth a ddiogwyddo iddynt tra yn ufuddhau i'w gorchymyn; ond nid yw yn rhwym o'u digolledu oddiwrth ganlyniadau unrhyw beth a ddygwyddo iddynt yn nghyflawniad arferol y dyledswyddau y cyflogwyd hwy i'w cyflawni. Nid yw meistr yn rhwym o roddi cymeriad i was neu forwyn pan yn eu diswyddo. Nis gellir cospi meistr ar roddi cymeriad anffafriol i was neu forwyn mewn atebiad i ymfoniadau. Os bydd i feistr yn wirfoddola thrwy wybod roddi cymeriad twyllodrus am was neu forwyn i un yn bwriadu eu cyflogi, ac i'r gwas neu y forwyn ysbeilio y meistr newydd, gall yr olaf ddwyn cyfraith ar yr un a roddodd y cymeriad twyllodrus am iawn. Y mae talu i was neu forwyn mewn eiddo yn anghyfreithlon. Os bydd i feistr neu was neu forwyn esgeuluso cadw unrhyw gytundeb, gall yr un a niweidir ddwyn yr achos o flaen ustus heddwch, yr hwn a rodde wŷs yn erbyn yr un y cwynir o'i herwydd, ac os na ddaw i'r llys, rhoddir gwarant yn ei erbyn.

**CYFRAITH CABLDRAITH (*libel*).**—Yn ngolwg y gyfraith y mae cabldraith ysgrifenedig, yn fwy niweidiol nag enllib ar air. Nid ydyw geiriau enllibaidd o natur gyffredinol yn gospadwy os na byddant mewn ysgrifen a'u lledaenu gyda'r bwriad o niweidio unrhyw berson yn ei alwedigaeth neu ei fasnach, neu swydd anrhydeddus neu enllib. Nid yw sefyllfa yr un a enllibir yn gwneyd gwahaniaeth gyda golwg ar y gyfraith. Mae geiriau yn tybio neu awgrymu meddwod cadben llong, methdaliad neu dwyll masnachwr, anfedrusrwydd swyddog, yn gospadwy, heb brawf o niwaid neillduol. Mae cyhoeddiad unrhyw beth yn tueddu i niweidio enw da unrhyw berson, neu ei osod yn agored i ddirmyg neu sarhad, yn gabldraith. Y mae adolygydd unrhyw lyfr, os canlyna yr awdwr i'w fywyd teuluaidd gyda'r amcan o enllibio, yn

agored i gosp. Nid yw bod chwedl enllibaidd ar led yn cyfiawnhau ei hailadrodd; ond gall yr amddiffynydd gael ei gyfiawnhau os gall brofi fod yr hyn a daenodd yn wir. Nis gellir cospi aelodau seneddol am yr hyn a ddywedant yn ngwrs er dyledswyddau; na'r pethau a gyhoeddir mewn llys gwladol gan y barnwr, cynghorwr, rheithiwr, tyst, &c.—Y mae meist'r a meistress yn rhydd er rhoddi cymeriad anffafriol i was a morwyn, os cyfeirir atynt am dano. Gall unrhyw berson a gyhoeddo gabldraith ar un arall gael ei ddal trwy warant a'i rwympo i sefyll ei brawf. Pan y tueddo cabldraith i wneyd niwaid cyhoeddus pwysig, gall y Cyfreithiwr Cyffredinol ddwyn y troseddwr i sefyll ei brawf. Mewn achos o gabldraith os bydd i'r ddedfryd fod o blaid y diffynydd y mae ganddo hawl i gael y costau gan yr achwynydd; ac os rhoddir y ddedfryd o blaid yr achwynwr, rhaid i'r diffynwr dalu y costau.

**CYFRAITH ARWYSTLIAD** (*Mortgage*).—Y mae gwystl-weithred (*mortgage deed*) yn tebygoli i weithred drosglyddol (*conveyance*), ond cynwysa ddarpariaeth fod y tir a wystl yr cael ei ddychwelyd i'w berchenog ar daliad yr arian a godwyd arno. Neu gall yr hwn fo'n benthycu roddi ei weithredoedd fel sierwydd i'r hwn fo'n rhoddi arian iddo. Oddigerth yn Middlesex ac Yorkshire, nid oes angen am gofrestru gwystl weithredoedd yn Lloegr. Gall yr hwn a roddodd fenthyg arian ar dir, a derbyn fel sierwydd wystl-weithred, roddi y weithred hono fel sierwydd i rhywun arall. Gall yr hwn a roddo fenthyg arian ar dir, os na thelir ei ofnyon yn yr amser a nodir, werthu y tir a thalu ei hun o bris y gwerthiad. Neu gall gymeryd meddiant o'r lle a derbyn yr ardrethoedd hyd nes cael ei dalu yn llawn. Tra y byddo y tir heb ei werthu, gall yr hwn a gaffo fenthyg arian ar ei dir, orfodi yr hwn a'i rhoddodd iddo i roddi ei dir i fyny, ar daliad yr arian a fenthycoedd.

**CYFRAITH RECEIPT STAMPS.**—Pan fyddo y dderbyneb (*receipt*) mewn ysgrifen, a'r swm a delir yn £2 ac uchod, rhaid doddi stamp ceiniog wrthi; heb hyny nis gellir ei derbyn fel prawf o daliad y ddyled. Mae taliadau a dder-

bynir ar gyfrif o £2 ac uchod, os cydnabyddir hwy trwy *receipt* ysgrifenedig, i gael eu stampio bob un â stamp ceiniog. Nid yw *receipt* yn cydnabod treth a delir i'r Goron yn gofyn *stamp*, a'r un modd y mae milwyr a morwyr yn rhydd rhag rhoddi *stamp* wrth dderbyn eu cyflogau. Mae *receipt* am arian a roddir yn y Banc yn rhydd. Rhaid stampio *cheques* Bancwyr â stamp ceiniog.

I. O. U.—Gellir dwyn I. O. U. heb ei stampio yn mlaen fel tystiolaeth o rwymedigaeath am yr arian, ond rhaid ei stampio os bydd yn cynwys addewid i dalu yr arian ar ryw amser penodol. Gellir codi arian a fenthycwyd ar I. O. U. trwy'r gyfraith.

**TORI AMOD PRIODAS.**—Mae addewid priodas ar air yn ddiagonol i seillio arno gyngaws am dori amod priodas. Mae ymddygiad y carwr, cyn tori ymaith yr ymrwymiad, yn meddu ar bwys gyda'r rheithiwr wrth roddi iawn. Gellir dechreu cynghaws er na byddo y boneddwr wedi priodi. Rhaid i'r amser cydrhwng yr ymrwymiad a dygiad yn mlaen y cynghaws fod o hyd rhesymol. Byddai yspaid o dair blynedd, neu hyd yn nod haner yr amser yna, heb i'r boneddwr wneyd unrhyw gais i adnewyddu y garwriaeth, leihau yr iawn yn fawr—yn wir wneyd i ffwrdd yn hollol efallai â phob gobaith o unrhyw iawn, os na ellir esponio yr oediad yn foddhaol. Y ffordd i fyned yn mlaen ydyw trwy gynghaws gyfreithiol. I hyny rhaid sicrhau cyfreithiwr, yr hwn a reola yr holl achos i'r diwedd. Y mae y cam cyntaf (*y writ*, ei gwasanaethu, &c.) yn costio o £2 i £5. Y cam nesaf—yn mhen o bythefnos i fis ar ol gwasanaethu y *writ*—a gostia oddeutu £5 yn ychwaneg. Mae yr holl gostau o'r dechreu i'r diwedd, o £35 i £50, heblaw costau tystion y foneddiges. Os bydd y ddedfryd yn ei ffaf'r hi, rhaid i'r ochr arall dalu y costau i gyd, oddieithr rhyw £10. Os bydd y ddedfryd yn ei herbyn hi, y mae yr un rheol yn dâl, a rhaid iddi dalu costau ei gwrthwynebydd—efallai o £60 i £70.

**CYN DECHREU CYNGHAWS GYFREITHIOL**, dylid ysgrifenu llythyr at y boneddwr, gan dad neu frawd y ferch ieuange, yn dymuno arno gyflawni ei ymrwymiad. Dylid cadw copi o'r llythyr hwn,

a gwell iddo gael ei roddi i'r boneddwr gan berson a all brofi hyny, ac fod y copi o hono yn gywir: dylai wneyd nodiad o unrhyw ymddiddan a gymero le rhyngddo â'r boneddwr.

RHOODWN DDIFYNIAD NEU DDAU O awlurdodau y gyfraith: sier y bydd iddynt gael eu darllen gyda dyddordeb gau y rhyw deg. "Dyn yr hwn oedd yn talu sylw neillduol i ferch ieuange, ar ol talu amryw ymweliadau â hi, pan y gofynwyd iddo gan dad y ferch ieuange, beth oedd ei fwriadau o berthynas iddi, a atebodd, 'Yr wyf wedi gwystlo fy arhwydded y bydd i mi ei phriodi fis ar ol y Nadolig;' a chydnabyddwyd ar y prawf fod yr atebiad uchod a roddwyd i'r tad, gan yr hwn yr oedd perffaith hawliwneyd yr ymofyniad, yn ddigonol dystiolaeth o amod i briodi."

NID YW CYFRAITH GYFREDIN yn condemnio ymrwymadau meithion, os bydd y partion yn ieuange, ac angylchiadau yn bod ag a fyddo yn cyfreithloni oediad. Os na fydd anser i briodi yn cael ei nodi yn yr ymrwymiad, y mae y gyfraith yn edrych ar y fath ymrwymiad fel addewid i briodi o fewn anser rhesymol.

CYFRAITH PRIODAS.—Yn Lloegr ystyrir priodas fel cytundeb gwladol, ond nis gellir ei ddodi o'r neilldu fel cytundebau ereill, er i'r partion roddi camhysbysrwydd wrth fyned iddo. Ac nis gellir tori y cytundeb pan y myno un o'r partion neu y ddau ynghyd. Gellir priodi yn Lloegr gyda neu heb wasanaeth crefyddol. Heb wasanaeth crefyddol gall gymeryd lle yn swyddfa y prif gofrestrydd, ac yn mhresenoldeb tystion, y partion yn cyfnewid datganiadau eu bod yn cymeryd y naill y llall yn ŵr a gwraig. Gellir gweinyddu priodasau gyda gwasanaeth crefyddol yn yr Eglwys Sefydledig neu gapel ymneillduol wedi ei gofrestru yn briodol. Rhaid fod yna gyhoeddiad gostegion dri Sabbath olynol, neu drwydded wedi ei chael gan y cofrestrydd, a rhaid i'r seremoni gymeryd lle o fewn yr oriau canonaid, h.y., rhwng wyth yn y boreu a chanol dydd. Pan fo y briodas yn cael ei gweinyddu mewn capel ymneillduol, rhaid i brif gofrestrydd y dosparth fod yn bresenol fel tyst. Rhaid i'r mab fod dros 14 mlwydd oed, a'r ferch dros 12 oed.

CYFRAITH GWR A GWRAIG.—Y mae gŵr a gwraig yn cael eu hystyried fel un person gan ygyfraith. Nis gall ywraig yn ei henw ei hun wneyd unrhyw gytundeb; ac y mae yr eiddo oedd ganddi cyn priodi yn myned yn feddiant hollol i'w gŵr. Gall orchymyn eiddo ac angenrheidiau at anghenion y teulu; gwna hyny fel goruchwylydd dros ei gŵr, ac y mae yn rhwym o dalu am danynt, tra y mae hi yn bersonol rydd. Os gorchymyna ddillad costus a diangenrhaid, nid yw y gŵr yn rhwym am danynt, ond iddo ofalu eu bod yn cael eu dychwelyd yn ol yn brydlon. Gall y gŵr ddewis ei le preswylfod yn y man y myno, ac y mae ei wraig yn rhwym o'i ddilyn; heb hyny nid yw yn rhwym o'i chadw hyd yn nod ag angenrheidiau. Nis gall gwraig gospi ei gŵr yn uniongyrchol am angenrheidiau, ond gall orchymyn angenrheidiau yn ei enw, a rhaid iddo yntau dalu i'r masnachwyr am danynt yn ol y gyfraith. Y mae y wraig yn hawlio ysgariad oddiwrth ei gŵr os bydd iddo ei chamdrin neu nacau rhoddi bwyd iddi, neu gadw meistres yn y tŷ. Os bydd i'r gŵr adael ei wraig, gellir ei erlyn o dan y *Vagrant Act* fel dihyryn a thwyllwr, a'i garcharu. Nis gellir cyhuddo gwraig o ladrata eiddo ei gŵr. Gall gŵr a gwraig fod yn dystion o blaid neu yn erbyn pleidiau ereill mewn achosion gwladol. Nis gall gwraig erlyn na chael ei herlyn am ddyled os na bydd ganddi eiddo personol wedi ei sicrhau iddi trwy weithred priodas. Y mae y gŵr yn rhwym o dalu y ddyled oedd ar ei wraig cyn iddo ei phriodi. Gall gŵr adael ei holl eiddo trwy ewyllys i ddiethriad. Pan fyddo gwraig farw cyn y gŵr, y mae yn dyfod i feddiant o agos yr oll o'i heiddo personol; nis gall feddianu ei heiddo rhydd-ddaliadol yn hollol, ond y mae yn meddu hawl yn ddynt tra y byddo byw. Gall gweithred briodas effeithio ar, a lleihau hawliau y gŵr. Os bydd gŵr a gwraig wedi gadael eu gilydd ac heb glywed oddiwrth eu gilydd am saith mlynedd, gallant briodi wedi hyny heb fod yn agored i gosp; ond nid yw yr ail-briodas yn safadwy ond cyhyd ag yr aroso y gŵr neu y wraig golledig heb ddyfod i'r amlwg.

CYFRAITH EIDDO GWRAGEDD PRIOD.

—Y mae amryw amgylchiadau wedi digwydd ag sydd wedi ei gwneyd yn angenrheidiol i'r llywodraeth i basio gweithred seneddol i amddiffyn gwragedd priod parchus rhag y creulondeb a'r anghyfiawnder yr oeddynt yn agored iddo. Nis gall y weithred ag sydd newydd ei phasio lai na bod o wasanaeth, nid yn unig i'r wraig a'i phlant, ond hyd yn nod i'r gŵr ei hun. Rhoddwn yma grynodedd byr o honi :—

i. Y mae enillion gwraig briod, mewn unrhyw alwedigaeth, arian, eiddo enillwyd ganddi, trwy arfer ei galluoedd, a phob sierwydd am y cyfryw arian, i fod yn feddiant personol iddi ei hun, ac i fod yn anibynol ar ei gŵr.

ii. Unrhyw arian a ddodwyd yn y Banciau Cynilo, a blwydd-daliadau a brynwyd gan y *Commissioners for the reduction of the National Debt* yn enw gwraig briod (neu wraig a ddigwyddai briodi wedi doddi y cyfryw arian neu brynu y cyfryw ranau), i fod yn eiddo personol iddi ei hun.

iii. Gall unrhyw wraig briod, neu o gylch priodi, yn meddu unrhyw eiddo yn y *stocks* cyhoeddus neu y *funds*, beri iddynt gael eu trosglwyddo i'w henw ei hun, neu ei henw bwriadol, fel ei heiddo personol.

iv. a v. Y mae yr un ddarpariaeth ar gyfer eiddo neu ranau mewn unrhyw gymdeithas neu Drysorfa o ba natur bynag.

vi. Nid oes dim yn y weithred ag sydd yn rhoddi grym na hawl iddi i arian ei phriod a roddwyd ganddi mewn banc neu *fund* ar gyfer ei dreulion neu ei ddyledion.

vii. Y mae gwraig briod a ddaw i mewn i unrhyw eiddo personol o herwydd ei pherthynas â rhywun wedi marw, neu i unrhyw swm o arian heb fod dros £200 o dan weithred neu ewyllys, i gael meddiant llawn o'r fath eiddo at ei gwasanaeth ei hun.

viii. Unrhyw eiddo rhydd-ddaliadol neu brydlesol, a ddisgyna i unrhyw wraig briod ar ol y weithred yma, a gaiff fod yn feddiant neillduol iddi ac at ei gwasanaeth personol.

ix. Mewn unrhyw gwestiwn cydrhwng gŵr a gwraig o berthynas i unrhyw eiddo yn cael ei gyhoeddi gan y weithred hon

yn eiddo gwahaniaethol a phersonol i'r wraig, gall un o'r ddau apelio at y *Court of Chancery*, neu farnwr y *County Court* yn y sir y b'ont yn byw ynddi.

x. Gall gwraig briod yswirio ei bywyd ei hun, neu fywyd ei phriod, a bydd y fath *policy* mor ddiogel a phe gwnelsid ef gan wraig ddbriod.

xi. Ni bydd *policy* yswiriad a effeithiwyd gan unrhyw ŵr priod ar ei fywyd ei hun, er budd ei wraig a'i blant, yn ddarostyngedig i lywodraeth y gŵr na'i ofynwyr, ac ni flurfia ran o'i feddianau ef.

xii. Gall gwraig briod roddi cyfraith yn ei henw ei hun er codi cyflog, &c., ag sydd yn feddiant iddi ei hun o dan y weithred hon.

xiii. Os bydd i ŵr unrhyw wraig briod yn meddu eiddo personol, fyned i ymofyn elusen plwyfol, bydd hi yn rhwym i'r plwyf am dâl tuag at ei gynhaliaeth.

xiv. Y mae gwraig briod yn meddu eiddo personol, o dan yr un rhwymau a gweddw i gynal ei phlant, ac nid oes dim yn y weithred ag sydd yn rhyddhau y gŵr oddiwrth unrhyw ddyledswydd sydd yn orphwysedig arno yn bresenol i gynal ei phlant.

GWNEYD EWYLLYS.—Y mae eiddo personol unrhyw un a fyddo marw heb wneyd gweithred neu ewyllys, i gael eu rhanu rhwng ei weddw, os bydd un, a'i berthynasau nesaf, yn y drefn a ganlyn :—i. Plant, wyrion, gorwyrion, &c. Yr etifeddiion nesaf, yn absenoldeb y rhai hyn, ydynt—ii. Tad ;—os na fydd un, mam, a brodyr a chwiorydd, a'u plant (ond nid eu hwyryon) ;—iii. Ei deidiau a'i neiniau ;—os na bydd yr un, iv. Ei ewyrthod ei fodryboedd ;—os na bydd yr un, v. Ei gefnderoedd, ei neiaint a'i nithoedd.

OS BYDD YR YMADAWEDIG YN GAD-AEL GWEDDW, ond heb yr un plentyn na phlant, bydd un haner o'r eiddo personol yn myned i'w weddw, a'r rhan arall i'w ranu rhwng ei berthynasau agosaf. Mae tad un yn marw heb ewyllys ac heb blant yn hawlio haner ei eiddo, os bydd gweddw ar ei ol, a'r oll os na fydd gweddw. Os y perthynasau agosaf fyddant y fam a'r brodyr a'r chwiorydd, y mae yr eiddo personol yn rhanedig i randau cyfartal, un i gael ei rhoddi i'r fam,

ac un i bob un o'r brodyr a'r chwiriwydd ; ac os bydd plant ar ol brawd neu chwaer drengedig, y mae un o'r rhanau yn rhaud-egid rhwng pob teulu o blant.

**RHAID I EWYLLYSIAU**, er bod yn safadwy, gael eu gwneyd yn unig gan bersonau un ar hugain neu dros un ar hugain oed, ac yn y llawn feddiant o'u synwyrâu pan yn gwneyd yr Ewyllys neu y testament ; ac heb fod yn euog o uchel-fradwriaeth, nac yn alltud. Rhaid i ferch fod heb briodi, os na bydd yn gwneyd ei hewyllys trwy gydsyniad ei gŵr, a'r cydsyniad hwnw yn amlygiedig mewn rhyw weithred neu gyfundeb arall, a wnawd yn ei flafr gan ei gŵr.

**NID OES YR UN EWYLLYS** yn safadwy os na fydd mewn YSGRIFEN, a'i harwyddo yn y diwedd gan y testamentwr, neu gan rhyw berson arall yn ei bresenoldeb a thrwy ei orchymyn. A rhaid i'r enw wrthi gael ei gydnabod gan y testamentwr, yn mhresenoldeb dau neu ychwaneg o dystion, yr oll o'r rhai raid fod yn bresenol yr un pryd, a rhaid i'r cyfryw dystion yn mhresenoldeb eu gilydd a thrwy wybodaeth y testamentwr arwyddo eu henwau fel tystion.

**NIS GELLIR DIRYMU NA CHYFNEWID** Ewyllys nac ychwanegiad at Ewyllys ond trwy fyned trwy yr un drefn ffurfiol ag wrth ei gwneyd ; neu trwy rhyw ysgrifen arall yn datgan penderfyniad i'w dirymu, a'r ysgrifen wedi ei gwneyd fel y gorchymynir ewyllys i gael ei gwneyd ; neu trwy losgi, rhywgo, neu mewn rhyw ffordd arall ddinystrio yr ewyllys gan y testamentwr, neu gan berson arall yn ei bresenoldeb a thrwy ei orchymyn, gyda'r bwriad o'i dirymu.

**MAE CYFNEWIDIADAU** mewn Ewyllysiau neu ychwanegiadau at ewyllysiau yn ddirym, os na fydd enw y testamentwr a dau dyst ar ymyl y ddalen, neu mewn rhyw le arall ar yr ewyllys, gyferbyn neu yn ymyl y cyfnewidiad.

**TRWY NAD OES YR UN STAMP** yn angenrheidiol ar Ewyllys, nac ychwaith dreth na tholl, dylid ei hysgrifenu ar *parchment* neu bapyr plaen. Ac nid oes angenrhaid cyfreithiol i gyflogi cyfreithiwr i'w gwneyd, ond yr ydym yn taer gymell pob un ar fedr gwneyd ei ewyllys i alw am gyfreithiwr parchus i'w hysgrifenu.

**OS BYDDIS YN BWRIADU RHODDI** rhywbeth i blentyn ANGHYFREITHLON, ni ddylai y testamentwr ei osod yn yr un dosparth a'r plant cyfreithlon, neu ei ddesgrifio yn unig fel plentyn ei rieni tybiedig, pa un bynag ai tad ai mam, ond rhaid desgrifio y plentyn wrth ei enw fel plentyn tybiedig — neu — fel na byddo dadl i fod o berthynas i'w bersonoliaeth.

**NIS GELLIR RHWYMO ETIFEDDIAETH** am fwy nag un-mlynedd-ar-hugain ar ol marwolaeth y testamentwr. Gall person ddodi yn ei ewyllys unrhyw etifeddiaeth a ddisgwylio etifeddu ryw amser dyfodol.

**GALL MILWYR** yn y gwasanaeth milwrol drefnu eu heiddo trwy ewyllys ar air yn unig.

**AR OL I UNRHYW UN BENDERFYNU** GWNEYD EWYLLYS, dylai ddewis o blith ei gyfeillion bersonau o ymddiried i fod yn gymunweinyddwyr iddo, ond dylai gael eu cydsyniad i weithredu cyn eu henwi yn ei ewyllys. Ac y mae yn ddoeth hefyd rhoddi copi o'r ewyllys i'r cymunweinyddwr neu y cymunweinyddwyr. Neu dylai roddi copi o'i ewyllys, neu yr ewyllys ei hun, yn swyddfa bwrpasol at gadw ewyllysiau sydd mewn cysylltiad a'r *Probate Office*.

**CYNLLUN SYML O EWYLLYS.**—Yr ydym eto yn dweyd wrth bob un fo yn bwriadu gwneyd ewyllys mai yr unig ffordd ddiogel iddynt ydyw ymgynghori a chyfreithiwr parchus. Ni ddylant, os ydynt yn dymuno am i'w meddianau fyned yn ddiogel i'r rhai y maent yn awyddu am iddynt gael eu mwynhau, ymddiried y gwaith i neb arall. Mae canoedd o filoedd o bunau bob blwyddyn yn myned yn hollol groes i ddymuniadau y testamentwyr, o herwydd iddynt ymddiried y gwaith o wneyd eu hewyllysiau i bersonau anwybodus. Ond ar yr un pryd, rhag ofn y gall rhywun fod mewn amgylchiad nas gall gael cymorth cyfreithiwr, dodwn yma gynllun syml o Ewyllys:—“This is the last will and testament of John Brown, of No. 3, King's Road, Bangor, North Wales. I hereby give, devise, and bequeath to my wife, Mary Brown, her heir, executors, and administrators, for her and their own use and benefit, absolutely and for ever, all my estate and effects, both real and per-

sonal, whatsoever and wheresoever, and of what nature and quality soever; and I hereby appoint her, the said Mary Brown, sole executrix of this my will. In witness whereof I have hereto set my hand this twentieth day of January, one thousand eight hundred and seventy one.

JOHN BROWN.

Signed by the said John Brown in the presence of us, present at the same time, who, in his presence, and in the presence of each other, attest and subscribe our names as witnesses hereto.

JOHN WILLIAMS,

15, Oxford Street, Bangor.

HENRY JONES,

19, Regent Street, Bangor.

CHWILIO AM EWYLLYSIAU.—Gellir gwelod pob ewyllys, a chael copi o honi, os dewisir, ond gwybod dau beth: 1. Tua pa flwyddyn y bu y testamentwr farw; ac yn 2. Yn mha le y profwyd yr ewyllys. Gyda'r wybodaeth yma gellir myned i'r llys y profwyd yr ewyllys ynddo, a chael ei darllen, heb dalu ond un swllt; a gellir cael copi o honi am bris penodol, a rhesymol.

LLYGRIAD A CHYMYSGIAD Nwyddau.—Y mae yr ymchwiliadau a wnaed yn ddiweddar gan Dr. Hassall, &c., i lygriad a chymysgiad nwyddau, wedi dwyn i'r amlwg y flaith boenus, fod agos yr holl nwyddau ag sydd mewn arferiad cyffredin yn cael eu cymysgu a'u llygru, yn aml gyda phethau isel bris, ac weithiau tra niweidiol i iechyd. Dylai pob prynwr fod yn fwy gofalus i chwilio am nwyddau da yn hytrach na chymysgiadau rhad. Nwyddau da ydynt y rhataf yn y pen draw. Ac yn awr ymdrechwn roddi y fath gyfarwyddiadau syml ag a gynorthwya y darlennydd i ocheled cymysgiadau, ac adnabod nwyddau pur ac iach.

DRYGAEU EREILL HEBLAW "CYMYSGIADAU."—Nis gall y cigydd gymysgu y biff a'r mutton, ond gall roddi pwysau bach; ac wrth wneyd y bill, gall gyfrif yr ownses fyddant dros ben yn ol ceiniog yr un, yn lle dimai; a'r pobydd, heblaw dodi alwm yn y bara, i'w wneyd yn wŷn a dal dwfr, a all anfon i'ch tŷ bwysau bach; yr un fath gyda'r grocer, y glo fas-nachydd, ac ereill. Nid ydym yn dweyd

eu bod yn arfer triciau fel hyn, ac ni chymerem lawer am ddweyd nad ydynt. Ond yr ydym yn dadleu, y dylai fod gan y prynwr y moddion i sicrhau pwy yn mhilith y siopwyr sydd yn onest, a phwy sydd heb fod; yna byddai i'r cyfiawn gael cyfiawnder, a'r anghyfiawn ddyoddef am ei anghyfiawnder. Ac os gallwn berswadio ein darllenwyr i wneyd defnydd o'r cyfarwyddiadau syml canlynol, byddwn wedi gwneyd cymaint, a dweyd y lleiaf, ag a wnaeth Dr. Hassall a'r cyfreithiau a basiwyd, tuag at symud y drwg.

CYMYSGIADAU, A CHYFARWYDDIADAU SYML I'W DARGANFOD.—ARROWROOT a gymysgir gyda phytatws, starch, a sago. Nid oes dim niweidiol yn y cymysgiadau hyn. Pan fyddo llawer o bytatws am ei ben, teimla yn llithrig wrth ei deimlo rhwng y bys a'r bawd. Gellir cael Arrowroot pur yn gyffredin ond talu pris da am dano. Gellir ystyried yr Arrowroot a baerir i fyny mewn blychau tin, ac a ganmolir fel un pur, fel peth anmhubach na'r cyffredin.

BRANDY a gymysgir â phupur ceyenne, dwfr, a siwgr llosgedig.

BARA.--Malwch eich gwenith eich hun, gwnewch eich burum eich hun, a phobwch eich bara eich hun. Bydd eich mantais yn fawr, ac nid rhaid i chwi boeni eich hun yn nghylch cymysgiadau.

CYMYSGIADAU MEWN BARA, &c.—Cymysgir a llygrir bara â blawd gyda blawd o ansawdd salach, blawd Indian Corn, blawd pytatws, blawd pys a ffa, llwch esgyrn, &c. Nid oes yr un o'r sylweddau hyn yn beryglus niweidiol. Ond llygrir hwy hefyd gyda plaster of Paris, chalk, alwm, &c., ac y mae y pethau hyn yn dra niweidiol i iechyd, yn neillduol os cymerir hwy am amser inaith.

I GAEL ALLAN A FYDD Y BARA WEDI EI GYMYSGU GYDAG ALWM.—Gwthiwch gyllell wedi ei phoethi yn dra phoeth i dorth diwrnod oed; os bydd alwm ynddi, glyna yn ronynau mân wrth y gyllell, a bydd ei arogl yn gryf arni. Os bydd y bara yn ymddangos yn anaturiol wŷn, ac yn myned yn frau iawn ar ol ei grasu, gellir penderfynu fod alwm ynddo.

I GAEL ALLAN A FYDD Y BARA WEDI EI GYMYSGU GYDA BLAWD FFA NEU BYS.



—Tywalltwch ddwfr berwedig ar beth o hono, ac os bydd y blawd wedi ei gymysgu â'r naill neu y llall, bydd i'w liarogf fod yn gryf arno.

I GAEL ALLAN A FYDD Y BLAWD WEDI EI GYMYSGU GYDA CHALK, PLASTER OF PARIS, NEU BOWDWRS MWNOL.—Os yn cynwys y sylweddau hyn, ceir ei fod yn drymach, fesur am fesur, na blawd pur. Hynf yw, bydd peint o flawd amhur yn drymach yn y clorian na pheint o o flawd pur. Torwch dafell o'r dorth, a dodwch hi mewn swm o ddwfr, mewn llestr pridd. Dodwch y llestr uwchben tân araf am dair awr. Tynwch y bara allan o'r llestr, a gadewch i'r dwfr sefyll. Pan wedi sefyll digon, tywelltwch y dwfr allan, a cheir sylwedd gwyn yn aros yn ngwaelod y llestr. Y mae teinlo dwfr poeth, yn uniongyrchol ar ol bwyta bara, yn brawf sier o'i anmhuredd. Dodwch beth blawd ar y bwrdd, a chwythwch ef yn araf â'ch anadl. Os erys pentyrau bychain ar y bwrdd, yn gwrthwynebu gweithrediad yr anadl, ac yn gwahaniaethu yn amlwg oddiwrth symudiadau y gweddill o hono, y mae y sylwedd sydd yn aros ar ol fel hyn yn amhur. Y mae blawd pytatws, ac yn wir pob blawdiau gwyn yn drymach na'r gwenith pur. Craswch beth o'r blawd amheus, hyd nes y byddo yn dechreu brownio. Yna rhwbiwch ef yn eich dwylaw, neu ar fwrdd, a gellir gweled gronynau gwynion bychain, os bydd chalk neu Plaster of Paris ynddo.

Mae BLAWD GWENITH PUR yn hynod am ei gydlynid. Os gwesgir ef glyna yn nghyd; y mae hefyd yn dra ysgafn, a gellir ei chwythu yn gwmwl o lwch gydag anadl ysgafn.

YMENYN a wneir i bwysio yn drwm trwy ddodi dwfr ynddo, a gellir ei weled yn rhedeg allan o esiamplau drwg; dylai y prynwr wrthod y math yma.

PUPUR CAYENNE a gymysgir â llwch briesan, blawd llif coch, cochineal, vermilion, a red lead. Anhawdd iawn cael dim o'r pupur hwn heb fod sylweddau niweidiol ynddo. Yr unig ffordd i'w gael yn bur ydyw i'r darllenydd ei gwneid ei hunain, trwy ei falu mewn melin fechan, neu—peidio defnyddio dim.

CHICORY.—Gwneir chicory o wraidd

llysieuyn ag sydd yn berthynas agos i ddânt y llew (*dandelion*), a chymysgir ef â carrots, parsnips, a mangold-wurzel. Llauer o erlid sydd wedi bod ar y cymysgedd hwn, ond yr ydym yn sicrhau y darllenydd fod yr holl bethau hyn yn hollol iach a lleiol, ac yn ychwanegiad dymunol at goffi; yn wir, nid da genym ni goffi heb ychydig chicory yn gymysgedig ag ef.

COFFI.—Cymysgir coffi gyda chicory, ffa rhostiedig, pys, a mès; ond yn benaf gyda chicory. Y ffordd oreu yw i chwi brynu melin goffi fechan a malu eich coffi eich hun. Ac os byddwch yn hoffi blas chicory, gellwch ddodi ychydig am ei ben.

CHOCOLATE A COCOA, a gymysgir gyda blawd, starch, blawd pytatws, sago, blawd gwenith, tapioca, maranta, a brader; ond gan nad yw yr un o'r rhai uchod yn niweidiol, nid oes angen ofni wrth ddefnyddio y mathau goraf o'r sylweddau gwerthfawr hyn.

TE a gymysgir gyda dail y sycamorwydden, y ddraenen, a'r eirinen; gyda chymysgedd o lwch tê, tywod, a gum i'w cydio yn nghyd; hefyd gyda dail y fedwen, poplar, dderwen, &c. Lliwir ef gyda blacklead, rose pink, Dutch pink, coch a melyn, arsenite of copper, chromate a bichromate of potash. Mae Tê gwyrdd yn fwy amhur na Tê du. Y mae yn aml wedi ei livio â Prussian blue, turmeric, Chinese yellow, &c., a'i flasu â sulphate of iron, catechu gum, la veno beno, a phowdwr Chinaidd. Cesglir dail tê wedi eu defnyddio unwaith, a lliwir hwy a gwerthir hwy eilwaith fel tê fres. Ceisiwch ychydig o ddail tê gwirioneddol, gwlychwch hwy, a lledwch hwy allan ar bapur, a sicrhawch hwy wrth y papur gyda gum. Gwesgwch hwy rhwng dalenau llyfr hyd nes y byddont yn sych. Pan y byddwch yn ameu tê, gwlychwch a lledwch allan ychydig o'r dail yr un modd, a sychwch hwy ar bapur yr un math a'r dail pur,—yna byddwch alluog, trwy gyferbyniad, i gael allan y twyll.

TYBACO a gymysgir gyda rhubarb, pytatws, dail carn yr ebol, llwch llif, a llauer o bethau o siop y fferylllydd.

MWSTARD A PHUPURA gymysgir gydag amryw sylweddau diwerth, a llwch gwa-

hanol bethau. Y ffordd oreu ydyw i chwi falu eich mwstard a'ch pupur eich hun.

**SNUFF** a gymysgir gyda chromate of potash, chromate of lead, amryw liwiau, red lead, carbonate of ammonia, calch, gwyr wedi ei bowdro, a gwreiddyn yr orris.

**SIWGR** a gymysgir yn gyffredin gyda thywod mân, llwch llif, &c. Toddwech beth o'r siwgr mewn gwyr hir, a chymysgwech nes y toddo yn llwyr. Gadewch iddo sefyll am rai oriau. Bydd i'r blawd llif nosio ar y wyneb, a suddu y tywod i'r gwaelod. Ceir y tywod a'r llwch llif yn fân iawn, ond bydd yn ddigon hawdd eu hadnabod. Y mae siwgr lump yn gyffredin yn burach na'r un rhydd.

**LARD** a gymysgir â blawd pytatws, dwfr, halen, carbonate of soda, a caustic lime. Cymerwech swm bychan o'r lard a amheuir, a dodwch ef i doddi ymaith ar badell haiarn, a gadewir y sylweddau amhur ar ol.

**LLAETH** a gymysgir â dwfr, ac a liwir ag anatto.

**MARMALEDE** a gymysgir gydag afalau cyffredin, maip, a pumkins. Ond yn gyffredin ceir fod y marmalade y telir pris rhesymol am dano yn rhydd oddiwrth y sylweddau hyn.

**BLAWD CEIRCH** a gymysgir gyda blawd haid. Bydd i beint o flawd pur bwyso yn drymach na'r un cymysgedig.

**RUM** a gymysgir gyda dwfr a plupur cayenne.

**GIN** a gymysgir gyda dwfr, siwgr, cayenne, cassia, cinnamon, grains of paradise, sulphuric acid, hadau coriander, angelica root, calken root, almond cake, orris root, cardamum seeds, croen oranges, halen o wahanol fathau, ac alwm a salt of tartar.

**GWIN** a gymysgir gyda sudd elderberries, gooseberries, cider, sudd amryw flwythau, a'i liwio gyda logwood, siwgr llosgedig, a phethau ereill.

**CWRW A PORTER** a gymysgir gyda cocculus indicus, tybaco, grains of paradise, capsicum, ginger, quassia, wermod, calamus root, carraway a coriander seeds,

liquourice, mël, sulphate of iron, sulphuric acid, cream of tartar, alwm, carbonate of potash, cregin wystrys, harsthorn, fabia amara, neu nux vomica, a ffa. Mae y cwrw a goda i'r pen yn fuan yn wenwynig iawn.

**PICLS A PRESERVES.**—Cymysgir y pethau hyn â gwahanol sylweddau, ond y mwyaf peryglus ydyw y copr a roddir ynddynt. I ddarganfod hwn, dodwch rai o'r picls wedi eu malu yn fân mewn potel, gyda tri drachm o liquid ammonia, wedi ei gymysgu a'r un faint o ddwfr. Ysgydwech y botel, ac os bydd copr yn y picls, bydd i'r hylif fod o liw glas prydferth. Tebygol fod copr yn myned i'r preserves trwy ddefnyddio llestri copr i'w preserfio; ond o berthynas i bicls, dodir y copr i mewn ynddynt er gwella eu lliw, a sulphuric acid i wella finegr gwael. Peidiwch prynu na bwya y picls o liw clir prydferth, a werthir mor aml. Y ffordd oreu i gael picls heb niwaid ynddynt ydyw trwy i chwi eu gwnevd eich hunan.

**SWM A SYLWEDD YR YMCHWILIADAU** hyn yw, fod y nifer luosocaf o'r nwyddau a werthir yn cael eu cymysgu a'u llygru. Ond profant hefyd nad yw llawer o'r pethau y gymysgir am ben nwyddau yn beryglus niweidiol, er eu bod yn cael eu cymysgu yn dwyllodrus a'u gwerthu fel y nwyddau pur.

Bydd i'r **AWGRYMIADAU CANLYNOL**, os gweithredir arnynt, droi yr ymchwiliadau hyn i ddefnydd ymarferol:—

i. *Malwch eich gwenith eich hun, a gwnewch eich bara eich hun.*

ii. *Gochelwch bicls gwyrddion; hynny yw, picls o liw gwyrdd tanbaid a phrydferth.*

iii. *Na ddefnyddiwch bupur a spices o liw coch tanbaid.*

iv. *Os byddwch mor ffol a phrynu cwrw a spirits o gwbl, ewch at y masnachwyr mwyaf.*

v. *Gochelwch brynu "da-da," drops, sweets, a phethau felly i blant o liwiau disglaer, yn enwedig gwyrdd, glas, neu goch—maent yn wenwynig.*

vi. *Mesurwch a phwyswch eich pryniadau ar ol iddynt ddyfod gartref.*

## MAROHNATA.

**CIGFWYD.**—Gellir dweyd gyda sierwydd fod cig anifeiliaid wedi tyfu i'w llawn faintioli yn llawer hawddach i'w dreulio a mwy meithrinol na'u rhai ieuainge; ac o berthynas i anifeiliaid o faintioli mawr, y mae y rheol hon heb eithriad. Y mae Biff a Mutton, er engraifft, yn hawddach i'w treulio ac yn iachach na veal neu lamb; ac y mae yn deilwng o sylw fod cig anifeiliaid dofaiidd yn iachach nag eiddo anifeiliaid gwylltion, cig anifeiliaid yn iachach na chig adar, a chig adar yn iachach na physgod.

**CIGFWYD I GLEIFION.**—Er fod cig anifeiliaid ieuainge, megis veal neu lamb, yn llai meithrinol ac heb fod mor iach a chig anifeiliaid wedi tyfu i'w llawn faint, y mae yn ddoeth weithiau rhoddi y flaenoriaeth i'r math cyntaf o gig yn achos personau yn dechreu gwella o afiechyd llym, gan ei fod yn llai tueddol i gynrychu gwres neu anesmwythder. Ac eto fe geir yn aml, pan fo ystumog y claf yn wan, fod ychydig o biff neu futton tyner yn cynrychu llai o anesmwythder na veal neu lamb. Gellir cymeryd fel rheol gyffredin, mewn afiechyd, fod bwyd caled yn hawddach i'w dreulio na bwyd meddal a hylifol.

**MAE BIFF YCH** yn faethlon ac iachus iawn, ac yn hawdd i'w dreulio pan yn fres gan bobl iach. Dyma yr ymborth mwyaf cryfhaol, ac y mae yn y *season* trwy'r flwyddyn. Dyma ymborth cyffredin pobl y wlad hon a llawer o wledydd ereill. Nid yw Biff buwch mor faethlon, tyner, a hawdd i'w dreulio. Anaml y bwyteir Biff tarw; mae yn sych, gwydn, anhawdd i'w dreulio, ac yn arhogli yn annymunol.

**MAE MUTTON** yn hynod o faethlon ac iachus. Dyma'r mwyaf hawdd i'w dreulio o bob cigfwyd, a dyma y cig, efallai, a ddefnyddir fwyaf cyffredin. Cig llwdn yw y goraf a'r hawddaf i'w dreulio. Mae cig mamogiad, os bydd dros dair neu bedair blwydd oed, yn wydn a chwrs. Mae cig yr hwrdd yn gryf, o flas annymunol, yn hynod wydn ac anhawdd i'w dreulio, ac ni ddefnyddir ef ond gan y rhai hyny fyddont yn rhy dlawd i brynu cig gwell.

**MAE VEAL** yn ddigon iach i'r iachus a'r cryf. Gan nad yw o duedd wresog gorehymynir ef yn aml gan feddygon i rai yn gwella o dwymynau, ac i rai tueddol o waedu o'r ysgyfaint neu fanau ereill, yn neillduol pan y'i bwyteir gyda phethau surion. Ond dylid cadw mewn cof fod rhai meddygon yn gwrthod caniatâu i'w cleifion i'w gyflwrdd, trwy ei fod yn anhawdd i'w dreulio ac yn dueddol i gynhyrfu yr ystumog a'r mewnonion.

**YSTYRIR LAMB** gan awdurdodau o bwys fel yn llai gwresog na Mutton; ond ca y rhai a boenir gan ddiffyg treuliad nad yw yn gyfaddasol iddynt hwy. Mae y Lamb yn ysgafnach ac iachach pan heb ei ladd yn rhy ieuange. Pan yn chwe mis oed y mae yn dewach, ac yn mhob modd yn well na'r oen a leddir pan yn ddau fis oed.

**YR HYDD A'R DANAS.**—Mae cig yr anifeiliaid hyn, a adnabyddir wrth yr enw *venison*, yn hawdd i'w dreulio, iachusol, a maethlon. Ni ddylid lladd yr hydd cyffredin hyd nes y bo dros bedair blwydd oed, ac y mae ei gig yn dewach a mwy blasus yn mis Awst na'r un amser arall.

Mae yr **YSGYFARNOG A'R GWNINGEN** yn fwyd iach a maethlon; mae cig yr olaf, pa fodd bynag, yn hawddach i'w dreulio, a llai gwresog, er heb fod mor faethlon; ac y mae yn hynod fod cig yr Wningen wyllt yn fwy blasus, yn ogystal a hawddach i'w dreulio, na chig yr Wningen ddôf.

**DEWIS YMBORTH.**—Y goraf o bob math o fwyd sydd yn myned bellaf; torâ yn fwy manteisiol, a rhodda fwy o feithriniaid.

**MECRYLL.**—Rhaid i'r pysgod hyn fod yn hollol fres, neu gwell bod hebddynt; ni oddefant eu cario yn mhell, na'u cadw ond am ychydig oriau wedi iddynt ddyfod o'r môr. Os byddant yn fres, bydd y cig yn galed, a'r llygaid yn ddisglaer.

**TURBOT.**—Pan yn dda a fres bydd y cig yn galed ac anystwyth, y llygaid yn ddisglaer, a'r bol o liw melyn goleu. Pan allan o dymor, neu wedi ei gadw yn rhy hir, bydd y bôl yn lās-wyn, a'r cig yn feddal ac ystwyth.

**COD.**—Y tagellau i fod yn goch, y

gwddf yn drwchus, y cig yn wyn a chaled, a'r llygaid yn ddisglaer.

**SAMON** (*Salmon*).—Cig a'r tagellau i fod o liw coch, cên yn ddisglaer, a'r cig yn galed. Pen bach a gwddf tew, yw y goraf.

**PENWAIG** (*Herrings*).—Dylid bwyta penwaig pan yn hollol ffres; ac, fel mectryll, ni pharhânt yn hir yn dda wedi eu dâl. Ond y maent yn rhagorol i roddi blas ar foreubryd naill ai wedi eu halltu, eu hollti, sychu, eu pupro neu eu piclo.

**PYSGOD DWFR CROYW**.—Y mae y sylwadau o berthynas i galedrwydd a disgleirdeb y llygaid, yn gymwysiadwy at y math yma o bysgod, o'r rhai y gellir nodi y *carp*, *tench*, *pike*, *perch*, &c.

**LOBSTERS** trymion yw y rhai goraf. Os yn ffres, symudant os pwysir ar y llygaid.

**CRANCOD**.—Y rhai trymaf yw y rhai goraf; melusaf pan o faintiolli cyffredin. Os yn ffres, aroglant yn hyfyrd.

**SHRIMPS A PRAWNS**.—Os yn ffres, y maent yn aroglu yn ddymunol, yn galedion, ac o liw goleu.

**WYSTRYS** (*Oysters*).—Os yn ffres, y mae y gragen yn gauedig hollol; pan yn agored, y maent yn farw, ac yn anghyfadfas fel ymborth. Wystrys bychain ydynt y rhai mwyaf blasus.

**BIFF**.—Y mae graen biff ych, pan yn dda, yn llac, y cig yn goch, a'r brasder yn tueddu at fod yn felyn. Y mae biff buwch, o'r ochr arall, yn meddu graen clôs, brasder gwynach, a'r cig heb fod lawn mor goch. Gellir adnabod cig creaduriaid wedi eu porthi yn wael, neu rai wedi cael byw yn rhy hir, wrth eu brasder caled a chorniog, a'u cig coch tywyll, a rhes o sylwedd caled yn rhedeg trwy gig yr asenau. Wrth bwyso y bys ar y cig, os coda ôl y bys i fyny yn fuan, y mae y cig yn dda ac ieuang; ond os bydd y twll a wneir gan y bys yn aros am beth amser yn amlwg, gwybydder fod y cig yn hen.

**VEAL**.—Cig y llo gwryw yw y caletaf, ond nid yw mor wên. Nid y cig gwynaf yw y mwyaf iraidd, trwy ei fod wedi ei wneyd felly trwy waedu y llo yn araf, a rhoddi *whiting* iddo i'w lyfu. Dewiswch y cig y byddo yr aren wedi ei chuddio yn dda â brasder tew a gwyn. Os bydd y wythien waedlyd yn yr ys-

gwydd yn edrych yn lân, neu goch goleu, y mae y cig newydd ei ladd; ond os o rhyw liw arall, y mae yn hên. Dylai y rhanau ereill fod yn sych a gwyn; os yn ludiog neu ysbotiog, y mae y cig yn hen ac yn ddrwg. Y mae veal yn myned yn ddrwg yn fuan yn yr haf.

**MUTTON**.—Mewn cig da, bydd y graen yn glôs, y lliw yn ddisglaer, a'r brasder yn galed a gwyn. Nid yw mutton rhy ieuang gystal a chig dafad bedair oed, os bydd wedi ei phorthi yn dda. Y mae cig hwrdd yn aroglu yn gryf; y cig o goch tywyll, a'r brasder yn feddal. Os bydd afiechyd ar y cig, bydd o liw coch goleu, a'r brasder â gwawr felynd arno; ymddengys y cig fel yn rhydd oddiwrth yr asgwrn, a gellir gwasgu defnyddau o ddwfr o hono; ar ol ei goginio, syrthia y cig yn llwyr oddiwrth yr asgwrn.

**OENGIG** (*lamb*). Ni cheidw y cig hwn yn hir ar ol ei ladd. Y mae y wythien fawr yn y gwddf o liw glas pan fyddo y chwarter blaen yn ffres, yn wrydd pan y byddo yn hen. Yn y chwarter ôl, os na bydd yn ffres, bydd y brasder o gwmpas yr aren yn aroglu yn ysgafn, a'r *knuckle* wedi colli ei chaledwch.

**PORC**.—Pan yn dda, y mae y croen yn deneu, esmwyth, ac oer i'r cyffyrddiad, a'r coch yn frau; pan yn dechreu myned yn ddrwg, y mae yn llipa a gludiog. Y mae lymphiau bychain caledion yn y brasder, yn arwydd fod y mochyn yn afiach neu wedi ei besgi yn wael.

**BACON**.—Dylai y croen fod yn deneu, y brasder yn galed, a gwawr goch ysgafn arno wrth ei halltu; dylai y cig fod o liw coch clir, heb resi melynion trwyddo, a dylai llynu wrth yr asgwrn. I wybod cyflwr *ham*, gwthiwech y gyllell iddi at yr asgwrn; wrth ei thynu yn ol os bydd peth o'r cig yn glynu wrthi, neu yn aroglu yn anymunol, nid yw wedi ei halltu yn iawn, ac nid yw yr *ham* yn dda; a dylid ei choginio, os bydd felly, ar unwaith. Wrth brynu *ham*, dewiser un fer a thew o flaen un hir a theneu.

**HYDDGIG** (*Venison*).—Y brasder yn glir, disglaer, ac yn lled drwchus, pan yn dda.

**TWRCI**.—Wrth ddewis *poultrg*, oedran yr aderyn yw y prif beth i dalu sylw iddo. Mae gan hen dwrci goesau garw a choch; un ieuangc goesau llyfn a du.

**Pan newydd ei ladd, y llygaid yn llawn a chliir, a'r traed yn fr.** Pan wedi ei gadw yn rhy hir, bydd rhanau o hono yn ymddangos yn wyrdd.

**FOWLS TEULUAIDD.**—Pan yn ieuange, y mae y coesau yn llyfn; pan yn hen yn arw, a blew hirion ar y frest yn lle plyf. Dylai cywion fod yn dew ar y frest a'r cefn, a'r traed yn wyn.

**GWYDDAU.**—Y pigau a'r traed yn goch pan yn hen, melyn pan yn ieuange. Newydd eu lladd, y mae y traed yn ystwyth, ond yn anystwyth pan wedi eu cadw yn rhy hir. *Green geese* y gelwir gwyddau tra y byddont ond dau neu dri mis oed.

**HWYAID.**—Dewiswch hwy gyda thraed ystwyth a brestiau caled a llawn. Traed melyn sydd i hwyaid dôf, a choch i rai gwyllt.

**COLOMENOD.**—Nid ydynt fawr o werth os cedwir hwy yn rhy hir. Traed ystwyth a ddengys eu bod yn ieuange; mae y cig yn myned yn lliipa os byddant yn myned yn ddrwg wrth eu cadw. Y mae colomenod dôf yn fwy na rhai gwyllt.

**YSGYFARNOGOD A CWNINGOD.**—Os byddant yn hen, bydd y morddwydydd yn dew, y clustiau yn sych a gwydn, a'r ewinedd yn bwt a llarpiog. Mae ewinedd ysgyfarnog ieuange yn llyfn a blaenllym, clustiau hawdd eu rhwygo, ac agen fechan yn y wafus.

**PETREYS.**—Pan yn ieuange y coesau yn felym, a'r pigau o liw tywyll. Pethau gwaelion yw hen betrys.

**WOODCOCKS A SNIPES.**—Pan yn hên, y mae y traed yn dew a chaled; pan yn dyner ac ystwyth, y maent yn ieuange ac yn ffres.

## RHADLONRWYDD OYDMAROL GWAHANOL DDARNAU O GIG.

i. **ROUND**, mewn teuluoedd mawr, yw un o'r darnau rhataf: berwir ef yn gyffredin, ac, fel y darnau at ferwi o Biff gwerthir ef yn Llundain geiniog y pwys yn rhatach na'r darnau at rostio.

ii. Mae y **BRISKET** hefyd geiniog yn y pwys yn rhatach na'r darnau rhostio. Nid yw yn ddarn mor rad a'r *Round*, trwy fod mwy o esgryn yn cael eu pwysu gydag ef, a mwy o fraser. Lle byddo plant, nid ydyw darnau a gormod o fras-

der arnynt yn ateb y dyben yn dda. Mae y deryn hwn hefyd yn gofyn cymaint arall o ferwi a darnau ereill. Wedi ei stiwiog y mae yn rhagorol; a phan wedi ei goginio yn ffres, gellir cael defnydd cawl rhagorol o hono, a gwna y cig y tro i giniaw lawn cystal.

iii. Yr **EDGEbone** neu yr **AICHBONE**. Nid ystyrir hwn yn joint rhadlon, trwy fod arno ormod o asgwrn i gyfateb i'r cig, ond y mae y rhan fwyaf o hono gystal a'r hyn a geir ar y darnau goraf. Gwertha geiniog y pwys yn is na'r darnau rhostio.

iv. Mae y **RUMP** yn dderyn rhagorol, a gwna y cigydd elw da o hono trwy ei werthu yn *steaks*. Os helltir ef, ni bydd angen ond ei ferwi; os defnyddir ef yn ffres, gwneir *stew* yn gyffredin o hono.

v. Y **GOES** a'r **GRUMOG**.—Gwnant botes rhagorol; ac os heb ferwi gormod, gwna y cig *stew* da gyda llysiâu.

vi. Gwna **OX CHEEK** botes rhagorol. Gellir cymeryd y cig oddiar yr asgwrn a gwneyd *stew* o hono.

vii. Y **SIRLOIN** a'r **ASENAU**, ydynt y darnau rhostio o Biff, a dyma y darnau a gyrhaeddant fwyaf o bris. Yr asenau yw y deryn mwyaf proffidiol o'r ddau yma. Bydd i'r esgryn, os tynir hwy oddiwrth y cig cyn ei rostio, wneyd potes da. Ar ol tynu yr esgryn rholir y cig yn aml i fynu, rhwymir a llinyn, a rhostir; a dyma'r ffordd oraf i'w ddefnyddio, am y galluoga y torwr i ranu yn fwy cyfartal y rhan uchaf o'r cig gyda'r rhan frasaf a mwyaf corniog o hono, a geir ar flaen yr asgwrn.

## I ADNABOD MUSHROOMS DA ODDIWRTH RAI FFUGIOL.

i. Rhoddwch ychydig halen ar y rhan fewnol o'r rhai fyddwch am brofi. Os troant yn felym, y maent yn wenwynig—Os yn ddu, maent yn iachusol. Gadewch i'r halen gael amser i weithredu cyn penderfynu y pwngc.

ii. Y mae *mushrooms* ffugiol yn tyfu yn bentyrau mewn coed, ar hen foncyffion, &c., tra y mae y rhai gwirioneddol yn tyfu yn y maes agored.

iii. Y mae *blâs mushrooms* ffugiol yn gâs anymunol.

iv. Wedi eu tori troant yn lās.

- v. Maent yn iraidd ar eu gwnebau, ac yn gyffredin  
 vi. O liw rhosynaidd neu felyn.  
 vii. Mae tu mewn i'r wir *fishroom* o goch goleu, yn troi yn goch tywyll.  
 viii. Y lliw yn wyn a chilir.  
 ix. Y goes yn wyn, crwn, a chryf.

## TYMHORAU GWAHANOL FWYDYDD,

### IONAWR.

i. ADAR A GAME.—*Pheasants*. Petrys. Ysgyfarnogod. Cwningod. *Woodcocks*. *Snipes*. Twrcis. *Cupons*. *Pullets*. *Fowls*. Cywion Ieir. Colomenod dôf.

ii. PYSGOD.—*Carp*. *Tench*. *Perch*. *Lampreys*. Llysŵenod. *Crayfish*. *Cod*. *Soles*. *Flounders*. *Plaice*. *Turbots*. *Thornback*. *Skate*. *Sturgeon*. *Smelts*. *Whitings*. *Lobsters*. Crancod. *Prawns*. Wystrys.

iii. LLYSIEU.—*Cabbage*. *Savoy*. *Colewort*. *Sprouts*. *Brocoli*. *Leeks*. Wynwyn. *Beets*. *Sorrel*. *Chervil*. *Endive*. *Spinach*. *Celery*. *Garlic*. Pytatws. *Parsnips*. Maip. *Shalots*. *Letis*. *Cresses*. Mwstard. *Rape*. *Cucumbers*.

iv. FFRWYTHAU.—Afalau. Gerllyg. Cnau. *Walnuts*. Gwinwydd.

### CHWEFROR A MAWRTH.

i. CIG.—*Fowls* a *Game*, fel yn Ionawr, gydag ychwanegiad o Gywion Hwyaidd.

ii. PYSGOD.—Fel y mis diweddfaf, oddigerth nad ystyrir y *Cod* yn dda o Ionawr i Gorphenaf; er hyny bwyteir ef yn aml.

iii. LLYSIAU.—Yr un fath a'r mis blaenorol, gydag ychwanegiad o *Kidney beans*.

iv. FFRWYTHAU.—Afalau. Gerllyg. Mefus wedi eu fforsio.

### AIL CHWARTER: EBRILL, MAI, MEHEFIN

i. CIG.—Biff. *Mutton*. *Veal*. *Lamb*. *Venison* yn Mehefin.

ii. ADAR A GAME.—*Pullets*. *Fowls*. Cywion. Hwyaidd. Colomenod. Cwningod. *Leverts*.

iii. PYSGOD.—*Carp*. *Tench*. *Soles*. *Smelts*. Llysŵenod. *Trout*. *Turbot*.

*Lobsters*. *Chub*. *Salmon*. Penwaig. *Crayfish*. *Mackerel*. Crancod. *Prawns*. *Shrimps*.

LLYSIEU.—Fel o'r blaen; ac yn Mai, Tatws cynar. Pys. *Radishes*. *Kidney beans*. *Carrots*. Maip. *Cabbage* cynar. *Cauliflowers*. *Asparagus*. *Artichokes*. Pob math o *salad* wedi ei fforsio.

v. FFRWYTHAU.—Yn Mehefin: Mefus. *Cherries*. *Melons*. *Green Apricots*. *Currants* a *Gooseberries* at darts.—Gorphenaf: *Cherries*. Mefus. Gerllyg. *Melons*. *Gooseberries*. *Currants*. *Apricots*. Gwinwydd. *Nectarines*, a rhai *Peaches*.

### Y TRYDYDD CHWARTER: GORPHENAF, AWST, MEDI.

i. CIG fel o'r blaen.

ii. ADAR A GAME.—*Pullets*. *Fowls*. Cywion. Cwningod. Colomenod. Gwyddau gleision. *Leverets*. Twrcis. *Poults*. Y ddau fis cyntaf, *Plovers*. *Wheatears*. Gwyddau yn Medi.

iii. PYSGOD.—*Cod*. *Haddock*. *Flounders*. *Plaice*. *Skates*. *Thornback*. *Mullet*. *Pike*. *Carp*. Llysŵenod. Pysgod-cregin; oddieithr Wystrys. *Mackerel* y ddau fis cyntaf o'r Chwarter, ond heb fod yn dda yn Awst. Dechreuir saethu Petris ar y Iaf o Fedi.

iv. LLYSIEU.—O bob math, Ffa, Pys, *French beans*, &c., &c.

v. FFRWYTHAU.—Yn Gorphenaf: Mefus. *Gooseberries*. *Pine-apples*. Eirin. *Cherries*. *Apricots*. *Raspberries*. *Melons*. *Currants*. *Damsons*. Yn Awst a Medi: *Peaches*. Eirin. Ffigys. *Filberts*. *Mulberries*. *Cherries*. Afalau. Gerllyg. *Nectarines*. Gwinwydd. Y misoedd olaf: *Pines*. *Melons*. Mefus. *Damsons*. Eirin.

### HYDREF.

i. CIG fel o'r blaen.

ii. ADAR A GAME.—*Fowls* fel yn y chwarter o'r blaen. *Pheasants*, o'r Iaf o Hydref. Petris. Ehedyddion. Ysgyfarnogod. *Dotterels*. Diwedd y mis: Hwyaidd Gwylltion. *Teal*. *Snipes*. *Widgeon*. *Grouse*.

iii. PYSGOD.—*Dories*. *Smelts*. *Pike*. *Peach*. *Halibuts*. *Brills*. *Carpes*. *Salmon-trout*. *Barbel*. *Gudgeons*. *Tench*.

iv. LLYSIEU.—Fel yn Ionawr; *French beans*, cnwdd olaf o Ffa.

v. FFRWYTHAU.—*Peaches*. Gerllyg. Ffigys. *Bullace*. Gwinwydd. Afalau. *Medlars*. *Damsons*. *Filberts*. *Walnuts*. Cnau. *Quinces*.

## TACHWEDD.

i. CIG.—Biff. *Mutton*. *Vcal*. *Pork*. POULTRY, GAME, PYSGOD, fel yn y mis o'r blaen.

ii. LLYSIEU.—*Carrots*. Maip. *Parsnips*. Pytatws. *Skirrets*. Wynwyn. *Leeks*. *Shalots*. *Cabbage*. *Savoys*. *Colswort*. *Spinach*. *Chard-beets*. *Cardoons*. *Cresses*. *Enlive*. *Celery*. *Lettices*. *Salad*.

iii. FFRWYTHAU.—Gerllyg. Afalau. Cnau. *Walnuts*. *Bullace*. *Chesnuts*. *Medlars*. Gwinwydd.

## RHAGFYR.

i. CIG.—Biff. *Mutton*. *Vcal*. *Porc*. *Venison*.

ii. ADAR A GAME.—Gwyddau. *Twr-cis*. *Pullets*. Colomenod. *Capons*. *Fowls*. Cywion. Cwningod. Ysgafarnogod. *Snipes*. *Woodcocks*. Ehedyddion. *Pheasants*. *Petris*. Adar y Môr. *Guinea-fowls*. Hwyaid Gwylltion. *Teal*. *Wedgeon*. *Dotterels*. *Dun-birds*. *Grouse*.

iii. PYSGOD.—*Cod*. *Turbot*. *Halibuts*. *Soles*. *Gurnets*. *Sturgeon*. *Carp*. *Gudgeons*. *Codlinks*. Llysŵenod. *Dories*. Pysgod-cregin.

iv. LLYSIEU.—Fel yn y mis diweddaf. *Asparagus* wedi ei fforsio, &c.

v. FFRWYTHAU.—Fel yn y mis diweddaf.

RHEOLAU I FARCHNATA. — Y rheol oreu i farchnata yw talu arian parod am bob peth, a gwneyd masnach â'r siopwyr parchusaf yn eich cymydog-aeth. Bydd i fasnachwyr o safle felly werthu i chwi nwyddau da am brisiau rhesymol. Byddwch yn well allan yn y diwedd na'r bobl ffôl hyny sydd yn arferol o ruthro yma a thraw i chwilio am "fargeinion," ac yn ddigon meddal i gymeryd eu perswadio i brynu nwyddau gwael am ychydig llai o bris na'r nwyddau goreu. Ceir clywed y bobl hyn yn canmol eu bargeinion, ac yn dyrchafu eu galluoedd i farchnata i'r cymylau! Pethau drud ar y goreu yw nwyddau

gwael. All yr un gogyddes yn y byd wneyd ymborth blasus a maethlon os na chaiff hi ddefnyddiau priodol. Gadewch i ni eich perswadio i fasnachu yn y siopau parchusaf yn unig: dichon y byddwch yn teimlo ar y cyntaf fel pe byddech yn talu ychydig yn fwy am eich ymborth, na phe buasech yn eu prynu yn siopau y bobl hyny a gymerant arnynt roddi bargeinion mawr, ond byddwch yn sicr o gael allan cyn hir eich bod ar eich mantais. Y mae triciau yn mhob masnach a chreffft; a gall masnachwyr anonest eich twyllo pan y mynant. Er i chwi feddwl eich bod i fyny â hwy, a chredu eich bod trwy gyfrwysdra wedi cael bargaen, gellwch fod yn sicr y gall masnachwyr anonest eich twyllo er eich holl gyfrwysdra, a *gwanant hyny hefyd*. Os cewch le rhesymol dros gredu fod unrhyw fasnachwr wedi eich twyllo, bydded i chwi ei adael ar unwaith a chwilio am un arall—dyna'r unig feddygyniaeth. Cyn myned i'r farchnad, edrychwch dros eich ystôr o fwydydd, ac ystyriwch yn bwylllog beth sydd arnoch angen am danynt. Er dim na fydded i chwi efelychu y gwragedd diwerth hyny fyddant yn rhedeg yn ol ac yn mlawn yn *hwyr* nos Sadwrn i chwilio am bethau i'r ty. Prynwch bobpeth boreu dydd Sadwrn, os gellwch; ond os na bydd hyny yn gyfleus, gwnewch eich marchnad mor gynar ag y byddo yn bosibl i chwi. Doeth fyddai i chwi ar foreu Sadwrn drefnu y pethau ar gyfer ciniaw pob dydd yr wythnos ddyfodol; dyma esiampl, i deulu o haner dwsin:—

*Sul*—Biff rhôst a phwdin.

*Llun*—Gweddill y Biff rhôst.

*Mawrth*—Pen Llo a phwdin afalau.

*Mercher*—Mutton wedi ei rostio.

*Iau*—Hash Mutton.

*Gwener*—Pysgod, pwdin.

*Sadwrn*—Cig Moch ac Wyau.

Gellir amrywio y drefn uchod yn ol nifer ac amgylchiadau y teulu. Cynllun da ydyw cael pethau neillduol ar ddyddiau penodol. Pan y bydd eich cigydd yn gwybod pa beth fydd arnoch eisieu, bydd ganddo siawns i wneyd ei oreu i chwi; ac na feddyliwch am Biff rhostiedig ond ar y Sul. Pan yn ordro cig, ffowls, neu bysgod, dywedwch wrth y masnachwr pa bryd y byddwch yn meddwl eu defn-

yddio : bydd ganddo allu wedi hyny i werthu i chwi ymborth a fydd yn enw da iddo ei hun, yr hyn ni wna cig, &c., goreu yn y byd, os na bydd wedi ei gadw am amser rhesymol i addfedu a thynneru.

**CARVIO BWYD.**—YMDYGIADAU WRTH Y BWRDD, &c.—Dylai bwrdd ciniaw gael ei osod allan yn drefnus, ei oleuo yn dda, a dylai fod ychydig o le gwag arno bob amser. Gwell gwahodd un cyf-aill yn llai, na dinystrio cysur yr oll.

**DIBYNA GOSODIAD ALLAN Y BWRDD** ar natur y ciniaw neu y swpper, chwaeath gŵr a gwraig y ty, safle y cwmpeini, a'r llestri a berchenogir gan y lletywr. Felly hollol aflesol fyddai gosod i lawr rifres o reolau pendant ar y pwngc. Y mae gwynder y llian bwrdd, glendid y gwydrau, disgleirdeb y *plate*, a dosbarthiad y blodau, yn bethau yn haeddu sylw neillduol.

Bydd **SIDE-BOARD** bychan yn gyfleus neillduol i ddal rhai pethau y bydd angen am danynt yn ystod y ciniaw, er peidio crowdio gormod ar y bwrdd.

Defnyddir **BILL OF FARE** (sef enw pob *course* o ymborth sydd i fyn'd yno) mewn tai mawr, os bydd yno lawer o *courses*, fel y bydd y ciniaw-wyr yn gwybod yu mlaen llaw pa beth sydd i ddyfod.

**NAPKINS** neu lieiniau ciniaw.—Plygir y rhai hyn yn drefnus ar ffurf *slipper*, a dodir y derynyn bara oddimewn iddo.

**BARA.**—Dylid tori y bara yn dafelli tewion, y peth olaf ar ol gosod y bwrdd. Os torir ef yn nghynt sycha ormod. Dylai fod *tray* ar y *side-board* a gwahanol fathau o fara arno, rhag ofn y bydd angen am fwy o hono nag a roddir ar y bwrdd.

**CARVING KNIVES.**—Dylid rhoddi min da arnynt cyn i'r ciniaw ddechreu, oblegid nid oes dim a boena garfiwr da, ac a ddyrysa fwy ar garfiwr sâl, na chylllell yn gwrthod gwneyd ei gwaith; ac nid oes dim yn fwy annyoddefol i'r cwmni na gwled y gyllell yn dawnsio yn ol ac yn mlaen ar hyd y *steel* tra y byddo y ciniaw yn oeri, a'u chwant hwythau i fwyd yn cael ei gollu trwy yr oediad.

**DARNAU I GAEL EU CARVIO.**—Dylid gosod y darnau ag angen eu carvio ar ddysglau digon mawr. Gellir arbed lle ar y bwidd trwy roddi y pethau heb waith carvio arnynt ar ddysglau bychain.

**DYLAI Y CARVIWR GAEL DIGON O LE,** pa mor agos bynag y byddo y ciniaw-wyt wedi eu pacio.

**GELLIR GOSOD Y LLYSIAU AR Y SIDE-BOARD,** os bydd y bwrdd yn llawn, a gall y *waiters* eu dwyn oddiamgylch.

**GWYDDAU, TŴRCIS, FFOWLS, SUCKING PIGS, &c.**—Dylid carvio y pethau hyn CYN EU DWYN I'R BWRDD; yn neillduol os bydd tebygolrwydd y bydd i'r rhan fwyaf o honynt gael eu fwyta ar y pryd.

**Y CARVER** sydd i roddi y plâts, a'r waiter eu cario o amgylch, yn lle gorfod rhoddi y cwestiwn i bob un o'r gwahodd-edigion pa ran a ddewis.

**BONEDDIGESAU** i gael eu helpu o flaen boneddigion.

**DYLAI WAITERS** gyflwyno y dysglau ar yr ochr chwith; fel y byddo i'r ciniaw-fwytau helpu ei hun a'i law ddeheu.

**GELLIR CYMERYD GWIN** ar ol y *course* cyntaf; a bydd yn fwy cyfleus i'r waiter ei ddwyn oddiamgylch, nag anfon y decanters o amgylch, ag na chaniatau i'r gwahoddedigion helpu eu hunain.

**DYLID DYSGU Y WAITERS** i symud oddiar y bwrdd yn uniongyrchol unrhyw beth fyddo yn dyfod yn anefnyddiol yn ystod cwrs y ciniaw yn mlaen.

Dylid anfon **FINGER-GLASSES**, wedi eu llenwi a rose neu orange water, wedi ei gynhesu braidd yn y gauaf, ac *iced* yu yr haf, o gylch y cwmni.

**PAN OSODIR Y DESSERT** ar y bwrdd, dylid gosod y gwin hefyd ar y bwrdd, a'r cwmni i symud y decanters oddiamgylch.

**PYSGOD WEDI EU FFRIO.**—Dylid rhanu y rhai hyn yn ddarnau priodol, o flaen y tân, mor fuan ag y cymerrir hwy o'r badell ffrio.

**PEN AC YSGWYDDAU Y COD.**—Rhan dew y cefn yw y goraf. Dylid ei garvio yn dafelli cyfain, a phob tafell i gael ei dilyn gan damaid o'r *sound*, oddeutu yr asgwrn cefn, neu o'r pen.

**TURBOT.**—Rhedwch y fish-slice ar hyd asgwrn y cefn, ag sydd yn rhedeg o'r pen i'r gynnffon, ac yna rhoddwch ddarnau ysgwar o'r lle tew ar y platiau, gyda darn bychan o'r man teneu o'r pysgodyn ar bob un.

**BRILL.**—Yr un fath.

**JOHN DORY.**—Yr un fath.



**PLAICE A FLAT-FISH.**—Yn gyffredin yr un fath.

**SOLES** pan yn fawr a renir fel turbot ; ond pan yn fychain, dylid eu tori ar draws.

**SALMON.**—Rhoddwch dafell o'r man tew gyda thafell lai o'r man teneu.

**MACKEREL.**—Torir hwy yn ddarnau trwy yr ochr pan yn fawr. Os bychain, gellir eu rhanu trwy yr asgwrn cefn yn haneri. Yr ysgwydd yw y man a hoffir fwyaf.

**WHITING.**—Dylid eu tori ar eu hyd o'r pen i'r gynffon. Yr ysgwydd yw y man goraf ar y pysgodlyn.

**LLYSWOD (Eels).**—Torir hwy yn gyffredin yn ddarnau cyfheus wrth eu coginio. Y darnau mwyaf trwchus a hoffir fwyaf.

**TROUTS, GWRNETS, HADDOCKS, PERCH, &c.,** a garvir yn yr un modd a'r uchod ; y rhai mawr yn dafelli ar draws, y rhai lleiaf yn haneri ar eu hyd.

**SADDLE O FUTTON.**—Torer tafelli teneuon yn gyfochrog a'r asgwrn cefn ; neu torwch yn dafelli ar draws o'r asgwrn i'r ymyl.

**SADDLES O BORG NEU LAMB.**—Yr un modd.

**HAUNCH O FUTTON NEU VENISON.**—Gyrwch y gyllell i mewn i'r cig at yr asgwrn ar draws y *knuckle-end*, er i'r *gravy* gael ei ollwng yn rhydd. Yna torwch dafelli teneuon ar hyd yr haunch. Rhoddwch beth o'r brasder gyda'r cig coch.

**RUMP NEU SIRLOIN O BEEF.**—Y toriad odditanodd, a elwir y "fillet", yw y man tyneraf, ac y mae yn arferiad troi y darn a thori y fillet yn gyntaf, gan adael yr ochr uchaf at ei dori yn oer. O'r rhan uchaf gellir tori y tafelli ar hyd neu ar draws, fel y dewisir.

**ASENAU BEEF.**—Yr un modd a'r sirloin ; ond nid oes "fillet" yn perthyn iddo.

**ROUND OF BEEF.**—Torwch y darnau allanol anwastad i ddechreu, er mwyn ei gael yn llyfn, yna torwch dafelli teneuon o faintioli da. Rhoddwch damaid o frasier gyda phob tafell o gig coch.

**BRISKET O BEEF.**—Torwch ymaith y tuallan, ac yna torwch dafelli hirion, wedi eu tori oll hyd yr asgwrn.

**SHOULDER O FUTTON.**—Torer y geuyn yn gyntaf wrth y migwrn, i'w atal rhag

crebychu yn y canol ; yna torer amryw dafelli trwy ganol y cefn ; tröer ef i fyny, a thorer wedi hyn yn unol a dymuniadau y cwmpeni, am y bydd yno amrywiol ddewisiadau.

**LEG O FUTTON.**—Tröer y darn a'r goes tuag at y llaw chwith ; dalier ef yn ddiysgog a'r ffore ; torer tafelli ar draws yn y man lletaf, neu yr ochr arall, yn ol y dewisiad. Ceir y bydd ochr y *knuckle* yn gyffredin wedi gwneyd yn dda, a'r ochr arall yn *underdone*, i'r rhai fyddo yn dewis hyny.

**LWYN O FUTTON.**—Torer i lawr rhwng yr esgryn yn chops.

**CHWARTER O LAMB.**—Gosodwch y gyllell yn wastad, a thorwch ymaith y shoulder. Gellir gosod y shoulder ar ddysgl arall os dewisir, a'i charvio y pen arall i'r bwrdd. Yn nesaf, torer ymaith y *brisket*, neu yr esgryn byrion, trwy dori ar hyd y frest. Yna gellwch dori tafelli o unrhyw fan a dewisir gan y cwmini.

**LWYN O VEAL.**—Gellir ei thori ar draws yn y man tewaf ; neu yn dafelli yn nghyfeiriad yr esgryn. Rhoddwch damaid o'r *kidney* a'r brasder ar bob plât.

**FILLET O VEAL** a garvir fel Round o Beef. Mae y darnau allanol fyddont wedi brownio yn ddewisol, a dylid eu rhanu rhwng y cwmini, gydag ychydig o'r brasder a'r *force-meat* o'r canol.

**BREAST O VEAL.**—Torer hi ar ei thraws drwyddi yn hollol. Pan y dygir y sweetbread i'r bwrdd gyda'r frêst, dylid rhoddi tamaid o hono ar bob plât.

**SUCKING-PIG.**—Dylid ei anfon i'r bwrdd yn ddau haner, y pen wedi ei hollti, ac un haner yn mhob pen i'r ddysgl. Dylid cymeryd y *shoulders* a'r coesau ymaith trwy osod y gyllell o danynt a'u codi i fyny. Gellir eu dodi yn gyfan ar y plât neu eu rhanu. Hawdd gwahanu yr asenau, ac ystyrir hwy yn rhanau dewisol o hono.

**TAFODAU** a dorir ar draws yn dafelli teneuon.

**PENAU LLOI.**—Torir hwy ar draws y cheeks, a chymerer unrhyw ddarn dymunol o unrhyw fan.

**KNUCKLE O VEAL** a garvir trwy dori ymaith y darnau allanol, ac yna cael tafelli da, a chyfartalu y coch a'r gwyn.

**LEG O BORG** a dorir fel Ham, ond y tafelli yn dewach ; pan wedi ei hystwffio

chwilier am dano o dan y croen yn y pen twaf.

**LOIN** o **BORC**.—Yr un modd a loin o futton.

**SPARE-RIB** **PORC** a garvir trwy wahanu y chops, y rhai a ddyldid eu jointio cyn hyny.

**HAMS** a dorir yn dafelli teneuon o'r *knuckle* i'r *blade*.

**PHEASANTS**.—Torwch y frest yn dafelli, yna cymerwch ymaith y coesau a'r adenydd.

**FWWLs**.—Dodwch y fforec yn ddwfn yn y frest, yna gyrwch y gyllell o dan y coesau a dadgymalwch; tynwch yr adenydd i ffwrdd yn yr un modd. Gwnewch yr un modd y ddwy ochr. Y mae eisiau cryn ymarferiad gyda'r esgyrn llai, a byddai yn fantais sylwi ar garver da yn eu trin.

**PETRIS** a garvir trwy dori ymaith y frest, ac yna eu gwahanu.

**WOOD-COCKS**.—Gellir eu tori trwodd yn hollol, o'r pen i'r gynffon. Rhoddwch ychydig o'r tóst a ddygir i'r bwrdd gyda hwynt ar bob plât.

**COLOMENOD**.—Yr un dull a Woodcocks neu betris.

**SNIPES**.—Yr un fath a Woodcocks.

**TWRCL**.—Torer tafelli o bob ochr i'r frest i lawr at yr asenau; yna gellir symud y coesau, a gwahanu y bon-cluniau oddiwrth y drum-sticks, y rhai ydynt dra gwydn; ond y mae blaen yr aden yn dda iawn, a gwell gan lawer y man gwyn ar yr aden na'r frest. Dodir yr ystwffing yn gyffredin yn y frest.

**GWYDD**.—Cadwer pen y gwddf o'ch blaen, a thorer dwy neu dair o dafelli hirion o bob ochr i'r frest yn hollol at yr asgrwn. Tröer yr wydd i fyny ar un ochr, rhodder y fforec trwy ben asgrwn y glun, a thyner yr aelod ymaith; yna gyrrer y fforec trwy ben yr aden, gwasger hi yn agos i'r corff, a thorer hi ymaith. Cymerer yr aelod a'r aden arall yn yr un modd. Ar ol hyn torer yr *apron* ymaith, yna y rhanau ereill. Tyner yr ystwffing allan â llwy trwy dwll yr *apron*.

**HWYD**.—Os byddant yn fawr, gellir eu carvio yr un modd a gwyddau; ond ond os yn ieuaingc, fel ffloes.

**YSGYFARNOG**.—Torer hi yn gyflawn i lawr hyd y gynffon, o'r ysgwydd ar un ochr i asgrwn y cefn, a'r un modd ar yr

ochr arall, gan ranu y corff agos yn dri. Yna torer y cefn yn ddarnau, trwy yr asgrwn cefn; hwn yw y llawnaf o gravity, ac a ystyrir y rhan oreu. Yna torer y shoulder a'r pen; rhodder y pen ar blât arall, a'r trwyn tuag at y torwr, gan ei ddâl yn sefydlog â'r fforec, a rhaner ef yn ddau trwy roddi blaen y gyllell yn y pen. Os bydd yr ysgyfarnog yn hen, rhaid rhoddi y gyllell yn agos i asgrwn y cefn; torer y coesau ymaith, yna torer ei chefn tuag atoch, a cheisir cael gafael yn y cymal rhwng pen y glun ac asgrwn y forddwyd. Wedi gwahanu un, torer y llall ymaith, ac wedi hyny torer tafell gul neu ddwy ar bob ochr i asgrwn y cefn, ac yna gwahaner asgrwn y cefn i gynifer o ranau ag a ddewisir.

**NODIADAU**.—Rhoddir digon o gyfarwyddiadau yma er galluogi y carver, trwy sylw ac ymarferiad, i allu gwneyd ei waith yn dda. Nid yw y gelfyddyd o garvio yn gynwysedig yn unig mewn gallu dadgymylu y darnau a anfonir i'r bwrdd, ond hefyd yn y dosbarthiad cynil a doeth o honynt, a'r trefnusrwydd a'r pryderthwch ymddygiad a ddangosir wrth wneyd hyny.

## COGYDDIAETH.—PYSGOD.

**SAMON**.—**BERWI SAMON**.—Glanhaer y pysgodyn, tyner ymaith ei gèn, a golcher ef mewn dwfr; yna doder ef mewn fish-kettle mawr, gyda digon o ddwfr, a dynnid o halen. Yr amser a ganiateir yn gyffredin at ferwi samon yw, deuddeg munud at bob pwys; ond rhaid i hyn ddiwynu i raddau mawr ar drwch y pysgodyn. Os gellir dodi cyllell yn hwylus rhwng y pysgodyn a'r asgrwn, y mae yn ddigon. Pan yn ddigon, coder ef yn uniongyrchol o'r dwfr, a gosoder y fish-drainer ar draws y crochan, i adael i'r dwfr ddiiferu oddiwrth y pysgodyn. Dyger ef i'r bwrdd ar ddysgl, a phlât pysgod a lian gwryn odditono, y lian yn nesaf ato. Trwsier y ddysgl a phersli gleision. Y sauce yw ymenyn toddi cyffredin, persli sauce, neu lobster sauce.

**BRIWLIO SAMON**.—Torer tafellau o'r man mwyaf trwchus o hono, ac wedi eu glanhau, sycher hwy, a lluchier blawd hyd-ddynt. Briwlier hwy ar gridiron ar dân clir. Pan yn ddigon, rhiwber

hwy trostynt ag ymenyn, a dyger hwy i'r bwrdd yn boethion, gyda rhyw un o'r sauces a ddefnyddir at samons wedi eu herwi. Gellir briwlio tafellau o samons wedi eu sychu yn yr un dull.

**SYCHU SAMON.**—Agorwch y pysgodyn, a thynwch ei berfedd a'r grawn. Rhwb-iwch y cyfan â halen cyffredin, ar ol tynu ymaith y cên; gadewch iddo hongian am 24 awr. Malwch 3 neu 4 owns o saltpetre, yn ol maint y pysgodyn, 2 owns o bay salt, a 2 owns o siwgr bras; cymysger hwy yn nghyd yn ofalus, a rhwbier hwy yn dda i'r samon, a gosoder ef ar ddysgl fawr am ddau ddiwrnod, yna rhwbier ef yn dda â halen cyffredin, ac yn mhen 24 o oriau yn rhagor bydd yn gymhwys i'w sychu; sychwch ef yn lân ar ol ei dynu o'r halen. Crogwch ef naill ai mewn simnai neu le sych, gan ei gadw yn agored â dau ddernyn bychan o bren.

**PICLO SAMON.**—Wedi tynu ymaith y cên, a'i lanhau, holltwch y samon, a rhenwch ef i'r nifer a fynwch o ddarnau; dodwch ef yn y crochan fel ag i lanw y gwaelod, a digon o ddwfr i'w orchuddio; at dri chwarter rhowch beint o finegr, dyrmaid o halen, dwsin o bay-leaves, chwec o blisg mace, a chwarter owns o bupur du. Pan fyddo y samon wedi herwi digon, tywalltwch ymaith y drwyth, a dodwch y pysgodyn ar lian glân, yna dodwch ychwaneg o'r samon yn y crochan, tywalltwch y drwyth arno, ac felly o hyd nes y byddo y cwbl wedi darford. Ar ol hyn, os na bydd digon o flâs finegr a halen ar y dwfr, dodwch ychwaneg i mewn, a berwch yn gyflym am dri chwarter awr. Pan fyddo wedi cwbl oeri, paciwech y pysgodyn mewn llestr dwfn, a bydded digon o'r drwyth i'w orchuddio yn gwbl. Dyogelwch ef rhag yr awyr. Dylai y gwlybwr gael ei dywallt oddiar y pysgodyn, a'i ferwi a'i ysgumio yn achlysurol.

**POTIO SAMON.**—Cymerwch ddernyn mawr, tynwch y cên a sychwch, ond peidiwch a'i olechi; rhoddwch arno halen yn dda, a gadewch iddo orwedd yno nes y byddo yr halen wedi toddi a rhedeg oddiarno, yna blasuwch ef gyda mace wedi eu malu, cloves a phupur cyfain; rhoddwch i mewn ychydig o bay-leaves, a rhoddwch ef mewn dysgl gauedig, wedi

ei orchuddio yn gyntaf ag ymenyn, a chraswch ef mewn pobty; pan fyddo wedi gwneyd yn dda, tywalltwch y gravity ymaith, dodwch y samon yn y potiau i'w gadw, a phan yn oer, gorchuddiwch ef ag ymenyn wedi ei buro.

**TURBOT.**—**BERWI TURBOT.**—Wedi ei lanhau, heb dori unrhyw fan, oddigerth i dynu ei berfedd, doder ef mewn dwfr a halen, gan ychwanegu ychydig finegr, a gadawer iddo fwydo am ychydig amser cyn ei ferwi. Doder ef mewn fish-kettle ar y tân, a'r bol i fyny, mewn digon o ddwfr oer, dyrmaid o halen, a llonaid cwpan tē o finegr. Gadawer iddo boethi yn raddol, a berwer ef am haner awr ar ol iddo ddechreu herwi. Pan yn ddigon, dyger ef i'r bwrdd a'r bol i fyny, a thrwsier ef âg unrhyw bysgod mân wedi eu ffrio, neu gyda phersli a horse-radish wedi eu crafu. Y sauce yw, lobster neu oyster sauce, neu ymenyn toddi cyffredin.

**FFRIO TURBOT.**—Torwch y turbot ar draws yn dafelli o drwch gweddol, lluchiwch flawd ar hyd-ddynt, a dodwch mewn padell ffrio fawr, gyda lard i'w orchuddio. Ffriwch nes y byddont yn frown; a thywelltwch ymaith y sain. Glanhewch y badell, a thywelltwch sherry wine iddi, agos ddigon i'w gorchuddio, anchovy, halen, nutmeg, ac ychydig ginger. Ystiwch y pysgodyn ynddo nes y byddo wedi wastio i'w haner. Cymerwch y pysgodyn allan, a dodwch yn y badell ddarn o ymenyn wedi ei rowlio mewn blawd, a pheth lemon wedi ei fanu. Lledferwch nes y byddo wedi tewychu yn briodol. Rhoddwch mewn dysgl wedi ei rhwbio â shalot. Tywelltwch y sauce poeth drosto, a dygwch i'r bwrdd.

**COD.**—**BERWI COD.**—Os berwir cod ffres, y mae yn ddyfriog; ond y mae yn rhagorol os helltir ef, a'i hongian am ddiwrnod, er ei galedu. Golchwch a glanhewch y pysgodyn yn dda, a rhwb-iwch halen y tu mewn iddo; rhwymwch i fyny, a dodwch ar tân mewn dwfr oer; teflwch ddyrmaid o halen i'r fish-kettle. Berwch bysgodyn bychan am 15 munud; un mawr am haner awr. Dygwch i'r bwrdd heb yr un yspotyn na chrêst (*scum*). Trwsier ef â lemon, horse-radish, ac oyster sauce.

**PEN AC YSGWYDDAU Y COD.**—Cymerer pen ac ysgwyddau y cod yn un darn, glanhaer ef, a doder ef mewn halen dros nos. Pan eloch i'w arlwy, blingwch ef, a rhwymwch ef â llinyn i'w gadw yn gyfan. Dodwch ef mewn *fish-kettle*, y cefn i fyny, gyda digon o ddwfr oer, dyrnaid o halen, ac ychydig finegr. Gadawer iddo boethi yn raddol, a berwer ef am oddeutu haner awr. Yna gosoder ef ar drainer ar draws pen uchaf y crochan, fel y gallo y dwfr ddyferu o hono. Wedi hyn, gosoder ef a'i gefn i fyny ar y ddysgl yn mha un y mae i'w ddwyn i'r bwrdd, gan dori a thynu ymaith y llinynau yn dra gofalus. Rhwbier ef drosto âg wŷ wedi ei guro, lluchier briwsion bara, pupur, a halen hyd-ddo, a gosoder darnau o ymenyn yn aml hyd y pen uchaf. Doder ef o flaen tân clir i'w frownio. Tywallter oyster sauce, wedi ei wneyd â beef gravy yn lle dwfr, a'i flasuso yn uchel â phupur cayenne, halen, a ketchup, i'r ddysgl, o amgylch y pysgodyn.

**DERNYN CANOL O'R COD.**—Glanhaer ef, a gwnaer ystwfing o friwsion bara, persli, ac wynwyn wedi eu malu yn fân, pupur a halen, a deryn o ymenyn, wedi ei wlychu âg wŷ. Doder yr ystwfing yma yn y darn agored o'r pysgodyn, a sicrhaer ef yno â skewers. Yna rhwbier y pysgodyn drosto âg wŷ wedi ei guro, a lluchier hyd-ddo friwsion bara, pupur, a halen. Hefyd, gosoder darnau o ymenyn hyd-ddo. Doder ef mewn Dutch-oven o flaen y tân i grasu. Dyger ef i'r bwrdd gydag ymenyn toddi neu oyster sauce.

**HADDOCKS NEU WHITINGS.**—**BERWI HADDOCKS.**—Dewiser pysgod o faint canolig. Glanhaer hwy yn dda, golcher hwy, ac yna berwer hwy gydag ychydig halen yn y dwfr. Y mae ugain munud neu haner awr o ferwi yn ddigon. Dyger hwy i'r bwrdd gydag oyster sauce.

**BRIWLIO HADDOCKS.**—Tynwch eu perfedi a golchwch; sychwch hwy; rhwbiwch ychydig finegr drostynt, i gadw y croen arnynt; lluchiwch flawd hyd-ddynt; rhwbiwch y gridiron ag ymenyn; gadewch i'r gridiron fod yn hollol boeth; trowch y pysgod ddwy neu dair gwaith. Pan yn eu dwyn i'r bwrdd, gosodwch bicls o'u hanigylch o'gylch, ymenyn toddi yn sauce.

**SYCHU HADDOCKS.**—Gellwch eu prynu

wedi eu ciwrio a'u sychu yn barod yn rhatach nag y gellwch wneyd hyny eich hunain.

**STURGEON.**—**BERWI STURGEON.**—Dwfr, 2 chwart; finegr, 1 peint; stick o horse-radish; ychydig groen lemon, halen, pupur, bay-leaf. Berwch y pysgodyn yn y cymysgedd hwn; pan y byddo y cig yn barod i ymadael a'r asgwrn, codwch ef; toddwch  $\frac{1}{2}$  pwys o ymenyn; ychwanegwch anchovy, mace, ychydig shrimps, ketchup mushrooms, a sudd lemon; pan y berwa, dodwch yn y ddysgl; dygwch i'r bwrdd gyda'r sauce; trimiwch gydag oysters wedi eu ffrio, horse-radish a lemon.

**RHOSTIO STURGEON.**—Dodwch dderyn o ymenyn, wedi ei rollo mewn brawd, mewn stiwwpan, gyda phedair o cloves, swm o bêr-lyisiau, dau wynwyn, ychydig bapur a halen, haner peint o ddwfr, a gwydraid o finegr. Dodwch ar y tân nes y byddo yn boeth; yna gadewch iddo ddyfod yn llygoer, a mwydwch y pysgodyn ynddo am awr neu ddwy. Cymerwch bapur wedi ei rwbio yn dda ag ymenyn, rhwymwch o'i gwmpas, a rhostiwch ef heb adael i'r spit fyned trwyddo. Dygwch i'r bwrdd gyda sorrell ac anchovy sauce.

**COGINIO STURGEON YN FFRES.**—Trowch yn dafellau, rhwbiwch wŷ drostynt, yna lluchiwch hyd-ddynt friwsion bara, persli, pupur, halen; dodwch hwy mewn papur a briwliwch yn araf. Y sauce yw ymenyn, anchovy, a soy.

**SKATES NEU GATHOD MOR.**—**BERWI SKATES.**—Glanhewch yn dda, a thorwch yn ddarnau hirion culion; dodwch mewn dwfr berwedig gydag ychydig halen ynddo. Berwch am 15 munud, a chymerwch allan; ac ar ol ychwanegu ychydig finegr at y dwfr, berwch drachefu nes y byddont yn ddigon. Gadewch i'r dwfr ddiiferu oddiwrthynt ar ol eu codi. Dygwch i'r bwrdd tra yn boeth, a thywlltwch drostynt shrimp, cockle, neu mussel sauce. Trimiwch a horse-radish.

**CARP NAU TENCH.**—**YSTIWIW CARP.**—Ysgaldiwch, a glanhewch ef, cymerwch ofal o'r grawn, &c., dodwch y pysgodyn mewn llestr ystiwio, gyda beef da, wynwyn, wyth o cloves, llonaid llwy o bapur Jamaica, yr un swm o bapur du, y bedwaredd ran o swm y gravy o win

coch neu cider; gadewch iddo ledferwi wedi rhoddi caud arno yn ddiogel; pan fyddo agos yn barod, ychwaneger ato ddau *anchovy* wedi eu malu yn fân, llwyaidd o fwstard wedi ei gymysgu, ychydig walnut ketchup, darn o ymenyn wedi ei rolïo mewn blawd, ysgydwch ef, a gadewch i'r gravy ferwi am ychydig funudau. Dygwch ef i'r bwrdd gyda thafellau bychain o fara wedi ei ffrio, y grawn wedi ei ffrio, a swm helaeth o horse-radish a lemon.

**TROUTS.**—**BRIWLIO TROUT** (Brithyll).—Golchwch, sychwch, a rhwymwch er ei gadw yn ei ffurf; toddwch ymenyn, ychwanegwch, halen, a gorchuddiwch, y trout ag ef. Briwliwch yn araf mewn Dutch-oven, neu bobtŷ cyffredin. Torwch *anchovy* yn fân, a manwch rai capers. Toddwch ymenyn gydag ychydig flawd, pupur, halen, nutmeg, a haner llwyaidd o finegr. Tywelltwch dros y trout, a dygwch i'r bwrdd yn boeth.

**FFRIO TROUTS.**—Mae trouts o faint cymedrol yn cael eu coginio yn gyfan; a'r dull goreu yw eu ffrio. Glanhaer y tu mewn i'r trouts, a thynyr ymaith y cên. Lluchier blawd hyd-ddynt, a dodder hwy mewn padell ffrio, yn cynwys lard poeth. Tröer hwy, fel ag i'w brownio bob ochr. Coder hwy allan, a dyger i'r bwrdd ar ddysgl; byddai yn dda rhoddi llian oddi-tanvnt i yfed y sain.

**MECRYLL** (*mackerel*).—**BERWI MECRYLL.**—Rhwbwch a finegr; pan fyddo y dwfr yn berwi, dodwch hwy i mewn gydag ychydig halen, a berwch yn araf am 15 munud. Dygwch i'r bwrdd gyda fennigl a phersli wedi eu malu, eu berwi, a'u doddi mewn ymenyn toddi, a goose-berry sauce.

**BRIWLIO MECRYLL.**—Holltwch hwy, lluchiwch hyd-ddynt lysiau, pupur, halen; neu ystffiwch a'r unrhyw, briwsion bara, a ffennigl wedi ei falu.

**POTIO MECRYLL.**—Glanhaer a blasuser hwy, a chraswch hwy yn y pobtŷ mewn dysgl gyda spice, bay leaves, ac ychydig ymenyn; pan yn oer, paciwch hwy yn dyn mewn llestr potio, a gorchuddiwch ag ymenyn.

**PICLO MECRYLL.**—Glanhewch ac agorwch hwynt; yna torwch bob ochr yn dri darn; neu gadewch hwy heb eu hagog, a thorwch bob pysgodyn yn bump

neu chwech o ddarnau. At chwech o feeryll mawrion, cymerwch agos i owns o bapur, dau nutmeg, ychydig mace, peclair o cloves, a dyrnaid o halen, oll wedi eu malu mor fân ag y byddo modd; cymysgwch hwy, ac wedi gwneyd twll ymhob un o'r darnau pysgod, gwthiwch y cymysg i mewn iddynt, a rhwbwch bob darn gyda pheth a hono; yna ffriwch hwy yn frown mewn oil; gadewch iddynt oeri, yna rhowch hwynt mewn stone jar, gan eu gorchuddio a finegr; os bydd eisiau iddynt gadw yn hir, tywelltwch olew (*oil*) ar y top. Wedi gwneyd hyn, cadwnt am fisoedd.

**SOLES.**—**BERWI SOLES.**—Blingwch a thynwch berfeddi dwy o *soles*; golchwch, a dodwch mewn finegr, halen a dwfr, am ddwy awr; yna dodwch hwy mewn *steak-pan* gyda peint o sherry, llysiau, wynwyn, cloves, pupur a halen. Gorchuddiwch, a phan wedi gwneyd digon, dodwch mewn ddysgl; ystreiniwch y *gravy* fyddo o'u cwmpas, tewychwch gydag ymenyn a blawd, a thywelltwch dros y pysgod. Triniwch â horse-radish a lemon.

**FFRIO SOLES.**—Cymerwch nifer digonol o bysgod; blingwch a thynwch eu berfeddi; torwch ar hyd y cefn; tynwch y gyllell ar draws yr edyn i wahanu y cig; pan yn barod i'w coginio trochwch hwy mewn laeth; lluchiwch ychydig flawd hyd-ddynt, a ffriwch uwch tân da; pan wedi gwneyd digon dodwch ar lian er i'r sain redeg o honynt; dodwch lian glân o danynt yn y ddysgl ar y bwrdd; anfonwch lemons cyfain i'r bwrdd gyda hwynt.

**BRIWLIO SOLES.**—Cymerwch ddwy neu dair o Soles, gwahanwch hwy oddi-wrth yr asgwrn cefn, a thorwch ymaith y pen, edyn, a'r gynffon. Ysgeintiwch y tu mewn â halen, rholiwch hwy i fyny yn dyn o'r gynffon i fyny, a sicrhewch hwy a *skewers* bychain. Os byddant yn fawrion neu ganolig, na roddwch ond haner pysgodyn yn mhob rhol. Trochwch hwy mewn melyn ŷyau, a gorchuddiwch hwy a briwsion bara. Dodwch ŷy drostynt drachefn, ac yna ychwaneg o friwsion, a ffriwch hwy o liw prydiert hwynt mewn neu lard pur.

**LLEDI** (*Flat-fish*).—**FRIO LLEDI.**—Lluchiwch halen hyd-ddynt, a'u cadw am bedair awr ar hugain; yna golchwch hwy,

a sychwch yn sych, gwlychwch hwy drostynt ag ŵy, a gorchuddiwch hwy a briwsion bara; cymerwch gyfran o lard neu dripping pur, a dwy lonaid llwy fawr o finegr, a phan fyddont yn boeth ferwedig yn y badell, dodwch y pysgod i mewn, ac wedi iddynt ffrio nes y byddont yn y lliw gofynol, tywelltwch y braser, a dygwch y pysgod i'r bwrdd gyda phersli wedi eu ffrio o'u hamgylch, ac anchovy sauce.

**LLYSWOD (Eels).**—**BRIWLIO LLYSWOD.**—Cymerwch un neu ddwy o lyswod mawrion, gadewch y croen am danynt, torwch hwy yn ddarnau o dair modfedd o hyd, agorwch hwy drwy eu boliau, a glanhewch hwy yn ofalus; sychwch hwy yn sych, ac yna gwlychwch hwy âg ŵy wedi ei guro, a lluchiwch drostynt ar bob ochr bersli wedi ei falu, pupur, halen, ychydig sage, a deryn o mace wedi ei falu yn fân, a'i gymysgu gyda'r lleill. Rhwbiwch y gridron a deryn o floneg, a briwliwch y pysgodyn nes y byddo o liw prydfarth. Dygwch ef i'r bwrdd gydag anchovy, ac ymenyn toddi yn sauce.

**BERWI LLYSWOD.**—Y rhai lleiaf yw y goreu; berwch hwy mewn swm bychan o ddwfr, a chryn lawer o bersli, yr hwn a ddylid ddwyn gyda hwynt i'r bwrdd, ynghyda'r dwfr y berwyd hwy ynddo. Dodwch hefyd ar y bwrdd bersli wedi ei falu, ac ymenyn toddi yn sauce.

**FFRIO LLYSWOD.**—Os yn fychain, dylid eu troi o gwmpas yn grwn, a'u ffrio, wedi eu trochi yn gyntaf mewn ŵy a briwsion bara.

**YSTIWIW LLYSWOD.**—Glanhewch hwy yn ofalus. Torwch yn ddarnau dwy neu dair modfedd o hyd, a ffriwch am ychydig funudau. Dodwch dameidiau bychain o ymenyn yn y stew-pan, yna y pysgod, gyda halen, pupur, ychydig bach o groen lemon, mace, cloves, a nutmeg; chwarter peint o sherry wine, gyda marjoram, thyme, savory, a wynwyn wedi ei haner ferwi a'i fânau. Ystiwliwch yn araf nes y byddo yn dyner; cymerwch y pysgod allan, a rhoddwch anchovy yn y sauce; tewychwch a melynwy, neu ymenyn wedi ei rowlio mewn brawd. Berwch a thywelltwch ar y llyswod.

**PICLO LLYSWOD.**—Ysgwrier hwy gydag halen, hollter hwy i lawr ar hyd eu cefnau, tyner eu hesgyrn, golcher a glan-

haer hwy; pereiddier hwy gyda mace, nutmeg, pupur, halen, persli, sage, a thyme; yna rholier hwy i fyny mewn llian, cylymer hwy yn ddyogel, a berwer hwy mewn dwfr a halen, gyda pheint o finegr, dyrnaid o ber-lyisiau, ac ychydig o spice. Pan fyddont wedi berwi, hidler y picl, a chadwer y llyswod ynddo i'w defnyddio.

**PENWAIG (Herrings).**—**FFRIO PENWAIG FFRES.**—Tafellwch wynwyn bychain, a rhoddwch yn y badell gyda'r penwaig; ychwanegwch ychydig ymenyn, a ffriwch hwynt. Efallai mai gwell ffrio y wynwyn ar wahan gydag ychydig o bersli, ac ymenyn neu dripping.

**BRIWLIO PENWAIG FFRES.**—Glanhewch yn lân; torwch ymaith eu penau; rhoddwch i sefyll am ddeg munud mewn finegr a halen; lluchiwch flawd hydddynt, a briwliwch ar dân glân.

**PICLO PENWAIG.**—Golchwch hwy, a gwasgwch y dwfr oddiarnynt, ond peidiwch a'u sychu; blasiwch hwy ag allspice wedi ei falu yn llwch, halen, ac ychydig cloves yn gyfain; dodwch hwy mewn dysgl, gyda digon o bupur du, wynwyn, ac ychydig bay-leaves. Ychwaneger digon o finegr a dwfr i'w gorchuddio (rhodder diod fain yn lle dwfr os dewisir). Rhowch bapur dros y ddysgl, a chraswch hwy mewn pobtŷ araf.

**COCHI PENWAIG.**—Glanhewch hwy, a dodwch hwy mewn halen ac ychydig saltpetre, am noswaith; yna hongiwch hwy ar wialen, trwy y llygaid, yn un rhês. Parotwch hen faril, ar yr hwn gosodwch flawd llif, ac yn ei ganol ddarn o haiarn wedi ei boethi yn wynias; gosodwch y wialen a'r penwaig uwchben y mŵg, a gedewch hwy yno am bedair awr ar hugain.

**LOBSTERS.**—**YSTIWIW LOBSTER.**—Tynwch allan y cig, rhowch y grawn mewn dysgl, a rhwbiwch hwy i lawr gyda deryn o ymenyn, dwy lwyaid o roywfath o gravy, llwyaid o Ketchup (soy neu walnut) ychydig halen a phupur cayenne, a llwyaid o win coch; ystiwliwch y lobster, wedi ei dori yn ddarnau, gyda'r gravy uchod.

**POTIO LOBSTERS.**—Haner berwch hwy, tynwch allan y cig, torwch ef yn ddarnau bychain, blasuswch â mace, pupur gwyn, nutmeg, halen, a gwasgwch yn dŷn

i lestr, cuddiwch hwy âg ymenyn, a rhoddwch hwy yn y pobty i grasu am haner awr; dodwch y grawn i mewn. Pan fyddo wedi oeri, tynwch allan y lobster a dodwch hwy yn y potiau, gydag ychydig o'r ymenyn. Curwch y gwedd-ill i'r ymenyn mewn mortar, gyda pheth o'r grawn; yna cymysgwch yr ymenyn lliwiedig hwnw gyda chymaint ag fydd yn angenrheidiol i orchuddio y potiau, a hidlwch ef. Gellir ychwanegu pupur cayenne os byddis yn dewis.

**RHOSTIO LOBSTER.**—Wedi i chwi ei haner ferwi, tynwch ef o'r dwfr, a thra yn boeth, rhwbiwch ef âg ymenyn, a dodwch ef o flaen y tân. Parhewch i'w iro ag ymenyn nes y byddo yn frothio yn ddymunol.

**CRANGCOD (Crabs).**—YSTIWIO CRANGC.—Dodwch yr holl gig mewn stewpan, gyda haner peint o sherry, pupur, nutmeg, halen, ychydig o friwsion bara, melyn wý wedi ei guro yn dda, a llwyaid o finegr. Dodwch ar dân araf, gan ei ysgwyd yn aml. Dygwch i'r bwrdd ar blât.

**CRANGC POETH.**—Tynwch y cig allan o'r crangc, cliriwch y gragen, ac yna dodwch y cig, gydag ychydig nutmeg, halen, pupur, deryn o ymenyn, briwsion bara, a thair llwyaid o finegr, yn ol yn y gragen, a gosodwch o flaen y tân. Gellwch ei frownio gyda salamander neu haiarn poeth. Dylid ei ddwyn i'r bwrdd ar fara wedi ei grasu, ac heb ddim ymenyn arno.

**CRANGC OER.**—Gwaghewch y cregyn, a chymysgwch y cig ag olew, finegr, halen, ac ychydig bupur gwyn a cayenne; yna dodwch y cymysg yn ol yn y gragen fawr, a dygwch i'r bwrdd.

**PRAWNS A SHRIMPS.**—COGINIO PRAWNS A SHRIMPS.—Cymerwch allan o'r cregyn, a phoethwch hwy mewn gravy da, tamaid o ymenyn a blawd, gratiad o nutmeg, halen, a phupur; lledferwch am funud neu ddau, a dygwch i'r bwrdd gyda cream sauce.

**CURRY PRAWNS.**—Cymerwch o'r cregyn, a dodwch mewn sospan, gyda thamaid bychan o mace, pedair llwyaid o gravy veal, a'r un faint o hufen; rhwbiwch yn esmwyth lon'd llwy dé neu ddwy o curry powder, llon'd llwy dé o flawd, ac owens o ymenyn; lledferwch am awr; gwasg-

wch haner lemon i mewn, ac ychwanegwch halen.

**POTIO SHRIMPS.**—Pan wedi eu berwi, tynwch hwy allan o'u cregyn, a blasuwch hwy â halen, pupur gwyn, ac ychydig bach o mace a cloves. Gwasgwch hwy mewn llestr, dodwch yn y pobty am ddeng munud, ac wedi yr oeront, dodwch ymenyn.

**WYSTRYS (Oysters).**—YSTIWIO OYSTERS.—Agorwch hwynt, a gwahanwch y gwlybwr oddiwrthynt; yna golchewch hwynt oddiwrth y mân raian; hidlwch y gwlybwr, a dodwch gyda'r oysters dderyn o mace o chroen lemon, ac ychydig o bupur gwyn. Lledferwch hwy yn dra thynner, a rhoddwch atynt ychydig flawd ac ymenyn. Dygwch hwy i'r bwrdd gyda thafellau teneuon o fara.

**SCALLOP OYSTERS.**—Ysgaldiwch yr oysters yn eu gwlybwr eu hunain. Pigwch hwy allan o'r gwlybwr, a dodwch hwy mewn dysgl, gan daenu briwsion bara yn gymysg a phupur a halen dros bob plyg neu haen, a gorphen gyda briwsion. Gwlychwch y cyfan â dogn bychan o'r gwlybwr yn mha un yr ysgaldiwyd yr oysters, a gosoder darnau o ymenyn yn aml hyd y pen uchaf. Doder y ddysglaid o flaen y tân i grasu. Bydd o ddeg i ugain munud yn ddigou, yn ol y swm a fydd o honynt.

**OYSTER PATTIES.**—Rhoddwch bâst da mewn patty-pans bychain, a gorhuddiwch a phâst, gyda thamaid o fara yn mhob un; ac erbyn y byddont wedi crasu, bydded genych yn barod y pethau hyn er llenwi y gwagle a wneir trwy dynu ymaith y bara o bob un. Cymerwch ymaith ymylon y wystrys, torwch y rhanau ereill yn dameidiau mân, dodwch mewn sospan fechan, gyda gratiad o nutmeg, ychydig bach o bupur gwyn, halen, a thamaid bach o groen lemon, wedi ei falu mor fân nes y byddwch agos yn methu ei weld, ychydig hufen, ac ychydig o'r gwlybwr oedd yn yr oysters. Lledferwch am ychydig funudau cyn dechreu llenwi y tyllau a adawyd yn y pâst trwy dyniad allan y tamaid bara.

**FFRIO OYSTERS.**—*I'w rhoddi ar y bwrdd gyda physgodyn wedi ei ferwi.*—Gwnewch gymysgedd o flawd, laeth, ac wyau, gan ei ffasuo ychydig bach; trochwch yr oysters ynddo, a ffriwch

hwynt nes y byddont o liw brown melyn clir. Dylid rhoddi ychydig nutmeg yn y blasusai, ac ychydig friwsion bara yn y blawd.

**PICLO OYSTERS.**—Golchwech bedwar dwsin o'r oysters mwyaf a ellwch gael, wedi eu gwlybwr eu hunain, sychwch hwynt yn sych, hidlwch y gwlybwr, ac ychwanegwch lonaid llwy fechan o bupur, dau o blisg y mace, llonaid llwy fwrdd o halen, os na fydd y gwlybwr yn hallt iawn, tair o win gwyn, a phedair o finegr. Lledferwch yr oysters am ychydig funudau yn y gwlybwr, yna dodwch hwy mewn potiau bychain, a berwch y picl i fyny, ysguniwch ef, ac wedi yr oero, tywalltwch ef am ben yr oysters : gorchuddiwch hwy yn dŷn.

**PORTH OYSTERS.**—Dodwch hwynt mewn dwfr, a golchwech hwy ag ysgub fedw, nes y byddont yn gwbl lân ; yna gosodwch hwynt a'u gwaelod i lawr mewn padell, a lluchiwch arnynt flawd peilliad neu flawd ceirch a halen, a gorchuddiwch hwy a dwfr. Gwnewch yr un modd bob dydd, a bydd iddynt dewychu. Dylai y dwfr fod yn lled hallt.

### CIG.

**BEEF.**—**I ROSTIO BEEF.**—Y deryn goreu at ei rostio ydyw y sirloin ; os na bydd eisiau siwet, gellir gorchymyn ei dori ymaith cyn prynu y dryll ; deryn bychan o siwet at iro y cig yw y cwbl sydd yn ofynol. Peidiwch golchi y cig, os na bydd wedi llwydo. Sychwch yn berffaith sych, a chrogwch ar fach y jack, yn y modd mwyaf manteisiol i'r tân weithredu arno yn unfurf. Na thriniwch ond can lleied ag a alloch arno a'ch dwylaw. Ar y cymtal, gosodwch ef yn y fath bellder oddiwrth y tân fel y gallo dwymo yn drwyadl cyn ei ddeifio ar y tu allan. Ond rhaid i'r tân fod yn berffaith glir a bywiog. Arferir rhoddi chwarter awr o rostio ar gyfer pob pwys o gig. Tra yn rhostio, irer ef yn dra mynych a'i ddripping ei hun. Wrth ei roddi ar y ddysgl, tywallter ychydig ddwfr berwedig a halen drosto, i wneyd grafi. Dylai darn wedi ei rostio yn dda fod o liw brown prydferth, ac nis gellir ei gael fel hyn ond yn unig trwy ei iro

yn barhaus, gofalu am dân clir, bywiog, a'i dynu yn yr amser priodol. Dodwch horse-radish gydag ef ar ymyl y ddysgl, wedi eu crafu yn deneuon.

**I FERWI BEEF.**—Berwch ben tew *brisket* o beef, ychydig garrots, maip wedi ei tori yn ddarnau, a celery os byddwch yn hoff o hono, am ddwy awr. Gadewch iddo led-ferwi am chwech awr yn hwy, gan ofalu cadw y llestr yn llawn fel y byddo yn wastio. Oddeutu awr cyn i'r cig fod yn barod, bydded i chwi gymeryd peth o'r potes oddiwrtho, a berwch ar ei ben ei hun gyda carrots a maip. Dygwch y beef i'r bwrdd mewn un ddysgl, a'r potes yn y llall. Rhoddwch fara wedi ei grasu gyda'r potes.

**BRIWLIO BEEF STEAK.**—Beef steak yw y cyfaddasaf o bob math o gig at ei friwlio, ac y mae yn ddysglaid a hoffir yn gyffredin. Mae amryw ddarnau o beef yn cael eu defnyddio yn *steaks*, ond ni ddylai un amser fod yn gig wedi ei ladd yn rhy ddiweddar. Y steak oreu yw yr un a dorir o'r rump, am ei fod yn fwy noddlyd a blasus. Dylid tori y steaks o dri chwarter modfedd i fodfedd o drwch, ac yn ddarnau cyfleus i'w troi. Mae rhai yn lluchio pupur hyd y steaks cyn eu rhoi ar y tân, a thrwy hyn gyrrir blas y pupur drwyddynt. Wedi eu doddi ar y gridiron, troer hwy yn dra mynych : yn wir, dywedir na ddylai y steak fod yn llonydd am eiliad, ond y mae hyn yn inyded yn rhy bell—ond dylid ei throï yn aml. Anichonadwy nodi yn fanwl yr amser a gymerir i goginio steak, canys y mae llawer yn dibynu ar dynerwch a thrwch y cig, a nerth y tân. Rhaid i chwaeth y bwyntawr hefyd reol-eiddio yr amser ; canys, tra y mae rhai yn dewis y steak mewn cyflwr haner amrwd, dymuna ereill ei chael wedi gwneyd digon ; hyn yw, na byddo dim o'r gwaed ynddi heb gyflawn geulo. Wedi ei choginio fel dymunir, gosoder y *steak* ar ddysgl boeth, ac wedi ei rhwbio ag ychydig ymenyn ffres, lluchier ychydig halen mân drosto. Dylid dwyn beef steak i'r bwrdd yn uniongyrchol ar ol ei thrin, a'i bwyta yn uniongyrchol. Am bob munud y cânt sefyll, collant gyfran o'u blas a'u sudd. Pan fyddo eisiau sauce, gellir defnyddio y *mushroom sauce*.

**FFRIO BEEF STEAKS.**—Torwch y steaks



megis at eu briwlio, ac wedi eu rhoddi yn y badell, symudwch a throwch hwy yn aml. Gadawer iddynt wneyd yn frown drostynt, ac wedi gorphen, dodder hwy mewn dysgl boeth. Gellir gwneyd gravy trwy dywallt ychydig ddwfr poeth i'r badell wedi tynu y steaks o honi, a thywallt y brasder i ffwrdd, gydag ychydig bupur, halen, ketchup, a blawd. Mae y gravy a wneir felly i'w dywallt i'r ddysgl gyda'r steaks. Dyger hwy i'r bwrdd yn uniongyrchol. Os bydd eisiau wynwyn gyda'r ddysglaid, torer hwy yn dafelli teneuon, a ffrier hwy nes y byddont yn feddalion. Dylid eu ffrio ar ol y cig, a chyda chyfran yn unig o'r bresder yn mha un y ffriwyd y cig.

**YSTIWIOW BEEF STEAKS.**—Torer y cig yn steaks teneuach nag at eu briwlio neu eu ffrio. Dodder hwy mewn stew-pan yn nghyda digon o ddwfr i wneyd gravy. Ychwaneger carrot wedi ei gratio, meipen wedi ei thori yn ddarnau ysgwar bychain, a phupur a halen. Ystiwiwr hwy am awr, neu hyd oni thyreront. Ysgumier os bydd angenrhaid. Pan yn ddigon, tewycher y gravy ag ychydig *corn-flour* neu flawd, a blasuser ef a ketchup. Ystiwiwr darnau o futton yn yr un dull, ond y mae yn ofynol tynu ymaith y brasder gormodol, a'u hysgumio yn fwy gofalus. Bydd i'r un cyfarwyddiadau wneyd y tro at ystiwiow steaks neu ddarnau o unrhyw fath arall o gig.

**YSTIWIOW DERNYN O BEEF.**—Cymeter dernyn o beef a ellir ei dyneru. Dodder ychydig ymenyn yn ngwaelod y stew. pan, a chan ddodi y cig i mewn, ffrier neu brownier ef drosto. Yna tyner ef allan, a dodder dwy neu dair o skewers yn ngwaelod y llestr; wedi hyny, dodder y cig i mewn drachefn, a rhwystrir iddo llynu wrth y gwaelod gan y skewers. Yn nesaf, dodder i mewn gymaint o ddwfr ag a orchuddia haner y cig. Ystiwiwr ef yn araf, wedi cau y llestr yn dŷn, nes y byddo yn ddigon, ac ychwaneger ychydig wynwyn os dewisir. Ystyriwr dwy awr neu dair yn ddigon at ddernyn yn pwysu chwech neu wyth pwys. Pan fyddo yn barod, tyner allan y cig, a thewycher y gravy ag ychydig ymenyn a blawd. Torer carrot a meipen wedi eu berwi yn ddarnau prydferth, ac ychwaneger hwy at y gwlybwr; blasuser hwy a phupur a

halen, a ketchup. Berwer y cyfan yn nghyd am ychydig funudau, a dyger hwy i'r bwrdd mewn dysgl a ddefnyddir at *hash*.

**HASH BEEF.**—Cymerer yr esgyrn o'r dernyn i gael ei hashio, torwch yn fân; yna stiwiwch mewn ychydig bach o ddwfr, gyda dau wynwyn, pupur, halen, ychydig thyme, ac ychydig ymenyn; yna ychwanegwch rai tafelli o beef heb wneyd digon gyda brasder. Gellwch ychwanegu ketchup os byddwch yn dewis. Dodder mewn stewpan fechan gydag ychydig ddwfr, wynwyn, pupur, a halen, ystiwiwch nes yn boeth drwyddo, a dygwch i'r bwrdd yn boeth.

**HASH BEEF.**—*Dull Americanaidd.*—Dodder agos i beint o ddwfr herweddig mewn sospan fechan, a gwnewch *hash* teneu gyda llwyaid o flawd, a llwyaid o ddwfr oer. Trowch yn y dwfr, a berwch am dri munud. Ychwanegwch lon'd llwy de o bupur du, a'r un faint o halen. Lledferwch am 10 munud. Torwch y beef yn ddarnau haner modfedd bob ffordd, ac ychwanegwch yr un faint o ddarnau o bytatws wedi eu berwi a maip, a dwy neu dair owns o ymenyn, a llwyaid o ketchup, os byddwch yn hoff o hono. Lledferwch am 10 munud; ac ychwanegwch ato ychydig port wine, a sudd lemon, os byddwch yn dewis.

**BEEF ORE WEDI EI FERWI.**—Torer y cig yn dafelli tua'r drydedd ran o fodfedd o drwch. Ffrier y tafelli nes y byddont wedi lled frownio a thwymo drwyddynt. Yna tyner hwy o'r badell, a dodder ar blat cynes o flaen y tân, i'w cadw yn boeth. Ffrier ychydig gabbage a ferwasid ac a friwasid yn flaenorol; cynysger hwy am ychydig amser yn y hadell, a blasuser â phupur a halen. Taener y cabbage mewn dysgl, a gosoder y tafelli cig arnynt; neu pentyrer y cabbage yn y ddysgl, a gosoder y cig o'u hamgylch.

**RHOSTIOW CALON BUWCH.**—Golchwch y galon yn lân, gan ei glanhau yn hollol oddiwrth waed. Yna llanwer yr holl agorfeydd yn y pen llydan neu y top gydag ystffing wedi ei wneyd o friwsion bara, siwet wedi ei falu, persli, pupur a halen, a'i wlychu ag ychydig ŵy a llaeth. Crogwch hi â'r pen main i lawr. Bydd awr a haner neu ddwy awr, yn ol graddau y gwres, yn ddigon i rostio y

galon. Modd bynag, dylai gael ei rhostio yn dda. Anfonwch hi i'r bwrdd gyda gravy beef.

**MINCE BEEF.**—Torwch y rhan fyddo heb wneyd digon, yn ddarnau mân, yn nghyda pheth o'r brasder; dodwch mewn sospan, gyda wynwyn neu shalot (ychydig bach wna y tro), ychydig ddwfr, pupur, halen; berwch nes y bydd y wynwyn yn gwbl feddal, yna rhoddwch ato beth o gravy a cig, yn nghyda'r cig wedi ei falu. Peidiwch a gadael iddo ferwi ar un cyfrif. Ceisiwch ddysgl yn barod wedi ei phoethi, gyda thafelli bychain o fara, a thywelltwch y cig iddi, wedi yn gyntaf ei gymysgu a llonaid llwy fawr o finegr.

**SAUSAGES BEEF.**—Cymerwch 2 hwys o beef tyner a choch, ac 1 pwys o siwet beef. Torwch a manwch yn fân. Cymysgwch sage a thyme gyda'r cig. Sennwch yn lled uchel gyda phupur, halen, nutmeg, &c.; hefyd ychydig o groen lemon wedi ei wneyd yn dafellau teneuon. Gellir gwneyd heb grwyn, os rowlir hwy mewn wŷ wedi ei guro, eu ffrio mewn ymenyn poeth a'u troi yn ofalus ac aml yn y badell.

**PASTAI BEEF STEAKS.**—Cymerwch beef steaks o'r rump; curwch hwy a rolling pin; yna sennwch hwy gyda phupur a halen, fel y byddwch yn eu dymuno; gwnewch grystyn da; dodwch eich steaks i mewn; llenwch eich dysgl; yna tywelltwch ddigon o ddwfr iddi i'w haner llenwi. Dodwch y crystyn arni, a chraswch yn dda. Os bwriedir i'r bastai gael ei bwyta yn oer, bydd eisiau mwy o sennng ynddi na phan y bwriedir ei bwyta yn boeth. Y nae wynwyn, wedi ei dori yn fân, yn ychwanegiad rhagorol.

**PWDIN BEEF STEAKS.**—Cymerwch rump steaks tyner; rowliwch hwy gyda brasder cydrhyngddynt; ac ychydig bach o wŷwyn, os byddwch yn ei hoffi. Rhoddwch bâst sych yn y basin, a dodwch y cig i mewn wedi ei dori; gorchuddiwch y basin gyda phâst sych, a phinsiwch yr ymyl er cadw y gravy i mewn. Gorchuddiwch â llian wedi ei gylmu yn glôs, a gadewch i'r pwdin ferwi yn araf am ddwy awr.

**BERWI TAFOD.**—Os bydd yn galed, mwydwch y tafod mewn dwfr dros nos cyn ei drin. Berwch ef am o ddwy awr

a haner i dair awr. Blinger ef cyn ei roddi ar y ddysgl. Trwsier gyda greens neu gabbage.

**RHOSTIO TAFOD A PHWRS BUWCH.**—Ar ol glanhau y tafod yn dda, halltwch ef â halen cyffredin a saltpetre am dri diwrnod; yna berwch ef, a'r un modd bwrs ifange, gyda pheth brasder ynglyn âg ef, nes y byddont yn lled dyner; yna rhwymwch y rhan drwchus o un wrth y rhan deneu o'r llall, a rhostiwch y tafod a'r pwrs neu y lŷr gyda'u gilydd. Dygwch hwy i'r bwrdd gyda gravy da, a currant jelly sauce. Gosoder ychydig cloves yn y pwrs. Mae hon yn ddysgl ragorol.

**PICLO TAFOD AT EI FERWI.**—Torwch ymaith y gwraidd, ond gadewch ychydig o'r cnewyllyn a'r brasder. Lluchiwch dipyn o halen hyd-ddo, a gadewch iddo redeg oddiarno hyd dranoeth; yna, ar gyfer pob tafod, cymysgwch lonaid llwy fawr o halen, yr un swm o siwgr bras, a thua haner cymaint a hyny o saltpetre; rhwbiwch ef i mewn iddynt yn dda, a gwnewch hyny bob dydd. Yn mhen yr wythnos, ychwanegwch llywaid fawr arall o halen. Os rhwbir hwy bob dydd, byddant yn barod yn mhen pythefnos; ond os na wneir ond eu troi yn y picl bob dydd, gallant fod am bedair neu bump wythnos heb fod yn rhy hallt. Mygwch hwy, neu sychwch hwy heb hyny, fel y dewiswch. Pan am ei goginio, berwch y tafod nes y byddo yn dra thyner; gadewch iddo bum awr; ac os bydd yn ddiagon cyn hyny, gellir yn hawdd ei gadw yn boeth. Po hwyaf y cedwir ef ar ol ei sychu, uwchaf oll fydd ei flas; os yn galed, dicheon y bydd eisiau ei fwydo am dair awr neu bedair.

**TAFOD AT EI FWYTA YN OER.**—Blasuswch â halen cyffredin a saltpetre, ychydig bay salt, pupur, cloves, inace, ac allspice, yn bowdwr mân, a hyny am hythefnos; yna tynr ymaith y picl, dodder y tafod mewn dysgl fechan, a rhoddwch ychydig ymenyn arno; gorchuddiwch ef â chrystyn brown, a chraswch ef yn araf nes y byddo mor dyner fel yr â gweltynt trwyddo.

**I FFRIO TRIPE.**—Rhaid i'r tripe gael ei golchi yn dda, a'i berwi nes y byddo yn dyner. Cymerer y rhanau mwyaf trwchus, a sycher hwy â llian. Gwnewch

gymysgedd tew o wŷy, brawd, a llaeth, gan ei ffasuso â halen, ac ychydig wynwyn wedi ei falu, os byddwch yn ei ddewis. Trochwch y tripe yn y cymysgedd hwn, ac wedi hynny ffriar hi mewn bloneg neu dripping cig ffres a da, o'r hwn y mae yn ofynol bod digon yn y badell i guddio y tripe o'r bron. Gadawer iddi ffrio nes y byddo o liw brown ysgafn. Trwsier y ddysglaid â phersli wedi ei ffrio.

**I FERWI TRAE D GWARTHEG.**—Dylid berwi traed gwartheg am bum' awr neu chwech, neu hyd nes y daw yr esgryn allan. Dyger hwy i'r bwrdd gyda sauce persli wedi eu malu, ac ymenyn.

**BERWI ROUND O BEEF WEDI EI HALLTU.**—Os bydd yn fawr, torer yr asgwrn allan, rholier hi yn dŷn, a rhwymer hi â llinyn; yna doder hi yn y crochan neu y boiler, a chadwer y caud yn glôs. Berwer hi yn araf a chyfartal, gan ganiatau chwarter awr am bob pwys o'r beef. Y trwsiant priodol at y darn yma, a darnau ereill o beef hallt wedi ei ferwi, yw carrots, parsnips, a greens. Doder ychydig o'r gwlybwr yn mha un y berwyd y cig yn y ddysgl.

**I GADW BEEF.**—Dylai y cigydd dynu allan y cnewylod (*kernels*) sydd yn y darnau gwddf, lle y mae palfais yr ysgwydd yn cael ei thynu, dau o bob round o beef,—un yn y canol, a'r llall yn y llabed: y mae un arall yn nhewder yr ystlys, yn nghanol y brasder. Os na thynir y rhai hyn allan, yn enwedig yn yr haf, ni bydd halen o un dyben yn y byd i gadw y cig yn beraidd ei flas. Mae cnewyllyn arall rhwng y rump a'r min-asgwrn. Gan mai anffynych y mae cigyddion yn talu sylw i'r peth yma, dylai y cogydd wneyd hynny; ac yna rhwbio yr halen yn dda i'r beef a fwriedir at ei ferwi, a lluchio halen yn ysgafn ar y peth sydd i'w rostio.

**HALLTU BEEF NEU BORG AT EI FWYTA YN UNIONYRCHOL.**—Ni ddylai y demyn bwyso mwy na phump neu chwe' phwys. Halltwch ef yn dda drwyddo cyn ei roddi yn y crochan; cymerwch lian bras, lluchiwch flawd ar hyd-ddo yn dda, dodwch y cig ynddo, a chauwch yn dŷn. Rhoddwch ef mewn crochanaid o ddwfr berwedig, a berwch ef cyhyd ag y berwch unrhyw ddernyn arall o beef wedi ei

halltu o'r un maintioli, a bydd mor hallt a pleu buasai wedi ei halltu er's pedwar neu bum' niwrnod.

**HALLTU CIG.**—Mae gofal mawr yn ofynol wrth halltu cig; ac yn y wlad, lle y mae llawer o beef yn cael ei halltu, y mae hyn yn fwy pwysig fyth. Dylai beef a phorc gael lluchio halen ar hyd-dynt yn dda, a'u hongian i ffyn yn mhen ychydig oriau, fel y byddo iddynt syehu, cyn eu rhwbio â halen; y mae y cynllun hwn, trwy lanbau y cig oddiwrth y gwaed, yn gwasanaethu i'w gadw rhag meddu blas cryf. Dylai gael ei droi bob dydd; ac os bydd ei cisiau yn fuan, dylid ei rhwbio mor ffynych a hynny. Gellir defnyddio twb halltu o goed, a chauad arno i gau yn dŷn. Bydd i'r rhai a ddefnyddiant gryn lawer o gig hallt, ei gael yn fanteisiol iddynt ferwi y picl, ei ysgumio, a phan fyddo wedi oeri, ei dywallt ar gig fyddo wedi cael lluchio halen hyd-ddo, a'i hongian i sychu.

**HALLTU BEEF YN GOCH.**—Dewiswch ddarn o beef, a chan lleied o asgwrn ynddo ag a fyddo yn bosibl, lluchiwch halen hyd-ddo, a chrogwch ef i sychu am ddiwrnod; yna rhwbioch ef â halen cyffredin, saltpetre, a bay salt, ond cyfran fechan iawn o'r saltpetre a ddyldid ddefnyddio, a gellwch ychwanegu ychydig ronynau o cochineal—yr holl bethau hyn wedi eu malu yn llwch mân. Rhwbioch y picl bob dydd i'r cig am wythnos, yna peidiwch a gwneyd dim ond ei droi. Bydd yn rhagorol mewn wyth niwrnod. Yn mhen un niwrnod ar bymtheg codwch ef o'r picl i sychu; a bydded iddo gael ei fygu wrth enau pol'ty pan wedi ei dwymo gan goed, neu anfoner ef i'r pob-ydd i'r perwyl hwnw. Gellir ychwanegu ychydig o'r halen brasaf at yr halen. Bwyty yn felys pan wedi ei ferwi yn dyner gyda greens a carrots.

**DULL NEWYDD I HALLTU BEEF.**—Cymerwch ddernyn o beef coch; rhwbioch yn dda gyda triagl neu siwgr brown, a throwch ef yn aml. Mewn tri diwrnod sychwch ef, a halltwch ef gyda halen cyffredin a saltpetre wedi ei falu yn fân; rhwbioch y rhai hyn iddo yn dda, a throwch ef bob dydd am bythefnos. Rowliwch ef yn dŷn mewn lian brâs, a dodwch ef o dan bwysi trwm; crogwch

ef i sychu mewn mwg coed, ond trowch ef bob dydd, ac yn aml ei hen uchaf yn isaf.

**CORNED BEEF.**—Gwnewch y piel canlynol :—Dwfr, 2 alwyn ; halen, 2½ pwys ; triagl, ½ pwys ; siwgr, 1 pwys ; saltpetre, 1½ owms ; pearlash, ½ owms. Berwch y cwbl yn nghyd ; ysguniwch, a thywallt-woh y piel ar oddeutu 25 pwys o beef. Gadewch ynddo am ychydig ddyddiau. Berwch mewn digon o ddwfr wrth ei goginio er symud yr halen, a bwyteuoh ddiagonedd o lysieufwyd gydag ef. Y mae yn dda yn oer, a gwna sandwiches rhagorol.

**VEAL.**—**CADW VEAL.**—Y lle cyntaf a dry yn ddrwg mewn coes o veal, ydyw y fan lle y sicheir y lŷr â skewers. Dylai y skewer gael ei thynnu allan, a'i sychu, bob dydd, a'r man odditani yr un modd, a thrwy y moddion yma ceidw y cig yn dda am dri neu bedwar diwrnod mewn tywydd poeth. Cymerwch ofal am dori y hibell sydd yn rheleg ar hyd cefn lwyn o veal, fel y gwnewch gyda beef, er mwyn ei gadw rhag arogl. Dylai skirt brest o veal gael ei dynu ymaith yr un modd ; ac oddimewn i'r frest gael ei sychu a'i grafu, a thaenu hyd-ddo ychydig halen.

**RHOSTIO VEAL.**—Y darnau goreu o veal at eu rhostio yw y filet, y frest, y lwyn, a'r shoulder. Dylai y filet a'r frest gael eu hystwffio, yn enwedig y filet ; gwneir yr ystwffio o friwsion bara, siwet, a phersli wedi eu malu, ychydig groen lemon, a phupur a halen, gan ei wlychu âg ŵy ac ychydig laeth. Dylai y darn gael tân araf i ddechreu, a gofyna fwy o amser i rostio na beef a nutton. Bydded iddo gael ei iro yn dda ag ymenyn pan na fydd digon o dripping oddiwrtho. Y gravy a ddefnyddir gyda veal wedi ei rostio yw naill ai dwfr poeth a halen fel arferol, neu ymenyn toddi tŷneu, wedi ei dywallt dros y cig.

**RHOSTIO FILET O VEAL.**—Mae filet o veal yn gofyn gofal wrth ei barotoi at ei restio. Rhaid i'r cymal neu yr asgwrn gael ei dori ymaith yn ddestlus, heb anffurfio y derbyn ; yna ystwffier y llabed, fel y cyfarwyddwyd ; rholier ef i fyny yn Jŷn, a rhwymer ef â llinyn. Cuddier y penau â phapur wedi ei rwbio ag ymenyn, ac irer y darn yn fynych ag ymenyn.

Tyner ymaith y papur ychydig amser cyn i'r cig fod yn ddiagon. Gravy fel arfer, sef trwy dywallt ychydig ddwfr poeth a halen ar hyd-ddo.

**FRIO VEAL CUTLETS.**—Gwna veal cutlets ddysglaid foethus, a dylid eu ffrio âg ymenyn. O'r filet y ceir y darnau goreu, trwy eu bod yn rhydd oddiwrth asgwrn ; gellir defnyddio y lwyn flaen neu ôl ; ond rhaid tori yr asgwrn ymaith, yr hyn sydd yn peri colled. Torer y cutlets yn haner modfedd o drwch. Mae yn ofynol eu trin yn araf a thrwyadl, a dylent fod o liw goleu pan yn ddiagon. **DULL ARALL.**—Trocher y cutlets mewn ŵy wedi ei guro, ac yna taenu hyd-ddynt friwsion bara, a phersli wedi eu malu yn dra mân, yn nghyda phupur a halen, ac wedi hyny dodder hwy yn y badell. Gofynant fwy o flog neu dripping yn y dull hwn na phe buasid yn eu ffrio yn syml, ond maent lawer yn fwy blasus. Gellir gwneyd gravy atynt yn yr un dull ag at beef steaks wedi eu ffrio, ond ychwanegu ychydig o sŷg lemon, ac ysgumio y gravy cyn ei dywallt ar y cig.

**BERWI VEAL.**—Yr unig gyfran a ferwir o veal yw y knuckle, a gofyna hwn gryn lawer o ferwi, i feddalu y gewynau. Bwyteir ef gyda ham neu facon wedi ei ferwi. Y sauce a ddefnyddir yw persli ac ymenyn. Mae y gwlybwr geir wrth ferwi veal yn rhagorol at wneyd potes.

**YSTIWIO VEAL.**—Y darnau goreu o veal at eu hystiwio yw y filet, y frest a'r shoulder. Gellir ystwffio y shoulder wedi tynu allan y knuckle, a rhaid gwneyd hyn yn ddestlus, heb anffurfio y cig ; dylai yr ystwffio gael ei wneyd o friwsion bara, siwet wedi ei falu, persli wedi eu malu, croen lemon wedi ei ratio, pupur a halen, a'i wlychu âg ŵy a laeth ; llanwer y shoulder, a gwneir hi i fyny. Rhwbier gwaelod stewpan mawr gydag ymenyn, dodder y cig i mewn, a brownier ef o bobtu. Pan yn ddiagon brown, dodder i mewn beint o ddwfr oer, ac ystiwier ef yn araf am ddwy awr, neu ddwy awr a haner, os bydd yn fawr. Cyn ei ddodi yn y ddysgl, tyner ymaith y gravy, ac oni bydd yn ddiagon tew, browniwech ychydig o ymenyn, a lluchiwech ychydig flawd i mewn ; dodder hwy yn y gravy, a blasuser ef â phupur cayenne, halen, a

süg lemon; ysgumier y sauce, a thywallter ef dros y cig.

**MINCE VEAL.**—Torwch gig oer mor fân ag y galloch, ond peidiwch a'i chopio. Rhoddwch ato ychydig bach o groen lemon wedi ei dori yn fân, dau rwbïad o nutmeg, tipyn o halen, a phedair neu bum' llwyaid naill ai o botes gwan, laeth, neu ddwfr; lled-ferwer y rhai hyn yn dyner gyda'r cig, ond cymerwch ofal rhag iddo ferwi; ac ychwanegwch ddernyn o ymenyn wedi ei rwbio mewn blawd. Dodwch dafellau teneuon o fara wedi ei grasu, a'u tori yn ddarnau trigonglog, o gylch y ddysgl.

**VEAL COLLOPS.**—Torwch collops teneuon a hirion, curwch hwy yn dda, a dodwch arnynt dafell deneu o gig moch o'r un maintioli, a thaeuwch forcemeat ar hwnw, wedi ei sesno yn uchel; ac hefyd ychydig arllwg a phupur cayenne. Rholiwch hwy i fyny yn dŷn, oldeutu maintioli dau fŷs, ac heb fod dros ddwy neu dair modfedd o hyd; dodwch skewer fechan i sierchau pob un yn ddiogel; rhwbiwch wy drostynt, ffriwch hwynt nes y byddont o liw brown prydferth, a thywalltwch gravy brown a bras drostynt.

**VEAL OLIVES.**—Yr un modd ag yr arlwyir collops, ond fod y cig moch yn frasach, a shalot wedi ei falu yn cael ei ddefnyddio yn lle garlleg. Wedi eu ffrio nes y byddont o liw brown prydferth, dygwch i'r bwrdd gydagravy brown, yn mha un berwch ychydig fushrooms, wedi eu piclo neu yn ffres.

**VEAL SAUSAGES.**—Malwch symiau o veal coch a bacwn bras, dyrnaid o sage, ychydig halen; pupur, ac ychydig anchovies. Curwch hwynt oll mewn mortar; a phan yn gwneyd defnydd o hono, rholiwch a ffriwch ef, a dygwch i'r bwrdd gyda thafelli o fara, neu ar lysiau wedi eu hystiwio, neu ar gollops gwynion.

**BERWI PEN LLO.**—Glanhewch ef yn bur lân, a mwydwch mewn dwfr, nes y byddo yn edrych yn bur wyn; tynwch allan y tafod i'w halltu, a'r ymenydd i wneyd dysglaid fechan. Berwch y pen yn bur dyner; yna lluchiwch hyd-ddo ffrwsion a phersli wedi eu malu, a browniwch hwy; neu, os byddwch yn ei hoffi yn well, gadewch un ochr heb ei gwneyd. Dygwch i'r bwrdd gyda bacon a greens

i'w bwyta i'w ganlyn.—Rhaid berwi yr ymenydd, ac yna ei gymysgu ag ymenyn toddi, sage wedi eu hysgaldio a'u malu, pupur a halen.—Os bydd rhyw faint o'r pen yn weddill, gellir ei hashio dranoeth, ac ychydig dafelli o facon wedi eu twymo a'u doddi o'i gwmpas.

**HASHIO PEN LLO.**—Pan wedi haner ei ferwi, torwch ymaith y cig yn dafelli haner modfedd o drwch, a dwy neu dair modfedd o hyd; browniwch ychydig ymenyn, blawd, a wynwyn wedi ei dori yn dafelli, a thestiwch i mewn y tafelli cig, gyda pheth gravy da; rhoddwch iddo un berwad, ysgumiwch ef yn dda, a gosodwch ef mewn gwres cymedrol i ledferwi nes y byddo yn bur dyner. Blaswch a phupur, halen, a cayenne, i ddechreu; a deng munud cyn ei ddwyn i'r bwrdd, testiwch i mewn ychydig bersli wedi eu malu, ychydig bach o fintys wedi eu malu mor fân ag y byddo yn ddichonadwy; yn union cyn ei ddwyn i'r bwrdd, ychwanegwch sudd lemon. Rhoddwch dafelli o facon wedi ei rolïo o amgylch y ddysgl.

**IAU LLO.**—Torwch yn dafelli, blasuwch a phupur a halen, a briwliwch yn ofalus; rhwbiwch arnodderbyn o ymenyn oer, a dygwch i'r bwrdd yn boeth.

**IAU A'R YSGYFAINT.**—Haner berwch swm cyfartal o bob un, yna torwch hwy yn ddarnau canolig o fân, rhoddwch atynt lwyaid neu ddwy o'r dwfr y berwyd hwy ynddo, deryn o ymenyn, blawd, halen, a phupur; lledferwch y cyfan am ddeng munud, a dygwch i'r bwrdd yn boeth.

**YMENYDD LLO.**—Tynwch ymaith yr holl linyau a'r croen sydd yn crogi wrth yr ymenydd; yna mwydwch ef mewn amryw ddyfroedd, y naill ar ol y llail; wedi hyn berwch ef mewn dwfr a halen; gyda deryn o ymenyn, a llonaid llwy o finegr; yna torwch dafellau teneuon o fara, bylchwch eu hymylau, a ffriwch hwy mewn ymenyn; dodwch hwy mewn dysgl, a'r ymenydd arnynt, wedi ei ranu yn ddau, a thywalltwch arnynt sauce wedi ei wneyd fel y canlyn:—Dodwch dderyn o ymenyn mewn sospan, gydag ychydig o bersli wedi eu malu, deilen neu ddwy o falm, gyda halen, lemon; cymysgwch y cyfan gyda llwy bren, nes y byddont wedi ymygu

mysgu yn dda. Dysglaid Ffrengig yw hon, ac y mae yn ardderchog i swper.

**SWEETBREADS.**—Haner-ferwch hwy, ac ystiwch hwy mewn gravy gwyn; ychwanegwch hufen, blawd, ymenyn, nutmeg, halen, a phupur gwyn.—**NEU**, Lledferwch hwy, ac yna gorchuddiwech hwy â briwsion bara, llysiâu a seasoning, a browniwech hwymewndutchoven. Dygwch hwy i'r bwrdd gyda ymenyn, a ketchup mushroom neu gravy.

**RHOSTIO SWEETBREADS.**—Lledferwch ddau o rai mawr; pan fyddont wedi oeri, rhwbiwech hwy a bacon, a rhostiwech mewn Dutchoven. Y sauce yw ymenyn plaen, a ketchup mushroom.

**KIDNEYS.**—Malwch y kidneys, a'r un modd beth o'r brasder; hefyd ychydig leek a wynwyn yr un modd, gyda phupur a halen; rholiwech hwy i fyny yn beleni, gydag wŷ, a ffrîwch hwy.

**YSTIWIO KIDNEYS.**—Torer y kidneys yn dafellau; golcher hwy, a sycher hwy a llian glân; lluchier blawd hyd-ddynt, a ffrîer hwy ag ymenyn nes y byddont yn frown. Tywallter dwfr poeth neu gravy beef i'r badell, ychydig wynwyn wedi eu malu, pupur a halen, fel y byddis yn ei ddeuis, gadawer iddynt ystiwio yn araf am awr, ac ychwaneger llwyaid neu ddwy o ketchup cyn eu rhoddi yn y ddysgl.

**CALON LLO.**—Stwffiwech a rhostiwech hi fel calon buwch. Neu torwch hi yn dafellau, a sesnwch, yna gwnewch bâst o siwet, blawd, a llefrith, wedi ei rolïo allan, gorchuddiwech y tu mewn i ddysgl gydag ef, rhoddwch y tafelli i mewn, gorchuddiwech a phâst, gan ei sierhau yn yr ymyiau. Rhoddwch lian am y cwbl, a berwch am amser maith.

**HAM VEAL.**—Torwch leg o veal fel ham. Cymysgwch beint o bay salt, 2 owns o saltpetre, ac 1 pwys o halen cyffredin, gydag 1 owns o cinamon, a rhwbiwech yr ham a'r cymysgedd. Dodwch mewn llestr gyda'i gwyneb i lawr, rhwbiwech a'r picl bob dydd am bythefnos, a hongiwch mewn mwg coed am bythefnos arall. Gellir ei berwi neu ei rhostio.

**VENISON.** (*Hydd-gig.*)

**I GADW VENISON.**—Cadwch ef yn sych, golchwch ef a llaeth a dwfr yn gwbl lân, a sychwch ef a lliciniau nes y bydd pob llethder wedi diflanu, yna lluchiwech ginger wedi ei falu yn llwch

drosto i gyd, yr hyn sydd yn dda i gadw gwybed ymaith. Trwy drefnu a gwylio fel hyn, gall hongian i fyny am bythefnos. Pan byddo i gael ei ddefnyddio, golchwch ef gydag ychydig ddwfr cluar, a sychwch ef. Mae pupur hefyd yn dda at gadw venison.

**RHOSTIO VENISON.**—Bydd i forddwyd venison gymeryd o dair a haner i dair awr a thri chwarter i rostio. Dylai venison gael ei rostio yn ormodol, yn hytrach na rhy fychan. Taenwch ymenyn ar len o bapur gwyn, a dodwch hi dros y brasder, wedi lluchio ychydig halen hyd-ddo yn gyntaf, yna dodwch bâst brâs ar bapur cryf, a gorchuddiwech y forddwyd, rhwymwch hi a llinyn main, a gosodwch hi yn lled bell oddiwrth y tân, yr hwn a ddylai fod yn un da. Irwch hi yn aml; ddeng munud cyn dyfod a hi i'r bwrdd, tynwch ymaith y pâst, symudwch y cig yn nes at y tân, ac irwch ef ag ymenyn a digon o llawd, i wneyd iddo ewynnu yn dda. Y gravy gydag ef a ddylai gael ei roi mewn llestr ar wahan, ac nid yn y ddysgl (oddieithr pan na bydd dim gyda'r venison,) a gwneir ef fel hyn:—Torwch ymaith y basder oddiar ddau neu dri phwys o lwyn hen futton, a gosodwch ef yn dafellau ar ridyll haiarn am ychydig funudau, nes y delont o liw brown ar un ochr; dodder hwy mewn sospan gyda chwart a dwfr, wedi ei orchiuddio yn gwbl dŷn am awr, a gadawer iddo ledferwi yn dyner, yna tyner ymaith y caudad, ac ystiwier ef nes y bydd y gravy wedi myned i lawr i beint. Na sesnwch ef ond gyda halen yn unig. Dyger y cig i'r bwrdd gyda currant jelly a French beans.

**FFRŌ VENISON.**—Torwch y cig yn dafellau, a gwnewch gravy gyda'r esgyrn, ffrîwch o liw goleu ysgafn, a chedwch yn gynes o llaen y tân; rhodwch ymenyn wedi ei rowlïo mewn blawd yn y sospan, a throwch nes y byddo yn dew a brown; ychwanegwch haner pwys o siwgr lwmp wedi ei bowdro, gyda'r gravy a wnawd o'r esgyrn, a pheth port wine. Bydded iddo fod mor dew a hufen; gwasgwch lemon i mewn; poethwch y venison yddo; dodwch mewn ddysgl, a thywelltwch y sauce drosto.

**YSTIWIO SHOULDER O VENISON.**—Gadwch i'r cig hongian nes y meddyl-

iwch ei fod yn gyfaddas i'w arlwy; yna tynwch yr esgyrn o hono, curwch y cig a rholbren, dodwch rai tafellau o frasier mutton, y rhai a fuont am rai oriau mewn gwin coch, yn gymysg ag ef; lluchiwch ychydig bupur ac allspice drosto yn llwch mân, rholiwch ef i fyny yn dŷn, a rhwymwch ef. Dodwch mewn stewpan a fydd yn ddigon mawr i'w ddal, ond nid yn rhy fawr, gydag ychydig o gravity mutton neu beef heb fod yn rhy gryf, haner peint o win coch, ychydig bupur ac allspice. Gorchuddiwch ef yn dŷn, a gadewch iddo ledferwi mor araf ag y byddo modd, am dair neu bedair awr. Pan yn gwbl dyner, tynwch ymaith y llinyn, a dodwch y cig mewn ddygl; hidlwch y gravity drosto, a dygwch ef i'r bwrdd gyda currant jelly sauce.

**MUTTON (Cig Dafad).—BRIWLIO BREST O FUTTON.**—Haciwch y frest o futton ar hyd ac ar draws, a rhwbiwch hi a melyn ŵy; yna malwch am ei phen ychydig friwsion bara, a phersli wedi ei wneyd yn fân; rhoddwch mewn Dutchoven i friwlio; tywelltwch caper sauce da am ei phen, a dygwch i'r bwrdd.

**BRIWLIO MUTTON CHOPS.**—Dylid tori y rhai hyn o ganol y lwyn, o drwch cymedrol. Briwlir hwy yn yr un dull a Beef steaks, a gofynant ofal cyfartal. Nid oes angenrheidrwydd am ymenyn wrth eu rhoi ar y ddysgl, am fod mutton yn ddigon bras o hono ei hun. Lluchier ychydighalen drostynt, a dyger i'r bwrdd. Gellir cymeryd mushroom ketchup i'w canlyn.

**RHOSTIO Y LEG, Y SHOULDER, A'R LWYN.**—Ŵ darnau goreu o futton at eu rhostio yd'nt y leg, y shoulder, a'r lwyn. Gellir cadw y darnau hyn yn hwy nag y byddai yn ddymunol cadw mutton at ei ferwi. Dylhi gael tân cryf a bywiog. Mae leg yn cymeryd dwy awr o amser i rostio; ond y mae hyn, yn gystal a'r amser at rosto y rhanau ereill, i gael ei reoli gan y tân a phwysau y cig, ac nis gellir ei ddygu ond trwy brofiad yn unig. Dylai darn o futton gael ei iro â'i dripping ei hun, yr un modd a beef. Gellir gwneyd gravity at futton wedi ei rostio, yr un nodd ag at beef, trwy dywallt ychydig dlŵr poeth a halen drosto. Mae pawb o'r bron yn dewis mutton wedi rhosti' yn dda. Wrth rostio

y lwyn, tyner ymaith y brasder sydd yn cylchynu y kidneys, onide bydd y ddysglaid, pan ddygir hi i'r bwrdd, a'i thori i fyny, yn nolio gan frasier. Dylai yr asenau cefn a'r lwyn mewn mutton, gael eu dadgymalu neu eu tori, cyn eu rhoi o flaen y tân.

**RHOSTIO HAUNCH O FUTTON.**—Cedwch hi cyhyd ag y galloch wneyd hyn mewn cylfwr peraidd; bydded iddi gael ei golchi mewn llefrith a dwfr cynes, neu finegr, os bydd yn angenrheidiol; ond pan fyddo i gael ei choginio, gofalwch am ei golchi yn dda, rhag ofn fod blas drwg ar y tu allan trwy hir gadwraeth. Dodwch bâst o flawd bras ar bapur cryf, a chauwch ef am yr haunch; gosodwch ef gryn bellder oddiwrth y tân, a chaniafewch amser digonol ar gyfer y pâst; peidiwch a'i dynu ymaith hyd o fewn haner awr neu ddeugain munud i'r amser y mae i'w dwyn i'r bwrdd, ac yna irwch hi yn barhaus. Tynwch yr haunch yn nes at y tân, cyn i chwi dynu ymaith y pâst, ac irwch ag ymenyn i digon o flawd, nes y byddo yn firothio, fel y cyfarwyddir gyda venison. Rhaid gwneyd gravity o bwys a haner o lwyn hen futton, wedi ei ledferwi mewn peint o ddwfr, ac heb ddim ynddo heblaw halen; browniwech ef gydag ychydig siwgr wedi ei losgi, ac anfonwch ef i'r bwrdd yn y ddysgl; ond dylai fod cryn lawer o gravity yn y cig; caws er ei fod yn hir wrth y tân, bydd i'r pellder a'r gorchudd ei atal rhag rhostio allan. Dygwch y ddysglaid i'r bwrdd gyda currant jelly sauce.

**RHOSTIO SADDLE O FUTTON.**—Cadwch hi yn dda i ddechreu. Codwch y croen, ac yna dodwch ef yn ei ol, gan ei sierhau â skewers; tynwch ef ymaith chwarter awr cyn ei ddywyn i'r bwrdd, lluchiwch hyd y cig ychydig halen, irwch ef, a lluchiwch hyd-ddo flawd yn helaeth. Dylai y rump gael ei hollti, a'i gosod drachefn ar bob ochr gyda skewers. Gall y darn fod yn fawr neu yn fychan, yn ol y cwmpeini; goreu yn y byd os yr olaf a fydd. Trwy ei fod yn llydan, gofyna dân uchel a chryf.

**RHOSTIO FILLET O FUTTON.**—Torwch ymaith chump end y lwyn, irwch bapur gydag ymenyn, a dodwch drosto, ac wedi hynny bâst fel at venison, a rhostiwch am ddwy awr. Peidiwch gadael iddo frownio

mewn un modd. Bydded genych yn barod French beans wedi eu berwi, a'u codi i ddiferu ar ogr; a thra y byddo y cig yn cael ei arlwy i'r bwrdd, rhodder iddynt un twymiad yn y gravy, a gosoder hwy ar y ddysgl, a'r cig arnynt.

**RHOSTIO BREST O FUTTON.**—Haner-berwech hi, ac araf-rostiwech hi o flaen tân; gorchuddiwech hi a briwsion bara a llysiau, a dygwch i'r bwrdd gyda caper sauce.

**FRIO MUTTON CHOPS.**—Mae yn ofynol eu tori yn yr un dull ag at eu briwlio, a gellir eu trin yn ol y cyfarwyddiadau blaenorol a roddwyd at ffrïo beef steaks. Nid oes dim o'r sain a ddaw o'r cig i'w fwyta gydag ef, a rhaid tywallt ymaith y cyfan cyn gwneud y gravy.

**HASH MUTTON.**—Torwech dafelli o futton wedi ei goginio, bras a choch; lluchiwech flawd hyd-ddynt; bydded genych yn barod wynwyn bychan wedi ei ferwi mewn dwy neu dair llonaid llwy o ddwfr; ychwanegwch ato ychydig gravy, a'r cig wedi ei sesno, a phoethwech ef, ond heb ei ferwi. Dygwch i'r bwrdd mewn dyagl orchuddiedig. Yn lle wynwyn, bydd i clove, llwyaid o currant jelly, a haner gwyrddraidd o win coch, roddi blas fel venison arno, os bydd y cig yn dda.

**COLERU MUTTON.**—Tyner esgyrn brest o futton, pereiddier hi gyda mace, nutmeg, cloves, halen, pupur, perlysiau, croen lemon wedi ei falu, melyn-wyau, anchovies, a briwsion bara; rholier y cig i fyny, cylymer ef yn dŷn gyda rhwymyn bras, a naill ai berwer, rhostier, neu graser ef mewn pobty.

**YSTIWIO SHOULDER O FUTTON.**—Cymerer shoulder, a thyner allan asgwrn y halfen heb niweidio ffurf y cig. Gwneler ystwyffing o friwsion bara, siwet wedi ei falu, a phersli, ychydig hêr-lysieu gleision neu sychion, wynwyn wedi ei falu, a phupur a halen; gwlycher âg wŷy a llaeth. Gosoder yr ystwyffing yma yn y twll y tynwyd yr asgwrn o hono; yna rholier hi i fyny, a rhwymer hi â llinyn, neu sierhaer hi â skewers. Rhwbier gwaelod y crochan ystiwio â siwet neu ymenyn, a gwnaer y cig yn frown. Pan yn ddiagon brown, gosoder dwy skewer yn ngwaelod y stewpan; doder i mewn ychydig o ddwfr berwedig, a gadawer

iddi ystiwio am awr a haner; y mae y gravy a dynir o honi ei hun yn ddiagon moethus fel sauce, wedi ei sesno â phupur a halen. Ysgumier ef cyn ei ddwyn i'r bwrdd.—Gellir ystiwio MUTTON CHOPS yr un fath a Beef Steaks.

**HOTCH POTCH.**—Ystiwioch bys gleision, letis, a wynwyn, mewn ychydig bach o ddwfr, gydag asgwrn beef neu ham. Tra y byddo y rhai hyn yn gwneyd, ffriwech futton steaks wedi eu sesno, nes y byddont o liw brown gdeu: dri chwarter awr cyn ciniaw dodwch y steaks mewn stew-pan, a'r llysiau am eu penan; ystiwioch oll yn nghyd, a cygwch i'r bwrdd.

**MUTTON HAM.**—Dewiswch leg dda, o ddeg i bedwar pwys ar ddeg, torwech hi ar lun ham, a hongiwch hi am ddeudddydd. Yna dodwch mewn llestr ystiwio bwys a haner o bay salt, yr un swr: o halen cyffredin, dwy owns o saltpetre, a haner pwys o siwgr bras, oll wedi eu malu yn fân; cymysgwch a gwnewch hwy yn bur boeth; yna rhwbioch yn dda i'r ham. Trowch hi yn y gwlybwr bob dydd; yn mhen pedwar diwrnod dodwch i mewn ddyw owns yn rhaor o halen cyffredin; yn mhen deuddeg niwrnod tynwch hi allan, sychwch hi, â hongiwch hi i fyny i sychu, neu mewn mwg am wythnos. Defnyddir hi yn dafelli, gyda cabbage, pytatws, neu wyau.

**SAUSAGES MUTTON.**—Cymerwch bwys o'r rhan fwyaf amrwd o leg o futton a fyddo naill ai wedi ei rhostio neu ei berwi; malwch ef yn bur fân, a blasuwch â phupur, halen, mace, a nutmeg; ychwanegwch ato chwe owis o siwet beef, ychydig thyme a sage, dau anchovy, a pheint o oysters, oll wedi eu malu yn bur fân; chwarter pwys o fara wedi ei ratio, peth o wlybwrwr anchovy, a melynwy a gwynwy dau wŷy wedi eu curo yn dda. Dodwch y ffan, ar ol eu cymysgu, mewn pot bychan, a defnyddiwech trwy ei rollo ar ffurf sausages, a'u ffrio—ceidw yr wyau hwywrth eu gilydd heb groen. Os cymeradw, gellir rhoddi i mewn ychydig o shalcs, a bydd yn welliant mawr.

**BERWI LEG O FUTTON.**—Dylid cadw leg o futton am bedwr diwrnod neu hump heb ei berwi. Dyn ei choginio,



doder hi i fwydo am awr neu ddwy mewn dwfr a halen; na ddefnyddier gormod o halen. Ar ol ei sychu, cyn ei doddi yn y crochan, plyger y coesgyn yn grwn, gan dori y gewyn yn y cynal, fel ag i fyrhau y goes. Mae dwy awr o ferwi araf ac unfurf yn ddigon at leg o futton o faintioli lled dda. Er mwyn gwneyd i'r leg edrych yn wŷn a phrydferth, y mae rhai cogyddion yn ei rhwymo yn dŷn mewn llian a blawd ar hyd-ddo wrth ei berwi; ond y mae hyn yn difetha y potes. Nid yw yn ddyogel berwi llyisiau gyda leg o futton, am eu bod yn dueddol i roddi blas ar y cig. Doder y leg ar y ddysgl gydag ychydig o'r potes, gan osod yr ochr isaf at i fyny, yn gyfleus at garfio. Bydd i leg dda gynyrcu digonedd o gravity yn fuan. Y sauce yw capers neu bersli wedi eu malu yn fân mewn ymenyn toddi. Maip wedi eu mashio neu yn gyfan, pytatws, a greens, ydynt gymdeithion priodol y ddysglaid hon.—**SYLWER**.—Er mwyn cadw y gravity yn y leg, na roddwch hi yn y dwfr hyd nes y byddo yn herwi.

**RUMPS A KIDNEYS**.—Ystiwich chwech o rumps mewn swm o gravity mutton da, am haner awr; yna codwch hwy, a gadewch iddynt sefyll nes yr oeront. Cliriwch y gravity oddiwrth y brasder; a dodwch i mewn ynddo bedair owns o rice wedi ei ferwi, wynwyn a chloves ac ysbrigyn o mace; berwch hwynt nes y byddo y rice yn dew. Golchwch y rumps gyda melynwy wyau wedi ei guro yn dda; a lluchiwch hyd-ddynt friwision bara, ychydig bupur a halen, persli wedi ei falu, thyme, a chroen lemon wedi ei ratio. Ffriwch hwy mewn ymenyn, nes byddont o liw brown prydfert. Tra byddo y rumps yn ystiwio, rhwbiwch y kidneys â lard, a gosodwch hwy i rostio mewn Dutchoven. Ar ol ffrio y rumps, rhaid i'r saim gael ei dywallt oddiarnynt yn llwyr cyn eu gosod ar y ddysgl, a'r badell wedi ei glanhau yr un modd oddiwrth y brasder, ac yna twymer y rice ynddi. Dodwch yr olaf ar y ddysgl, gosodwch y rumps o amgylch ar y rice, y penau meinion at y canol, a'r kidneys vry canol cydrhwyngdynt. Trswiwch y ddysglaid âg wyau caledion wedi eu tori yn ddau, a gadael y gwŷn arnynt; neu gyda pickles o wahanol liwiau.

**YSTIW GWYDELIG**.—Cymerer dernyn o lwyn neu asenau cefn mutton, a thorer ef yn ddrylliau. Doder ef mewn crochan ystiwio, gyda phytatws amrwd wedi eu pilio, tafellau o wynwyn, pupur, halen, ac ychydig ddwfr. Doder hwn ar y tân i ystiwio yn araf am awr, wedi ei orchuddio yn ofalus; ac ysgydwer ef yn fynych, i rwystro iddo lyu yn y gwaelod.

**PEN DAFAD**.—Ar ol glanhau y pen yn lân oddiwrth bob mymryn o wlan all fod yn glynu wrtho, crafer ef nes y byddo mor wŷn ag y gellir ei wneyd, ar ol ei fwydo am amser mewn dwfr cynes. Rhaid hollti y pen yn awr, a thynu allan yr ymenydd. Tyner ymaith y llygaid, a chrafer a glanhaer oddimewn i'r trwyn; wedi hyn y golcher y pen drachefn, a gadawer ef am ychydig amser mewn dwfr cynes; yna dodder ef i mewn gyda digonedd o ddwfr, a gadawer iddo ferwi nes y byddo yn gwbl dyner. Pan yn barod, dyger ef i'r bwrdd gyda maip berwedig.

**CIG OEN (Lamb)**.—**RHOSTIO LAMB**.—Mae cig oen yn gofyn ei rostio yn dda. Arferir ei drin yn chwarteri; dylai pob rhar yn enwedig yr asgwrn cefn, gael ei ddadgymalu neu ei dori gan y cigydd; a thorer asenau y chwarter blaen ar draws eu canol, er hwylysdod i'r carfiwr. Wrth ei rostio, irer ef â'i ddripping ei hun, neu ymenyn. Gall y gravity at lamb fod yr un ag at beef neu futton—sef dwfr poeth a halen wedi ei dywallt drosto; arferir hefyd ei ddwyn i'r bwrdd gyda mint sauce mewn llestr bychan.

**RHOSTIO CHWARTER BLAEN**.—Rhostiwch ef naill ai yn un darn, neu yn wahanol ddarnau. Os gadewir iddo oeri, dylid lluchio hyd-ddo swm o bersli wedi ei falu.

**FRIO LAMB CHOPS**.—Ffriwch hwynt nes y byddont o liw brown prydfert; pan ar fin eu dwyn i'r bwrdd, lluchiwch hyd-ddynt swm helaeth o friwision bara wedi eu ffrio, a phersli wedi eu crimpio.

**LAMB CHOPS**.—Gellir ffrio y rhai hyn naill ai yn syml, yn yr un dull a'r mutton chops, neu eu trin gydag wŷy a briwision bara (ond heb ddim persli), megis y darnau veal. Gwneler gravity yn y badell, yr un modd ag at beef steaks wedi eu ffrio.

**LAMB CUTLETS GYDA SPINACH**.—Torwch y cutlets oddiar y lwyn, a ffrwch

hwynt ; y mae y spinach i gael eu hystiwio, a'u doddi yn y ddysgl yn gyntaf, ac yna y cutlets o'u hamgylch.

**BERWI LEG O LAMB.**—Mae leg lamb, pan ferwir hi yn dda, yn ddysglaid foethus ragorol. Gofyna tuag awr a haner. Pan ddymunir ei chael yn wên, fe'i rhwymir mewn llian, wedi lluchio blawd ar hyd-ddo. Wedi ei rhoi ar y ddysgl, trwsier hi â'r lwyn wedi ei dori yn ddarnau, a'i ffrio, i'w gosod o'i hamgylch. Y sauce a ddefnyddir yw ymenyn toddi, neu bersli ac ymenyn.

**DYSGLAID RAGOROL O LAMB.**—Cymerwch y pen goreu i wddf lamb, torwch yn steaks, a thorwch bob asgwrn mor fyr fel ag i wneyd y steaks bron yn gryniôn. Rhwbiwch ag ŵyau, a lluchiwch hyd-ddynt friwsion bara, llysiau, a seasoning ; ffriwch hwynt o'r lliw brown prydferthaf ; mashiwch bytatws gydag ychydig ymenyn a hufen, a dodwch hwynt yn nghanol y ddysgl, wedi eu codi i fyny yn uchel. Yna dodwch ymyl un dafell ar y llall, gyda'r asgwrn bach i fyny, o amgylch ogyrch y pytatws.

**SWEETBREADS LAMB.**—Rhoddwch lwy am ychydig amser mewn dwfr oer. Yna dodwch lwy mewn llestr ystiwio, gyda lloaid ladle o botes, ychydig bupur a halen, wynwyn bychain, ac ysbrigyn o mace ; ychwanegwch hefyd ddernyn o ymenyn a blawd, ac ystiwich lwy am haner awr. Bydded genych yn barod ddau neu dri o wyau wedi eu curo yn dda mewn hufen, gydag ychydig bersli wedi ei falu, a gratiad neu ddau o nutmeg. Dodwch i mewn rai topiau asparagus wedi eu berwi, at y pethau ereill. Peidiwch a gadael iddo ferwi wedi rhoddi yr hufen i mewn ; ond poethwch ef, a chyffrowch ef yn dda yn ystod yr holl amser. Cymerwch ofal mawr na bydd iddo geulo. Gellwch ychwanegu Ffa Ffrengig ieu-ainge neu bys, wedi eu berwi yn gyntaf o liw prydferth.

**LAMBSTONES.**—Blingwch a golchwch lwy, yna sychwch a lluchiwch flawd hyd-ddynt ; ffriwch lwy mewn lard mochyn, nes y byddont o liw brown ysgafn. Gosodwch ar ogr o flaen y tân, nes y byddoch wedi gwneyd y sauce canlynol :—Tewychwch agos i haner peint o gravy veal gydag ychydig flawd ac ymenyn, ac yna ychwanegwch at o dafell denu

o lemon, llwyaid fawr o ketchup mushroom, lloaid llwy dé o lemon pickle, gratiad o nutmeg, a melynwy wedi ei guro yn dda mewn dwy lwyaid o hufen tew. Dodwch hwn uwchben y tân, a chyffrowch ef yn dda nes y byddo yn boeth, ac yn edrych yn wyn ; ond peidiwch a gadael iddo ferwi, neu fe gawsia. Yna dodwch y *fry* i mewn, ac ysgydwch ef oddiamgylch yn agos i'r tân am funud neu ddau. Dygwch i'r bwrdd mewn dysgl wedi ei phoethu yn dda, a chaudi arni.

**PEN OEN.**—Prynir penau wyn wedi eu blingo. Cymerer y pen a'r gwddf yn nglŷn wrtho ; hollter y talcen ; a thyner allan yr ymenydd, gan ei roddi o'r neilldu. Golcher y pen yn ofalus, gan lannhau y trwyn oddiwrth yr ysafen trwy ei rwbio a halen, a thyner allan y llygaid. Wedi glanhau y pen fel hyn, gosoder ef i ferwi yn nghyda'r galon a'r ysgyfaint. Gadawer i'r cwbl ferwi am awr a chwarter ; yna tyner hwy allan, a sycher y pen a'r gwddf gyda llian. Rhwbier ef drosto gydag ŵy wedi ei guro yn dda ; lluchier briwsion bara, pupur, a halen drosto ; hefyd gosoder darnau bychain o ymenyn hyd-ddo, a dodder ef mewn dysgl o flaen tân clir, i frownio yn ysgafn. Maler yr ysgyfaint a'r galon, a chyfran o'r afu, yn nghyd ag ychydig wynwyn, persli, pupur, halen, ychydig flawd, nutmeg wedi ei gratio, a lloaid llwy fwrdd o ketchup ; cymysger y cyfan yn nghyd, ac ychwaneger ychydig o'r gwlybwr yn mha un y berwyd y pen i wneyd gravy ; gadawer iddo ledferwi wrth ochr y tân am haner awr. Cymerer yr ymenydd, a churer ef yn dda gyda dau ŵy, dwy lloaid llwy fwrdd o flawd, ac ysbrigyn o bersli wedi ei falu yn fân, hefyd ychydig bupur a halen, a dwy neu dair lloaid llwy fwrdd o laeth—gan wneyd cymysgedd o'r cwbl. Ceisier padell ffrio, a dodder ychydig lard neu dripping ynddi, a ffrier y cymysgedd yn deisenau bychain cryniôn, a throer a brownier hwy yn ysgafn o bobtu. Torer y gweddill o'r afu yn dafellau, lluchier blawd hyd-ddynt, a ffrier hwy. Yn awr, gosoder y pen ar y ddysgl ; dodder y cig briwedig o'i amgylch, gosoder tafell o'r afu a theisen o'r ymenydd bob-yn-ail ar y cig amgylch-ogylich. Ffurfa hyn ddysglaid ddestlus a blasus, ond gofyna gryn

ofal ar ran y cogydd, i gadw yr amrywiol ranau yn boeth, ac yn gyfartal barod ar yr adeg i'w rhoddi yn y ddysgl.

**PORC, HAM, BACON.**—**LEG O BORO.**—*I'w berwi.*—Halltwch hi am wyth neu ddeng niwrnod; pan am ei choginio, pwyswch hi; gadewch iddi orwedd am haner awr mewn dwfr oer i'w gwneyd yn wyn; caniatewch chwarter awr am bob pwys, wrth ei berwi, o'r amser y dechreuodd ferwi, a haner awr dros ben; ysgumiwch mor fuan ag y berwa, ac yn fynych wedi hynny hefyd. Rhoddwch iddi ddigon o ddwfr. Cedwch beth o hono i wneyd potes pys. Y mae y rhan fwyaf yn arfer rhoddi plât yn ngwaelod y crochan, am fod porc yn dra thueddol i lynu. Arferfa rhai ei berwi mewn llian main, wedi lluchio blawd hyd-ddo; mae hyn yn rhoddi iddi olwg tra thyner. Dyger hi i'r bwrdd gyda phwdin pys a maip.

**RHOSTIO PORC.**—Mae porc yn gofyn mwy o amser i'w rostio nag unrhyw un o'r cigoedd blaenorol. Pan ddefnyddir ystwiſſing, rhaid iddo gael ei gyfansoddi o sage a wynwyn wedi eu malu, pupur a halen. Dylai y croen allanol fod wedi ei dori yn rhesi rheolaidd a destlus, i alluogi y carfiwr i dori tafellau yn hwylus. Cyn ei roddi o flaen y tân, rhwbier y croen a salad oil, i rwystro iddo godi yn chwysigenau, ac irer ef yn dra mynych. Gellir ei iro trwy ei rwbio a deryn o ymenyn mewn cŵd muslin, pan na byddo digon o dripping. Gellir gwneyd gravy at bore yr un modd ag at ddysgleidiau ereill, trwy dywallt dwfr poeth a halen drosto ar y ddysgl. Mae apple sauce yn gydymaith dymunol i bore wedi ei rostio.

**FFRIO PORC CHOPS.**—Dylai y rhai hyn gael eu tori yn lled deneuon, a'u trïni yn drwyadl. Gellir naill ai eu ffrio yn syml, yn yr un dull a mutton chops, neu eu ffrio wedi eu trochi mewn ŵy, a lluchio briwsion bara drostynt, yn nghyda sage ac wynwyn wedi eu malu yn fân. Ni ddisgwylir gravy gyda Pork Chops. Bydd apple sauce gyda hwynt, mewn llestr, bach yn ddymunol.

**BRIWLIO PORK CHOPS.**—Torwch hwynt oddiar y llwyn neu y gwddf, ac o drwch canolig; lluchiwch bupur arnynt, a briwiwch hwynt, gan eu troi yn aml; par.

agos yn barod, rhoddwch halen arnynt, rhwbwch dderbyn o ymenyn drostynt, a dygwch hwy i'r bwrdd y foment y tynir hwy oddiar y tân, ychydig ar unwaith.

**PORK GRISKIN** (*Darnau Cefn Mochyn*).—Mae yn gyffredin yn bur galed; y ffordd oreu i rwystro hyn ydyw rhoddi cymaint o ddwfr oer arno ag a'i gorchuddia, a gadael iddo ferwi; yna ei dynu allan yn y fau, a'i roddi mewn Dutchoew, a bydd wedi gwneyd mewn ychydig iawn o funudau. Cofwch rwbio ymenyn drosto, a blawd wedi hynny, cyn ei roddi o flaen y tân.

**SAUSAGES PORC.**—Malwch bore bras a choch gyda'u gilydd; sesnwch gyda sage, pupur a halen, a gellwch yehwanegu dau ronyn neu dri o alispice; haner llenwch a hwn berfeddym mochyn a fyddo wedi ei fwydo a'i wneyd yn bur lân. Neu gellwch gadw y cig mewn dysgl fechan wedi ei gorchuddio yn glôs; a'i wneyd yn rholiau felly, wedi lluchio arno ychydig flawd, cyn ei ffrio. Gellir gwneyd yn rhwydd heb berfedd, ond rhoddi wyau wedi eu curo yn dda am ben y cig, a'u gwneyd yn rholiau tra y byddo yr wy yn wlyb, a bod yn ofalus wrth eu ffrio.

**COGINIO PORC FEL LAMB.**—Lledwch fochyn ieuange 4 neu 5 mis oed; torwch i fyny y chwarter blaen at ei rostio, yr un modd a chig oen, a rhwymwch y goes yn dŷn wrtho. Gellir piclo y rhanau ereill, eu tori yn chops, neu wneyd pasteioid, &c., o honynt.

**ASEN FRAN.**—Rhostiwch hi; dylai gael ei hiro ag ychydig ymenyn a blawd, ac yna lluchiar hyd-ddi sage wedi ei sychu, a'u rhwbio rhwng y dwylaw. Gofalwch am apple sauce ar y bwrdd.

**RHOSTIO PORCHELL** (*Suckling Pig*).—Os gellwch ei gael pan y mae newydd ei ladd, bydd hyn yn fanteisiol iawn. Ysgaldiwch ef; ond gwneir hyn yn gyffredin gan y cigydd. Yna rhoddwch gyfran o sage, briwsion bara, halen, a phupur, yn ei fol, a gwniwch ef i fyny. Gofalwch am sierhau y coesau gyda skewers, yn nghyfeiriad y pen ol, onide ni bydd iddo rostio odditanodd. Gosodwch o flaen tân bywiog nes y byddo wedi trwyadl sychu; yna bydded genych yn barod swm o ymenyn mewn llian sych, a rhwbwch y mochyn drosto âg ef. Lluchiwch gymaint o flawd hyd-ddo ag a allo

gynal, ac na chyffyrddwch ag ef drachefn nes y byddoyn barodi'wddwyn i'r bwrdd; y pryd hyn y crafwch ymaith y blawd yn ofalus gyda chylllell bŵl, rhwbiwch ef yn dda gyda'r llian a'r ymenyn hyd-ddo, a thorwch ymaith y pen tra fyddo wrth y tân; tynwch allan yr ymenydd, a chymysgwch ef a'r gravy a ddaeth oddiwrth y porchell. Yna cymerwch ef i fyny, a thorwch ef i lawr ei fol a'i gefn, dodwch ef ar y ddysgl, a malwch y sage a'r bara yn gyflym, nior fân ag y gellwch, a chymysgwch hwynt gyda swm helaeth o ymenyn toddi pur, heb fod ynddo ond ychydig o flawd. Dodwch y sauce yn y ddysgl wedi i'r porchell gael ei hollti i lawr y cefn, a'i addurno â'r clustiau a'r ddwy ên; torwch ymaith y darn uchaf i lawr hyd y trwyn.

**BERWI CHEEK MOCHYN.** — Torwch ymaith y trwyn, a glanhewch y pen; rhenwch ef, a thynwch allan y llygaid a'r ymenydd; lluchiwch halen hyd y pen, a gadewch iddo redeg oddiarno am bedair awr ar hugain. Halltwch ef a halen cyffredin a saltpetre; gadewch iddo orwedd yn y picl am wyth neu ddeng niwrnod, os ydyw i gael ei goginio heb ei ystiwio a phys, ond llai os arlwyir pys gydag ef; a rhaid ei olchi yn gyntaf, ac yna ei ledferwi nes y byddo yn dyner i gyd drosto.

**COLERU PEN MOCHYN.** — Glanhewch y pen a'r clustiau yn ofalus; tynwch y gwrych i ffordd; torwch ymaith y trwyn, a thynwch allan y llygaid a'r ymenydd; dodwch ef mewn dwfr am noswaith; yna sychwch ef, halltwch ef yn bur dda gyda halen cyffredin a saltpetre, a gadewch iddo orwedd yn y picl am bum' diwrnod. Berwch ef ddiagon i dynu allan yr esgyrn; yna dodwch ef ar fwrdd, a throwch ben truchus un ochr o'r pen at ben teneu y llall, i wneyd y rholyn o faintioli cyfartal; lluchiwch hyd-ddo halen a phupur gwyn yn helaeth, rholiwch ef i fyny gyda'r clustiau; ac os byddwch yn cymeradwyo, dodwch draed y mochyn o amgylch y tu allan, wedi tynu yr esgyrn, neu y rhanau teneuon o ddau droed buwch. Dodwch mewn llian, rhwymwch â *thape* llydan, a berwch nes y byddo yn gwbl dyner; yna rhoddwch bwysau da arno, ac na thynwch hwy ymaith nes yr oero.

**BRAWN MOCHYN.** — Glanhewch ben mochyn, a rhwbiwch ef a halen, ac ychydig o saltpetre, a gadewch iddo sefyll am ddeuddydd neu dri; yna berwch nes y byddo y cig yn ymadael a'r esgyrn; sesnwch gyda phupur a halen, a dodwch mewn llestr a phwysau arno am rai oriau. Berwch ef wedi hyny am awr. Yna torwch ef yn dameidiau ysgwâr, gan ofalu rhoddi y tafod gydag ef, a rhoddwch yn y mould neu unrhyw lestr arall, a phwysau da arno.

**TRAED A CHLUSTIAU MOCH.** — Glanhewch hwy yn ofalus, mwydwch am rai oriau, a berwch hwynt nes byddont dynner; yna tynwch hwy allan; berwch swm o finegr ac ychydig halen gyda pheth o'r dwfr, a phan yr oero, tywalltwch ef arnynt. Pan y maent i gael eu coginio, sychwch hwynt, torwch y traed yn ddau, a'r clustiau yn dafelli; ffriwch hwynt, a dygwch i'r bwrdd gydag ymenyn, mws-tard, a finegr. Gellir eu ffrio naill ai gyda blawd a dwfr wedi ei gymysgu, neu wedi lluchio blawd hyd-ddynt yn unig.

**PWDIN GWAED.** — Rhaid cyffroi y gwaed â halen nes yr oero. Rhoddwch chwart o hono, neu ragor, at chwart o rynion, i fwydo dros nos; a mwydwch grystyn torth swllt mewn ychydig yn rhagor na dau chwart o laeth newydd wedi ei boethi. Yn y cyfamser parotowch y perfedd, trwy eu golchi, a'u troi, a'u crafu gyda dwfr a halen, a newidiwch y dwfr amryw weithiau. Malwch ychydig o winter savoury, thyme, pennyroyal, pupur, a halen, ac ychydig cloves, cyfran o allspice, ginger, a nutmeg; cymysgwch y rhai hyny â thri phwys o siwet beef, a chwech o wyau wedi eu curo a'u hystraenio; ac yna curwch y bara, rhynton, &c., i gyd efo'r seasoning. Pan wedi eu cymysgu yn dda, parotowch swm o fraser mochyn wedi ei dori yn ddarnau lled fawr; ac fel y byddoch yn llaw y perfeddi, dodwch hwy i mewn yn awr ac eilwaith, mewn pellerau priodol. Rhwymwch hwy i fyny yn ddolenau, yn haner llawnion, a berwch mewn crochan mawr, gan eu pigo fel y byddont yn chwyddo, neu bydd iddynt ymrwyo. Wedi eu berwi, dodwch hwy rhwng lliciniau glân nes yr oeront, a hongiwch hwy i fyny yn y gegin. Pan fyddoch yn myned i'w defnyddio, ysgaldiwch hwy am ychydig funudat.

mewn dwfr, sychwch a dodwch hwy mewn Dutchoven.—Os na bydd digon o berfeddi i'w roddi ynddynt, rhoddwch mewn dysglau, a berwch, wedi ei orchuddio â lleiniau wedi cael lluchio blawd hyd-dlynt; torwch yn dafelli, a sychwch ef, pan yn myned i'w ddefnyddio.

LARD MOCHYN.—Dylai gael ei doddi yn ofalus mewn jar wedi ei rhoddi mewn crochanaid o ddwfr, ei ferwi, a'i dywallt i chwysigenau a fyddont wedi cael eu glanhau yn dda dros ben. Po lleiaf fyddont, goreu oll y ceidw y lard; pan gyrhaeddo yr awyr ato, y mae ei flas yn myned yn ddrwg. Rhoddwch ynddo ysbrigrin o rosmari pan fyddo yn toddi.—Gan fod hwn y sylwedd mwyaf defnyddiol at ffrio pysgod a phethau ereill, dylid ei barotio yn ofalus. Wedi ei gymysgu ag ymenyn, gwna grystyn pastai rhagorol.

FFRIO BACON AC WYAU.—Dylid tori y bacon yn dafellau tra theneuon, heb fod dros chwarter modfedd o drwch. Y bacon goreu yw y peth sydd wedi ei resu yn goch a gwyn bob yn ail. Nid oes angenrheidrwydd am roddi nac ymenyn na dripping yn y badell at ffrio bacon, ac nid yw yn gofyn llawer o ffrio, bydd yn fuan yn ddiagon. Pan yn ddigon, cymerer y tafellau o'r badell, a gosoder hwy mewn dysgl boeth o flaen y tân. Bydded y nifer gofynol o wyau wedi eu tori yn flaenorol, pob un mewn cwpan ar ei ben ei hun, a gosoder hwy yn araf yn y badell, fel ag i'w cadw yn eu ffurf lled-grwn. Gadawer hwy yn y badell nes y byddo y gwynwy wedi tewychu, a chymerer hwy allan yn ofalus, gan eu gosod ar y bacon. Andwyir ymddangosiad prydferth y ddysglaid hon os bydd yr wyau wedi tori neu yn ddnariog, yr hyn a ddygwyydda yn fynych oni roddir hwy mewn cwpanau yn flaenorol.

PICLO PORC.—Mae y dogneau a nodir isod, wedi eu cyfartalu ar gyfer mochyn lled fawr, wedi i'r hames ar ysgwyddau gael eu tori ymaith.—Cymysgwch, a malwch yn fân, bedair owns o saltpetre, pwys o siwgr bras, owns o salprunela, ac ychydig halen cyffredin: lluchiwch halen hyd y cig, a gadewch iddo redeg ymaith am bedair awr a hugain; yna rhwbiwch ef gyda'r cymysgedd uchod; pac-iwch y darnau yn dnyion mewn twb bychan dwfn, gan lenwi i fyny rhyngddynt

â halen cyffredin. Gosodwch goryg ar y porc i atal iddo nofio yn y picl a gynyrrha yr halen. Os cedwir rhag yr awyr, parha mewn blas rhagorol am ddwy flynedd.

SYCHU CHEEK MOCHYN.—Torwch y trwyn, a holltwch y pen, gan dynu ymaith yr asgwrn uchaf, i wneyd y cheek o ffurf ddestlus; rhwbiwch yn dda â halen; dranoeth tywalltwch ymaith yr heli, a halltwch ef drachefn y dydd canlynol: gorehuddiwch y pen â haner owns o saltpetre, dwy owns o bay salt, ychydig halen cyffredin, a phedair owns o siwgr coch. Trôer y pen yn fynych; ar ol deng niwrnod, mygwch ef am wythnos, fel bacon; neu codwch uwch ben tŷ i sychu.

CIWRIO BACON.—Rhenwch y mochyn, a thynwch ymaith y darn cefn; arferir tynu ymaith yr asen fran hefyd, ond gwell fyddai ei gadael, cadwai y cig yn well heb lwydo. Halltwch y bacon am chwe' diwrnod, yna codwch ef o'r picl cyntaf hwnw, a gadewch iddo redeg yn sych oddiarno; cymysgwch gymaint o halen ag a farnoch yn oreu gydag wyth owns o bay salt, tair owns o saltpetre, a phwys o siwgr bras, at bob mochyn, ond torwch ymaith yr hams yn gyntaf. Rhwbiwch ef i mewn yn dda i'r cig, a throwch ef bob dydd am fis. Ar ol ei godi, ac i'r picl redeg ymaith, mygwch ef ychydig ddyddiau; neu sychwch ef heb hyn, drwy ei hongian yn y gegin, ond nid yn rhy agos i'r tân.

DULL ARALL I GIWRIO BACON.—Rhwbiwch y porc drosto â halen, a gadawer iddo sefyll am wythnos; yna ysguber ef yn lân, a rhwbier ef yn dda gydag ychydig o saltpetre, swm o siwgr bras, a halen cyffredin; gosoder ef yn y picl hwn am oddeutu pythefnos, trôer bob dydd; yna coder ef i fyny mewn mwg coed yn yr un modd a'r ham; ac wedi hyn, coder ef i sychu mewn lle oer.

CIWRIO HAMS.—Hongiwch hwy am ddiwrnod neu ddau; yna lluchiwch hyd-ddynt ychydig halen, a gadewch iddo redeg oddiarynt am ddiwrnod arall; malwch owns a haner o saltpetre, yr un swm o bay salt, haner owns o salprunela, a phwys o'r siwgr brasaf. Cymysgwch y rhai hyn yn dda, a rhwbiwch hwynt i bob ham, bob dydd, am bedwai

diwrnod, gan eu troi. Os ham fechan a fydd, trowch hi bob dydd am dair wythnos; os un fawr, am wythnos yn rhagor; ond peidiwch a'i rhwbio ar ol pedwar diwrnod. Cyn ei sychu, gadawer i'r gwlybwr redeg ymaith, a gorchuddiwch hi ag eisin. Mygwch hi am ddeng niwrnod.

**DULL ARALL O GIWRIO HAM.**—Yn gyntaf torer ham allan o chwarter ôl porc tew; yna cymerer pwys o siwgr bras, owns a haner o saltpetre, a phwys o halen cyffredin, cymysger hwy yn nghyd, a rhwbier yr ham yn dda gydag ef: gadawer iddi aros yn y piel hwn agos i fis; trôcer hi bob dydd; yna coder hi i fyny mewn mwg coed am amryw ddyddiau; ac wedi hyny coder hi i fyny mewn lle sych ac oer.

**BERWI HAM.**—Golchwech hi yn dda, a dodwch hi mewn crochan mawr, gyda digonedd o ddwfr oer, a gadawer iddi led-ferwi yn araf am o ddwy i bedair awr, yn ol ei maint. Ysgumier hi yn fynych, er mwyn symud ymaith y sain sydd yn codi yn wastad i'r wyneb. Pan yn ddi-gon, blinger hi, a lluchier bara wedi ei ratio ar yr ochr uchaf iddi; yna doder hi o flaen y tân i sychu a brownio.

**GAME** (*Helwriaeth, &c.*)

**PETRIS.**—**RHOSTIO PETRIS.**—Pluwch hwy, tynwch eu perfedd, a deifiwch a glanhewch yr un modd a ffowls. Gadewch y pen wrthynt. Gwnewch hollt yn y gwddf, a thynwch allan y grombil. Trowch y gwddf o gylech yr asgell, a dygwch y pen o gwmpas at ochr y frest. Gellir rhwymo y coesau a'r esgyll ryw-beth yr un dull a ffowls. Gadewr y traed wrthynt, a chroesir hwy y naill i'r llall. I'r hwy yn dda ag ymenyn o flaen tân clir. Pan fyddont tua haner digon, ysgydwer ychydig flawd drostynt. Cymer petrisen rhwng ugain munud a haner awr i rostio. Dygir hwy i'r bwrdd ar fara crasedig, gyda gravy a bread sauce; gellir trochi y bara crasedig yn y gravy.

**PHEASANTS.**—**I'w RHOSTIO.**—Pluwch, deifiwch, a thynwch eu perfedd hwy, yr un modd a ffowls. Rhwymwch hwy trwy droi y pen am un o'r esgyll, a throï y ddwy asgell ar y cefn. Sicriehr y coesau wrth bob ochr, rywbeth yn debyg i'r dull y gwneir wrth rostio ffowls,

gan adael y traed wrthynt. Dyger hwy i'r bwrdd gyda gravy beef a bread sauce.

**GROUSE.**—**I'w RHOSTIO.**—Rhostiwech hwynt yr un modd a ffowls, ond rhaid troi y pen o dan yr asgell. Ni ddylid gwneyd gormod arnynt. Dygwch i'r bwrdd gyda gravy da yn y ddysgl, a bread sauce.

**FFOWLS GWYLLTION.**—*Hwyaid Gwylltion, Adar y Môr, &c.*—Dyogelir y blas yn oreu heb eu hystwffio. Rhoddwch bupur a halen, a deryn o ymenyn yn mhob un.—Mae ffowls gwylltion yn gofyn llawer llai o rostio na'r rhai dôf; dylid eu dwyn i'r bwrdd mewn dysgl, gyda gravy brown da ynddi.—I dynu ymaith y blas pysgod a fydd weithiau ar ffowls gwylltion, rhoddwch wynwyn, halen, a dwfr poeth yn y ddysgl a fyddo yn derbyn dripping oddiwrthynt, ac irwech hwy am y deng munud cyntaf â hwn; yna tynwch ymaith y ddysgl, ac irwech hwy yn barhaus âg ymenyn.—Dylid eu cymeryd i'r bwrdd a'r gravy arnynt. Irwech hwynt ag ymenyn, a lluchiwech dipyn o halen hyd-ddynt cyn eu dwyn i'r bwrdd; rhoddwch gravy da o danynt, a dygwch i'w canlyn shalot sauce mewn llestr bychan.

**WOODCOCKS, SNIPES, A QUAILS.**

—Cedwch hwy am rai dyddiau mewn lle sych. Rhostiwech hwy heb dynu eu perfeddi, a dygwch i'r bwrdd ar fara wedi ei grasu. Ni ddylid bwyta ond ymenyn yn unig gyda hwynt, am fod gravy yn tynu eu blâs neillduol.

**GINI FFOWLS A PHAUNOD.**—Yr un fath a pheasants.

**YSGYFARNOGOD.**—**RHOSTIO YSGYFARNOG.**—Ceidw ysgyfarnog heb ei blingo, ac wedi agor ei bol, am oddeutu tair wythnos mewn tywydd oer. Y pryd hwnw y mae yn gyfaddas i'w rhostio. Yn gyntaf, torer ymaith y traed, a dechreuer ei blingo yn y coesau ôl, gan fyned ar hyd y corph at y pen. Gofaler am beidio rhwygo y clustiau wrth eu blingo. Mwyder a golcher hi yn dda mewn amryw ddyfroedd, ac yna sycher hi yn berffaith sych. Ystwfier hi â briwsion bara, persli wedi eu malu, deryn o siwet beef neu veal wedi ei falu yn fân, ychydig groen lemon a nutmeg wedi ei gratio, deryn o afu wedi ei ferwi a'i falu neu ei ratio yn fân, a phupur a halen;

gwlycher y cyfan gydag ŵy, ychydig laeth, a llwyaid a ketchup. Wedi hwy gnwïer croen y bol. Dechreuwch ei rhwymo, trwy osod y coesau ôl a blaen yn wastad ar ei hochrau. I wneyd i'r coesau ôl orwedd yn wastad, rhaid tori y gewynau odditanodd. Sicrhau'r pen rhwng y ddwy ysgwydd, ar y cefn, drwy yru skewer trwyddo i'r corff. Wrth ei rhostio, croger hi a'i phen i lawr. Gellir ei hiro yn gyntaf â laeth, wedi hyny ag ymenyn, gan roddi ychydig flawd hyd-ddi. Gofyna o awr a haner i ddwy awr i rostio. Gosodir yr ysgyfarnog ar y ddysgl â'i chefn i'w ffrwy, a dygir hi i'r bwrdd gyda dysglaid o gravity beef da, a dysglaid o currant jelly.

**BRIWLIO A HASHIO YSGYFARNOG.**—Rhaid blasuso y coesau yn gyntaf; rhwb-iwch â hen ymenyn, a dygwech i'r bwrdd yn bur boeth. Gellir dwyn y rhanau ereill i'r bwrdd ar wahan, wedi eu twymo a gravity ac ychydig ystwfing.

**YSTIWIO YSGYFARNOG.**—Torwch yn ddarnau; dodwch mewn stewpan, gyda mace, pupur, wynwyn, cloves, anchovy, 1 pwys o beef, ½ pwys o facon, llysiau, halen, nutmeg; gorchuddiwch a dwfr; ystiwewch nes y byddo yn dyner; hidl-wch y sauce i badell lân, a dodwch yr ysgyfarnog i mewn drachefn gyda'r sauce; cymerwch damaid at faint cneuen ffreinig o ymenyn, wedi ei rowlio mewn brawd, llon'd llwy fwrdd o ketchup, a dwy lwyaid o win coch. Ystiwewch nes y byddo yn dew.

**POTIO YSGYFARNOG.**—Wedi ei sesno, rhoddwch hi mewn pobty i grasu, gydag ymenyn. Wedi iddi oeri, tynwch y cig oddiar yr esgryn, a churwch ef mewn mortar. Os na bydd y blas yn ddigon uchel, ychwanegwch halen, mace, pupur, a deryn o ymenyn ffres pur wedi ei doddi mewn llwyaid neu ddwy o'r gravity a ddaeth oddiwrth yr ysgyfarnog. Pan fyddo wedi cymysgu yn dda, dodwch mewn potiau bychain, a gorchuddiwch ag ymenyn.

**CWNINGOD.**—**RHOSTIO CWNINGOD.**—Irwech hwy ag ymenyn, a lluchiwch flawd hyd-ddynt; bydd haner awr o flaen tã da yn ddigon iddynt; os bychan fyddant, gwna ugain munud y tro. Cymerwch yr afu gyda phersli, berwch hwy, a malwch hwy yn nghyd yn bur fân;

toddwch beth ymenyn, a rhoddwch haner yr afu a'r persli yn yr ymenyn; tywellt-wch i ddysgl, a thriniwch y ddysgl a'r haner arall; rhostiwch hwy o liw brown da.

**YSTIWIO CWNINGOD.**—Golecher y cwn-ingod yn dda; torer hwy yn ddarnau, a dodder i ysgaldio am ychydig funudau. Todder deryn o ymenyn, a ffrier neu frownier y cwningod ynddo am ychydig amser. Wedi eu lled frownio lluchier tipyn o flawd hyd-ddynt; yna chwaneger cymaint o gravity neu ddwfr poeth ag a wna ddigon o sauce. Dodder ynddo wyn-wyn, ketchup, pupur a halen, yn ol fel y dewisir ei gael. Ystiwier ef yn araf am awr. Pan fyddo ei eisiau, blasuser y gravity a dogn bychan o curry-powder.

**BERWI CWNINGOD YN GYFAN.**—Golecher hwy yn dda mewn dwfr claiar. Gellir naill ai eu hystwffio neu beidio, fel y dewisir. Pan fyddo eisiau ystwfing, gwnaer ef o friwsion bara, siwet, persli, ac wynwyn—y cyfan wedi eu malu—a phupur a halen; lleithier ef â laeth ac ŵy. Dodder hwn yn drefnus yn y bol, a gnwïer ef. Rhwymer hi yn yr un dull ag ysgyfarnog rôst, a berwer hi yn araf am awr.

**COGINIO CWNINGEN I ARCHWAETHU FEL YSGYFARNOG.**—Dewiswch un ieu-ange, ond wedi cyraedd llawn dŵf; hongiwch hi, a'i chroen am dani, am dri neu bedwar diwrnod; yna blingwch hi; a dodwch hi, heb ei golchi, mewn saes-oning o bupur du ac allspice wedi eu malu yn llwch mân, gwydraid o win coch, a'r un swm o finegr. Irwech hi yn achlysurol am 40 o oriau, yna ystwfliwch a rhostiwch hi fel ysgyfarnog, a chyda'r un sauce. Na fydded i chwi olechi ymaith y gwlybwr yn yr hwn y mwyd-wyd hi.

**POTIO CWNINGOD.**—Yr un fath ag Ysgyfarnogod.

**FFOWLS, NEU ADAR DOF.**

**TWRCI.**—**RHOSTIO TWRCI.**—Pigwech y twrci, tynwch ei berfedd, a deifiwch ef yn dda. Gwasgwch asgwrn y fron i lawr, a rhwymwch ef yn y dull arferol. Dylai y fron gael ei hystwffio â briwsion bara, siwet wedi ei falu, persli wedi eu malu, ychydig nutmeg, pupur, a halen; gwychwch ef ag ŵy a laeth; gellid ychwanegu hefyd ychydig sausage. Wed

gorphen, gwnier twll y gwddf i fyny. Cyn ei roddi wrth y tân, gorchuddier y fron â llen o bapur ysgrifenu wedi ei rhwbio ag ymenyn, i'w chadw rhag llosgi, a gellir tynu hon ymaith ychydig amser cyn ei gymeryd oddiwrth y tân, fel y gallo y fron gael ei throï yn frown. I'w cerf yn dda ag ymenyn. Cymer Twrci o awr a haner i ddwy awr i rostio. Dyger ef i'r bwrdd gyda gravy sauce a bread sauce.

**BERWI TWRCI.**—Glanhaer y twrci oddiwrth bob plu, a llosger y blew gyda phapur, gan gymeryd gofal am beidio duo y croen. Glanhaer ef yn dda oddimewn, trwy dynu ei berfedd, a'i sychu. Torer ymaith y coesau yn y cymal cyntaf, a thynner allan y gwynnau; yna tyner y croen i lawr, a gwthier y coesau i mewn. Torer ymaith y pen gerllaw y corph, gan adael y croen yn hir, a thynner allan y grombil. Gwnewch ystwffing o siwet wedi ei falu, briwsion bara, persli wedi eu malu, pupur, halen, ac ychydig nutmeg; gwlycher ef ag ŵy a llaeth. Doder yr ystwffing yma yn y fron, gan adael digon o le iddo chwyddo; wedi hyn tyner croen y fron dros yr agorfa, a gwnier ef yn drefnus ar draws y cefn; trwy wneyd hyn, pan ddygir y twrci i'r bwrdd a'r fron i fyny, ni bydd y gwniad yn ganfyddadwy. Doder yr afu mewn un asgell, a'r grombil yn y llall, gan droi yr asgell ar y cefn, a sicrhaer yr esgyll wrth yr ochrau â skewer. Mae y twrci yn awi yn barod i'r crochan, dodder ef mewn llian, a berwer ef am yspaid o amser yn ol ei oed a'i faint. Nid yw twrci ieuangc bychan yn gofyn dros awr a haner; efallai y gofyna hen dwrci mawr ddwy awr a haner neu dair awr. Bydded y dwfr yn gynnes pan roddir ef i mewn, a bydded digon o hono i guddio y twrci yn wastadol. Pan yn ddigon, dodder ef mewn dysgl boeth, tywallter ychydig sauce ar y fron, a dodder y gweddull mewn tureen. Y mae y sauce a ddefnyddir yn amrywiol—megys, persli ac ymenyn, celery, neu oyster sauce. Gwneir sauce moethus a boddhaol neillduol o ymenyn toddi, macaroni wedi ei ferwi a llaeth.

**GWYDDAU.**—**RHOSTIO GWYDD.**—Pluer yr ŵydd, tyner ei pherfedd, a deifier hi yn dda. Torer ymaith ei phen

a'i gwddf. Tyner ymaith y coesau a'r esgyll yn y cymal cyntaf. Y rhanau a adewir o'r coesau a'r esgyll a sicrheir â skewers wrth yr ochrau. Ystwffwch hi a sage a wynwyn wedi eu malu, a briwsion bara, yn nghyda phupur a halen. Rhaid i groen y gwddf gael ei rwymo yn ddiogel, rhag i'r gravy redeg allan. Rhoddwch bapur ar y frest am ychydig amser. Nid yw gwydd yn gofyn ei hiro mor fynych a chyw iâr neu dwroï, canys y mae yn naturiol yn seimlyd. Gofyna o ddwy awr i ddwy awr a haner i rostio. Dylai gael ei gwneyd yn drwyadl. Dyger hi i'r bwrdd gyda gravy sauce ac apple sauce. Yr afu, y grombil, y pen, y gwddf, y traed, a blaenau yr esgyll, a ffurfient yr hyn a elwir y giblets, gwnant bastai neu ystiw rhagorol.

**YSTIW GIBLETS GWYDD.**—Gwneler hwy yn barod fel y cyfarwyddir dan y pen *Pastai Giblets*; blasuser â phupur a halen, a dernyn bychan o inace. Cyn eu dwyn i'r bwrdd, rhoddwch iddym un berwad gyda chwpanaid o hufen, a dernyn o ymenyn wedi ei rowlio mewn lloaid llwy dé o flawd.

**HWY AID (Ducks).**—Pluwch hwy, tynwch eu perfedd, a deifiwch yn ofalus. Torer ymaith y pen. Trocher y traed mewn dwfr berwedig, i dynu ymaith y croen melyn allanol. Rhwymwch hwy yn ofalus, gan droi y traed yn wastad ar y cefn. Ystwffwch hwy fel gwydd, a dygwch hwy i'r bwrdd gyda'r un sauces. Mae hwyaden yn gofyn tuag awr i rostio.

**HASHIO HWYADEN.**—Torwch hwyaden oer yn gymalau, a phoethwch hi heb ei berwi, mewn gravy, a gwydriad o win coch.

**BERWI HWYADEN.**—Helltwch yr hwyaden am ddeuddydd, yna berwch hi yn araf mewn llian. Dygwch hi i'r bwrdd gydag onion sauce, ond gwnewch yr ymenyn toddi gyda llefrith, yn lle dwfr.

**FFOWLS.**—**BERWI FFWL.**—Parotoer ef at ei ferwi yn yr un dull a thwrci, oddigerth nad oes dim ystwffing yn cael ei ddefnyddio. Gellir ei ferwi naill ai gyda neu heb llian. Mae ffowls bychain yn gofyn o haner i dri chwarter awr; a rhai mawrion o awr i awr a haner. Y sauce yw persli ac ymenyn.

**RHOSTIO FFWLS.**—Pigwch hwy, tynwch eu perfedd, a deifiwch hwy. Dylai



y fflowl fod mor lân fel na byddo eisiau ei olchi. Gofaler am beidio tori cwd y bustl wrth dynu y perfedd; os collir y bustl, rhydd ffias chwerv ar bob mau y cyffyrdda âg ef. Gwasger asgwrn y fron i lawr. Torer y coesau yn nghanol y cymal cyntaf, gan dynu allan y gewynau, a thori ymaith y darnau yn y toriad. Sierhaer gliniau yr aderyn gerllaw y gynffon gyda skewer neu ddarn o liny, gan adael i fonau y coesau dafu allan. Yna troer blaenau yr esgyll o gwmpas ar y cefn, a gosoder yr afu fel addurn ar un asgell, a'r grombil ar y llall. Torer ymaith y pen gerllaw y corph, gan adael digon o'r croen i'w gylumu neu ei sierbau â skewer ar y cefn. Irwch ef yn dda âg ymenyn am beth amser wedi ei roddi wrth y tân. Crogwch efa'i wddf i lawr. Mae yr amser i rostio yn amrywio o haner awr i awr, yn ol maint y cyw. Pan y mae yr adar yn fawrion, ystwfir hwy yn gyffredin fel twrci. Dygwch hwy i'r bwrdd gydag ymenyn toddi neu gravy sauce. Cyn eu dwyn i'r bwrdd, tyner ymaith bob skewers a llinynau a ddefnyddiwyd i'w sierhau.

**BRIWLIO FFWLS.**—Glanhaer a pharotoer hwy megis at eu rhosti; yna hollter hwy i lawr y cefn, gan eu gwneyd yn hollol wastad. Lluchier pupur hyd-dylnt. Dylid eu briwlio yn arafach na beef steaks, gan eu bod yn fwy eu trwch, ac yn gofyn eu coginio yn fwy trwyadl. Rhwbier hwy yn achlysurol âg ychydig ymenyn, i rwystro i'r croen gracio. Ni ddylid un amser dynu y croen cyn eu briwlio. Lluchier ychydig halen drostyt wrth eu rhoedi ar y ddysgl. Defnyddir amryw sauces—persli ac ymenyn, ymenyn toddi, gravy beef, neu mushroom sauce.

**COGINIO FFWL OER.**—Tynwch ymaith y croen; a thynwch y cig oddiwrth yr esgyrn, yn ddarnau mor fawr ag y gellwch; lluchiwch flawd hyd y cig, a ffrwch ef yn lliw brown prydferth mewn ymenyn. Tywelltwch yr ymenyn oddi-arno; ac yna ledferwch ef mewn gravy da wedi ei sesno yn uchel, a'i dewychu gydag ychydig flawd ac ymenyn. Ychwanegwch sudd haner lemon.

**COLOMENOD.**—RHOSTIO COLOMENOD.—Pluwch hwy yn lân, a thynwch eu perfedd yn llwyr, gan eu rhwymo yn

dŷn, a gadael y traed wrthynt. Gwnewch ystwfing o'r afu wedi ei falu, briwsion bara, persli wedi eu malu, pupur, halen, ac ychydig ymenyn; dodwch hwn oddi-mewn. Gwnewch hollt yn un o'r coesau, a rhoddwch y goes arall trwyddo. Ysgwariwch hwy, a rhostiwch hwy am haner awr, gan eu hiro yn dda gydag ymenyn. Dygwch hwy i'r bwrdd gyda brown gravy. Mae rhai yn dwyn colomenod i'r bwrdd gyda bara crasedig oddi-tanynt, a bread sauce.

**YSTIWIWIO COLOMENOD.**—Ystiwiwch mewn brown gravy da, naill a'i wedi neu heb eu hystwffio; a blasuswch yn uchel gyda spice a mushrooms ffres, ac ychydig ketchup.

**BRIWLIO COLOMENOD.**—Yr un modd a briwlio ffwls.

**SOUPS.**—**SOUP DA A RHAD.**—Beef coch, 1 pwys, wedi ei dori yn dameidiau mân; hauer pint o split pease; 2 owns o rice, neu scotch barley; 5 o bytatws, wedi eu tafellu; tri o wynwyn, wedi eu tori yn chwarteri; pupur a halen yn ol yr archwaeth. Rhwymwch y pupur mewn cwd bychan; dodwch y cwbl a nodwyd yma mewn galwyn ac un chwart o ddwfr. Dodwch mewn ffwrn am 3½ awr. Wastia 1 pint yn y pobty, ond mwy wrth ferwi.

**GRAVY NEU BROWN SOUP.**—Cymerer sliin neu ddarn o rump buwch, a thorer ef yn amryw ddarnau. Torer y cig oddiwrth yr asgwrn; tyner allan gyfran o'r mêr, a gosoder ef ar waelod y crochan. Oni byddi mêr, defnyddier ymenyn. Yna dodder y cig a'r asgwrn i mewn i frownio. Troer y cyfan, wedi iddynt frownio ar un ochr, a chymerer gofal na byddo iddynt losgi. Wedi eu trwyadl frownio, ychwaneger pint o ddwfr oer i dynu y nodd o'r cig, ac ychydig halen hefyd; ac yn mhen chwarter awr ar ol hyny, dodder i mewn y swm gofynol o ddwfr oer. Yn awr ychwaneger y llyisiau, megis, dwy garrot, meipen, dau neu dri o wynwyn, oll yn dafellau; hefyd ysbrigrin o celery, ychydig o ber-lyisiau, ynghyda rhyw ychydig o bupur du a phupur Jamaica yn gyfan. Gadawer i'r soup ferwi yn araf am o bedair i bum awr, wedi hyny tyner ef oddiar y tân, a gadawer iddo sefyll am ychydig amser. Yna ysgumier y brasder i ffordd, a dodder ef trwy ogr rhawu i'w

glirio. Ar ol ei glirio, y mae y soup yn barod i'w ddefnyddio, neu i'w ddodi o'r neilldu i'w ddefnyddio rhagllaw. Dylai fod o ymddangosiad dysglaer a chlir, ac o liw brown. Gwneir ef yn fynych y diwrnod cyn ei ddefnyddio, fei y galler ei lwyrr ysgumio oddiwrth frasier. Yn y cyfryw amgylehiad, twymir ef drachefn cyn ei ddwyn i'r bwrdd. Mae brown soup wedi ei wneyd fel hyn, yn ffurfio hefyd yr hyn a elwir stock; hyny yw, sylfaen at bob math arall o brown soup, a gravy hefyd at ystiwiau, lle y gofynir moethusrwydd. Y mae hefyd yn ffurfio pob math o soup llysiuol, heb ddim ond ychwanegu ato y llysiuyn gofynol, pan fyddo wedi gorpheu berwi a chlirio. Fel hyn y ffurfir carrot soup, torir y carrots yn rhibynau bychain; leek soup, trwy ychwanegu leeks wedi eu tori yn ddarnau byron, a'u berwi am awr, &c.

**BEEF TEA.**—Cymerer pwys o beef coch, heb ddim brasder, a gwahaner ef oddiwrth yr esgyrn, malar ef yn hollol fân, cymysger ef â'i bwysau ei hun o ddwfr oer, poether ef yn araf hyd oni ferwo, ac wedi berwi yn fywiogam funud neu ddau, hidler trwy lian neu ogr, a cheir soup neu beef tea o'r fath ywaf persawr, ac mor nerthol ag a ellid ei gael oddiwrth ddernyn o gig hyd yn nod trwy ei ferwi am oriau lawer. Ysgumier ef a blasuser â halen. Mae hwn yn ynuborth gwerthfawr i gleision.

**OX-TAIL SOUP.**—Gwnewch rhyw gymaint o brown soup, fel y cyfarwyddwyd o'r blaen. Cymerer dwy neu dair o gynffonau, a thorer hwy yn ddarnau yn y cymalau. Doder y cwbl yn y soup, a berwer hwy hyd oni thynero y cig, ond nid hyd nes yr ymwahana oddiwrth yr esgyrn. Ychwaneger ychydig o ketchup, a dyger y soup i'r bwrdd a'r darnau cynffonau ynddo.

**MOCK-TURTLE SOUP.**—Gwneir hwn gyda phen llô. Byddai yn well cael y pen wedi ei grafu a'i lanhau gan y cigydd, ond heb ei flingo. Os mewn cyflwr aflan y ceir ef, bydded iddo gael ei olchi, a'i ddodi mewn crochanaid o ddwfr oer, a'i ferwi am ychydig amser nes y rhyddheir y blew. Wedi hyny crafer y blew ymaith, hollter y pen, glanhaer ef yn drwyadl, a thyner allan yr ymenydd. Tybir fod y pen yn lân yn awr, ac yn

barod i'w wneyd yn soup. Doder ef mewn crochan, yn nghyda chryn lawer mwy o ddwfr nag a'i gorchuddia. Ysgumier ef yn fynych fel ag y twyma, a gadawer iddo ferwi yn araf am awr. Tyn-er allan y pen, ac wedi iddo oeri, torer ymaith y cig yn ddarnau trefnus tua modfedd ysgwar. Crafer a thorer y tafod yn yr un modd. Gosoder yr holl ddarnau hyn o'r neilldu. Yna dodder yn y dwfr yn mha un y berwyd y pen, tua thri neu bedwar pwys o hoch beef, a knuckle o veal, wedi tori yr esgyrn. At hyn, ychwaneger pedwar neu bump o wynwyn, carrot a meipen wedi eu tafellu, sypyn bychan o lysiau, ac ychydig bupur du a phupur Jamaica heb eu malu. Hefyd, ychwaneger yr ymenydd, wedi i chwi ei ferwi ar wahan mewn lian, a'i bwyo. Wedi derbyn yr holl ychwanegiadau hyn, gadawer i'r soup ferwi yn araf am bedair neu bum' awr, wedi hyny hidler ef, a phan yn oer, ysgumier y brasder. Cymerer chwarter pwys o ymenyn ffres, a thodder ef mewn stewpan; pan yn doddedig, dodder ynddo ddau ddynnaid o flawd, a gadawer iddo frownio, gan ei gymysgu drwy gydol yr amser; ychwaneger ychydig o'r soup, ysbrigrin neu ddau o sweet basil, ac ychydig bersii. Berwer hwn am chwarter awr; hidler ef trwy ogr; yna dodder hwn, y darnau cig a'r soup, y cwbl yn nghyd, a berwer hwy am awr. Ychwaneger dwy lonaid llwy fwrdd o ketchup, sudd lemon, pupur, cayenne, a halen, yn ol yr archwaeth. Arferir dodi ynddo yr un pryd bedwar gwydraid o sherry wine. Pan ddygir ef i'r bwrdd mewn tureen, dodder ynddo ddau ddwsin o EGG BALLS, wedi eu gwneyd fel y canlyn:—Berwer pedwar neu bump o wyau yn hollol galed. Tynner allan y melynwy, a churer mewn mortar, gyda halen a phupur Cayenne. Gwnaer hwn yn does gyda gwyn wý neu ddau, heb eu berwi. Rholier y toes yn beleni tua maintioli marbles bychain. Rholier hwy mewn ychydig flawd, a naill ai ffrier hwy mewn ymenyn, neu frownier hwy o flaen tân, gan ofalu am eu cadw yn gyfan ac ar wahan. Y maent yn awr yn barod i'w dodi yn y soup.

**SOUP PVS.**—Cymerer marrow-bone da, neu esgyrn beef oer wedi ei rostio; gellir ychwanegu tafell o ham os dewisir y

blas. Torer yr esgyrn, a doder hwy yn y crochan gyda phedwar chwart o ddwfr oer. Cymerer dau neu dri phwys o'r split pease goreu, yn ol y tewychedd a'r swm a fyddo eisiau, a doder hwy yn mysy y dwfr oer a'r esgyrn; ychwaneger at hwn ddwy o garrots, dwy feipen, haner dwsin o wynwyn bychain, ysbrigyn o celery wedi ei falu, sypyn o thyme, ac ychydig bupur du a phupur Jamaica yn gyfan. Berwer y rhai hyn oll am ddwy awr, gan eu cyffroi yn fynych, am fod y soup yn dra thueddol i losgi. Pan fyddo y pys yn berffaith feddal a thoredig, tyner y soup oddiar y tân, a gyrer ef trwy ogr i grochan arall; rhwbier ef yn dda drwyddo, nes yr ymgymysgo y mwydion a'r soup. Ychwaneger halen wedi ei doddi mewn ychydig ddwfr, a berwer y soup drachefn am ychydig funudau. Pan y mae i'w ddwyn i'r bwrdd, torer tafell o fara wedi ei grasu, yn ddarnau bychain ysgwar, a doder hwy yn y ddysgl gyda'r soup.

**SOUP PYTATWS.**—Cymerer unrhyw esgyrn o gig rhôst oer, neu marrow-bone, neu, os methir a chael y rhai hyn, deryn o dripping beef, gan ei ddodi mewn crochan gyda dwfr oer, y swm a ofynir. Gadawer iddo ferwi am ychydig amser; yna doder i mewn nifer o bytatws wedi eu pilio, y rhai a fwydwyd yn flaenorol mewn dwfr berwedig i dynu o honynt unrhyw flâs drwg. Ychwaneger hefyd wynwyn neu ddau wedi eu tori yn ddarnau, ychydig bupur a halen, a gadawer i'r cyfan ferwi am haner awr.

**GIBLET SOUP.**—Ysgaldiwech a glanhewch giblets tair neu bedair o wyddau neu hwyaid; dodwch hwy i ystiwio, gyda phwys neu ddau o gravy beef, scrag o futton, neu asgwrn knuckle o veal; cynffon buwch, neu esgyrn coesau defaid; gyda thri o wynwyn, sypyn mawr o berlysiau, llonaid llwy dê o bupur gwyn, a llonaid llwy fawr o halen. Dodwch i mewn bum' chwart o ddwfr, a lled-ferwch yr oll nes y bydd y grombil yn gwbl dynner: ysgumiwch yn ofalus, a chwanegwch chwarter peint o hufen, dwy lonaid llwy dê o bowdwr mushroom, ac owns o ymenyn wedi ei gymysgu a llonaid llwy fawr o flawd. Gadewch iddo ferwi am ychydig funudau, a dygwch ef i'r bwrdd gyda'r giblets. Yn lle hufen, gellir ei flas-

uso â dau wydraid o sherry wine, llonaid llwy fawr o ketchup, ac ychydig cayenne. Pan yn y ddysgl, ychwanegwch halen.

**MACARONI SOUP.**—Berwch bwys o'r macaroni goreu mewn chwart o *stock* da, nes y byddont yn gwbl dynner; yna tynwch allan yr haner, a rhoddwch mewn llestr ystiwio arall. At y gweddill, ychwanegwch gyfran eto o steek, a berwch nes y gellwch yru yr holl facaroni trwy ogr man. Yna rhoddwch y macaroni a yrir felly gyda'u gilydd, y ddau wlych, peint neu ychwaneg o hufen yn boeth ferwedig, y macaroni a gymerydd allan gyntaf, a haner pwys o Parnesau cheese wedi ei ratio; poethlwch hwy, ond na adewch iddynt ferwi. Dygwch hwy i'r bwrdd gyda chrystyn French roll wedi ei dori oddeutu maintioli swllt.

**GREEN-PEAS SOUP.**—Wrth dynu y pys o'u codau, gwahaner yr hen rai oddiwrth y rhai ieuange; dodwch yr hen rai, gydag owns o ymenyn, peint o ddwfr, dail allanol letis neu ddwy, dau wynwyn, pupur, a halen, i ystiwio nes y byddo y pys yn fwydion; ac wedi i chwi wneyd hyny, rhoddwch at y gwlybwr a fu yn eu hystiwio, ychwaneg o ddwfr, calonau a choesau tyner y letis, y pys ieuange, dyrnald o spinach wedi eu malu, a halen a phupur i roddi blas priodol, ac ystiwewch nes y byddont yn hollol feddal. Os bydd y soup yn rhy deneu, neu heb fod yn ddiagon brâs, gellir symud ymaith y naill neu y llall o'r gwallow hyn trwy ychwanegu owns neu ddwy o ymenyn, yn gymysg a llwyaid o rice, neu flawd gwenith, a'u berwi gydag ef am haner awr. Cyn ei ddwyn i'r bwrdd, berwch ychydig fintys gwyrddion, wedi eu malu yn fân, yn y soup.

**VEGETABLE SOUP (Soup Llysiau).**—Piliwch, a thorwch yn dafelli, bump neu chwech o gucumbers; ac ychwanegwch at y rhai hyn y tu fewn i gynaifer o letis, ysbrigyn neu ddau o fintys, dau neu dri o wynwyn, ychydig bupur a halen, a pheint a haner o bys ieuange, ac ychydig bersli. Dodwch y rhai hyn, gyda haner pwys o ymenyn ffres, mewn sospan, i ystiwio yn eu gwlybwr eu hunain, yn agos i dân araf, am haner awr; yna tywalltwch ddau chwart o ddwfr berwedig ar y llysiau, ac ystiwewch hwynt am ddwy awr; cymysgwch ychydig flawd

mewn cwpanaid o ddwfr, a berwch gyda'r lleill am ugain munud, ac yna dygwch i'r hwrdd.

**ONION SOUP.**—Yn y dwfr a fyddo wedi bod yn herwi coes neu wddf o futton, dodwch garrots, maip, ac (os bydd gonych) asgwrn coes, a lledferwch hwy am ddwy awr. Ystreiniwch ar chwech o wynwyn, wedi eu tori yn dafelli yn gyntaf, a'u ffrio nes y byddont o liw brown golau; lledferwch y cyfan am dair awr, ysgumiwch yn ofalus, a dygwch i'r hwrdd. Rhoddwch ynddo fara wedi ei ffrio.

**SOUP LLYSWOD (Eel Soup).**—Cymerwch dri phwys o lyswod bychain; rhoddwch atynt ddau chwart o ddwfr, crystyn o fara, tri ysprigyn o mace, ychydig bupur heb ei falu, wynwyn, a sypyn o berlysiau; gorchuddiwch hwy yn glôs, ac ystiwich nes y byddo y pysgod wedi cwbl dori; yna ystreiniwch ef i fwrdd. Craswch dipyn o fara, torwch ef yn ddarnau bychain, a thywalltwch y soup arno yn ferwedig. Bydd y soup yma mor fras a phe buasai wedi ei wneyd o gig. Byddai chwarter peint o hufen bras, a llonaid llwy dê o flawd wedi ei gymysgu ynddo, yn welliant mawr.

**LOBSTER SOUP.**—Tynwch y cig o fodiau, cyrph, a chynffonau chwech o lobsters bychain; tynwch ymaith y brown fur, a'r gôd ar y pen; curwch yr cдын, y darn cefn, a'r bodiau bychain mewn mortar. Berwch yn dra thyner mewn dau chwart o ddwfr, gyda briwsion French roll, ychydig bupur gwŷn, halen, dau anchovy, wynwyn mawr, perlysiau, deryn o groen lemon, nes y byddoch wedi tynu allan o honynt yr oll sydd yn dda. Ystreiniwch ef i fwrdd oddiarnynt. Curwch y grawn mewn mortar, gyda deryn o ymenyn, chwarter nutmeg, a llonaid llwy dê o flawd; cymysgwch gyda chwart o hufen. Torwch y cynffonau yn ddarnau, a rhoddwch iddynt ferw gyda'r hufen a'r soup. Dygwch i'r hwrdd gyda pheleni forcemeat wedi eu gwneyd o'r gweddill o'r lobster, mace, pupur, halen, ychydig friwsion bara, ac ŵy neu ddau. Gwneler y peleni i fyny gydag ychydig flawd, a phoether hwy yn y soup.

**OYSTER SOUP.**—Cymerwch 2 chwart o stock pysgod, wedi ei wneyd fel y cyf-

arwyddir eto; curwch felynwgy deg o wyau, a'r rhan galed o ddau chwart o oysters, mewn mortar, ac ychwanegwch hwn at y stock. Lledferwch y cyfan am haner awr; yna ystreiniwch ef oddiarnynt, a dodwch ef a'r oysters yn y soup. Lledferwch am hum' munud; bydded genych yn barod felynwgy chwech o wyau heb eu herwi, ac ychwanegwch hwy at y soup. Trowch ef yn dda un ffordd ar ochr y tân, nes y byddo yn dew ac yn glir oddiwrth gnapiau, ond peidiwch a gadael iddo ferwi. Dygwch y cwbl i'r hwrdd gyda'u gilydd.

**STOCK AT SOUP PYSGOD.**—*Brown neu Wyn.*—Cymerwch bwys o skates, pedair neu bump o ledau, a dau bwys o lyswod. Glanhewch hwy yn dda, a thorwch hwy yn ddarnau; cuddiwch hwy a dwfr, a blasuswch a niace, pupur, halen, ac wynwyn wedi gosod cloves ynddo, pen celery, dau wraidd persli wedi eu tori yn dafelli, a sypyn o ber-lysiau. Lledferwch am awr a haner, wedi ei orchuddio yn glôs, ac yna ystreiniwch ef ymaith at ei ddefnyddio. Os at brown soup, ffriwch y pysgod yn gyntaf yn frown mewn ymenyn, ac yna gwnewch fel y cyfarwyddwyd uchod. Ni cheidw ond am ddeuddydd neu dri.

**STOCK BROWN AT GRAVY SOUP, NEU GRAVY.**—Dodwch knuckle o veal, pwys o beef coch heb ddim brasler arno, a phwys o gig moch coch, oll wedi eu tori yn dafellau, mewn llestr ystiwio, gyda dwy neu dair o garrots wedi eu crafu, dau wynwyn, dwy feipen, dau o benau celery wedi eu tori yn dafelli, a dau chwart o ddwfr. Ystiwich y cig nes y byddo yn hollol frau, ond peidiwch a gadael iddo frownio. Pan wedi ei barotoi fel hyn, gwasanaetha naill ai at soup, neu gravy brown neu wyn; os at gravy brown, rhoddwch ynddo ychydig o'r cymysg a nodir isod, at ei liwio, a berwch am ychydig funudau.

**POTES NEU BROTH.**—**BROTH MUTTON.**—Cymerer y pen gwaelf neu y pen mwyaf trwchus i lwyn dafad, a doder ef mewn crochan gyda dwfr oer; y cyfar-taledd yw chwart o ddwfr at bob pwys o gig, yr hyn sydd ar gyfer lleihad wrth ferwi. Gellir rhoddi meipen ac wynwyn ynddo, os na feddylier eu bod yn niweidiol. Gadawer iddo ferwi am dair

awr, ac ysgumier yr holl frasier cyn ei ddwyn i'r bwrdd. Darperir y potes yma yn benaf i gleifion.

**BROTH CRYFHAOL.**—Berwch ddeubwys o lwyn o futton, gyda dynaid tra helaeth o chervil, mewn dau chwart o ddwfr nes y byddont yn un. Tynwch ymaith beth o'r brasder. Gellir rhoddi i mewn bob math o wreiddiau a llysiau ereill; megis carrots, maip, leeks, cabbage, &c.

**BROTH CYW.**—Yn gyntaf, berwch y cyw mewn chwart o ddwfr nes y bydd yn dri chwarter digon; yna tyner ymaith y croen a'r rump, a dodder y cyw yn ol yn y dwfr y berwyd ef ynddo, gydag ysbrigyn o mace, tafell o wynwyn, a deg o bupur gwynion yn gyfain. Lledferwer nes y byddo y broth o flas dymunol. Oni bydd digon o ddwfr, ychwanegwch ychydig. Curwch chwarter owns o sweet almonds gyda lloinaid llwy dë o ddwfr, berwch ef yn y broth, ystreiniwch, a phan yn oer, symudwch ymaith y brasder.

**BROTH VEAL CRYFHAOL.**—Dodwch knuckle leg neu shoulder o veal, gydag ychydig iawn o gig arno, hen fflwl, asgwrn coes dafad wedi ei fwydo yn dda a'i friwio, tri ysbrigyn o mace, deg o bupur cyfain, wynwyn, darn mawr o fara, a thri chwart o ddwfr, mewn stewpan a chauad clòs arno, a lledferwer yn y modd mwyaf araf ar ol iddo ferwi i fyny, a chael ysgumio; neu craswch ef: ystreiniwch, a thynwch ymaith y brasder. Halen yn ol fel y bydd eisiau. Gofyna bedair awr o amser.

**BROTH TRAUD LLO.**—Berwch ddau droed mewn tri chwart o ddwfr nes yr elo i lawr i'r haner; ystreiniwch, a dodwch ef o'r neilldu; pan y mae i gael ei ddefnyddio, tynwch ymaith y brasder, rhoddwch lonaid cwpan dë fawr o'r jelly mewn sospan gyda haner glasiad o win melus, ychydig siwgr a nutmeg, a churwch hwy i fyny nes y byddo yn barod i ferwi, yna cymerwch ychydig o hono, a churwch ef yn raddol i felynwyr ŵy, ac ar ol ychwanegu deryn o ymenyn, oddentl maintioli nutmeg, cyffrowch y cwbl gyda'u gilydd, ond peidiwch a gadael iddo ferwi. Gratiwch iddo dderyn o groen lemon fres.

**BROTH TRAUD LLO.**—*Dull arall.*—Berwch ddau droed llo, dwy owns o veal,

a dwy o beef, gwaelod torth geiniog, dau ysbrigyn neu dri o mace, haner nutmeg wedi ei dori yn dafelli, ac ychydig halen, mewn tri chwart o ddwfr, nes yr elo yn dri pheint; ystreiniwch, a thynwch ymaith y brasder.

**BROTH BEEF, MUTTON, A VEAL.**—Rhowch ddau bwys o beef coch, un pwys o scrap o futton, per-lysiâu, a deg o bupur cyfain, mewn sospan tin, gyda phum chwart o ddwfr; lledferwch nes y delo i lawr i dri chwart; a chliriwch ef oddiwrth y brasder pan oero. Os cymeradwy, gellwch roddi un wynwyn i mewn. Mae broth wedi ei wneyd o wahanol gigoedd yn fwy maethol, ac yn well ei flas hefyd.

**BROTH A GEIDW YN HIR.**—Dodwch ddarn o round o beef, asgwrn knuckle o veal, ac ychydig goesau defaid, mewn padell ddoen, a gorchuddiwch yn glòs gyda dysgl; craswch yn y pobty nes y byddo y beef wedi gwneyd digon at ei fwyta, gyda dim ond cymaint o ddwfr ag a'i gorchuddia. Pan yn oer, gorchuddiwch ef yn glòs, a chedwch mewn lle oer. Pan i gael ei ddefnyddio, dodwch ynddo y blasuson a'r dail a fynoch.

**BROTH A ELLIR EI WNEYD MEWN HANER AWR.**—Cymerwch asgwrn neu ddau o neck neu lwyn o futton, tynwch ymaith y brasder a'r croen, gosodwch ef ar y tân mewn sospan fechan wedi ei gwneyd o *din*, a chauad arni, gyda thri chwarter peint o ddwfr, wedi curo y cig yn gyntaf, a'i dori yn ddarnau teneuon; rhoddwch i mewn ychydig thyme a persli, a thafell o wynwyn, os cymeradwy. Gadewch iddo ferwi yn dra chyflym, ac ysgumiwch ef yn ofalus; os bydd yn debyg o fod yn wan, tynwch y caud; os na bydd, cedwch y caud arno. Mae haner awr yn ddigon at yr holl oruchwyliaeth.

**GRAVY.**—**GRAVY BEEF.**—Bydd i bwys a haner o beef wneyd peint o gravy da. Torer y cig yn dafelli, neu hollter ef yn ddwfn. Dodder ef mewn crochan, yn nghyda deryn o ymenyn i rwystro iddo lynu, ac wynwyn wedi ei dori yn dafelli. Brownier y cig yn araf, gan ofalu am beidio a gadael iddo losgi. Cauer arno yn dŷn, a gadawer iddo sefyll wrth y tân am haner awr, i ganiatau i'r gravy redeg o'r cig. Yna dodder i mewn

tua pheint o ddwfr poeth, a gadawer iddo ferwi yn araf am awr a haner, gydag ychydig bupur heb ei falu. Mae rhai yn ei roddi i ferwi gyda deryn o fara wedi ei grasu yn galed a brown, yr hyn sydd yn tewychu y gravity, ac yn ei wneyd yn fwy moethus. Blasuser ef â halen, a hidler ef trwy ogr rhawn.

**GRAVY BROWN.**—Dodwch ar waelod y llestr ystiwio gymaint o veal (heb ddim brasder) ag a'i gorchuddia yn fodfedd o drwch; yna gorchuddiwrch y veal a thafelli teneuon o facon coch heb ei goginio, dau neu dri o wynwyn, dwy neu dair o bay-leaves, ychydig ber-lyisiau, dau ysbrigrin o mace, a thri o cloves. Rhoddwch gauad ar y llestr, a dodwch ef ar dân araf, ond pan ddelo y nôdd allan, bydded y tân ychydig yn fwy bywiog. Pan fyddo y cig o liw brown da, llenwch y llestr â photos da oddiwrth beef, berwch ac ysgumiwrch ef, yna lledferwch ef am awr; ychwanegwch dipyn o ddwfr, wedi ei gymysgu â chymaint o flawd ag a'i gwna yn weddol dew; berwch am haner awr, ac ystreiniwrch ef. Ceidw hwn am wythnos.

**CLEAR GRAVY.**—Torwch beef yn dafelli teneuon; briuliwrch ran o hono ar dân clir a bywiog, digon i roddi lliw ar y gravity, ond nid i'w goginio; rhoddwch hwnw a'r cig na friwliwyd mohono mewn stewpan wedi ei leinio â tin, gyda dau wynwyn, clove neu ddau, pupur duon yn gyfain, allspice, a sypyn o ber-lyisiau; gorchuddiwrch â dwfr poeth, rhoddwch iddo un berwad, ac ysgumiwrch ef yn dda, ddwywaith neu dair; rhoddwch gauad arno, a lledferwch nes y byddo yn ddigon cryf.

**RICH GRAVY.**—Torwch beef yn dafelli teneuon, yn ol y swm a fyddo eisiau o hono; torwch wynwyn yn dafelli yr un modd, a lluchiwrch halen hyd-ddynt; friwrch hwynt o liw brown goleu, ond peidiwrch, ar un cyfrif, a gadael iddynt dduo; dodder hwynt mewn stewpan, tywelltwch ddwfr poeth ar y browniad yn y badell frio, gadewch iddo ferwi i fyny, a thywalltwch ar y cig. Dodwch ynddo sypyn o bersli, thyme, a savoury, deryn bychan o marjoram, yr un fath o tarragon, ychydig mace, allspice, pupur duon yn gyfain, clove neu ddau, deryn o ham neu facon coch. Lledferwch nes y bydd-

och wedi tynu holl nôdd y cig; a byddwch yn ofalus i'w ysgunio y foment y berwo, ac yn fynych wedi hyny. Os at ysgyfnarg, neu bysgod wedi eu hystiwio, dylid ychwanegu anchovy.

**VEAL GRAVY.**—Yr un fath ag y cyfarwyddir gwneyd Brown Gravy, ond gadael allan y spices, y llyisiau, a'r blawd.

**GRAVY AT BYSGOD.**—Blingwch ddwy neu dair o lyswod (*eels*), neu ledau; tynwch eu perfeddi, a golchwch hwy yn hollol lân; torwch hwynt yn ddarnau mân, a dodwch hwy mewn sospan. Gorchuddiwrch hwy â dwfr, ac ychwanegwch grystyn bychan o fara wedi ei grasu yn frown, dau ysbrigrin o mace, tipyn o bupur yn gyfain, per-lyisiau, deryn o groen lemon, anchovy neu ddau, a llonaid llwy dê neu ddwy o horse-radish. Gorchuddiwrch y cyfan yn glòs, a lledferwch hwy; ychwanegwch ychydig ymenyn a blawd, a berwch gyda'r pethau uchod.

**SAUCES.**—**YMENYN TODDI** (*Melted Butter*).—Rhaid gwneyd hwn o ymenyn ffres. Torer yr ymenyn yn ddarnau bychain, a dodder hwy mewn sospan gyda dwfr oer, yn y cyfartaledd o owns o ymenyn at bob llonaid llwy fwrdd o ddwfr. Lluchier blawd i mewn ag un llaw, ac â'r llaw arall troer yr ymenyn a'r dwfr o amgylch yn gyflym, fel ag i beri i'r blawd gymysgu heb glapio. Mae ychydig o flawd yn ddigon. Bydded i chwi yn awr, am y tro cyntaf, roddi y sospan ar y tân, a pharhau i'w droi nes y byddo yr ymenyn wedi toddi yn drwyadl. Pan ferwa, bydd yn barod; dylai fod o'r un tewychedd a hufen tew.

**ONION SAUCE.**—Pilier y wynwyn, a berwer hwy mewn digon o ddwfr. Pan yn feddal, tyner hwy o'r dwfr a maler hwy yn bur fân. Gwneler ymenyn toddi, dodder hwy i mewn ynddo, gan ei flasuso ag ychydig bupur a halen. Mae rhai yn defnyddio llefrith da i gymysgu yr ymenyn toddi, yn lle dwfr.

**EGG SAUCE.**—Berwer tri neu bedwar o wyau nes y byddont yn hollol galed. Pilier a maler hwy, ac wedi hyny dodder hwy mewn ymenyn toddi, gan ei droi yn dda. Blasuser â phupur a halen.

**PERSLI SAUCE.**—Rhoddwch ddyrnaid o bersli wedi eu malu yn fân mewn swm digonol o ymenyn toddi, a lledferwch am ychydig.

**MINT SAUCE.**—Cymerer dail mintys gwyrddion ac iradd. Golcher hwy, ac wedi eu sychu, maler hwy yn bur fân. Cymysger hwy a finegr, ac ychwaneger ychydig ginger atynt. Mae rhai yn dewis siwgr gyda'r mintys.

**BREAD SAUCE.**—Gratier brwision bara. Doder hwy mewn sospan ar y tân, gyda chymaint o lefrith ag a oddef ei wneyd yn dew. Ychwaneger deryn o wynwyn wedi ei dori yn dafelli, a throer ef nes y byddo y bara wedi mwydo, a'r sauce yn hollol ddiagnapiau. Blasuser ef â phupur a halen.

**APPLE SAUCE.**—Piliwch, tynwch gnewyllod, a thorwch amryw afalau yn dafelli, a dodwch hwy mewn jar, a rhoddwch hono mewn sospanaid o ddwfr, neu ar aelwyd boeth. Os ar aelwyd, dodder i mewn lwyaid neu ddwy o ddwfr, i rwystro iddynt losgi. Pan fyddont yn ddiagon, mashiwch hwy, a rhoddwch i mewn dderbyn o ymenyn, oddeutu maintioli nutmeg, ac ychydig siwgr coch. Dygwch i'r bwrdd mewn tureen.

**FISH SAUCE.**—Rhoddwch mewn sospan, wedi ei leinio y tu mewn â tin, beint o port wine da, chwarter pint o mountain wine, haner pint o walnut ketchup da, deuddeg o anchovies, a'r gwlybwr perthynol iddynt, chwarter pint o walnut pickle, croen a sudd lemon mawr, pedwar neu bump o shalots, ychydig bupur cayenne i roddi blas, tair owns o horse radish wedi eu crafu, tri ysbrigyn o mace, a dwy lonaid llwy dé o fwstard wedi ei gymysgu; berwch nes y byddo y blas amrwd wedi myned ymaith; yna cedwch mewn poteli bychain at eich gwasanaeth. Corciwch hwy yn dynion, a seliwch y top.

**OYSTER SAUCE.**—Cedwch y gwlybwr wrth agor yr oysters, a berwch ef gyda'u barfau, tipyn o mace, a chroen lemon. Yn y cyfamser tafwch yr oysters i ddwfr oer, ac ystreiniwch ef i fwrdd. Ystreiniwch y gwlybwr a nodwyd uchod, a dodder ef gyda'r oysters mewn sospan, a chymaint o ymenyn, wedi ei gymysgu âg ychydig lefrith, ag a wna ddiagon o sauce; ond yn gyntaf, rhwbiwch dipyn o flawd gydag ef. Dodwch hwy uwch ben y tân, a throwch hwy trwy gydol yr amser; a phan fyddo yr ymenyn wedi berwi unwaith neu ddwy, tynwch hwy oddiyno, a chedwch y sospan yn agos i'r tân, ond

nid arno; canys os gwneir gormod arnynt, bydd yr oysters yn galedion. Gwasgwch ychydig o sudd lemon, a dygwch hwy i'r bwrdd. Daliwch sylw, bydd i'r oysters deneuo y sauce, ac felly rhoddwch ymenyn i mewn ar gyfer hyn.

**LOBSTER AND CRAB SAUCE.**—Gwnewch ymenyn toddi. Piger allan y cig o grange neu lobster wedi ei ferwi; maler ef yn dra mân, a dodder ef yn yr ymenyn toddi. Blasuser ef a phupur cayenne a halen.

**ANCHOVY SAUCE.**—Malwch anchovy neu ddau heb eu golchi, rhoddwch hwynt at ychydig flawd ac ymenyn, a diferyn bach o ddwfr; trowch hwynt uwch ben y tân nes y berwont unwaith neu ddwy.

**SAUCE AT BLUM PUDDING.**—Gwneler ymenyn toddi yn ol y cyfarwyddyd, a dodder ynddo wydraid o win sherry, haner gwydraid o frandi neu rum, ychydig o siwgr, croen lemon wedi ei ratio, a nutmeg; troer ef yn dda. Na adawer iddo ferwi ar ol dodi gwirod ynddo.

**SAUCE AT FFWLS.**—Berwch swm o gravy veal, pupur, halen, sudd orange Seville neu lemon, a chwarter cymaint a hyn o port wine, neu o gravy: tywelltwch ef i'r ddysgl, neu i lestr bychan a arferir i ddâl sauce.

**SAUCE AT FFWLS OER.**—Rhwbiwch i lawr mewn mortar felynwyr dau o wyau wedi eu berwi yn galed, anchovy, dwy lonaid llwy fawr o olew, tair o finegr, shalot, cayenne os cymeradwy, a llonaid llwy dé o fwstard. Dylai y cwbl gael eu pwyso, neu eu malu, cyn rhoddi yr olew i mewn. Ystreiniwch ef.

**SAUCE AT GIG NEU BYSGOD.**—Dodwch chwe' llwyaid o ddwfr, a phedair o finegr, mewn sospan twym, a thewychwch a melynwyr dau wy. Gwnewch ef yn bur boeth, ond peidiwch a'i ferwi; gwasgwch iddo sudd haner lemon, ac ystreiniwch ef trwy ogr.

**YSTWFFING.**—Pan rostier veal, ffwls, twareid, &c., y mae yn ofynol eu hystwffio. Gwneler ef fel hyn:—Cymerer chwarter pwys o friwsion hen fara gwyn, chwarter pwys o siwet beef wedi ei falu, cymaint o bersli wedi eu malu ag a orwedd ar lwy fwrdd, tua haner llwyaid o fintys, ac ychydig o groen lemon wedi ei falu, a phupur a halen. Cymysger y pethau hyn yn drwyadl gydag un wy wedi ei guro, ac ychydig lefrith. Mae

hyn yn gwneyd digon o ystwffing i dwrci bychan neu gyw iâr mawr.

**FORCE MEAT BALLS.**—Gwneir y peleni hyn o ystwffing, ac fe'u defnyddir i drwsio dysgleidiau o veal wedi ei rostio neu steaks neu chops wedi eu ffrio. Gwnaer ystwffing fel y cyfarwyddwyd; ac yn lle ei wlychu âg yn wÿ a llefrith, gwlycher ef a dau wÿ wedi eu cymysgu. Rholier y toes yn beleni bychain, tua maintioli nutmegs. Rholier hwy mewn blawd, a ffrier hwy ag ychydig lard, ymenyn, neu dripping cig. Pan ddymunir eu cael yn fwy blasus, gellir eu gwneyd yn foethusach gydag ychydig friwion o gig moch, tafod neu gig a ddefnyddir at wneyd sausages.

**FORCE MEAT BALLS AT BYSGOD.**—Curwch gig a rhanau meddal lobstar o faintioli canolig, haner anchovy, darn mawr o celery wedi ei ferwi, melynwy wÿ caled, ychydig cayenne, mace, halen, a phupur gwyn, gyda dwy lonaid llwy fwrdd o wlybwr oysters, dwy owns o ymenyn wedi ei dwymo, a dau wÿ wedi eu curo yn dda: gwnewch ef yn beleni, a ffrwch hwy yn frown mewn ymenyn.

**WYAU.**—**BERWI WYAU.**—Y mae berwi wyau yn orchwyl tra syml, ond camgyflawnir ef yn fynych. Y dull canlynol yw y goreu:—Doder yr wÿ mewn dwfr poeth newydd ddechreu berwi. Ar ol dodi yr wÿ i mewn, coder y llestr oddi ar y tân, dalier ef yn y llaw am eiliad neu ddwy. Mae hyn yn gadael i'r awyr ddiange o'r plisgyn, ac felly ni agena yr wÿ wrth ferwi. Gosoder y llestr ar y tân drachefn, a berwer yr wÿ am dri munud neu ychwaneg os bydd yn hollol ffres, neu ddau funud a haner os bydd yr wÿ wedi ei gadw am yspaid o amser.

**POACHIO WYAU.**—Gosodwch lonaid sospan o ddwfr ar y tân; pan yn berwi, gollyngwch wÿ a fyddo wedi ei dori yn flaenorol mewn cwpan i'r dwfr; pan fyddo y gwynwy yn ymddangos wedi gwneyd digon, codwch ef allan, a dodwch ef ar fara wedi ei grasu, ac ymenyn, neu ar spinach. Mor fuan ag y byddo digon o honynt wedi eu gwneyd, dygwch i'r bwrdd yn boeth.

**WELSH RABBIT.**—Craser tafell o fara, a dodder arni ddarnau o gaws Caer neu single Glo'ster, chwarter modfedd o dew, yna dodder o flaen tân, ac fel y todda y caws,

taener ef dros y bara gyda chyllell; hefyd ychydig pupur cayenne a mwstard.

**SCOTCH RABBIT.**—Craser tafell o fara y ddwy ochr; rhoddwch ymenyn arni; torwch dafell o gaws yr un maintioli a'r bara; tostiwch y ddau du, a rhoddwch ar y bara.

**ENGLISH RABBIT.**—Craser tafell o fara y ddwy ochr; yna dodwch ef ar blât, a thywalltwch lasiad o port wine drosto; yna torwch gaws yn bur deneu, a rhoddwch yn dew dros y bara; rhoddwch mewn dutch-oven o flaen y tân i frownio. Dygwch i'r bwrdd yn boeth.

**IRISH RABBIT.**—Craser tafell o fara, yna pwysyr pedair owns o gaws, deryn bychan o ymenyn, un gherkin (cucumber fechan wedi ei phicio), ychydig fws-tard, pupur a halen, nes y byddo y cwbl yn does; yna taener ef dros y bara craswedig, a dodder yn y pobty am bum munud, a dyger i'r bwrdd yn boeth.

**LLYSIAU (Vegetables).**—**SYLWADAU CYFFREDINOL.**—Dylai pob llysiu gael eu golchi a'u pigo yn ofalus, a'i rhoddi mewn dwfr oer cyn eu coginio. Wrth ferwi, dylai fod arnynt ddigonedd o ddwfr. Dylid cymeryd gofal am beidio berwi gormod arnynt, am fod hyn yn difetha eu lliw, ac yn eu gwneyd yn llipa. Dylid eu dodi mewn dwfr berwedig gyda dyrnaid o halen ynddo, a phan y byddant yn suddo gellir barnu eu bod yn ddigon; os na chaniatawyd i'r dwfr arafu wrth ferwi, dylent, ar ol eu cymeryd i fyny, i gael ei drainio yn uniongyrchol oddiwrth y dwfr, neu collant eu lliw. Mae dwfr caled yn difetha lliw y llysiu hyny ddylent fod yn wyrdd ar y bwrdd. Bydd i damaid o soda, oddeutu maintioli ffeuen, os dodir ef mewn crochan yn dâl dau alwyn o ddwfr, beri i'r llysiu a ferwir ynddo gadw eu lliw yn glir. Dylai caud y crochan neu y sospan fod ymaith tra yn berwi.

**SPINACH (I'w berwi).**—Pigwch a berwch ef gyda gofal mawr. Dodwch ef mewn sospan digon mawr i'w gynyws yn unig, lluchiwch halen hyd-ddo, a chauwch yn glôs. Rhaid dodi y sospan ar tân a'i hysgwyd yn dda. Pan yn ddigon, curwch y spinach i fyny ag ychydig ymenyn; rhaid ei ddwyn i'r bwrdd yn weddol sych.

**ARTICHOKES (I'w berwi).**—Torwch



y coesau a golchwech hwy mewn dwfr oer. Pan fyddo y dwfr yn berwi dodwch hwy i mewn a'u penau i lawr.

**BEETROOT** (*I'w goginio*).—Os torir beetroot cyn y byddis yn myned i'w goginio, cyll ei holl liw prydferth, ac edrycha yn ddrwg. Berwch y beet yn dyner a'r croen arnynt, a thorwch yn dafelli i stewpan gyda thipyn o froth, a llwyaid o finegr; lledferwch nes y byddo lliw y gwraidd ar y gravi, yna dodwch mewn dysgl fechan, a gwnewch gylch o wynwyn bychain, wedi eu berwi yn gyntaf nes y byddont yn dyner; tynwch ymaith y croen yn union cyn eu dwyn i'r bwrdd, a chymerwch ofal eu bod yn hollol boeth.

**ASPARAGUS** (*I'w berwi*).—Crafwch y coesau yn ofalus nes y byddont yn hollol wŷn; torwch oll yr un hyd; taflwch i badellaid o ddwfr glân, a bydded genych yn barod stewpan gyda dwfr berwedig ac ychydig halen yndo. Rhwymwch yr asparagus yn fwndeli bychain, dodwch i mewn, a phan y dechreuont fod yn dyner cymerer hwy allan. Os berwir gormod arnynt, collant eu lliw a'u blas. Torwch dafell fawr o fara oddeutu haner modfedd o drwch; trochwch hi yn y dwfr y berwyd yr asparagus yndo, a dodwch hi ar ddysgl. Tywelltwch melted butter ar y tŏst, gosodwch yr asparagus o amgylch y ddysgl, y topiau tuag i mewn, a dygwch i'r bwrdd.

**BROCOLI** (*I'w berwi*).—Torwch y penau gyda'r coesau byrion, a philiwch y croen gwydn oddiarnynt. Rhwymwch y cangau bychain yn sypnau, a berwch hwynt lai o amser na'r penau. Rhaid rhoddi peth halen yn y dwfr. Dygwch i'r bwrdd gyda thŏst neu hebdo.

**FRENCH NEU KIDNEY BEANS**.—Torer ymaith y topiau a'r cynffonau, a thyner ymaith y llinyn o gefn y codau. Yna torer y codau yn ddarnau ar osgo ar eu traws, neu hollter hwy o'r naill ben i'r llall, ac yna eu tori ar eu traws. Gosoder hwy i sefyll am ychydig amser mewn dwfr oer a halen; ac ar ol eu hidlo, dodder hwy mewn dwfr berwedig gydag ychydig halen a carbonate of soda. Berwer hwy nes y meddalont; hidler hwy mewn hidl, a dyger hwy i'r bwrdd gydag ymenyn toddi, mewn dysgl ar walian.

**COLIFLOWERS** (*i'w berwi*).—Dewiser y

rhai ydynt glôs a gwynion, torwch ymaith y dail gwyrddion, ac edrychwch yn fanwl rhag bod dim lindys yn llechu oddeutu y bŏn. Mwydwch hwy am awr mewn dwfr oer, a chymerwch ofal i ysgumio y sospan, fel na anurdder y blodeuyn yn y gradd lleiaf. Rhaid ei ddwyn i'r bwrdd yn bur wyn.

**CABBAGE, SAVOYS, &c.** (*i'w berwi*).—Dilynwch y cyfarwyddiadau cyffredinol. Pan fyddont yn dyner, hidlwch hwy trwy ogr, ond na wasgwch hwy.

**CARROTS A PARSNIPS** (*i'w berwi*).—Berwch hwy mewn digon o ddwfr, a phan yn dyner, yr hyn a ellir wybod trwy yru y ffoc iddynt, cymerwch allan. Crafwch hwy yn dda. Dygwch hwy i'r bwrdd gyda melted butter mewn tureen. Os byddant yn hên, crafwch cyn eu berwi.

**PYS GLEISION**.—Ni ddylid deor pys nes y byddis ar fin eu defnyddio. Wedi eu deor, dodder hwy mewn cymaint o ddwfr berwedig ag a'u gorchuddia, yn nghyd ag ychydig halen. Gofynant tua ugain munud i ferwi. Pan yn ddigon, hidler hwy trwy hidl, a dodder mewn dysgl gydag ychydig ddarnau o ymenyn; trŏer hwy nes y cymysgir yr ymenyn gyda hwynt.

**PYTATWS NEWYDDION** (*i'w berwi*).—Ni ddylai fod arnynt ond digon o ddwfr i'w cadw rhag llosgi. Dodwch hwy mewn dwfr oer, gyda halen. Codwch y caud yn dŷn arnynt, berwch yn araf, a phan y byddo y crwyn yn cracio maent yn ddigon. Hidlwch ymaith yr holl ddwfr, a dodwch hwy cilwaith ar y tân er i'r gwlybaniaeth gael ei gario oddiwrthynt.

**MAIP** (*i'w berwi*).—Mae hen faip yn gofyn cael eu pilio yn dewach na rhai ieuainge. Pan fyddont yn dra bychain, na wnaer ond pilio y croen yn unig, peidio eu naddu; ac wedi eu berwi, dyger hwy i'r bwrdd yn gyfain, ac ychydig ymenyn toddi yn y ddysgl.

**FFA** (*i'w goginio*).—Berwer hwy yn dyner, gyda sypyn o bersli, a maler y rhai hŷn, i'w dwyn i'r bwrdd i'w canlyn. Dylai y bacon, neu bore wedi ei biclo, fod wedi eu coginio i'w bwyta gyda'r ffa, ond ni ddylid eu berwi ar yr un pryd a hwy.

**YSTIWIO CARROTS**.—Haner berwch hwy, yna crafwch hwy, a thorwch yn dafelli i stewpan. Dodwch atynt haner

llonaid cwpan dé o botes gwan, ychydig bupur a halen, a haner llonaid cwpan dé o hufen; yna lledferwch hwy nes y byddont yn dra thyrer, ond nid wedi tori. Cyn eu dwyn i'r bwrdd, rhwbiwch ychydig bach o flawd gyda deryn o ymenyn, a thwymwch y cyfan gyda'u gilydd. Os cymeradwy, gellir ychwanegu persli wedi eu malu ddeng munud cyn eu dwyn i'r bwrdd.

**YSTIWIO PYS GLEISION.**—Dodwch chwart o bys gleision, letis a wynwyn, y ddau wedi eu tori yn dafelli, deryn o ymenyn, pupur, halen, a dim mwy o ddwfr nag a fydd wrth y letis ar ol ei golchi. Ystiwich hwy am ddwy awr, yn dra araf. Pan i gael eu dwyn i'r bwrdd, curwch ŵy, a throwch iddynt; neu ychydig flawd ac ymenyn.

**YSTIWIO CUCUMBERS.**—Torwch hwy yn dafelli tewion; neu torwch hwy yn eu haner, a rhenwch hwy yn ddau hyd; ystiwich ychydig halen a phupur, ac wynwyn wedi eu tori yn dafelli; ychwanegwch ychydig botes neu dderyn o ymenyn. Lledferwch yn araf iawn; a chyn eu dwyn i'r bwrdd, rhoddwch i mewn ychydig ymenyn ac ychydig flawd.

**YSTIWIO WYNWYN.**—Piliwch chwech o wynwyn mawr, ffriwch hwynt yn dynner nes y byddont o liw brown prydfert, ond peidiwch a'u duo; yna dodwch hwy mewn stewpan fechan gydag ychydig gravy gwan, pupur a halen; gorchuddiwch ac ystiwich hwy yn dynner am ddwy awr. Dylid lluchio blawd hyd-ddynt yn ysgafn ar y cyntaf.

**YSTIWIO MUSHROOMS.**—Y botymau mawrion ydynt y goren, a'r rhai bychain tra byddo tu mewn iddynt yn goch gwan. Rhwbiwch y botymau mawrion â halen a deryn o wlanen, a philiwch y croen oddiar y rhai mwy. Lluchiwch halen hyd-ddynt, a dodwch hwy mewn stewpan gyda phupur heb eu malu; lledferwch hwynt yn araf nes y byddont yn ddigon, yna dodwch i mewn dderyn bychan o ymenyn a blawd, a dwy lwyaid o hufen; rhoddwch iddynt un berwad, a dygwch i'r bwrdd gyda thafelli bychain o fara wedi eu mwyo mewn nodd cig.

**SALAD.**—Defnydd *salads* yn benaf ydynt letis, artichokes, radish, mwstard, cress, celery, a wynwyn ieuange. Dylid eu golchi bob un yn ofalus, a'u gosod yn

addurniedig mewn salad bowl; yn gyffredin torir y letis yn ddarnau ar eu hyd, a gosodir hwy o amgylch y ddysgl; celery wedi eu tori yr un modd, a ddodir yn y canol; a'r salads bychain, megis y berw a'r redish a osodir rhyngddynt.

**SALAD RHAGOROL.**—Golchwch yn ofalus ddwy o letis da, un endive, dyrnaid o salad mân, megis mwstard, cress, &c., ac oddeutu haner dwsin o wynwyn ieuange, gadewch i'r dwfr redeg oddiwrth-ynt, torwch hwynt yn fân iawn, a theflwch ar lian er cael cymaint o'r dwfr o honynt ag a fyddo yn bosibl, ond na wasgwch hwy; dodwch y cwbl mewn salad-bowl neu wydr. Berwch bedwar o wyau yn galedion, cymerwch allan y melynwyau, a thorwch y gwynwyau yn fodrwyau er addurno y salad; rhwbiwch y melynwyau gyda dwy lon'd llwy dé o fwstard sych, un o halen, ac un o bupur gwyn a plupur cayenne wedi eu cymysgu yn dda; ychwanegwch at y pethau hyn bedair lon'd llwy fwrdd o Lucco oil goren, a dwy o finerg; mae lon'd dessert spoon o Worcester sauce yn welliant. Cymysgwch yr holl bethau hyn yn dda a'u gilydd, a thywelltwch y cwbl dros y salad; torwch nes y byddo yr olew a'r pethau ereill wedi treiddio trwy y cwbl, dodwch radishes o gwmpas yn ymyl, ac addurnwch â gwyn yr wyau.

#### PASTEIOD.

**PASTEIOD CIG.**—**PAST AT ORCHUDDIO PASTEIOD CIG.**—Bydd tair owns o ymenyn a phwys o flawd yn ddigon at un bastai. Rhwbier yr ymenyn yn dda yn y blawd, fel ag i'w gymysgu yn drwyadl. Os bydd yr ymenyn yn ffres, ychwaneger tipyn o halen. Cymysger y blawd a'r ymenyn gyda chymaint o ddwfr ag a wna bást sylwedol. Tyliner ef yn gyflym ar y bwrdd, a rholier ef yn wastad â rholbren lân. Troer y ddysgl a'i gwyneb i lawr ar y toes, a thorer allan y darn gofynol at ei gorchuddio. Rholier y gweddillion, a thorer hwy yn gaireau. Gwlycher ymylon y ddysgl, a doder y careiau hyn yn drefnus o amgylch yr ymylon, fel sylfaen i'r pâst. Yna, ar ol dodi y cig i mewn, gosoder y pâst ar y ddysgl, gan wasgu yr ymylon i lawr, i gadw y cyfan y dŷn. Os bydd gweddill o'r pâst, torer ef yn addurniadau, a gosoder hwy ar dop y bastai. Pan dyuir

pasteiod o'r pobty, a phan fyddont yn boethion, gellir gloywi y crystyn â gwyn wŷ a dwfr wedi eu curo gyda'u gilydd, neu siwgr a dwfr, gan eu doddi arno gyda brwsh.

**PASTAI MUTTON.**—Torweh dafelli oddi-ar lwyn neu wddf o futton; curweh, a thynweh ymaith beth o'r brasder. Blasusweh â halen, pupur, ac wynwyn bychan; rhoddweh ychydig o ddwfr yn ngwaelod y ddysgl, ac ychydig bâst ar yr ymylon; yna gorchuddiweh hi a phâst cymedrol o drwchus.

**PASTAI BEEF STEAKS.**—Cymerer stakes o beef yn gymysg a brasder. Blasuser hwy â phupur a halen, a rholier pob steak yn sypyn bychan, neu gosoder hwy yn fflat yn y ddysgl. Doder ychydig ddwfr oer i mewn, a thipyn o flawd i'w dewychu. Gorchuddier a phâst, a chraser hi mewn pobty am oddeutu awr.

**PASTAI VEAL.**—Cymerer darnau o'r asenau cefn neu lwyn, a thynyr yr esgyrn o honynt. Gosoder y darnau yn fflat yn y ddysgl, a thros bob haen lluchier cymysg o bersli wedi eu malu, blawd, pupur, a halen. Ychwaneger ychydig gravy, yr hwn a ellir ei wneyd oddiwrth yr esgyrn. Gorchuddier y ddysgl a phâst, a chraser hi mewn pobty am fwy nag awr, canys y mae veal yn gofyn ei wneyd yn dda.

**PASTAI LAMB.**—Gwnewch hi o'r lwyn, y gwddf, neu y frest. Dylid ei blasuso yn dra ysgafn a phupur a halen; tyner allan yr esgyrn, ond gadawer y *gristles*. Dodweh i mewn ddwy lwyaid o ddwfr cyn ei chrasu yn y pobty.

**PASTAI CYWJON IEIR (Chicken Pie).**—Torweh i fyny ddau ffwl ieuainge; blasusweh â phupur gwyn, halen, ychydig mace, a nutmeg, oll wedi eu malu yn llwch mân; hefyd ychydig cayenne. Doder y ffwls, tafelli o ham, peleni force meat, ac wyau caledion, yn haenau bob yn ail. Os bydd i gael ei chrasu mewn dysgl, rhoddweh ychydig o ddwfr i mewn; os pastai i gael ei chrasu heb ddysgl a fydd, peidiweh a rhoddi dwfr. Erbyn yr amser y daw o'r pobty, bydded genych yn barod gravy knuckle o veal, neu ddernyn o'r scrag gyda rhai esgyrn coesau defaid, wedi ei flasuso â llyisiau, wynwyn, mace, a phupur gwyn. Y mae i gael ei bwyta yn boeth; gellweh

ychwanegu traffles, inorrels, mushrooms, &c., ond nid pan fyddo yn cael ei bwyta yn oer. Os crasir hi mewn dysgl, dodweh i mewn gymaint o gravity ag a'i llenwo; ond os mewn pâst wedi ei goli i fyny heb ddim dysgl, rhaid i'r gravity gael ei ystreinio yn ofalus, ac yna ei ddodi i mewn yn oer fel jelly. I wneyd y jelly yn glir, gellweh roddi berwad iddo gyda gwynwy dau o wyau, wedi tynu ymaith y cig, ac yna ei redeg trwy ogr mân.

**RABBIT PIE.**—Yr un fath a CHICKEN PIE.

**PASTAI YSGYFARNOC.**—Blasusweh yr ysgyfarnog ar ol ei thori i fyny; a chrasweh hi mewn pobty wedi ei gorchuddio â phâst mewn dysgl. Gorchuddiweh hi â gravity jelly pan yn ei dwyn i'r bwrdd yn oer.

**PASTAI COLOMENOD.**—Piger a glanhaer yr adar yn dda. Torer ymaith eu penau, a rhwymer hwy wrth droi yr esgyll ar y cefn, gan dori ymaith y traed, a thynu croen y bol dros y coesau. Doder dernyn o ymenyn ac ychydig bupur a halen oddimewn i bob aderyn. Gosoder un haen o beef neu veal yn ngwaelod y ddysgl. Doder yr adar ar y cig, a'r bronau i fyny, a'r grombil a'r afu o'u hamgyleh. Y mae rhai yn ychwanegu wyau wedi eu herwi yn galedion. Ychwaneger ychydig gravity neu ddwfr. Gorchuddier y ddysgl a phâst da, a chraser hi mewn pobty am awr.

**PASTAI GIBLETS.**—Wedi glanhau yn ofalus giblets gwydd neu hwyaden, ystiwweh hwynt mewn swm bychan o ddwfr, wynwyn, pupur du, a sypyn o bêr-lysiau, nes y byddont agos yn ddigon. Gadewch iddynt oeri, ac os na bydd digon o honynt i lenwi y ddysgl, dodweh ddwy dafell neu dair o beef, veal, neu futton, yn y gwaelod. Rhoddweh wlybwr yr ystiw i grasu gyda'r pethau uchod; a phan fyddo y bastai wedi crasu, tywalltweh iddi lonaid cwpan dê fawr o hufen. Mae rhai yn rhoddi pytatws wedi eu tori yn dafelli yn y bastai, ac y maent yn bwyta yn dda.

**PASTAI HWYADEN.**—Cymerweh hwyaden a ffwl ieuange wedi cyraedd cyflawn dŵf, a thynweh eu hesgyrn; golchweh hwy, a blasusweh â phupur a halen, ac ychydig iawn o mace ac allspice, wedi

eu gwneyd yn llwch mân. Dodwch y fowl yn yr hwyaden, ac yn y blaenaf dafod llo wedi ei biclo yn goch, a'i ferwi yn dra thyrer, a'i flingo. Gwasgwch yr oll yn glòs at eu gilydd; dylai croen y coesau gael eu tynu i mewn fel y byddo corff y fflows yn berffaith lyfn. Os cymeradwy, gellir llenwi y lle rhwng ochrau y crystyn â fforce-meat da. Craswch hi mewn pobty araf, gyda chrystyn tew ac addurnedig.

**PASTAI LLYSWOD.**—Torwch y llyswod yn ddarnau dwy fodfedd o hyd, blasuwch â phapur a halen, a rhoddwch yn y ddysgl, gyda rhai darnau o ymenyn ac ychydig ddwfr; a gorchuddiwch â phâst.

**PASTEIOD FFRWYTHAU, TARTS, &C.**—**PUFF PASTE.**—Gellir gwneyd *puffs* o unrhyw fath o ffrwythau, ond dylid eu parotoi yn gyntaf â siwgr.—**PUFF PASTE.**—Pwyswch swm cyfartal o ymenyn gyda chymaint o flawd ag a farnoch yn angenrheidiol; cymysgwch ychydig o'r blaenaf gyda'r olaf, a gwlychwch ag ychydig ddwfr fel ag i'w wneyd yn bâst stiff. Rholiwch ef allan, a dodwch yr holl ymenyn drosto yn dafelli, trowch i mewn y penau, a rholiwch ef yn deneu; gwnewch hyn ddwywaith, a pheidwch a chyffwrdd ag ef ond yr hyn a fyddo raid i chwi. Gallwch roddi yr ymenyn i mewn ar ddwywaith; a dyna fyddai y goreu i rai anghynefin a gwneyd y math yna o bâst. Dylid ei grasu mewn pobty poethach nag a ddefnyddir at bâst cyffredin.

**PAST AT BASTEIOD FFRWYTHAU A THARTS.**—Cymysgwch â phwys o'r blawd goreu wedi ei sychu, owns o siwgr wedi ei falu a'i ogryn; yna malwch iddo dair owns o ymenyn, nes y byddo i gyd yn edrych fel blawd, a chyda chwarter peint o hufen berwedig, gweithiwch ef i fynu yn bâst rhagorol.

**PAST HEB YMENYN YNDDO.**—Torwch dafelli hynod deneuon o siwet beef; rhoddwch beth blawd ar y bwrdd; rhoddwch y siwet arno; rholiwch yn dda a'r rolling pin nes y byddo yn hollol esmwyth; rhwbiwch ef yn hollol fân i swm o flawd, a chymysgwch â dwfr oer. Mae yn llawer gwell fel hyn na phe busai y siwet wedi ei choppio, a gwna bâst rhagorol i unrhyw fastai ffrwythau deuluaidd a fwyteir yn boeth. Gwna hefyd y tro i bwdin ffrwythau.

**RHUBARB TART.**—Cymerer coesau rhubarb newydd eu tynu. Torer ymaith y dail, a philier y crwyn. Torer y coesau yn ddarnau modfedd o hyd. Llanwer y ddysgl, gan ychwanegu digonedd o siwgr. Gorchuddier hwy a phâst wedi ei wneyd yn ol y cyfarwyddyd, a chraser y bastai am haner awr. Mae rhai yn ystiwio y rhubarb cyn eu rhoddi yn y ddysgl; y fantais o hyn ydyw, y gellir rhoddi mwy yn y ddysgl, canys y maent yn lleihau cryn lawer wrth eu crasu.

**TARTS GOOSEBERRIES.**—Tyner ymaith goesau a phenau gooseberries anaeddfed a chelyd, a rhwbier hwy â lian i'w glanhau. Llanwer y ddysgl gyda hwy, ac ychwaneger cryn lawer o siwgr coch, yn nghydag ychydig bach o ddwfr. Gorchuddier â phâst wedi ei wneyd yn ol y cyfarwyddyd, a chraser y ddysglaidd mewn pobty am fwy nag awr.

**PASTAI AFALAU.**—Pilier yr afalau, a thyrer allan y cnewyllod; gan dori pob afal yn bedwar neu wyth darn, yn ol eu maint. Gosoder hwy yn daclus mewn dysgl, blasuser hwy â siwgr coch, ac unrhyw spices, megis cloves a cinamon wedi eu malu, neu groen lemon wedi ei ratio. Mae ychydig guince marmalade yn rhoddi blas gwych i'r bastai. Ychwaneger ychydig ddwfr, a gorchuddier hi â phâst, yn ol y cyfarwyddyd. Craser hi am awr.

**PASTAI CHERRIES.**—Ar ol gwneyd pâst da, rhoddwch ychydig o hono o gwmpas ochrau y ddysgl, a thefwch siwgr i'r gwaelod. Yna dodwch y cherries i mewn, a pheth siwgr ar y top. Y mae ychydig gurrants gochion yn gymysg a'r cherries yn welliant dymunol. Dodwch y crystyn arni, a chraswch mewn pobty araf.

**PASTAI CURRANTS.**—Yr un modd a'r cherries. Dymunol ydyw ychwanegu ychydig raspberries at y currants.

**TARTS CRANBERRIES, Raspberries, a ffrwythau ereill.** Gwneir tarts cranberries, raspberries, a mân ffrwythau ereill, yn yr un dull a tharts gooseberries. Y maent oll yn gofyn eu pigo a'u sychu yn lân, a rhaid cael digon o siwgr i'w melysu. Dylid llenwi y ddysgl yn dda, a'i chodi yn uwch yn y canol nag wrth yr ymlau, canys y mae y ffrwyth yn lleihau cryn lawer mewn swm wrth ei grasu.

**MINCE PIES.**—Gwneir y rhai hyn yn gymysg o gig, ffrwyth, amrywiol spices a blasuson, a gwirodydd hefyd. A ganlyn sydd gymysgedd mewn cyfartaledd priodol :—Cymerer pwys o siwet beef, a maler ef, a phwys o beef wedi ei rostio, neu dafod bustach newydd ei ladd, wedi ei drin ; hefyd, un pwys o afalau wedi eu pilio a thynu eu cnewylod, a'u malu ar wahan i'r siwet a'r cig ; pwys o currants wedi eu golchi a'u pigo, pwys o raisins wedi tynu y ceryg o honynt a'u malu, owns o cinamon wedi ei falu, haner owns o ginger wedi ei falu, owns o groen orange ac owns o groen lemon, ac ychydig halen ; haner pwys o siwgr, un nutmeg wedi ei gratio, dau wydraid o frandi, a dau o sherry wine. Cymysger yr holl bethau hyn yn nghyd, a chuddier gwaelod y ddydsgl, neu badellau bychain tin, a phâst ; llanwer y rhai hyn â'r mince, ac yna gorchuddier hwyâ phâst. Doder hwy yn y pobty, a chraser hwy am haner awr. Oni ddefnyddir yr oll o'r cymysgedd, bydd i'r hyn a adewir ar ol gadw am hir amser, os dodir ef mewn potel gauedig.

**MINCE PIES HEB GIG.**—Cymerwch chwe' phwys o'r afalau goreu, piliwch hwy, tynwch allan y cnewylod, a malwch hwy ; o siwet ffres a raisins, wedi tynu y ceryg o honynt, cymerwch dri phwys o bob un, wedi eu malu yr un modd ; at y rhai hyn ychwanegwch mace a cinamon, chwarter owns o bob un, ac wyth o cloves yn llwch mân, tri phwys o'r siwgr goreu wedi ei bowdro, tri chwarter owns o halen, croen pedwar lemon, a sudd dau lemon, haner peint o port wine, a'r un swm o frandi. Cymysgwch y cwbl yn dda, a dodwch mewn padell ddofn. Bydded genych yn barod wedi eu golchi a'u sychu, bedwar pwys o gurrants, ac ychwanegwch fel y byddwch yn gwneyd y mince pies, gyda candied lemon.

**PWDIN.**—**SYLWADAU CYFFREDINOL AR BWDIN.**—Mae llawer o bobl yn meddwl "nad oes dim camp" mewn gwneyd pwdin,—"gall unrhyw un ei wneyd." Mae hyny yn wir, *gall* unrhyw un wneyd pwdin, ond nid pob un all wneyd pwdin *da*. Cynorthwyo y rhai allant fod yn awyddus am ragori yn y gangen bwysig yma o gogyddiaeth, yw ein hamcan yn y sylwadau canlynol :—

**Y DEFNYDDIAU.**—Ychydig o bwdins a wneir heb flawd ; dylai y blawd bob amser fod y math goreu, wedi ei sychu ei ogryn yn ofalus.

**Y SIWET.**—Siwet beef o ochr fewnol y lwyn, neu yr hwn a geir o amgylch y kidney, yw y goraf ; rhaid iddo fod yn hollol ffres, wedi ei dori yn fân, ac yn hollol rydd oddiwrth groen llinynog.

**YR YMENYN.**—Os ymenyn hallt a fydd golchwch gyda butter slice neu lwy bren, mewn dau neu dri dwfr, fel ag i dynu yr halen oddiwrth, yna gwasgwch ef mewn llian hollol lân.

**YR WYAU.**—Rhaid i'r rhai hyn fod yn hollol dda, oblegid bydd i'r duedd leiaf ynddynt at lygru, ddiffetha yr holl bwdin ; cynlluu da ydyw tori pob un ar ei ben ei hun mewn cwpan, er gallu ei archwilio cyn ei roddi gyda'r lleill. Bydd i wy da feddu melynwy llawn, yr hwn na thÿr wrth ei dywallt o'r plisgyn i'r gwpan. Dylid cymysgu yr wyau at bwdin yn dda, neu bydd yn sier o fod yn drwm.

**Y FFRWYTH.**—Dylid pigo y raisins oddiar y coesau a thynu y ceryg o honynt yn ofalus. Dylid golchi currants yn dda ; gwneir hyny trwy eu doddi mewn colander, a thywallt dwfr cynes arnynt, a'u troi yn dda er i'r graian a'r baw gael eu golchi ymaith. Pigwch yr holl geryg allan, a dodwch y currants mewn llian sych ; rhwbiwch hwy yn esmwyth a gofalus yn hwn nes y byddont yn lled sych, yna dodwch hwy ar ddydsgl fawr o flaen y tân, a lluchiwch ychydig flawd drostynt er eu cynorthwyo i sychu.

**Y SPICES** a ddefnyddir at bwdin yw ginger, nutmeg, cloves, cinamon, ac weithiau allspice. Dylai y rhai hyn fod o'r mathau goreu, newydd eu malu, a'u defnyddio yn y fath fodd fel na byddo blas un lawer yn gryfach na'r lleill.

**CANDIED PEEL.**—Mae hwn yn ychwanegiad dymunol at lawer math o bwdin ; dylid ei dafelli yn ofalus, yn dafelli lled fyrion, a'i gymysgu yn dda a'r pethau ereill.

**CYMYSGU PWDIN.**—Yr elfen hanfodol er llwyddiant wrth gymysgu pwdin ydyw manylwch wrth ddilyn y cyfarwyddiaidau. Pwyswch bob peth yn ofalus, a pheidiwch a meddwl, fel y gwna llawer yn gyfeiliornus, y gallwch faru pwysau

unrhyw beth wrth ei ddodi ar y llaw ; nid oes dim yn fwy twyllodrus na hyn, ac y mae llawer cyfarwyddyd wedi ei gondemnio fel un diwerth, tra y gorphwysai y bai mewn gwirionedd ar y gogyddes, ac nid ar y cyfarwyddyd. Bydd i fanylwrch wrth fesur a phwyso y defnyddiau, eu cymysgu yn nghyd, a rhoddi iddynt yr amser priodol i goginio, sicrhau llwyddiant yn gyffredin ; a phe na byddai y pwddin yn boddhau archwaeth y rhai a gyfranogant o hono, bydd i'r gwneuthurwr gael y boddhad o feddwl iddi ei wneyd yn ol y cyfarwyddiadau, ac nas gellir ei beio hi na buasai y pwddin yn foddhaol. Bydd i ni yn bresenol roddi ychydig gyfarwyddiadau i wneyd pwddins.

**PLUM PWDING NADOLIG.**—Rhoddwch ddau bwys o muscatel raisins, wedi eu digaregu, ond heb eu mânu, mewn dysgl bridd fawr, ychwanegwch atynt un pwys o sultanas, dau bwys o gurrants, wedi eu golchi a'u pigo, dau bwys o friwision bara, un pwys o candied peel, wedi ei dafelli, dau bwys o siwgr moist da, dau bwys o siwet beef, wedi ei choppio yn fân, dwy owns o spices cymysgedig, a llon'd llwy dê o halen. Cymysgwch yr holl bethau hyn yn dda a'u gilydd, a gwlychwch y cymysgedd âg un-ar-bymtheg o wyau wedi eu curo yn dda. Ychydig amser cyn rhoddi y pwddin i ferwi, dodwch chwarter peint o frandi ynddo, gyda llon'd llwy dê o essence of lemon peel, a llwyaid o ratafia wedi ei gymysgu ynddo. Os na fydd y pwddin yn ddigon gwlyb, ychwanegwch ddigon o lefrith ffres i'w wneyd felly, a rhoddwch ynddo lwyaid fawr o flawd wedi ei sychu. Bydd i'r symiau a nodwyd wneyd pwddin pur fawr. Gellir ei ferwi mewn llian pwddin mawr, wedi ei barotoi fel hyn :—gwlychwch ei ganol mewn dwfr berwedig, gwasgwch ef allan yn sych, lledwch allan ar fwrdd y gegin, a rhwbiwch ymenyn ar hyd yr holl fan gwlyb gyda chylllell ; yna lluchiwch flawd hyd-ddo o'r dredge, er atal y dwfr rhag dyfod i mewn, tywelltwch y pwddin iddo, rhwymwch y llian mor dŷn fel na byddo yn bosibl i ddwfr ddyfod i mewn, berwch am chwec neu wyth awr ; neu gellir rhanu y cymysgedd, a'i ferwi mewn moulds.—Mae plum puding yn

well os gwneir ef ychydig amser cyn y byddo angen am ei ddefnyddio. Yn y fath achos, berwch ef yn y llian am bump neu chwech awr, yna cymerwch ef allan a chrochwch ef i fyny yn y llian, a phan y byddo ei angen, rhoddwch ef mewn dwfr berwedig, a berwch am ddwy awr neu dair, yn ol ei faintioli ; wedi iddo ferwi digon, planwch drosto sweet almonds, wedi eu gwynu a'u hollti, dodwch ysbrigyn o gelyn (*holly*) ar ei dop, tywalltwch lwyaid o frandi o gwmpas y pwddin yn y ddysgl, dodwch ef ar dân, a dygwch ef i'r bwrdd yn fflamio. Braundi sauce sydd i'w ganlyn.

**PLUM PWDIN PLAEN.**—Cymerwch o raisins cyffredin, wedi tynu y ceryg o honynt, currants wedi eu golchi, siwet wedi ei choppio, a siwgr, l pwys o bob un ; dodwch y pethau hyn mewn dysgl gyda haner pwys o friwision bara, haner pwys o flawd, dwy owns o candied peel wedi ei dafelli, llon'd llwy dessert o spices cymysgedig, a chwech o wyau wedi eu curo yn dda ; cymysgwch y cwbl yn dda a'u gilydd, ac ychwanegwch lon'd wineglass o frandi gyda llon'd llwy dê o essence of lemon peel ; berwch am bedair awr.

**LEMON SIWET PUDDING.**—Piliwch groen lemon mawr yn lled drwchus, dodwch y croen i ferwi mewn dwfr nes y byddo yn hollol dyner, curwch ef mewn mortar gydag owns o siwgr gwyn, nes y byddo wedi ei wneyd yn fwydion ; dodwch hwn mewn dysgl bridd, gydag wyth owns o friwision bara, wyth owns o siwet beef wedi ei dori yn fân, a thair owns o siwgr lwmp wedi ei bowdro. Cymysgwch y cwbl yn dda yn nghyd, gyda pump o wyau wedi eu curo yn dda, a sudd lemon ; dodwch ynddo lwyaid o flawd a throwch yn dda, a berwch am awr mewn mould wedi ei hiro ag ymenyn. Neu gellir crasu y pwddin hwn.

**PWDIN BARA AC YMENYN.**—Torer amryw dafelli o fara yn lled denu ; rhodder ymenyn ar un tu iddynt ; dodder haen o honynt mewn padell neu ddysgl bwddin, a haen o currants uwchlaw iddynt ; yna haen arall o fara ; ac felly yn mlaen, nes y llanwr y ddysgl. Curer pedwar o wyau, gydag ychydig o cinnamon a nutmeg wedi eu malu, ac hefyd ychydig siwgr. Ychwanegwr llaeth at

hyn, nes y byddo digon i lenwi y ddysgl. Yna tywallter ef ar y bara, a gadawer iddo sefyll am yspaid i fwydo. Y mae yn awr yn barod at naill ai ei grasu neu ei ferwi. Os ei ferwi a wneir, doder ef mewn dysgl neu fold wedi ei hiro yn dda ag ymenyn, a phapur wedi ei rwbio ag ymenyn dros y pwdin, a llian dros y cwbl: berwer ef am awr. Os ei grasu a wneir, doder ef mewn dysgl, wedi ei hiro ag ymenyn, a chraser mewn pobty am haner awr.

**PWDIN BARA.**—Berwch gymaint o laeth ag a fyddo yn ddigon at y pwdin gofynol. Pan ddechreu ferwi neu godi yn y badell, tywellter ef ar fara wedi ei falu mewn bowlan. Dylai y swm o fara fod yn gymaint ag a wna y llaeth yn dew. Gorchuddier ef am ddeg neu bymtheg munud, i adael i'r bara chwyddo. Yna curer ef yn dda yn nghyd, gan ddodi ynddo ddernyn bychan o ymenyn, a'i gymysgu yn hollol ddiagnapiau. Curer tri neu bedwar o wyau, llonaid llwy dé o cinamon wedi ei falu yn llwch, ychydig o groen lemon wedi ei ratio, a siwgr yn ol yr archwaeth. Doder hwn yn y pwdin, a chymysger ef. Gellir ychwanegu ychydig frandi neu rum; ac hefyd ychydig currants, os bydd angenrheidrwydd. Gellir naill ai berwi neu grasu y pwdin, fel y cyfarwyddwyd yn ngwneuthuriad Pwdin Bara ac Ymenyn.

**PWDIN CURRANTS.**—Pwys o siwet wedi ei falu, pwys o friwsion bara neu flawd, tua chwarter pwys o gurrants, wedi eu golchi a'u pigo, ychydig cinamon wedi ei falu yn llwch, nutmeg wedi ei gratio, ac ychydig iawn o halen. Curer dau wy, ac ychwaneger cymaint o laeth ag a wlycha y cyfan. Cymysger y cwbl yn nghyd, rhwymer ef mewn llian, a berwer ef am dair awr. Dyger ef i'r bwrdd gyda sauce plum pwding, neu unrhyw sauce melus cyffredin.

**DUMPLINGS SIWET PLAEN.**—Cymerer chwarter pwys o siwet wedi ei falu yn fân; cymysger ef a phwys o flawd; ychwaneger ychydig o halen, a gwlycher ef â dwfr nes y byddo yn bâst tew. Rhaner ef yn dumplings bychain, a doder hwy mewn dwfr berwedig, a berwer am awr a haner, gan ofalu na byddo iddynt lynu wrth waelod y crochan. Ni ddefnyddir llian wrth eu berwi.

**BATTER PUDDING.**—Cymerer chwarter o lefrith, a chymysger ynddo lonaid cwpan fawr o flawd, gan wneyd y cymysgedd yn hollol ddiagnapiau. Curer pedwar o wyau, a hidler hwy i'r cymysgedd. Ychwaneger ychydig halen, a chydgymsger y cyfan yn dda. Rhwbiwch y ddysgl ag ymenyn, a thywallter y cymysg i mewn iddi. Doder y ddysglaid naill ai o flaen y tân o dan gig rhôst, neu o dan gig i'w yru i'r pobty. Y mae y pwdin, pan yn ddigon, yn hawdd i'w ysgwyd allan o'r ddysgl hon i un arall i'w ddwyn i'r bwrdd. Dylai fod o ymddangosiad brown prydferth. Pan goginir ef o flaen tân, naill ai trôer y pwdin, neu gosoder y ddysglaid am ychydig amser ar y tân i frownio yr ochr isaf iddo.

**PWDIN RICE.**—Cymerer llonaid cwpan dé lled fawr o rice, piger, a golcher ef yn dda mewn dwfr oer. Berwer ef mewn dwfr am oddeutu pum' munud. Hidler y dwfr i fwrdd, a doder ef ar y tân drachefn gyda chymaint o laeth ag a fyddo yn ofynol. Gadawer iddo ferwi nes y byddo y rice yn hollol feddal, gan ei droi yn fynych, i rwystro iddo losgi. Pan yn ddigon, doder ef mewn dysgl, a thafler iddo ddernyn o ymenyn, neu ychydig siwet wedi ei falu yn bur fân, gan ei gymysgu. Pan oero, ychwaneger ato bedwar o wyau, wedi eu curo, yn nghydag ychydig cinamon wedi ei wneyd yn llwch, lemon a nutmeg wedi eu gratio, a meluser ef â siwgr. Mae y cyfan i'w cydgymsgu yn dda. Gellir naill ai ei ferwi neu ei grasu, megis y cyfarwyddwyd at Bwdin Bara ac ymenyn. Gellir gwneyd y pwdin yma yn well trwy ddefnyddio mwy o wyau a llai o rice, ac hefyd trwy ychwanegu currants, gwirod, a preserved orange peel.

**PWDIN TAPIOCA NEU SAGO.**—Cymerer chwarter o laeth, a doder ynddo chwe llonaid llwy fwrdd o tapioca. Gosoder ef ar y tân nes y berwo; yna meluser ef yn ol yr archwaeth, a gadawer iddo ledferwi am chwarter awr. Trôer ef yn fynych, a byddwch yn ofalus na bydd iddo losgi. Yna tywallter ef i ddysgl, a doder ynddo ychydig ymenyn fïes, a thri wy wedi eu curo yn dda; yn awr gellwch ei dywallt i ddysgl bwdin, wedi ei rhwbio ag ymenyn, a'i grasu mewn pobty am tuag awr; neu, ar ol ychwanegu wy arall,

berwer ef mewn bason neu fold am awr a haner. Gellir gwneyd pwdin *sago* yn yr un modd.

**ROLL-PUDDING.**—Gwneler pâst o flawd a dripping cig, neu siwet. Rholier ef yn deneu, nes y byddo tua haner modfedd o drwch. Yna taener gooseberries wedi eu preserfio, neu unrhyw ffrwyth arall wedi ei breserfio, ar hŷd y pâst, ond nid yn hollol i'r ymylau. Wedi hyn, rholier ef i fyny, a gwneler i'r ymylon allanol llynu. Yn nesaf, rholier ef mewn llian, a rhwymer y penau yn dŷnion. Berwer ef am awr neu awr a haner, yn ol y maint. Pan fyddo yn ddigon, tyner ymaith y llian, torer y pwdin yn dafelli, a dyger ef i'r bwrdd gyda sauce melus yn dywalltedig arno.

**PWDIN AFALAU AC WY.**—Curwch ŵy yn dda; yna ychwanegwch chwarter peint o laeth neu ddwfr, saith neu wyth llwyaid o flawd, a haner llwyaid o halen; a chymysgwch yn dda yn nghyd. Piliwch a thorwch yn ddarnau dri o afalau, a chymysgwch hwy a'r toes. Berwch y cwbl mewn llian am awr a chwarter, os mewn bason, am ychydig yn hwy. Dygwch i'r bwrdd gyda *melled butter* wedi ei flasuso gyda lemon.

**PWDIN AFALAU.**—Siwet, pum owns; blawd, wyth owns; torwch y siwet yn bur fân, a chymysgwch gyda'r blawd. Gwnewch yn bâst ysgafn gyda dwfr. Rholiwch ef allan. Piliwch a thynwch gnewyllod wyth o afalau da; torwch yn dafelli; rhoddwch ar y pâst, a lluchiwch hyd-ddynt haner pwys o siwgr; tynwch y pâst am yr afalau, a berwch am ddwy awr neu ychwaneg mewn llian wedi ei flawdio yn dda. Dygwch i'r bwrdd gyda *melled sauce*.

**PWDIN FFRWYTH.**—Gellir ei wneyd o afalau wedi eu pilio a'u tori yn ddarnau, gooseberries gleision ac anaeddfed, currants, raspberries, cherries, a ffrwythau ereill. Gwneir hwynt oll yn yr un dull. Y toes goreu atynt a wneir o siwet beef wedi ei falu yn dra mân, a blawd, yn y cyfartaledd o bedair owns o siwet at bwys o flawd. Cymysger ef yn does gyda dwfr ac ychydig halen; yna tyliner a rholier ef; doder y ffrwyth ynddo, dyger yr ymylau at eu gilydd, a rhwymer ef mewn llian, neu osoder ef mewn dysgl, fel y cyfarwyddwyd gyda phwdinau ereill.

**PWDIN PYS.**—Piger chwart o split peas nes y byddont yn hollol rydd oddiwth bob amhuredd. Rhwymer hwy yn llac mewn llian, gan adael digon o le i'r pys chwyddo. Berwer hwy nes y byddont feddal, yr hyn a ddichon fod yn mhen dwy awr neu dair. Tyner y pwdin o'r dwfr, a doder ef mewn llestr. Agorer y llian a churer y pys yn da. Cymysger gyda hwynt ddernyn o ymenyn, yn nghyda pupur a halen. Yna rhwymer ef i fyny yn dŷn, a doder ef yn y crochan drachefn, gan ei ferwi am oddeutu haner awr. Pan yn ddigon, bwrier ef o'r llian i ddysgl. Os caiff ei drin yn briodol, daw allan yn un darn.

**PWDIN PYTATWS.**—Berwch, piliwch, a mashiwch bytatws, môr fân ag y gellwch; cymysgwch hwynt â halen, pupur, a deryn lled dda o ymenyn. Gwnewch bast; rholiwch ef allan yn deneu, a dodwch y pytatws i mewn; plygwch un haner dros y llall, gan binsio yr ymylau. Craswch mewn pobty cymedrol o boeth.

**PWDIN CIG.**—Gwneir pwdin cig yn yr un dull a phwdin ffrwyth; yr unig wahaniaeth yw, fod darnau o beef, mutton, lamb, neu veal, yn cael eu dodi yn y toes yn lle ffrwyth. Dylid blasuso y cig a phupur a halen. Os bydd ynddo ddau bwys o gig, rhaid iddo gael berwi am ddwy awr a haner; ac os bydd yn fwy na hynny, rhaid iddo gael mwy fyth o amser.

**CWSTARD.**—Berwer chwart o lefrith gyda cinamon heb ei falu, croen lemon, ac ychydig ddail laurel, neu ddail bitter almonds, a siwgr. Curer melynwy wyth o wyau gyda gwyn pedwar o honynt; ychwaneger ychydig laeth, a hidler yr wyau i ddysgl arall. Pan ferwo y chwart llaeth, tyner ef oddiar y tân a hidler ef; yna doder yr wyau ynddo, a chymysger hwy. Doder y cyfan drachefn yn y sospan, gan ei dodi ar y tân, a throei ei gynwysiad yn barhaus. Gadawer iddo ddyfod i'r pwynt herwi; yna cymerer ef oddiar y tân, tywallter ef i lestr mawr, a pharhaer i'w droi nes y byddo braidd wedi oeri. Dylai fod erbyn hyn yr un tewychedd a hufen tew, ac y mae yn barod i'w dywallt i wydrau cwstard. Wedi llenwi y grwydrau, gratier ychydig nutmeg drostynt.

**CWSTARD PWDIN.**—Cymerer pedwar



o wyau ; a churer hwy yn dda gyda dwy lonaid llwy fwrdd o flawd, ac ychydig laeth oer. Blasuser hwn a siwgr ; cinamon wedi ei falu, croen lemon wedi ei ratio, a thywallter arno beint o laeth berwedig, gan ei droi drwy gydol yr amser. Gellir naill ai ei ferwi neu ei grasu mewn pobty. Trwy ddefnyddio ychwaneg o wyau, gellir hebgor y blawd.

**OMELETTES (Crempogau wyau)** Gwn-eir y rhai hyn o wyau ac uurhyw beth a ddichon y chwaeth ci gymeradwyo i'w blasuso. At omelette gyffredin, cymerer chwech o wyau, a churer hwy yn dda a fforc mewn bason ; ychwaneger ychydig halen. Yn nesaf cymerer ychydig bersli wedi ei falu yn fân, wynwyn wedi ei falu yr un modd, a dwy owyn o ymenyn wedi ei dori yn ddarnau bychain, a chymysger y pethau hyn i gyd gyda'r wyau. Doder padell ffrio ar y tân, a darn o ymenyn ynddi ; mor fuan ag y toddo yr ymenyn, dodder y grempog i mewn, a pharhaer i'w throli nes yr ymddangos fel teisen dew. Wedi iddi wneyd digon ar un tu, trôer hi yn ofalus, a chraser y tu arall. Bydd wedi gwneyd digon pan o liw brown ysgafn. Dyger hi i'r bwrdd ar ddysgl. Gellir amrywio y blas trwy dael allan y persli a'r wynwyn, a doddi i mewn ddarn o dafod neu *ham* wedi eu briwio yn fân, neu oysters, shrimps, caws wedi ei ratio, neu ryw ddefnyddiau ereill.

**CREMPOGAU.**—Gwneir crempogau o wyau, blawd, a laeth, yn y cyfartaledd o lonaid llwy fwrdd o flawd at bob wy. I wneyd dwy grempog fechan, cymerer dau wy, a churer hwy yn dda, gan ychwanegu atynt ychydig laeth. Yna cymerer dwy lonaid llwy fwrdd o flawd, gwneler ef yn gymysgedd gyda'r wyau a'r laeth ; ac ychwaneger ychydig halen. Gosoder padell ffrio ar y tan a dodder dernyn o ymenyn neu lard ynddi. Pan fyddo yr ymenyn yn hollol boeth, tywallter y cymysgedd i mewn. Troer ef yn fynych, i rwystro iddo lynu. Pan fyddo yr ochr isaf o liw brown ysgafn troer y grempog. Dyger hwy i'r bwrdd yn blygedig, wedi doddi siwgr rhwng y plygion.

**FRITTERS.**—**MAN GREMPOGAU.**—Gwneler cymysgedd o wyau, blawd, a laeth, megis at grempogau, ond dodder ychydig mwy o flawd. Gwneir Apple-fritters trwy dori asafau piliedig yn da-

felli, doddi y tafelli yn y cymysgedd, a'u ffrio ar wahan. Byddant yn ddiagon pan wedi brownio o bobtu yn ysgafn. Gellir gwneyd mân grempogau gyda currants yn yr un dull. Lluchier siwgr hyd-ddynt.

**JELLIES.**—**JELLY TRAEAD LLO.**—Cymerer dau droed llo, a glanhaer hwy yn dda ; torer hwy yn amrywiol ddarnau, a dodder hwy mewn sospan, gyda thri chwart o ddwfr oer. Berwer yn araf nes y darostyngir ef i tua chwart a haner. Hidler ef, a gadawer iddo sefyll nes yr oero. Ysgumier y braser yn ofalus wedi iddo oeri. Doder y jelly mewn crochan, gan gadw y gwaelodion yn ol ; dodder i mewn gydag ef sudd a chroen melyn tri lenon, dwy goes o cinamon, haner potelaid o win sherry, a gwyn wyth o wyau wedi eu curo yn dda, yn nghyda'r plisg wedi eu malu, a siwgr gwyn yn ol yr archwaeth. Cydgymsger y cyfan o'r pethau hyn, a dodder hwy ar y tân i ferwi am ugain munud. Tyned ef ymaith, a gadawer iddo sefyll am ychydig funudau, a llian drosto. Yna tywallter ef trwy jelly-bag glân, wedi ei wneyd o wlanen dew. Cymer beth amser i redeg ; am hyny croger y bag gerllaw y tân, gorchuddier ef, a gadawer i'r gwybwr redeg yn araf o hono i botel. Oni fydd yn berffraith glir, gyrrer ef trwy y bag drachefu ; ond os bydd mor glir ag y dymunir ei gael, y mae yn awr yn barod, a gellir ei dywallt i'r molds. Gellir gwneyd jelly traed llo cyffredin gyda chwyr yn lle gwin, a finegr yn lle lemon.

**SHANK JELLY.**—Mwydych ddeuddeg o shanks o futton am bedair awr, ac yna ysgwriwch hwy yn hollol lân. Dodwch hwy mewn sospan gyda thri ysbrigyn o mace, wynwyn, ugain o bupur Jamaica, a deg ar hugain neu ddeugain o bupur duon, sypyn o bêr-lysiau, a chrystyn o fara wedi ei grasu yn frown. Rhowch dri chwart o ddwfr arnynt, a gosodwch ar aelwyd boeth, wedi cau arnynt yn glôs ; bydded iddynt led-ferwi mor araf ag y byddo bosibl am bum'awr, yna ystreiniwch, a dodwch mewn lle oer. Gellir ychwanegu ato, os dewisir, bwys o beef, i roddi blas. Mae yn beth rhagorol i bersonau mewn gwendid.

**CHICKEN JELLY.**—Cymerwch gyw iâr mawr, dodwch ef mewn sospan gyda dau chwart o ddwfr ; un wynwyn mawr,

ychydig bach o mace, llon'd llwy dê o halen ; berwch nes y byddo wedi myned yn dri pheint, yna ystreiniwch, a gadewch iddo sefyll hyd dranoeth ; yna cymerwch ymaith y brasder yn llwyr, cymerwch wyn ŵy chwech o wyau, haner owns o isinglass, sudd lemon neu ddau, curwch hwy yn dda yn nghyd, a berwch nes y byddo yr amhuredd yn cyfodi i'r top. Gadewch iddo sefyll am ychydig funudau, yna ystreiniwch trwy jelly-bag. Mae y jelly yma yn dra maethlon, a gellir ei gyneryd yn boeth neu yn oer, yn ol archwaeth y claf.

**ARROWROOT JELLY.**—Dodwch mewn sospan haner peint o ddwfr, gwydraid o sherry wine, nutmeg wedi ei gratio, a siwgr da ; berwch y cwbl i'fyny unwaith, yna cymysgwch yn raddol gyda hwy lonaid dessert-spoon o arrowroot, wedi ei gymysgu yn flaenorol a llwyaid o ddwfr oer ; yna dychwelwch y cwbl i'r sospan ; trowch a berwch ef am dri munud.

**ORANGE JELLY.**—Gwasgwch sudd deg o oranges melysion ac un orange Seville, ychwanegwch sudd dau a chroen un lemon wedi ei dafelli yn deneu, digon o siwgr lwmp i felysu y sudd, un chwarter o ddwfr, a phedair owns o isinglass. Berwch yr holl bethau hyn am ychydig funudau, ac ystreiniwch trwy jelly-bag nes y byddont yn hollol glir, a dodwch mewn moulds. Ychwanegwch ychydig saffron ows bydd y lliw yn rhy wan.

**SAGO JELLY.**—Berwch gwpanaid o sago mewn tri pheint a haner o ddwfr ; ychwanegwch beint o claret wine, wine-glass o frandi, a haner hyny o maraschinio ; ystreiniwch trwy jelly-bag a dodwch mewn mould.

**PANADA I GLEIFION.**—Dodwch ychydig ddwfr ar y tân gyda gwydraid o win gwŷn, ychydig siwgr, a gratiad o nutmeg a chroen lemon ; yn y cyfamser, gratiwch ychydig o friwsion bara. Y funud y berwo y cynmysg, gan ei gadw yn barhaus ar y tân, dodwch y briwsion i mewn, a gadewch iddo ferwi yn brysur. Pan fyddo wedi dyfod yn ddigon tew, tynwch oddiar y tân.

**WYAU I GLEIFION.**—**MULLED EGG.**—Curwch felynwy ŵy ffres i gwpan tê neu goffi, dodwch i mewn ychydig laeth neu hufen a siwgr, yna tywelltwch iddi ddigon o dê neu goffi i lanw y cwpan,

gan ofalu ar yr un pryd i droi yr ŵy yn dda rhag iddo dori. Gwna hwn frecwest da i glaf. Mae yn ysgafn a maethlon heb fod yn rhy wresog.

**EGG DRAUGHT.**—Curwch felynwy ŵy ffres, a chymysgwch ag ef chwarter peint o laeth newydd cynes, gratiwch ychydig nutmeg iddo, ac ychwanegwch lwyaid o win.

**YMBORTH RHAGOROL I GLEIFION.**—Berwch ddau droed llo mewn dau peint o ddwfr, a'r un swm o lefrith newydd, mewn jar a chaudi clôs arni, am dair awr a haner ; pan yn oer, tynwch ymaith yr holl frasier, ac ychwanegwch ychydig siwgr os byddwch yn dewis. Cymerwch lon'd cwpan y peth olaf yn y nos a'r peth cyntaf yn y boreu.

**YMBORTH RHAGOROL ARALL I GLEIFION,** ydyw *Barley Cream*. Berwch ddau bwys o veal coch, chwarter pwys o pearl barley, mewn chwarter o ddwfr nes yr sospan ogr. Dylai fod yr un tewychedd a hufen ; ychwanegwch ychydig halen, a chymerwch fel broth.

**CAUDLE I GLEIFION.**—Gwnewch gruel da o rynion ; berwch yn dda ac ystreiniwch, a throwch ef ar brydiau nes yr oero. Pan y mae i gael ei ddefnyddio, ychwanegwch siwgr, gwin, croen lemon, gyda nutmeg.

**MILK PORRIDGE.**—Gwnewch gruel da o rynion, wedi eu berwi yn hir, naill ai ychwanegwch lefrith oer, neu dwymwch ef gyda llefrith, fel y byddo mwyaf cymeradwy. Rhoddwch fara wedi ei grasu ynddo.

**WATER GRUEL.**—Dodwch lonaid llwy fawr o flawd ceirch yn raddol mewn peint o ddwfr, ac wedi iddo lwyr deneu, berwer ef.

**BARLEY GRUEL.**—Golcher pedair owns o pearl-barley ; berwer ef mewn dau chwarter o ddwfr gyda dernyn o cinamon, nes lleihau o hono i chwarter, ystreiniwch a dychwelwch ef i'r sospan gyda siwgr, a thri chwarter peint o port wine, neu yr un faint o laeth. [Gwell laeth na gwin.] Poether, a defnyddier wrth achos.

**BEEF TEA I GLEIFION.**—Dodwch 1 pwys o beef coch da, wedi ei grafu neu ei dori yn fân iawn, mewn peint a haner o ddwfr ; yna craswch dafell dda o fara, a dodwch gyda'r cig a'r gwlybwr mewn jar bridd. Ystiwch ef mewn pobty poeth am

ddeugain munud. Dylid bod yn ofalus i dori ymaith yr holl fraser cyn malu y cig.

**PICLO, PRESERFIO, &c.**—**PICLO.**—Dylid defnyddio y finegr a'r *spices* goreu wrth biclo; a thrwy fod yr *acids* yn y finegr yn tynu gwenwyn o'r *tin* sydd yn ngwaelod y sospan, dylid ei boethi mewn *stone jar* heb ei *glazio*, neu mewn sospan wedi ei *enamelio*. Ychwanegwch lon'd llwy dē o ailm a llon'd cwpan tē o halen at bob tri galwyn o finegr, a berwch y *spices* ynddo mewn cŵd bychan, a bydd genych finegr cymhwys at bob math o bicles. Cedwch y picis mewn llestri coed neu *stone jars* heb eu *glazio*. Bydd i lestr a braser ar hyd-ddo ddi-fetha picls. Ysgydwch y picls yn achysurol, ac os bydd rhai meddal yn eu piith tynwch hwy allan, ac ysgaldiwch y finegr, a thywlltwch yn boeth ar y picis. Cadwch ddigon o finegr i'w gorchuddio yn dda. Na ferwch y finegr na'r *spice* dros bum' munud. Cedwch hwynt wedi eu gorchuddio yn glòs, a bydded genych lwy bren, a thyllau ynddi, wedi ei rhwymo wrth bob *jar*; mae pob metal yn anmhrïodol. Dylid eu cadw yn ofalus rhag yr awyr; anfynych y dylid agor y *jars* mwyaf; a dylid cadw rhai bychain at wasanaeth gwas-tadol, i ba rai y gellir dychwelyd yr hyn fyddo heb eu fwyta, a gorchuddio y top yn glòs drachefn.

**PICLS CYMYSGEDIG.**—Cymerwch beint o French beans ar haner tyfu, agos yr un hyd i gyd, dwsin o gucumerau, o ddwy i dair modfedd o hyd; dodwch y rhai hyn mewn padellaid o heli cryf. Bydded iddynt gael eu gadael yno am dri diwrnod, gan eu styrio bob dydd, yna dodwch hwy mewn sospan biclo wedi ei *enamelio*, a thywllt yr heli y buont ynddo am eu penau, a rhoddi caud clòs arnynt rhag i'r *steam* ddiange; gosodwch hwy ar dân araf, ond na oddefwch iddynt ferwi; pan y bo'nt o liw gwyrdd, hidlwch hwy trwy ogr a gadewch iddynt sefyll nes bo'r pethau ereill yn barod. Tynwch goliflower fechan, a dodwch mewn heli cryf, yn nghyd a haner peint o wynwyn bychain, ychydig *capsicums* ysgariad; gadewch iddynt aros dri diwrnod neu bedwar, yna trefnwch y cwbl mewn poteli picls mewn dull chwaethus a

phrydferth. Berwch ddigon o finegr da ag fydd yn ddigonol i lenwi y poteli, gydag ychydig *allspice*, pupur gwyn, ginger wedi ei friwio, mace, hâd mwstard, a thafellau o horseradish. Pan fo y finegr yn blasu yn gryf iawn o'r *spices* hyn streiniwch yn ofalus; ond y ffordd oraf yw doddi y *spices* mewn cŵd bychan a'u berwi yn y finegr. Gadewch i'r finegr oeri, yna llenwch y poteli, a chorciwch yn ddiogel.

**FRENCH BEANS.**—Y rhai goraf at y pwrpas hwn ydynt y *white runners*. Maent yn fawr a hir, ond dylid eu casglu pan yn ieuang, cyn iddynt ond haner cyrhaedd eu liawn faintioi. Tywallter finegr gwin gwyn oer arnynt, a chorciwr yn dyn.

**WYNWYN.**—Pilier nifer o wynwyn bychain, yna mwyder hwy yn dda mewn heli, a rhodder hwy mewn poteli geneu llydain, gyda *ginger*, *mace*, *bay-leaves*, ac ychydig o *sweet-oil*; llanwr y poteli gyda finegr gwin gwyn, a chorciwr i fyny yn ddiogel.

**DULL ARALL.**—Yn mis Medi, dewiswch y wynwyn bychain crynion a gwynion, tynwch ymaith y plisg brown, bydded genych yn barod lonaid stewpan o ddwfr berwedig, a thefllwch i mewn gynifer o'r wynwyn ag a orchuddia wyneb y dwfr; mor fuan ag yr edrychant yn glir ar yr ochr allan, codwch hwy i fyny mor gynted ag y galloch gyda llwy a thyllau ynddi, a dodwch hwy ar lian glân, gorchuddiwch hwy yn glòs gydag un arall, ac ysgaldiwch ychwaneg, ac felly ymlaen. Gadewch iddynt nes yr oeront, yna dodwch hwy mewn *jar*, neu boteli gyda geneuau agored, a thywlltwch arnynt finegr gwin gwyn yn boeth, ond nid yn ferwedig. Pan fyddont wedi oeri, gorchuddiwch hwy. Os bydd y croen allanol wedi crebychu, pilliwch ei ffrwrdd. Rhaid iddynt ymddangos yn gwbl glir.

**CABBAGE COCHION.**—Torwch y cabbage yn dafelli i ogr, a lluchiwch halen ar hyd pob haen; gadewch iddo redeg oddi-arnynt am ddeuddydd, yna dodwch mewn *jar*, a thywlltwch finegr poeth arnynt, ddigon i'w gorchuddio, a dodwch i mewn rai tafelli o *red beet-root*. Gofalwch am ddewis cabbage o liw coch *purple*. Dylai y rhai a ddewisant fias *spices*

eu berwi gyda'r finegr. Bydd i goll-flower wedi ei dori yn ganghenau, a'i daslu i mewn ar ol ei halltu, ymddangos o liw coch prydferth. Gellir piclo cabbage gwynion yn yr un dull.

**CUCUMBERS.**—Cymerer cucumbers bychain newydd eu casglu, rhodder hwy mewn padell, a thywallter swm o heli arnynt; gadawer iddynt sefyll am bedair awr ar hugain, a chauad diogel drostynt; yna tywallter hwy allan i ogr, a sycher hwy rhwng dau lian. Cymerer ychydig o finegr gwin gwyn, a swm priodol o *allspice*, berwer ef i fyny, ac yna rhodder y cucumbers ynddo, gydag ychydig halen a *bay-leaves*; gadawer iddynt ferwi yn araf ar y tân yn y picl yma; yna rhodder hwy a'r gwlybwr yn y costreli, a chylymer chwysigen am bob un o honynt.

**CUCUMBERS A WYNWYN.**—Torwch hwynt yn dafelli, a rhuddwch halen hyd-dynt; dranoeth rhoddwch hwynt mewn lle i'r dwfr redeg oddiarnynt am bump neu chwech awr; yna dodwch hwy mewn *stone jar*, tywalltwch finegr berwedig arnynt, a chedwch hwy mewn lle cyne. Dylai y tafelli fod yn dewion. Ail dywalltwch finegr berwedig arnynt, a chauwch arnynt drachefu yn uniongyrchol; ac felly o hyd nes y byddont wyrddion; y tro diweddaf rhoddwch i mewn bupur a ginger. Cedwch hwy mewn *stone jars* bychain.

**CUCUMBERS IEUAINGC.**—Dewiswch *gherkins* ieuaingc a da, taenwch hwy ar ddysglau, rhoddwch halen arnynt, a gadewch iddynt orwedd ynddo am wythnos—yna dodwch hwy fel y byddo iddo redeg ymaith oddiwrthynt, ac ar ol eu rhoi mewn *jar*, tywalltwch finegr berwedig drostynt. Gosodwch hwy yn ymyl y tân, wedi eu gorchuddio â digonedd o ddail olewydd; oni throant yn wyrdd lled dda, tywalltwch y finegr i *jar* arall, gosodwch hi ar yr aelwyd boeth neu yn y ffwrn, a phan y berwa, tywalltwch ef arnynt drachefu, gân eu gorchuddio â dail ffres; a gwnewch fel hyn o hyd nes y deuant o'r lliw y byddwch yn dymuno eu cael. Ond gan y gwyddir yn awr fod y *pickles* gwyrddion prydferth yn cael eu gwneyd felly trwy ddefnyddio llestri pres, neu o *bell metal*, y rhai, pan roddir finegr ynddynt, ydynt dra gwenwynig, ychydig o boblsydd yn dymuno eu bwyta.

**MUSHROOMS.**—Rhodder y mushrooms lleiaf a ellir eu cael mewn padellaid o ddwfr ffynon, yna rhwbier hwy gyda darn o wlanan wedi ei gwlychu mewn halen, a bydded iddynt gael eu golchi yn lân; rhodder hwy ar y tân mewn padellaid o ddwfr ffynon berwedig, gydag ychydig o halen ynddo; ac wedi iddynt ferwi am bump neu chwech o funudau, cymerer hwy allan, gan eu gosod ar hidl i sychu; yna rhodder hwy rhwng dau lian nes y byddont wedi oeri; wedi hyn y rhodder hwy mewn poteli a genau llydain ganddynt, gydag ychydig ddarnau o *face*, *nutmeg* wedi ei thafellu, a brasder mutton toddedig; llanwer y poteli i fyny gyda finegr da, corcier hwy yn ddiogel, a chadwer hwy at wasanaeth.

**WALNUTS.**—Rhodder hwy mewn dwfr a halen, yn yr hwn y dylent sefyll am amryw ddyddiau; yna cymerer hwy allan i sychu. Berwer swm o finegr gwin gwyn, gyda *mace*, *cloves*, pupur, *ginger*, *nutmeg*, a halen; tywallter ef yn boeth ar y walnuts, a phan y byddont wedi oeri, rhodder hwy mewn costreli ceryg cryfion.

**BROCOLI NEU COLIFLOWERS.**—Dewiswch rai caled yn unig, ac o lawn faint; torwch ymaith yr holl ddail, a naddwch y coesau; tynwch ymaith y blodeu yn sypynau, dodwch mewn heli am ddau diwrnod, yna rhoddwch i sychu, sychwch yn sych, a rhoddwch mewn picl poeth.

**BET ROOTS.**—Berwch neu craswch yn ysgafn nes y byddont agos yn ddigon; bydd angen eu coginio am awr neu awr a haner yn ol maintioli y gwreiddyn; gadewch i'r dwfr redeg oddiarnynt, a phan y dechreuant oeri, piliwch a thafellwch yn dafelli haner modfedd o drwch, yna dodwch hwy mewn picl wedi ei wneyd o bupur du ac *allspice*, owns o bob un; haner owns o ginger maledig, horseradish yn dafelli, a halen i bob chwart o finegr, gellir ychwanegu swm bychan o bupur cayenne.

**MELONAU, MANGOES A CUCUMBERS HIRION** a ellir eu piclo yn yr un dull. Ni ddylai y melon fod ond tua haner eu maintioli mwyaf; y cucumbers yn eu llawn faint. Torwch y top, ond gadewch iddo hongian wrth dipyn o'r croen. Gyda llwy gul tynwch allan yr holl hadau, a

llenwch y ffrwyth a rhanau cyfartal o had mustard, pupur wedi ei falu, a ginger, neu fwstard wedi ei falu yn lle yr hâd mwstard, a dau neu dri o ewinedd garlleg. Dyled gwnio y pen agored ag edaf wên, neu ei rwymo.

**PICL INDIAIDD** (*a gafwyd gan frodor o India*).—Tynwch goliflower yn gangau, piliwch y goes a thafellwch hi; tafellwch cabbage wen fechan, cucumber, dwsin o wynwyn, a chwech *tomatoes*; ychwanegwch chwech o ewinedd o arlleg, dwsin o shalots, dwsin o capsicums, haner peint o French beans, rhai redish, a dyrnoid o horseradish wedi eu crafu. Rhoddwch yr holl bethau hyn mewn padell neu sospan, a thywelltwch arnynt heli berwedig, gadewch iddynt sefyll am haner awr, yna tywelltwch yr heli ymaith, a sychwch hwy yn yr haul, neu mewn ffwrn oer. Berwch alwyn o finegr gyda pedair owns o bupur du, pedair owns o bupur gwyn, dwy owns o *chilis*, dwy owns o *ginger*, un owns o *cloves*, pedair owns o fwstard, yr oll wedi eu curo a'u malu yn dda, dwy owns o turmeric, ac owns o had mwstard. Dodwch y llysiau mewn *jar* gareg, tywelltwch y finegr pan yn ferwedig boeth arnynt, a phan yn oer, gorchuddiwch y *jar* ac yswigen. Bydd yn gynnwys i'w ddefnyddio mewn mis.

**WYAU WEDI EU PICLO**.—Yr achos na byddai y picl canlynol yn cael ei ddefnyddio yn fwy cyffredinol ydyw anwybodaeth am dano. Yr ydym yn ei gadw yn wastad yn y tŷ, ac yn cael ei fod yn bîcl rhagorol gyda cig oer, &c. Dylid berwi yr wyau yn galed (dyweder am ddeg munud), ac yna tynu eu plisg; pan yn *gnobl* oer dodder hwy mewn *jars*, a thywallter arnynt finegr (digon i'w gorchuddio yn *hollol*), yn yr hwn y berwyd yn flaenorol y *spices* cyffredin at bîclo; rhwymwch yswigen yn dŷn am y *jars*, a chadwch hwy nes y dechreuont gyfnewid eu lliv.

**PRESERFIO FFRWYTHAU**.—**SYLWADAU CYFFREDINOL**.—Ychydig sydd yn gwybod mai berwi ffrwythau am hir amser, a'i *ysgumio yn dda*, heb *siwgr*, ac heb gauad dros y badell, yw y ffordd oraf a chynilaf—cynilaf, oblegid cyfyd y swm mwyaf o'r ysgum o'r *ffrwyth*, ac nid o'r *siwgr*; ond dylai y siwgr fod yn dda. Mae ei ferwi heb gauad yn peri i'r

holl wlybanaeth fyned ymaith, ac yn peri i'r preserves fod yn well eu blas ac yn fwy sylweddol.

**RASPBERRY JAM**.—I bob pwys o raspberries addfed a da wedi eu pigo yn lân oddiwrth goesau a dail, rhoddwch bwys o siwgr lwmp da, wedi ei dori yn ddarnau o faintioli wyau; at bob pwys o siwgr ychwanegwch chwarter peint o sudd currants cochion; tywalltwch y sudd dros y siwgr mewn padell, a gadewch iddo sefyll. Dodwch y raspberries mewn preserving pan a berwch hwy yn gyflym, gan eu troi yn dda am chwarter awr; yna ychwanegwch y siwgr a'r sudd currants. Gadewch i'r cwbl ferwi am ddeugain munud, gan eu scumio yn ofalus tra fyddo y *scum* yn codi; bydd o liw clir, a cheidw am flynyddoedd.

**JAM MEFUS**.—Dodwch bwysau cyfartal o fefus da ac aeddfed a siwgr gwyn toredig mewn preserving pan; gadewch iddynt ferwi yn araf hyd nes y byddo y siwgr wedi toddi. Dylid cadw y ffrwyth mor gyfan ag y gellir, felly dylid bod yn ofalus wrth ei droi; symudwch yr ysgum fel y cyfyd; bydd yn well os ychwanegir ato beint o sudd currants gwynion, gan fod jam mefus eu hunain braidd yn fefedd. Berwch o ddeugain munud i awr, nes y byddo y ffrwyth yn edrych yn glir.

**JAM CURRANTS, COCH, GWYN, NEU DDU**.—Tynwch y currants oddiwrth y coesau, a dodwch yn y preserving pan, gyda thri chwarter pwys o siwgr ar gyfer pob pwys o ffrwyth; rhoddwch y siwgr ar ol i'r ffrwyth ferwi am ychydig funudau; berwch yn nghyd, gan ddryllio y ffrwyth â llwy bren, a chodi yr ysgum; berwch yn araf am haner awr, a dodwch yn y *jars*.

**GOOSEBERRY JAM COCH**.—Dewiswch y goosberries cochion gwlanog pan yn hollol aeddfed; pigwch yn lân, pwyswch a dodwch hwy yn y badell breserfio gyda chwarter peint o sudd currants cochion ar gyfer pob tri pwys o gooseberries; gadewch iddynt ferwi yn gyflym am agos i awr, gan eu troi yn ofalus yr holl amser. Yna ychwanegwch y siwgr yn y cyfartaledd o dri chwarter pwys at bob pwys o ffrwyth, a berwch am ddeugain munud. Y mae jam gooseberries yn gofyn cael ei ferwi am hir amser; heb hyn yni cheidw yn hir ac ni edrycha yn dda.

**JAM GOOSEBERRIES GLEISION.**—Pwyswch swm cyfartal o ffrwyth a siwgr lwmp, pigwch y ffrwyth, trochwch bob lwmp o siwgr mewn dwfr oer am funud, a dodwch gyda cymaint o ddwfr ag a ddalia yn y badell breserfio; berwch am bymtheg munud, gan godi yr ysgum; yna dodwch y ffrwyth i mewn, a berwch yn araf nes bo yn glir. Pan y bydd i ychydig o'r jam fyned yn *jelly* ar blât mae yn ddigon.

**JAM CHERRIES.**—Pwyswch y ffrwyth cyn tynu y ceryg, ac at bob pwys rhoddwch dri chwarter pwys o siwgr; tynwch y ceryg a dodwch y cherries gyda'r siwgr ac ychydig ddwfr yn y badell breserfio, i ledferwi yn araf wrth ochr y tân am haner awr. Yna berwch yn gyflym, gan ysgumio yr holl amser, am haner awr arall. Cymeradwyir cracio y ceryg a doddi y cnewyllob yn y jam, ond gan fod hynny yn orchwyl diflas a thrafferthus, bydd i ychydig ddiferion o *ratafia* neu *almond essence* ateb yr un pwrpas yn llawn.

**JAM DAMSONS, ORLEANS, a MAGNUM BONUM PLUMS.**—Yr un fath a Jam Cherries.

**JELLY CURRANTS, COCH NEU DDU.**—Cliriwch y ffrwyth, dodwch hwy mewn *stone jar*, ac ystiwch hwy mewn sospenaid o ddwfr, neu trwy eu berwi ar yr aelwyd boeth; ystreiniwch ymaith y gwlybwr, ac at bob peint ychwanegwch bwys o siwgr lwmp; dodder yr olaf i mewn yn lymphiau mawrion, mewn llestr *china* neu *stone*, nes y byddo braidd wedi toddi; yna dodwch ef mewn padell breserfio; i ledferwch ac ysgumiwch fel y byddo yn angenrheidiol. Pan y ffurfia *jelly* ar blât, dodwch ef mewn *jars* neu wydrau bychain.

**JELLY CHERRIES.**—Gyrwch cherries addfed trwy ogr, wedi tynu y ceryg a'r coesau yn gyntaf. Ychwanegwch at bob tri pwys o'r mwydion haner peint o sudd currants, ac at bob pwys neu beint dri chwarter pwys o siwgr; cymysgwch a berwch yn nghyd nes y ffurfiont *jelly*. Tywelltwch i botiau neu wydrau at wasanaeth.

**JELLY GRAPES.**—Cymerwch grapes duon, tynwch y coesau oddiwrthynt, trochwch hwy a llwy bren uwch tân araf nes y bo iddynt dori ar eu traws; ys-

treiniwch ymaith y sudd (heb wasgu) trwy *jelly bag* neu fuslin tew; pwyswch y sudd a berwch ef yn gyflym am ugain munud; yna cymerwch oddiar y tân, ac at bob pwys o sudd ychwanegwch bedair owns ar ddeg o siwgr da wedi ei bowdro yn fras, a berwch yn gyflym am chwarter awr, gan ei droi o hyd, a'i ysgumio yn ofalus. Bydd o liw clir a dymunol.

**JELLY AFALAU** (*Cyfarwyddyd Americanaidd*).—Cymerwch unrhyw nifer o afalau iach cyffredin, rhai â chroen coch wna y *jelly* disgleiriaf ei liw; golchwch yn ofalus, ond na philiwch; llenwch badell breserfio a'r afalau, a gorchuddiwch hwy yn unig â dwfr; berwch nes y byddont yn fwydion (*pulp*), yna ystreiniwch trwy ogr rhawn. At bob peint o'r sudd ychwanegwch bwys o siwgr gwyn ac ychydig *essence of lemon*; berwch yr oll hyd nes y byddo yn hollol glir; pan yn oer dylai droi allan o'r llestr yn hollol *stiff* a chlir. Gwna yr Americanaid y *jelly* hwn o afalau gwylltion neu surion (*crab apples*) ac y mae cochni eu crwyn yn rhoddi i'r *jelly* liw tra prydferth.

**PRESERFIO APRICOTS.**—Hollter hwy ar y naill ochr i'r gareg, a rhodder swm o siwgr arnynt; gosoder hwy mewn dysgl, a chraser hwy mewn pobty lled boeth; yna cymerer hwy allan o'r ddydsgl, a sycher hwy ar blatiau gwydr yn y pobty am ddau neu dri diwrnod.

**PRESERFIO APRICOTS MEWN JELLY.**—Piliwch y ffrwyth yn dra theneu, a thynwch y ceryg; pwyswch swm cyfartal o siwgr yn llwch mân, a lluchiwch hyd-dynt. Dranoeth, berwch hwynt yn dra thyner, nes y byddont yn glir, symudwch hwy i bowl neu fason, a thywelltwch y gwlych arnynt. Y dydd canlynol tywalltwch y gwlych i chwart o *codlin-liquor*, wedi ei wneyd trwy ferwi ac ystreinio, a phwys o siwgr da; gadewch iddo ferwi yn gyflym nes y byddo yn *Jelly*; dodwch y ffrwyth i mewn ynddo, rhoddwch un berwad, ysgumiwch ef yn dda, a dodwch mewn potiau bychain.

**MARMALADE ORANGES.**—Torwch nifer o *Seville oranges* yn bedwar, cymerwch allan y mwydion a dodwch mewn dysgl, dodwch y croen i socio mewn dwfr a halen oer am bedair awr ar hugain; pig-

wch allan yr holl hadau a'r croen gwyn teneu oddiar y mwydion; dranoeth berwch y croen mewn swm o ddwfr ffynon nes y byddont yn ddigon tyner i ben pin suddo yn rhwydd iddynt, yna tafwch ymaith y dwfr, a thorwch y croen yn dafellau mor fân ag y gellwch eu gwneyd; dodwch hwy gyda'r mwydion, ac at bob pwys dodwch bwys a haner o siwgr lwmp wedi ei fanu yn llwch; berwch y cwbl yn nghyd, yn araf, am awr, nes y bo y crwyn yn edrych yn hollol glir; trowch ef yn araf yr holl amser.

**MARMALADE GOOSEBERRIES.**—Cymerwch y gooseberries pan yn eu llawn faintoli, ond heb fod yn aeddfed, berwch hwy mewn dwfr am bum' munud, yna hidlwch drwy y *colander*; briwiwch y ffrwyth; ychwanegwch swm cyfartal o siwgr lwmp, ac ar gyfer pob tri phwys o siwgr, rhoddwch groen lemon wedi ei ratio â haner y sudd; dylid ei ferwi nes y bo yn dew.

**MARMALADE CURRANTS COCHION.**—Gwasgwch gurrants cochion aeddfed trwy fuslin brâs; am bob peint o sudd rhoddwch bwys o siwgr lwmp; berwch yn dda; pan agos a berwi yn jelly, bydded genych yn barod rai cangau o gurrants gwynion wedi eu dewis yn ofalus, tafwch i mewn, a berwch am bum' munud; dylai y marmalade fod yn glir a chaled.

**MARMALADE APRICOTS.**—Tynwch y croen oddiam nifer o apricots mawr ac aeddfed, torwch yn ddau, a symudwch y ceryg; pwyswch y ffrwyth a dodwch ar ddysglau; at bob pwys o apricots dodwch un pwys o siwgr lwmp wedi ei bowdro yn fân, lluchiwch ef ar hyd y ffrwyth, a gadewch ef i aros arnynt am un noswaith; dranoeth dodwch y ffrwyth a'r siwgr mewn padell breserfio gyda llonaid llwy de o *ratafia* ar gyfer pob pwys o siwgr; gadewch i'r cwbl ferwi yn araf, ac fel y byddo i bob darn o apricot ymddangos yn glir cymerwch allan o'r badell a dodwch mewn *jar*; codwch unrhyw ysgum a ddichon godi ar wyneb y badell, a phan fo yr holl ffrwyth yn barod tywelltwch y sudd drostynt yn y *jars*.

**MARMALADE QUINCES.**—Haner lanwch y badell breserfio â dwfr, tafellwch eich quinces iddo, a stiwiwch, gan eu troi yn aml nes y byddont yn hollol

dyner; ystraeniwch trwy ogr rhawn, ac at bob peint o fwydion (*pulp*) ychwanegwch dri chwarter pwys o siwgr lwmp maledig; berwch yn nghyd nes y byddo yn *jelly*; dodwch mewn *jars* tra bo yn boeth. Os wedi ei wneyd yn dda ceidw am flynyddoedd mewn lle sych.

**APPLE CHEESE.**—Berwch rai afalau pobi gwyrddion mawr mewn swm o ddwfr nes bo'r crwyn yn dechreu cracio, yna hidlwch y dwfr ymaith, a gadewch i'r afalau oeri; pan yn oer cymerwch ymaith y croen a rhwbiwch y mwydion oddiwrth y galon; gweithiwch ef yn ystwyth, ac at bob pwys o'r mwydion ychwanegwch bwys o siwgr gwyn, croen lemon wedi ei ratio, a haner y sudd; berwch yr oll yn nghyd nes bo'r ffrwyth yn edrych yn glir; dodwch mewn llestri; os bydd eisieu iddo gadw yn hir dylid ei orchuddio fel *jam*.

**PLUM NEU DAMSON CHEESE.**—Dodwch yr eirin mewn *jar*, a'r *jar* i sefyll mewn dwfr ar y tân; pan yn hollol feddal gyrwch trwy ogr, ac ar gyfer pob pwys o'r mwydion, ychwanegwch bwys o siwgr gwyn, owns o sweet almonds, wedi eu gwynu a'u malu, gyda phedwar o bitter almonds; berwer yn nghyd nes bo'r ffrwyth yn sfurfio *jelly* tew.

**I SYCHU AFALAU.**—Dodwch hwynt mewn pobty oeraidd chwo' gwaith neu saith, a fflatiwch hwy yn raddol, a thyner, pan fyddont yn ddigon meddal i oddef hyny. Os bydd y pobty yn rhy boeth, bydd iddynt wastio; ac yn y dechreu, dylai fod yn bur oeraidd. Yr afalau goreu at eu sychu yw y *biffin*, y *minshul crab*, neu unrhyw afalau *tarts*.

**I SYCHU PEACHES.**—Wedi pario a thynu ceryg y rhai goraf o honynt, rhaid eu berwi yn feddalion; wedi hyny doder hwy mewn hid i sychu, a rhodder hwy mewn sospan drachefn, a'r un pwysau o siwgr; berwer hwy nes y bydd y syrnp yn ddigon tew, a gadawer iddynt sefyll yn y siwgr am noswaith; yna rhodder hwy ar blatiau, a sycher hwy yn drwyadl mewn *stove* neu bobty.

**I GADW CURRANTS.**—Wedi gwneyd y poteli yn berffaith lân a sych, bydded i'r *currants* gael eu tori oddiwrth y coesau mawrion, gan adael y deryn lleiaf a ellir o'r goes wrth bob un, fel na byddo twll yn y ffrwyth, ac achosi drwy hyny i

leithder fod yn eu plith. Mae yn angenrheidiol eu casglu pan fo y tywydd yn berffaith sych, ac os bydd modd, y ffordd oreu ydyw eu tori o dan y coed, a gadael iddynt ddisgyn yn esmwyth i'r poteli. Corciwch y poteli, a dodwch ystôr ar y corcyn, a dodwch hwy mewn rhych yn yr ardd, a'r gwddf at i lawr; dylid gosod prenau i nodi y fan lle y mae pen pob rhes yn dechreu. Gellir eu hysgaldio hefyd, yr un modd ag y cyfarwyddir at gooseberries.

I GADW DAMSONS A CHERRIES.—Yr un modd a currants.

I GADW GOOSEBERRIES. — Bydded iddynt gael eu casglu cyn iddynt fyned yn rhy fawr, ond cymerwch ofal i beidio eu tori wrth dynu ymaith y coesau a'u pigo. Llanwch boteli ceg-agored; rhoddwch y cyrc i mewn yn llac, a dodwch y poteli at eu gyddfau mewn dwfr mewn boiler. Pan fyddo y ffrwyth yn ymddangos wedi ysgaldio, tynwch y poteli allan o'r dwfr; a phan fyddont wedi cwbl oeri, corciwch hwy yn glôs, a rhoddwch ystôr ar y topiau. Cloddiwch rych mewn rhan o'r ardd lle na byddo llawer o dreigl, digon dwfn i'r holl boteli sefyll yn syth, a lluchier y pridd drostynt hyd i'r dyfnder o droedfedd a haner. Pan ddelo rhew, bydd i ychydig o dail fires o'r ystabl rwystro i'r ddaear galedu fel nas gellir myned at y ffrwyth.

DULL ARALL.—Ysgaldiwch fel y cyfarwyddwyd uchod; pan wedi oeri, llenwch y poteli â dwfr oer, corciwch hwy, a chedwch mewn lle llaith neu sych; ni bydd iddynt ddfifetha.

I GADW DAMSONS AT BASTEIOD YN Y GAUAF.—Dodwch hwy mewn *stone jars* bychain, neu boteli gyda gyddfau llydain; dodwch hwy hyd eu gyddfau mewn crochanaid o ddwfr oer, cyneuwh dân o dano, ac ysgaldiwch hwy. Dranoeth, pan wedi cwbl oeri, llenwch hwy i fyny â dwfr ffynon; gorchuddiwch hwy.

DULL ARALL.—Berwch un ran o dair o siwgr gyda'r ffrwyth, ar dân araf, nes byddo y *juice* yn glynu wrth y ffrwyth, ac yn ffurfio *jam*. Cedwch mewn *jars* bychain mewn lle sych. Os bydd yn rhy felus, cymysgwch âg ef beth o'r ffrwyth heb ei wneyd i fyny â siwgr.

I BRÛSERFIO FFRWYTHAU AT DARTS TRUOL.—Cesglwch cherries, pob math

o eirin, ac afalau America, pan fyddont yn aeddfed, a dodwch hwy mewn *jars* bychain a ddaliant oddeutu pwys; lluchiwch dros bob *jar* chwe' owns o siwgr gwyn da wedi ei falu yn llwch; gorchuddiwch bob un â dwy yswigen, wedi eu rhwymo arnynt bob un ar ei phen ei hun; yna dodwch y *jars* hyd eu gyddfau mewn llonaid stewpan mawr o ddwfr, a berwch yn araf am dair awr. Cedwch y rhai hyn, a phob math arall o ffrwythau, yn rhydd oddiwrth leithder.

RHUBARB WEDI EI BRÛSERFIO.—Piliwch bwys o rubarb da, a thorwch ef yn ddarnau dwy fodfedd o hyd; ychwanegwch dri chwarter pwys o siwgr gwyn, a chroen a sudd un lemon—y croen i gael ei dori yn rhifynau meinion. Dodwch yr oll yn y badell brësferfio, a lledferwch yn araf nes y bo'r rubarb yn hollol feddal; cymerwch ef allan yn ofalus gyda llwy arian, a dodwch mewn *jars*; yna berwch y *syrup* am ddigon o amser er iddo gadw—oddeutu awr—a thywelltwch ef dros y ffrwyth. Pan yn oer, dodwch bapur wedi ei wlychu mewn brandi drostynt, a rhwymwch yswigen yn dŷn am eu gyddfau i gadw yr awyr allan. Mae y preserve yma yn rhagorol.

CADW AFALAU.—Dylid eu dodi ar lawr *sych* am dair wythnos; yna gellir eu pacio yn haenau, a gwellt sych rhwng pob haen. Dylid rhwbio pob afal â llian sych cyn eu dodi i'w cadw. Dylid eu cadw mewn lle sych, a'u gorchuddio â digonedd o wellt i'w diogelu rhag rhew. Dylid eu tynu oddiar y coed ar ddiwrnod sych.

GORCHUDD AR BRÛSERVES.—Papur gwyn wedi ei dori i'r maintioli priodol, ei wlychu mewn brandi, a'i ddodi dros y preserves pan yn oer, ac yna papur dwbl wedi ei rwymo dros eu topiau. Dylai pob preserves fod noswaith heb eu gorchuddio. Gellir defnyddio gwyn wŷ yn lle brandi i wlychu y papur, a gellir pastio y papur o amgylch ymylon y *pot* yn lle ei rwymo—ceidw yr awyr allan yn well.

#### DIODYDD DIRWESTOL A GWINOEDD CARTREF, &c.

BLACKBERRY WINE.—Casglwch y ffrwyth pan yn aeddfed, ar ddiwrnod sych. Dodwch mewn llestr agored, a



tap wedi ei ffio yn agos i'r gwaelod ; tywelltwech ddwfr berwedig i orchuddio y ffrwyth. Malwch y ffrwyth gyda'ch llwyllaw, a gadewch iddynt sefyll nes y cyfyd y *pulp* i ben y llestr a ffurfio crystyn, mewn tri neu bedwar diwrnod. Yna gadewch i'r hylif redeg i lestr arall, ac at bob galwyn ychwanegwch bwys o siwgr ; cymysgwch yn dda, a rhoddwch mewn casgen, i weithio am wythnos neu ddeg diwrnod, a ffafllu ymaith unrhyw waelodion fo'n aros, gan gadw y gasgen yn llawn, yn enwedig yn y dechreu. Pan fo wedi peidio gweithio, cauwh y bwng yn ddiogel ; yn mhen o chwech i ddeuddeg mis bydd yn barod i'w botelu.

**CHAMPAGNE DIRWESTOL.**—Tartaric acid, 1 owns ; 1 lemon da ; ginger root, 1 owns ; siwgr gwyn, 1½ pwys ; dwfr, 2½ galwyn ; burym, ¼ pint. Naddwch y lemon, malwch y ginger, cymysgwch y cwbl a'u gilydd, oddi gerth y burym, tywalltwech y dwfr yn ferwedig arnynt, a gadewch iddo oeri i naws y gwaed ; yna ychwanegwch y burym, a gadewch iddo sefyll yn yr haul trwy'r dydd ; gyda'r nôs potelwch, gan rwymo y cyrc.

**CORN BEER** (*heb furrin*).—Dwfr oer, 5 galwyn ; gwenith, 1 chwart ; triagl, 2 chwart ; dodwch yr oll mewn baril bychan o'r maintioli yma ; ysgydwech yn dda, ac yn mhen deuddydd neu dri gweithia gystal a phe buasai burym ynddo. Cadwch y bung yn dyn. Bydd i'r gwenith wneyd y tro i pump neu chwech o ddarllawiadau ; os digwydda fod yn rhy sur ychwanegwch driagl a dwfr.

**COWSLIP WINE.**—at bob galwyn o ddwfr, pwyswch dri phwys o siwgr lwmp ; berwch am haner awr, gan dynu ymaith yr ysgum fel y cyfyd. Pan yn ddiagon oer, dodwch ato grystyn o fara wedi ei grasu, a'i drochi mewn burym tew, a gadewch i'r gwlybwr eplesu yn y twb am un awr ar bymtheg ar hugain ; yna dodwch yn y cask, am bob galwyn, groen dau lemon, a philen allanol un lemon, a chroen orange Seville, ac un galwyn o cowslip-pips, yna tywalltwech ar y gwlybwr. Rhaid ei gyffroi yn ofalus bob dydd am wythnos ; yna at bob pum' galwyn dodwch i mewn botelaid o win. Bydded i'r cask gael ei gau i fyny yn glos, ac ni raid iddo sefyll ond chwech wythnos cyn

ei botelu. Byddwch ofalus i ddefnyddio y cyrcs goreu.

**CREAM NECTAR.**—Dwfr, 1 galwyn ; siwgr lwmp, 8 pwys ; tartaric acid, 8 owns ; gum arabic, 1 owns ; dodwch ar y tân. Blawd pedair llon'd llwy dê ; gwyn pedwar wy, wedi eu curo yn dda gyda'r blawd ; dwfr haner pint ; pan fo y cyntaf o naws y gwaed dodwch y rhai hyn i mewn, a berwch am dri munud.—Rhoddwch 3 llon'd llwy fwrdd o'r syrup hwn mewn gwydr, ychwanegwch oddeutu chwarter llon'd llwy dê o carbonate of soda ; trowch yn dda, ac yfweh.

**CURRENT WINE.**—At bob tri pheint o ffrwyth, wedi ei lanhau yn ofalus oddiwrth bobrhaid drwg, neu rai wedi llwydo, rhoddwch chwart o ddwfr ; malwch y ffrwyth. Yn mhen pedair awr ar hugain, ystreiniwch y gwlybwr, a rhoddwch at bob chwart, bwys o siwgr Lisbon, o ansawdd canolig. Os at gurrants gwynion, defnyddiwch siwgr lwmp. Goreu ydyw rhoddi y ffrwyth, &c., mewn padell fawr, ac wedi bod i mewn dridiau, cyfyd yr ysgum, tynwch hwnw ymaith cyn i'r gwlybwr gael ei roddi yn y baril.

**DAMSON WINE.**—Cesglwch y damsons pan yn sych, pwyswch a malwch hwy ; dodwch mewn llestr pridd ; ychwanegwch at bob 8 pwys o ffrwyth, alwyn o ddwfr ; berwch y dwfr, ac ysgumiwch, a thywelltwech ar y ffrwyth pan yn ferwedig ; gadewch iddo sefyll am 2 ddiwrnod ; gadewch iddo redeg i lestr arall cymys iddo, ac at bob galwyn o hylif, dodwch 2½ pwys o siwgr mân, gadewch i'r llestr fod yn llawn, a chauwhch yn glôs ; hwyaf yr ers yn y llestr, goraf oll fydd ; ceidw am flwyddyn yn y llestr ; potelwch ef. Rhoddwch lwnip o siwgr yn mhob potel.

**DANDELION BEER.**—Gwreiddiau Dandelion, haner pwys ; dwfr, 1 galwyn ; raisins wedi eu malu, 1 pwys ; berwch yn dda, a phan yr oera i naws gwaed, neu laeth newydd ei odro, ychwanegwch haner pwys o siwgr ; 1 owns bob un o ginger a cream of tartar, a lemon wedi ei dafellu ; gweithiwch gyd ag ychydig furrin yn y nos, a photelwch boreu drannoeth. Mae yn lleoli hynod i rai yn dyoddef oddiwrth anhwydeh yr afu.

**DANADI POETHION** (*Nettes*).—A ellir

wneyd yn yr un modd yn ddiod ragorol i'w hyfed yn y gwanwyn ac yn yr haf; ac y mae yn dra lleiol i buro y gwaed.

**DIOD ADIFYWIOL.**—Tywelltwech lon'd llwy fwrdd o capilaire, ac un o finegr i lasiad o ddwfr oer.

**ELDER WINE.**—Cesglwch y ffrwyth pan yn aeddfed a sych, pigwch a gwasgwech hwy a'ch dwylaw, a streiniwch; rhoddwch y sudd mewn llestri am 12 awr i sefyll; dodwch at bob peint o'r sudd,  $1\frac{1}{2}$  peint o ddwfr, ac i bob galwyn, 3 pwys o siwgr; dodwch mewn llestr ar y tân, a phan yn barod i ferwi, cliriwch ef a gwyn 4 neu 5 o wyau; berwch am awr, a phan a bod agos yn oer, gweithiwch a burym cwrw cryf, a dodwch mewn baril neu jar, gan lenwi y llestri o bryd i bryd gyda'r un gwlybwr, wedi ei gadw o wrpas, fel y byddo yn gostwng wrth weithio. Mewn mis o amser, os bydd y llestr yn dal oddeutu wyth galwyn, bydd yn dda, ac yn gymwys i'w botelu, ac ar ol ei botelu, bydd yn gymwys i'w yfed yn mhen 2 fis; ond os bydd y llestr yn fwy, rhaid iddo gael sefyll am fwy o amser.

**GINGER BEER.**—Ginger wedi ei ysigo,  $1\frac{1}{2}$  owns; cream of tartar, 1 owns; siwgr mân, 1 pwys; wedi doddi y pethau hyn mewn llestr, tywelltwech arnynt 1 galwyn o ddwfr berwedig; pan yn agos a bod yn oer, ychwanegwch lon'd llwy fwrdd o fuyrm da; ysgumiwch a photelwch; cadwch mewn lle oer am ychydig ddyddiau, a bydd yn barod.

**Dull arall.**—Siwgr gwyn, 5 pwys; sudd lemon,  $\frac{1}{4}$  peint; ginger wedi ei ysigo, 5 owns; dwfr,  $4\frac{1}{2}$  galwyn. Berwch y ginger 30 munud mewn tri chwart o ddwfr; ychwanegwch y pethau eraill, ac ystreiniwch, pan yn oer, dodwch i mewn wyn wŷ, wedi ei guro yn dda, gyda llon'd llwy dē o lemon essence—gadewch iddo sefyll pedwar diwrnod, a photelwch.

**GINGER WINE.**—Rhoddwch mewn boiler, 10 galwyn o ddwfr, 15 pwys o siwgr lwnp, gyda gwyn wŷ 6 neu 7 o wyau wedi eu guro yn dda a'u hystreinio; cymysgwch y cwbl yn dda gyda'u gilydd tra yn oer; pan fyddo y gwlybwr yn berwi, ysgumiwch ef yn dda; dodwch i mewn haner pwys o ginger cyffredin, berwch ef am ugain munud. Bydded genych yn barod, groen saith o lemons wedi eu pilio yn dra theneu, a thywellt-

wch y gwlybwr arnynt; pan wedi oeri, barilwch gyda dwy lwyad o fuyrm; rhoddwch chwart o'r gwlybwr at ddwy owns o ysglodion *isinglass*, tra yn gynnes, ysgydwch ef yn dda deirgwaith neu bedair, a thywalltwch y cwbl gyda'u gilydd i'r baril. Y diwrnod nesaf, cauwch ef i fyny; ymhen tair wythnos, potelwch, ac mewn tri mis, bydd yn ddiod beraidd ac adfywiol; ac er ei fod yn dra oer, y mae yn berffaith ddiogel.

**GINGERETTE YSPAENAIDD.**—I bob galwyn o ddwfr, rhoddwch bwys o siwgr gwyn;  $\frac{1}{2}$  owns o ginger wedi ei ysigo yn dda;  $\frac{1}{4}$  owns o cream of tartar; a 2 lemon wedi eu tafellu. *Cyfarwyddiad.*—Wrth wneud 5 galwyn, berwch y ginger a'r lemons am 10 munud, mewn 2 alwyn o ddwfr; toddwch y siwgr a'r cream of tartar mewn dwfr oer; cymysgwch yr oll, ac ychwanegwch  $\frac{1}{4}$  peint o fuyrm da; rhoddwch i weithio dros nos, ystreiniwch a photelwch yn y boreu. Mae hon yn ddiol dda ac adfywiol, a chymeradwyir hi i bersonau yn dyoddef oddiwrt h gur yn y pen.

**GINGER POP.**—Dwfr,  $5\frac{1}{2}$  galwyn; ginger wedi ei ysigo,  $\frac{1}{4}$  pwys; tartaric acid,  $\frac{1}{2}$  owns; siwgr gwyn, 2 $\frac{1}{2}$  pwys; gwyn 3 wŷ, wedi eu guro yn dda; lemon oil, llon'd llwy dē; burym, chwarter peint.—Berwch y ginger 30 munud mewn 1 galwyn o ddwfr, ystreiniwch, a dodwch y lemon oil ynddo tra yn boeth; cymysgwch. Gwnewch dros nôs, ac yn y boreu ystreiniwch a photelwch.

**GRAPE WINE PUR.**—Grapes aeddfed wedi eu pigo, 10 pwys; dodwch mewn *stone jar*, a thywelltwech drostynt 6 chwart o ddwfr meddal berwedig; pan yn ddigon oer, gwasgwech yn dda a'ch llaw; gadewch iddynt sefyll am dri diwrnod, yna gwasgwech y sudd allan ac ychwanegwch 5 pwys o siwgr wedi ei falu, a gadewch iddo sefyll am wythnos yn hwy yn y jar; yna ysgumiwch, ystreiniwch, a photelwch yn dyn. Mae y gwin hwn yn gymwys at ddibenion meddygol a sacramental, trwy ei fod yn rhydd oddiwrt h yr amhuredd a geir yn gyffredin mewn gwinoedd.

**IMPERIAL WATER.**—Cymerwch jar fawr, a dodwch ynddi 2 owns o *cream of tartar*, gyda sudd a chroen dau lemon. Tywelltwech arnynt 7 chwart o ddwfr

berwedig, a phan yn oer, hidlwch trwy ogr, melyswch at eich archwaeth, a photelwch. Bydd yn barod i'w ddefnyddio dranoeth.

**LEMONADE.**—Toddwch  $\frac{1}{2}$  pwys o siwgr lwmp mewn chwart o ddwfr, a berwch ar dân araf; 2 dram o acetic acid; 4 owns o tartaric acid; pan yn oer, ychwanegwch weith 2g. o essence of lemon. Dodwch y chweched ran o'r pethau uchod yn mhob potel lawn o ddwfr, ac ychwanegwch 30 grains o carbonate of soda; corciwch ar unwaith, a bydd yn barod i'w ddefnyddio.

**Lemonade i'w gario i dailh.**—Siwgr lwmp sych, 1 pwys; malwch yn fân yn y mortar, ac ychwanegwch  $\frac{1}{2}$  owns o citric acid, (gwna tartaric acid y tro,) a  $\frac{1}{2}$  owns o sudd lemon, a chymysgwch yn dda, a dodwch mewn potel sych at wasanaeth. Sychwch y powdwr. Gellir rhoddi llon'd llwy fwrdd mewn papyr, a'i gario yn y boced; dodder ef mewn haner peint o ddwfr oer, a gwna wydriad rhagorol o lemonade, heb gostio ceiniog y gwydriad.

**LEMON BEER.**—Dwfr, 15 galwyn; ginger root wedi ei ysigo, 3 owns; cream of tartar, 2 owns; siwgr coch, 6 pwys; oil of lemon,  $\frac{1}{2}$  owns; 3 lemon da, wedi eu tafellu; buriym  $\frac{1}{2}$  peint.—Berwch y ginger a'r cream of tartar am 20 munud mewn 2 alwyn o ddwfr; ystreiniwch ar y siwgr a'r oil of lemon, neu y lemons, yna ychwanegwch y dwfr poeth i 15 galwyn; gweithiwch y buriym yn bâst, gyda 5 neu 6 owns o flawd. Gadewch iddo gweithio dros nôs, ystreiniwch a photelwch at wasanaeth. Ceidw am 20 diwrnod.

**LEMONADE LLAETH.**—Toddwch  $\frac{1}{2}$  pwys o siwgr mewn peint o ddwfr berwedig; ychwanegwch 4 llon'd llwy fwrdd o lemon juice, ac yn agos i haner peint o sherry, a pheint neu ychwaneg o laeth da. Trowch yn dda, ac ystreiniwch.—Gellir rhoddi mwy o siwgr a spices, yn ol yr archwaeth.

**ORANGE WINE.**—At bum galwyn o ddwfr ffynon, dodwch 15 pwys o siwgr lwmp, a gwyn wy 3 o wyau, wedi eu curo yn dda; gadewch iddo ferwi am chwarter awr, ac fel y cyfyd yr ysgum, tynwch eff ymaith; pan yn oer, ychwanegwch sudd triugain o oranges Seville a phump

o lemons; piliwch ddeg o oranges, a phump o lemons, mor deneu ag y mae yn bossibl; dodwch hwy ar liny, a hongiwch hwy yn y baril am ddaud fis; yna tynwch hwy allan, a dodwch i mewn bwys o siwgr lwmp, a chauwch y bwng i fynu.

**PARSNIP WINE.**—Cymerwch 15 pwys o parsnips wedi eu tafellu, a berwch hyd nes y byddont yn hollol feddal, mewn 5 galwyn o ddwfr; gwasgwch y sudd allan o honynt yn llwyr, rhedwch trwy ogr, ac ychwanegwch 3 phwys o siwgr bras at bob galwyn o'r sudd. Pan agos a bod yn oer, ychwanegwch ychydig furym ar fara wedi ei grasu. Gadewch iddo aros mewn twb am 10 diwrnod, gan ei droi yn dda bob dydd; yna dodwch mewn baril am flwyddyn. Fel y gweithio allan, llenwch i fyny bob dydd.

**PERSIAN SHERBET.**—Siwgr wedi ei falu, 1 pwys; carbonate of soda, 4 owns; tartaric acid, 3 owns; dodwch yr holl bethau hyn yn y pobty, pan y byddo yn weddol boeth, ar bapurau gwahanol, i sychu pob lleithder allo fod ynddynt, yna rhwbiwch oddeutu deugain diferyn o lemon oil i'r siwgr mewn mortar, yna ychwanegwch y soda a'r acid, a chymysgwch hwy yn dda.—Potelwch a choreiwch yn glôs. Mae llon'd llwy fwrdd o'r powdwr hwn, trwy ei doddi mewn gwydr agos yn llawn o ddwfr, a'i yfed yn gyflym, yn gwneyd diod hyfryd yn yr haf; gweithreda dau neu dri glasiad yn rhyddhaol. I rai yn dueddol at fod yn rhwym, bydd yn llawn mor llesiol a'r seidletz powder, ac i blant y mae lawer yn fwy dymunol.

**RASPBERRY WINE.**—At bob chwart o raspberries wedi eu pigo yn dda, rhowch chwart o ddwfr, malwch, a gadewch iddynt sefyll deuddydd; ystreiniwch ymaith y gwlybwr, ac at bob galwyn rhoddwch dri phwys o siwgr lwmp; pan fydd wedi toddi, rhoddwch y gwlybwr mewn baril, a phan yn glir, yr hyn a fydd yn mhen tua dau fis, potelwch ef yn glôs.

**RHUBARB WINE.**—Gellir gwneyd gwin iachusol a dymunol o'r rhubarb gerddi. At bob galwyn o sudd, ychwanegwch 1 galwyn o ddwfr meddal, a saith pwys o siwgr coch; llenwch y faril yn ol y

cyfartaledd yma, a chedwch hi yn llawn gyda dwfr wedi ei felysu fel y gweithia drysodded, hyd nes y byddo yn glir. Gadewch iddo aros yn y faril hyd y gwanwyn, a dodwch ef mewn poteli.

**RHUBARB WINE at wasanaeth presenol.**—At bob 4 pwys o'r rhubarb wedi ei dori yn fân, rhoddwch 1 galwyn o ddwfr berwedig, gan ychwanegu 4 pwys o siwgr rhad, ychydig cinnamon, allspice, cloves, a nutmeg wedi ei ratio; gadewch iddo sefyll am 24 awr, ystreiniwch a gweithwch am ychydig ddyddiau, a photelwch.

**ROOT BEER.**—*Cwrw gwreiddiau.*—At bob galwyn o ddwfr a ddefnyddir, cymerwch o hops, cacamwci (*burdoc*), tafol melyn (*yellow dock*), sarsaparilla, dandelion, gwraidd spikenard, y cwbl wedi eu hysigo,  $\frac{1}{2}$  owns o bob un at bob galwyn; berwch am ugain munud, ac ystreiniwch tra yn boeth, ac ychwanegwch o 8 i 10 diferyn o oil of spruce; pan ychydig yn oerach, dodwch lwyaid neu ddwy o furyn da; mae dwy ran o dair o beint o driagl, neu  $\frac{1}{2}$  pwys o siwgr, yn ddigon i felysu pob galwyn o hono. Gellwch ychwanegu unrhyw wreiddyn meddygol arall at y ddiod. Pan wedi ei chynysgu, gadewch iddi sefyll mewn jar am 2 awr i weithio, potelwch a dodwch mewn lle oer. Dylai teuluoedd wneyd y ddiod hon bob gwanwyn, ac yfed yn helaeth o honi, a thrwy hyny arbed biliau meddygon.

**SODA WATER i'w boteli heb beiriant.**—Yn mhob galwyn oddwfr a ddefnyddir, toddwch  $\frac{1}{2}$  pwys o siwgr wedi ei falu, a 1 owns o carbonate of soda; yna llanwch boteli haner peint a'r dwfr hwn, a gofalwch am gyrcs yn barod; diferwch i bob potel  $\frac{1}{2}$  dram o citric acid yn grystal, a chorciwch a rhwymwch ar unwaith. Rhaid i'r poteli hyn gael eu trin gyda gofal rhag eu hysgwyd, a'u cadw mewn lle oer, hyd nes y byddo angen am danant.

**DIODYDD I GLEIFION.**—**TE BALM A MINT.**—Tywelltwch ddwfr berwedig ar y dail, gorchuddiwch y llestr, a dodwch mewn lle cynes yn agos i'r tân. Y mae yn ddiod lesiol i rai mewn fevers.

**HYSON TEA.**—Sicrheir ni fod tē gwan o dē gwyrdd (*green tea*) heb laeth na siwgr, yn ddiod iachusol i rai yn dyodd-

ef oddiwrth y rheumatism, fevers, neu anwyd.

**LLAETH MULES.**—Mae hwn yn feddyginiaeth ragorol mewn llawer o anhwyldeira. Dylid ei odro i wydr a fyddo yn cael ei gadw yn dwym, trwy ei roddi mewn cawg o ddwfr poeth.

**DYNWAREDIAD O LAETH MULES NEU AFR.**—Ychwanegwch owns o siwgr mân, haner owns o gelatine, wedi ei doddi mewn haner peint o barley water, at beint o laeth buwch newydd ei odro. Gall cleifion y byddo eu hystumogau yn rhy weiniaid i gymeryd laeth gafr, gymeryd hwn yn rhwydd.

**DIOD CREAM OF TARTAR.**—Cream of tartar, un owns; essential oil of lemons, pymtheg diferyn; siwgr gwyn dwy owns; dwfr berwedig, dau beint. Cymysgwch, yfwech yn oer.

**LEMONADE HALENAIDD.**—Halen cyffredin, un dram; chlorate of potash, un dram a chwarter; Rockelle salts, un dram; phosphate of soda, un scruple; sudd lemon, owns a haner; syrpu of lemon, pedair owns; dwfr, dau beint. Cymysgwch. Diod ddefnyddiol mewn colera, dolur rhydd, &c., yn yr haf.

**SEIDLITZ POWDERS.**—Gellir cael y powdwrts yma wedi eu gwneyd i fyny yn barod gan y druggist. Maent yn rhagorol i oeri y corff.

**BARLEY WATER.**—Berwch owns o pearl-barley am ychydig funudau i'w lanhau, yna dodwch arno chwart o ddwfr, lledferwch am awr; pan yn haner digon, dodwch ynddo ddernyn o groen lemon, a dernyn o siwgr. Gellwch ychwanegu sudd lemon, os byddwch yn dewis.

**GRANULATED EFFERVESCENT CITRATE OF MAGNESIA.**—Gwna hwn ddiod ddy-munol ac adfywiol. Rhodder llonaid llwy dē mewn tumbler, llanwer ef a dwfr ffynon, a throer yn gyflym am haner munud. Gellir ei gael yn siop y druggist.

**DWFR LEMON.**—Dodwch ddwy dafel o lemon, wedi ei bilio yn deneu, mewn tea-pot, dernyn bychan o'r croen, a deruyn o siwgr; tywelltwch i mewn beint o ddwfr berwedig, a chauwch arno yn glōs am ddwy awr.

**TOAST A DWFR.**—Craswch yn araf o flaen y tân, dafell deneu o fara, nes y byddo yn galed a brown, ond nid yn ddu.

yna rhoddwch mewn llonaid jug o ddwfr, a rhoddwch gauad arno am ddwy awr cyn ei ddefnyddio. Dylai fod o liw brown prydferth cyn ei yfed. Mae yn dra defnyddiol i gleifion yn gyffredinol.

**EGG WINE.**—Curwch wŷ, cymmysgwch gydag ef lwyaid o ddwfr oer; dodwch wydriad o win gwyn ar y tân, haner gwydriad o ddwfr, siwgr, a nutmeg. Pan y berwa, tywalltwch ychydig o hono at yr wŷ yn radol, nes y byddo y cwbl i mewn, gan ei droi yn dda; yna dychwelwch y cwbl i'r sospan, rhowch ar dân araf, trowch ef yr un ffordd am haner munud; ni ddylai ferwi ar un cyfrif, obegid os gwna, fe gawsia.

**BARA DA.**—Y peth cyntaf tuag at gael bara da, yw gallu cael burym da. Dyma gyfarwyddyd i wneyd

*Burym rhagorol.*—Berwch, dywedwch ar ddydd Llun y boreu, ddwy owns o'r hops goreu mewn pedwar chwarter o ddwfr am haner awr; ystreiniwch ef, a gadewch i'r gwlybwr oeri nes y byddo o dymeredd laeth newydd ei odro; yna dodwch ynddo ddyrnaid bychan o halen, a haner pwys o siwgr; curwch bwys o flawd da gyda pheth o'r gwlybwr, yna cymysgwch yn nghyd yn dda. Dydd Mercher, ychwanegwch dri phwys o bytatws wedi eu berwi, a'u malu, i sefyll hyd ddyd Iau; yna ystreiniwch ef, a dolwch mewn poteli, ac y mae yn barod i'w ddefnyddio. *Rhaid ei droi yn anlorth ei wneyd, a'i gadw yn agos i'r tân.* Cyn ei ddefnyddio, ysgydwch y botel yn dda. Ceidw mewn lle oer am ddau fis, ac â yn well o hyd. Rhagoroldeb y burym yma ydyw ei fod yn gweithio ar unwaith, heb angen cymhorth burym arall; ac os cymerir gofal i adael iddo weithio yn dda yn i llestr pridd y gwneir ef ynddo, gellwch ei gorcio yn dyn ar ol ei boteli. Bydd y swm a nodwyd uchod, yn ddigon i lenwi pedair potel.

*Bara da.*—At bob saith pwys o flawd, ychwanegwch ddwy lon'd dessert spoon o halen; a chymysgwch hwy yn dda; cymysgwch haner peint o furym ffres da gyda peint o ddwfr cynes, ond heb fod yn boeth; gwnewch dwll a'ch llaw yn rŷhanol y blawd, ond heb gyffwrdd a gwaelod y badell; tywelltwch y dwfr a'r burym i'r twll hwn, a throwch ef â llyw nes y bydd yn does teneu; lluchiwch

ychydig flawd drosto, gorchuddiwch y badell â llian sych, a gadewch iddo sefyll mewn ystafell gynnes am awr; heb fod yn ymyl y tân, oddigerth ar dywydd oer, ac heb fod yn rhy agos y pryd hyny: yna ychwanegwch ddau beint o ddwfr cynes, ond heb fod yn rhy gynnes, a thyllwch y cwbl yn nghyd yn dda, nes y bydd y toes yn dyfod yn lân oddiwrth y dwylaw (mae ambell flawd yn gofyn ychydig mwy o ddwfr nag a nodir yma; ond yn hyny, arferiad raid fod eich arweinydd); gadewch iddo sefyll am oddeutu chwarter awr, ac yna craswch pan y mynoch.

**PYTATWS MEWN BARA.**—Rhoddwch bymtheg pwys o flawd mewn padell fawr yn agos i'r tân i gynhesu; cymerwch bum'pwys o bytatws da, y rhai mwyaf blawdiog yw y goreu; piliwch a berwch hwy fel at eu bwyta, a mashiwch yn bur fân, yna cymysgwch â hwy gymaint o ddwfr oer ag a fyddo yn angenrheidiol i'w gyru, oddigerth lymphiau mân, trwy ogr bras i'r blawd, yr hwn sydd yn barod i'w derbyn; ychwanegwch y burym, &c., fel y cyfarwyddwyd o'r blaen at wneyd bara, a chymysgwch yn y ffordd arferol. Mae y bara hwn yn well na bara wedi ei wneyd o flawd yn unig, ac y mae yn *llawer rhatach.*

**BARA RICE.**—Cymerwch bwys a haner o rice, a berwch ef yn araf uwch ben dân araf, mewn tri chwarter o ddwfr am oddeutu pum' awr, gan ei droi, ac wedi hyny ei guro yn bâst esmwyth. Cymysgwch hwn, tra yndwfm, mewn wyth pwys o flawd, gan ychwanegu yr un pryd y swm arferol o furym. Gadewch y toes wrth y tân am yr amser gofynol, ac yna rhanwch ef yn fara, a cheir y bydd ar ol ei grasu, yn fara da a maethlon. *Mae yn rhatach o lawer na bara blawd yn unig.*

**CACENAU.**—Plum cake.—Pwys o flawd, chwarter pwys o ymenyn, chwarter pwys o siwgr, chwarter pwys o gurrants, tri wŷ, haner peint o laeth, a llon'd llwy dê fechan o carbonate of soda. Y mae yr uchod yn rhagorol.

**SPONGE CAKE.**—Pwyswch ddeg o wyau, â'u pwysau o siwgr da, a phwysau chwech o honynt o flawd; curwch y melyn wŷ gyda'r blawd, a'r gwyn wŷ ar ei ben ei hun, nes y byddo yn ffroth

stiff; yna, yn raddol, cymysgwch y gwyn wŷ, a'r blawd, a'r pethau eraill, a churwch hwy yn dda an haner awr. Craswch am awr.

**CACEN RAGOROL A RHAD.**—Dau bwys a haner o flawd, tri chwarter pwys o siwgr, tri chwarter pwys o ymenyn, haner pwys o gurrants, neu chwarter pwys o raisins, chwarter pwys o orange peel, dwy owns o carraway seeds; haner owns o cinnamon wedi ei falu, pedair llon'd llwy dé o carbonate of soda; cymysgwch yn dda gydag ychydig yn well na pheint o laeth newydd. Rhaid toddi yr ymenyn cyn ei gymysgu a phethau eraill.

**DROP CAKES.**—Peint o flawd, a haner pwys o ymenyn, chwarter pwys o siwgr lwmp wedi ei falu, haner nutmeg wedi ei gratio, dyrnaid o gurrants, dau wŷ a phinsiad o carbonate o soda. I gael eu crasu mewn pobtŷ heb fod yn rhy boeth, am ddeg munud neu chwarter awr. Gwna y swm uchod oddeutu deg ar hugain o gacenau rhagorol.

**SODA CAKE.**—Blawd, haner pwys; bi-carbonate of soda, dau dram; tartaric acid, dau dram; ymenyn, pedair owns; siwgr gwyn, dwy owns; currants, pedair owns; dau wŷ; laeth cynes, haner llon'd cwpan.

**GINGER CAKES.**—At ddau bwys o flawd, ychwanegwch dri chwarter pwys o siwgr llwyd da, un owns o'r Jamaica ginger goreu, wedi ei gymysgu yn dda a'r blawd; bydded genych yn barod, dri chwarter pwys o lard wedi ei doddi, a phedwar o wyau wedi eu curo yn dda; cymysgwch y lard a'r wyau yn nghyd, a trowch yn y blawd, yr hwn a ffurfia bâst: rholiwch allan yn deisenau tneuron, a chraswch mewn pobtŷ gweddol boeth. Gellir gwneyd Lemon Biscuits yn yr un modd, ond rhoddi essence of lemon yn lle ginger.

**TEA CAKES.**—Cymierwch o flawd, un pwys; siwgr, un owns; ymenyn, un owns; muriatic acid, daudram; bi-carbonate of soda, dau dram; laeth, chwech owns; dwfr, chwech owns. Rhwbiwch yr ymenyn i'r blawd; toddwch y siwgr a'r soda yn y laeth, a'r acid yn y dwfr. Yn gyntaf, ychwanegwch y laeth, &c., at y blawd, a haner cymysgch hwy; yna y dwfr a'r acid, a chymysgwch yn dda yn nghyd;

rhanwch yn dair rhan, a chraswch am bum' munud ar hugain. Tins crynion fflat, neu ddysglau pridd yw y llestri priodol i'w crasu ynddynt. Os gwneir y cacenau hyn gyda baking powder, gellir rhoddi llon'd llwy dé yn lle y soda a'r acid, a gwneyd pobpeth arall yn ol y cyfarwyddyd. Osdefnyddir laeth enwyn, rhaid gadael allan yr acid, laeth, a'r dwfr.

**BATH BUNS.**—Chwarter pwys o flawd; pedwar melynwy a thri gwynwy wyau, gyda phedair llwyad o furym ffres tew da. Curwch mewn bowl, a dodwch o flaen y tân i godi; yna rhwbiwch i bwys o flawd, ddeg owns o ymenyn; rhoddwch ynddo haner pwys o siwgr, a carraway comfits; pan fyddo yr wyau a'r burym yn lled ysgafu, cymysgwch y cwbl yn nghyd yn araf; tafwch liain drostynt, a dodwch o flaen tân i godi. Gwnewch y buns, a phan ar y tins, brwshiwch drosodd a melyn wŷ a laeth; lluchiwch carrawayseeds hyd-ddynt; craswch mewn ffwrn boeth.

**BUNS PLAEN.**—Rhwbiwch bedair owns o ymenyn, mewn dau bwys o flawd, pedair owns o siwgr, nutmeg, neu hebddi, fel y dewisoch, ychydig bupur Jamaica, a llonaid dessert spoon o hâd carraway; yna rhoddwch lwyaid neu ddwy o hufen mewn cwpanaid o furym, a chymaint o lefrith da ag a wna yr uchod yn bâst ysgafn. Gosodwch wrth y tân i godi tra byddo y pobtŷ yn poethi. Crasant yn fuan ar tins.

**MUFFINS.**—Cymysgwch ddau bwys o flawd, gyda dau wŷ, dwy owns o ymenyn wedi ei doddi mewn peint o lefrith, a phedair neu bum' llwyaid o furym; curwch yn drwyadl, a dodwch ef i godi am ddwy awr neu dair. Craswch ar badell boeth yn deisenau fflat. Pan fyddo un ochr wedi brownio yn ysgafn, trowch hwynt.

**ROLLS.**—Twymwch owns o ymenyn mewn haner peint o lefrith, dodwch i mewn lwyaid a haner o furym, ac ychydig o halen. Dodwch ddau bwys o flawd mewn padell, a chymysgwch yr uchod i mewn ynddo. Gadewch iddo godi am awr; tylinwch yn dda; gwnewch ef yn saith o rolls, a chraswch mewn pobtŷ poeth.

**PLANT—Y MODD I'W MAGU**

**A'U PORTHI.**—**PLANT.**—Dedwydd yn wir yw y plentyn a borthir, yn ystod cyfnod cyntaf ei fywyd, a llaeth ei fam neu fagwraig yn unig. Os bydd ymborth arall yn angenrheidiol cyn iddo gael dannedd, dylai fod yn hylif: er engraifft, biscuits neu hen fara wedi ei ferwi mewn dwfr a llaeth, yr un faint o bob un, nes y byddo yr un tewychedd a *soup* da; ond ni ddylid rhoddi y bwyd hwn iddo nes bod dros wythnos oed.

Ni ddylid rhoddi **BLAWD** iddo ar un cyfrif yn y byd, gan fod bwyd blawd yn troi yn sylwedd gludïog yn lle maeth yn ei gylla.

**AR OL Y CHWE' MIS CYNTAF**, gellir rhoddi potes teneu o gig llo, neu gyw iar iddo; ychydigar y dechreu, gan gynyddu y dogyn yn raddol; a gellir rhoddi llyisiau iddo, ond gofalu ar iddynt beidio bod yn rhai gwyntog. Y mae carrots, parsnips, endive yn y potes, a ffrwythau wedi eu berwi, megis afalau, gerllyg, eirin, a cherries, yn dda.

**PAN WEDI EI DDIDDYFNU**, a chael dannedd priodol, y mae yn llesiol rhoddi iddo ychydig o gig, a llyisiau eraill, yn ogystal a bwyd wedi ei wneyd o flawd, &c., fel y byddo iddo araf gynefino a phob math o fwyd cryf a maethlon.

**DYLID BOD YN OFALUS**, pa fodd bynag, rhag rhoddi iddo, o dan un amgylchiad, unrhyw *pastry*, caws, dysglau trymion wedi eu gwneyd o flawd, wynwyn, horseradish, mustard, cig hallt, yn enwedig cig moch.

Dylid bod yn ofalus gyda **PHYTATWS**. Mae rhoddi ychydig o honynt gyda llyisiau ereill yn dda, ond ni ddylid eu rhoddi gydag ymenyn.

Nid pwngc dibwys yw **YR AMSER Y DYLID RHODDI YMBORTH**; mae babanod ieuainge iawn yn eithriad; dylid rhoddi bwyd iddynt hwy lawer yn amlach na phlant ychydig yn hynach, trwy eu bod yn tyfu yn gyflymach, ac felly yn galw am ymborth yn amlach.

**AR YR UN PRYD**, priodol ydyw eu harfer i fod yn rheolaidd, trwy roddi iddynt ymborth ar adegau penodol yn ystod y dydd; oblegid y mae profiad yn dweyd fod rhoddi bwyd i blant heb reol na threfn, yn cynyrchu llesgedd ac afiechyd. Dylai yr ystumog ar ol ei llanw, gael amser i adfeddianu ei nerth,

a chasglu ei hylifau, cyn ei llanw eilwaith a bwyd.

**Y MAE Y DREFN GANLYNOL O RODDI BWYD I BLANT** wedi ei phrofi yn fanteisiol ac iachusol.—Ar ol codi yn y boreu, dywedwch am chwech o'r gloch, dylid rhoddi iddynt bryd da o fara wedi ei grasu yn dda, a'i fwydo mewn llaeth claiar; am naw o'r gloch, bara gydag ychydig ffrwythau, neu, os bydd ffrwythau yn brin, ychydig ymenyn ffres; oddeutu deuddeg o'r gloch, y ciniaw—dylent gael pryd da yr adeg yma; cydrhwng pedwar a phump o'r gloch, bara gyla ffrwythau, neu *jam* eirin yn y gauaf.

**AR YR ADEG YMA**, dylai plant gael rhyddid i fwyta hyd y b'ont wedi eu digoni, fel na byddo iddynt fod mewn angen am swper trwm, yr hwn sydd yn sier o aflonyddu ar eu cwsig, a chynyrchu hylifau drwg: yn ddiweddar, oddeutu saith o'r gloch, gellir caniatu iddynt swper ysgaf, cynwysedig naill o laeth, potes, ffrwythau, llyisiau berwedig, a'r cyffelyb, ond dim cig-fwyd, dysglau wedi ei gwneyd o flawd, na'r un math o ymborth tueddol i gynyrchu gwyntogrwydd; mewn gair, ni ddylent fwyta ond ychydig, a hyny awr dda cyn myned i gysgu.

**BARNWYD LAWER GWAITH FOD BARA YN NIWEIDIOL I BLANT**; ond nid gwir y farn yna, ond am fara newydd, neu fara heb ei grasu yn ddigonol; er engraifft nid oes dim mor niweidiol a'r rolls, cremogau, a'r mân fara a werthir yn siopau pobwyr cyhoeddus. Bara gwenith da, wedi ei grasu yn ddigonol, yw ymborth mwyaf priodol plant yn ystod blynyddoedd cyntaf eu bywyd: ond byddai bara gwenith cymysgedig a *rice* yn fwy iachusol iddynt ar ol gadael blynyddoedd mabandod.

**O BERTHYNAS I DDIOD**, y mae meddygon yn erbyn rhoddi symiau mawr i blant, ac ar adegau afreolaidd, pa un bynag a fyddo yn llaeth y fam, ai rhyw ddioid ddiniwaid arall.

**Y MAE YN ANMHRIODOL A NIWEIDIOL** gadael i'r plant fod wrth y fron agos o hyd; a byddai yn llai niweidiol, ac yn wir, yn ddoethach, eu gadael i wylo am ychydig nosweithiau, yn hytrach na'u llanw yn barhaus a llaeth, yr hwn

a droa yn sur yn yr ystumog mewn byr amser, a wahan a peirianau treuliol, ac mewn amser a gynrycha darddiadau afiachus.

**TUA DIWEDD Y FLWYDDYN GYNTAF,** gellir rhoddi dwfr oer iddynt yn achlysur-ol. Y mae y mamau hyny a arferont eu labanod i yfed dwfr glân, yn rhoddi ffortiwn iddynt, ag y bydd ei gwerth yn parhau i gael ei theimlo hyd ddiwedd eu bywyd.

**MAE RHAI PLANT YN ARFER YFED WRTH FWYTA;** byddai yn fwy iachusol pe yr arferid hwy i yfed ar ol bwyta eu bwyd yn unig. Troseddir y rheol rag-orol hon yn aml, er fod yn wybyddus fod llanw a gorlifo yr ystumogau hylifau yn ystod enquad a maliad y bwyd, nid yn unig yn rhwystr treuliad, ond yn cael ei ddilyn gan gallyniadau niweidiol ereill.

**OS YMHOLWN I'R ACHOS FOD PLANT YN WYLO,** cawn mai nid poen na gofid yw yr achos o hono yn aml; y mae y rhai a dybiant hyny yn gwneyd cangymeriad pwysig.

**CYFODA Y DYBIAETH YMA** oddiar y grediniaeth fod babanod a phlant yn amlygu eu teimladau trwy yr un cyfrwng.

**YN YSTOD Y FLWYDDYN GYNTAF O** OES MABAN, dylid ystyried llawer o'r swm a wna yn effaith ymdrech i gryfhau a dadblygu rhai o beirianau y corff.

**YR YDYM YN SYLWI,** er engraifft, fod baban pan y tynir ef yn rhydd o'i ddiellad, yn symud ei draed a'i ddwyllaw, ac yn gwneyd ymdrechion corfforol eraill; ond nid oes neb yn meddwl fod hyny yn tarddu oddiwrth unrhyw gaethiwed gwrthnaturiol a niweidiol.

**Y MAE YR UN MOR ANATURIOL** tynu unrhyw gasgliad anffafriol oddiwrth bob cri a gwaedd a rydd y plentyn; oblegid y mae yr ymdrechion hyn, gan anlaf, yn dangos ymdrech angenrheidiol plant i gryfhau yr ysgyfaint, ac ymarfer peirianau yr anadlu.

**MAE NATUR WEDI BWRIADU** yr ymdrechion hyn i ychwanegu at gryfder, a dadblygu peirianau mor bwysig i fywyd, a'u gwneyd yn fwy perffaith trwy bob cri ac anadliad.

**FELLY Y MAE YN CANLYN** fod y mamau a'r magwraedd ag sydd mor awyddus i ddistewi y plentyn pan yn

wylo neu yn gwneyd swm arall, yn gwneyd llawer o ddrwg yn eu pryder gormodol am ei gysur; oblegid nid yw y babanod yr ymddygir felly tuag atynt braidd byth yn magu bronau llydain a chryffion, tra y gosodir i lawr sylfaen llawer o anhwylderau peryglus.

**AR WAHAN I UNRHYW ACHOSION** neillduol, y mae wylafain a llesfain plant, yn eu heffeithiau cyffredin, yn llesiol iawn ac yn angenrheidiol.

**YN NGHYFNOD CYNTAF BYWYD,** yr ymdrechladau hyn yw yr unig ymarferiad o fewn cyraedd y plentyn; trwyddynt, y mae cylchrediad y gwaed, a hylifau ereill y corff, yn rhedeg yn fwy rheolaidd; trwy hyn, cynorthwyr treuliad a thyfiant y corff; ac y mae y gwahanol hylifau didoedig, a swydd bwysig y croen a'r chwys-dyllau, yn cael eu dwyn yn mlaen yn briodol.

**MAE YNAMRHRIODOL I'R EITHAF** tybio fod pob swm wnelo baban fel yn meddu hawl ar ein cymorth, ac i wthio bywd neu ddioid iddo, gyda'r amcan o dori yr angen tybiedig. Trwy y fath ymddygiadau anoeth, cynorthwyr plant i geisio bwyd ar adegau anhriodol, ac heb fod angen am dano; niweidir eu treuliad; ac o gallyniad llygrir holl hylifau y corff yn yr oedran tyner yma.

**ANBELL WAITH MAE Y FAM NEU Y** FAMMAETH yn codi y baban o'i wely, yn ei gario o gwmpas, yn aml yn nghanol y nos, ac felly yn ei osod yn agored i gael anwyd, yr hyn sydd lawer mwy niweidiol iddo na'i adael i wylo a gwaeddi ychydig.

**DYSGOWN ODDIWRTH BROFIAD DYDDIOL,** mai y plant sydd yn cael lleiaf o foethau sydd yn dyfod yn mlaen oraf, yn dadblygu eu holl beirianau gyntaf, ac yn meddu y cyrrf cryfaf. Maent yn mhob ystyr yn iachach a chryfach plant na'r rhai a ddifethir gan foethau a ffloineb y rhieni.

**NI DDYLID ANGHOFIO RHEOL GYNTAF** A PHWYSICAF addysgiant plant—fod dyn wedi ei fwriadu i fod yn oruchwyliwr rhydd ac annibynol; fod ei alluoedd moesol a naturiol i gael eu cyfl-ddadblygu; y dylid gwneyd yn hysbys iddo cygynted ag y gellir defnyddio ei holl alluoedd, mewn trefn iddo gyraedd y gradd hwnw o berffeithrwydd ag sydd yn gyson a nerth ei beirianau; ac nad



ydoedd yn wreiddiol wedi ei fwriadu i fod yr hyn y ceisiwn ei wneyd trwy foddion celfyddydol.

**Y GAMP FWYAF** wrth addysgu plant ydyw gwyllo yn fanwl dros eu holl weithredoedd, a hyny heb roddi iddynt gyfleusdra i ddarganfod eu bod yn cael eu harwain a'i gwyllo.

**Y MAE YNA AMGYLCHIADAU**, pa fodd bynag, yn y rhai y dylai uchel a pharhaus wylofain y baban gael ein sylw.

**FEL HYN, OS BYDD EU WYLOFAIN YN ANARFEROL UCHEL** a pharhaus, gallwn gasglu eu bod yn cael eu poeni gan waew; os byddant, ar y fath adegau, yn symud eu breichiau a'u dwylaw yn barhaus yn nghyfeiriad eu penau, gall y dannedd fod yr achos; ac os bydd y wylofain anarferol yma yn dychwelyd ar adegau penodol, ac yn cael eu canlyn gan arwyddion o afiechyd, dylid talu sylw iddynt, a cheisio symud yr achos neu yr achosion o honynt.

**NIS GALL BABANOD CYSGU GORMOD;** ac arwydd dda ydyw eu gweled yn cysgu yn esmwyth ac am hir amser; ac ni ddylid ar un cyfrif eu hamddifadu o hyn, oblegid dyma eu prif gynaliaeth.

**MAE BABAN MEWN CYDMARIAETH,** yn byw lawer yn gyflymach na dyn mewn oed; cura ei waed yn gyflymach; gweithreda pob cynhyrfydd yn fwy nerthol; ac nid yn unig y mae ei ranau elfenol, ond ei adnoddau bywiol, yn cael eu treulio yn gynt.

**MAE CWSG YN CYNRCHU RHEDIAD TAWELACH** a mwy cyson y gwaed; rhwyddha briodol gymysgiad y bwyd a gymerir, a chyfrana tuag at ollyngiad allan gyda rhwyddineb y sylweddau meithrinol, tra y mae yr ystum orweddog yn ffafriol i dyfiant a daddblygiad y corff.

**DYLAI CWSG FOD MEWN CYFARTALRWYDD** i oedran y plentyn. Ar ol y chwe' mis cyntaf, gellir rheoleiddio cwsg ac ymarferion corfforol ereill i raddau; ond hyd yn oed y pryd hyny, dylid goddef i'r baban gael cysgu trwy y nos, ac amryw oriau y boreu a'r prydawn.

**DYLAI MAMAU ymdrechuarfer babanod** o adeg eu genedigaeith, i gysgu y nos yn hytrach na'r dydd, ac i'r dyben hyny dylent symud o'r ffordd unrhyw rwystrau, megis swm, goleu, &c., ac yn neill-

duol i beidio ufuddhau i bob cais a wneir ganddynt i gael codi, a chael bwyd ar adegau anhriodol.

**AR OL YR AIL FLWYDDYN** o'u hoedran, ni bydd arnynt eisieu cysgu yn y boreu, er y gellir parhau i'w doddi i gysgu y prydawn hyd y dryddedd neu y bedwaredd flwyddyn, os byddant yn dangos tuedd at hyny; oblegid, hyd bedair oed, gellir caniatáu iddynt gael cysgu haner eu hamser gyda diogelwch,

**O'R OEDRAN YNA,** pa fodd bynag, dylid byrhau oriau cwsg awr am bob blwyddyn o'u hoed; fel y byddo y plentyn saith mlwydd oed yn cysgu wyth, ac heb fod dros naw awr: gellir cysgu y nifer yma o oriau trwy'r oes.

**MAE DEFFROI PLANT YN SYDYN,** neu gyda rhyw swm, yn dra niweidiol; ac nid priodol eu cario yn sydyn o ystafell dywyll i un arall a goleu tanbaidd ynddi; oblegid y mae llewyrch sydyn goleu cryf yn gwanhau y llygaid, ac yn gosod i lawr sylfaen llygaid gweiniaid.

**DYLAI YR YSTAFELL WELY NEU Y FAGWRFA** fod o faintiol gweddol, sych, ac awyrog, ac heb fod neb yn byw ynddi yn ystod y dydd.

**NI DDYLID GODDEF,** hyd y gellir, i forwynion cysgu yn yr un ystafell, ac ni ddylid doddi dillad gwlybion i sychu ynddi, oblegid y maent yn anmharu yr awyr ag sydd mor bwysig i fywyd y rhai bach.

**MAE CANLYNIADAU CYSGU YN Y FATH YSTAFELLOEDD** clôs a llaith yn beryglus, ac yn aml yn angeuol.

**DYLID YMLID GWELYAU PLYF** o ystafelloedd y plant, gan eu bod yn anaturiol ac yn gwanychu y plant yn fawr.

**NI DDYLID GADAEL Y FFENESTRI** byth yn agored y nôs, ond manteisiol eu gadael yn agored trwy'r dydd pan y byddo y tywydd yn deg.

**YN OLAF, NI DDYLID DODI Y GWELY** yn rhy agos i'r llawr; nid priodol ychwaith rhoddi plant i gysgu mewn gwelyau wedi eu gwneud ar y llawr; oblegid y mae yr awyr mwyaf gwenwynig i'w gael o fewn troedfedd neu ddwy i waelod yr ystafell, tra y mae yr awyr iachaf i'w gael tua chanol yr ystafell, a chyfyd yr awyr fflamlyd i'r pen uchaf.

**COGYDDIAETH I BLANT.—**

**BWYD I FABAN.**—Cymerwch olaeth ffres, un llonaid llwy fwrdd, a chymysgwch a dwy lon'd llwy fwrdd o ddwfr poeth; melyswch a siwgr lwmp, cymaint ag a fyddo at ei archwaeth. Mae hyn yn ddigon i'w roddi ar unwaith i faban newydd ei eni; a gellir rhoddi yr un swm bob dwy awr neu dair—dim amlach—hyd nes y byddo bron y fam yn rhoddi meithrinriad priodol.

**LLAETH I FABANOD CHWE' MIS OED.**—Cymerwch un peint o laeth, un peint o ddwfr; berwch hwy, ac ychwanegwch un lwyaid o flawd. Toddwch y blawd gyntaf mewn cwpanaid o ddwfr; rhaid ei straenio i mewn yn raddol, a'i ferwi ynddo am ugain munud. Fel y byddo y baban yn cryfhau, un ran o dair o ddwfr ddylid roddi am ben y llaeth. Os wedi ei wneyd yn briodol, y mae y bwyd mwyaf maethlon, ac ar yr un pryd yr hawddaf ei roddi i fabanod ieuainge.

**MAE POTES** wedi ei wneyd o gig oen neu gyw iar, gyda hen fara wedi ei grasu, a'i falu ynddo, yn fwyd diogel i'w roddi i giniaw i blant newydd eu diddyfnu.

**MAE LLAETH FFRES** oddiwrth y fuch, gydag ychydig siwgr lwmp ynddo, yn fwyd iach a diogel i blant ieuainge. O dair blwydd oed hyd saith, llaeth pur, gyda hen fara wedi ei falu ynddo, yw y brecwast a'r swper goreu i blentyn.

**BWYD IACH I BLENTYN.**—Tafell o fara hen a da ac ychydig o ymenyn ffres arno yw y bwyd goraf ellir roddi iddo yn achlysurol.

**BWYD BLAWD CEIRCH.**—Cymysgwch bedair llonaid llwy fwrdd i chwart o laeth, ac yna cymysgwch ef yn gyflym mewn chwart o ddwfr berweddig, a berwch am ychydig funudau hyd nes y tywycho: melyswch a siwgr. Y mae blawd ceirch, os yn cytuno a'r ystumog, y math goraf o fwyd ellir roddi i blant, trwy ei fod yn cadw y corff yn agored ac yn ei lanhau: mae blawd mân a gwyn yn effeithio yn hollol i'r gwrthwyneb. Mae *biscuits* wedi eu malu yn fân yn fwyd da. Dylid cadw yr holl grystiau a'r gweddillion ar ol y plant, bara wedi sychu, &c., a'u doddi yn y pobtŷ i sychu a chrasu, a'u malu yn llwch, a gwna fwyd iach i'r plant.

**CIGFWYD I BLANT.**—Mutton, lamb, a chywion ydynt y goreu. Dylai y cig-

oedd hyn gael eu coginio yn araf, ac ni ddylid rhoddi dim *gravy*, os bydd ymenyn ynddo, i'r plant. Na roddwch gwydn, caled, ac heb ond haner ei goginio, i blant.

**LLYSIEUFWYD, WYAU, &c., I BLANT.**—Ni ddylid berwi eu rice mewn niwy o ddwfr nag a fyddo yn angenrheidiol i'w wlychu a rhoddi lle iddo i chwyddo; na rodder gormod o ddwfr wrth grasu eu hafalau; gofaler am goginio eu llysiu mor dda fel na byddo angen ond am ychydig o ymenyn, a llai na hyn o waith treulio arnynt; berwer eu hwyau yn araf a meddal. Dylid berwi y llaeth yn ol cyflwr eu cyrff; os yn wyntog bydd yn lles rhoddi ychydig *curry-powder* ynddo. Y mae hadau poethion (ond nid pupur) yn ddefnyddiol ar y fath achlysuron.

**PYTATWS A PHYS.**—Maerhai mathau o bytatws yn anhawdd i blant eu treulio; ond gellir symud yr anhawsder hyn y trwy eu mashio yn fân iawn, a doddi ychydig laeth a siwgr ynddynt. Pan y coginir pys i blant, bydded iddynt gael eu blasuso a mintys a siwgr, yr hyn a gymer ymaith y gwyntogrwydd. Os yn hen, dylid tynu ymaith y crwyn, trwy eu bod yn hollol anhreuliol i blant. Na rodder iddynt un math o lysieu heb eu coginio yn drwyadl.

**PWDIN RICE GYDA FFRWYTHAU.**—Mewn peint o laeth newydd dodder dwy lon'd llwy fwrdd o rice, wedi ei olchi yn dda; yna ychwanegwch ddau afal; wedi eu pilio a'u chwarteru, neu ychydig gurrants neu raisins. Lledferwch yn araf hyd nes y bo y rice yn hollol feddal, yna ychwanegwch un wy wedi ei guro i'w rwywio: serfiwch gyda hufen a siwgr.

**PWDINAU A CHREMOGAU I BLANT.**—Gwna siwgr ac ŵy, wedi ei grasu o flaen y tân, neu ei grasu mewn padell boeth, heb ddim brasder, bryd iachus a dymunol.

**I BAROTOI FFRWYTHAU I BLANT.**—Rhoddwch afalau wedi eu tafellu neu eirin, currants, gooseberries, &c., mewn *jar* gareg, a thaenellwch gymaint o siwgr ag a fyddo yn angenrheidiol. Dodwch y *jar* mewn pobtŷ, gyda chwpanaid o ddwfr ynddi i'w ffrostro y ffirwyth rhag llosgi; neu dodwch y *jar* mewn sospensaid o ddwfr hyd nes y gwnelo ei chynwys.

Gellwch ddodi tafellau o fara neu *rice* y jar, yr hwn sydd i'w fwyta gyda'r ffrwyth. Mae ffrwythau wedi eu coginio fel hyn lawer iachach nag yn bwdinau neu basteiod.

**AFALAU A RICE.**—Piliwch a chwarterwch ddigon o afalau i lanw y ddysgl; berwch hwy mewn syrur teneu: parotowch chwarter pwys o rice mewn llaeth gyda siwgr a halen; dodwch beth o'r rice yn y ddysgl, dodwch yr afalau i mewn, a llenwch y gwageoedd gyda rice; craswch hyd nes y byddo oliw da.

**TEISEN AFALAU I BLANT.**—Gratiwch swm o hen fara, a thafellwch oddeutu dwbl swm hyny o afalau; irwch y ddysgl neu y mould ag ymenyn, a gorchuddiwch a phâst siwgr, a thefwch iddi beth briwsion bara, gydag ychydig siwgr; yna dodwch yr afalau i mewn, gyda thameidiau bychain o ymenyn drostynt, a pharhewch felly nes y bo y ddysgl yn llawn; gorchuddiwch a briwsion, neu rice parotöedig; blasuswch a cinamon a siwgr. Craswch hi yn dda.

**FFRWYTHAU I BLANT.**—Rhaid i baw ag sydd yn credu yn naioni y Creawdwr gredu fod ffrwythau yn dda yn eu tymhorau. Ac eto y mae bwyta ffrwythau haf yn aml yn achosi afiechydon angeuol, yn enwedig i blant. Sut y mae hyn? Am nad ydym yn cydymffurfio a deddfau natur wrth ddefnyddio y math yma o ymborth. Mae y deddfau yma yn syml iawn, a hawdd eu deall. Bydded i'r ffrwyth fod yn aeddfed cyn cyfranogi o hono; ac na fydded i neb fwyta o honynt ond pan fo arnynt eisieu *bwyd*. Mae ffrwythau a hadau ynddynt lawer yn iachach na rhai a cheryg ynddynt. Ond mae pob math o ffrwythau lawer yn well i blant os coginir hwy mewn unrhyw fodd, a'u bwyta gyda bara. Mae y Ffrencyn bob amser yn bwyta bara gyda ffrwyth heb eu coginio. Mae afalau a gerllyg yn ymborth rhagorol i blant,—yn wir, i unrhyw berson mewn iechyd—ond dylid gofalu eu bwyta i frecwast neu i giniaw. Mae eu cymeryd yn hwyr y nôs yn niweidiol. Mae yr hen ddywediad, *fod afalau yn aur yn y boreu, arian ganol dydd, a phlwm y nos*, yn agos iawn i'r gwirionedd. Mae ffrwythau wedi eu stiwiw yn rhagorol i bersonau gweiniaid, y rhai na allant

oddef ffrwythau oerion. Gellir gwneyd y ffrwythau a gesglir yn anaeddfed yn faethlon ond eu preserfio mewn siwgr.

**MAE CURRANTS COCHION** yn fwyd rhagorol i blant, os byddant yn aeddfed. Ysigwch y ffrwyth, lluchiwch ychydig siwgr ar hyd-ddynt, a chyda bara da gallant fwyta yn ehelaeth o honynt.

**JAM MWYAR DUON.**—Cesglwch y ffrwyth ar dywydd sych; caniatewch haner pwys o siwgr llwyd da at bob pwys o'r ffrwyth; berwch yr oll yn nghyd yn araf am awr, neu hyd nes y byddo yr holl fwyar duon wedi meddalu yn dda, gan eu troi a'u cymysgu yn llwyr. Preserfiwch fel pob jam arall, a cheir y bydd yn hynod ddefnyddiol, yn enwedig i blant, gan y ceidw eu cyrff yn rhyddion. Gellir ei ddefnddio ar fara, neu mewn pwdin: ac hyd yn nod pan y prynir y mwyar duon, y mae yn rhatach nag ymenyn. Dylai pob teulu yn y wlad breserfio haner pecaid o fwyar duon.

**DISGYBLAETH PLANT.**—Ni ddylid goddef i blant ofyn ddwywaith am yr un peth. Gellir cyraedd hyn gan y fam neu'r forwyn, trwy dalu sylw i'w hangenion bychain, a rhoddi iddynt eu ceisiadau, os yn briodol, ar unwaith. Dylid dysgu plant i ddeall pan na byddont yn cael sylw uniongyrchol fod hyny yn anghyfleus y pryd hyny. Bydded iddynt ymarfer amynedd trwy aros.

**TE, COFFI, &c.**—**AWGRYMIADAU I YFWYR TE.**—Gochelwch de uchel bris, yn enwedig te gwyrd, trwy fod y rhai hyn yn derbyn eu blas a'u harogl uchel oddiwrth sylweddau niweidiol. Mae pob math o dê gwyrd i raddau yn niweidiol; gweithredau yn nerthol ar y *nerves*, a niweidiau yr ystumog. Mae tê du da nid yn unig yn ddyogel, ond yn iachusol; ond dylid ei gymeryd bob amser gyda swm priodol o siwgr a llaeth.

**Y FFORDD OREU I WNEYD TE.**—Y teapot goreu yw yr un metl; ceidw y gwres yn hwy na llestr pridd. Teapot arian yw y goreu, trwy y gall teapots metelaidd ereill gynwys defnyddiau o duedd niweidiol. Wrth wneyd tê, ysgaldiwch y teapot yn gyntaf peth, yna rhoddwch y tê i mewn; haner llon'd llwy dê ar gyfer pob person ag sydd i gyfranogi o hono, gyda llwyaid ychwanegol os dau vn unig fydd yn bresenol.

Tywelltwh y tê i'r teapot mewn llon'd cwpan goffi o ddwfr berwedig, ac os bydd y dwfr yn galed, ychwanegwch hinsiad o carbonate of soda. Gadewch i'r teapot sefyll ar y pentan neu o dan orchudd gwlanog am ddeg munud. Ychwanegwch ddwfr berwedig yn ol nifer y cwmni. Os rhaid i chiwi, o herwydd bychandra y teapot, roddi dwfr eilwaith ar y tê, gwnewch hyny wedi i chiwi haner llanw y gwpanaid gyntaf. Felly bydd i chiwi allu gwneyd pob cwpanaid o gyfartal nerth. Os bydd angen am ychwaneg o dê, dodwch i sefyll mewn cwpanaid o ddwfr poeth cyn ei ddodi i mewn. Mewn trefn i sicrhau cwpanaid o dê da, dylai pob gwraig brynu tê du mewn gwahanol siopau, a'u gymysgu. Dylid cadw tê mewn llestr *tin* clôs.

**AWGRYMIADAU I YFWYR COFFI.**—Defnyddir coffi yn y boreu, ar ol ciniaw, ac yn yr hwyr. Mae y nifer fwyaf o bobl yn hoff o hono fel diod tra adfywiol. Os teimlir dwfr poeth yn codi o'r ystumog ar ol ei yfed, dylid ei roddi i fyny. Mae o ddefnydd mawr i rai ar y môr, ac yn anmhrisiadwy i symud ym-aith deimlad o flinder a llesgedd. Gall y rhai a fyddont yn cael eu gorfodi i aros yn hwyr ar eu traed gadw cwsig draw trwy ei ddefnyddio. Ni ddylai neb fo'n dymuno cwsig tawel ac esmwyth ei yfed yn ymyl myned i'w wely. Dylai personau yn cael eu poeni gan ddiffyg treulïad ei adael yn llonydd. Mewn ym-ysodiadau o ddiffyg anadl y mae yn ddefnyddiol.

**I WNEYD COFFI.**—Defnyddiwch y coffi goreu. At wyth o gwpaneidiau, defnyddiwch yn agos i wyth cwpanaid o ddwfr; rhoddwch i mewn gymaint o goffi ag a fynoch; hefyd ychydig isinglass; berwch am funud, cymerwch ym-aith, a rhoddwch ynddo gwpanaid o ddwfr hollol oer yr hwn a garia y *grounds* i'r gwaelod; mewn pum munud bydd yn hollol glir.

**COFFI MILK.**—Berwch lon'd llwy fwrdd o goffi maledig am 15 munud mewn peint o laeth, dodwch ynddo ychydig *isinglass*; cliriwch; berwch am funud; taffwch i mewn ychydig o ddwfr oer i yru y *grounds* i'r gwaelod. Gadewch iddo sefyll wrth y tân am ddeg munud.

**PETH YN LLE HUFEN MEWN TE NEU GOFFI.**—Curwch wyn wy nes y byddo yn ffroth, rhoddwch ychydig bach o ym-enyn ynddo, a chymysgwch yn dda. Yna trowch yn raddol wrth dywallt y tê neu y coffi arno, fel na byddo iddo gawsio. Os cymysgir yn dda, gwna y tro yn rhagorol yn lle hufen.

**CHOCOLATE.**—Rhoddwch deisen fechan o chocolate mewn peint o ddwfr berwedig, wedi ei thori yn dafelli mân; curwch yn dda nes y byddo wedi toddi yn llwyr, a dodwch ar dân araf hyd nes y byddo agos a berwi. Ceidw amryw ddyddiau. Wrth ei ddefnyddio, cynheswch a chymysgwch â siwgr, ac ychwanegwch lwyaid o laeth da wedi i chiwi ei dywallt i'r gwpan.

**COCOA.**—Ceisier ef wedi ei falu yn fân, a berwer ef mewn llaeth neu ddwfr, gan ychwanegu siwgr yn ol yr archwaeth. Y mae cocoa lawer yn fwy maethlon na thé neu goffi.

**DEWIS, PRYNU, AC ADEILADU TY.**—*Dewis Ty.*—Y mae dewis tŷ mor bwysig a dewis cyfaill. Y tŷ goreu yw un heb fod yn rhy bell o'r fan y byddwch yn cario eich masnach yn mlaen neu yn gweithio ynddo—mewn cymydogoeth ysgrafn ac iachus, ac heb fod yr ardreth yn cynwys y trethi, dros y chweched ran o'ch enillion. Na ddewiswch gymydogoeth am yr unig reswm ei bod yn *fashionable*, a byddwch ofalus am beidio cymeryd tŷ newn cymydogoeth amheus. Byddwch yn dra gofalus ei fod yn sych, ffosydd priodol o'i gylch, a digonedd o ddwfr pur. Un yn gwyn-ebu i'r deheu neu y gorllewin yw y goreu. Os bydd pryfaid yn y tŷ, gochelwch ef. Gwelwch fod y drysau a't ffenestri wedi eu sicrhau yn ddigonol, ac fod modd awyru y tŷ yn briodol ac na fo y simneiau yn mygu.—Bydded i bob adgyweiriadau gael eu gwneyd gan berchen y tŷ cyn i chiwi gwblhau y eytundeb, neu y tebygolrwydd yw y bydd yn rhaid i chiwi eu gwneyd ar eich côst eich hun. Na fydded genych ddim i'w wneyd a pherchenog tŷ ag sydd yn cael y gair o fod yn gybyddlyd, gwangc-us, neu hoff o gyfreithio. Yn mhob achos mynwech y cytundeb, pa beth byn-ag a fydd, ar hapur stampiedig. Gochelwch gymydogoeth a fônig ddioglyd a

budr, ffrwd melin, neu lyn o ddwfr croew. Y dirwy am hyny ydyw y rheumatism, cryd, llygaid gweiniaid, diffyg archwaeth, diffyg anadl ac anhwylderau poenus ereill. Dewiswch breswylfod yn mhell oddiwrth farcerdai, gweithydd canwyllau, sebon, a chyffyr-iaiu. Dylid cadw draw hefyd oddiwrth hen fynwentydd a lladd-dai cigyddion. Mae lle isel yn beryglus, yn enwedig pan fyddo *fevers* o gwmpas. Na chymerwch byth lês ar dŷ mewn heol gul, os na fydd digonedd o le agored y tu cefn iddo. Mae tai wedi eu hadeiladu gyda tywod y môr yn llaith yn y gauaf; mae y fath dŷ yn dra anghyfadfasol lle byddo plânt. Mae tŷ a dau ddrws iddo yn iachach na dim ond un. Cyn gwneyd cytundeb am dŷ ymdrechwech gael ei hanes gan un wedi bod yn byw ynddo.

*Prynu Ty.*—Wrth brynu ty, hen neu newydd, nac ymddiriedwch mewn ymddangosiad, na dibynu ar eich barn eich hun. Pan y byddwch wedi dewis tŷ tebygol o fod yn gyfaddas i'ch teulu ac heb fod yn ormod i'ch pwrs, cyflogwch *surveyor* i archwilio pob rhan o hono. Bydd iddo ef edrych y sylfaenu, sefyllfa y flosydd a'r gwterydd, a chymeriad y defnyddiau a ffurfient y gwelydd. Bydd iddo ef fod yn alluog i gael allan os defnyddiwyd priddfeini meddalion, trwy gael allan olion lleithder yn ngwaelod y gwelydd. Wrth archwilio y llawr bydd iddo ef gael allan a ddefnyddiwyd coed priodol ynte rhai rhad a diwerth fel yr *American fir*. Trwy eich cyfreithiwr rhaid i chwi edrych i natur y gweithred-oead a hyd y lês. Os gellir cael eiddo *freehold*, bydd yn well o lawer; os na ellwch ei gael, byddwch yn fanwli ystyr-ied a ydyw swm y *ground-rent* y fath ag a gyfreithlona eich gwaith yn ei brynu; a mynwch wybod swm a natur yr holl drethoedd a ddisgyna arno. Gwnewch yn ddoeth wrth sicrhau ychydig mwy o dir nag y saif y tŷ arno, ar yr hwn y gellwch adeiladu ychwanegiad os bydd i'ch teulu gynyddu, neu eich masnach ofyn ychwaneg o le. Gochelwch fod yn rhy frysiog i brynu pethau yn y tŷ,—megis *blinds* ffenestri, carpedi, a dodrefn cegin, &c.; efallai y ceid y byddai pethau newyddion yn rhatach yn y pen draw. Gwnewch ymdrech i dalu holl

arian y pryniad. Bydd i *fortgage* ar eich tŷ beryglu eich safon fel masnach-ur, ac effeithio ar eich cysur.

*Adeiladu Ty.*—Dewiswch y gymydog-ogaeth, ond cyn cwblhau eich trefniadau o berthynas i'r tir, mynwch wybod cymeriad neillduol y tir yn y fan hono. Mewn daear rafelog cewch sylfaen yn rhwydd; ond os clai a daear wlyb a gewch, byddwch wylidwrus. Mae yn wir y gellwch wneyd sylfaen gelfyddydol trwy osod *concrete* i lawr, ond costia hyny lawer o arian i chwi. Ymgynghorwch âg *architect* pan o glych adeiladu; bydd iddo ef dynu cynllun o'r tŷ yn ol eich dewisiad, a gwna *specification* yn cynwys pob manylion yn ei glych. Yna dylech ei osod gyda'i gilydd i'w wneyd i adeiladydd parchus, gan osod yr *architect* i edrych ar ei ol. Os bydd y tŷ i gael ei adeiladu o frics, edrychwch eu bod yn galedion ac wedi eu llosgi yn dda. Dylid gofalu fod y mortar hefyd yn dda. Dyl-ech edrych yn bersonol ar ol y gwaith plwm, oblegid os na wneir ef yn iawn, cewch drafferth diddiwedd. Gofalwch fod y coed a ddefnyddir yn *Memel* neu *Baltic fir*. Mae tŷ y tŷ yn bwysig; dylid ei wneyd yn y fath fodd ag y byddo yn rhwymo yr adeilad ac yn gollwng y gwlaw ymaith yn rhwydd. Ni ddylid defnyddio tiles at doi; mae llechi yn fwy parhaol ac addurnol. Na chaniat-ewch defnyddio *zinc* mewn un man arno, am fod y tywydd yn ei wisgo ymaith. Bydded y cornices o batrwm prydfferth o glych yr ystafelloedd goreu.

*I wella simnai fyglyd.*—“*Prevention is better than cure.*” ys dywed yr hen air. Os byddwch yn adeiladu tŷ, gwnewch y lle uwchben y tan yn gyfyng, yr hyn a dyna fŵg ac a rwystra y mŵg i lawr yn ei ol. Mae tŷ yn agos i fynydd uchel neu eglwys neu rhyw adeilad uchel yn lled debyg o fyg. Nid yw simnai syth yn dda i dynu mŵg, a dylai y simnai fod o hyd da hefyd. Defnyddir llawer o foddau i wella simneiau myglyd. Un ydyw, tori tyllau o dan y grât i ollwng awyr i mewn—profwyd y dull yma yn effeithiol mewn llawer achos. Gwellheir weithiau trwy osod math o chimney-pot yn troi o amgylch, fel y byddo ei enau bob amser yr un ffôrdd a'r gwynt. Y mao goeheydd yn y *Builder* yn sicrhau y

gellir gwella pob simnai fyglyd heb botiau nac arall, trwy osod gorchudd o wire clôs, deugain o wires i bob modfedd, o flaen y tân. Dylai y wire fod ddwy fodfedd oddiwrth y grât.

*Muriau gwlybion.*—Berwch 1 chwart o linseed oil, 3 owns o litharge, a 4 owns o resin, a gorchuddiwech y mur a'r cymysgedd bedair gwaith drosodd.—NEU, Hoeliwch sheet lead teneu, fel ag a geir gyda tê, ar hyd y gwelydd gyda hoelion copr.—NEU, Berwch ddaau chwart o tar, a dwy owns o frasder, am chwarter awr, mewn llestr haiarn. Ychwanegwch beth o'r tar yma at galch wedi ei yslacio a gwydr powdredig wedi ei yru trwy ogr mân, dwy ran o galch ac un ran o wydr, nes y byddo y cymysgedd fel plastr teneu. Rhaid ei ddefnyddio yn uniongyrchol ar ol ei wneyd, ac ni ddylid gwneyd mwy o hono ar unwaith nag a orchuddia droedfedd ysgwar o'r mur, am ei fod yn caledu yn fuan iawn. I wâl heb fod ond yn llaith yn unig, gwna yr wythfed ran o fodfedd o drwch y tro; ond os bydd y mur yn wlyb, rhaid rhoddi ail goat iddi. Gellir ei gorchuddio wedi hyn a phlastr wedi ei wneyd o galch, blew, a plaster of Paris.

CYMDEITHASAU ADEILADU A CHYFRAITH TENANTIAETH.—Gwel CYFRAITH.

DODREFN: EU DEWIS A'U TREFNU.—Os YDYCH YN NGHYLCH DODREFNU TY, na wariwch eich holl arian, bydded ychydig neu lawer. Na fydded i brydferthwch un peth, a rhadlonrwydd peth arall, eich temtio i brynu pethau diangenrhaid. Mae geiriau yr hen Franklin yn wirionedd pwysig:—"Nid oes dim yn rhad os nad oes angen am dano." Prynwch brin ddigon i fyn'd yn mlaen a hwy ar y cyntaf. Trwy ymarferiad yn unig y gellwch ddweyd beth fydd angenion eich teulu. Os gwariwch eich holl arian, cewch allan eich bod wedi prynu llawer o bethau nad oes arnoch angen am danynt, ac heb fodd i gael pethau ag y byddo arnoch eu hangen mewn gwirionedd. Os bydd genych ddigon, a thros ben digon, i brynu pob peth cyfaddasol i'ch sefyllfa, na feddyiwech y rhaid i chwi wario y cwbl, yn unig am eich bod yn digwydd eu meddu. Dechreuwch yn isel. Fel y byddo cyf-

oeth yn cynyddu, hawdd a dymunol fydd i chwi ychwanegu at eich cysuron; ond poenus ac anghyfleus fydd lleihau. Ar ol y cwbl, mae pobl gwir barchus a synhwyrol yn edrych ar y pethau hyn yn y goleu priodol. Gellir dangos prydfferthwch, chwaeth, a synwyr da yn iawn-drefniad tŷ bychan, gyda moddion bychan, yn ogystal ag ar raddeg fwy eang a chostus; ac y mae y rhinweddau hyn bob amser yn cael eu canmol, ac yn teilyngu parch a sylw. Nid yw y parch twyllodrus a enilhir gan bersonau wrth fyw uwchlaw eu sefyllfa, ac, wrth gwrs, byw ar eraill, yn werth y drafferth a gostia. Mae y disgleirdeb a amgylcha yr holl rodres yma yn dwyllodrus; nid yw yn sicrhau i'r dyn gyfeillion ffyddlon, na dylanwad eang.

CARPEDAU.—Wrth brynu carpedau, fel pob peth arall, y rhai goreu yw y rhataf yn y pen draw. Gan mai dymunol ydyw iddynt ymddangos mor lân ag y byddo yn bosibl, gochelwch brynu carped a gwyn ynddo. Bydd hyd yn nod ychydig o wyn yn wasgaredig ar hyd patrwm y carped roddi ymddangosiad budr i'r cyfan mewn byr amser; ac nis gall carped fod yn waeth at wisgo nag un gyda gwaelod tywyll.

NID YW CARPED GYDA'R HOLL LIWIAU YN OLEU BYTH YN EDRYCH YN LÂN a disglauer, o herwydd amddifadrwydd lliwiau tywyll i gyferbynu a gosod allan y rhai disglauer.

O'R OCHR ARALL, nid yw carpedau ag y mae eu holl liwiau heb fod yn dywyll na goleu byth yn edrych yn dda.

DYLAI Y CARPED A DDEWISIR feddu cymysgedd chwaethus o'r lliwiau disgleiriaf a thywyllaf; rhai agos yn wŷn, a'r lleill agos yn ddu, os nid yn ddu.

GWNEIR CARPEDAU PRYDFERTH, defnyddiol, a gwir chwaethus, o un lliw yn unig, ond wedi ei drefnu yn shades gwaahanol. Er engraifft, yr ydym wedi gweld carped Brussels o goch i gyd; y patrwm wedi ei ffurfio o wahanol shades o goch, yn amrywio o grimson tywyll (agos yn ddu), at y pink gwanaf (agos a bod yn wŷn). Hefyd yn o liw gwyrdd yn unig, yn amrywio yn brydferth o'r gwyrdd tywyllaf hyd at y goleuaf. Yr oedd yr holl garpedau hyn yn edrych yn wych.

**DYLAI Y CYRTENI, SOFAS, &c.**, fod o liwiau cyfatebol, fel y byddo i effaith y cwbl fod yn foddhaol a phrydferth.

**MAE CARPEDAU** o batrymau coegwych (*gaudy*) yn myned allan o arferiad yn gyflym. Gwna dau liw yn unig, gyda shades y ddau, garped gwir brydferth a dymunol.

**MAE GWAELOD GWYRDD**, gyda ffigiwr crimson neu purple, yn edrych yn dda iawn; felly y gwna gwaelod llwyd gyda ffigiwr gwyrdd; neu waelod melyn goleu gyda ffigiwr glâs.

**OS NA ELLWCH GAEL HEARTH-RUG** yn cyfateb yn hollol i'r carped, ceisiwch un hollol wahanol; oblegid y mae un hollol gyferbyniol yn well nag un wedi ei gydmaru yn ddrwg.

**WRTH DDEWIS PAPYR PAPYRO**, goch-elwch un a gormod o liwiau ynddo, neu ffigiwr mawr ynddo, gan na edrycha un math o ddodrefn yn dda gyda'r fath bapyr. Mae papyr a ffigiwr mawr arno yn gwneyd ystafell fechan i edrych yn llai. Os bydd y ceiling yn isel, gwna papyr lliw derw, neu bapyr tywyll arall, iddi edrych yn is. Os bydd ystafell yn dywyll, gwna papyr tywyll y drwg yn waeth. Papyr rhesog goleu yw y goreu at ystafell isel. Mae papyrau gwyrdd, unlliw, yn edrych yn dda. Dylai y paent ar y drysau a'r ffenestr gyfateb i'r papyr.

**PICTIWR.**—Ni ddylid crogi pictiwr byth gyferbyn a ffenestr.

## GWEITHREDIADAU TEULU- AIDD; SAERNIAETH, ADGY- WEIRIO, TRWSIO, &c.

**ARFAU AT WASANAETH Y TY.**—Gellid hebgor llawer o anghyfleusderau ac arbed llawer o gostau, pe cedwid yn mhob tŷ gist yn cynwys arfau neillduol i'r dyben o wneyd rhyw fân bethau yn y tŷ, yn lle gorfod myned i chwilio a thalu i grefftwr am wneyd pethau bychain y gellid eu gwneyd o'r goreu gan y gwas neu y forwyn, pe byddai yr arfau priodol wrth law.

**NI CHOSTIA YR ARFAU HYN OND YCHYDIC**, a gorbwysir hyn gan y manteision a fwynheir o'u cael bob amser yn y tŷ.

**ER ENGRAIFFT**, dylai fod genych fwyall, bwyall fechan, llif fawr a llif fechan, hefyd pren wedi ei wneyd yn gyfleus i dori coed arno, *claw-hammer*, *mallet*, *dwy gimlet* o wahanol fathau, *dau screw-driver*, *cŷn*, *plane* bychan, *dwyr jack-knives*, *siswrn mawr* neu wellaif, a *stretcher* carpedau.

**HEFYD, AMRYWIAETH O HOELION** o wahanol hydau, o *spikes* mawr i lawr at tacs bychain, heb anghofio hoelion a phenau copr iddynt, rhai mawr a rhai bach.

**CEIR SCREWS** hefyd yn dra chyfleus, a bachau i grogi pethau arnynt.

**DYLID CADW YR HOELION A'R SCREWS** mewn box pren, wedi ei ranu yn wahanol gelloedd i gadw y gwahanol fathau ar wahan, oblegid y mae eu cymysgu yn peri anghyfleusdra.

**A DYLID CYMERYD GOFAL** i gadw yr adgyflenwad i fyny, rhag i rai mathau redeg allan yn llwyr, a'r diffyg beri oed-iad ac anghyfleusdra ar adeg y byddo fwyaf o angen am danynt.

**DYMUNOL FYDDAI MEDDU RHYW YSTAFELL FECHAN** ar lawr y tŷ, wedi ei dodi yn hollol o'r neilldu i gadw arfau a phethau perthynol iddynt, fel y byddo pob peth wrth law pan fyddo angen gwneyd rhyw orchwyl. Dylai fod *shelf* fawr yn yr ystafell yma, oddeutu llathen o leiaf oddiwrth y llawr.

**O DAN Y SHELF** yma, dylai fod *drawer* ddofn, wedi ei rhanu yn ddwy ran. Gellir cadw llinynau, darnau o chalk, a glue yn y *drawer* yma.

**GELLIR RHODDI SHELF** ar un pen i'r ystafell i gadw potiau glue, potiau pâst, a brwshes, potiau i ddal paent du, gwyn, coch, gwyrdd, olew at baentio, brwshes, paent, &c.

**AR Y MUR**, uwchlaw y *shelf* fawr, bydded i'r arfau gael eu crogi, neu eu gosod ar draws bachau neu hoelion o faintioli priodol i'w cynal.

*Mae hyn lawer yn well* na'u cadw mewn box, lle y gallant gael niwaid trwy ymrwbio y naill yn erbyn y llall, a gall y llaw gael ei niweidio wrth chwilio yn eu plith am yr erfyn y bydd angen am dano.

*Onid pan wedi eu crogi i fyny* yn erbyn y mur, gellir gweled pob oferyn ar unwaith, wrth gwrs.

**PAPYR PACIO.**—Gellir gosod hwn yn drefnus ar y llawr o dan y *shelf* fawr. Gellir ei brynu yn rhad wrth y *ream*, mewn siop barchus; a dylai fod ystôr o hono o wahanol fathau yn mhob tŷ.

*Mae papyrau argraffedig* yn anghyffaddas i lapio dim ynddynt, gan y daw yr inge ymaith ar hyd pa beth bynag a lapir ynddynt, a difwyna fenyg yr lwn fyddo yn eu cludo.

*Wrth brynu newyddau* mewn unrhyw siop, na oddefwch i'r siopwr bacio eich pethau mewn hen bapwr newydd.

*Gwell defnyddio hen bapyrau newyddion* at oleuo tân a deifio ffowls.

*Gwna papyrau ysgrifenedig*, wedi eu tori i'r maintioli priodol, a'u plygu, wasanaeth da i oleuo canwyllau, &c.

**I DDIOGELU BYRDDAU.**—Y mae darn o oil-cloth, oddeutu ngain modfedd o hŷd, yn wasanaethgar neillduol yn ystafell gyffredin y tŷ. Wrth ei gadw yn y cwmpwrdd, bydd wrth law i'w daenu ar y bwrdd pan y byddoch yn llenwi eich *jars*, neu yn trefnu eich cypyrddau, &c. Da fyddai cadw aden a *duster* gyda'r oil-cloth.

**GILT FRAMES.**—Gellir eu diogelu rhag prysfaid a llwch, trwy eu gorchuddio a *turlatan* ag olew ar hyd-ddo, yr hwn a ellir ei brynu yn siop unrhyw wneuthurwr neu werthwr dodrefn parchus. Os na ellwch ei gael, gellwch ei wneyd eich hun yn rhwydd trwy frwshio olew berwedig ar hyd *turlatan* rhadlon. Gwna y tro hefyd i gadw llwch oddiwrth lyfrau, llestri, wool-work, a phob math o addurniadau yn y tŷ.

**MURIAU LLAITH.**—Argymellir y cynllun canlynol i rwystro lleithder rhag niweidio y papyr ar furiau ystafelloedd:—Gorchuddiwch y llecyn llaith o'r mur gyda plwm teneu, fel ag a geir o gylch tŷ, wedi ei hoelio a hoelion copr. Gellir ei orchuddio yn uniongyrchol gyda papyr.

**GWELY-YSTAFELLOEDD.**—Ni ddylid eu golchi yn y gauaf, am y gall hyn gynyrchu afiechyd ac anwyd. Mae y dull Ffrengig o rwbio y lloriau gyda brushes sychion yn fwy effeithiol nag y gellid tybio ar y cyntaf. Gellir gwneyd hyn yn y gauaf. Pan y golchir gwely-ystafell, dylid dewis diwrnod sych—dylid agor y ffenestri, symud y dilladau, a

goleuo tân mor fuan ag y darfyddir ei golchi.

**PAENT.**—Gellir cael gwared o arogl anymunol paent mewn ystafell trwy roddi ychydig wair mewn dwfr yn yr ystafell.

**I GADW DRWS YN AGORED**, dodwch fricsen wedi ei gorchuddio yn drefnus a darn o garped yn erbyn y drws.

**I SICRHAU A FYDD GWELY YN LLAITH AI PEIDIO.**—Rhoddwch lestr gwydr cydrhwng y cynfasau am funud neu ddau, yn union ar ol tynu y *warming-pan* o hono; os bydd y gwely yn sych, ni bydd y gwydr yn meddu ond ymddangosiad cynylog, ond os na fydd, bydd i leithder y gwely ffurfio yn fân ddfiferon ar y gwydr. Gochelwch fyned iddo.

**I RWYSTRO LAMP I FYGU.**—Dodwch y *wick* i sefyll am ychydig mewn finegr cryf, a sychwch ef yn dda cyn ei ddefnyddio; bydd iddo wedi hyny losgi yn glir a disglær, a rhoddi llawn foddhad am yr ychydig drafferth a gymerwyd gydag ef.

**DWFR.**—Bydd i bob math o ddwfr, oddigerth dwfr gwlaw, ffurfio crystyn tew oddimewn i'r kettle; gellir rhwystro hyn trwy roddi cragen wystrys lân yn y kettle, yr hon a'i ceidw mewn trefn bob amser, trwy dynu ati ei hun y gronynau o ddaear neu geryg fydd yn y dwfr.

**I FEDDALU DWFR CALED.**—Berwch ef, a dodwch ef allan yn agored i weithrediad yr awyr.

**DWFR CABBAGE.**—Dylid taflu hwn allan ar unwaith, a rinshio y llestr â dwfr glân, neu achosa arogl anymunol.

**DODREFN.**—Mae dodrefn a wneir yn y gauaf, ac a ddygir o ystordy oer i ystafell gynnes, yn dueddol i gracio.

**POTELU A PHURO.**—Dylai y cyrc fod yn gyfan, yn lân, ac yn ddiarogl. Dylai cwrw a phorter sefyll yn y poteli am ddiwrnod neu ddau cyn eu corcio. Os bwriedir ei ddefnyddio yn fuan, nid oes angen ei sicrhau a *wires*. Bydd doddi y poteli ar eu hochrau eu cynorthwyo i addfedu at eu defnyddio. Dylid rhoddi *wires* ar yr rhai a fwriedir eu cadw, a'u cadw yn sythion mewn blawd lif. Dylid potelu gwin yn y gwanwyn. Os na fydd yn ddigon clir, llenwch *jug* fawr o hono a thoddwch *isinglass* ynddi, yn y cyfar-taledd o haner owns ar gyfer pob deg



galwyn, ac yna tywelltwech yn ol trwy dwll y bwng. Gadewch iddo sefyll ychydig wythnosau yn hwy. Tapiwch y faril uwchlaw y gwaddod. Pan y dodir yr *isinglass* yn y faril, trowch o amgylch gyda fflon, gan gymeryd gofal i beidio cyffwrdd a'r gwaeldion.

**I BERAROGLI BARILAU.**—Cymysgwch haner peint o *vitriol* gyda chwart o ddwfr, tywelltwech i'r faril, a rowliwch yn ol ac yn mlaen; dranoeth rhoddwch bwys o chalk yn ychwanegol, a rowliwch eilwaith. Cauwch y bwng am dridiau neu bedwar, neu rinshiwch yn dda gyda dwfr poeth.

**OIL PAINTINGS.**—Os crogir hwy uwchlaw y *mantel-piece* maent yn agored i grychu.

**I LACIO STOPPERS GWYDR MEWN POT-ELI.**—Cymerwch bluen a rhwbiwch ychydig ddiferion o'r olew goreu o gylich gwddf y botel neu y *decanter*, a gosodwch o flaen tân, yn y pellder o ddeunaw modfedd iddo; bydd i'r tân yru yr olew i lawr cydrhwng y stopper a'r gwddf. Ar ol i'r botel neu y *decanter* gynhesu yn dda, tarewch y stopper yn dyner ar un ochr, ac yna ar yr ochr arall, gyda darn o bren ysgafn; yna treiwch ei dynu gyda'r llaw; os na symuda, dodwch eilwaith o flaen tân, gan ychwanegu diferion o olew. Yn mhen ychydig amser defnyddiwch y pren fel o'r blaen, a thrwy ddyfal-barhau gyda'r oruchwyliaeth yma, pa mor dyn bynag y byddo i mewn, chwi a lwyddwch i'w gael yn rhydd. Dyma y cynllun goreu o ddigon.

**OLEW LAMPAU.**—Yr olew goreu, yw yr un clir a dilw fel y dwfr.

**TEAPOTS CHINA** yw y rhai goreu, mwyaf dymunol, a diogelaf. A arogl anhyfryd ar *Wedgwood Ware* mewn ychydig amser.

**GOFALU AM DDILLAD.**—Pan byddo dillad wedi eu sychu ac yn barod i'w defnyddio, nid oes diin yn fwy angenrheidiol na'u diogelu rhag lleithder a phryfaid; gellir cadw pryfaid draw trwy wasgar llysiau peraroglaidd mewn cydau sidan ar hyd y *drawers* a'r shelfydd. Gall y rhai hyn fod yn gynwysedig o lavender, thyme, rhosynau, sassafras powdredig, cassia lignea, &c., a gellir tywallt ychydig ddiferion o *otto of roses* neu rhyw berarogl cryf arall am eu penau. Dylid

archwilio a thrwsio pob math o ddillad cyn eu hanfon i'w golchi; a da ydyw marcio pob dilledyn a'i rifnodi yn ofalus.

**GLANHAU DODREFN.**—Mae glanhau dodrefn yn ffurfio rhan bwysig o waith y tŷ, nid yn unig o ran trefnusrwydd a glendid, ond o ran côst hefyd.

*Y ffordd rwyddaf*, wrth gwrs, ydyw eu rhwbio yn dda a chadachau sychion; ond y mae dodrefn drudfawr yn gofyn triniaeth wahanol i hyny er cynyrchu *polish* uchel a disglauer.

*Dyma ffordd effeithiol*: Twymwch alwyn o ddwfr, a thoddwch ynddo bwys a haner o potash: ychwanegwch bwys o gŵyr da, gan ferwi y cwbl am haner awr, yna gadewch iddo oeri, pan y bydd i'r cŵyr nofio ar y wyneb. Rhoddwch y cŵyr mewn mortar a churwch ef a phestl, gan ychwanegu dwfr meddal ato nes y ffurfia bâst meddal, a dodwch beth o hono ar y dodrefn yn drefnus fel *varnish*, a rhwbiwch yn dda wedi iddo sychu a chadach gwlanen, a bydd iddo gynyrchu *polish* uchel a disglauer.

*Chimney-pieces Marble.*—Gellir eu rhwbio a'r un peth, ond gofalu eu golchi yn gyntaf a dwfr sebon cynes a finegr; ond gofyna y gwaith haiarn neu bres cysylltiol ag ef driniaeth wahanol.

*Gwaith Haiarn Disglauer.*—Gellir diogelu y *polish* ar waith haiarn rhag rhydu trwy rwbio ar hyd-ddo gymysgedd o *copal varnish* wedi ei gymysgu yn dda a chymaint o *olive oil* ag a'i gwna yn olewaidd yr olwg, gan ychwanegu ato gymaint o turpentine ag o'r varnish.

*Gwaith Cast Iron.*—ddiogelir oraf trwy ei lanhau yn aml gyda black-lead.

*Rhwd ar y gratiau neu yr heyrn tân.*—Gellir rhwystro y rhai hyn rhag rhydu trwy eu rhwbio gyda *emery* ac olew.

*Addurniadau pres.*—Curwch *sal ammoniac* yn bowdwr mân, yna gwlychuwch gyda dwfr meddal, gan ei rwbio yn agos i'r tân ar y pres, a'u rhwbio yn sych gyda *bran* a *whiting*.

**CARPEDAU.**—Os bydd i gongl y carped ddyfod yn rhydd a rhwystro i'r drws agor, neu dripio pawb a ddaw i'r ystafell, hoeliwch ef i lawr ar unwaith.

*Glanhau Carpedau.*—Cymerwch lestriad o ddwfr oer, ac ychwanegwch ato dri chwarter peint o fustl buwch. Rhwbiwch i'r carped gyda brws es-

mwyth. Bydd iddo gynyrchu trochion, yr hwn sydd raid ei olchi ymaith gyda dwfr oer clir. Rhwbiwch yn sych gyda chadach glân. Wrth hoelio carped i lawr ar ol i'r llawr gael ei olchi, byddwch yn sicr fod y llawr yn hollol sych, neu bydd i'r hoelion rydu a niweidio y carped. Defnyddir *Fuller's earth* i lanhau carpedau, a dwfr alwm neu soda gwan i adfywio y lliwiau. Mae rhwbio crystyn torth wenith boeth dros y carped wedi cael ei brofi yn effeithiol.

*Curwch Garped* ar yr ochr chwith yn gyntaf; ac yna yn fwy tyner ar yr ochr oreu. Gochelwch ddefnyddio ffon a phigau blaenllym hdd-ddi, y rhai a allant rwygo y carped.

*Ysgubo Carpedau.*—Bydd i bersonau ag sydd wedi arfer dail tê wrth ysgubo eu carpedau, ond yn cael eu bod yn gadael ystaeniau, wneyd yn ddoeth pe defnyddient welltglas newydd ei dori yn eu lle. Mae yn well na dail tê er rhwystro llwch, a rhoddant olwg lan a ffres ar y carpedau.

*Carped ar haner ei wisgo.*—Trwy ei dori yn y canol, a throi yr ymylon i'r canol, bydd i garped haner treuliedig barhau lawer yn hwy.

*Carped y Grisiau.*—Ni ddylid byth ei ysgubo i lawr gyda brwsh hir, ond bob amser gyda brwsh byr, a dal y *dust-pan* yn glôs o dan bob gris.

*Oil cloth.*—Ni ddylid byth ei ysgwrio gyda brwsh, ond, ar ol ei ysgubo yn gyntaf, dylid ei lanhau trwy ei olchi gyda chadach mawr esmwyth a dwfr claiar neu oer. Na ddefnyddiwch sebon na dwfr poeth ar un cyfrif, gan y dygant ymaith y paent.

*Matiau Gwellt.*—Gellir eu glanhau gyda chadach mawr brâs wedi ei drochi mewn dwfr a halen, ac yna ei sychu yn sych; rhwystra yr halen y mat rhag troi yn felyn.

MODD I LANHAU PAPYRAU GWELYDD (*paper hangings*). Torwch dorth fechan deuddydd oed i wyth o ddarnau; rhaid iddi beidio bod yn hynach nac yn ieuangach. Ar ol chwythu ymaith y llwch oddiar y mur, trwy ddefnyddio megyn gref, cymerwch un o'r tameidiau bara, dechreuwch yn y pen uchaf, a rhwbiwch y bara ar hyd y papyr tuag i lawr, gan gymeryd oddeutu haner lath ar unwaith,

nes y byddoch wedi gorphen rhan uchaf y papyr o gylch yr ystafell. Yna dechreuwch fyned o gylch yr ystafell eilwaith, gan gymeryd cylch yn is i lawr, nes y byddo i chwi yn y diwedd gyraedd y gwaelod. Bydd i'r oruchwyliaeth yma, os cymerir gofal i'w chyflawni yn iawn, wneyd i hen bapyr ymddangos fel newydd. Dylid cymeryd gofal mawr i beidio rhwbio y papyr yn galed, neu i beidio ceisio ei lanhau ar draws. Dylid tori ymaith y budreddi oddiar y bara yn aml, ac adnewyddu y darn mor fuan ag y byddo angen am hyny.

**ROSEWOOD.**—Dylid rhwbio dodrefn Rosewood yn gyson bob dydd gyda chadach esmwyth a glân.

**SOFFAS AC OTTOMANS.**—Bydd i bob math o ddodrefn fyddant wedi eu gorchuddio gyda brethyn, damask, neu chintz, edrych lawer yn well trwy eu glanhau yna chlysurol gyda *bran* a gwlanen.

**BYRDDAU MAHOGANY.**—Gellir eu gloewi trwy eu rhwbio am beth amser gyda chadach sych a castor oil.

**FFRAMIAU MAHOGANY.**—Dylid eu glanhau yn gyntaf oddiwrth llwch, ac yna eu glanhau gyda gwlanen wedi ei throchi mewn *sweet oil*.

**CADEIRIAU CANE-BOTTOM.**—Gellir eu glanhau gydag ysbwng a dwfr poeth. Dylid eu golchi nes byddo y *canes* wedi mwydo. Os byddant yn fudr iawn, gellir defnyddio sebon. Bydded iddynt sychu yn yr awyr agored, os yn bosibl, neu mewn lle y byddo digon o wynt i fyned trwyddynt, a bydd iddynt fyned mor dŷn a chadarn a phan oeddynt yn newydd.

**ALABASTER.**—Ni cheir dim gwell i'w lanhau na dwfr a sebon.

**GLANHAU MARBLE.**—Cymerwch ddwy ran o soda cyffredin, un ran o *pumice stone*, ac un ran o chalk powdredig; rhoddwch ef trwy ogr mân, a chymysgwch a dwfr; yna rhwbiwch yn dda dros y marble, a symudir ymaith yr ystaeniau; yna golchwch y *marble* gyda dwfr a sebon, a bydd mor lân ag ydoedd yn y dechreu.

**GWYDR.**—Dylid golchi gwydr mewn dwfr oer, yr hwn a rydd iddo liw cliriach na phan y byddo yn cael ei olchi a dwfr cynes.

**LLESTRI GWYDR.**—Gellir eu puro a'u glanhau trwy eu rinshio allan gyda charcoal powdredig.

**POTELI.**—Nid oes yr un ffordd rwydd-ach i lanhau poteli gwydr na doddi glo mân ynddynt, a'u hysgwyd yn dda, naill a'i gyda dwfr neu heb ddim, oer neu boeth, yn ol y sylwedd fyddo'n dwyno'r botel. Bydd doddi ychydig charcoal mewn potel neu *jar* am ychydig amser eu puro oddiwrth bob arogl anhwyfryd.

**GLANHAU PETHAU** wedi eu Japannio. —Rhwbiwch arnynt ychydig sebon gwyn gydag ysbwng a dwfr claiar, a golchwch hwy yn hollol lân. Na fydded i chwi byth ddefnyddio dwfr poeth, neu achosa i'r *japan* i syrthio ymaith. Ar ol eu sychu yn sych, lluchiwch ychydig flawd drostynt; gadewch iddynt sefyll am beth amser, yna rhwbiwch gyda chadach esmwyth a sych, a gorphenwch gyda hancherchief sidan.

**PAPIER MACHE.**—Dylid golchi pethau o'r defnydd hwn gydag ysbwng a dwfr oer, heb sebon, lluchier blawd ar hyd-ddynt tra y byddont yn laith, a rhwbiwch yn sych gyda gwlanen.

**BRUNSWICK BLACK AT LOEWI GRATIAU.**—Toddwch 2 bwys o asphaltum cyffredin, ac ychwanegwch beint o linseed oil, a chwart o oil of Turpentine. Rhoddir y cymysgedd yma yn gyffredin mewn poteli ceryg, a gwerthir ef yn y siopau. Y mae i'w ddefnyddio gyda brwsh paent. Os bydd yn rhy dew, gellir ychwanegu mwy o turpentine. Cost : asphalte, 1s. y pwys; linseed-oil, 6c. y peint; turpentine, 8c. y peint.

**BLACKING I STOVES.**—Gellir gwneyd hwn gyda haner pwys o black-lead wedi ei bowdro yn fân, a'i gymysgu a chwech gwyn wŷ (er iddo lynu); yna teneuwch gyda chwrrw neu borter sur nes y byddo mor denu a blacking esgidiau; ar ol ei droi yn dda, dodwch i ledferwi ar dân araf am ugain munud; ar ol iddo oeri gellir ei gadw at wasanaeth.

**I LANHAU CYLLILL A FFYRC.**—Golchwch y llafnau mewn dwfr cynes (ond nid poeth), ac yna rhwbiwch hwy yn ysgafn gyda rotten-stone powdredig wedi ei wlychu yn bâst gydag ychydig ddwfr oer, yna gloewch gyda chadach glân.

**GWAITH PAENTIEDIG.**—Pan fyddo yn ofynol glanhau unrhyw beth a baent-

iwyd, gwneleu hyny gyda *fuller's earth*; ac ar goed heb eu paentio, gwna y tro yn rhagorol yn lle sebon.

**YSGWRIO LLORIAU.**—Calch, un ran; tywod, tair rhan; sebon meddal, dwy ran. Rhoddwch ychydig o'r cymysgedd ar y llawr gyda'r brwsh ysgwrio, a rhwbiwch yn dda. Rinsiwch gyda dwfr glân, a rhwbiwch yn sych. Bydd i hyn gadw y lloriau coed o liw da, a chadw y pryfaid draw.

**CHARCOAL.**—Dyma un o'r sylweddau mwyaf defnyddiol yn y ty. Gellir symud yr arogl mwyaf anymunol oddiar unrhyw lestr, trwy symud y baw mwyaf yn gyntaf gyda thywod a potash, a rinshio y llestr allan gyda charcoal powdredig a dwfr. Bydd rhwbio y danedd a golchi y genau gyda charcoal mân, wneyd y danedd yn wynion a'r anadl yn hyfryd. Tynir y blas drwg oddiar heu ddwfr trwy roddi charcoal ynddo. Pan y byddo cig, pysgod, &c., o herwydd gwres mawr, neu hir gadwraeth, yn ymddangos mewn cyflwr llygredig, gellir eu dwyn yn ol i gyflwr iachusol a dymunol trwy y dull syml o roddi ychydig ddarnau o charcoal, pob un oddeutu maintioli wŷ, yn y sospan y berwir y cig neu y pysgod ynddi.

**I DYNU ALLAN YSTAENIAU O DDODREFN MAHOGANY.**—Gellir tynu allan yspotiau ac ystaeniau o ddodrefn Mahogany gydag ychydig aquafortis neu oxalic acid a dwfr, a rhwbio y lle a choreyn, nes y byddo wedi ei ddwyn yn ol i'w liw priodol; gan ofalu golchi y pren ar ol hyny gyda dwfr, a'i sychu a'i loewi fel arferol.

**I DYNU YSPOTIAU INGC O FAHOGANY.**—Rhoddwch ychydig ddiferion o nitro mewn llon'd llwy dde o ddwfr, cyffyrddwch yr yspotyn gyda phlun wedi ei gwlychu yn y cymysgedd, a phan y diflano yr ingc, rhwbiwch ef drosodd yn uniongyrchol gyda chadach wedi ei wlychu mewn dwfr oer, neu bydd yno yspotyn gwyn, yr hwn nis gellir ei gael ymaith yn hawdd.

**I SYMUD INGC ODDIAR ARIAN.**—Gwnewch ychydig chloride of lime yn bâst gyda ddwfr, a'i rhwbio ar yr ystaeniau. Bydd i hwn eu symud ymaith yn effeithiol.

**YSPOTIAU INGC AR LIAN BWRDD**

**LLIWIEDIG.**—Toddwch lon'd llwy dê o oxalic acid mewn cwpanaid o ddwfr poeth; rhwbiwch y fan a ystaeniwyd gyda'r cymysgedd.

**I GYMERYD INGC O GOED.**—Cymhwyseri muriatic acid gyd darn o gadach; hwy hyny golchwch yn dda gyda dwfr.

**BRASDER AR YR AELWYD** a ellir symud trwy ei orchuddio ar unwaith gyda lludw poeth, neu lo llosgedig.

**LLESTRI ARIAN NEU PLATED.**—Dylid golchi y pethau hyn gydag ysbwng a throchion sebon cynes bob dydd ar ol eu defnyddio, a'u sychu yn sych gyda llian esmwyth glân.

**LAMPAU, CHANDELIERS, WEDI EU BRONZIO.**—Ni ddylid ond tynu llwch oddiarnynt gyda brwsch plyf, neu gadach esmwyth, trwy y byddai i olchi dynu ymaith y bronzing.

**PRES, BRITANNIA METAL, TINS, COPR, &c.**—Gellir glanhau y pethau hyn gyda chymysgedd o rotten stone, sebon meddal, ac oil of turpentine, wedi eu cymysgu yn nghyd i dewychedd *putty*. Ar ol i hwn sychu, dylid ei falu a'i bowdro yn fân. Gellir gwneud digon o hono ar unwaith i barhau am hir amser. Dylid golchi y pethau yn gyntaf gyda dwfr poeth, er symud y brasder; yna rhwbier hwy ag ychydig o'r cymysgedd uchod, wedi ei gymysgu a dwfr; yna rhwbiwch yn gyflym gyda chadach sych neu ledr, a cheir *polish* uchel arnynt.

**I LANHAU LOOKING-GLASSES.**—Yn gyntaf golchwch y gwyr i gyd drosto a throchion sebon cynes gydag ysbwng. Pan yn sych, rhwbiwch yn loew gyda lledr ac ychydig prepared chalk wedi ei bowdro yn fân.

**CHINA A LLESTRI GWYDR.**—Y peth goreu i lanhau pob math o lestri drudfawr ydyw *fuller's earth* wedi ei bowdro yn fân, a'i lanhau oddiwrth bob sylwedd caled. Defnyddier dwfr cynes, ond heb fod yn boeth.

**I DYNU YSTAENIAU GWIN O LIEINIAU.**—Daliwch y llian mewn llaeth tra y byddo yn berwi ar y tân, a diflana yr ystaen.

**I DYNU BRASDER O VELVET NEU FRETHERN.**—Ceisiwch *turpentine* a thywalltwch ar y fan y bo'r brasder; rhwbwch nes yn hollol sych gyda gwianen;

gwnewch hyny eilwaith drosodd os na fydd y brasder wedi llwyr gilio. Ar ol gorphen, brwsiwch y fan yn dda, a rhoddwch y dilledyn yn yr awyr agored er i'r arogl fyned ymaith.

**TANWYDD, GOLEUNI, &c.**—**CYNILDEB GYDA TANWYDD.**—Nid oes dim perthynol i dŷ ag y mae pawb yn meddwl eu bod yn ei ideall mor drwyadl a threfniadau y tân, ac ar yr un pryd nid oes yr un gangen o'r trefniant teuluaidd lle y mae mwy o wastraff diangenraid yn cyfodi oddiar anwybodaeth ag a geir gyda'r nwydd hwn yn unig.

*Y mae yn hen ddwycedial* na ddylem gyffwrdd a thân undyn hyd nes y byddom wedi ei adnabod am saith mlynedd; byddai yn dda pe byddem mor ofalus o berthynas i'r gorchwyl o brocio ein tân ein hun.

*Gall unrhyw un, y mae yn wir, gymeryd i fyny y poker* a lluchio y glo o amgylch; ond nid precio y tân ydyw hyny!

*Yn fyr, y mae defnyddiad y poker* yn gymwysiadwy yn unig at effeithio dan beth—agoryd tân yn marw, fel ag i agor ffordd i ffrwd oawyriddo, ac ambell waith, ond nid bob amser, trwyddo; neu i gasglu at eu gilydd dân haner llosgedig, fel ag i ddwyn y gwres i un man, tra yr agorir y rhanau haner llosgedig i ddylanwad yr awyr.

*Gellir cymhwyso yr un sylwadau* at ddefnyddiad y fegin; bydd i chwythu y fegin ar antur, mewn naw achos o bob deg, ffaelu; bydd i rym y ffrwd o awyr weithiau chwythu y tân allan, a phryd arall yru yr awyr boeth oddiwrth y glo fyddo heb gyneu yn lle tuag ato.

*I brofi hyn, bydded i unrhyw berson* eistedd i lawr gyda megin wrth dân wedi ei haner oleuo, neu wedi haner diffoddi; bydded iddo chwythu, ar y cyntaf, nid i'r rhan fyddo'n cyneu, ond i'r glo marw yn ei ymyl, fel y byddo i'r awyr mewn rhan gyraedd y glo llosgedig.

*Ar ol chwythu am ychydig* bydded i'r fegin chwythu i'r rhan fo'n llosgi o'r tân, ond yn cyfeirio yr awyr yn rhanol tuag at y glo marw; a cheir y bydd i'r tân ymledu lawer yn fwy cyflym nag o dan y drefn arferol o chwythu yn gryf i'r fflam ar antur.

*Os bydd i'r prynwr, yn lle ordro stoc*

fawr o lo ar unwaith, ymfoddloni ar ychydig fel esiampl, bydd iddo heb lawer o drafferth gael allan pwy a ymddyga yn deg tuag ato; ac os bydd iddo fod mor ddoeth a thalu arian parod, bydd yn anibynol ar y masnachwr glo; sefyllfa nad ydyw yn cael ei mwynhau ond gan nifer fechan iawn.

*Yn wir*, nis gallwn ddweyd yn rhy aml, mae masnachu gydag arian parod, wrth brynu pob peth i'r ty, ydyw y ffordd rataf o lawer.

*Bydd i arian parod* bob amser hawlio y nwyddau goraf a rhataf, os gwarir lwy yn ddoeth: a bydd i'r masnachwr fydd yn bwriadu ymddywyn yn deg, ddewis hyn bod amser.

*Na fydded i chwi ymddiried* yn y masnachwr hwnw fydd yn fwy awyddus i roddi coel na derbyn arian.

*Mae yr olaf* yn gobeithio sicrhau eich cwsmeriaeth trwy eich cael i'w lyfrau; a gwna i fyny am eich coelio trwy werthu nwyddau salach am bris uwch; tra y mae y blaenaf yn credu nas gellir sicrhau eich cwsmeriaeth ond trwy ymddywyn yn deg.

*Dylid ystyried peth arall hefyd*, sef y dylid nid yn unig brynu ag arian parod, ond i ofalu prynu ar yr adeg briodol; oblegid y mae adeg rad ac adeg ddrud ar bob nwydd; yn enwedig gyda glo: a gall unrhyw un a lenwo ei seler ganol haf yn lle yn nechreu y gauaf, wneyd hyn am lawer iawn llai o arian. Mae hyn yn bwysig iawn.

*Rhaid i ni alw i gof ein darllenywyr*, fod simneuaau yn aml yn nygu, ac fod llawer iawn o lo yn cael ei wastraffu trwy roddi gormod o hono ar unwaith ar y tân.

*I brofi hyn*, nid oes angenheidrwydd ond symud y glo gormodol a roddwyd ar ben y tân, pan y peidia y mygu ar unwaith: o berthynas i'r gwastraff, deillia hyn oddiar yr arfer ddrwg o brocio y tân yn rhy aml ac yn hollol ddiamcan, yr hyn yn aml a achosa i'r glo mân fyned rhwng y cinders, ac weithiau a lwyrd diffodda y tân y bwriegir ei ddiogelu.

**OIL.**—Dylid cadw pob math o olew a osgir mewn lampau heb fod yn agored i weithrediad yr awyr; a gofalar am lenwi y lampau yn y dydd, am fod defnyddio canwyll i hyn yn beryglus.

**CANWYLLAU.**—Mae canwyllau yn myned yn well wrth eu cadw ychydig fisoedd. Wrth oleuo canwyll deliuch y goleu wrth ochr y *wick* ac nid uwch ei ben.

## OARU, PRIODI, GENI, A OHLADDU.

**AWGRYMIADAU I FERCHED IEU-AINGC.**—Y mae ar ddynion gwerth i'w cael eisieu *merched* yn wragedd iddynt. Nid ydyw bwndel o ffrials, wedi ei rwymo a llinyndiad o *flats* a *quavers*, a'i berarogli a *lavender water*, a'i osod mewn ffraim, yn gymorth yn y byd i ddyn sydd yn bwriadu dwyn i fyny deulu ar fara a chig sylweddol. Y mae y *piano* a'r *crôquet* yn burion yn eu lleoedd, ac felly y mae *beads*, *ffrials*, a *falls*; ond nis gellwch wneyd ciniaw neu wely o'r naill na'r llall; ac y mae ciniaw a gwely yn angenrheidiol i gysur teuluaidd. Y mae i fywyd ei wirioneddau yn ogystal a'i fypwyon, ond gwneir y pethau hyn yn rhy aml yn fater o addurniant; meddylir am y cyrteni a'r addurniadau, ond anghofir y pren gwely. Meddylwch fod dyn o synwyr da, ac wrth gwrs yn meddu ar ragolygon da, yn edrych allan am wraig—pa siawns sydd genych o gael eich dewis? Efallai y gellwch ei ddal *es*, ond gymaint yn well fyddai iddo ei gwneyd yn werth ei ymdrech i'ch dal *chwi*! Gwnewch eich hunan yn deilwng o gael eich enill, a chewch y bydd i ymgeiswyr anrhydeddus a theilwng wneyd eu goreu i enill y fath drysor.

**DEWIS GWR.**—Gan mai nid gorchwyl boneddigesau ydyw rhoddi cynygion, nid oes angen arnynt ond am gyfarwyddiadau gyda golwg ar dderbyniad *cynygion*. Na fydded i chwi ffafrio dynesiadau dyn ag y mae genych le i feddwl sydd wedi bod yn euog o dwyllo merch ieuang; dylech ei wrthod er mwyn eich ystlen a chymdeithas. Na chredwch un y byddo ei broffes o gariad yn angerddol yn y dechreu; byddwch yn fwy galluog i'w wybod syniadau y dyn trwy ei ymddygiadau na'i eiriau. Os bydd i ddyn ieuang eich dewis o flaen ereill fel gwrthdrysych ei sylw, byddwch yn gwneyd yn iawn wrth fod yn garedig

wrtho; gyda thipyn o gefnogaeth, y mae yn debygol o ddyfod eich carwr. Na fydded i chwi wrthod cynygion dyn ieuange parchus yn oeraidd; gall y carwr gwylaidd brofi ei hun yn un teilwng a gwerthfawr, a sut bynag am hyny, dylech ymddwyn yn garedig at bawb a ddangosant barch, cyfeillgarwch, neu gariad tuag atoch. Bydd i'ch synwyr da eich dysgu i beidio goddef i un na fwriedwch ei briodi ddyfod mor agos atoch fel ag i'w gwneyd yn angenrheidiol ei wthio ymaith. Os anfonir anrheg hardd i chwi gan foneddwr, yr hwn nas gallwch ei dderbyn fel carwr, dychwelwch ef ar unwaith, gyda datganiad caredig o'ch gwerthfawrogiad o hono, ond fod yn ddrwg genych nas gellwch gadw anrheg mor werthfawr. Yn gyffredin gellwch edrych yn ffafriol ar y dynion ieuange hyny a wahoddir i'r tŷ gan eich tad a'ch mam. Os bydd dyn ieuange yn hoff o ddiodydd meddwol, ac yn cael ei ystyried yn lled "ffast" mewn cymdeithas, gwrthodwch ei gynygion, ac na fydded i chwi er dim wrando ar ei broffes o ddiwygiad. Cariad anobeithiol yn wir yw un ar ymyl anghymedroldeb. Gall wella ei arferion, ond na fydded i chwi ymddiried eich dedwyddwch ar y fath obaith ansicr. Na ddirmygwch ddyn ieuange am ei fod yn dlawd—ond os bydd yn dlawd a dioglyd, ni wna y tro i chwi yn ŵr. "Yr wyf yn cynyg priodi eich merch," ebai meddygieuange wrth foneddwr ag oedd wedi casglu cyfoeth mawr trwy ei ymrodd. "Priodi fy merch, Syr? Pa beth sydd genych at ei chadw?" "Fy *lancet* yn unig," ebai y dyn ieuange, "ond yr wyf yn meddwl ei ddefnyddio." "Chwi a'i cewch hi," ebai y tad, wedi ei daraw gan eiriau penderfynol y dyn ieuange.

Bydded i'r darllenwyr mwyn dalu sylw i'r awgrymiadau canlynol:—

1. Bydded i'ch cariad fod rai blynyddoedd yn hynach na chwi; bydd i chwi ei barchu yn fwy o gymaint a hyny.

2. Na phriodwch ddyn cyfoethog difoes; ni bydd iddo godi llawer arnoch mewn cymdeithas, a bydd i'r ychydig fantais a rydd ei arian, gael mwy na'i orbwyso gan yr orfodaeth o oddef arferion ag sydd yn anymunol genych.

3. Torwch ymaith bob cysylltiad a

charwr cyfnewidiol a thymereg—yn llawen heddyw, ac yn sarug ac afrywiog yfory. Pa fodd y gellwch feddwl am dreulio eich oes gydag un o dymerau mor gyfnewidiol?

DEWIS GWRAIG.—Priodas yw y cam pwysicaf mewn bywyd. Mae undeb anghydnaws yn gwneyd yr holl fywyd yn druenus, tra y mae undeb doeth y fendith dymhorol fwyaf. Y mae yr hwn a briodo yn fyrbwyll yn ddisynwyr. Mae priodasau cynarol yn ganmoladwy ac i'w cymeradwyo pan fyddo teulau y ddwy ochr yn foddlon, digon o foddion cynaliaeth, a'r ferch ieuange yn ddoeth a chynil. Fel rheol, ni ddylai dyn ieuange o dan un ar hugain oed briodi, ac ni chyll ddim os erys hyd nes y byddo yn ddeg ar hugain. Wrth ddewis gwraig dylai pob un gael ei reoleiddio gan ystyriaethau fel y rhai canlynol:—

*Sylwch ar Dwymer y ferch ieuange.*—Ni wna unrhyw nifer o gyrhaeddiadau i fyny am ddiffyg mwynder tymer. Bydd i'r ferch ieuange a ateb ei mam yn chwyrn brofi yn ddraen yn ngobenydd ei gŵr. Os arferu gweryla a'i chydysgoleigion yn yr ysgol, bydd yn debyg o drin ei morwynion a'i phlant. Os bydd yn un hawdd ei digio cyn priodi, bydd wedi hyny yn agored iawn i ddrwgdybiaeth a phranciau anymunol eraill.

*Gochelwch Hoeden (flirt).*—Merch ieuange fyddo yn ceisio tynu sylw, ac yn gwenu ar bawb, a ddylid gyfarfod ar ei thelerau ei hun. Ni ddylid meddwl am briodi un felly.

*Na feddylwch ambriodi un wastraffus.*—Yr oedd dyn ieuange ar giniaw yn nhŷ cyfaill gan yr hwn yr oedd tair o ferched mewn oedran priodi. Cyn ciniaw ni wyddai ar ba un o'r tair i roddi cynyg. Tua diwedd y ciniaw dygwyd caws i'r bwrdd, a chymerodd pob un o'r merched beth o hono. Cyn ei fwyta, darfu i'r gyntaf naddu y crystyn ymaith, yr ail a grafodd ei dernyn hi, a'r drydydd a'i bwytaodd fel yr oedd. Ni bu yr ymwelydd yn hwy yn amhenderfynol; cynygiodd ei law a'i galon i'r ferch, yr hon yn gynil ac heb fod yn fudr, a grafodd ei thamaid caws. Bydded i bob dyn fod yn ofalus beth fydd golygiadau ei gariad ar dreulion teuluaid a pher-

sonol ; os bydd yn wastraffus yn nhŷ ci thad a'i mam, gellwch fod yn sicr na bydd yn gynil yn ei thŷ ei hun.

*Naphriodwch un o arferion Cybyddlyd.*

—Os gwnewch, bydd iddi ddwyn ei harferion i'ch tŷ a'ch aelwyd ; ni bydd i'ch cyfeillion ei gwahodd i'w tai ; ac mewn crintachedd truenus byddai raid i chwi dreulio eich holl oes anedwydd.

*Os bydd gan wrthddrych eich serch dad doeth a mam ofalus, gellwch fentro gwneyd cynyg arni gyda llawn hyder, os derbynid eich cynyg, y bydd i'ch cydymaith a ddygwyd i fyng gan y fath rieni doeth fod yn "goron i'w gwr."*

**TREFNIADAU PRIODAS.**—

*Trwyddedau Neilldoul.*—Nis gellir cael y trwyddedau hyn ond oddiwrth yr archesgob yn unig, a hyny gyda cryn lawer o drafferth ; ac heblaw hyny, costient oddeutu £50.

*Trwyddedau Cyffredin* a alluogant bersonau mewn oedran priodol, neu rai dan oed gyda chydysniad eu rhieni neu eu gwarcheidwaid, i ymbriodi yn eglwys y plwyf y byddo un o honynt wedi byw am dair wythnos. Gellir eu cael o Doctor's Commons, neu gan unrhyw raglaw esgob (*surrogate*) am £2 10s.

*Gostegion.*—Rhaid cyhoeddi gostegion priodas yn eglwys y plwyf *dair gwaith* ; ac os bydd y partion yn byw mewn dau blwyf gwahanol, rhaid eu cyhoeddi yn eglwysi y ddau blwyf. A'r clochydd y dylid ymholi ar y fath amgylchiadau ; ei gyflog yw 1s. 6c. ac uchod. Ar ol y gwasanaeth priodas, â y partion i'r festri, a dodant eu henwau yn nghoflyfr y plwyf. Arwyddir y gofrestr gan yr offeiriad a'r tystion yn bresenol, a rhoddir tystysgrif o'r cofrestriad i'r priodfab. Gwerth y dystysgrif yw 2s. 6c., a thelir i'r offeiriad yn ol yramgylchiadau. Bydd i'r clochydd roddi pob hysbysrwydd ar y pwngc ; a gwell i gyfaill i'r priodfab gymeryd gofal y taliadau.

*Priodi trwy Gofrestriad* (Registration).

—Trwy Weithred a basiwyd yn nheyrnasiad William y Pedwerydd, gall unrhyw rai gael eu priodi yn gyfreithlon heb unrhyw wasanaeth crefyddol, trwy roddi rhybudd o'u bwriad i Gofrestrydd Priodasau yn yr ardal neu yn yr ardal-odd. Y mae tair wythnos o rybudd yn angenrheidiol, trwy i'r partion alw

yn nghyd, neu ar wahan, yn swyddfa y Cofrestrydd, yr hwn a ddoda eu henwau mewn llyfr. Pan y byddo y rhybudd wedi dyfod i fyng, nid oes angen ond dweyd wrth y Cofrestrydd y diwrnod blaenorol eich bod yn bwriadu galw yn ei swyddfa y dydd canlynol i gwblhau y cofrestriad. Cynwysa y seremoni ateb ychydig gwestiynau, a datgan eich bwriad o gymeryd naill y llall yn ŵr ac yn wraig. Nid yw y tâl ond ychydig syltiau, ac nid yw modrwy yn angenrheidiol gyda'r dull hwn, er y defnyddir hi yn gyffredin, a dodir hi am y bys yn mhresenoldeb y Cofrestrydd. Derbynia y pâr priodasol dystysgrif o'r briodas, ac y mae yn hollol gyfreithlon a diogel.

*Priodasau Ymneilldwyfr.*—Gellir eu gweinyddu mewn unrhyw le o addoliad fyddo wedi ei gofrestru, yn ol y ffurf a ddewisir gan yr enwad fyddo yn addoli yn y capel hwnw. Mewn rhai lleoedd defnyddir talfyriad o wasanaeth Eglwys Loegr. Rhaid i gofrestrydd y Dosbarth fod yn bresenol, a cheir pob hysbysrwydd ganddo o berthynas i'r dull hwn o briodi.

*Gwisg Priodas.*—Anmhosibl gosod i lawr reolau pendant o berthynas i wisgo, canys y mae chwaeth a fflasiwnau mor gyfnewidiol. Y pwngc pwysig ydyw gallu dewis gwraig fo'n gweddu i'r person. Dylai y morwynion priodas gael gwybod pa wisg a fwriada y briodferch gymeryd, er mwyn iddynt allu dewis gwisgoedd fo'n cyduno a hi.

*Y drefn wrth fyned i'r Eglwys* sydd fel y canlyn :—*Y Briodferch*, yn cael ei dilyn gan ei thad, yn aml ei mam, a phob amser gan un o'r *morwynion*, yn y cerbyd *cyntaf*. Cynorthwyr y Briodferch allan o'r cerbyd gan ei thad, yr hwn a'i harweinia at yr allor, y fam a'r forwyn yn dilyn. Dilynuir hwy gan y morwynion ereill, yn cael eu cynorthwyo gan y gweision, os bydd mwy nag un.

*Y Priodfab* a feddiana y cerbyd *olaf* gyda'r prif was—cyfaill mynwesol, neu frawd. Dilyna y cwmini *cyntaf*, a safu yn gwynebu yr allor, *gyda'r briodferch ar ei law aswy*. Cymera y tad ei le y tu ol, gyda'r fam, os bydd yn bresenol.

*Y brif Forwyn* Briodas a safu ar yr *aswy* i'r *briodferch*, i ddal ei menyf, a'i *hancherchief*, a'r blodeu ; trefna ei chymdeithion eu hunain ar yr *aswy*.

*Cofiwch gymeryd y Drwydded a'r Fod-  
rwy i'ch canlyn*.—Y mae tâl yr offeiriad  
yn ol gallu a sefyllfa y priodfab; dis-  
gwylia y clochydd *bun' swllt*, a dylid  
rhoddi ychydig i'r wraig neu y gŵr fyddo  
yn gosalu am yr eglwys.

*Ar ddiwedd y Sremoni, ar ol i'r  
briodferch gymeryd braich y priodfab,  
cerddant i'r festri, y lleill yn dilyn*; yna  
arwyddir enwau, a gwneir cofrestrriad, ac  
ar ol hyny â y pâr priodasol i'w cerbyd,  
er mwyn brecwesta, a'r lleill yn dilyn.

*Mac y drefn o ddychwelyd o'r Eglwys  
yr un fatha phan yn myned yno, oddigerth  
fody priodfaba'r briodferch gyda'ugilydd,  
y briodferch ar ei aswy, a'r gwas a'r for-  
wyn, neu dad y briodferch, yn eistedd  
ar yr eisteddleuoedd blaen.*

*Y Brecwast*.—Os bydd y parti priod-  
asol yn lluosog, eistedda y pâr priodasol  
wrth ganol y bwrdd hir, a dylid llenwi  
dau ben y bwrdd gan bersonau mewn  
oed, un o bob teulu os yn bossibl. Dylai  
pob un wneyd ei oreu i wneyd yr am-  
gylchiad mor ddedwydd ag y byddo  
modd. Dylai uu o' aelodau hynaf  
un o'r ddwy ochr, rywbryd cyn diwedd y  
brecwast, godi ar ei draed, ac mewn  
ychydig eiriau pwrpasol, gynys "Iechyd  
a dedwyddwch y pâr priodasol." Gwell  
yfed eu hiechyd gyda'u gilydd nac ar  
wahan; ac ar ol ychydig hamdden,  
dylai y priodfab ddychwelyd diolchgar-  
wch, yr hyn a all wneyd heb unrhyw  
bryder, gan na fydd neb yn disgwyl ar-  
aeth ganddo ar y fath achlysur. Ychydig  
eiriau teimladwy yw yr oll a ofynir.  
Diwedd y brecwast yn gyffredin ar  
ymadawiad y pâr dedwydd ar eu hynt  
briodasol.

*Cardiau*.—Weithiau anfonir cardiau  
gan y pâr priodasol i'w perthynasau a'u  
cyfeillion; ond yn ddiweddar y mae y  
ffasiwn yma bron wedi llwyr ddarfod. Y  
dull cyffredin yn bresenol yw dodi hys-  
bysiad o'r amgylchiad yn y newyddiad-  
uron, gyda'r geiriau "No Cards" ar ei  
ddiwedd.

*Derbyniad Cyfeillion*.—Pan y dych-  
wela y pâr priodasol, derbynir cyfeillion,  
pryd y rhoddir gwîn a theisen i bob un  
o honynt, ac y diolchir iddynt am eu  
llongyfarchiadau. Ni ddylai y briodas-  
ferch dderbyn ymwelwyr heb fod mam,  
chwaer, neu gyfeilles, yn bresenol.

*Hynt Briodasol*.—Dibyna yr Hynt  
Briodasol ar amser ac amgylchiadau y  
pâr priodasol. Y mae Tunbridge Wells,  
Isle of Wight, Cornwall, Gogledd Cym-  
ru, llynoedd Westmoreland, llynoedd  
Kilarny, yn yr Iwerddon; hefyd golyg-  
feydd Ysgotland, yn lleoedd tra dymuniol.

*Teisen Briodasol*.—Pedwar pwys o  
flawd da sych; pedwar pwys o ymenyn  
ffres; dau bwys o siwgr lwmp; chwarter  
pwys o mace, wedi ei falu yn fân; yr un  
swm o nutmegs. At bob pwys o flawd  
ychwanegwch wyth o wyau; golchwch  
bedwar pwys o gurrants, a phigwch a  
sychwch o flaen y tân; gwynwch bwys  
o almonds melynion, a thorwch ar eu hyd  
yn deueuon; pwys o cŵron; pwys o  
candied orange; yr un faint o candied le-  
mon; haner peint o frandi. Ar ol gwneyd  
y pethau hyn yn barod, gweithiwch yr  
ymenyn a'ch dwylaw i fath o hufen, yna  
curwch iddo siwgr am chwarter awr; cur-  
wch wyn yr wyau yn ffroth cryf; cymysg-  
wch hwy a'r siwgra'r ymenyn; curwch fel-  
yn yr wyau am hauer awr o leiaf, a chy-  
mysgwch hwy a'r deisen; yna dodwch y  
blawd i mewn, yn nghyd a'r mace, nut-  
meg, gan ddal i'w euro nes y bo y ffwrn yn  
barod, tywelltwch i mewn y brandi, a  
churwch y currants a'r almonds yn ysgafn  
i mewn. Rhwymwch dair dalen o bapur  
gwyn o amgylch gwaelod eich cychel i'w  
gadw rhag rhedeg allan; rhwbiwch ef yn  
dda ag ymenyn; a dodwch eich teisen i  
mewn. Mae yn ofynol ei chrasu am  
dair awr cyn y bydd yn iawn.—Ond y  
ffordd oraf a rhataf yw prynu y deisen  
briodasol wedi ei gwneyd yn barod, gan  
confectioner cyrifol. Bydd un a brynir  
felly yn fwy addurniedig na'r un a ellir  
wneyd gartref.

*Bedyddiadau*.—Gellir bedyddio yn ol  
ffurf Eglwys Loegr, neu yr Eglwysi Yn-  
neillduol; rhaid cofrestru enw pob plent-  
yn, ac amser ei enedigaeth. Y mae y  
tâl am fedyddio yn amrywio yn ol am-  
gylchiadau. Gellir cael pob hysbys-  
rwydd gan yr un fo'n cadw yr eglwys  
neu y capel. Y mae rhieni a rhieni  
bedydd y plentyn i fod yn yr eglwys er-  
byn yr amser priodol. Y famaeth sydd  
i gario y plentyn. Gwisgir y plentyn  
yn ol amgylchiadau y rhieni. Rhoddir  
anrheg fechan weithiau i'r plentyn gan  
ei dad neu ei fam fedydd.



**Cofrestrriad Genedigaethau.**—Mae cyfraith Cofrestrriad yn gofyn i'r rhieni, neu y rhai fo yn byw yn y tŷ y genir ef ynddo, i gofrestru y fath enedigaeth yn swyddfa y Cofrestrydd o fewn *chwech wythnos* i'w enedigaeth. *Nid oes dim tâl* am gofrestru genedigaeth o fewn yr amser yma, ond ar ol terfyn yr ail ddiwrnod a deugain ar ol yr enedigaeth, rhaid talu y swm o *saith swllt a chwechceniog*. Ar ol chwe' mis gwedi yr enedigaeth, nis gellir ei gofrestru o gwbl. Felly, y mae o bwys i'r tad, yn uniongyrchol ar ol geni y plentyn, ac yn absenoldeb tad, yr un fo'n byw yn y tŷ y cymero yr enedigaeth le ynddo, i fyned i swyddfa y Cofrestrydd, yn y dosbarth, a rhoddi iddo y manylion canlynol:—

1. Dydd o'r mis pan y'i ganwyd.
2. Enw y plentyn.
3. Mab neu ferch.
4. Enw y tad.
5. Enw ac enw gwryfol y fam.
6. Gradd neu alwedigaeth y tad.
7. Enw, disgrifiad, a phreswylfod y person fyddo'n rhoddi y wybodaeth.
8. Dyddiad y Cofrestrriad.

**Enw Bedyddiedig.**—Os bydd i unrhyw blentyn a gofrestrir o fewn chwe' mis i'w enedigaeth, gael unrhyw enw ychwanegol wrth ei fedyddio nag a roddwyd iddo wrth ei gofrestru, gellir ychwanegu yr enw hwnw at y cofrestrriad blaenorol, os ymwelir a'r Cofrestrydd yr hwn a gofrestrodd y plentyn yn wreiddiol, o fewn saith niwrnod i'r fath fedydd. I'r pwrpas hwn rhaid cael tystysgrif cofrestrriad gan y gweinidog, am yr hon y rhaid talu un swllt. Rhaid cymeryd y tystysgrif hon i'r Cofrestrydd, yr hwn a dderbynia swllt arall am ychwanegu yr enw at y cofrestrriad blaenorol.

**Dewis enwau.**—I ddewis enwau ar eu plant, dylai rhieni ymgynghori a'r rhifres o enwau a geir yn y gwaith hwn.

**Plant a Enir ar y Môr.**—Os bydd i blentyn gael ei eni ar y môr, mewn llong Brydeinig, gofynir i'r cadben wneyd nodiad o holl fanylion y fath enedigaeth, ac ar laniad y llong mewn unrhyw ran o'r deyrnas, neu yn gynt os ca gyfleusdra, i anfon tystysgrif o'r enedigaeth trwy'r Post Office (ni bydd eisieu talu cludiad y llythyr), i'r Registrar General, General Register Office, London.

**ANGLADDAU A CHOFRESTRRIAD MARWOLAETHAU.**—Gwell bob amser ydyw rhoddi gofal yr angladd ar yr *undertaker* neu y saer, ond gofalu am gael ei amcangyfrif o'r treulion yn flaenorol, a'i gadw at hyny. Gall ef gynghori pa bethau a ddylid wneyd, trwy fod angladdau yn gwahaniaethu yn ol sefyllfa teulu yr ymadawedig, ac arferion gwahanol gymydogeathau.

**Cofrestrriad Marwolaethau.**—Rhaid i dad neu fam unrhyw blentyn a fyddo marw, neu yr un fo'n byw mewn tŷ y cymero marwolaeth le ynddo, roddi rhybudd o'r fath farwolaeth i gofrestrydd y dosbarth o *fewn pum' niwrnod* ar ol y fath ddigwyddiad. Dylai rhyw un a fyddo yn bresenol pan gymerodd y farwolaeth le, ymddangos o flaen y cofrestrydd i roddi cyfrif am amgylchiadau neu yr achos o'r farwolaeth yn ol y wybodaeth fo ganddo ef neu hi. Rhaid i'r cyfryw berson arwyddo ei enw ef neu hi, a rhoddi lle ei breswylfod ef neu hi. Dyma y manylion angenrheidiol:—

1. Dyddiad marwolaeth.
2. Enw yn llawn.
3. Ystlen ac oedran.
4. Gradd neu alwedigaeth.
5. Yr achos o farwolaeth.
6. Enw, disgrifiad, a lle preswylfod yr un fo'n rhoddi'r wybodaeth.
7. Dyddiad y cofrestrriad.

**Personau yn marw ar y môr.**—Rhaid i lywydd y llong y cymero y farwolaeth le ynddi ymddwyn yr un fath ag y gorehymynir gwneyd yn achos genedigaeth.

**Tystysgrifau Marwolaeth.**—Rhaid i'r cofrestrydd roddi i'r person yn gofalu am yr angladd, *heb ddim tâl*, dystysgrif o'r farwolaeth, a rhaid trosglwyddo y fath dystysgrif i'r gweinidog fyddo yn claddu. Y mae y neb a gladdo un marw heb dystysgrif, yn agored i ddirwy o £10.

**Hysbysiad o Farwolaeth.**—Arferir yn gyffredin, yn uniongyrchol ar ol marwolaeth, anfon hysbysiad o'r amgylchiad ar bapur ymyl du, i holl aelodau y teulu, gan ddymuno arnynt wneyd y peth yn hysbys i gyfeillion y teulu. Dylai y nodyn hwn gael ei ddilyn gan un arall yn hysbysu pa bryd y cymer yr angladd le.

**Gwahoddiadau neillduol.**—Nid ystyrir

yn angenrheidiol anfon y rhai hyn i berthynasau agosaf y teulu; ond dylid eu hanfon i gyfeillion.

*Menyg.*—Bydd i'r personau yn dyfod i'r angladd ofalu am ddod a menyg i'w canlyn; ond da ydyw gofalu am ychydig barau o rai o wahanol fesurau, rhag ofn y gall unrhyw ddamwain ddigwydd. Gellir trefnu gyda'r gwerthwr fod i'r rhai na ddefnyddir i gael eu dychwelyd yn ol.

*Hatbands.*—Bydd i'r *undertaker* ofalu am y rhai hyn.

*Galarwisgoedd.*—Bydd i'r *dressmaker* roddi hysbysrwydd pa radd o fowrnin a wisgir, yr hyn a ddibyna ar oedran yr ymadawedig, a pherthynas y mowrniwr ag ef. Bydd i'r *undertaker* roddi hysbysrwydd pa radd o fowrnin fydd yn angenrheidiol ar y cerbyd, ceffylau, &c.

*Wrth fyned i'r Angladd* perthynasau agosaf yr ymadawedig sydd i fod yn y cerbyd agosaf i'r *hearse*. Yr un drefn sydd wrth ddychwelyd. Ni ddylai ond perthynasau agosaf a phrif gyfeillion y teulu ddychwelyd i'r tŷ ar ol yr angladd; a dylai eu hymweliad fod mor fyr ag y byddo modd.

*Mewn Angladdau cerdded* y mae yn arwydd o barch pan fo cyfeillion yn dwyn yr elor. Mewn angladdau pobl ienaing, dylai yr elor gael ei chario gan gyfeillion yr ymadawedig yn gwisgo menyg gwynion. Gellir doddi blodeu ar yr arch, a'u lluchio i'r ac ar y bedd.

*Ymweliadau o gydymdeimlad.*—Dylid talu yr ymweliadau hyn o fewn wythnos neu bythefnos; gan gyfeillion o fewn ail wythnos y pythefnos.

**SEREMONIAU.**—Y mae pob seremoniau ynddynt eu hunain yn arwynebol; eto dylai pob dyn eu gwybod. Hwyt-hwy ydynt amddiffynfeydd allanol moesau ac ymddygiadau, y rhai yn aml a droseddidi oni bai yr amddiffyniad sydd yn cadw y gelyn yn ol. Am y rheswm hyn y byddyn yn ymddwyn at y ffwl a'r ysgogyn gyda chrynlawer o seremoni, trwy nad ydyw dygiad da i fyny yn ddigon o amddiffyniad rhagddynt.

**MODRWYAU PRIODAS.**—Ymddengys i'r arferiad o wisgo modrwyau priodas ddechreu yn mhliith y Rhufeiniaid. Cyn y briodas, cynhelid cyfarfod o gyfeillion yn nhŷ tad y ferch ieuangc. i benderfynu y weithred briodas,

a pha bryd y telid y gwaddol. Byddai gwledd yn gyffferin ar yr achlysur yma, ar drefyn yr hon y byddai y gŵr ieuangc yn rhoddi modrwy i'r ferch, fel gwystl, yr hon a ddodid ganddi ar bedd-werydd bys ei llaw aswy, *am y credid fod geuyn yn cyrraedd o hwnnw i'r galon*, ac yna nodid diwrnod y briodas.

**LLYWODRAETHIAD TEULU-AIDD.**—**RHEOLAU TEULUAIDD.**—Bydded genych le i bob peth,—a phob peth yn ei le, pan fydd angen am dano.—Gwnewch bob peth yr adeg briodol.—Cadwch bob peth at ei waith priodol ei hun.—Cadwch eich tymer, a chydddygwch a gwendidau eraill.—Byddwch gynil, ac nid yn wastraffus.—Gochelwch foethau; byw yn blaen yw y goreu i'r corff a'r meddwl.—Gochelwch anghymedroldeb, feleich gelyn mwyaf ofradwy.

**CYFARWYDDIADAU I BEN-TEULUES IEUANGC.**—1. Ceisiwch gymeriad morwyn yn bersonol, cyn ei llogi, oddiwrth ei meistres flaenorol; fel hyn yr ydych yn fwy tebyg o gael y gwir i gyd na thrwy gymeriad ysgrifenedig. Mae pedwar ogwestiynau yn angenrheidiol eu gofyn ar yr achlysur yma—o berthynas i onestrwydd, sobrwydd, glanweithdra, a thymor. Os na fydd yr atebion yn hollol foddhaol, gwell i chwi beidio cyflogi y forwyn.

2. Ymddygwch bob amser yn dirion tuag at eich morwynion, gan gofio fod ganddynt deimladau i'w clwyfo fel rhyw rai ereill. Na oddefwch ormod o hyfdra; caniatewch iddynt gael pob tynerwch rhesymol; a threfnwch iddynt gael cyfleusdra i fyned i foddion gras ar y Sabbath.

3. Mae yn anghyfleus yn aml i gael unrhyw ddydd gwyl penodedig, ond pan y bydd morwyn yn dymuno mynd allan i wneyd negesau iddi ei hun, neu i ymweled a'i chyfeillion, os yn bosibl, gadewch iddi fyned; ond gwnewch real, nad oes yr un forwyn i gael gadael y tŷ, hyd yn oed am chwarter awr, heb ganiatad.

4. Ni ddylid goddef yr un ymwelydd yn y gegin heb ganiatad yn flaenorol. Dylai y feistres gael ei boddhau o berthynas i barchusrwydd pob person a ollyngir i'w thŷ. Mae llawer o laddradau wedi digwydd trwy i ferched gwamal

ollwg dynion i dai eu meistradoedd heb wybod ond ychydig os dim am eu cymeriadau.

5. Dylid talu cyflogau morwynion yn gyson bob chwarter. Cynllun da ydyw cadw llyfr, a'r swm dyledus i bob un am y flwyddyn wedi eu doddi i lawr o dan ei henw, a dylid nodi pob talion a'i arwyddo gan y forwyn.

6. Wrth logi morwyn byddwch yn ofalus i egluro iddi ei dyledswyddau, a gwneyd iddi ddeall rheolau y tŷ yn llawn gyda golwg ar oriau, y prydiau bwyd, a dyledswyddau y morwynion ereill, os bydd rhai.

7. Dylid rhoddi gorchymyn i'r gogyddes yn union ar ol brewest am y prydiau bwyd ynystodydd, a dylai yr holl forwynion yr adeg yma ofynam bob peth fydd arnynt eisieu o'r ystôr-ystafell, — megis sebon, canwyllau, &c. Os bydd y teulu yn fawr, bydd gan y gogyddes lawer o bethau i feddwl am danynt. Yn yr achos yma gwell ysgrifenu allan y *bill of fare* am giniaw bob dydd, yr un fath ag y gwneir gyda chiniaw neillduol.

8. Dylid cadw llyfr yn cynwys rhifres o holl ddodrefn y tŷ, llineiniau, llestri, &c. Dylid myned drosto ar adegau neillduol, a nodi pob ychwanegiad neu leihad.

9. Ni ddylid caniatáu *byth* i forwynion i gelu toriadau. Dylid gosod i lawr reol bendant fod pob peth a dorir, pa mor fychan bynag, i gael ei hysbysu i'r feistres.

10. Os yw eich tŷ yn un mawr, dylai yr upper housemaid ofalu am ddillad y gwelyau a llineiniau y byrddau. Mewn tai llai, gofala y feistres ei hun am y pethau hyn. Dylid archwilio y llineiniau bwrdd yn ofalus cyn eu hanfon i'w golchi, oblegid y mae yn haws symud ysteiniau ffrwyth neu win cyn eu golchi na wedi hyn. Dylid trwsio pob twll bychan a lle teneu.

11. Ni ddylid defnyddio cynfasau hyd nes y byddont yn dyllau, ond dylid eu troi, ochrau i'r canol, pan y byddont wedi myned yn denau, a bydd iddynt felly barhau lawer yn hwy na phe heb eu troi.

12. Dylid edrych dros llineiniau y gegin yn achlysurol a'u trwsio. Dylid rhoddi nifer penodol i bob morwyn bob

wythnos yn ol natur y gwaith fydd ganddynt i'w gyflawni.

13. Dylai fod gan bob Penteuclus yn ei hystôr-ystafell *fox* yn cynwys rhai arfau defnyddiol, megis morthwyl, llif fawr a llif fechan, *jile*, cyn, *piners*, *pliers*, *screw-driver*, pot *glue*; dylai fod ganddi hefyd ystôr o hoelion mawr a bychain, screws, bachau, tacks, modrwyau cyrteni, &c.; mae angen y pethau hyn yn barhaus, a gall llawer o bethau gael eu gwneyd heb y drafferth a'r gôst o anfon o hyd am y saer.

14. Dylid penodi rhywaelod o'r teulu i ofalu myned y petholaf bobnostrwyty, i edrych a fydd pob man yn ddiogel, y tŷ wedi ei sicrhau, y tânau allan, a phob goleu wedi ei ddiffoddi.

CYNILDEB TEULUAIDD.—Os oes genych ddauid o dir, na thefwch ymaith drochion sebon. Y mae trochion sebon a lludw yn wrtaith rhagorol i blanhigion ieuainge.

*Dillud Gwlanenog.* Dylid eu golchi mewn trychion sebon poeth, a pheidio eu rinshio. Mae dwfr claiar yn eu gyru i mewn.

*Na adwech de neu goffi* i sefyll mewn llestr *tin*.

*Ysgaldirwch* eich llestri coed yn aml, a chadwch eich llestri *tin* yn sych.

*Cadwch* ddaleni gwynion llythyrau i ysgrifenu arnynt.

*Os oes genych blant* yn dechreu ysgrifenu, prynwch swm o bapur garw ar unwaith, a chadwch o dan glo, yn barod i wneyd copiau iddynt. Bydd i hyu arbed llawer o arian i chwi.

*Edrychwch na fo dim yn cael ei daflu ymaith* a all fod o ddefnydd i'ch teulu eich hun neu i deulu arall tlotach.

*Hyd y gallowch*, gofalwch fod crystiau bara yn cael eu bwyta cyn iddynt fyned yn rhy galedion; taenwch y rhai a fyddont heb eu bwyta, a gadewch iddynt sychu, i gael eu malu i wneyd pwdingau, neu eu mwydo i wneyd brywes.

*Gwneir Brywes* o grystiau a darnau sychion o fara, wedi eu mwydo am beth amser mewn llaeth poeth, a'u manau, a'i fwyta gyda halen. Uwchlaw y cwbl, na adewch i grystiau ymgasglu yn y fath symiau fel ag i fethu eu defnyddio. Gyda gofal priodol, nid oes angen am i'r un tamaid o fara fyned yn ofer.

*Dylai yr holl waith trwsio* gael ei wneydunwaith yn yr wythnosos yn bosibl  
*Na roddwch waith gunio allan i'w wneyd.* Os na fydd yn bosibl i chwi ei wneyd yn y tŷ trwy gynorthwy eich teulu eich hun, ceisiwch rhywun i'r tŷ a gweithiwech gyda hi.

*Bydd dâl* llon'd warming-pan neu raw dâin o lo o'r grat, uwchben dodrefn wedi eu varnishio, dynu yr yspotiau gwynion o hono. Dylid gofalu peidio dâl y tân yn ddiagon agos i beri iddo ddeifio; a dylid rhwbio y lle a gwlanen tra y byddo yn gynnes.

*Bydd i Sal-volatile* neu hartshorn adnewyddu lliwiau a dywyd ymaith gan *acid*. Gellir ei ddiferu ar unrhyw ddilledyn heb ei niweidio.

*Dylid poethi haiarn newydd* yn raddol ar y cyntaf. Ar ol iddo gael ei ddefnyddio rai gweithiau, nid yw mor dueddol i gracio.

*Glanhewch Kettle pres*, cyn ei ddefnyddio i goginio, gyda halen a finegr.

*Carpedau.*—Amlaf y byddo carpedau yn cael eu hysgwyd, hwyaf y parnant: mae y baw sydd yn ymgasglu o danynt yn treulio allan yr edafedd.

*Dylid cadw cadachau llan* yn ofalus, oblegid y maent yn dra defnyddiol mewn afiechyd. Os byddant wedi myned yn fudron a theneu wrth lanhau arian, &c., golchwech hwy a chrafwech yn *lint*.

*Os byddwch yn cael anhawsder i gael dwfr meddal i olchi*, llenwch faril neu dŵb yn haner llawn o ludw coed, a llenwch i fyny a dwfr, fel y byddo genych gymysgedd wrth law pan fydd arnoch angen am dano. Bydd i alwyn o hwn wedi ei roddi mewn llestriad o ddwfr caled, ei wneud morfeddal a dwfr gwlaw. Defnyddia rhai pobl pearlsh neu potash; ond costia hwn rywbeth, ac y mae yn dra thueddol o niweidio y dillad.

*Na fydded* i chwi adael i neb ddiferu cyllill a fyre i ddwfr poeth. Cynllun da ydyw meddu llestr tin mawr i'w golchi ynddo, a gofalu am iddo fod yn ddiagon uchel i olchi y llafnau heb wlychu y coesau neu y carnau.

*Gwell* cwblhau ychydig waith yndda, na haner gwneyd cymaint ddengwaith.

*Mae charcoal powder* yn beth rhag-otrol i roddi *polish* uchel ar gyllill.

*Bydd i Fonet a thrimings* barhau lawer yn hwy, os brwsir hwy yn ofalus ar ol bod allan yn cerdded.

*Gellir casglu llawer* o wybodaeth trwy sylwi pa fodd y gwneir pethau mewn teuluoedd parchus a threfnus.

*Ni ddylid tynu yr hadau* allan o ofalau a fwriedir i wneyd dumplings, am eu bod yn rhoddi blas dymuol, ar y dumpling.

*Mae pwedin rice* yn rhagorol heb siwgr na wyau, os crasir ef yn araf: ceidw yn well heb wyau.

*Mae gwastraff gwirfoddol yn sicr o ddwyn angen gwirioneddol.*—Na fydded i chwi goginio deryn ffres o gig tra y byddo dim o'r hen *joint* heb ei fwyta—hasiwch y cig oer, a chyda *gravy* a thipyn o ddeheurwydd, gellwch wneyd pryd yn ychwaneg o hono.

*Gellir gwneyd chwart o soup rhagorol* o werth ceiniog o draed defaid.

*Mae cyrteni maxrion*, wedi eu tynu yn glòs o gylch y gwely, yn dra niweidiol, oblegid cadwnt yr awyr anmhur a gyfoda o'n cyrff pan yn cysgu, a rhwystrant yr awyr ffres rhag dyfod i mewn.

*Mae prydlondeb wrth dalu dyledion* yn anhegrol i benteulues dda. Dylid talu holl filiau y masnachwyr yn wythnosol, oblegid felly gellir cywiro unrhyw gangymeriadau tra y byddo y trafodiaethau yn fyw ar y cof.

*Camgymeriad* ydyw gadael plant i siarad o hyd. Nid ydym am ddweyd y dylid eu rhwystro i siarad ar adegau priodol, ond dylid eu dysgu i wybod pa bryd y mae yn briodol iddynt dewi.

C Y S U R T E U L U A I D D :—  
i. Bwtwdech yn araf ac ni fwytwdech ormod.

ii. Bydd cadw y traed yn gynnes eich rhwystro rhag cael cur yn y pen.

iii. Diweddar wrth freewast—brysiog wrth giniau—croes wrth dē.

iv. Nodwydd fechan a wnia gyflymaf.

v. Cydrhwng gŵr a gwaig mae ychydig o sylw a gofal yn cynrychu cariad mawr.

vi. Gosodwch eich bwrdd yn drefnus, pa un bynag a fydd genych gwmmi ai peidio.

vii. Rhoddwch eich pelleni neu *reels* o gotwm mewn cydau bychain, gan adael y penau allan.

viii. Beth bynag addewiswch roddi ym-aith, cofiwch bob amser *gadw eich tymer*.

ix. Mae ffenestri budron yn dweyd wrth y rhai fo'nt yn myn'd heibio mai gwraig afler sy'n byw yn y tŷ hwnw.

x. Mewn tywydd oer y mae leg o futton yn well wrth ei chadw dri neu bedwar o ddiwrnodiau.

xi. Pan y byddo cig yn crogi, symudwch ei le yn aml.

xii. Gwneir mwy o ddrwg yn aml nag a feddylir wrth ollwng dieithriaid i ymweled a chleifion.

xiii. Dylid cadw matches, allan o gyr-aedd plant, yn mhob ystafell wely. Maent yn ddigon rhadlon.

xiv. Mae dumplings suet ac afalau yn well os berwir hwy mewn rhwyd nag mewn llian. Ysgumiwch y crochan yn dda.

xv. Pan y byddo tyweli yn myned yn deneuon yn y canol, torwch yn ddau, a gwniwch y *selvages* yn nghyd, a hemiwch yr ochrau.

xvi. Os bydd arnoch eisieu rhyw ddernyn neillduol gan y cigydd, ewch a phrynwch ef eich hun.

xvii. Bydd i un bais wlanen wisgo cyhyd a dwy o'r bron, os troir hi y tu blaen yn ol, pan y dechreuau y tu blaen wisgo.

xviii. Ychydig o bobl sydd yn ystyried mor bwysig i iechyd y teulu ydyw gollwng digonedd o awyr iach ffres i'r tŷ.

xix. Pan yn sychu halen at wasanaeth y lwrdd, na roddwch ef yn y *salt-cells* hyd nes y byddo yn oer, neu caleda yn lwm.

xx. Na roddwch lestri arian, cyllill a ffyre, &c., o'r neilldu heb eu glanhau, neuachosir anghyfleusdra mawr pan fydd arnoch angen am danynt.

xxi. Dylid agor gwelyau plyf bob tair blynedd, tynu y llwch o'r *ticking*, ei seboni, a'i gwyro, a thrin y plyf a'u dychwelyd.

xii. Dylai person a llygaid gweiniaid, wrth roddi edef yn y nodwydd, ei dal uwchlaw rhywbeth gwyn, trwy yr hyn y cynorthwyrir y golwg.

xxiii. Wrth drwsio cynfasau a chrysau, rhoddwch y darnau yn ddigon mawr, neu bydd i'r rhanau teneu roddi sffordd wrth i chwi eu golchi, a dadwneir yr holl waith.

xxiv. Wrth ddarllen wrth oleu canwyll, dodwch y ganwyll y tu ol i chwi, fel y byddo i'r goleu fyned dros yr ysgwydd ar y llyfr. Bydd i hyny gynorthwyo eich llygaid.

xv. Ni chostia *fire-guard* wire, ar bob grât yn y tŷ, ond ychydig, ond lleiha y perygl oddiwrth dân yn fawr. Gosodwch hwy cyn myned i'r gwely.

xxvi. Yn y gauaf cyflwynwch waith y tŷ yn mlaen tra y byddo genych oleu dydd, rhag i chwi orfod rhedeg o amgylch gyda canwyllau. Bydd i chwi felly ar led llawer o yspotiau brasler ar eich dillad, a bod yn fwy diogel rhag tân.

xxvii. Byddwch yn dra gofalus i gadw traed eich plant yn gynnes a sych. Na chladdwch eu cyrff mewn gwlaneni tewion, a gadael eu penliniau a'u coesau yn noethion.

xxviii. Mae afalau wedi eu tori yn chwarteri a thynu eu crwyn, a'u crasu gydag ychydig ddwfr a siwgr, a'u bwyta gyda *rice* berwedig, yn ymborth rhagorol i blant.

xxix. Mae *strap* lleir, gyda bwel i'w sicrhau, lawer yn fwy hwylyus i sicrhau box na llinyn wrth deithio; mae rhwymo a dadrwymo yn orchwyl blin a diflas.

xxx. Ar ol golchi, edrychwch yn fanwl dros y dillad, a gwniwch bob botwm, bachau a daleni, &c., cyn eu cadw. Dylid cadw box bychan wrth law gyda phlob math o fotymau, &c., ynddo.

xxxi. I awyru agorwch eich ffenestri yn y pen a'r gwaelod. Rhuthra yr awyr ffres un sffordd, tra y dianga yr awyr anmhur trwy'r llall. Felly, byddwch yn gyru allan eich gelyn ac yn croesawu eich cyfail.

xxxii. Nidoes dim gwir gynildeb wrth brynu calico rhad i wneyd crysau nôs boneddigion. Gwisga calico rhad yn fuan yn dyllau, ac â yn ddrwg ei liw wrth ei olchi.

xxxiii. Mae eistedd i wnio wrth fwrdd a gorchudd tywall drosto yn niweidiol i'r llygaid. Pan na ellwch fiddwl am yr un feddyginiaeth arall i'r drwg, rhoddwch *sheet* o bapyr gwyn o'ch blaen.

xxxiv. Mae llawer iawn yn cwyno o herwydd diffyg treuliad : a pha ryfedd,

pan y maent, o herwydd yr arferiad o lyngcu eu bwyd bron fel y bydd ar eu platiau, yn anghofio i baddyben y rhoddwyd dannedd iddynt.

xxxv. Na oddefwch i'ch morwyn un amser roddi cyllill a ffyre wedi eu sychu ar y bwrdd, oblegid fel rheol, y maent yn sicr o'u sychu gyda chadach budr. Wrth lanhau cyllill a ffyre yn loew, gorfodir hwy i ddefnyddio cadach glân, neu dinstyriant eu gwaith eu hunain.

xxxvi. Ni enillir dim wrth gyflogi morwynion ieuainge a dibrofiad am gyflogau bychain; torant, gwastraffant, a distrywiant fwy na'r gwahaniaeth yn y gyflog, heb son dim am gysur a pharchusrwydd.

### MEISTRADOEDD A GWEISION A MORWYNION.—Gwel “*Cyfrailh Meistradoedd a Gweision a Morwynion*,” tudal. 43.

DEWIS MORWYNION.—Nid gorchwyl hawdd ydyw hwn; oblegid ein morwynion sydd yn gwneyd neu yn dadwneyd ein cysur teuluaid. Talwch sylw i ymddangosiad personol y rhai a gynygiant eu gwasanaeth i chwi. Os bydd llawer o ribanau a phethau diwerth ereill ar eu gwisgoedd, eu dwylaw heb fod yn hollol lân, a'u gwisgiad yn after, ni wnant y tro i chwi. Ni bydd i'r morwynion hyny a broffesant allu gwneyd pob peth, yn gyffredin allu llawer. Y mae gwyleidd-dra yn arwydd gobeithiol. Mae eu clywed yn ateb cwestiynau yn rhydd ac agored i'w ystyried yn rhinwedd mawr. Gellir mentro morwynion a fyddont wedi gallu cadw eu lleoedd blaenorol am hir amser. A dyma i chwithau, feistriaid a meistresi, *gyngor i gael morwynion da*. Gadewch iddynt weled yn eich ymddygiad tuag at ereill y rhinweddau a'r cyrhaeddaiadau a ddymunech iddynt eu meddu a'u harfer gyda chwi. Byddwch yn wastad yn garedig a mwyn. Os byddwch yn ceryddu, gwnewch hyny gyda rheswm ac mewn tymer dda. Byddwch yn barchus, a chwi a berchir ganddynt hwy. Byddwch yn garedig, a chwi a dderbyniwch garedigrwydd ganddynt

hwy. Ystyriwch eu lles hwy, a bydd iddynt hwy astudio eich lles chwithau. Nid peth i'w ddiystyru ydyw cael cyfaill mewn gwas neu forwyn. Byddwch yn gyfaill neu gyfeilles i'ch gwas neu eich morwyn, a rhaid i galon y forwyn neu y gwas fod yn ddrwg iawn, os na chynhesa mewn cariad tuag atoch chwithau.

AWGRYMIADAU I FORWYN TY (*Housemaid*).—1. Bydded i chwi arfer trefn a rheol gyda'ch gwaith, a cheiswch drefnu pethau fel y byddo gwaith pwysig pob dydd wedi ei gwblhau cyn un o'r gloch os yn bosibl. Gall y tabl canlynol wasanaethu fel cyfarwyddyd:—

*Llun*.—Golchwch eich dillad da eich hun a'ch meistres.

*Mawrth*.—Glanhewch yr *atticks* a'r *landing*.

*Mercher*.—Glanhewch ystafelloedd gwelyau ar yr ail lofft.

*Iau*.—Glanhewch y *drawing-room* a *landing* y lofft gyntaf.

*Gwener*.—Glanhewch y breakfast-droom, ochrau y grisiau, a gloewwch y odrefn bob yn ail wythnos.

*Sadwrn*.—Glanhewch y llestri ar-ian, &c.

2. Eich gwaith ydyw casglu y dillad budron at eu golchi (yn gyffredin ddydd Llun y boreu), a dodwch bob dilladau yn bentyrâu yn barod i'w cyfrif, pan y daw y feistres i'w dodi i lawr yn ei llyfr golchi. Pan y deuant yn ol oddiwrth yr olchwraig dylid eu cyfrif eilwaith i edrych a fydd pob peth yn iawn. Yna dylid eu dodi i galedu wrth y tân, a chymeryd dillad pob person yn y tŷ i'w ystafell ei hun.

3. Na fydded i chwi byth esgeuluso cadw pob llestr, &c., a ddefnyddir gyda *slops* yn berffaith lân; dylid eu hysgaldio bob dydd.

4. Dylech guro wrth ddrws pob bedroom cyn nyued i mewn. Dylech fod yn brydlon yn y boreu gyda'r dwfr poeth, esgidiau y boneddigion, a dweyd yr amser pan yn dwyn y dwfr poeth; hefyd hysbysu yr ymwelwyr awr arferol y brecwest.

5. Pan fyddo y brecwest yn barod, dylai yr housemaid fyn'd i'r bed-rooms, agor y fenestri yn agored, taflu dillad y gwelyau yn ol; ni ddylid eu gwneyd

heb iddynt fod yn agored i weithrediad awyr bur am awr.

6. Dylid gwneyd gwelyau gyda dwylaw glân, dylid hefyd ddefnyddio ffedog lân.

7. Ni ddylid defnyddio ysgubau a *dusters* pan yn fudron. Dylid meddu rhai at bob pwrpas, a dylid cadw pob un at ei waith eihun.

8. Dylid bod yn ofalus i beidio gadael *matches* ar hyd loriau y tŷ. Glo a cinders yr un modd. Ni ddylid byth rwbio *matches* ar y pared.

9. Dylid goleuo y lampau, cau y tŷ i fyny, a throï y gwelyau i lawr mor fuan ag y dechreuo dywyllu.

10. Dylid cymeryd dwfr poeth i'r holl wely-ystafelloedd cyn y byddo y lian ciniaw wedi ei osod ar y bwrdd, ac hefyd pan y byddo yn amser myned i'r gwely.

11. Na fydded i chwi byth lanhau *drawing-room* heb blygu y *table-cloths*, &c.; a gorchuddio y dodrefn gyda gwrthbanau, plygu y cyrteni, ar ol eu hysgwyd yn dda yn gyntaf, yna lluchio daill tŷ ar hyd y carped a'i frwsio yn dda.

12. Ni ddylid glanhau gratiau heb droi i fyny y rug a dodi hen lian o flaen tân.

13. Lle y byddo *steel grates* wedi eu polishio, dylid cadw y *register* i lawr bob amser y byddo y tân heb fod yn olau. Cofiwch azor y *register* cyn goleuo y tân.

14. Defnyddiwch fenyg bob amser wrth lanhau y grât neu wrth wneyd rhyw waith budr arall.

15. Pan y byddo ymwelwyr yn dyfod i aros i'r tŷ, dylid cymeryd eu boxes ar unwaith i'w hystafell, cymeryd y llinynau ymaith, a rlyddhau y strapiau. Dylai yr housemaid edrych fod sebon, night-lights, a matches yn yr ystafell.

16. Ni ddylid cadw ymwelwyr i sefyll yn yr *hall*, ond cylied eu dangos i ystafell ar unwaith.—Y mae y rheol yma i sylwi arni pan fyddo y meist'r neu y feistres gartref; pan y byddant allan, os bydd i ymwelwyr: alw, nid yw yn ddoeth eu gadael mewn ystafell eu hunain.

17. Os bydd i ddeicthriad alw am barceli, ni ddylid rhoddi dim iddynt heb gyfarwyddyd blaenorol. Yr un fath os dygir parceli neu genadwriaethau a thâl yn cael ei ofyn an danynt.

18. Dylid dwyn llythyrâu, newyddiaduron, a pharceli bychain, ar waiter.

19. Dylid cau drysau gerfydd eu handles. Nid oes dim yn edrych yn waeth nag ôl bysedd ar baent y drws.

20. Dylai yr housemaid gyfrif yr holl lestri arian cyn eu dodi i gadw bob nos.

21. Ni ddylid goddef i weithwyr fyned i fyny i'r lloflydd yn eu hesgidiau budron trymion. Dylid gorchuddio y carpedi lle y byddont yn gweithio.

#### AWGRYMIADAU I GOGYDDES.

—1. Cedwch y gegin a'r dodrefn, a'r holl lestri dan eich gofal mor lân ag y byddo yn bosibl.

2. Bydded eich gwisg a'ch ymddangosiad yn fanwl lân, ac yn gyfaddasol at eich gwaith; y mae ribanau a phethau felly yn anghyfaddeus yn y gegin.

3. Na roddwch ymaith ymborth heb ganiatad pendant eich meistres; a phan y bydd eig mewn perygl o fyned yn ddrwg wrth ei gadw yn rhy hir, ac heb fod angen am dano ar y teulu, bydd i'r nifer fywaf o feistresi roddi caniatad yn rhwydd i'w roddi i ryw dlawd, ond ni ddylid byth ei roddi heb yn wybod iddi.

4. Mynwch wybod chwaeth neillduol y teulu, pa un a fyddont yn hollfi eig wedi ei wneyd yn dda neu fel arall, dysglau wedi eu sesno yn uchel ynte fel arall, ac ymdrechwch gyfarfod a'u dymuniadau beth bynag fyddo eich opin-iwn chwi eich hun ar y mater.

5. Gochelwch wastraff mewn bwyd neu danwydd; bydd i un gogyddes wneyd *soup* da a maethlon o rhyw fan bethau a deilir ymaith fel pethau diwerth gan un arall.

6. Os bydd eich meistres yn deall cogyddiaeth, eich ffordd oreu ydyw dilyn ei chyfarwyddiadau yn fanwl; ond gwell profi pob dysglaid newydd pan na byddo neb ond y teulu gartref, rhag ofn iddi droi yn fethiant.

7. Na fydded i chwi byth ymgymeryd a gwneyd dim os na fyddwch yn sier y gallwch ei wneyd yn dda; gwell gwneyd rhyw ddysglaid arall y byddwch yn sier o honi.

8. Mewn tai bychain lle na roddir ciniaw ond yn anaml i wahoddedigion, y mae mwy o lawer o waith parotoi nag mewn tai y byddont yn cael eu rhoddi yn aml; yn yr achos blaenaf, gwell i

chwi ofyn i'ch meistres am gymorth ar yr achlysur, neu ni ellwch enill clod i chwi eich hun wrth goginio y ciniaw.

9. Nac ymddiriedwch yr un ran o'ch gwaith eich hun i arall heb fynu gweled ei fod yn cael ei wneyd yn iawn; chwi sydd yn gyfrifol, nid yr un sydd yn eich cyorthwyo, ac arnoch chiwi y disgyna y hai os bydd rhyw ddiffyg.

10. Cofiwch fod llawer iawn mewn ymddangosad dysgl; gwnewch i bob dysgl edrych yn dda ar y bwrdd, wedi ei threfnu a'i phrydferthu yn briodol; ac uwchlaw y cwbl, rhaid i'r dysglau fod yn boeth; nid oes dim yn fwy anymunol na *soup* neu gig wedi haner oeri, tra y mae pysgod yn cael eu difetha yn hollol os gadewir iddynt oeri.

11. Byddwch yn byrdlon trwy fynu cael y ciniaw ar y bwrdd y foment y gorchymynwyd ei gael yn barod; mae pob cogyddes dda yn gofalu fod ei chin-iaw yn barod i'r funud, ac heblaw hyny, wedi ei goginio i "drwch y blewyn."

12. Mae cogyddion wedi cael y gair o fod yn greaduriaid croes ac anymunol; gwelwch haeddu y cymeriad yma; gwnewch eich hunan yn ddefnyddiol i'ch meist'r a'ch meistres, ac yn gyfeillgar a thirion wrth eich cyd-forwynion.

## GWISGOEDD: A'R MODD I'W OADW MEWN TREFN.

GWISGOEDD MERCHED. — Ni wyddai a menywod Groegaidd ddim am y tynrwymau a'r *whalebones*, a'r tynu a'r gwasgu, sydd yn perthyn i wisgoedd merched yr oes hon, a dyna'r rheswm eu bod o ran eu ffurfiau yn fwy cyfartal, ac o ran eu hysgogiadau yn fwy mawreddog. Ac os bydd angen am gynllun o feuny ar yr arluniwr, ofer iddo chwilio yn mhlith menywod ei wlad ei hun, ond rhaid iddo ymofyn am ei gynllun yn mhlith y cerlluniau sydd ar gael o ferched Groeg. Mae yr arferiad o rwymo a thynhau a gwasgu sydd yn ffyni yn ein gwlad ni yn difetha ffurf ein menywod ac yn dinystrio eu hiechyd ar yr un pryd. Ai golygfa ddiymunol ydyw gweled benyw wedi ei thori yn ddwy yn y canol, fel pe byddai gacynen? Na, y mae yn warthus i'r llygaid ac yn boenus

i'r dychymyg. Y mae i ffurf brydferth, fel yr aelod, ei gyfartaledd a'i faintioli priodol, ac y mae lleihau hyny yn ddiffyg amlwg. Mae pobpeth ag sydd yn cyfyngu ac yn gosod natur mewn caethiwed yn engraffit o ddiffyg chwaeth. Mae hyn yn wir am addurniadau y corff yn ogystal a'r meddwl. Bywyd, iechyd, rheswm, a chyffleusdra ddydil gymeryd gyntaf i ystyriaeth. Nis gall harddwch fodoli heb esmwythdra; nid ciddilwch yw tynerwch; ac ni raid i ferch fod yn glaf mewn trefn i foddhau.

SUT I CYMERYD GOFAL AM EICH HET.—i. Os digwydd i chwi gael eich goddiweddyd gan gawod o wlaw, cofiwch frwsio eich het yn dda tra y byddo yn wlyb. Pan yn sych, brwsiwch y disglaerdeb gormodol o honi, a smwddiwch hi yn ysgafn a haiarn fflat esmwyth. ii. Os bydd eich het yn wlyb iawn, neu wedi ei hysteinio a dwfr y môr, cymerwch lestriad o ddwfr oer a glân, a brwsch caled da; golchwch hi yn dda drosti, ond cofiwch gadw yr het yn ei ffurf; brwsiwch hi mor sych ag y gellwch, a dodwch ar hoel i sychu. Pan yn sych brwsiwch allan y gorddisglaerdeb fydd arni, a smwddiwch hi yn ysgafn fel y cyfarwyddwyd uchod. iii. Os digwydd i chwi gael yspoty'n o fraser ar eich het, diferwch un diferyn o *benzine* ar y lle a rhwbiwch yn gyflym a darn o frethyn nes ei gael allan. iv. Pan yn teithio, dodwch eich het oreu mewn cadach poced glân cyn ei dodi yn yr *hat box*; bydd i hyny ei harbed rhag cael ei rhwbio wrth ei hysgwyd yn ol ac yn mlaen yn y relwê neu y steamer. v. Na roddwch eich het byth i orwedd yn fflat ar ei chanel, gan y bydd i hyny ddiffetha ei ffurf; ond dodwch i grogi ar hoel bob amser. vi. Na roddwch eich het, yn wlyb nac yn sych, o flaen y tân, gan y bydd i hyny a'i meddalu, a'i thafu allan o'i ffurf. vii. Cyn rhoddi eich het i lawr, cymerwch ôl i edrych a fydd y lle yn rhydd oddiwrth yspotiau o fraser, siwgr, &c., anffod pethau hyn yn aml yn difetha mwy ar het na'i gwisgo am fwyddyn, ac yn aml yn anhawdd eu symud. Bydd i'r rheolau syml hyn ddiogelu het dda i'r lawer o amser.

FRENCH POLISHES.—i. *Naphtha Polish*. — Shellac tri phwys; wood



naphtha, 3 chwart. Toddwch. Côt: shellac, 6c. i 8c. y pwys; naphtha, 1s. 2c. y peint. ii. *Spirit Polish*.—Shellac, dau bwys; mastic a sandaric powdredig, 1 owns o bob un; copal varnish, haner peint; spirits of wine, 1 galwyn. Gadewch mewn lle oer nes y toddont. Cost: shellac, o 6c. i 8c. y pwys; mastic, 1s. yr owns; sandarac, 1c. yr owns; copal varnish, 2s. 6c. y peint; rectified spirits, 2s. 6c. y peint.

*French Polish at Esgidiau a Botasau.*

—Cymysgwch yn nghyd ddau beint o'r finegr goreu, ac un peint o ddwfr meddal; rhoddwch ynddo chwarter pwys o *glue*, wedi ei dori yn fân, haner pwys o ysglodion *logwood*, chwarter owns o *indigo* wedi ei bowdro yn fân, chwarter owns o'r sebon meddal goreu, a chwarter owns o *isinglass*. Rhoddwch y cymysgedd uwch ben y tân, a gadewch iddo ferwi am ddeg munud neu ychwaneg. Yna ystreiniwch yr hylif, a photelwch a chorciwch: pan yn oer, y mae yn barod i'w ddefnyddio. Cymhwyswch at yr esgidiau gydag ysbwng.

*I ddisgleirio Patent leather*.—Dau beint o'r hufen goreu, un peint o linseed oil; cynheswch ychydig ar y ddau, ac yna cymysgwch hwy yn nghyd yn dda. Ar ol glanhau yr esgid oddiwrth faw, rhwbiwch hi drosti a pheth o'r cymysgedd ar ysbwng (*sponge*): yna rhwbiwch hi â llian sych hyd nes cynyrehu polish disglauer.

*Botasau ac esgidiau*.—Dylid glanhau botasau ac esgidiau yn aml, pa un bynag a fyddont yn cael eu gwisgo ai peidio, ac ni ddylid byth eu gadael mewn lle llaith, nac yn rhy agos i'r tân i sychu. Wrth eu glanhau, byddwch yn ofalus i *fræsio* y baw o'r gwryniau (*seams*), ac nid ei grafu gyda chylllell, neu bydd i chwi dori y gwniad. Bydded i'r brwsh caled wneyd ei waith yn drwyadl, a bydd y polish yn fwy disglauer mewn canlyniad.

**BLACKING**.—Gwneir blacking yn awr yn gyffredin gydag ivory black, triagl, olew linseed, ac oil of vitriol.

*Blacking Hylifol*.—Ivory black a triagl, pwys o bob un; sweet oil ac oil o vitriol, chwarter peint o bob un. Dodwch y tri peth cyntaf yn nghyd hyd nes y byddo yr olew wedi llwyr gymysgu,

yna ychwanegwch y vitriol, wedi ei wanhau a'i bwysau dair gwaith o ddwfr, ac ar ol iddo sefyll dair awr ychwanegwch un chwart o ddwfr neu gwrw wedi suro.

*Paste Blacking*.—Ivory black, dau bwys; triagl, un pwys; olive oil a vitriol, chwarter pwys o bob un. Cymysgwch fel o'r blaen, gan ychwanegu ond digon o ddwfr i'w wneyd yn bâst. Côt: ivory black, 1s. y pwys; triagl, 3c. y pwys; linseed oil, 6c. y peint; sweet oil, 1s. y peint. *Nodiad*.—Rhaid i'r ivory black gael ei wneyd yn llwch hollol fân at flacking hylifol, neu gwaeloda yn gyflym. Mae yr oil of vitriol o duedd ysol os heb ei wanhau â dwfr, ond dinystrir ei duedd ysol i raddau trwy ei uniad a'r calch yn yr ivory black, ac ni niweidia y lledr, tra y mae yn gwella ansawdd y blacking yn fawr.

*Blacking goreu at fotasau ac esgidiau*.

—Ivory black, owns a haner; triagl, owns a haner; sperm oil, tri dram; oil of vitriol cryf, tri dram; finegr cyffredin, haner peint. Cymysgwch yr ivory black, triagl, a'r finegr yn nghyd, yna cymysgwch y sperm oil a'r oil of vitriol ar wahan, ac ychwanegwch hwy at y cymysgedd arall.

**BOTASAU AC ESGIDIAU I DDAI DWFR**.—Linseed oil, un peint; oil of turpentine, chwarter peint; cwyr melyn, chwarter pwys; Burgundy pitch, chwarter pwys. I gael eu toddi yn nghyd gyda than araf, a phan am eu defnyddio, i gael eu twymo a'u rhwbio yn dda i'r lledr o flaen y tân, neu yn yr haul. Côt: linseed oil, 6c. y peint; oil of turpentine, 8c. y peint; cwyr, 10c. y pwys; Burgundy pitch, 8c. y pwys. Dylid ei dywallt, ar ol ei doddi, i botiau bychain.

*I wneyd i esgidiau neu fotasau i ddal dwfr*.—Cynheswch ychydig gwyr gwenyn a suet mutton nes y byddo yn hylif, a rhwbiwch beth o hono yn ysgafn ar hyd ymylon y wadn, lle y mae y pwythau.

**TOPIAU BOTASAU**.—Glanhewch hwy gydag owns o white vitriol ac owns o oxalic acid wedi eu toddi mewn chwart o ddwfr cynes. Cymhwyswch gydag ysbwng.

**GOFAL AM FENYNG**.—Nid oes dim

yn odrych yn waeth na menyg budron a gwael; a thrwy eu bod yn bethau drudion, y mae yn angenrheidiol cymeryd gofal o honynt. Bydd i bâr o fenyg da barhau yn hwy na chwech o barau sâl, gyda gofal. Na fydded i chwi wisgo eich menyg goreu yn y nos, y mae gwres y gas, &c., yn peri i'r dwylaw chwysu, ac felly i ddfifetha y menyg; na fydded i chwi eu gwisgo mewn tywydd gwlyb iawn; trwy fod cario umbrella a diferion o wlaw yn eu difetha.

*I lanhau menyg kid.*—Gwnewch drochion cryf gyda *curd soap* a dwfr cynes, a gwlychwech ddernyn bychan o wlanan ynddo. Rhoddwch y faneg ar le gwastada chaled, megis gwaelod dysgl fawr, ac ar ol seboni y wlanan yn dda (ar ol ei gwasgu o'r trochion), rhwbiwch y kid nes symud pob budreddi, gan lanhau y wlanan a'i hail-seboni yn awr ac eilwaith. Rhaid cymeryd gofal i beidio gadael yr un ran o'r faneg ar ol, trwy droi y bysedd, &c. Rhaid sychu y menyg yn yr haul, neu o flaen tân araf, a byddant yn edrych fel hen groen. Pan yn hollol sych, rhaid eu "tynu allan" yn raddol, ac edrychant fel newydd.

*I lanhau French kid gloves.*—Dodwch y menyg am eich dwylaw a golchwech hwy, fel pe byddech yn golchi eich dwylaw, gyda spirits of turpentine, nes y byddont yn hollol lân; yna crogwech hwy i fyny mewn lle cynes, neu lle y byddo ffrwd o awyr, a bydd i arogl y turpentine fyned ymaith yn llwyr. Dyma'r dull a ddefnyddir yn Paris, ac er pan y mabwysiadwyd yr un cynllun yn y wlad hon, y mae miloedd o bunau wedi ei arbed trwyddo.

**DIOGELU LLIWIAU GWISGOEDD.**—Gellir diogelu lliwiau metinos, mousseline-de-laines, gingham, chintzes, printed lawns, &c., trwy ddefnyddio dwfr heb fod yn gynhesach na llaeth newydd; gwneyd trochion gyda sebon gwyn, *cym* dodi y wisg i mewn, yn lle ei rwbio ar y defnydd; a chymysgu llon'd llwy fwrdd fawr o fustl (*ox-gall*) yn y llestriad cyntaf a'r ail o ddwfr. Gellir cael y bustl gan y cigydd, a dylid cadw potelaid o hono yn wastad yn y tŷ. Ni ddylai dillad lliw gael eu gadael yn hir yn y dwfr. Dylid eu golchi yn gyflym, ac yna eu rinsio trwy ddau ddwfr oer.

Dodwch lwyaid o finegr yn mhob dwfr rinsio, yr hwn a gynorthwya i glirio y lliwiau; ac ar ol eu rinsio, dodwch hwy i fyny i sychu ar unwaith. Pan yn ddigon sych i'w smwddio (sef ychydig yn llaith), dygwch hwy i mewn; bydded genych heyrn wedi eu poethi yu barod, a smwddiwch hwy ar unwaith, gan fod eu gadael yn llaith yn rhy hir, neu eu sprinklio a'u rholio i fyny i gael eu smwddio y dydd canlynol, yn niweidio y lliwiau. Os na ellir yn gyfleus eu smwddio ar unwaith, bydded iddynt gael eu gadael i fyned yn *hollol* sych, ac yna lleithiwch a phlygwch hwy y dydd canlynol, chwarter awr cyn eu smwddio. Y ffordd oreu ydyw peidio golchi dillad lliwiau yr un diwrnod a'r golchiad cyffredinol, ond rhoddi iddynt foreu ar eu penau eu hunain. Ni ddylid cyffwrdd â hwy ond ar dywydd goleu clir. Os gadewir iddynt rewi, niweidir y lliwiau yn anadferadwy. Prin y mae angen am i ni ddwyed na ddylai dillad lliw gael eu berwi na'u hysgaldio. Os bydd i chwi gael patrwm o'r siop er profi parhad ei lliwiau, rhoddwch iddo brawf teg trwy ei olchi fel y cyfarwyddwyd uchod; ar ol hyny piniwch ar dywel, a rhoddwch allan i sychu. Mae rhai lliwiau (megis pinks a gwyrdd golen), er y daliant y golchi yn dda, a gyfnewidiant eu lliw mor fuan ag y cymhwysir haiarn poeth atynt; y pink yn troi yn purple, a'r gwyrdd yn las. Ni ddylid smwddio un math o ddillad lliw a haiarn *poeth*.

*I adnewyddu Sidan.*—Spwngiwch sidan wedi colli ei liw gyda dwfr cynes a sebon, a rhwbiwch ef gyda llian sych ar fwrdd gwastad; yna smwddiwch ef ar yr ochr *chwith*. Gellir adnewyddu hen sidan trwy ei spwngio gyda *gin* da; yn yr achos yma, gellir ei smwddio ar yr ochr oreu, ond gofalu dodi papur gwyn teneu rhyngddo a'r haiarn.

*Adnewyddyd Sidan Du.*—Berwch logwood mewn dwfr am haner awr; yna lledferwch y sidan am haner awr; yna cymerwch allan, a dodwch ychydig vitriol glas neu copperas gwyrdd yn y lliw; gadewch iddo oeri, a lledferwch y sidan ynddo am haner awr. Neu, berwch ddyrnaid o ddail fligys mewn dau chwarter o ddwfr nes y byddo wedi lleihau

yn beint; gwasgwech y dail, a photelwech yr hylif at eich gwasanacoth. Pan y bydd angen am dano, spwngiwech y sidan ag ef.

*I symud yspotiau dwfr oddiar Crape Du.*—Pan y syrthia diferyn o ddwfr ar grape du, gadawa le gwyn ar ol. I symud hwnw, lledwech y crape ar fwrdd (gan roddi llyfr trwm arno i'w gadw yn sefydlog), a dodwech o dan yr ystaen ddarn o hen sidan du. Cymerwech frwsh *camel hair* a dodwech mewn inge du cyffredin a rhwbiwech ef yn ofalus dros yr ystaen, yna rhwbiwech yr inge ymaith gyda darn bychan o hen sidan du. Sycha ar unwaith, ac ni welir yr ystaen gwyn mwyach.

*I symud ysteiniau oddiar Mourning Dresses.*—Berwech ddyrnaid o ddail figys mewn dau chwart o ddwfr nes y byddo wedi lleihau i beint. Nid oes angen ond spwngio bombazine, crape, brethyn, &c., a'r hylif hwn, a bydd i'r effaith fod yn weledig ar unwaith.

*Cwyr.*—Gellir cael yspotiau o gwyr allan o frethyn trwy ddal haiarn poeth o fewn modfedd neu ddwy i'r marciau, ac yna eu rhwbio a darn o frethyn sych glân.

*Ysteiniau Ingc.*—Toddwech lon'd llwy dê o chloride of lime mewn llon'd cwpan tê o ddwfr poeth; rhwbiwech y man a ysteinwyd gyda'r cymysgedd.

*Yspotiau brasder ar Sidan.*—Ar fwrdd ffawydd taenwech ddarn o frethyn a dodwech arno y sidan a ysteinwyd, gyda'r ochr oreu i lawr. Ar ol taenu darn o bapur llwyd drosto, cymhwyswech haiarn smwddio digon poeth i ddeifio y papur. Y mae o bump i wyth eiliad yn ddigon. Yna rhwbiwech y fan a ysteinwyd yn gyflym gyda phapur llwyd pur dencu.

*Hylif i ddiogelu Furs rhag pryfaid.*—Dwfr cynes, un pint; corrosive sublimate, 12 grain. Os golchir hwy a'r hylif hwn, a'u sychu yn ofalus, y mae pob math o furs yn ddiogel rhag y pryf. Cofier fod yr hylif yn *wenwyn*.

*Melfed.*—Pan niweidir y plush trwy wasgiad, dalier y dilledyn dros lon'd llestr o ddwfr poeth, gyda lining y dilledyn agosaf i'r dwfr; bydd iddo felly adenill ei brydferthwech gwreiddiol.

*GWLANENI.*—Dylai gwlaneni gael eu suddo cyn eu gwneyd yn ddilladau, yn

gyntaf mewn dwfr oer ac wedi hyny mewn dwfr poeth, mewn trefn iddynt fyned i mewn gymaint ag a wnant.—Dylid golchi gwlaneni bob amser gyda sebon gwyn, ac mewn dwfr cynes, ond nid yn ferwedig.

**ANGENRHEIDIAU Y BWRDD YMDRWSIO (toilet table).**—**PERAROGL HYFRYD.**—Cymerwech o cloves, carraway seeds, nutmeg, mace, cinamon, a Tonquin beans, owns o bob un; yna ychwanegwech gymaint o Florintine orris root ag a bwysa y lleill i gyd. Malwech y cwbl yn bowdwr mân, yna dodwech mewn cydau bychain yn mhlith eich dillad, a bydd iddynt gael eu perarogli yn ddymuol, a'u cadw yn ddiogel rhag pob math o bryfaid.

**LAVENDER WATER.**—Gwell i chwi ei brynu wedi ei wneyd yn barod yn siop y fferylllydd; na nymed i'r drafferth i'w wneyd eich hun.

**MEL SEBON (Honey Soap).**—Torwech ddau bwys o sebon melyn yn dafelli teneuon i sospan ddwbl, neu sospan o fewn sospan, a dwfr rhyngddynt, gan ei droi yn achlysurol hyd nes y toddo, yr hyn a wna mewn ychydig funudau os cedwir y dwfr yn y sospan allanol i ferwi; yna ychwanegwech chwarter pwys o palm oil, chwarter pwys o fêl, a gwerth tair ceiniog o oil of cinamon bydded i'r cwbl ferwi yn nghyd am chwech neu wyth munud; tywalltwch allan a gadwech iddo sefyll hyd dranoeth, a bydd yn barod i'w ddefnyddio. Os gwneir yn ol y cyfarwyddyd, bydd yn sebon tra rhagorol.

**Y DWYLAW.**—Cymerwech lon'd gwinwydr o cau-de-Cologne, ac un arall o sudd lemon; yna crafwech ddwy deisen o brown Windsor soap yn bowdwr, yna cymysgwech mewn llestr. Pan yn galed, bydd yn sebon rhagorol i wynu y dwylaw.

**I WYNU YR EWINEDD.**—Sulphuric acid gwan, 2 dram; tincture of myrrh, un dram; dwfr ffynon, pedair owns; cymysgwech. Glanhewch yr ewinedd yn gyntaf â sebon gwyn, yna dodwech i sefyll yn y gymysgedd. Mae llaw dyner yn un o anhegborion prydfertwech; ac y mae y parotodau hyn yn wir effeithiol.

**YSTEINIAU.**—Gellir eu symud oddiar y dwylaw trwy eu golchi mewn swm bychan o oil of vitriola dwfroer heb sebon.

**COLD CREAM AT Y GWALLT.**—Oil of Almonds, un pwys; cwyf gwyn, 4 owns. Toddwch yn nghyd mewn llestr pridd, a phan agos a bod yn oer rhoddwch ddeuddeg owns o rose water ynddo trwy ei droi yn raddol.

**I DYNERU Y CROEN A GWELLA Y WEDD.**—Os cymysgir *flowers of sulphur* mewn ychydig laeth, ac ar ol sefyll am awr neu ddwy, rhwbier y corff a'r laeth (heb aflonyddu y sulphur), a bydd iddo ei gadw yn dyner, a chliria a gwella y wedd. Na chymysger ond digon am un tro ar unwaith, sef oddeutu llon'd wine-glass.

**Y DANNEDD.**—Toddwch ddwy owns o borax mewn tri pheint o ddwfr; cyn ei fod yn hollol oer, ychwanegwch ato lon'd llwy dê o tincture of myrrh, a llon'd llwy fwrdd o spirits of camphor: potelwch y cymysgedd at ei ddefnyddio. Mae llon'd gwin-wydr o'r cymysgedd, wedi ei roddi am ben peint o ddwfr claiar, yn ddigon ar y tro. Mae golchi y dannedd yn ddyddiol yn y cymysgedd hwn yn eu diogelu ac yn eu prydfferthu, yn glanhau ymaith bob amhuredd, ac yn cynyrcnu gwynder dymunol.

**POWDWR DANNEDD.**—Prepared Chalk, un pwys; camphor, dram neu ddau. Rhaid powdro y camphor yn fân trwy ei wlychu gydag ychydig spirits of wine, ac yna ei gymysgu yn dda gyda chalk.

**CYMYSGEDD I GYNYRCHU TYFIANT Y GWALLT.**—Eau-de-Cologne, dwy owns; tincture of Cantharides, dau ddrum; oil of lavender; deg diferyn. Dylid rhwbio y cymysgedd hwn ar y lle moel unwaith neu ddwywaith yn y dydd am beth amser.

**GWALLT OLCHIAD RHAGOROL.**—Cymerwch owns o borax, haner owns o camphor; powdrwch y pethau hyn yn fân, a thoddwch mewn chwart o ddwfr berwedig: pan yn oer, bydd y cymysgedd yn barod i'w ddefnyddio; lleithiwch y gwallt yn aml. Mae y cymysgedd hwn yn glanhau y gwallt yn effeithiol, yn ei brydfferthu, ac yn ei gadw rhag syrthio na cholli ei liw.

**GWALLT OLEWON (Hair Oils).**—

**ROSE OIL.**—Olive oil, un peint; otto of roses, pump i bymtheg diferyn; neu gwna essence of bergamot y tro, yr hwn sydd lawer rhatach na otto of roses.

**Oil of roses.**—Olive oil, un peint; otto of roses, haner dram; oil of rosemary, haner dram: cymysgwch.

**ENAINT GWALLT. (Pomatum).**—ENAINT GWALLT CYFFREDIN. Suet mutton, wedi ei doddi a'i huro trwy ystreiniu yn lân oddiwrth bob gwaelodion; lard, tri plwys; todder hwy yn ofalus yn nghyd, a throwch yn gyson fel y byddo yn oeri, ac ychwanegwch ddwy owns o bergamot.

**ENAINT GWALLT CALED.**—Lard a suet mutton wedi eu paratoi yn ofalus, pwys o bob un; cwyf gwyn, pedair owns; essence of bergamot, un owns.

**I LANHAU BRUSHES GWALLT.**—Mae dwfr poeth a sebon yn meddalu brwsches yn fuan, felly defnyddwch soda, wedi ei doddi mewn dwfr oer, yn eu lle. Bydd i'r soda lwyf lanhau y brwsches. Na roddwch hwy i sychu wrth y tân nac yn yr haul, ond ar ol eu hysgwyd yn dda, dodwch i ddiferu a sychu mewn lle cysgodol.

**LLIWIO, GLANHAU A GOLCHI.**—**LLIWIO.**—Mae llawer a bobl yn edrych ar liwio gartref gyda gradd mawr o ddychryn; yn ofni cael wythnos neu bythefnos o drafferth, o anghysur, ac o siomedigaeth; a rhaid cyfaddef fod yr hen drefn o liwio, ag a ofynai ferwi y dilledyn yn gyntaf mewn un peth, yna newu peth arall, a byth yn ei gael yn gwbl y lliw a fwriedid, yn sylweddoli yr ofnau hyn. Ond yn bresenol y mae yn bosibl osgoi yn gwbl yr holl drafferthion a'r siomedigaethau hyn. Trwy ddefnyddio "*Judson's Simple Dyes*"—y rhai a ellir gael am 6c. y botel yn siop unrhyw gyfferiwr (*druggist*), o'r lliw a fyner—gall unrhyw foneddiges liwio pethau bychain mewn wash-hand basin mewn munud, ac heb liwio ei dwylaw. Nid oes dim yn angenrheidiol at y gorchwyl ond potelaid chwecheiniog o'r liw, swm digonol o ddwfr berwedig, a darn bychan o bren glân neu *ivory*, i droi y peth a fwriedir ei liwio. Gellir liwio pethau mawr gyda'r un rhywddineb, ond y mae yn ofynol cael padell digon mawr i roddi y dilledyn i gyd ynddi ar unwaith, fel y byddo i'r oll o hono gael ei liwio yr un fath. Rhaid i'r pethau a fwriedir liwio fod yn beranith lân ac yn wlyb. At bob llon'd llwy dê o'r liw rhoddwch

ddim llai na dau chwart o ddwfr berwedig, os na bydd angen am i'r lliw fod yn hynod dywyll. Cymysgwch y lliw gyda'r dwfr yn dda mewn padell bridd ddigon mawr i gynyws yr holl ddilledyn ar unwaith, a digon o le yn ngweddill i'w droi yn gyflym trwy y dwfr; rhoddwch ddigon o ddwfr; bydd i'r dilledyn, os gadewir yn y lliw ddigonedd o amser, sugno yr holl liw o'r dwfr, a gadael y dwfr bron yn hollol lân. Y mae ychydig starch yn lles i'r dilledyn, ac yn cynorthwyo i sierhau y lliw. Mae pethau gwlanenog yn edrych yn rhagorol ar ol eu lliwio—y lliwiau yn dra disglaer, ac ni ddaw ymaith fel lliwiau ereill. Mae pluf hefyd yn hawdd eu lliwio gydag ef, hefyd sidanau o bob math—edrych *ribbons* fel rhai newyddion wedi eu lliwio ag un o'r lliwiau hyn.—Ni ddylai pethau wedi eu lliwio, gael eu gwasgu, ond gadewch i'r dwfr redeg o honynt yn raddol ac o hono ei hun; gwel sychu pethau bychain trwy eu rowlio o gylch potel wedi ei llenwi a dwfr poeth, yr hon nid yn unig a'i sycha ond a'u llyfnha heb ei smwddio.—Mae y nodiadau hyn yn frwyth gwybodaeth bersonol, gan ein bod wedi defnyddio y lliwiau hyn, ac wedi eu cael yn mhob achos yn llwyddianus. Heblau at liwio dillad, gellir defnyddio y lliwiau hyn at ysteinio coed, ivory, &c., &c. Maent yn rhad, syml, ac yn effeithiol.

**LLIWIO BONETI.**—Gellir lliwio boneti gwellt a chip, neu hetiau o'r un defnyddiau, trwy eu berwi am dair neu bedair awr mewn cymysgedd cryf o logwood, gan ychwanegu ychydig gopperas gwyrdd yn achlysurol. Gadewch i'r boneti aros yn y lliw drwy'r nos, yna cymerwch allan i'r awyr i sychu. Os na fydd y lliw yn foddhaol, lliwiwch hwy eilwaith ar ol iddynt sychu. Rhwbiwch y tu mewn ac allan gydag ysbwng wedi ei wlychu mewn olew da. Yna dodwch ar y *block*.

**I LANHAU SATIN GWYN A SIDANAU FLOWERED.**—Cymysgwch friwsion bara mân gyda phowdwr lliw glas, a rhwbiwch y cymysgedd yn dda ar hyd y defnydd; yna ysgydwch yn dda, a rhwbiwch a chadachau glân ac esmwyth. Os bydd addurniadau aur neu arian ar y defnydd, rhwbiwch hwy a velvet

crimson, yr hwn a adnewyddu eu lliwiau fel cynt.

**GLANHAU SIDANAU, SATINS, GWISGOEDD GWLAN LLIWIAU, &c.**—Pedair owns o sebon meddal, pedair owns o fêl, gwyn wÿ, a llon'd gwin-wydr o *gin*; cymysgwch yn dda yn nghyd, ac ysgwriwch y defnydd gyda brwsch lled galed yn drwyadl; ar ol hyny rinsiwch mewn dwfr oer, gadewch i ddiferu, a smwddiwch tra y byddo yn bur laith. Nid yw y cynghor hwn braidd yn methu.

**I LANHAU DILLAD BRETHYN DU.**—Glanhewch y dillad yn dda, yna berwch bedair owns o logwood mewn boiler yn cynwys dau neu dri galwyn o ddwfr am haner awr; trochwch y dillad mewn dwfr cynes, a gwasgwch nes y byddont yn sych, yna dodwch hwy yn y boiler a'r lliw, a berwch am haner awr. Cymerwch allan, ac ychwanegwch dri dram o *sulphate of iron*; berwch am haner awr, yna cymerwch hwy allan, a chrogwch hwy i fywy am awr neu ddwy; cymerwch hwy i lawr, rinsiwch deirgwaith mewn dwfr oer, sychwch yn dda, a rhwbiwch a brwsch esmwyth wedi ei iro ag ychydig o ddiferion o olive oil. Yr ydym wedi gweled hen gotiau yn dyfod allan o'r driniaeth hon a golwg barchus iawn arnynt.

**I LANHAU FURS.**—Dylid mabwysiadu y driniaeth ganlynol at sable, chinchilla, squirrel, fitch, &c.—Twymwch swm o *bran* mewn padell, gan ofalu rhag iddo losgi, trwy ei droi o hyd. Pan wedicynhesu yn drwyadl, rhwbiwch ef yn dda i'r *fur* gyda'r llaw. Gwnewch ddwywaith neu deirgwaith: yna ysgydwch y *fur*, a brwsiwch yn dda hyd nes y byddo yn hollol rydd oddiwrth lŵch. Gellir glanhau furs gwynion, ermine, &c., fel y canlyn:—Gosodwch ar fwrdd, a rhwbiwch yn dda gyda *bran* wedi ei wlychu a dwfr cynes; rhwbiwch hyd nes yn hollol sych, yna defnyddiwch fran sych. Dylid doddi y *bran* gwlyb arno gyda gwlanen, a'r sych gyda darn o fuslin. Dylai y *furs* goleu, yn ychwanegol at yr uchod, gael eu rhwbio yn dda gyd magnesia neu *book muslin* ar ol y *bran*.

**I LANHAU OSTRICH FEATHERS GWYNION.**—Pedair owns o sebon gwyn, wedi ei dori yn fân, a'i ddodi mewn pedwar point o ddwfr lled boeth, mewn dysgl

fawr ; gwnewch y cynysgedd yn drochion, trwy ei guro yn dda â gwialen fedw. Rhoddwch y plyf i mewn, a rhwbiwch hwy yn dda a'ch dwylaw am bump neu chwech munud. Ar ol eu golchi fel hyn, golchwch mewn dwfr oer, mor boeth ag a ellwch oddef a'ch dwylaw. Ysgydwch nes y byddont yn sych.

**GLANHAU BONETI GWELLT.**—Gellir eu golchi mewn dwfr a sebon, eu rinsio mewn dwfr glân, a'u sychu yn yr awyr. Yna golchwch hwy drostynt â gwyn wý wedi ei guro yn dda.

**I GANU GWISG WEDI FFADIO.**—Golchwch yn dda mewn trochion sebon poeth, a berwch nes y byddo eu lliw yn ymddangos fel wedi myned, yna golchwch, a rinsiwch, a sychwch yn yr haul; os na fydd yn hollol wyn, berwch eilwaith.

**GWYNU BONETI GWELLT.**—Golchwch mewn dwfr glân, gan eu rhwbio a brws. Yna dodwch mewn blwch, yn yr hwn y rhoddwyd soseraid o frwmstan llosgedig. Gorchuddiwch yn glòs fel y byddo i agerdd i brwmstan llosgedig ei wynu.

**I OLCHI VEIL LACE WEN.**—Rhoddwch y lace mewn trochion cryf o sebon gwyn a dwfr hollol lân, a gadewch iddi leiferwi yn araf am oddeutu chwarter awr ; cymerwch allan a gwasgwch yn dda, ond cymerwch ofal i beidio ei rhwbio ; rinshiwch ddwywaith mewn dwfr oer, yr ail waith gyda diferyn neu ddau o liw glas. Bydded genych yn barod gum teneu, clir, neu starch teneu ; tynwch y veil trwyddo, a chliriwch trwy ei churo ; yna tynwch hi allan yn ofalus, a lledwch allan i sychu ar ddarn o wlanen neu frethyn, gan ofalu agor pob un o'r *scallops*, a sierhau pob un a pin. Pan yn sych, dodwch ddarn o fuslin drosti, a smwddiwch ar yr ochr chwith.

**BLOND LACE.**—Gellir adnewyddu blond lace trwy chwythu arni, a'i flapio a'i hysgwyd. Mae defnyddio haiarn yn ei throï yn felyn.

**GOLCHI CYRTENI GWELYAU.**—Cyn eu doddi mewn dwfr, gofalwch am ysgwyd ymaith gymaint o'r llwch ag a fyddo yn bosibl, neu bydd i chwi ychwanegu llawer at eich llafur. Na ddefnyddiwch soda, na pearl-ash, neu bydd i'r pethau gollu ei lliwiau. Defn-

yddiwch ddwfr meddal, heb fod yn boeth, ond yn gynes : bydded genych ddigonedd o hono. Rhwbiwch gyda *mottled soap*. Wrth eu gwasgu allan o'r ail ddwfr, trochwch bob dernyn mewn dwfr oer caled. Ysgydwch yn dda, a sychwch yn gyflym. Os byddwch yn dewis starch, gellwch ei roddi yn y dwfr rinsio.

**GOLCHI.**—I arbed eich dillad a'ch llafur,—tywalltwch ar haner pwys o soda ddau chwart o ddwfr berwedig, mewn padell bridd ; cymerwch haner pwys o sebon, wedi ei dori yn fân ; dodwch ef mewn sospan gyda dau chwart o ddwfr oer ; gadewch ar y tân hyd nes y berwo ; a phan byddo wedi llwyr doddi ac yn berwi, ychwanegwch at y dwfr soda. Cymysgwch yn dda, a gadewch iddo sefyll hyd nes y byddo yn oer, pan y bydd yn edrych fel *jelly* tew. Gadewch i'ch dillad gael eu mwydo mewn dwfr, y gwrymiau a'r lleoedd budraf eu rhwbio yn y ffordd arferol, a'u gadael felly hyd boreu dranoeth. Ceisiwch eich boiler yn barod, ac ychwanegwch at y dwfr sebon a soda, oddeutu peint o ddwfr ; pan wedi dechreu cynhesu rhoddwch eich dillad i mewn, a gadewch iddynt ferwi am ugain munud. Rinsiwch yn y ffordd arferol, a dyna'r cwbl sydd yn angenrheidiol er eu cael yn lân, a'u cadw o liw da. Y mae y cynghor yma yn anmhrisiadwy i rai yn cadw tai. Os nad ydych wedi arfer y dull yma, gwnewch hyny ar unwaith.

**BRUCHNI MEWN DILLAD.**—Rhwbiwch y dillad â sebon ; yna crafwch *chalk* yn fân, a rhwbiwch ef hefyd ar y dillad. Taenwch ar welltglas. Fel y byddont yn sychu, gwlychwch ychydig arnynt, a bydd i'r brychni ddyfod allan gyda'r ail gymhwysiad.

**I WNEYD DILLAD YN ANFFLAMADWY.**—Gwlychwch hwy mewn dwfr ac alwin wedi ei gymysgu ynddo.

## PAROTOADAU DEFNYDDIOL : INGO, GUM, GLUE, OEMENT, &c.

**INGC.**—*Ink Dr. Ure.*—At ddeuddeg galwyn o ingo cymerwch ddeuddeg pwys o *galls* wedi eu hysigo, pum' pwys *ogum*, pum' pwys o green sulphate of iron, a deu-

deg galwyn o ddwfr gwlaw. Berwch y *galls* gyda naw galwyn o'r dwfr am dair awr, gan ychwanegu dwfr i wneyd i fyny yr hyn a gollir trwy'r berwi; gadewch i'r cymysgedd sefyll, a thywelltwch ymaith y peth clir o honogan adael y gwaelodion. Ychwanegwch ato y *gum*, wedi ei doddi yn flaenorol mewn peint a haner o'r dwfr; toddwch y green vitriol ar wahan mewn galwyn a haner o ddwfr, a chymysgwch y cwbl. *Costia* y defnyddiau fel hyn: *gall*, 1s. 4c. y pwys; *gum*, 8c. y pwys; *green sulphate of iron*, 1c. y pwys.

*Inge coch*.—Brazil wood goreu wedi ei falu, pedair owns; acetic acid wedi ei wanhau, un peint; alwm, haner owns. Berwch hwy yn araf mewn llestr, ystreiniwch, ac ychwanegwch owns o gum. Brazil wood, 1s. y pwys; diluted acetic acid, 3c. y peint; alwm, 2g. y pwys; gum wedi ei falu, 1s. 6c. y pwys.

*Marking Ink*.—Toddwch 2 dram o lunar caustic mewn dwfr gwlaw glân; ychwanegwch 1 dram o gum arabic, ac owns a haner o soda cyffredin neu ammonia. Cymerwch y gwaelodion, a malwch gydag ychydig citric acid, dwfr gwlaw, gum arabic, ac ychydig inge du. Gwell dampio ychydig ar y dillad cyn ysgrifenu arnynt.

**CEMENTS.**—*Cement i drwsio llestri toredig*.—At haner peint o laeth, rhoddwch ddigon o finegr i beri iddo gawasio neu geulo; gwahanwch y caws oddiwrth y dwfr, a chymysgwch y dwfr a gwyn pedwar o wya, gan grasu y cwbl yn dda yn nghyd; pan wedi eu cymysgu ychwanegwch ddigon o galch poeth trwy ogr i'w wneyd o dewychedd pâst. Gellir trwsio pob math o lestri toredig neu graciau a'r pâst hwn; sycha yn fuan, ac ni cha niwaid oddiwrth weithrediad dwfr na tân.

*Cement i drwsio boilers copr*.—Cymysgwch waed buwch a chalch poeth, a chymhwyswch tra yn ffres.

*Cement i drwsio ceryg*.—Cymysgwch white lead wedi ei falu a digon o red lead i'w wneyd mor deuaidd a putty. Mae yn effeithiol pa mor fawr bynag y byddo y gareg.

*Cement i drwsio marbl, ceryg, &c.*—Daliwch y darn toredig wrth y tân, ac wna cymhwyswch ato shellac a sulphur,

wedi eu toddi yn nghyd. Mae y cement hwn yn gryf iawn.

*Cement at weydr*.—Yr un faint o flawd gwenith a gwydr wedi ei bowdro yn fân, a powdered chalk; ychwanegwch haner hyn y lwch briesen, lint wedi ei grafu, a gwyn-wy wya.

*Cement blawd rice*.—Gwneir cement rhagorol gyda blawd rice, yr hwn a ddefnyddir yn bresenol at y pwrpas hwnw yn China a Japan. Y cwbl ag sydd yn angenrheidiol ydyw cymysgu y blawd rice yn dda gyda dwfr oer, a'i ledferwi yn araf ar tân, pan y ffurfia cement prydferth a pharhaus.

*Gwyn Wy fel Cement*.—Mae gwyn wya wedi ei guro yn dda gyda chalch poeth, ac ychydig bach o hen gaws, yn gwneyd cement rhagorol pan y bydd angen am beth mewn prysurdeb, i drwsio gwydr neu china toredig.

*Cement i drwsio China neu Wya toredig*.—Mae y cyngor canlynol yn un rhagorol; a thrwy ei fod agos a bod yn ddi-liw, medda fantais amlwg ar rai cements eraill:—Toddwch haner owns o gum acacia mewn llon'd wine-glass o ddwfr berwedig; ychwanegwch ddigon o plaster of paris i'w wneyd yn bast tew, a chymhwyswch gyda brwsh at y pethau ag angen eu cysylltu yn nghyd. Yr ydym wedi trwsio ugeiniau o bethau gyda'r cement hwn.

*Cement at ledr a llan*.—Gellir gwneyd sylwedd glydiog at uno rhanau esgidiau neu ymylon dillad, fel y canlyn: Cymerwch bwys o gutta percha, pedair owns o India rubber, dwy owns o pitch, un owns o shellac, a dwy owns o olew. Mae y pethau hyn i gael eu toddi yn nghyd, a'u defnyddio yn boeth.

**GLUE.**—*Glue i ddâl tân*.—Berwch 1 pwys o glue mewn dau chwart o lefrith.

*Glue*.—Shellac, 2 ran; borax, 1 ran. Berwch nes y toddo y shellac. Bydd i shellac wedi ei doddi mewn naphtha uno gwydr, china, coed, haiarn, &c.

*Glue*.—Gwneir glue hylifol a werthir yn y siopau trwy doddi shellac mewn dwfr, a'i ferwi gyda borax nes y byddo wedi llwyr doddi. Mae y glue yma yn dra defnyddiol, a rhydd oddiwrth arogl; ond gollynga ei afael os cedwir y peth a drwsiwyd gydag ef mewn lle llaiha am hir amser; ond ni wna lleithder

yr un effaith ar y glue a wneir gyda naphtha.

**PAST.** — Gwneir pást yn gyffredin trwy gymysgu dwfr oer a blawd, a'i ferwi; os ychwanegir ychydig alwm ato cyu ei ferwi, y mae lawer yn well, yn hawddach i'w weithio, llai o hono yn angenrheidiol, ac yn gryfach. Os bydd angen am swm mawr o hono, megis at bapuro ystafelloedd, gellir ei wneyd trwy gymysgu 4 pwys o flawd, chwarter pwys o alwm, ac ychydig ddwfr cyne; ar ol ei gymysgu, gellir ychwanegu y swm gofynol o ddwfr berweddig, gan ei droi yn dda yr un pryd. Nid yw pást yn bwrpasol at ddim ond i lynu papur wrth rhyw beth; wrth ei ddefnyddio dylid ei daenu ar un ochr i'r papur yn ofalus, heb fod yn rhy dew. Mae y pást hwn yn ynylgyr mewn ychydig ddyddiau; gellir symud yr anghyfleus-dra yma trwy ddefnyddio—

*Pást parhaol*, wedi ei wneyd trwy ychwanegu at bob haner peint o bást blawd, bymtheg grain o corrosive sublimate, wedi ei wneyd yn bowdwr mewn mortar; bydd i hwn, os cedwir ef mewn llestr cauedig, barhau yn ddilwgr am hir amser; ond yn anffortunus, y mae yn dra gwenwynllyd, ond nid hawdd fyddai i neb ei fwyta trwy ei fod yn dra chwerw ei flas.

**BIRDLIME.** — Cymerwch unrhyw swr: o linseed oil, dywedwch haner peint; rhoddwch ef mewn llestr, neu unrhyw beth a ddalia dân heb dori—rhaid i'r llestr beidio bod dros chwarter llawn; dodwch ar dân araf, trowch yn achlysurol nes y tewycha; gellir gwybod pa bryd y byddo yn ddigon tew trwy drochi y pren fydd ynddo mewn dwfr oer, a'i brofi rhwng y bysedd. Gwell ei wneyd ychydig yn galetach nag y bydd ei eisieu wrth ei ddefnyddio. Yna tywelltwch i ddwfr oer. Gellir ei feddalu yn rhywyd i'r tewder gydag ychydig *Archangel tar*.

**FIRE-PROOFING.** — Bydd i goed, wedi eu gorchuddio deirgwaith neu bedair gyda silicate of soda, ddyfod yn anlosgadwy. Bydd i ddillad wedi eu gwlychu mewn phosphate of ammonia a borax ddyfod yn anlosgadwy hefyd.

**WATER-PROOFING.**—Y flordd oreu

i wneyd dilladau yn water-proof ydyw eu trochi mewn hylif o isinglass, ac yna mewn hylif o *galls*.

## YSTEINIO A PHAENTIO.

**YSTEINIO COED.**—*Coed yn Ddu.*—Rhoddwch ychydig sulphuric acid mewn swm bychan o ddwfr, brwsiwch y pren drosto â'r cymysgedd a daliwch wrth y tân, a bydd o liw du da, a derbynna bolish uchel.

*Coed yn Lâs.*—Berwch bwys o indigo, dau bwys o *woad*, a thair owns o alwin, mewn galwyn o ddwfr; brwsiwch yn dda drosto nes y byddo wedi ei ysteinio yn drwyadl.

*Coed yn wyrdd.*—Toddwch verdigris mewn finegr, a brwsiwch â'r hylif yn boeth nes y byddo o'r lliw priodol.

*Coed yn lliw Mahogany.*—Rhoddwch ddwy owns o *dragon's-blood*, wedi ei ysigo, mewn chwart o oil of turpentine; gadewch i'r botel sefyll mewn lle cyne, ysgydwch yn aml, a phan wedi toddi, trochwch y pren yn y cymysgedd.

*Coed yn Goch.*—Berwch bwys o Brazil wood ac owns o pearl-ash mewn galwyn o ddwfr, a thra y byddo yn boeth, brwsiwch dros y coed nes y byddo o liw priodol. Toddwch ddwy owns o alwm mewn chwart o ddwfr, a brwsiwch y cymysgedd dros y gwaith cyniddo sychu.

*Efelychiad o Rosewood.* — Berwch haner pwys o logwood mewn tri pheint o ddwfr nes y byddo o liw coch tywyll, ac ychwanegwch haner owns o salt of tartar; ysteinuich y coed â'r cymysgedd tra y byddo yn ferweddig boeth, rhodder tair o haenau (*coats*); yna gyda brws grainio paentiwr ffurfiwch y llinellau gyda'r *ystacn Du*; gadewch iddo sychu, a rhoddwch *varnish* hyd-ddo.

*Coed yn felyn.*—Brwsiwch â *tincture of tumeric*. Rhoddwch *varnish* hyd-ddo ar ol iddo sychu.

*Alabaster, Marble, a Cheryg.*—Gellir lliwio y rhai hyn yn wahanol liwiau gyda'r un ysteiniau ag a gyfarwyddwyd at goed.

**PAENTIO.**—*Yr amser goreu i bacnio* ffenestri yw yn yr hydref, neu y ganaf, os bydd y tywydd yn deg. Er ei fod yn hwy yn sychu, â yn galetach, ac o ganlyniad yn fwy parhaol.



*I gael gwared o arogl pacnt.*—Rhoddwch ddyrnaid o wair mewn llestriad mawr o ddwfr, a gadewch iddo sefyll yn yr ystafell a baentiwyd.

*Pacnt Rhad.*—Gwna tar wedi ei gymysgu ag *yellow ochre* baent da at baentio railings, lliardiadau, &c.

*I lanhau pacnt.*—Brwsiwch y llwch ymaith, a golchwch gyda dwfr a sebon cryf, neu soda a dwfr, gan ddefnyddio gwlanen. Mae *Fuller's carth* hefyd yn effeithiol.

*I synud pacnt oddiar frothyn.*—Cymhwyswch spirits of turpentine gydag ysbwng neu wlanen esmwyth. — Gellir tynu brasder o ddillad trwy orchuddio y lle ag amryw blygion o blotting paper, a rhoddi haiarn fflat i bwyo arno.

## G A R D D W R I A E T H Y F L W Y D D Y N .

IONAWR.—BLODEUYN Y MIS.—Christmas Rose.

*Gwaith yn yr Ardd.*—Dodwch fatiau dros welyau tiwlip, a dechreuwch fforsio rhosynau. Ychydig sydd i'w wneyd y mis hwn oddigerth palu a gwrteithio. Da ydyw trensio y tir y cymerwyd y cnuw oddiarno yn ddiweddar yn yr haf. Parotowch wrtaith i'r gwelyau brwd; gwnewch rai newyddion; ac edrychwch ar ol y rhai a wnawd yn flaenorol. Talwch sylw i letis a choliflowers o dan wydr. Gellir hau pys charlton, ffa, redish, a letis, os bydd yr ardd yn gwyn-ebu i'r deheu ac yn sych; amddiffynwch y pys a'r ffa trwy gasglu ychydig bridd atynt, ac oddiwrth lygod a malwod trwy luchio calch poeth drostynt ac o'u hamgylch. Gwnaiff gorchuddio o redyn gadw redish, letis, neu bersli, rhag y rhew. Gellir hau melons a cucumbers mewn gwelyau brwd.

CHWEFROR.—BLODAU Y MIS.—Snowdrop a Violet.

*Gwaith yn yr Ardd.*—Transplantiwch pinks, carnations, sweet williams, &c. Triniwch a phriddwch celery y gauaf, hauwch cucumbers mewn brwd-welyau, pigwch a phlanwch allan, ac edrychwch ar ol y rhai fyddont yn cael eu fforsio. Fforsiwch fintys mewn brwd-welyau. Parhewch i balu a thrensio tir gwag; a

L

dygwch allan y gwrtaith ar dywydd rhewllyd. Dinystriwch bob math o chwyn. Tua diwedd y mis hauwch ffa mawr, pys marrow-fat, cabbage, savoys, spinac, brocoli, mwstard, berw Ffrengig, rhubarb, a'r prif gnwd o wynwyn. Planwch bytatws ask-leaved kidney. Dylid cymeryd gofal i orchuddio pytatws cyn-ar gyda gwellt neu redyn chwe' modfedd o drwch, y mis hwn. Cliriwch ymaith ddail gwywedig, ysgubwch y llwybrau, a gadewch i bob peth fod mewn trefn.

MAWRTH.—BLODEUYN Y MIS.—Briallu (*primrose*).

*Gwaith yn yr Ardd.* — “Blodau Gwanwyn” i gael eu hau. Blodau ymylon i gael eu hau allan. Blodau blynyddol i gael eu dodi allan mewn potiau o dan wydr. Mewn ymylon agored hauwch asparagus, cabbages, carrots, parsnips, marigolds, a kidney beans. Priddwch y ffa a allent fod yn ddigon pell yn mlaen i hyny. Planwch bytatws, ac edrychwch ar ol y rhai a fyddo yn cael eu fforsio ac mewn ymylon. Transplantiwch y wynwyn a godwyd yn y gwanwyn at grynhoi. Gwnewch frwd-welyau a thelwch sylw i'r ymylon. Hauwch celery, a phriddwch y rhai a blanyd yn yr hydref. Palwch a gwrteithiwch dir gwag. Hauwch cucumbers, a thelwch sylw i'r croplau fyddont wedi dechreu dyfod allan.

EBRILL.—BLODEUYN Y MIS.—Crowslip.

*Gwaith yn yr Ardd.*—Planwch fythwyrddion (*evergreens*), dahlias, a phethau cyffelyb. Planwch, ceibiwch, a gofalwch am y ffa fo'n tyfu. Planwch gabbage, pigwch allan hadau, a phriddwch y pethau fo mewn angen am hyny. Hauwch celery a cucumerau. Planwch allan goliflowers. Hauwch wynwyn, a chwynwch y cnydau tyfadwy. Planwch y balm, islewort, camomile, isop, lavender, a marjoram. Fforsiwch kidney beans a rubarb Elford; hefyd planwch scarlet kidney beans ag sydd wedi eu cadw er y gauaf. Planwch allan artichokes a phytatws.

MAI.—BLODEUYN Y MIS.—Hawthorn.

*Gwaith yn yr Ardd.* — Hauwch mignonette, larkspur, a blodau ereill. Gellir parhau i wneyd brwd-welyau i

gucumerau a melon. Hauwch cape brocoli, kidney beans, pys, letis, carrots, &c. Y mae yn llawn bryd i bigo allan celery, a theucos y llyisiau ag sydd mewn ymarferiad cyffredin—carrots, leeks, wynwyn, parsnips, maip; hauwch hefyd llyisiau y gauaf a choliflowers, hauwch bersli, a gadewch yn hadyd. Gellir hau dill, endive, fennel, isop, a marigold; a gellir planu pennyroyal, lavender, rosemary, thyme, a mân llysiâu er-eill. Y mae y gwelyau asparagus yn dechreu cynyrcu yn bresenol.

**MEHEFIN.**—**BLODAU Y MIS.**—Lili y Dwfr a'r Honeysuckle.

*Gwaith yn yr Ardd.*—Hauwch *stocks* at flodeuo y flwyddyn ddyfodol. Torwch *slips* o'r myrtles i wreiddio, a dodwch pinks, carnations, rhosynau, ac evergreens. Planwch flwyddolion (*annuals*) mewn ymylon, a auriculas mewn lleoedd cysgodol. Hauwch cape brocoli, kidney beans, pys, letis, redish, a mân hadau, &c. Y pys goreu i'w hau yn bresenol yw Night's Marrowfats; dygant ffrwyth hyd Hydref. Torwch benau y pys a'r ffa, er eu cynorthwo i lenwi. Glanhewch a chwynwch y gwelyau llysiâu. Transplantiwch letis, cabbage, savoys, a brocoli. Hauwch spinach, teneuwch y cnwd fyddo wedi tyfu, a llaiciwch y pridd rhwng y rhesi. Teneuwch y wynwyn, a thransplantiwch mewn lleoedd gweigion. Hauwch pigwch allan, plenwch, a phriddwch cabbages. Hauwch, transplantiwch, a phriddwch celery. Ni ddylid tori asparagus ar ol y pedwerydd ar hugain.

**GORPHENAF.**—**BLODAU Y MIS.**—Rhosyn a'r Carnation.

*Gwaith yn yr Ardd.*—Gwahanwch wreiddiau auricula a polyanthus. Cestglwch hadau a blodau gwywedig. Torwch yr ymylon a'r gwrychoedd, a theflwch rwydi dros y coed ffrwythau. Dylid hau yr ail gnyd o cape brocoli, letis, kidney beans, spinach, maip, ac endive. Dylid planu y celery allan mewn daear fras yn rhesau; cymerer yr oll o'r gwreiddyn, ond tyner ymaith y mân darddiadau fyddont yn tyfu allan o'u hochrau. Gellir codi y garlic, wynwyn, a'r shalots os bydd y dail yn ymdangos yn wywedig. Symudwch yr holl lwyini pys a ffa, &c., y funud y peidiont a bod

yn ddefnyddiol. Gwna y llwyni pys, ar ol eu sychu, wasanaeth da o dan y moch. **AWST.**—**BLODAU Y MIS.**—Harebell a Mallow.

*Gwaith yn yr Ardd.*—Hauer cabbages, brocoli, endive, spinach, wynwyn Cymreig, maip a radishes. Dylid planu y celery a hauwyd, ac y mae o bwys priddo y rhai a blanwyd yn flaenorol. Y llysiâu canlynol ydynt y rhai mwyaf cyfaddasol i ardd y gweithiwr: Cabbages—Early York, Battersea, a Vanack; y blaenaf i'w defnyddio pan yn ieuange, a'r ddau fath olaf i'w gadael i grynhoi. Coliflowers—y maent yn gynar neu yn ddiweddar yn ol yr amser y byddont yn cael eu hau.

**MEDI.**—**BLODAU Y MIS.**—Clematis, Arbutus, a Meadow Saffron.

*Gwaith yn yr Ardd.*—Planwch crocuses, bulbs, a bythwyrddion (*evergreens*). Dyma yr adeg i dori *cuttings* o goed ffrwythau, megis currants, gooseberries, &c. Chwyn-geibiwch ddwywaith tra y byddo y chwyn yn fychain, er eu llwyr ddiffetha; mae hyny llawer yn well nag oedi hyd nes y byddo y chwyn yn fwy. Dylid llacio cydrhwng llysiâu y gauaf pa un bynag a fyddo chwyn ai peidio. Teneuwch y spinach a'r maip, a pharhewch i gasglu y pethau a fwriedir biclo, a symudwch wreiddiau a changau pobpeth fyddont wedi gorphen ffrwytho. Hauwch wynwyn at eu planu yn y gwanwyn, carrots, a radishes mewn lleoedd cynes.

**HYDREF.**—**BLODAU Y MIS.**—China-aster, celyn, ac eiddew (*ivy*).

*Gwaith yn yr Ardd.*—Planwch goed ieuange a bythwyrddion. Hauwch bys a ffa mewn framiau ar ymylon yn gwynebu tua'r deheu; rhoddwch brocoli gwyn a phorphoraidd yn y ddaear, o fewn ychydig fodfeddi i'w dail, gan adael i'w penau wynebu y gogledd. Transplantiwch coliflowers, cabbages, garlleg, shallots, hadau duon, letis Coss a Bath o dan framiau; dodwch y llysiâu cochion i'w cadw; parhewch i godi pytatws pan byddo yr hin yn caniatáu—dylid cadw y rhai a fwriedir yn hadyd mewn lle y gellir eu troi yn aml, i'w rhwystro i dyfu. Priddwch y celery.

**TACHWEDD.**—**BLODAU Y MIS.**—Laurestine a Ych Hazel.

*Gwaith yn yr Ardd.*—Hauwch bys mewn fframiau; dylid priddo celery, a chodi parsnips i'w defnyddio at y gauaf. Palwch yr holl dir gwag, a chodwch ef yn rhesau dros y gauaf. Gellir hau ychydig o ffa Lisbon mewn dacear ysgafn mewn sefyllfa gysgodol.

**RHAGFYR.**—**BLODAU Y MIS.**—Cyclamen a Winter Aconiter.

*Gwaith yn yr Ardd.*—Parhewch i barotoi tir gwag ar gyfer y gwanwyn pan fo'r tywydd yn caniatáu, ac i ddiogelu y planhigion rhag rhew. Planwch goed gooseberries, currants, ac afalau.

**GARDD Y GEGIN.**—Dylai pob teulu, os bydd modd, feddu gardd cegin dda. Mae yn werthfawr neillduol i deulu, ac yn arbed llawer o draul yn nghorff blwyddyn. Sier fod gwerth un bunt o hadau wedi eu doddi mewn gardd, yn dwyn ffrwyth ar y ddegfed, ac yn werth deg punt o leiaf i'r bwrdd teuluol, heblaw y manteision o gael yr holl lysiau a'r ffrwythau yn gyfleus ac yn ffres. Gresyn gweled aml ddarn bychan o dir cysylltiol a thŷ y gweithiwr, y crefftwr, neu y masnachwr yn cael eu lanw a blodau neu welltglas, a phethau diwerth ereill. Ond efallai y dywedir, nad yw pytatws, pys, ffa, &c., yn edrych yn dda o flaen y tŷ, ac mai gwell heb ardd cegin os na ellir ei chael yn y cefn, neu rywle arall o'r golwg. Yr ydym yn dweyd y gellir trefnu gardd cegin yn y fath fodd fel ag i fod yn ddefnyddiol a phrydferth—i weini i'r peirianau aroglol a'r peirianau treuliol. Beth all fod yn brydferthach, ac ar yr un pryd yn fwy defnyddiol, na gardd fechan lân o flaen y tŷ, a'i hymylon wedi ei phlanu a rhesau o goed ffrwythau trwsiadus, ambell i res o *mignonette*, *polyanthus*, &c., yma ac acw, a'r canol yn llawn o welyau llysiâu dichwyn a rhesau o bytatws, ffa, neu bys? Fel, hyn, gydag ychydig ofal, gellid cael cyfuniad dedwydd o'r prydferth a'r defnyddiol, a byddai y fantasia oddiwrth y fath drefniad yn anmhrisiadwy bron i laweroedd o deuluoedd yn y wlad.

**I LANHAU COED RHOSYNAU ODDI-WRTH FALLDOD (blight).**—Cymerwch lwech *sulphur* a thybaco, yr un faint o bob un, a lluchiwch ar hyd y coed yn y

boreu pan fo y gwllith arnynt. Bydd i'r pryfaid ddiflanu mewn diwrnod neu ddau. Dylid glanhau y coed trwy chwisdrellu arnynt dwfr â dail ysgaw wedi eu berwi ynddo.

**I RWYSTRO LLEIDFRYCHNI (mildew)** ar bob math o goed.—Cedwir y *fungus*, sef yr achos o'r brychni yma, rhag tyfu ar goed trwy eu chwisdrellu yn achlysurol a dwfr â dail ysgaw wedi eu berwi ynddo.

**LLYFFANTOD.**—Dyma rai o brif gyfeillion y garddwr; oblegid ymborthant gan mwyaf ar y pryfaid mwyaf dinystriol. Felly, er nad oes llawer o brydferthwch yn perthyn iddynt, dylid eu cefnogi ar bob cyfrif; ni ddylid eu cyffwrdd na'u hymllid mewn un modd; yn y gwrthwyneb, dylid gwneyd llochesau iddynt, i'r rhai y gallont ymneillduo o wres tanbaid yr haul. Os nad oes genych rai yn eich gardd, bydd yn werth eich trafferth i chwilio am danynt yn eich rhodfeydd, a'u cario gartref gyda chwi, gan fod yn ofalus rhag eu niweidio; ni ddylai yr un ffrâm *melon* neu *gucumerau* fod heb un neu ddau o honnynt.

**MALWOD A GWLITH-FALWOD (slugs)** sydd elynion pendant i bob planhigyn gardd, pa un bynag ai blodau a'i llysiâu; crwydrant yn y nôs i chwilio am fwyd, a dychwelant yn y dydd i'w llochesau; y cyngor byraf ac effeithiolaf yw "Codwch yn foreu, daliwch a lleddwch hwy." Os ydych yn godwr boreu, gellwch eu dâl cyn iddynt gyr-aedd eu llochesau, neu gellwch wasgar dail *cabbage* ar hyd y llawr, yn neillduol ar hyd y gwelyau a fynyehir ganddynt. Chwiliwch y dail hyny bob boreu, a chewch llawer o honnynt yn llochesu o danynt: os byddant yn boenus iawn i chwi, chwiliwch am eu llochesau, y rhai a ddarganfyddwch yn hawdd wrth ddilyn eu hoi, a lladdwch gynifer o honnynt ag a alloch bob dydd; mae calch a halen yn anyoddefol i falwod o bob math; mae ychydig halen yn eu lladd, ac ni chyffyrddant a chalch poeth ffresh; mae yn arferiad cyffredin i luchio calch ar hyd egin teuinge, ac ar hyd ymylon gwelyau, rhesi pys a ffa, letis, a llysiâu ereill; ond pan y byddo wedi bod ar y ddaear rai dyddiau,

neu wedi ei wlychu gan wlaw, colla ei nerth.

TRAP I DDAL MALWOD.—Mae malwod yn neillduol o hoff c fran; os gwasergerir ychydig ar y ddaear, a'i orchuddio â dail *cabbage*, bydd iddynt ymgasglu o danynt yn niferoedd lluosog, a thrwy eu chwilio bob boreu, a'u diuystrio, bydd i'w nifer leihau yn amlwg.

GRUBS.—Mae y creaduriaid hyn weithiau yn ddigon lluosog i ddifetha holl gynyrc'h y coed ffrwythau; ond os gwneir tân gyda choed sychion a chwyn ar yr ochr rhyngoch a'r gwynt o'r berllan neu'r ardd, fel y byddo i'r mwg fyned rhwng y coed, bydd i chwi ddi-fetha miloedd o honynt; mae gygased gan y *grubs* fwg, fel y para ychydig o hono iddynt rollo eu hunain i fyny a syrthio ymaith: dylid eu hysgubo ymaith ar ol eu cael ar lawr.

LINDYS.—Chwisdrell (*syringe*) gref a olcha y pryfaid dinystriol hyn ymaith wrth y miloedd. Rhaid doddi y chwisdreall yn agos i'r planhigyn, a chwythu y dwfr iddi gyda nerth mawr, a bydd iddo gael ei lwr yr lanhau heb dderbyn niwaid. Arol yr orchuwyliaeth hon, dylid crafu y pridd o dan y llysiau, a lladd y pryfaid, neu bydd iddynt ddringo i fyny eilwaith.

GLOEWON-BYW (*butterflies*), er eu bod yn dra phrydferth, ylynt elynion pendant i'r garddwr; gall un o honynt ddodi digon o wyau i lenwi pren cyfan a lindys, a dylid eu dinystrio ar bob cyfrif.

CACWN.—Dinystrïa y rhai hyn lawer o ffrwythau, ond mae pob pâr o honynt a lleddir yn y gwanwyn yn osgoi y drafferth a'r blinder geir oddiwrth haid yn yr hydref; ond angenrheidiol yw bod yn ofalus wrth ladd cacwn, oblegid mae eu colynau yn peri poen llym a maith. Os digwyddo i chwi gael eich colynu, rhwbiwech y lle a lliw glâs yn uniongyrchol. Yn ddiweddarach yn y tymor, mae yn arferiad crogi llestri llawn o ddwfr a siwgr, yn y coed ffrwythau, er eu denu i foddï eu hunain ynddynt.

GARDD YN Y FFENESTR.—Mae celfyddyd mewn gwneyd gardd yn y ffenestr, ond nid yw yn anhawdd ei dysgu, gan nad oes dim yn angenrheidiol ond ychydig ddiwydrwydd a synwyr

cyffredin. Y peth cyntaf yw gwneyd yr ardd, yr hwn ddylai fod yn fox wedi ei wneyd i ffitio y ffenestr y bwriedir tyfu y blodau ynddi. Gan fod hwn i wneyd yn lle daear gardd, dylai fod yn ddigon dwfn i ddal swm gweddol o bridd, ac yn ddigon llydan i gynywys dwy res o blanhigion. Gall y box fod ychydig yn lletach na chareg y ffenestr os cymerir gofal i'w schrau wrth y gareg ffenestr gyda *brackets*. Dylid paentio y box yn brydferth. Mae box lawer yn well na photiau, trwy fod mwy o le i'r gwreiddiau, ac yn hawddach eu diogelu rhag gwres gormodol yr haul. Dylai y pridd fod yn farl ysgafn, gydag ychydig o wrtaith pydredig a llwch esgryn. Dylid tori tyllau yn ngwaelod y box, a chyn rhoddi y pridd yuddo, dylid gorchuddio ei waelod gyda darnau mân o hen botiau, er i'r dwfr gael rhedeg trwyddo. Trwy gyfrwng y box wedi ei wneyd yn iawn gellir cadw ffenestr yn addurnedig o ddechreu y gwanwyn hyd yn ddiweddar yn yr hydref. At y gwanwyn—y blodau goraf ydynt y German Wallflower byr, yr hwn ellir ddefnyddio i wneyd y rhes gefn; gwna y *candytuft* (gwyn), yr *alyssum* (melyn), ac ychydig *anemones* yr ail res; a gellir ffurfio y drydedd, neu y rhes allanol, o'r *Aubrietia Campbelli*, gydag ychydig *scillas*, *snowdrops*, a *crocuses*, o wahanol liwiau. Gellir rhoddi ychydig *hyacinths* yn nghanol y box gydag efaith dda. Ar ol i'r blodau haf orphen blodcuo, dylid eu symud a'u planu mewn rhyw gongl cysgodol er bod yn barod erbyn y flwyddyn ddyfodol. Dylid adnewyddu y pridd ar gyfer y blodau haf. Gall y rhai hyn fod yn *yellow calceolarias*, *blue lobelias*, *verbenas*, *scarlet geraniums*, tra y gellir rhoddi rhyw blanhigyn dringol yn mhob pen i'r box, a gellir ei arwain i dyfu ar hyd ochrau y ffenestr gyda *wires* wedi eu sicrhau i'r pwrpas. Bydd box fel hyn, os edrychir ar ei ol, yn addurniant mawr i dy, a bydd y perarogl oddiwrtho yn ddymunol neillduol i'r preswylwyr. Bydd i'r mwynhad a geir trwyddo fwy nag ad-dalu yr ychydig drafferth sydd yn angenrheidiol er ei gadw mewn trefn.

FFERMWRIAETH.—Egwyddorion

cyntaf ffermwriaeth ydynt y rhai hyn : gwnewch a chadwch y tir yn berffaith sych a rhydd oddiwrth chwyn. Gwnewch a chadwch y tir ag sydd yn rhy gleiog, neu yn rhy lac, o'r fath natur friwsionllyd fel ag i'w wneyd i dderbyn, cadw, a throsglwyddo lleithder, ac felly ci gymhwyso i ddwyn y cnydau trymaf o rawn a llysiuwyd. Dychwelwch i'r tir, fel gwrtaith, mewn cyflwr braencdig, y cynyrch a gymerwyd oddiarno wedi iddo gael ei dreulio gan ddefaid neu anifeiliaid ereill. Na roddwch dail ar unrhyw dir nes llwyr ddinystrio pob chwyn, oblegyd tyfa chwyn yn doreithiog yn y tir a fyddo yn naturiol iddynt; os gadewir hwy, bydd iddynt dyfu yn uwch na'r planhigyn a hauir, a chymerant i fyny y rhan fwyaf o'r gwrtaith a roddwyd i'r tir.

**I SICRHU PWYSAU GWAIR.**—Mesurwch hyd a lled y dâs wair; yna cymerwch ei uchder o'r bargod i'r llawr, ac ychwanegwch at hyn y drydedd ran o'r uchder o'i bargod i'r crib. Lluosogwch yr hyd wrth y lled, a'r cynyrch wrth yr uchder, yn droedfeddi; rhanwch y swm wrth 27, i gael y llatheni ysgwar, a lluosogwch hwy gan y nifer o *stones* a olygir sydd mewn llathen ysgwar (hyn yw : mewn tâs o wair newydd, chwech *stones*—pob *stone* yn 14 pwys;—os bydd y dâs wedi sefyll am gryn amser, wyth *stones*; ac os hen wair, naw *stones*), a bydd genych y pwysau yn *stones*. Er enghraifft, meddylwch fod genych dâs 60 troedfedd o hyd, 33 o led, 12 o uchder, o'r llawr i'r bargod, a 9 (y drydedd o ba rif yw 3) o'r bargod i'r crib; yna y mae 60 wedi eu luosogi wrth 30 ac wrth 15, yn gyfartal i 27,000; ac y mae 27,000, wedi eu rhanu wrth 27, yn gyfartal i 1,000; ac y mae 1,000 wedi eu luosogi wrth 9, yn gyfartal i 9,000 *stones* o hen wair.

**CADW PYTATWS.**—Mae cadw pytatws trwy eu trochi mewn dwfr berwedig yn ddarganfyddiad pwysig a defnyddiol. Gellir ciwrio swm mawr o honynt ar unwaith, trwy eu doddi mewn basged mor fawr a'r *boiler* neu y llestr y byddo y dwfr berwedig ynddo, ac yna eu trochi ynddo am funud, neu ddau funud yn y man pellaf. Y mae yr eginyn, yr hwn sydd mor agos i'r croen, fel hyn yn cael ei

ddinystrio heb anharu y bytaten. Fel hyn, gellir ciwrio amryw dunelli mewn ychydig oriau. Wedi hyny dylid eu sychu mewn ffwrn gynes, a'u cadw mewn sachau, o gyraedd y rhew, mewn lle sych.

**CYNRHON MEWN DEFAID.**—*Efordd i'w distrywio.*—Dwfr, 1 chwart; spirit of turpentine, llon'd llwy fwrdd; sublimate of mercury, gymaint ag a safu ar swllt; corciwch mewn potel, gyda cwilsyn trwy y coreyn, fel y byddo i'r cymysgedd ddyfod allan yn bur raddol. Ysgydwch cyn ei ddefnyddio. Tywelltwch ychydig o'r cymysgedd ar y fan lle y byddo y cynrhon, a bydd iddynt gripian i flaen y gwlan, a disgyn i lawr yn farw. Cymhwyswch ychydig *train oil* wedi hyn y llle.

**CEFFYLAU A'U HANHWYLDER-AU.**—Mae y cynghorion canlynol yn ddefnyddiol:—

*Enaint i Geffylau.*—Resin, 4 owns; cwyr gwenyn, 3 owns; lard mochyn  $\frac{1}{2}$  pwys; turpentine cyffredin, 6 owns; toddwch mewn llestr pridd wrth dân araf; yna ychwanegwch 2 owns o verdirgris, cymysgwch yn dda yn nghyd, ac ystreiniwch y cwbl trwy lian bras: gadewch iddo oeri cyn ei ddefnyddio. Mae hwn yn enaint da i friw, neu grafiad ar y enawd, penliniau toredig, cefnau drwg, brathiaid, sodlau craciog, *mallenders*, neu pan fyddo ceffyl wedi tori arno, i gadw y pryfaid draw a gwella y briw.

*Purge i Geffyl.*—Aloes, 1 owns; rhu-barb, 2 dram; oil of mint, 4 diferyn, wedi eu gwneyd yn belen gyda mêl.

*Cordial i Geffyl.*—Os bydd y ceffyl yn wan ar ol teithio, rhoddwch iddo beint o gwrw cynes, gydag owns o *diapicrte* ynddo. Bydd i'r *diapicrte*—yr hwn sydd gymysgedd o bethau, ac a ellir gael yn siop y cyfferiwr—esmwytho ei goluddion, gyru allan yr oerfel a'r gwynth, a gwneyd llawer iawn o les iddo.

*Cefn Dolurus.*—Os bydd y cyfrwy yn ei friwio a pheri i'w gefn chwyddo, bydd doddi cadach llestri brasderog a chynes arno, a llian drosto, a'i rwympo i'gylch am 15 munud, a gwneyd hyn unwaith neu ddwy, ostwng y chwydd. Os na fydd y briw ond ysgafu, gwna ei olchi ag ychydig halen a dwfr y tro

yn unig. Cyfnewidiwch y cyfrwy, fel na byddo iddo bwysu ar y lle tyner, oblegyd bydd ail friw yn waeth na'r cyntaf.

*Y Splint*.—Lwmp caled yn tyfu ychydig o dan, ond heb fod yn mhell o ben y glin yw y *splint*. *I'w wella*.—I gymeryd ymaith, torwch y blew yn gwtu, yna curwch yn araf a darn crwn o bren hyd nes y byddo yn boeth i'r cyffyrddiad, yna rhwbiwch sebon caled o amgylch ochrau y *splint*, er rhwystro y *blister* rhag niweidio unrhyw fan arall, a chymhyswch ar y *splint* y *blister* ointment canlynol : mercurial ointment, 1 owns ; Spanish flies, 2 dram, wedi eu cymysgu yn dda yn nghyd ; gellir rhoddi ychydig o hwn unwaith yn yr wythnos nes y byddo y *splint* wedi ei symud.

*Spavin*.—Y mae y *spavin* o'r un natur, ac ymddangosa, yn yr un modd, ar yr asgwrn heb fod yn mhell oddiar gymal y goes ol. *Gwellhad*.—Rhodder arno yr un enaint ac a gyfarwyddwyd at y *splint* : os faela, llosgwch a throwch y ceffyl i'r borfa am dri mis.

**RHODDI DWFR I GEFFYLAU.** Mae dwfr mor angenrheidiol i geffyl ag ydyw ymborth, a cheir y gwna ceffylau edrych yn well wrth gael *digonedd* o ddwfr na'i gael wrth fesur. Y ffordd oreu ydyw rhanu y manger, fel y byddo ei fwyd mewn un haner a'i ddwfr yn yr haner arall : felly bydd i'r ceffyl gymeryd dwfr pan y bydd angen am dano, ac nid pan y caffo gynyg arno. Mae y cynllun hwn wedi ei brofi yn llwyddianus.

**Y FUWCH : LLAETHDY : YMENYN : CAWS.**—Y *Fuwch*.—Dechreuwn ein nodiadau gyda dweyd, mai gwartheg o frid y *short-horn* a'r rhai di-gym, ydynt y rhai goraf am laeth da, ac y maent yn llai poenus i'r godrwr. Y rhai a roddant fwyaf o laeth yw gwartheg mawr Lancashire, Yorkshire, a Staffordshire ; ond y mae angen llawer o ymborth ar y rhai hyn, a byddai iddynt newynu ar dir y gallai y mathau llai, megis y gwartheg Cymreig ac Ysgotaidd, gael digonedd arno. Mae gwartheg Suffolk ac Ayrshire, y ddau yn rhywogaeth bychan, yn rhagorol o ran ansawdd a swm y llaeth geir ganddynt. Mae

gwartheg Devonshire a Chymru yn llwyddo yn dda gyda thriniaeth gyffredin, ac yn ddigon caled i sefyll y gauaf heb gael niwaid.

*Gellir* gadael y *fuwch* i bori ar y gwelltglas yn y maes agored, neu gellir ei chadw yn y beudy, a thori a chario bwyd glas iddi ; hynny yw, ei phorthi gyda gwair a gwreiddiau, ond y dull goreu o'r rhai a nodwyd yw pori allan. Mae yn fwy manteisiol i'w hiechyd ; ca fwy o ymarferiad, yr hyn sydd yn bwysig ; anadla awyr iach ; yfa ddwfr ffres a hollol feddal ; a cha wellt hollol ffres, ac yn llawer mwy derbynol ganddi na phe y dygid iddi o'r maes. Y mae yn sier hefyd fod llaeth gwartheg a borthir mewn porfa dda yn well o ran ei ansawdd ac yn fwy o swm, ac fod yr ymenyn a geir oddiwrtho yn well ei flas na'r peth a geir oddiwrth laeth gwrtheg yn cael eu cadw i mewn, a'u hamddifadu oddiwrth fanteision awyr iach, bwyd ffres ac ymarferiad priodol.

*Onid nis gellir cael tir pori bob amser* ; ac os rhaid cadw buwch rhaid ei chadw i mewn, er nas gellir disgwyl iddi lwyddo cystal a phan yn cael crwydro ar hyd y maesydd i gasglu ei bwyd ei hun. Mewn llawer o amgylchiadau nis gellir mabwysiadu yr un cynllun i gadw buwch ond ei chadw yn tŷ. Mae y cynllun wedi ei arferyd yn led gyffredinol yn nghymydogathau trefydd mawr, ac ar y cyfandir dyna'r cynllun a fabwysiadur yn gyffredin. Mae hyn yn angenrheidiol, pa fodd bynag, mewn rhai amgylchiadau, ar dir cynildeb yn unig, trwy fod yr anifeiliaid yn difetha llawer o wellt wrth gael cerdded yn rhydd ar hyd-ddo, a llawer o wrtaith gwerthfawr yn cael ei wastraffu yr hwn fyddai yn llawer mwy cynrychiol pe cesglid at ei gilydd yn y beudy a'i gymhyswo yr adeg briodol at y tir. Gwna llawer iawn llai o dir y tro i gadw buwch i mewn na phe caniateid iddi gerdded ar hyd-ddo. Efallai y gwnelai ychydig dros haner erw o dir gynrychu digon o wair pan y byddo yn cael ei dori i lawr a'i gario i'r tŷ i gadw buwch agos trwy'r flwyddyn ; tra na fyddai y fath fesur o dir ddim agos haner digon wrth ganiatau iddi fathuru y gwellt a difetha llawer o hono.

*Mae y math o fwyd* a roddir i f uwch a gedwir i mewn yn gynwysedig o wellt-glas, clover, a vetches, gwair a gwellt, y rhai a ddylid oll fod o'r mathau goreu. Mae pethau o'r ardd hefyd yn dra llesiol iddi, megis llysiau na bydd angen am danynt yn y tŷ; gwreiddiau o bob math, megis moron, parsniips, mangel-wurzel, a phytatws. Mae maip hefyd yn ddefnyddiol, ond os rhoddir gormod o honynt cyfranant flas anhwyfryd i'r llaeth a'r ymenyn. Dywedir fod blawd ceirch, blawd pys, linseed, a bran, yn gwella ansawdd y llaeth.

*Yr amserau goreu i borthi* y f uwch ydynt yn gynar yn y boreu, ganol dydd, ac ychydig cyn machlud haul. Rhaid rhoddi digonedd o ddwfr bob amser, a dylai fod yn ddwfr meddal, os gellir ei gael mewn rhyw ffordd. Dylai y dwfr roddir iddynt yn y gauaf gael tori ei oer gyda dwfr cynes.

*Dylid trin gwartheg gyda gofal.* Os bydd eu tethi yn dyner a dolurus, dylid eu golchi yn ofalus ddwywaith yn y dydd gyda dwfr cynes, a dylid eu heneinio ag enaint priodol, neu *spirits* a dwfr. Byddai enaint wedi ei wneyd o *glycerine* yn dda.

**LLAETHDY.**—Dylid rhoddi rheolaeth y Llaethdy i un person, yr hon a ddylai gymeryd y gofal mwyaf i drefnu ei holl waith gyda manylweh.

*Y llestri.*—Dylai y llestri fod o goed, pa bryd bynag y gellir eu cael; llestri yr hufen heb fod dros dair modfedd o ddyfnder, ac yn dâl o bedwar i chwech chwarter o laeth. Dylid eu golchi yn dda bob dydd mewn dwfr cynes, a'u rinsio yn ofalus mewn dwfr oer, a bod yn hollol oer cyn eu defnyddio. Os llestri metl a ddefnyddir rhaid eu hysgaldio bob dydd, a'u rhwbio a'u scwrio; a dylid cario goruchwyliaeth yr ysgwrio yn rhywle heblaw y llaethdy; am fod y gwres a gyfyd oddiwrth y dwfr poeth yn tueddu at suro y llaeth. Mewn gair, mae y gelfyddyd o gadw y llaethdy yn oer a glân yn un o'r pwysigrwydd mwyaf, a dylai gael sylw mwyaf y llaethwraig.

*Mae purdedd yr awyr* yn y llaethdy, a *chydraaddoldeb* ei dymheredd o'r pwys mwyaf bob tymor trwy'r flwyddyn. Nid ydyw ffenestri gwydr gystal a rhai

dellt, trwy fod y rhai hyn yn caniatáu mwy o awyriad. Mewn tywydd oer a'r gauaf, dylid rhoddi papyr olewaidd dros y dellt, neu gellir eu gwneyd i gau ac i agor, fel y bydd angen.

*Mae glancucithdra* yn anheborol bwysig; mae llwyddiant holl weithrediaidau y llaethdy yn dibynnu ar hyn. Dylai yr holl llestri, y shellfoedd, y gwelydd, a'r llawr fod yn fanwl lân, a phan fyddo y tywydd yn boeth dylid ei olechi yn anl a lluchio digonedd o ddwfr oer ar hyd-ddo. Dylid cadw allan bob peth tueddol at fagu surni. Ni ddylid crogi cig yn yr un man a llaeth, ac ni ddylid gadael caws, cywer (*rennet*) na gweddillion llaeth sur yn y lle un amser.

**GODRO.**—Godrirgwarthegnygyffredin ar adegau penodol, ddwywaith yn y pedair awr ar dugain, deirgwaith mewn rhai ardaloedd. Beth bynag fyddo yr arferiad, y mae yn bwysig godro mor gyson ag y byddo yn bosibl. Dylai yr un fyddo'n godro fod o dymer addfwyn, fel na byddo iddi trwy erwinder a chroesder i yrru y f uwch i atal ei llaeth. Dylid cymeryd gofal i odro yr holl laeth fyddo yn y pwr, os na wneir hyn bydd i'r llaeth fyned yn llai o hyd nes o'r diwedd na bydd diin o hono.

*Swm o laeth.*—Penderfynir hyn gan amrywiol achosion, megis rhywogaeth y f uwch, yr adeg ar y flwyddyn, natur y borfa, &c. Mewn rhai manau ceir cymaint ag wyth neu ddeuddeg chwarter y dydd gan wartheg mawr yn cael eu porthi yn dda.

*Trin y llaeth.*—Pan y cymerir ef oddiwrth y f uwch dylid ei gario i'r llaethdy yn araf ac heb vsgrwyd llawer arno, ei ystreimio neu ei hidlo trwy oger, a'i roddi yn y llestri er mwyn i'r hufen godi, yr hyn a wna mewn o chwech i wyth awr. Dylai tymeredd y llestri llaeth fod mor agos ag y gellir i boethder y llaeth, ac o ganlyniad, yn y gauaf, dylid eu hysgaldio gyda dwfr poeth, neu eu cynhesu o flaen y tân cyn rhoddi y llaeth ynddynt.

**YMENYN.**—*Y ffordd i'w wneyd.*—Defnyddir dwy ffordd i wneyd ymenyn. Un ffordd ydyw gwahanu yr hufen oddiwrth y llaeth a'i droi yn ymenyn trwy ei gorddi; y ffordd arall ydyw corddi yr holl laeth. Y ffordd gyntaf

sy'n cynyrchu yr ymenyn brasaf, ond y ffordd olaf sy'n cynyrchu fwyaf o ymenyn. Gwneir ymenyn o'r hufen a'r blaeth wedi iddo ddechreu suro, ac ymddengys surni yn anhebgorol i'r oruchwyliaeth. Gwneir ymenyn rhagorol trwy ddefnyddio yr haner olaf o laeth y fuchw, gan nad yw y blaeth cyntaf geir oddiwrtho agos mor fras a'r peth olaf. Mae lliw melyn yr ymenyn yn aml yn gelfyddydol, oblegyd yn y gauaf mae lliw yr ymenyn yn aml yn wyn, ac mewn trefn i'w wneyd yn debyg i'r un lliw ag fydd arno yn yr haf pan fydd y gwartheg yn y borfa, defnyddir rhywbeth i'w liwio, megis ychydig *arnatto*, neu sudd moron, neu flodau mari-gold.

*Blas Ymenyn.*—Mae ei flas yn dibynnu llawer ar yr ymborth roddiri'r gwartheg. Os bydd yr ymenyn yn debyg o fod a blas maip arno, bydd i'r cynllun canlynol ei rwystro:—Pan y dygir y blaeth i'r blaethdy, ychwanegwch chwartz o ddwfr berwedig at bob dau alwyn o hono; yna dodwch y blaeth wedi ei gymysgu yn dda yn y llestri priodol at hufenu. Trwy ddilyn y cyfarwyddyd hwn yn fanwl ceir ymenyn trwy'r gauaf heb ddim blas maip arno.

*Triniad ymenyn wrth ei wneyd.*—Dibyna ansawdd yr ymenyn i raddau mawr ar hyn. Rhaid ei wasgu a'i weithio, fel ag i gael y cwbl o'r blaeth enwyn allan o hono, oblegyd os na symudir ef, bydd i'r ymenyn ddifetha mewn ychydig amser; ar y llaw arall, os gweithir gormod ar yr ymenyn, bydd yn ludiog a gwydn. Mae ymenyn yn dueddol i ddrewi; nis gellir ei osod yn agored i weithrediad yr awyr am lawer o ddyddiau a'i gadw heb ddrewi heb ychwanegu halen ato, ond y mae yn sicr mai po lwyraf y gwasgir y blaeth o hono mai hwyaf i gyd y ceidw. Atalir y duedd i ddrewi sydd ynddo os rhoddir ychydig halen ynddo wrth ei wneyd. Gwneir hynny mewn llawer man; ond mewn rhanau o Ysgotland ni roddir dim halen ynddo, ond dygir ef i'r bwrdd yn hollol fel ei gwneir.

*CAWS.*—*Cywer (rennet)* yw y sylwedd a ddefnyddir i geulo y blaeth. Gwneir ef o ystumog llo wedi ei halltu. Parotoir ef fel y canlyn:—Cymerwch

gylla neu fol llo, golchwch yn hollol lân, a halltwch yn dda y tu mewn ac allan. Rhoddwch mewn llestr pridd, a gadewch iddo sefyll am dridiau neu bedwar, yna crogwch ef i fyny am ddeudddydd neu dri fel y byddo i'r picl redeg o hono. Halltwch ef eto, dodwch mewn *jar*, gorchuddiwch yn glôs a phapyr, wedi ei dyllu a blaen pin, a gadewch iddo sefyll am ddeuddeg mis. Pan bydd angen am beth o hono i'w ddefnyddio dodir y cywer i fwydo mewn dwfr, a gellir ychwanegu ato ychydig sudd *sweet-briar*, neu ychydig lemon a cloves. Bydd i'r hylif hwn fod yn gryf mewn cyfartaedd i'r amser y gadewir y cŵd cywer ynddo. Yn gyffredin y mae haner peint o'r hylif yn ddigon i geulo haner can' galwyn o laeth.

*Lliwio y caws.*—Pan y gwneir caws o'r blaeth penodol ac ar yr adeg briodol yn y flwyddyn, y mae o liw melyn goleu bob amser, a thrwy y cysylltir y syniad o ragoroldeb wrth y lliw, dodir lliw ynddo weithiau trwy foddion celfyddydol. *Spanish arnatto* a ddefnyddir fynychaf i'r perwyl hwn.

*I wneyd Caws.*—Dylai pob blaeth a ddefnyddir at wneyd caws gael ei hidlo yn dda trwy ogr *cannass* da, er tynu pob blew ac anmhuredd o hono. Rhowch y blaeth mewn twb mawr; a gofaler ei fod i gyd yr un wres a blaeth newydd ei odro. Y blaeth a geir oddiwrth un godriad yw y goreu, a phan y dygir ef yn gynes oddiwrth y fuchw y mae y cywer yn fwy tebygol o effeithio arno. Mae llwyddiant gwneyd caws yn dibynnu i raddau helaeth ar fod y blaeth mor dwym, ond heb fod yn boethach, a blaeth newydd ei odro. Wedi cael y blaeth o dymheredd briodol, rhoddwch ynddo gymaint o'r cywer ag a'i try, a gorchuddiwch ef drosto. Gadewch iddo sefyll nes y byddo wedi cwbl droi; yna tarewch y caws gwyn i lawr amryw weithiau gyda'r ddysgl ysgumio, a gadewch iddo wahanu, gan barhau i'w orchuddio. Y mae dau ddull o dori y caws gwyn; a bydd gwahaniaeth yn mas y caws, yn ol fel y telir sylw i'r naill neu y llall. Un dull ydyw ei gasglu â'r dwylaw yn dra thyner tuag ochr y twb, gan adael i'r gleision basio trwy y bysedd nes y byddo wedi ei



gylirio, a'i godi ymaith fel y casgla at ei gilydd. Y cynllun arall ydyw, cael y gleision ymaith trwy dori y caws gwyn yn gynar : y mae y dull olaf yn ei amddifadu o lawer o'i fân ronynau, ac am hyny yn llai priodol. Fe geir melin bwrpasol at ei falu, ac arbeda lawer o lafur, a mala ef yn well hefyd. Rhowch y *vat* gaws ar ysgol uwchben y twb, a llenwch hi a chaws gwyn gyda'r llestr ysgumio ; gwasgwch y caws gwyn yn glôs gyda'ch llaw, a rhoddwch ychwaneg i mewn fel y sudda ; ac yn y diwedd rhaid ei adael ddwy fodfedd uwchlaw yr ymyl. Cyn i'r *vat* gael ei llenwi, rhaid i'r caws-lian gael ei roddi ar y gwacod ; a phan yn llawn, tyner ef yn esmwyth drosodd ar bob ochr.—Y mae dau ddull o halltu caws : un dull trwy gymysgu yr halen yn y caws gwyn tra yn y twb ar ol i'r gleision ymadael ; a'r dull arall yw, trwy ei roddi yn y *vat* a malu y caws gwyn yn ddarnau gydag ef, wedi i'r gwasgiad cyntaf a'r dwylaw ei sychu. Rhowch fwrdd o dan ac ar y *vat*, a dodwch hi yn y wasg ; yn mhen dwy awr trowch ef allan, a rhowch lian newydd ; gwasgwch ef drachefn am wyth neu naw awr ; yna halltwch ef i gyd drosto, a throwch ef drachefn yn y *vat*, a gadewch iddo sefyll yn y wasg am bedair awr ar ddeg neu am un awr ar bynthege, gan ofalu rhoddi y cosynau a wnaed ddiweddaf yn isaf. Cyn eu rhoddi i mewn yn y *vat* am y tro diweddaf, trowch yr ymylon os na byddant yn edrych yn llyfn. Dylai fod tyllau yn ochrau ac yn ngwaelod y *vat*, er i'r holl laesion basio allan.

*Caws Gwyrdd neu Gaws Sage.*—Yr unig wahaniaeth rhwng gwneyd y math yma o gaws a chaws cyffredin ydyw lliwio y caws gwyn gyda sage wedi ei friwio a persli.

*Cream Cheese.*—I wneyd caws hufen cymerwch ddeuddeg chwart o laeth newydd ac un chwart o hufen ; dodwch hwy yn nghyd gyda deg llon'd llwy o gywer claiar ; ar ol iddo geulo yn briodol, dodwch lian yn y *vat* (yr hwn raid fod o'r maintioli priodol i'r caws), trowch allan y caws gwyn gyda'r ddysgl ysgumio, a rhoddwch yn y *vat* nes y byddo yn llawn, gan droi y lian am dano ; fel y byddo y caws gwyn yn

myned i lawr rhoddwch ychwaneg i mewn, nes y byddwch wedi rhoddi digon i wneyd un cosyn. Ar ol i'r gleision redeg ymaith trowch y cosyn allan i lian sych, a rhoddwch un pwys o bwysi arno ; gyda'r nos trowch ef i lian arall, a boreu dranoeth halltwch ychydig arno ; yna, ar ol parotoi gwely iddo o ddail danadl poethion neu ddail onen, dodwch ef arno, gan ei orchuddio â hwy, gan ei symud ddwywaith yn y dydd am ddeg diwrnod, a bydd yn gymwys i'w ddefnyddio.

## ADAR DOFAIDD—ADAR CANU—GWENYN, &c.

*IEIR.*—*Magu Cyneion Ieir.*—Mai yw y mis am gywion, er fod miloedd yn cael eu deori cyn hyny ac yn dyfod yn mlaen yn dda. Y mae y tywydd yn dechreu cynhesu, a'r cywion a ddeorwyd yn ystod Mawrth ac Ebrill ydynt y rhai cryfaf a goraf, yn neillduol os o'r mathau goreu. Mae y golygiadau am y dull y dylid ymddwyn at gywion Ieir yn amrywio yn fawr, ond bydd i ni roddi nifer o gyfarwyddiadau a roddwyd i ni gan un a gafodd lawer o ymarferiad mewn magu Ieir o wahanol fathau.

*Ar ol dyfod allan o'r plisg*, ni ddylid symud y cywion oddiwrth yr Iâr ; ar y cyntaf maent yn wanllyd a gwlyb, ond mewn ychydig oriau byddant yn hollol sych, ac ni ddylid symud yr Iâr oddiar ei nyth hyd nes y byddo y cywion yn gwthio eu penau drwy ei phlyf i edrych allan. Mae llawer o'r faru fod angen ymborth ar y cywion mor fuan ag y deorir hwy ; mae hyn yn gamgymeriad. Ar adeg y deoriad, tynir y gweddill o'r melynwy i beiriant treuliol y cyw, a dyma ei ymborth cyntaf ; bydd i hwn barhau am o ugain i ddeg awr ar hugain, ac erbyn hyny bydd y cywion yn sefyll yn gryfion ar eu traed, ac yn barod i fwyta gydag awch.

*Bwyd cyntaf Cyneion Ieir*, yr hwn sydd yn dra gwerthfawr, yw briwsion bara, melyn wyau wedi eu berwi yn galedion, a blawd ceirch, wedi eu cymysgu a'u gilydd, a'i ystywytho ag ychydig ddwfr. Dyma yr ymborth goraf

am y pythefnos cyntaf; yma ychwanegwch yn raddol geirch, had llin, a bwyd glâs, megis berw, letis, cabbage, cenin, &c., wedi eu malu yn fân. Os bydd y tywydd yn oer a gwlyb, ychwanegwch ychydig bupur at y bwyd yn achlysur-ol, hefyd ychydig weddillion cig wedi ei falu yn fân, yn lle pryfaid, wyau wedi eu berwi yn galed a'u malu trwy'r plisg. Porthwech y cywion yn gynar yn y boreu, ac yn aml yn ystod y dydd, ychydig ar unwaith; dylai y llestri dwfr fod yn fâs, a'u llenwi yn aml, a'u trefnu yn y fath fodd fel na byddo y cywion yn alluog i fyned iddynt. Taffler bwyd y cywion ar y ddaear; bydd iddynt felly bigo graean i fyny i'w ganlyn, yr hyn sydd yn angenrheidiol er gallu treulio y bwyd. Wrth gwrs, ni bydd cymaint o angen am gig ac wyau maledig, os bydd yr hen fam-iâr yn cael rhyddid i fyned o amgylch i chwilio am bryfaid i'w chywion. Ambell waith bydd cywion yn methu magu plyf yn briodol: gall hyny gael ei achosi gan yr awyr oer neu wendid: yn y naill achos a'r llall, dylid eu porthi yn dda a bara a phethau felly, a lluchio iddynt ddigonedd o gregin wystrys wedi eu flossgi a'u malu, er eu hadgyflenwi a chalach.

*Mae porthi y fam-iâr yn dda yn bwysig.*—Fel yr arferai Cobbett ddweyd, "Os nad yw yn rhoddi llaeth, mae yn rhoddi gwres;" ac y mae ymarferiad yn ein dysgu fod yn angenrheidiol cael bwyd er cynyrchu gwres anifeilaidd. Y mae lâr a chywion, os na cha ddigon o fwyd, yn llusgo ei thylwyth o amgylch, gan eu cymeryd trwy y gwellt gwlyb, gan eu blino a gormod o gerdded; ond os porthi hi yn dda, cadwa hwy o dan ei hadenydd yn ofalus, ac ni chrafa ond i chwilio am bryfaid a moethau ereill iddynt. Rhaid bod yn ofalus i ddodi yr lâr a'i chywion mewn lle diogel a chlyd y nos, a'u rhwystro allan yn y boreu nes y bo y gwllith wedi codi oddi-ar y gwelltglas.

*Y modd i dewychu cywion.*—Berwch *rice* mewn llaeth teneu a dwfr nes y byddo wedi chwyddo, ac ychwanegwch lwyaid o siwgr. Porthwech hwynt dair gwaith yn y dydd, gan roddi iddynt ddigon ar unwaith, gan dalu y bwyd,

heb fod yn rhy wlyb, ar y ddaear. Rhoddiwch iddynt ddwfr glân i'w yfed. Trwy y dull hwn bydd y cig yn wyn a chllir, a thrwy fod y *rice* yn myned yn mhell, ac yn rhad, ceir mai dyma y modd rhadlonaf a chyllymaf.

*Dull arall o dewychu Ieir.*—Dylid eu cadw mewn ieir-dŷ (*coop*), yrhwnyrhaid ei gadw yn lân. Rhodder graean iddynt, ond dim dwfr. Dylid cymysgu eu hunig fwyd, blaewd haidd, a dwfr, fel y byddo iddo wneyd y tro iddynt yn lle diod. Bydd i'w syched wneyd iddynt fwyta mwy nag a fydd arnynt ei angen, er mwyn tynu y dwfr fyddo yn y bwyd. Dylid rhoddi y bwyd hwn ar ddaer o bren, ac nid mewn cafn, a dylid ei olchi yn lân cyn rhoddi bwyd arno.

*HWYAIID.*—*Yr Hwyaeden Deulu-aid.*—Nid ystyrir yr un buarth sferm-dŷ yn gyflawn heb lwyaid. Maent yn hynod epilgar. Mae llawer yn hoff o'u hwyau, ar gyflif eu blas a'u braster; yn hyny maent yn tra rhagori ar wyau ieir, ac ystyrir un wŷ hwyaden yn werth dau wŷ iâr at ddybenion cogyddol. Y mae i gig yr Hwyaeden flas neillduol, ond nid yw mewn un modd yn afiach; ond y mae yn agored o gael ei heffeithio gan y math o fwyd y byddo yn ymberthi arno, a thrwy fod yr Hwyaeden yn agored i fwyta pob peth a ddelo i'w ffordd, glân ac aflan, y mae yn angenrheidiol ei phorthi a bwyd priodol ac iachus am beth amser cyn ei ladd.

Nid yw yr *Hwyaeden Gyffredin* yn un dda am ddeori. Mae yn dueddol i ad-ael i'w hwyau fyned yn oer; a chlyd hyn oddiwrth ei hoifder o fyned i'r dwfr; ac am yr un rheswm, pa mor oer bynag y byddo y tywydd, cymera ei chywion i dderbyn eu gwres gyntaf yn y gelyddydd o nofio mor fuan ag y bydd-out allan o'r plisg,—yr hyn sydd bob amser yn niweidiol. Am y rhesymau hyn ac eraill, dodir wyau hwyaid yn aml o dan iâr, a hyny gyda llwyddiant, trwy ei bod yn fwy gofalus am ei theulu bach na'r hwyaden. Deorir wyau hwyaid mewn un-diwrnod-ar-dded ar hug-hugain. Dylid cadw y cywion am ddiwrnod neu ddau o'r dwfr, hyd yn nod mewn tywydd teg, ac yn neillduol pan fo y tywydd yn oer. Eu bwyd cyntaf ddylai fod haidd wedi ei ferwi

yn gymysgedig a danadl poethion wedi eu berwi a wyau caledion. Byddant yn fuan yn alluog i ofalu am eu hunain, a dangasant, er syndod a dychryn yr iâr, gariad mawr at y dwfr, a diwydrwydd neillduol mewn chwilio am ymborth ar yr elfen newydd.

Mae *gwahanol fathau* o'r hwyaden gyffredin; amryw o honynt wedi eu croesi a rhywiogaethau ereill, ac yn wahanol iawn yn eu maintiau a'u lliwiau. Efallai mai y ddau rywogaeth mwyaf gwerthfawr ydynt yr *Aylesbury Duck*—aderyn mawr a hardd, a'i gig mor flasu fel y mae yn aml yn cael ei gydmaru i gig iâr;—a'r *Rouen Duck*, aderyn braf, a blas ei gig yn well, pe byddai yn bosibl, na'r *Aylesbury*.

**GWYDDAU.**—*Yr Wydd gyffredin.*—Y mae dau fath o'r gwyddau cyffredin—y llwydion a'r gwynion. Gwyddau llwydion ydynt y rhai goraf yn mhob ystyr. Mae ymarferiad a phrawf yn dweyd yn eglur na ddylid cadw gwyddau o liw cymysg, hyn yw, dylent oll fod yn hollol lwyd neu yn hollol wyn. Dodwya yr wydd o ddeg i ugain o wyau cyn eistedd, ac os ca ei phorthi yn dda a'u chadw yn ofalus, dodwya ac eistedda dair gwaith yn y flwyddyn. Dechreuad ddodwy yn gynar yn Mawrth, ac hyd yn nod tua diwedd Chwefror. Pan y gwelir yr wydd yn cario gwellt oddiamgylch, gellir gwybod ei bod yn bwriadu gwneyd nyth a dodwy. Pan y gwelir yr arwydd hon, doeth ydyw ei chau i mewn, rhoddi nyth iddi o wellt a'i orchuddio tu fewn a gwair, a'i drefnu yn y fath fodd na byddo i'r wyau syrthio allan, yn enwedig wrth i'r aderyn fyned i mewn. Mae pyntheg o wyau yn ddigon o dan aderyn mawr. Eistedda ar ei hwyau am fis, ond dichon i rai o'r cywion gael eu deori ddiwrnod neu ddau yn gynt; ond da ydyw i'r adar gael eu deori oll oddeutu yr un amser, a thuag at gyraedd hyny, dylid gwneyd pob yndrech i ddodi wyau cyfartal *fresh* odditani. Ar ol i'r cywion gael eu deori dylid eu troi allan i le cynes a chysgodol, oblegid y mae gwynt oer yn dra niweidiol iddynt; ac y mae yn ddiangenrhaid a pheryglus eu porthi am oddeutu deuddeg awr ar ol eu deoriad. Eu bywd cyntaf ddylai fod bara

wedi ei fwydo mewn llaeth, cawl, llysiau wedi eu berwi, pytatws cymysgedig a *bran*; a dylid rhoddi y bywd iddynt mewn tymheredd gymedrol, heb fod yn rhy boeth nac yn rhy oer, ac am ychydig ddyddiau beth bynag ar ol eu deori dylid eu rhwystro rhag myned i'r dwfr oer, yr hyn sydd yn dueddol i roddi iddynt y *cramp*. Fel rheol gyffredin, ni ddylid caethiwo cywion gwyddau ond gan lleid ag y byddo yn bosibl. Os bydd iddynt gael cerdded o amgylch y caeau, pyllau dwfr, a ffyrddiau bychain, bydd iddynt hêl llawer o fwyd. Mae gwellt a dwfr yn anheggorol angenrheidiol i'w llesiant, yn enwedig y gwellt a dyf mewn lleoedd lleithiog, yr hwn, er ei fod yn arw a braisg, sydd yn llesiol iddynt hwy. Yn amser cynhauf y mae y meusydd soff yn borfa rhagorol iddynt; gallant gael ynddynt llawer o yd a fuasai hebddynt yn cael ei gollu, a llawer o welltglas ieuangae a phethau ereill. Ond nis gellir cael mantais soff yn mhob man, pa fodd bynag, ond lle y digwydda hyn gellir gwneyd defnydd da o'r ardd gegin. Yn yr Hydref gellir troi y gwyddau iddi heb berygl iddynt wneyd llawer o niwaid; ond dylid eu porthi yn achlysurol a phytatws berwedig, wedi eu malu a'u cymysgu a *bran*, neu ni bydd yr hyn a gânt yn yr ardd o lawer o les iddynt.

*Pesgi Gwyddau.*—Bydd i gywion gwyddau besgi yn y soff-gaeau yn Mehefin a Gorphenaf heb unrhyw ymborth arall; ond os bydd yn angenrheidiol prysuro y gorchwyl rhaid rhoddi iddynt ymborth ychwanegol, megis pytatws a *succes* wedi eu malu a'u cymysgu â blawd, a dylid eu porthi fel hyn unwaith yn y dydd. Mae llawer o wahanol foddau i besgi gwyddau, ond y dull symlaf ac effeithiolaf yw digonedd o fwyd meithrinol, a'u cadw mewn lle tywyll.

**GUINEA-FOWLS.**—Mae yr aderyn hwn yn adnabyddus yn Lloegr er's dros bum' cant o flynyddoedd. Brodor o Affrica ydyw. Y mae yn fwy o faintioli na'n hieir cyffredin; ond y mae ei wyau yn fychain, ac y maent yn lluosog ac o flas da. Nid yw yr aderyn hwn yn llwyddo mewn caethiwd, ond gofyna berffaith ryddid, a digon o le i grwydro.

A medda y fath gymeriad ymladdgar fel y mae yn anhawdd cael ganddo i fyw yn heddychlon a *fowls* creill. Ni fegir llawer o honynt yn y wlad hon; efallai mai yr anhawdsder o fagu eu cywion yn ein hinsawdd laith ni, a thuedd dinystrïol yr hen adar, ydyw y prif achos o hyny. Pa fodd bynag, y maent yn adar da i'w bwyta, ac yn werth y drafferth o'u magu.

*Pa fodd i gadw Guinea-fowls.*—Y ffordd oreu i ddechreu ydyw ceisio wyau o fan y cedwir *stock* dda, eu deori o dan iâr fechan; pan yr ymddangoso y cywion, cedwch hwy o dan dô lle y gallant gael digon o raian ac awyr; porthwch hwy yn aml, unwaith bob tair awr o leiaf. Dechreuwch trwy roddi iddynt wyau a llaeth wedi eu gwneyd yn gwstard lled deneu; tua diwedd y mis cyntaf, ychwanegwch ychydig flawd ceirch cynysgedig â llaeth, ac fel y byddant yn myned yn hynach, gellir rhoddi iddynt ddail wedi eu berwi, yd mân, a phytatws. Maent yn hoff iawn o wyau morgrug, ac y maent yn dra llesiol iddynt. Maent wrth eu bodd wrth grafu yn yr ardd, nid am hadau ond am bryfaid, ac anhawdd penderfynu pa fwyaf o ddrwg a nuant hwy wrth grafu yr hadau, ynte o dda wrth ddi-fetha y pryfaid a ddinystrïant y llyisiau dyfant o'r hadau.

**TWRCIS.**—Adar proffidiol iawn i'r bwthynwr a'r ffermwr yw Twrcis. Gallant gasglu llawer iawn o'u bwyd eu hunain, trwy bori o gylch y ffyrdd, a chwilio am falwod a phethau creill yn y cloddiau, er y rhaid cydnabod fod eu cariad at yd yn eu gwneyd yn boenus i'r ffermwr ar rai adegau. Gellir gwybod pa bryd y byddant am ddodwy, yr hyn a gymer le yn gyffredin yn mis Mawrth, trwy fywiogrwydd yr iâr a'r sŵn hynod a wna yn aml. Dylid darpar nyth iddi, a dodi darn o *chalk* ynddo yr un ffurf ag ŵy er ei chymell i ddechreu dodwy ynddo. Y mae hyn, pa fodd bynag, yn anhawdd yn aml. Y mae y duedd reddfol o chwilio am le dirgel i'r pwrpas hwn yn tueddu yr iâr i ddiange a dewis nyth dirgel, i'r hwn yr â i ddodwy, a dangosa dyn yn gyfrwysdra yn ei hymdrechion i osgoi sylw. Mae y lie yn aml mor ddirgel fel y rhaid

gwylio yr aderyn fel yr â tuag ato. Os na chwilir am dani a'i dwyn yn ol, yn nghyd a'i hwyau, i le diogelach, gall syrthio yn ysglyfaeth i'r llwynog yn ystod ei heisteddiad, neu gall ei hwyau neu ei rhai bach gael eu dinystrïo gan bryfaid.—Dodwya twrcis yn gyffredin bob dydd, a nifer yr wyau ydynt o byntheig i ugain. Dylid symud yr wyau o'r nyth cygynted ag y bo'nt wedi eu dodwy, oblegid os gadewir hwy i lusoegi, y mae yr aderyn yn dueddol o dori rhai o honynt; gellir iu dodi yn ol pan y bo yn barod i eistedd.

*Cywion Twrcis.*—Yr ataser a gymerant i ddeori yw o saith diwrnod ar hugain i ddeg ar hugain, a dangosa yr iâr ofal mawr yn ystod yr holl amser yma. Gwna rhai o'r cywion eu hymddangosiad o flaen y lleill, a dylid symud y rhai hyn a'u dodi mewn man cynes, a'u dychwelyd i'r fam-iâr ar ol i'r cwbl ddyfod o'r plisg. Mae personau cyfarwydd o'r farn na ddylid rhoddi bwyd i'r cywion am rai oriau ar ol eu deori. Y bwyd cyntaf dderwid roddi iddynt yw wyau wedi eu berwi yn galed a'u malu a'u cymysgu a danadl (*nettles*) wedi eu berwi ac ychydig grystiau bara. Dylid gwneyd y bwyd yma yn fath o bâst a'i roddi, ychydig ar y tro, oddiar y llaw i'r adar, neu eu dlodi o'u blaenau ar gareg. Ni wna yr iâr-dwrci ddysgu ei rhai bach i chwilio am fwyd, ac y mae yn arferiad dodi ychydig o wyau ieir o dani pan yn eistedd, er mwyn i'r cywion ieir, y rhai ydynt yn hynod gyflym a llygadog, roddi esiampl dda o flaen y twrcis ieu-ainge er eu dysgu i chwilio am eu bwyd eu hunain. Mae yr adar ieuainge yn agored neillduol i gael niwaid oddiwrth oerni neu wlybanaeth, a dylid cymeryd gofal i'w diogelu rhag y naill a'r llall. Os bydd y tywydd yn ystормus ar adeg eu deoriad, dylid eu cadw o dan dô. Os na ddigwyddo y tywydd fod yn hynod gynnes, ni ddylid caniatu iddynt i reddeg o gwmpas am o bythefnos i dair wythnos, ac wedi hyn ar dywydd sych yn unig. Pan y byddont oddeutu dau fis oed, ac wedi cael plyf gwawr goch ar eu penau a'u gyddfa ag ydynt yn arwyddion eu bod yn agos a chyrladd eu llawndyfiad, y mae y perygl oddiwrth wlybanaeth lawer yn llai; ond tra y

byddo y cyfnewidiad yn lliw eu plwf yn myned rhagddo, dylid rhoddi iddynt gyflawnder o fwyd maethlon, yn yr hwn da fyddai rhoddi ychydig o bupur *cayenne*.

**COLOMENOD.**—Y mae amrywiaethau lluosog o'r adar hyn; ond y rhai mwyaf cyffredin yn y wlad hon ydynt y Pouter, Dutch Cropper, Horseman, Dragoon, Trumpeter, Tumbler, Nun, Capuchin, Runt, Unloper, a'r Fantail.

*Iechyd Colomenod.*—Er diogelu iechyd yr adar, dylid adeiladu colomendy priodol, a'i osod, os bydd yn bosibl, mewn lle heb fod mewn cysylltiad ag uurhyw adeilad arall. Dylai fod yn *fox* o goed, gyda thô gogwyddedig, a thu fewn iddo yn wahanedig i gelloedd gwahanol, yn ol rhifedi y parau a gedwir. Dylai pob un o'r celloedd hyn fod oddeutu deuddeg modfedd o ddyfnder o'rgwyneb i'r cefn, un fodfedd ar bymtheg o led, a'r twll i fyned i mewn i gael ei osod yn ochr, ac felly bydd gan yr adar fwy o le y tu mewn. Yn *front* pob cell dylid doddi pren cul i fod yn glwyd i'r adar. Os doddir y colomendy ar fur, dylai wynebu y deheu-ddwyrain, a bod yn ddiagon uchel i rwystro cathod a gelynyon creill rhag gallu ei gyraedd. Dylid ei baentio yn wyn, gan yr ymddengys y lliw hwnw yn foddhaus i'r colomenod, Lluchier graian ar y llawr yn ymyl y colomendy, gan ei fod yn angenrheidiol er eu galluogi i dreulio eu bwyd, a rhaid talu y sylw mwyaf i gadw tu mewn iddo yn lân. Yn wir, y mae glanweithdra yn anheborol at iechyd yr adar hyn; dylid ysgwrio y colomendy yn rheolaidd, a gorchuddio y gwaelod a thywod unwaith yn y mis o leiaf.

*Wyaau.*—Ni ddodwyant ond dau wy yn unig ar y tro; ond er hyny, lluosogant yn gyflym trwy eu bod yn deori bob mis. Dechreu a golomen gyffredin epilio pan oddeutu naw mis oed. Yn ystod yr adeg y bo'nt yn eistedd ar eu hwyau, cynorthwya y golomen y fam-golomen trwy eistedd bob yn ail a hi.

*Bwyd.*—Y bwyd mwyaf cyfaddasol i golomenod yw ffacbys a phys gwynion; ond ceir y gwna gwenith, haidd, ceirch a llfn y tro, ond ni ddylid ei roddi yn gyson iddynt. Maent yn hoff iawn o halen, a gwna les mawr iddynt hefyd; i'r dyben

hyny gellir rhoddi swm o glai yn ymyl eu cartref, a gellir tywallt arno yr heli na bydd mwy o angen am dano at ddybenion teuluiaidd. Bydd y fath le yn gyfleus i'r adari ymgyrchu iddo am eu hoff-fwyd.

*Afiechydion.*—Gellir gwella yr holl afiechydion ag yr ymddengys eu bod yn agored iddynt, gydag un feddyginiaeth syml. Y feddyginiaeth yw halen y môr a hadau cwmmin wedi eu cymysgu yn nghyd. Weithiau bydd eu cefnau a'u bronau yn grachod, a cheir y feddyginiaeth ganlynol yn effeithiol:—Cymerwch chwarter pwys o halen y môr, yr un swm o halen cyffredin, pwys o hâd *fennel*, pwys o hâd cwmmin, ac owns o *asafoetida*; cymysgwch yr oll gydag ychydig o fawd gwenith a chlai, ac ar ol eu curo yn dda yn nghyd, rhoddwch yr holl sylweddau hyn mewn dau lestr pridd yn y sffwrn; craswch hwy; pan yn oer, dodwch beth o'r cymysgedd ar lawr y colomendy, a bydd i'r adar fwyta a byddant yn fuan yn hollol iach.

**PARROTS.**—Y ffordd oreu i'w dysgu i siarad ydyw gorchuddio y *cage* yn y nôs, ac yna dweyd yn araf y gair neu y frawddeg a fwriedir ddysgu iddynt. Dylid eu cadw yn ddigon pell oddiwrth lawer o swm anymunol, a phlant yn gwaeddi neu yn chwibanu wrth chwareu, neu bydd iddynt yn hefelychu, a myned yn anoddefol yn y tŷ. Gellir eu porthi a bara wedi ei fwydo mewn dwfr, *biscuits*, pytatws, hâd *rape*. Maent yn hoff o gnau. Dywedir fod rhoddi ychydig o bupur *cayenne* ar asgwrn, a'i roddi iddynt yn aehlysurol, yn lleisiol. Dylid eu cadw yn lân, a rhoddi iddynt gyfleusdra i ymdrochi yn aml. Pan na byddont yn iach y feddyginiaeth oreu iddynt ydyw cynhesrwydd, newid eu bwyd am dymor, a rhoddi iddynt ddwfr claiar i ymdrochi ynddo.

**CANARIES.**—I wahaniaethu ceiliog oddiwrth iâr, sylwch arnynt pan yn canu, ac os ceiliog a fydd, gwelwch ei wddf yn chwyddo ac yn gostwng tra y byddo yn canu, yr hyn sydd neillduolrwydd na chanfyddir mewn iear. Porthwch gywion Canaries gyda melyn wŷ caled, wedi ei gymysgu ag ychydig fara wedi ei wlychu mewn dwfr. Dylid doddi

hwn mewn un llestr, ac mewn un arall dodder *rape seed*, wedi ei olchi mewn dwfr glân. Newidiwch y bwyd bob dydd. Pan yn fis oed, dodwch hwy mewn *cages* gwahanol. Torwch ewinedd adar mewn *cage* yn achlysurol, pan y bo'nt yn rhy hir, ond wrth wneyd hyn byddwch yn ofalus i beidio tynu gwaed.

*Cadw Canaries.*—Dylid bod yn dra gofalus i'w cadw yn lân. I'r dyben hwn, dylai y *cage* gael ei orchuddio bob dydd a thywod glân a graian mân, oblegid y mae mân-geryg yn *anheggorol angenrheidiol* er eu cadw mewn iechyd: rhaid rhoddi dwfr glân iddynt bob dydd, peth i'w yfed a pheth i ymolechi yuddo; y diweddfaf mewn llestr bâs: ac yn ystod tymor bwrw plyf, dylid doddi tamaid o haiarn yn y dwfr a roddir iddynt i'w yfed. Dylai ymborth y *canary* fod yn gynywysedig yn benaf o *summer rape seed*, sef yr hadau llwyd bach a geir oddiwrth y planhigion a heuir yn y gwanwyn, ac a addfedant yn ystod yr haf; ceir y *rape seed* du mawr oddiwrth y planhigion a heuir yn rhagfyr ac a fedir yn y gwanwyn. Gellir rhoddi gyda diogelwch ychydig *chickweed* yn y gwanwyn, dail letis yn yr haf, *endive* yn y rhagfyr, a thafellau teneuon o afal yn y gauaf; ond dylid osgoi yn gyffredin fara a siwgr. Gellir rhoddi ychydig o hadau canary, a swm bychan o hâd llin wedi eu hysigo yn achlysurol, ond yr olaf yn gynil iawn. Mae glânweithdra, ymborth syml, ac awyr ffres heb fod yn oer, yn anheggorol i'r canary. Yn y gauaf ni ddylid crogi y *cage* mewn ystafell heb dân ynddi, ond hyd yn nod y pryd hyn, os bydd y tywydd yn dyner, a'r haul yn tywynu, adfywir yr aderyn yn fawr os agorir y fenestr am ychydig amser. Ni ddylai y *cage* byth fod yn llai na wyth modfedd o amgylchedd, a throedfedd o uchder, gyda chlwydi wedi eu gosod yn gyflus.

*BULLFINCHES.*—Dylid porthi hen adar a *German Paste*, No. 2, a *rape seed* yn achlysurol. Bydd y Germaniaid weithiau yn rhoddi iddynt ychydig *poppy-seed*, a gronyn neu ddau o *rice*, wedi eu gwlychu, mewn *canary wine*, pan yn eu dysgu i chwibanu, fel gwobr

am y cynydd a wnant. Dysgir hwy trwy gyfrwng y chwibanogl. Epiliant deirgwaith neu bedair yn y flwyddyn. Mae yn ofynol cadw y cywion yn gynnes iawn, a'u porthi bob dwy awr a *rape seed*, wedi ei fwydo am amryw oriau mewn dwfr oer, ac ar ol hyny ei ysgaldio a'i hidlo, ei ysgio, ei gynysgu a bara, a'i wlychu a llaeth. Na rodder ond pigiad neu ddau ar unwaith.

*LINNETS.*—Mae'r ceiliogod yn frowniach ar y cefn na'r feir, a rhai o blyf mwyaf yr esgyll yn wyn hyd y cwilsin. Eu bwyd yw hadau canary a llin, gydag ychydig *groundsel*, berw dwfr (*water cresses*), &c.

*EHEDYDDION.*—Adnabyddir y ceiliog wrth ei lygaid mawr, hyd ei ewinedd, y dull sydd ganddo o godi ei grib, a'r gwyn ar ei gynllon. Hefyd y mae yn fwy aderyn na'r iar. Dylai y *cage* fod o'r maintioli canlynol:—Hyd, un droedfedd a phum' modfedd; lled, naw modfedd; uchder, un droedfedd tair moddedd. Dylai fod lle crwn yn dyfod allan yn *front* y *cage* i gynywys tywarehen, yr hon y dylid eu newid bob deuddydd neu dri, a dylid lluchio digonedd o raian afon yn fynych ar lawr y *cage*. Dylai yr holl lestri a ddefnyddir i roddi bwyd iddo gael eu gosod y tu allan i'r *cage*, a dylai pen y *cage* fod yn fwaog ac wedi ei stwffio, fel na bo i'r aderyn niweidio ei hun trwy neidio o amgylch. Eu bwyd, pan yn eu cyflwr naturiol, sydd yn gynywysedig o hadau, pryfaid, ac hefyd ddail, clover, letis, &c. Pan wedi eu caethiwo, porthir hwy yn gyffredin a phâst wedi ei wneyd yn y dull canlynol:—Cymerwch swm o hen fara, rhoddwch mewn dwfr ffres, a gadewch yno nes y bo wedi mwydo drwyddo, yna gwasgwch allan y dwfr a thywelltwch laeth berweddig, gan ychwanegu dwy ran o dair o swm y bara o flawd haidd neu wenith. Dylid gwneyd y bwyd yma yn ffres bob yn ail dydd. Dylid rhoddi melyn wŷ wedi ei ferwi yn galed a'i falu yn fân yn achlysurol iddynt, hefyd ychydig o hâd llin, pryfaid, ac *elder berries*, sef *berries* yr ysgawen. Dylid bod yn dra gofalus i gadw y *cage* yn lân.

*BRONFRAITH (Thrush).* Gellir adnabod ceiliog oddiwrth iar trwy ei

gefn tywyllach ac ymddangosiad disgleiriach ei blyf. Mae ei fol hefyd yn wyn. Ei fwyd naturiol yw pryfaid, llyngyr daear, a malwod. Wedi eu dofi bwytant gig amrwd, ond dylid chwilio am bryfaid a malwod iddynt. Deorir adar bach oddeutu canol Ebrill, a dylid eu cadw yn gynes. Dylid eu porthi a chig amrwd, wedi ei dori yn fân, neu fara cymysgedig â llaeth gyda hâd llin wedi ei ysigo; pan y gallant borthi eu hunain rhoddwch iddynt gig amrwd coch, wedi ei dori yn fân a'i gynysgu a bara neu *German Paste*, digon o ddwfr oer glân, a'u cadw mewn lle sych, a sefyllfa heulog.

**ADERYN DU** (*Blackbird*).—Mae y ceiliog yn ddu dwfn, gyda plig felen. Yr iâr sydd o frown tywyll. Anhawdd adnabod yr iâr oddiwrth y ceiliog pan yn ieuange; ond y rhai tywyllaf yn gyffredin yw y ceiliogod. Eu bwyd naturiol yw *berries*, llyngyr daear, pryfaid, malwod heb gregin, a ffrwythau; a'u bwyd mewn caethiwed yw cig amrwd ffres, wedi ei gymysgu â *German Paste* neu fara.

**GERMAN PASTE I ADAR**.—*German Paste* i adar mewn caethiwed, yr lwn a geir yn well a rhatach na'r peth a werthir yn y siopau:—Berwch bedwar o wyau yn hollol galed, yna dodwch hwy mewn dwfr oer; symudwch y gwynŵy a maluriwch y melynŵy nes y bo'nt yn hollol fân, a chwanegwch bwys o flawd pys a llon'd llwy fwrdd o *olive oil*. Cymysgwch yr oll yn nghyd, a gwthiwch y toes trwy lestr tyllog (*cullender*) fel y byddo yn fân ronynau. Ffriwch uwch tân araf, gan eu troi yn araf nes y bo'nt o liw *brown* goleu, pan y byddant yn gymwys i'w defnyddio.

**WYAU**.—*I beri i'r Ieir ddodwy yn aml*.—Ysgrifena un boneddwr,—"Am rai blynyddoedd yr wyf wedi arfer treulio ychydig amser bob mis Awst yn Keunebec, Maine. Mae y foneddiges yr wyf yn arfer lleyta gyda hi yn cadw Ieir, a hysbysodd fi ei bod er's amryw flynyddau yn arfer doddi yn mwyd yr Ieir Bupur *Cayenne* wedi ei falu, sef llon'd llwy dé bob yn ail ddydd ar gyfer pob dwsin o Ieir. Yr haf diweddar, tra yr oeddwn gyda hi, dygai i mewn oddeutu 14 o wyau bob dydd, er nad oedd ganddi

ond 16 o Ieir. Bu lawer gwaith, er mwyn cael prawf o'r peth, yn peidio doddi y *cayenne* yn eu bwyd am ddau neu dri diwrnod. Y canlyniad fyddai, i'r nifer o wyau syrthio i lawr o 14 i 5 neu 6 yn ddyddiol. Y mae y *cayenne* yn effeithio yr un fath haf a gauaf."

*I gadw Wyau erbyn y gauaf*.—Ar gyfer pob 3 galwyn o ddwfr, dodwch 1 pint o galch ffres newydd ei yslacio, ac o 1 i 2 beint o halen: cymysgwch yn dda, a gadewch i'r faril fod oddeutu haner llawn o'r cymysgedd hwn, a dodwch yr wyau ynddo heb gracio y plisg. Trwy y dull hwn yr wyf wedi cadw wyau yn hollol ffres am ddwy ac hyd yn nod pedair blynedd. Gellir doddi darn o bren ar draws y faril, uwchlaw yr wyau, gydag ychydig o galch a halen arni, yr hyn a geidw yr hylif mor gryf ar y wyneb ag yn y gwaelod. Rhaid gorchuddio yr wyau â'r cymysgedd. Yr wyf wedi cadw deugain dwsin fel hyn gyda llwyddiant hollol.

*Hen dtull Seasonig*.—Mewn twb dodwch swm go dda o galch ffres; halen, 2 bwys; *cream of tartar*, 8 owns. Dodwch yr wyau ynddo, a chadwant yn dda am ddwy flynedd.

*Dull arall*.—Toddwch *gum shellac* mewn swm digonol o *alcohol*, fel ag i wneyd *varnish* teneu, gorchuddiwch yr wyau ag ef, ac ar ol iddynt sychu, paciwch hwy i fyny mewn *bran* neu flawd llif, gyda'u blaenau i lawr, fel na byddo yn bosibl iddynt symud. Cyn ei ddefnyddio, dylid golchi y *varnish* ymaith, a byddant yn hollol ffres, a pharod i'w bwyta, neu i'w doddi o dan Iâr.

**GWENYN, A PHA FODD I'W CADW**.—Y mae athronwyr a beirdd, er yn foreu iawn i lawr hyd yr amser presenol, wedi ymroddi gyda dyfalwch i astudio hanes, arferion, ac aniandueddion y wenynen,—creadur ag y mae ei hanesiaeth naturiol yn dwyn ger bron nifer fawr o ffeithiau dyddorol ac addysgiadol neillduol. Ni bydd ychydig awgrymiadau ar y pwngc, wedi eu crynhoi mewn cylch bychan, yn anerbyniol gan ein darllenwyr.

*Hanesiaeth naturiol y Wenynen*.—Deallir yn gyffredin fod cymundeb neu deulu o wenyn yn cynwys o ddeuddeg i i ddeg mil ar hugain. Mae oddeutu

naw rhan o ddeg o honynt yn weny yn cyffredin neu weithgar, a'r gweddill yn gynwysedig o'r rhai gwrrywaidd neu weny yn segur, ac fel pen ar y cwbl y mae un a elwir "y frenhines" neu y fam wenyen.

*Y Frenhines neu y Fam Wenyen.*—

Y mae yr un yma yn gvalaniaethu oddiwrth aelodau ereill y teulu yn ei hymddangosiad a'i gwaith. Mae yn dywyllach, hirach, a mwy blaenfain yn ei flurf na'r wenyen gyffredin; mae ei choesau yn hwy, er fod ei hesgyll yn fyrach, ac o dani y mae o liw melyn-tywyll. Y mae wedi ei harfogi a chledyd fel y gwenyn gweithgar, ond nid ydyw byth yn gwneyd defnydd o hono ond ar amgylchiadau pwysig. Hi yw mam yr holl gyfundeb; deillia y gwenyn gweithgar a segur, a'r rhai hyn y fwriddir yn frenhinesau yn y dyfodol, o'i hwyau hi, o'r rhai y cynyrcha, medd rhai, oddeutu can mil mewn un flwydd-yn; ac nid yw y nifer yma yn ornod pan yr ystyrir yr heidiau newyddion, yn ogystal a'r nifer a gollir trwy farwlaeth, damweiniau ac amgylchiadau ereill. Mae y fam wenyen nid yn unig yn llenwi cylch penteulu i'r holl wenyen, ond medda awdurdod lywodraethol drostynt oll, ac o herwydd hyn y gelwir hi y "Frenhines." Ar ei phresenoldeb y dibyna nid yn unig lwyddiant ond bodolaeth yr holl genedl weny-naidd; a chyd a'r dylanwad yma yn cael ei arfer ganddi ei hun, y mae yma reddf cyfatebol mewn gweithrediad yn mhllith y deiliaid a allwn alw gyda phriodoldeb yn "deyrngarwch." Mae absenoldeb y Frenhines trwy farwlaeth neu unrhyw achos arall, yn peri anhrefn, dyryswech, ac anghydfod; peidia pob gwaith, a chwala y gwenyn.

*Y Gwenyn Gweithgar.*—Y mae y rhai hyn i'w gwahaniaethu oddiwrth y Frenhines a'r gwenyn segur, trwy eu bod yn llai o faint, ac yn gorfod gofalu am gasglu ymborth i'r holl gyfundeb i gyd. Mae eu gwaith dyddiol yn egluradaeth lawn ar yr hyn a elwir "rhaniad llafur"—cyfundrefn na's gwelwyd ei gwerth am ganrifodd gan ddyr en ei bod mewn llawn waith yn mhllith y gwenyn. Mae rhai o'r gweithwyr yn llafurio yn egniol i wuoed y diliau allan o'r cwyr, yr hwn

sydd yn ddiolliad naturiol; ereill ydynt yn llawn prysurdeb yn cadw yr wyau yn gynnes, mewn trefn i sicrhau olyniant y teulu; gorchwyl rhai ydyw porthi y frenhines a rhiith (*larvae*) neu y rhai bach; gofala ereill am y glanhau a'r awyru; cymera ereill arnynt eu hunain y gorchwyl o amddiffyn y cwch rhag ymosodiad, a rhybuddio y preswylwyr o agosiad y gelyn; heda y lleill i'r gerddi a'r caeau i gasglu, gyda diwydrwydd hynod, y *farina* a'r mêl ag sydd mor anhebgorol angenrheidiol.

*Y Gwenyn Segur.*—Mae y rhai hyn yn fwy o faint, tywyllach, a mwy blewog na'r gweithwyr; nid oes ganddynt golyneau, mae eu smudiadau pan yn ehedeg yn drymach, a swm eu hwmian yn ddyfnaah o lawer na'r lleill. Ni chymerant yr un ran yn y gorchwyl o gasglu nac ystori o mêl, nac, yn wir, mewn unrhyw orchwyl arall. Nid yw eu hanianueddion na'u cyffuniad yn eu cyfaddasu i'r gorchwylion hyn; ond y mae Anfeidrol Ddoethineb wedi eu cyfaddasu i gyflawni gorchwylion heb fod yn llai pwysig. Mae hanes y gwenyn segur yn egluro rhai aniandueddion hynod a dyddorgar iawn. Nid ydynt, fel y dywedwyd yn barod, yn cynyrchu; hyn yw, nid ydynt yn gwneyd dim er ychwanegu at gyfoeth y cyfundeb. Fel difawyr, edrychir ar y gwenyn segur ar rai adegau gan y lleill fel dosparth treulfa'r a diwrth, heb fod yn deilwng o ddim ond eu dinystrio neu eu diarddel. O ganlyniad, os peidia yr angenrheid-rwydd am heidio, ac os na adeleidir celloedd breninol, neu i'r teulu brenhinol feirw yn anamserol, mae aniandueddion y gweithwyr yn eu cymell i ymlid ym-aith y segurwyr, a dechreuir rhyfel yn eu herbyu, yr hwn a derfyna yn eu dinystriad. Ar y llaw arall, os dygir y frenhines trwy orthrech o'r cwch, mae aniandueddion y gweithwyr yn eu harwain i arbed bywydau y segurwyr, y rhai a barhant i gael eu porthi ar draul y cyhoedd, oddiar y dybiaeth, y mae'n debygol, er fod y gôst o'u cynal yn fawr, y gall fod bodolaeth a pharhad y cyfundeb yn dibynu arnynt.

*Heidio y Gwenyn.*—Mae anianduedd y creaduriaid hynod hyn yn eu cymell i ddyfod allan o'r cwch a sefydlu



trefedigaethau newyddion, pan y byddo y lle yn rhy fychan i gwynwys yr holl drigolion, ac i'w galluogi i ystorio ychwaneg o fêl a magu rhai bach. Mae sefyllfa orlawn y lle yn gwneyd ymfudiaeth yn anheborol angenrheidiol, a gwneir trefniadau gogyfer a dwyn hyny oddiamgylch. Ffurfir celloedd breiniol, a megir y brenhinesau ieuange gyda gofal a dyfalwch mawr, gan na byddai ymfudiaeth heb hyny yn ymarferol. Yn yr amgylchiadau hyn peidia y gwenyn a chasglu mêl, a diwedda yr adeg ddi-waith yma mewn heidio. Felly, rhaid i berchenog y gwenyn naill ai lluosogi nifer ei gychod, trwy ganiatau iddynt heidio, neu gall atal yr heidio trwy roddi ychwaneg o le iddynt i fagu ac ystorio. Gelwir i dull hwn y Gyfundrefn Ddifeddianol. Mae yn gynywysedig o symud ymaith ran helaeth o'r ystôr o fêl fyddo wedi ei gasglu yn barod, a gosod *box* gwyr, neu gwch arall mewn cysylltiad a'r ystôr-gwch, yn yr hwn y gall y gwenyn gael digon o le i gario yn mlaen eu gweithrediadau heb orfod ymfudo i fan arall. Dylid darllen llyfrau ar Wenyn mewn trefn i ddeall manylion y drefn hon.

*Sefyllfa y Cychod.*—Dylid gosod y Cwch neu y cychod mewn lle cysgodol ac isel, yn hytrach na lle uchel ac am-lwg, a dylai fod mor rydd ag y gellir oddiwrth wlybanaeth, arogl anymunol, a sŵn. Mae yspoty'n dir glas yn cael ei gadw yn dda, neu le gorchuddiedig a graian sych, a'i ymgau â *laurel*, yn lle tra dymunol iddynt. Nid ymddengys fod unrhyw real sefydlog o berthynas i'r sefyllfa oreu gyda golwg ar bwyntiau y cwmpawd; ceir eu bod yn llwyddo cystal pan yn gwynebu y gogledd a phan yn gwynebu y de neu unrhyw bwynt arall. Mae y pwynt yn dibynau yn hollol ar y lle, yr hinsawdd, ac ystyriaethau ereill.—Nis gellir dod i lawr unrhyw real bendant.

*Bwyd i'r Gwenyn.*—Nid yw y rhan hono o'r wlad ag y codir llawer o fyd ynddi mor fanteisiol i'r gwenyn a'r manau y byddo porfeydd gorchuddiedig a blodau gwylltyn, a morfeydd a digonedd o'r grug yn tyfu ar hyd-ddynt a lle y tyfir llawer o bys, ffa, a llysiâu cyffelyb. Mae blodau pob math o goed

ffrwythau, mieri, ac eithin yn fanteisiol iddynt. Llesiol hefyd yw planu yn agos i'r cychod ddigonedd o *crocus*, *blue hepatica*, y *black hellebore*, a *mignonette*.

*Cyflunwad o Ddwfr.*—Pan fyddo y tymor yn sych, ac yn ystod adeg epilaid, y mae dwfr yn angenrheidiol i'r Gwenyn, er eu galluogi i ystorio mêl a chwyr. Os na bydd ffwrdd neu ffynon yn rhywle yn agos atynt, dylid doddi llestr bâs yn agos atynt, a'i gadw yn llawn at yr ymylon o ddwfr. I'w rhwystro rhag boddi, da fyddai gorchuddio holl wyn-eb y llestr â phren a thyllau ynddo. Bydd y tyllau yn gynifer o ffynhonau bychain, o'r rhai y gall y gwenyn yfed heb fod yn agored i'r perygl o syrthio i'r dwfr a boddi.

*Haul a chysgod.*—Y mae gormod o wres bob amser yn niweidiol i wenyn; ni ddylid eu gadael o dan belydrau yr haul ar dywydd trymaidd a chlôs. Achosa iddynt fod yn wylltton a chyffrous, a gosoda y diliau yn agored i gael eu meddalhau, ac hyd yn nod eu toddi. Felly, y mae o'wys i gysgodi y cwch rhag pelydrau unionsyth yr haul. Mae cysgodlen wedi ei chyfaddasu i'r pwrpas yn fanteisiol, neu *mat*, yr hwn a ellir dafu dros y cwch. Yr ydym o'r farn fod y gysgodlen yn meddu ar fanteision neillduol, trwy ei bod yn achosi cysgod dymunol, ac ar yr un pryd yn caniatáu gwell awyriad. Camgymeriad yw y syniad mai gwenyn a adewir yn "llygad yr haul" sy'n cynrychu yr heidiau cryfaf a chynaraf; fel arall y mae yn digwydd yn aml. Hoffa y gwenyn y cysgod pan yn gweithio, a'r haul pan allan yn y maesydd yn unig.

*Gelynyon y Gwenyn.*—Y mae Ieir dofaiidd yn ddinystyrwyr gwenyn, a rhai adar, y rhai a ymosodant arnynt pan allan yn y maesydd. Yn eu plith y mae y *titmouse* neu *tomtit*, yr hwn a ddifetha y gwenyn, ac a bortha ei rai bach a hwy; a dywedir y ceisia dori trwodd i'r cwch yn y gauaf. Mae llygod bach yn dra blinderus yn aml, ac ambell waith gweithia llygod mawr eu ffordd i'r cwch. Mae malwod yn aml yn peri gofid mawr; ac yn neillduol ar brydnawniau tywydd tesog pera y cacwn a'r gwenyn meirch flinder nid bychan i'r gwenyn. Yn yr holl achosion

hyn gall gofal a gwyliadwriaeth wneyd llawer. Dylid difetha nythod y cacwn a'r gwenyn meirch pa bryd bynag y ceir gafael arnynt; ac ni ddylid caniatáu morgrug, pryfaid clustiog, a phryfedach felly fod yn agos iddynt. Mewn gair, dylai y cychod a'r lleoedd danynt gael eu cadw morlân athrefnusag y byddo modd.

*Lladron-wenyn.*—Yn y gwanwyn a'r hydref ymosodir ar y cwch weithiau gan wenynd dieithr, gyda'r amcan o gyflawni lladrad. Mae yr ymosodiadau hyn yn aml o natur fwy difrifol nag eiddo y cacwn. Os gall dwy neu dair o wenynd dieithr fyned i mewn i'r cwch, parhant i fyned i mewn ac allan gan hudo ereill o'u cyfeillion i'w canlyn; ac ambell waith ymgynullant yn lluoedd mawr o angylch drysau y ddinas warchaedig. Yn rhai o'r ymosodiadau hyn, dangosa y lladron gryn llawer o ragwelediad a chyfrwysdra, a gwnant eu hymosodiadau yn hwyr i nos neu yn foreu iawn. Mae amryw ffyrdd trwy y rhai y gellir rhwystro y lladron hyn rhag bod yn fuddugwyr. Y mae chwythu ychydig fwg i'r cwch pan fyddo y rhyfel yn myned yn mlaen yn aml yn effeithiol; tuedda taenu ychydig fêl ar ben y cwch i dynu sylw yr ymosodwyr oddiwrth eu rhyfel; a gall symud y cwch ychydig bellder o'i le brofi yn feddyginiaeth i'r drwg. Rhagocheliad buddiol rhag ymosodiadau hyn ydyw gwneyd y fynedfa i'r cwch yn ddigon cul; mae hyn yn gynorthwy mawr i'r gwenyn i rwystro yr ymosodwyr i fewn, ac wedi iddynt ddyfod i fewn i'w gyru a'u cadw allan.

*Bwyd i'r Gwenyn.*—Wrth gwrs nid oes dim ymborth mor gymeradwy gan, a llesiol i'r gwenyn, a mêl pur. Mae hyn yn amlwg. Felly rhodder peth mêl iddynt pan byddo gwir angen am dano; ond ar adegau o brinder mêl gellir eu porthi a bwydydd celfyddydol. Y mae gwyr o brofiad o'r farn y dylid rhoddi bwyd iddynt yn y gwanwyn, hyd yn nod pan byddo yr heidiau yn gryfion, trwy eu bod yn cael eu bywiogi trwy y gwres ychwanegol a gyfrenir gan yr ymborth; ond ni ddylid rhoddi bwyd iddynt hyd nes y dangosant raddau o fywiogrwydd, os na fydd hyn yn anhegorol angenrheidiol; gan y temtir lwy trwy hyn y fyned allan yn rhy

gynar i chwilio am flodau, a threnga niferoedd yn y ffordd hon, trwy fod yn analluog i ddychwelyd yn ol. Fel y sylwyd yn barod, mêl a rydd iddynt y gynaliaeth fwyaf naturiol, a gellir gwneyd y mêl gyda phriodoldeb yn fwy hylifaidd trwy gymysgu ychydig ddwfr am ei ben; ond defnyddir pethau ereill yn ei le, a hyn gyda graddau o lwyddiant hefyd. Mae un ysgrifenydd yn cymeradwyo “cwrw cryf da wedi ei felysu a siwgr a mêl, a'i ferwi am funud neu ddau;” y cyfartaedd cyffredin yw “peint at bwys o siwgr gwyn, gan ychwanegu y bedwaredd ran o fêl pur, yr hwn a roddea flas tra dymunol arno i'r gwenyn.” Ychwanega, “fod llwyaid o rum yn gwella y cynysgedd yn fawr.” Yn y casau porthi neu lestri ereill ddefnyddir at y pwrpas, gwna darnau o siwgr gwyn wedi eu gwlychu mewn dwfr ateb y dyben yn dda. Ond y mae yr awdurdod a ddyfynwyd yn barod yn dweyd mai siwgr wedi ei ferwi yw y goreu iddynt. Dylid berwi dau bwys o siwgr am ugain munud, pryd y ceir y bydd o liw melyn goleu pan oero, ac yn hynod o frau. Mae ychydig finegr wedi ei gymysgu âg ef wrth ei ferwi yn ei wneyd yn fwy dymunol i'r gwenyn. Gellir tywallt y siwgr berwedig yma ar blât neu ddarn o lech wedi eu rhwbio âg ychydig lard neu ymenyn; a phan wedi oeri yn ddigonol gellir ei dori yn ddarnau a'i roddi yn y cwch. Y mae y siwgr berwedig a elwir yn y siopau yn *barley sugar*, yn dra derbyniol gan y gwenyn, ac yn ffordd ddidrafferth i gyflenwi eisiau cwch anghenog.

*Yn yr awgrymiadau* hyn ar y gwenyn yr ydym o angenrheidrwydd wedi ymgadw rhag myned i fanlyion. Y mae ffurf, gwneuthuriad, a phethau ercill perthynol i'r cychod gwenyn, a thriniaeth y gwenyn ar wahanol adegau o'r flwyddyn, yn cynwys y fath amrywiaeth a rhifedi o destynau, ac yn hawlio llawer o ddesgrifiadau manwl, nad allwn fyned i mewn iddynt heb gyfyngu gormod ar bethau ereill. Bydd i'r sylwadau a wnaed fod yn ddigonol i gyfeirio y darlennydd at y dyddordeb cysylltiedig â hanes, arferion, ac anian-dueddion y wenyn. Mae nifer fawr o weithiau penigamp ar y pwngc wedi eu cyhoeddi

yn yr iaith Seisonig ; megis "*The Bee-keeper's Guide*," gan Mr. Payne ; "*The Honey Bee*," gan Dr. Bevan ; "*The Beekeeper's Manual*," gan Mr. Taylor ; a "*The Shilling Bee Book*," gan Mr. Golding ; yr oll o ba rai sydd yn dda, ac yn rhoddi pob gwybodaeth am dant, sylfaenedig ar sylw a phrofiad.

**CREADURIAID DOFAIDD.**—**GWIEROD** (*Squirrels*).—Dylid porthi y creaduriaid bychain hyn, pan y cedwir hwy mewn caethiwed, gyda cnau ; a bara a llaeth yn achlysurol. Dylid eu cadw yn hollol lân.

**CWNINGOD.**—Dylid eu cadw yn sych a glân. Eu bywyd goreu yw persli, celery, a moron ; ond bydd iddynt fwyta bron bob math o lysiau-fwyd, yn enwedig y dandelion, ysgall, &c. Mae ychydig *fran*, neu rhywrawn yn llesiol, gan fod gormod o lysiau-fwyd yn niweidiol iawn. Dylid cymeryd gofal i beidio rhoddi gormod o fwyd iddynt. Pan yn eu porthi â bywyd sych, ymae ychydig o lefrith teneu yn dda iddynt. Dywedir fod dail tē, hefyd, yn dda iddynt, ond peidio rhoddi ond ychydig ar unwaith.

**LLYGOD GWYNION** a borthir gyda bara wedi ei fwydo mewn llefrith, pys, ceirch, fia, &c., a chnau o bob math.

**MWNCIOD** a ymborthant ar fara a ffwrtydd o bob math. Na adewch iddynt gael dim cig, oddigerth asgwrn bychan yn achlysurol.

**GUINEA PIGS.**—Dylid eu porthi a'u cadw yr un fath ag y cyfarwyddwyd gyda Cwningod.

**CWN.**—Y ffordd oreu i gadw cŵn yn iach yw gadael iddynt gael digon o ymarferiad, a pheidio rhoddi gormod o fwyd iddynt. Bydded iddynt gael digonedd o ddwfr glân bob amser, ac anogwch hwy i arfer nosio, trwy fod hyny yn eu cynorthwyo i gadw eu hunain yn lân. Pan yn eu golchi na ddefnyddiwch ddim sebon, neu bydd i chwi eu rhwystro rhag llyfu eu hunain, a ffurfiant arferion budron mewn canlyniad. Ni ddylid porthi cŵn ond unwaith yn y dydd. Mae cig wedi ei ferwi i'r cŵn, a'r gwlybwr yn yr hwn y berwyd ef, wedi ei dewychu a blawd ceirch, yn gwneyd ymborth rhagorol iddynt. Mae cŵn yn agored i'r clefyd

o bedwar mis i bedair blwydd oed. Mae yn fwy cyffredin yn y gwanwyn a'r hydref. Yn ystod yr afiechyd, dylid gadael cŵn i redeg ar hyd gwelltglas ; dylai eu bywyd fod yn brin ; a rhodder ychydig sulphur yn eu dwfr. Cyn-ddeiriogrwydd mewn cŵn yw un o'r afiechydon mwyaf ofnadwy. Yr arwyddion cyntaf yw syched, twymyn, a llesgedd. Cysga yn anesmwyth a chyffroa yn ei gwsg, a phau yn effro mae yn llesg er yn aflonydd. Pan yr amheuir ei, dylid ei gadwyno ar unwaith, a rhwystro plant, cathod, neu gŵn ereill rhag myned yn agos ato. Dylid dynesu ato gyda gofal mawr ; ac os ceir cadarnhad o'r ofnau a deimlwyd yn ei gylech, gwell ei ladd ar unwaith. Un o arwyddion sicraf cyn-ddeiriogrwydd mewn ei ydyw atgasrwydd at hylifau, megis dwfr neu laeth. Mae brech y cŵn ( *mange* ) yn afiechyd heintus, ac anhawdd ei wella. Os dymunir arbed bywyd y ci, y ffordd oreu ydyw ymofyn â meddyg anifeiliaid ar unwaith.

**CATHOD.**—Mae yr un rheolau i borthi ag sydd yn gymwysedig â gŵn yr un mor gymwysiadwy at gathod. Ni ddylid rhoddi gormod o fwyd iddynt, na'u porthi yn rhy aml. Mae cathod yn agored i'r un anhwylderau a chŵn ; ond nid ydynt yn myned yn glaf mor aml. Mae ychydig frwmstan yn eu llaeth yn achlysurol yn dda.

**MOCH.**—*Sut i ddewis Mochyn.*—Dylai y lwyn a'r frest fod yn grwn, fel y byddo i'r mochyn gael digon o le i anadlu, &c., dylai yr esgyrn fod yn fychain, a'r cymalau yn lluniaidd ; mae hyny yn brawf o rywiogaeth uchel, ac y mae mochyn o rywiogaeth uchel yn pesgi yn well, ac yn gynt na rhai o rywiogaeth isel ; dylai y traed fod yn galedion a dianaf, bysedd y traed yn agos i'w gilydd ac yn pwysu yn wastad ar y ddaear ; ni ddylai y trwyn fod yn rhy hir, ond braidd yn fyr a chrynaidd, yn hytrach na bod yn fflat.

*Porthi Moch.*—Dylai mochyn ieu-ange gael ei brynu ar y fath adeg ag y byddo oddeutu un mis ar bymtheg y Nadolig, gan mai diwedd Rhagfyr, neu ddechreu Ionawr yw yr amser goreu i ladd, a dylai yr anifail fod dros flwydd oed. O berthynas i'w borthiant, gwna

unrhyw bethau ellir hebgor o'r gegin neu yr ardd y tro yn rhagorol, megis crwyn a pytatws a maip, dail cabbage, gweddillion y bwrdd, &c. Gwna llwch haidd neu ddyrnaid o rhyw flawd rhad ychwanegiad dymunol at y pethau hyn. Fel rheol gyffredin, dylai yr ymborth gan mwyaf fod yn llysiuol, a dylid ei roddi yn aml, ychydig ar unwaith, fel na byddo i'r mochyn fyned yn rhy newynog, yr hyn sydd yn dra niweidiol.

*Pesgi Moch.*—Dylid dechreu pesgi y mochyn yn mis Medi. Dylai y bwyd, wrth gwrs, fod yn feithrinol; ond ni ddylid dechreu pesgi yn rhy sydyn, rhag iddo syrffedu mewn canlyniad. Goraf y pesgir ef goraf oll fydd y cig. Y pethau goreu i besgi yw haidd a blawd pys, a bydd laeth llefrith neu enwyn, gyda'r bwyd yn dra llesiol. Defnyddir pytatws yn aml i besgi, ond nid yw cig mochyn a besgir felly mor galed a da a phan y bydd yr anifail yn cael bwyd caletach; mae y brasder, hefyd, yn llac a lliprynaid. Heblaw yr ymborth a nodwyd yn barod, byddai pryd bach unwaith neu ddwy yn y dydd o rhyw fath o rawn (*corn*) am oddentu pythefnos cyn ei ladd, gyda laeth enwyn neu lefrith yn effeithiol neillduol i wella ansawdd y cig. Mae pytatws wedi eu berwi, a'u cynysgu ag ychydig ddyrneidiau o flawd ceirch, yn nghyd a maip, moron, ac yd wedi ei fras-falu, yn ymborth rhagorol at besgi, ac heb fod yn gostfawr ychwaith. Mewn gair, dylid bod yn ofalus i beidio porthi y mochyn â phethau aflan, a pheidio rhoddi gormod o fwyd iddo hefyd; ni ddylid rhoddi ar unwaith ond yr hyn a allo fwyta yn hwylus, a dylid ei borthi yn gyson, a dylid gofalu rhoddi ychydig halen yn ei fwyd bob tro. Yn olaf, gofaler am gadw y mochyn yn sych, glân, a chynes. Bydd golchi y mochyn gyda dwfr cynes a sebon, a'i rwbio i lawr â gwellt sych bras brofi yn lles mawr iddo; a gwna iddo besgi yn well ar lai o fwyd na phan y gadewir ef yn fudr, gwlyb, ac anghyfforddus.

**DINYSTRIO PRYFAID A CHRE-ADURIAID NIWEIDIOL.**—**DINYSTRIO LLYGOD.**—Blawd 3 pwys; dwfri i'w wneyd yn bâst tew; yna toddwch iddo

1 owns o *phosphorous* mewn owns a haner o ymenyn. Taenwch hwn ar fara, a dodwch ef lle y gall y llygod ei gael; neu gwnewch ef yn beleni, a rholiwch hwy mewn siwgr. **NEU,** cymerwch chwart o ddwfr poeth, 2 bwys o lard, ac owns o phosphorous. Cymysgwch a thewychwch gyda blawd. Na roddwch lawer o hono i'r llygod ar unwaith.

*Cyngor arall.*—Mae rhai llygod mor gyfrwys fel y mae yn anhosibl bron eu dal. I wneyd hyny, cymerwch ychydig grains o *strychnine*, a dodwch ef mewn ychydig o biff wedi ei ferwi: torwch y biff yn fân gyda chyllell a forc, rhag iddynt arogl o eich bysedd; yna torwch agen fechan gyda *penknife* yn y tameidiau mân, a dodwch ynddynt ychydig o'r *strychnine*, a chauwch y cig i fyny yn ofalus. Dodwch hwn ar blât yn agos i'r lle a fynychant, ond heb fod yn rhy agos i'w tyllau, a gorchuddiwch ef â llian; pan y bywteir y peth cyntaf, dodwch beth arall, ac yn mhen tri neu bedwar diwrnod byddwch wedi cael gwared oddiwth y rhai cyfrwysaf o'r hiliogaeth gâs.

*I yru Llygod mawr ymaith yn fyro.*—Cymerwch *potash* wedi ei falu, a dodwch ddigon o hono yn eu tyllau. Trwy y bydd i'r *potash* wedi ei falu, trwy ei gyffyrddiad â'r awyr, fyned yn fath o bâst tew, gellir ei rwbio ar ynylon eu tyllau.—Mae *Scotch snuff*, neu bupur *cayenne*, wedi eu cymysgu yn nghyd neu ar wahan, os dodir ef yn eu tyllau, yn lled debyg o'u gyru ymaith ar redeg. **NEU,** cauwch eu tyllau â gwair, wedi ei drwytho â pupur *cayenne*. Ni hoffant fyned trwy y fath wrthglawdd.—**NEU,** cymerwch ychydig oil of amber, ox gall, a phosphorous maluredig, yr un faint o bob un, ychwanegwch ddigon o flawd ceirch i'w gwneyd yn bâst, a gwnewch beleni bychain o hono, a dodwch hwy yn ymyl y lleoedd a fynychir ganddynt. Dodwch ddwfr mewn llestri yn ymyl.

**GWENWYN LLYGOD HUMPHREY DAVY.**—Cymysgwch carbonate o bar-yates, 2 owns, gyda pwys o lard.

**I LADD MALWOD.**—Cymerwch nifer o ddail cabbage, a dodwch hwy naill ai yn y fwrn neu o flaen tân nes y rhwydd yn hollol feddalion; yna rhwbiwch

hwy ág ymenyn ffres, neu unrhyw fath o ddripping ffres, a dodwch hwy yn y lloedd a fynychir gan y malwod. Mewn ychydig oriau ceir y bydd y dail yn orchuddiedig gan falwod o bob math, ac wrth gwrs, gellir eu dinystrio yn rhwydd yn y modd y barnoch yn oreu.

*I ladd Malwod.*—Mae malwod yn fwytafyr mawr, ac y mae eu hymosodiadau rai gweithiau yn dra colledfawr, nid yn unig i ardd y gegin, ond i'r gwelyau blodau hefyd. Os gosodwch dafelli o faip yn awr ac ailwaith ar hyd y gwelyau, yn y prydnewniau, bydd i'r malwod ymgasglu arnynt, a gellir eu dinystrio.

*I ddifetha Chwilod.*—i. Dodwch ychydig galch heb ei yslacio yn y lleoedd a fynychir ganddynt. ii. Dodwch ddysgl yn cynwys ychydig gwrr neu syrur yn ei gwaelod, a dodwch ychydig briciau ar osgo yn erbyn ei hochrau, fel ag i ffurfio ffordd i'r chwilod i ddringo i fyny iddi, a bydd iddynt syrthio ar eu penau i'r abwyd a osodwyd iddynt. iii. Cymysgwch swm cyfartal o red lead, siwgr, a blawd, a rhoddwch ef bob nos yn y fan a fynychir ganddynt.

*I ladd Cockroaches.*—Cwpanaid o plaster of Paris, wedi ei falu a'i gymysgu â dwbl ei swm o flawd ceirch, gydag ychydig siwgr. Lluchiwch ar hyd y llawr, neu yn y tyllau a fynychant.

*Pryfaid Clustiog* ydynt hynod ddinystriol; eu hoff ymborth ydyw blodau rhosynau, pinks, dahlias, &c. Gellir eu dal trwy yru coed i'r ddaear, a dodi flower pot a'i wyneb i waered ar bob un; bydd i'r pryfaid clustiog ymgasglu vnddynt, pan y gellir eu cymeryd allan a'u ladd.

*I ladd Morgrug.*—Taenwch galch poeth ar wyneb eu nyth, a golchwch ef i mewn gyda dwfr poeth; neu toddwch beth camphor mewn spirits of wine, yna cymysgwch â dwfr, a thywelltwch am eu penau; neu ddwfr tybaco, yr hwn sydd yn dra effeithiol. Maent yn cashau arogla cryfion. Bydd i gamphor eu rhwystro rhag dyfod i gypyrddau, neu gadach wedi ei wlychu mewn creosote. I rwystro iddynt ddringo i goed, dodwch gylch o tar am y bôn, neu gylch o gadach wedi ei wlychu mewn creosote.

**PRYFAID DILLAD.**—Yn mis Ebrill

neu Mai, curwch eich holl ddillad *furs* yn dda gyda gwialen fechan, yna lap-iwch hwy i fyny mewn llian, heb wasgu gormod ar y *fur*, a dodwch rhwng y plygion lymphiau bvechain o gamphor; yna dodwch eich dillad yn y dull yma mewn *boxes* cauedig. Pan y byddo angen am danynt, curwch hwy fel o'r blaen, a gadewch iddynt fod yn yr awyr am bedair awr ar hugain, yr hyn a gymer ymaith arogl y camphor.

*I gael gwaredigaeth oddiworth Bryfaid Dillad.*—i. Ceisiwch shavings cedar wood, ymgauwch mewn muslin bags, a dodwch hwy yn weddol aml cydrhwng y dillad.—ii. Ceisiwch shavings camphor wood, a dodwch mewn cydau.—iii. Lluchiwch pimento berries (allspice) cydrhwng y dillad.—iv. Lluchiwch hadau musk ar hyd y dillad.—v. I ddinystrio yr wyau, pan wedi eu dodwy mewn dillad gwlanog, &c., defnyddiwch gymysgedd o acetate of potash mewn spirits of rosemary, pymtheg grain at bob peint.

**Bugs.**—Mae spirits of naphtha wedi ei rwbio gyda brush i bob agen yn y gwely yn feddyginaeth effeithiol rhagddynt. Dylid chwilio ymylon y matras a'r gwely, ac arfer yr un moddion, trwy eu bod yn fwy hoff o lochesu yn y pethau hyn na'r pren gwely. Mae gwerth tair ceiniog o naphtha yn ddigon i un gwely.

*Gwenwyn Bugs.*—Proof spirit, un peint; camphor, dwy owns; oil of turpentine, pedair owns; corrosive sublimate, un owns. Cymysgwch. Costia y proof spirit, 1s. 10c.; camphor, 4c.; oil of turpentine, 2g.; corrosive sublimate, 3c. Dywed gohebydd: "Bum yn cael fy mhoeni am hir amser gan bugs, ac yn methu a chael gwared o honynt trwy yr un ffordd lân a chyflym, hyd nes y cyngorwyd fi gan gyfaill i hongian cwd bychan o gamphor uwch y gwely, yn hollol yn y canol. Gwnaethum felly, a gyrwyd y gelyn yn ol yn effeithiol, ac nid ydyw byth wedi meiddio gwneyd ei ymddangosiad."

*Cymysgedd i ddifetha Pryfaid.*—Cymysgedd o *quassia*, un peint; siwgr coch, 4 cwns; pupur wedi ei falu, 2 owns. I gael eu cymysgu yn ofalus, a'u dodi mewn dysglau bäs pan fyddo angen am danynt.

*Pryfaid mewn Ystafell.*—Cymerwch haner llon'd llwy dê o bupur du yn bowdwr, llon'd llwy dê o siwgr coch, a llwyaid o hufen, cymysgwch yn dda yn nghyd, a dodwch yn yr ystafell ar blât, lle y byddo y pryfaid yn boenus, a bydd iddynt gilio yn fuan.

## MEDDYG Y TEULU.

**DIOGELIAD IECHYD.**—i. *Codwch yn foreu*, ac na fydded i chwi eistedd i fyny yn hwyr y nos.

ii. *Golchwch* yr holl gorff bob boreu â dwfr oer, trwy ddefnyddio ysbwng mawr, a rhwbiwch ef yn hollol sych gyda llian bras.

iii. *Mae y rhai a ddefnyddiant y badd oer* yn gyson, naill ai gyda'r ysbwng neu fel badd, yn fwy galluog i oddeg tywydd garw heb gael niwaid na'r rhai a esgeulusant hyny.

iv. *Yfwch ddwfr* yn gyffredin, a gochelwch ddiodydd meddwol o *bob math*.

v. *Cysgwch* mewn ystafell fawr ac agored i awyr iach, ac yn cael ei hawyru yn dda bob dydd.

vi. *Cadwch y pen yn oer* trwy ei olchi â dwfr oer pan yn angenrheidiol, a darostyngwch bob arwyddion o enyniadau (*inflammation*) pan y cyfodant trwy gadw eich hun yn berffaith dawel.

vii. Gellir cywiro arwyddion o *ddiffyg treuliad* trwy yfed a bwyta llai am ychydig amser.

viii. Na fydded i chwi byth fwya *super trom*, yn neillduol o gig. Na chyfranogwch byth o foethau; gochelwch anghymedroldeb; nac eisteddwch byth mewn *draughts*, neu mewn lillad gwlybion; ac na orweddwch mewn gwely llai.

ix. *Mae ymarferiad* (exercise) *cyson* yn tueddu i ddiogelu iechyd. Cerddwch filltir neu ddwy bob dydd, sut bynag y byddo'r tywydd, os na fydd yn ddrwg iawn. Gall hyd yn nod boneddiges, gydag esgidiau tewion, clôg fawr dew, ac *umbrella*, wynebu tywydd drwg.

x. *Wrth* gymeryd ymarferiad mewn tywydd drwg iawn, cedwch y genau yn gauedig a cherddwch yn gyflym; felly nis gall yr awyr gyrhaedd yr ysgyfaint

ond trwy y trwyn a'r pen, a bydd wedi ei gynhesu cyn ei gyraedd, ac ni wna ddim niwaid. Mae cerdded cyflym yn taflu y gwaed i arwyneb y corff, felly yn cynal i fyny gylchrediad cyflym, gan wneyd cael anwyd yn amhosibl os na bydd i chwi fyned i wely oer yn rhy fuan ar ol cyraedd gartref. Mae esgeuluso y rhagocheliadau hyn yn dwyn afiechyd a marwolaeth i filoedd bob blwyddyn.

xi. *Mae y swm o ymarferiad* a ddylid gymeryd yn amrywio, dibyna ar nerth y cyfansoddiad, dygiad i fyny, ystlen, ac oedran. I ddynion u gagain i haner cant oed, gellir ystyried o wyth i ddeg milltir y dydd o gerdded yn ddigonol; ac i ferched, o'r un oedran, gwna haner hyny y tro. Bydd i lai na hyn wneyd lles mawr, ond os byddis am gadw i fyny iechyd cryf, mae y swm uchod yn angenrheidiol. Gellir pasio heibio ddyddiau gwlybion iawn.

xii. *Gochelwch iselder ysbryd* a llochesu meddyliau poenus ar bob cyfrif, nid oes dim yn fwy niweidiol i iechyd.

xiii. *Mae llafur meddyliol a chorff- orol* yn anheborol i iechyd a dedwyddwch; felly dylai efrydiaeth a llafur corfforol ddilyn eu gilydd.

xiv. Yr *ymborth mwyaf plaen* yw y goreu, ac heb gymeryd gormod o hono ar y pryd. Ni ddylai yr un dyn wybod fod ganddo gylla oddieithr pan yn newynog.

xv. *Er enill nerth a chryfder*, dylid cymeryd bwyd heb fod tuedd ynddo i gynrychu brasder; oblegyd y mae brasder a thewder yn aml yn arwydd o afiechyd. Dygir y ceffyl rhedeg i'w nerth mwyaf trwy ddysgyblaeth lem. Felly dyn, os ydyw am ddadblygu ei holl alluoedd cyhyrol, rhaid iddo gyfyngu arno ei hun mewn bwydydd, a lleihau ei fraser trwy gael chwysfa dda bob dydd, ond gofalu am beidio cael anwyd.

xvi. *Mae gorwedd yn rhy hir* yn y gwely yn niweidiol i iechyd. Bydd i ddiffyg ymledu y frest trwy ymarferiad, ychwanegu neu achosi tueddiadau darfodedigaethol, ag sydd yn nhawb bron; ac y mae bod un rhan o'r corff yn cael ei gadw yn gynys yn barhaus trwy orwedd neu eistedd ar glustogau yn niweidiol i iechyd.

xvii. *Pan y cyfyd bywd yn yr ystumog*, y mae yr ystumog yn llefaru wrthym, a dylem wrando arni, neu dyoddefa yr iechyd. Mewn amser, cur yn y pen fydd y canlyniad; cyfyngir yr afu, ac nis gall wneyd ei gwaith. Mae mwy wedi ei dderbyn i'r corff nag y gall yn gyfleus wneyd defnydd o hono. Derbynia pob rhan o'r corff beth o'r sylwedd trawsymwthiol; gwthir ef i'r sychyrion (*absorbents*); gorfodir y gwaed yn anffodlon i gymeryd peth o hono; teimla yr ymenydd oddiwrth ei bresenoldeb gwenwynig; rhwystrir cylchrediad y gwaed; teimla y galon ef, a gweithia yn galed i wneyd ei gwaith. Fel hyn, y mae llenwi yr ystumog yn ormodol yn tafu yr holl gorff i annhrefn, ac os gwneir arferiad o hyny bydd i'r bywyd gael ei fyrhau.

xviii. *Y rhai sydd yn meddwl fwyaf* sydd ag angen mwyaf o gysgu arnynt. Mae ceisio "enill" amser o oriau cwsig yn ddinystyr i'r meddwl a'r corff. Rhoddwch i'ch hunan, plant, a morwynion, ddigonedd o amser i' gysgu trwy eu gorfodi i fyned i'r gwely ar ryw awr gynar, ac i godi yn y bore y foment y deffroant o honynt eu hunain, ac mewn pythefnos bydd i natur ddatod rhwymau cwsig y funud y byddo digonedd o orphwysdra wedi ei sicrhau.

xix. *Codwch ac ewch i'ch gwely* ar ryw awr benodol; cymerwch rodfa esmwyth cyn boreubryd; a chymerwch eich bwyd yr un oriau bob dydd.

xx. *Gwell i' chwi beidio yfed* diod-meddwl o gwbl.

xxi. Nid oes dim yn tueddu yn fwy at gadw yr iechyd a sicrhau oes hir na chymedroldeb a bwyd plaen, gyda digonedd o lafur.

xxii. *Arferwch eich hunain i yfed* dwfr, ac wedi dysgu, gwerthfawrogwch yr arferiad, a daliwch ato.

xxiii. *Mae cadw oriau drwg* a dilyn gwaith a llawer o bryder yn gysylltiol âg ef yn niweidiol i'r giau; felly gochelwch hyd ag y medroch.

xxiv. *Mewn trefn i'r bywd gael* ei dreulio, dylid ei gnoi yn dda. Ni bydd i'r ystumog wneyd dim ag ef yn lymphiau. Rhaid iddo gael ei gnoi yn dda, a'i gymysgu yn drwyadl â'r hylif sydd yn llifo i'r geneu, cyn ei

lyngcu, neu diffyg treuliad fydd y canlyniad.

xxv. *Gwnewch heb feddyginiaeth os bydd yn bosibl*; ond mewn achos o afiechyd peryglus, ymgynghorer ar unwaith â meddyg deallus.

Y MODD I FYW YN HEN.—“Yr wyf yn awr yn hen ŵr. Yr wyf wedi gweled agos i ganrif. A oes arnoch chwi eisiau gwybod pa fodd i fyned yn hen yn araf a dedwydd? Mi a ddywedaf wrthyhych. Bwytwch yn araf bob amser—cnowch eich bywd yn dda. Treuliwch gymaint o amser yn yr awyr agored ag a ellwch. Awyr bur! fel y mae wedi hwyhau fy oes. Ond gochelwch wyntoedd oerion, a thywydd gwlyb. Ewch at eich gwaith dan wenu. Magwch yspred mwy, a thymwr dda yn mhob man. Trwy fod yn dda wrth ereill, bydd i' chwi gael enw da; ac y mae y dylanwad da a dymunol a gynyrcha enw da ar y meddwl, yn cyraedd y corff hefyd. Diwylliwch y cof, ac er meddu cof da rhaid i' chwi siarad ag ereill; siaradwch am yr hyn a ddarllenwch. Yr oedd Dr. Johnson yn ddyledus am ei gof mawr i'r arferiad a fabwysiadodd o siarad ag ereill ar bob pwngc. Os ydych yn dymuno bod yn hen, ac ar yr un pryd fod yn ddedwydd, *na fydded i' chwi lyngcu RASP*; hyny yw, diodydd meddwl, y rhai a rasant ac a dreuliant y cyfansoddiad allan.”—*Doctor Muerin.*

ARWYDDION AFIECHYD.—Ymosoda afiechyd weithiau yn sydyn; bryd arall araf ddynesa. Gwna enyniad (*inflammation*) ei hunan yn hysbys ar unwaith. Mae iselder meddwl yn aml yn arwydd o waethgiad iechyd. Y mae i' glefydau bedwar o raddau:—

1. Y gradd *ffurfiol*, yn cael ei hynodi gan deimlad o flinder, yr aelodau yn boenus, poen yn y cefn, methu bwyta a methu cysgu, ac iselder yspred.

2. Y gradd *oer*.—Teimlir rhyw gryndod yn ymledu dros yr holl gorff, gyda trymder, gwendid, ac weithiau boen.

3. Y gradd *poeth*, pan y byddo gwres yn dilyn yr oerfel, a'r croen yn teimlo yn sych a phoeth. Bydd cur mawr yn y pen, anesmwythdra, syched, diflasdod, a goleuni a swm yn peri poen.

4. Y gradd *olaf*, mewn achosion

ffafriol, a hynodir trwy chwys, a theimlad o leihad graddol y boen.

5. *Mae cystwr y tafod* yn dwyn arwyddion o iechyd neu afiechyd. Mae cochni goleu yn arwyddo diffyg treulïad; mae tafod dulas neu ddugoch yn dangos ataliad yn nghylchredïad y gwaed, neu yr ysgyfaint; tafod gwyn a arwydda fod y gwaed mewn sefyllfa wan a thlawd; tafod cènog a ddengys bresenoldeb twymyn (*fever*); tafod ag ymylon coch a chènog yn y canol sydd yn arwyddo anghymedroldeb, neu anhwylddeb yr ymenydd.

**RHAGOCHELIADAU WRTH YMWELED AG YSTAFELLOEDD CLEIFION.**—Na fydded i chwi byth fyned i ystafell y claf pan fyddoch mewn chwys, oblegid mor fuan ag yr oero y corph, gall sugno yr afiechyd neu yr haint.—Na fydded i chwi ymweled â chlaf gyda chylla gwag, oblegid y mae y cyfansoddiad yr pryd hyn yn fwy tueddol i dderbyn yr afiechyd.—Yn ystafell y claf, sefwch yn y man y byddo yr awyr o'r drws neu y ffenestr yn pasio tua gwely y claf. Pan y byddo yr awyr wenwynig wedi ei gymysgu ag awyr bur, nid yw agos mor beryglus.—Ni ddylid cau ffenestr ystafell y claf, os bydd yn fychan a chlòs; os bydd yr awyr yn oer, cau'ch yn agos gyrteni y gwely.—Symudwch bob dillad budron, a phob budreddi arall, mor fuan ag y gellir.—Bydded gan yr ymwelydd *gampbor* yn agos i'w berson.—Ar ol gadael ystafell un mewn clefyd, dylai yr ymwelydd aros dipyn yn yr awyr agored cyn myned i'w dŷ ei hun.

**RHAGOCHELIADAU WRTH RODDI MEDDYGINIAETHAU.**—**YSTLEN.**—Ni ddylai meddyginiaethau i fenywod fod mor gryf ag i wrywod, felly doeth lleihau y doguau (*doses*) oddeutu y drydedd ran.

*Tymer.*—Mae personau o dymer oerllyd yn dyoddef cynhyrfion a meddyginiaeth ryddhaol yn well na phersonau o dymer boethllyd, felly dylid rhoddi doguau llai i'r olaf.

*Arferion.* Nid yw meddyginiaethau carthedigol byth yn gweithredu cystal ar rai arferol a'u cymeryd ag ar rai heb arfer, felly gwell newid *isurf* y *purge* o'r peleni i'r hylif, ac o'r hylif i'r powdwr.

Ni ddylid byth rhoddi meddyginiaeth ryddhaol os bydd y coluddion mewn stâd enynol.

Nid yw meddyginiaeth *symbylïadd a chysgiadol* byth yn effeithio mor gyflym ar bersonau arferol ag yfed gwirodydd poethion ag ar rai yn ymatal oddi-wrthynt.

*Hinsawdd.*—Mae yr hinsawdd yn effeithio ar weithredïad meddyginiaethau. Yn yr haf, mae rhai cyfferïau yn gweithredu yn fwy nerthol nag yn y gauaf, ac nis gall yr un person oddef yr un dogn yn Gorphenaf ag a gymerodd yn rhwydd yn Rhagfyr.

*Iechyd Cyffredin.*—Mae personau ag y mae eu hiechyd cyffredin yn dda, yn gallu dioddef dognau cryfach na'r gwan a'r rhai fyddont wedi bod yn afiach am beth amser.

*Hynodrwydd.*—Fel y ceir personau a meddyliau hynod, felly hefyd y mae i rai cyrrf eu hynodion a'u neillduolion. Er engrafft y mae rhai personau na allant gymeryd y dogn lleiaf o *galomel* heb deimlo poen mawr ar ei ol, neu *rhubarb*, heb gael eu dirdynu; mae ereill nad allant oddef *squills*, *opium*, *senna*, &c., a byddai yn gam eu gorfodi i gymeryd y meddyginiaethau ag y mae neillduolrwydd eu cyrrf yn gasâu i'r fath raddau.

**Y FFURFIAU MWYAF CYFADDASOL I'W GWEINYDDU.**—Mae hylifau yn gweithredu yn gyflymach na sylweddau, a powdwrts na phelenau.

**Y FFORDD OREU I ATAL BLAS DRWG CYFFERIAU.**—Gellir cymeryd *castor oil* mewn llaeth, coffi, neu wirod, megys brandi; ond y ffordd oreu i guddio y blas drwg yw doddi llon'ŵr llwy frwdd o sudd orange mewn wine-glass, tywallt y castor oil i ganol y sudd, ac yna gwasgu ychydig ddiiferion o sudd lemon ar ben yr oil. Gellir cymeryd cod liver oil, fel castor oil, mewn sudd lemon. Mae dwfr peppermint bron yn llwyr ddinystrio blas drwg salts; mae dwfr wedi toddi liquorice ynddo yn myned a blas *aloes*; llaeth yn dwyn drwg flas cinchona bark; a cloves yn dwyn blas drwg *senna*.

*Ffordd ragorol i ochelyd blas Cyfferïau* yw doddi y feddyginiaeth mewn gwvdr fel arfer, a glasiad arall o ddwfr



wrth ei ochr; cymerwch y feddyginiaeth, a daliwch ef yn y genau, yr hon a ddyldid gadw yn nghanau, ac os bydd i chwi ar y pryd ddechreu yfed y dwfr, golchir blas y feddyginiaeth ymaith. Gellir osgoi chwerwder *quinine* ac *aloes* trwy y moddion yma. Os gwesgir y ffroenau yn dŷn rhwng y bys a'r bawd, tra yn cymeryd dogn o feddyginiaeth annymunol, a'u cadw felly hyd nes y byddo y genau wedi ei olchi allan â dwfr, ni bydd i flas drwg y feddyginiaeth gael ei brofi.

*Rhoddi Cyfferiau i Bersonau.*—Dylid rhoddi cyfferiau yn y fath fodd ag na byddo effaith y dogn cyntaf wedi llwyr beidio pan y rhoddir y dogn nesaf, felly dylid rheoleiddio y pellder cydrhwng y dogmau yn gyson a hyny.

**ANHWYLDERAU AC AFIECHYDON, A'R MODD I'W GWELLA.**—**AFIECHYD YR YSGYFAINT.**—Dywedir fod blagar (*shoots*) ffawydd, wedi eu pilio a'u bwyta yn y boreu yn y goedwig ar ystumog wâg, wedi bod yn foddion i iachau llawer o'r afiechyd hwn.

*Syrup Ysgyfeinol.*—Blood-root, bonese, slippery elm bark, coltsfoot, elecampane, 2 owns o bob un; white root, spikenard root, 4 owns o bob un; comfrey-root, poplar bark, owns o bob un; lobelia, horehound, snake-root,  $\frac{1}{2}$  owns o bob un. Tywalltwch arnynt 2 chwart o ddwfr berwedig; trowch yn dda; ychwanegwch bwys o driagl, a phan yn oer, chwart o Hollands gin. Mae yn un o'r cyfferiau goreu at y diffyg anadl, peswch, crygni, &c. Llon'd llwy fwrdd bob awr; neu lonaid wine-glass dair gwaith y dydd.

*Waffrenau at yr Ysgyfaint.*—Siwgr wedi ei falu, 7 owns; tincture of epecac, 3 dram; tincture of blood-root a syrup of tolu, 2 dram o bob un; tincture thoroughwort,  $\frac{1}{2}$  owns; morphine, 1 $\frac{1}{2}$  grains. Toddwch y morphine mewn dwfr,  $\frac{1}{4}$  llon'd llwy dê, ar ol doddi ynddi 2 ddiferyn o sulphuric acid; cymysgwch y cwbl, ac ychwanegwch gum arabic i'w wneyd yn bâst cyfaddasol i'w dori yn waffrenau.—Y mae un o'r waffrenau yn ddigon o ddog (*dose*); gadawer iddi doddi yn araf yn y genau. Na chymerer dros 6 o honynt mewn diwrnod.

**ATAL DYWEDYD.**—Dull Dr. Turner:

—"Achosir atal dywedyd," medd efe, "gan ddiffyg gwynt yn yr ysgyfaint. Wrth ganu, cedwir yr ysgyfaint yn llawn o wynt, ac nid oes dim pall ar y llais. Y ffordd i wella y bai yw ceisio cael gan yr un a boenir i gadw ei ysgyfaint yn llawn; i dynu anadliadau hir a mynych, siarad yn uchel, ac i aros y foment y clywo ddyrswch ar ei leferydd, a chymeryd anadliad hir cyn yr â yn mlaen eilwaith. Gwellhais un o'r rhai gwaethaf a glywais erioed am fethu siarad trwy y dull hwn."

*Dull arall.*—Darllenwch yn aml yn uchel gyda'r danedd yn gauedig, a tharewch a'ch bys ar ol acenu pob sill.

*Dull arall.*—Cadwch y danedd yn nghyd, ac anadlwch yn gryf; yna siaradwch yn uchel ac araf.

**ANADL BYR.**—Cymerwch o vitriolated spirit of ether, un owns, a 12 grain o camphor. Gwnewch yn wlybwr, a chymerech lon'd llwy dê pan fyddo yr anadl yn boenus o fyr. Yn gyffredin ceir y cynghor hwn yn rhoddi esmwyth-hâd uniongyrchol mewn diffyg anadl.

*Un arall.*—Cymerwch chwarter owns o bowdwr elecampane root, haner owns o liquorice wedi ei bowdro, yr un faint o flower of brimstone a phowdwr aniseed, a dwy owns o siwgr-candy wedi ei falu. Gwnewch y cwbl yn bils, gyda swm digonol o *tar*; cymerwch bedair o bils mawr wrth fyned i'r gwely. Mae hon yn feddyginiaeth anghydmarol mewn diffyg anadl.

*Un arall.*—Cymysgwch ddwy ran o dair o owns o senna wedi ei bowdro yn fân;  $\frac{1}{2}$  owns o flower of brimstone;  $\frac{1}{2}$  owns o ginger wedi ei falu, mewn 4 owns o fêl pur. Cymerwch swm o faintioli cnenen neu nutmeg foreu a hwyr am 6 diwrnod yn olynol, ar ol hyny unwaith yn yr wythnos am beth amser, ac yn y diwedd unwaith bob pythefnos.

**ANADLU.**—Nid pob un a wŷr pa fodd i anadlu. Mae ein dull o fyw, ein harferion eisteddog, ffurfiau caethiwl, a'u dillad tŷnion, yn gwanhau a gwasgu peirianau yr anadlu, ac yn rhwystro eu dadblygiad. Mae yr anadl yn cael ei fyrhau, a'r bywyd ei fyrhau mewn canlyniad. Mae'r anifeiliaid yn anadlu a'u holl gyrff. Mae dynion gyda chyrrff

wedi eu dadblygu yn iawn, yn gwneyd yr un modd. Mae yr awyr fywiol yn myned i waelod yr ysgyfaint, ac ymddengys yr holl gorff fel yn chwyddo ac yn gostwng o dan ddylanwad y firwd barhaus o awyr a â i mewn ac allan; ond y wniadwraig uwch ben ei gwaith, y golygydd a'r ysgrifenydd uwchben ei ddesc, y diogyn yn nghanol ei glustogau, a'r ferch ieuange a'i chanol wedi ei wasgu o fewn y cylch lleiaf ag y byddo yn ddichonadwy, a ddefnyddiant ran uchaf yr ysgyfaint yn unig wrth anadlu, gan wisgo ymaith y rhan hono, tra y mae y rhanau isaf o honynt yn cael eu gadael i lygru o herwydd diffyg ymarferiad. Y darfodedigaeth yw canlyniad cyffredin anadlu yn anmherffaith; ac y mae llawer o anhwylderau ereill yn deilliaw o'r un achos. Para i'r gwddf fyned yn anhwylyd, a bydd y llais yn wan a gwag, fel y byddo y lleferydd yn boenus i'r siaradwr a'r gwrandaer. Bydded i bob person a ddarlloeno hwn wyllo ei hunan, a sylwi a yw ei anadliad yn ddwfn a llawn, ynte yn fâs a byr. Os yn fyr a gwanaidd, rhaid iddo wneyd fel hyn: cywiro ei agweddau, trwy sefyll bob amser yn lle eistedd; llacio ei ddillad, fel y byddo i'r cyhyrau isaf ag a ddefnyddir gyda'r gorchwyl o anadlu gael digon o le i chwareu; ac yn gyson bob dydd i ofalu am ymarfer y cyhyrau hyny trwy lenwi ei ysgyfaint a lledu ei frest, yn neillduol y rhan isaf o honi, trwy dafu yr ysgwyddau a'r breichiau yn ol, darllen a siarad gyda'r ysgyfaint wedi ei lanw yn dda, a thrwy wneyd yr anadliad bob amser mor hir a dwfn ag y byddo yn bosibl.

**ANADL, DIFFYG.**—Vitriolated spirits of ether, 2 owns; camphor, 15 grains; paregoric,  $\frac{1}{2}$  owns; ipecacuana wine, llon'd llwy fwrdd; dwfr, haner peint. Cymysgwh, a chorciwch yn dda. Cymerwch lon'd llwy dê pan fyddo yr anadl yn boenus. Esmwythâ ar unwaith.

**ANADL DREWLLYD.**—Gall yr arogl darddu oddiwrth yr ysgyfaint neu y cylla, ond mewn naw achos o bob deg dechreua yn yr ystumog, ac y mae y feddyginiaeth ganlynol yn un syml a chyflym:—Yn y boreu, ar ol ymwisgo, cymerer o 6 i 8 diferyn o concen-

trated solution of chloride of soda, mewn llon'd gwydr gwin o ddwfr oer.

**Un arall.**—Cymerwch  $\frac{1}{2}$  owns o cinamon, 2 dram o cloves,  $1\frac{1}{2}$  owns o Florentine orrice-root, nutmeg, a mace; malwch a dodwch hwy mewn  $\frac{1}{2}$  peint o spirits of wine neu French Brandy am 48 awr; wrth ddefnyddio y trwyth cymysgwh â dwfr.

**Un arall.**—Cnowch wrth fyned i'r gwely ddarn bychan o gum myrrh. Neu, cnowch nos a boreu un clove, neu ddarn o orrice-rootdeutu maint ffauan.

**Llygru yr Anadl wrth fwyta Wynwyn.**—Wrth fwyta dail persli a finegr, gallwch osgoi y canlyniadau annymunol o fwyta wynwyn.

**ANESMWYTHDER (Irritation).**—Mae cyffroadau neu anesmwythder poenus yn arwyddo fod y corff yn tueddu at enyniad (*inflammation*), ond ei fod heb nerth i'w ffurfio yn berffaith, nac i oddef y cyfferiau priodol er ei ddarostwng. Golyga anesmwythder enyniad anmherffaith. Mae llawer o anhwylderau plant yn cyfranogi yn fwy o anesmwythder nac enyniad. Mae cyflwr o anesmwythder yn bresenol yn y nifer fwyaf o anhwylderau, ac y mae yn dra phoenus i'r claf a'r rhai f'on gwasanaethu arnynt, a dylid cyd-ddwyn â hwy hyd y gellir.

**Eli Cyffrôol (Irritating Linement).**—Tincture of cayenne,  $\frac{1}{2}$  owns; spirits of turpentine, 1 owns; croton oil,  $\frac{1}{2}$  owns; olive oil,  $1\frac{1}{2}$  owns. Cynyrcha darddiadau ar y croen, a symudai y poenau mwyaf anyoddefol.

**Plastr Cyffrôol (Irritating Plaster)**—Burgundy-pitch a cwyrr gwenyn,  $\frac{1}{2}$  pwys o bob un; tar tew,  $\frac{1}{2}$  pwys; vernice turpentine,  $\frac{1}{2}$  owns. Toddwch yn dda a chymysgwh ar dân araf. Pan yn oer, cymysgwh â blood-root, poke-root, a cayenne wedi eu powdro. Taenwch ar lian neu ledr esmwyth. Mae y plaster hwn yn wrthgyffrôol, achosa darddiadau, ac yn llesiol iawn i hen friwiau a thylliau. Cymeradwyir.

**ANHWYLBED YR YSGYFAINT.**—Cymerwch 4 pwys o wreiddiau dandelion, curwch a gwasgwh allan y sudd; rhedwch trwy gŵd muslin, a photelwch. Cymerwch ddwy lon'd llwy fwrdd o hono dair neu bedair gwaith yn y dydd.

**Arall.**—Yfwch yn achlysurol y ddioid

ganlynol:—Cymerwch y gwreiddiau a nodir uchod wedi eu hysigo, ychwanegwch atynt lonaid llaw o Agrimony, a dwy owns o Burdock Root, mewn tri chwart o ddwfr—berwch i ddau chwart. Yfwech bedwar haner peint o hono bob dydd.

ANWYD.—Na fydded i chwi byth esgeuluso anwyd. Gall fod yn rhagredegydd rhyw afiechyd anhawdd ei wella. Dilyna y darfodedigaeth yn aml anwyd esgeulusedig. Achosir anwyd gan golliad gwres, a lleihad yr yni gieuol, yn achosi rhwystrau yn y chwysdyllau.—I symud anwyd rhaid adnewyddu y chwysiad. Cymerwch ddiod wedi ei gwneyd o catnep, pennyroyal, yarrow, neu composition powder. Dodwch y traed mewn dwfr poeth cyn myned i'r gwely, a dodwch botel o ddwfr poeth wrth y traed, wedi ei lapio mewn llian wedi ei wlychu mewn finegr a dwfr. Rhoddwch lon'd *basin* o *gruel* poeth, a gadewch i'r dyoddefydd yfed o'r ddiad ddail. Ewch eilwaith dros y driniaeth hon os bydd yn angenrheidiol. Os bydd y gwddf yn ddolurus, gwlychwch ychydig *hops* mewn finegr poeth, dodwch mewn llian, a lapiwch o gwmpas y gwddf. Os bydd y peswch yn boenus, defnyddiwch rai o'r meddyginiaethau rhagddo. Gwelwch *Peswch*.

*Dull arall*.—Cymerwch gwpanaid o had llin; 4 owns o raisins; gwerth dwy geiniog o liquorice; dwfr meddal, 2 chwart; berwch yn araf hyd nes byddo wedi myned yn chwart; ychwanegwch 4 owns o siwgr candi, llon'd llwy fwrdd o hen rum, llwyaid dda o finegr, neu sudd lemon. Ychwanegwch y rum a'r finegr wrth gymeryd y ddiad. Cymerwch gwpanaid ddwywaith neu dair yn y dydd—dylai y dyoddefydd aros yn ei wely am ddiwrnod neu ddau.

ANWYD YN Y PEN.—Mae M. Farn, physygywr Belgiaidd, yn dweyd y gellir yn aml wella anwyd yn y pen trwy rwbio y gwegil yn gyflym gyda lavender water, sal volatile, &c. Ac hefyd y byddai i rwbio cyffelyb, unwaith neu ddwy yn yr wythnos, rwystro rhai tueddol rhag cael anwyd.

ANWYD, Y MODD I BEIDIO EI GAEL.—Arferwch eich hunan i ddefnyddiad dwfr oer, trwy spwngio eich holl gorff â

dwfr oer wrth godi bob dydd, a rhwbio eich corff yn dda â llian bras. Effeithia yn ddaionus iawn ar y croen, a phrofa yn ddiogelydd rhag dylanwad niweidiol oerder neu gyfnewidiad sydyn yn yr hinsawdd. Dywed Syr Astley Cooper: “Y moddianau trwy y rhai yr wyf wedi diogelu fy iechyd ydynt—cymedroldeb, codi yn foren, spwngio y corff bob boreu â dwfr oer, yn uniongyrchol ar ol dyfod o'r gwely; yr wyf wedi ymarfer hyn am ddeng mlynedd ar hugain, heb gael anwyd gymaint ag unwaith.

ANWYD, Y MODD I'W WELLA.—Mae y dull caulynol yn hynod effeithiol i wella llawer math o anwyd, ond nid yr oll:—Bydded i ddyn fwyta y peth nesaf i ddim am ddau ddiwrnod, a chaniatau nad ydyw wedi ei gaethiwo i'r gwely, oblegid wrth beidio cymeryd carbon i'w gorff gyda'i fwyd, a thrwy dreulio y gorlawnder a achosodd yr afiechyd trwy anadlu, caria ymaith yr afiechyd trwy symud yr achos. Bydd i'r dull yma fod yn fwy effeithiol os ychwanega yfed swm mawr o ddwfr at ei ymryd. Wedi i un felly ymrydio un diwrnod a noswaith, bydd iddo deimlo rhyddhad oddiwrth afiechyd, a sirioldeb meddwl, a bydd yn dduymunol mewn gwrthgyferbyniad i'r hurtrwydd meddyliol, a'r poenau corfforol achoswyd gan yr anwyd.

*Dull arall*.—Cymerer llon'd llaw o yarrow, haner owns o bren ginger, wedi ei falu, neu lon'd llwy dâ o bupur cayenne, ac oddeutu tri pheint o ddwfr. Berwch i un peint. Ychwanegwch ychydig siwgr os byddwch yn dewis. Cymerwch ddogn da wrth fyned i'r gwely, a bydd yr anwyd wedi gwella erbyn y boreu; os na fydd, cymerwch eilwaith.

ANWYD TRWM YN Y PEN (*Catarrh*).—Nid oes yr un afiechyd yn fwy cyffredin nag anwyd yn y pen; digwydda haf a gauaf; a dywedir yn gyffredin fod yn anhawddach cael gwared o hono yn yr haf na'r gauaf. Dechreuau yr ymosodiad gyda phoen yn yr aelodau, llesgedd, teimlad o dyndra ar draws y talcen, tisian parhaus, llygaid dolurus a dyfriog, a'r trwyn yn rhedeg yn barhaus; weithiau y mae enyniad yn y gwddf, a'r gwefusau yn tori. Mae cynghorion heb

rifedi wedi eu rhoddi i wella yr afiechyd hwn, ond ychydig geir yn well na'r hen drefn,—dodi y traed mewn dwfr poeth, rhoddi 10 grain o *Dover's Powder*, diod boeth, a digon o blancedi. Mae Dr. Williams yn dweyd y gellir gwella unrhyw anwyd mewn 48 awr neu lai trwy lwy ymatal oddiwrth bob math o ddiodydd, ond byddai i lawer o bersonau ystyried y feddyginiaeth yn waeth na'r afiechyd. Dylai personau tueddlol i gael y math yma o anwyd wisgo dillad isaf cynhes, a golchi eu hunain mewn dwfr oer bob boreu.

**BOLGNOI AR BLANT (*Gripping*).**—Cymerwch syrup of rhubarb, a saffron,  $\frac{1}{2}$  owns o bob un; syrup of buckthorn, 1 dram; cymysgwch, a rhoddwch lon'd llwy d6 bob 3 awr hyd nes y byddo i'r plentyn gael ei weithio.

**BRATHIAD CI CYNDEIRIOG.**—Dywed Mr. Hildebrand, Germani:—Baddiwch y lle a frathwyd â *dwfr poeth*. Y mae wedi sicrhau fod y dwfr poeth yn dinystrio y gwenwyn, ac nad oes dim yn angenrheidiol wedi hyny ond cymhwys solution of caustic potash at y clwyf gyda brwsh, ac yna ei encinio ag anti-mony ointment.

*Wesley* a ddywed:—Golchwch y lle yn dda gyda thrwyth cryf o dybaco, a rhwymwch dybaco gwlyb am y clwyf.—NEU, cymerwch bwys o halen, toddwch mewn chwart o ddwfr. Gwasgwch, baddiwch, a golchwch y briw gyda'r hylif yma am awr neu ddwy; yna rhwymwch beth halen wrtho am ddeg neu ddeuddeg awr.

*Gwellhdd Dr. Buisson, Lyons.*—Pan oedd y gŵr enwog hwn yn ymweled â merch ieuange mewn cyflwr o wallgofrwydd oddiwrth frathiad ei cynddeiriog, darfu iddo yn ddifeddwl sychu ei ddwyllaw a llian wedi ei wlychu â pheth o'i phoeredd. Yn mhen oddentu deugain niwrnod teimlodd holl arwyddion y gynn-ddaredd; a sicrha ni fod pob arwyddion wedi llwyr ddiiflanu mor fuan ag y cymerodd fadd ager (*vapour bath*), 93 gradd Fahrenheit. Ac ychwanega, "Yr wyf wedi ymweled a thros 80 o bersonau wedi eu brathu gan gŵn cynddeiriog, ac nid wyf wedi methu gyda'r un achos." Fel moddion rhagflaenol, nodâ Dr. Buisson y driniaeth ganlynol: Ar ol i'r

person gael ei frathu, neu ar ol i'r arwyddion ddechreu dangos eu hunain, rhoddwch i'r claf lon'd llwy fwrdd o anti-spasmodic tincture, a *dose* o gyffyr rhyddhaol. Yna dodwch ef mewn *vapour bath*, mor boeth ag y gall y claf ei oddef. Ar ol y badd, rhoddwch gyfogllyn (*emetic*). Ar ol hyny cynhwyswch caustic potash at y briw. Rhoddwch hefyd blastr burym, a chadwch i fynd yr ymweithiad. Ychwanegwch ychydig *charcoal* wedi ei bowdro at y plastr. Defnyddiwch y badd a'r plastr drachefn a thrachefn bob deg neu ddeuddeg awr. Rhoddwch drwyth y skullcap iddo i'w yfed, a sulphur a cream of tartar yn y nos.

*Finegr fel meddyginiaeth.*—Gwellhawyd dyn yn hollol trwy gymeryd dogneau o finegr mewn camgymeriad. Clywodd meddyg am hyny, a gwnaeth brawf ar yr un feddyginiaeth ar ddyoddefydd oedd dan ei ofal, trwy roddi pwys o finegr yn y boreu, un arall ganol dydd, a'r llall ar fachlud haul, a gwellhaodd y dyn yn hollol.

*Onen wen fel meddyginiaeth.*—Brathwyd dau frawd a dafad gan gi cynddeiriog. Aeth y dafad yn wallgof ar unwaith. Cymerodd tad y plant a frathwyd swp o risgl yr onen wen, gwnaeth drwyth cryf o hono trwy ei ferwi mewn dwfr, rhoddodd beint o'r ddiod i'r dafad, ac yn mhen pedair awr yr oedd yn holliach. Rhoddodd yr un feddyginiaeth i'w blant, chwarter peint dair gwaith yn y dydd am 10 diwrnod, a llwyr wellhaodd hwynt.

**BRATHIADAU NADROEDD.**—Mewn achos o frathiad neidr wenwynig, y ffordd oreu yw golchi y lle yn *union-gyrchol*; ac os bydd y dolur mewn man y gellir cael y genau ato, *ugno* allan yr holl wenwyn, ac os bydd person arall yn ymyl, os na fydd ei enau yn ddolurus, gall wneyd hyny heb ofni dim niwaid.—*Arall.*—Rhoddi spirits of ammonia ar flaen pren yn y clwyf.—*Arall.*—Naddu *lunar caustic* yn flaenfain a'i yru i'r clwyf.

**BRECH DEBYG I BIGIAD DANADL.**—(*Nettle Rash*).—Mae y croen yn codi, ac yn wyn ar y top; a dilynir ef gan gosi. Nid yw yn afiechyd peryglus, ac yn gyffredin ni bydd angen am lawer o

fddyginiaeth. Cymeradwyir y meddyginiaethau canlynol:—Swm cyfartal o olew, finegr, a spirits of wine, wedi ei gymhyso at y croen a rydd esmwythdra; ond dylid cymeryd ar yr un pryd, 6 grains o magnesia mewn gwyrdaid o ddwfr calch (*lime water*) dair gwaith yn y dydd. NEU, rhwbier y lle yn dda â persli.—NEU, cymhwyser tincture of lobellia a myrrh, cymysgedig at y croen. Rhwbier y croen ag ysbwng trochedig mewn dwfr a halen bob boreu.

BRONAU DRWG.—Pan yn *galedion*, cymhwyser maip wedi eu rhostio nes bod yn hollol dyner, wedi eu malu a'u cymysgu ag ychydig *oil of roses*. Newidiwch ddwywaith yn y dydd, gan gadw y fron yn gynnes a gwlaneni.

*Bronau chwyddedig a dolurus*.—Berwch ddyrnaid o gamomile, a'r un faint o mallows mewn llaeth a dwfr. Gwlychwch wlanen ynddo, a rhoddwch wrth y fron mor boeth ag y gellir ei goddef, bob deuddeg awr. Gostynga y feddyginiaeth yma chwydd mewn unrhyw ran o'r corff.

BRONCHITIS (*Enyniad yn y gwddf*).—Mae hwn yn afiechyd cyflfredin iawn yn y wlad hon, ac yn aml yn profi yn angeuol. Yr arwyddion cyntaf ydynt y trwyn yn rhedeg, y llygaid yn dyfrio, tisian yn aml, crynod, ac weithiau boen yn y pen. Os bydd y frest wedi ei heffeithio, teimlir gerwinder yn y gwddf, ag a bara ymdrech barhaus i glirio y gwddf. Os bydd yn ddrwg iawn, teimlir gwendid mawr, peswch poenus, anhawsder i anadlu, crygni, a thyndra a phoen ar draws y frest. *Gwellhad*.—

Doder y traed mewn dwfr cynes, a rhoddwch ddiodydd cynes i'r dyoddefydd, megis tê had llin, barley water, gydag ychydig o sudd lemon; tê balm; moddion rhyddhaol, os bydd angen hyny; cynhesrwydd wrth y traed, a poultice bran poeth wrth y frest. Dylai y corff gael ei faddio yn achlysurol â dwfr cynes a carbonate of soda. Y mae cyfogllyn yn werthfawr i symud yr afiechyd hwn; sef, pedwar grain o ipecacuana powder, mewn ychydig o ddwfr cynes, bob ngain munud, hyd nes y byddo cyfog wedi ei achosi. Rhoddwch beth eilwaith os bydd yn angenrheidiol. NEU, lobellia, 3 dram; ipe-

cacuanta, 4 dram; pupur cayenne, haner dram. Powdrwoli a chymysgwch. Cymerer llon'd llwy dê mewn tê camomile, bob ugain munud, hyd nes y pera gyfog. Gellir esmwythau *diffyng anadl* trwy arogl yr agerdd oddiwrth ddail chwerwon wedi eu berwi, neu hyd yn nod ddwfr poeth. Dylid rhoddi meddyginiaeth i gynyrchu chwys, a rhoddi rhywbeth i leddfu y peswch os bydd yn boenus. Y mae y cymysgedd canlynol yn dda:—Ipecacuana wine, 1 dram; aromatic spirits of ammonia, 2 dram; carbonate of potash, 1 dram; dwfr, 8 owns; ac os bydd y peswch yn enynol, ychwanegwch 1 grain o acetate of morphia—cymerwch ddwy lon'd llwy fwrdd bob pedair awr. NEU, cymerwch almond oil, haner owns; solution of carbonate of soda, haner dram; syrup of tolu, un owns; dwfr, chwe' owns. Cymysgwch, a chymerwch ddwy lon'd llwy fwrdd bob tair neu bedair awr. Rhaid cadw y coluddion yn agored.

BRYCHNI.—Mae llawer o bethau wedi eu cymeradwyo fel cyfferiau i symud brychni, ond y mae y rhan fwyaf o honny yn dra niweidiol i'r croen; moddion syml a diberygl iawn ydyw swm cyfartal o glycerine pur a rose water, a'u cymhyso bob nos, a gadael iddynt sychu ar y croen. Y mae y cymysgedd canlynol yn ddiniwaidd: 1 dram o sal-ammoniac, wedi ei doddi mewn peint o ddwfr ffynon, ac ychwaneger ato chwarter owns o eau de cologne; cymhwyswch nos a boreu.

BYDDARDOD.—Dail fox-glove wedi eu curo yn dda; cymysgwch y sudd gyda swm dwbl o frandi; cedwch at wasan-aeth. Diferwch un diferyn o hono i'r glust unwaith yn y dydd, a chedwch yn y glust yn wastadol dlarn o gotwm wedi ei wlychu ynddo.—NEU, glanhewch y glust yn lân a dwfr cynes, sychwch, yna gwlychwch gotwm mewn glycerine, a dodwch yn y glust, gan ei symud yn ol ac yn mlaen, nes iro pob rhan o honi yn llwyr.—NEU, chwysdrellwch y clustiau yn dda a llaeth cynes ac olew; yna cymerwch opodeldoc, ac oil of almonds,  $\frac{1}{2}$  owns o bob un, a chymhwyswch gyda cotwm. NEU, cymerwch wlan du, esmwyth, gwlychwch mewn *camphorated oil*, a dodwch

yn y glust; fel y byddo yn sychu, irwch eilwaith; a chedwch yn mlaen felly am bythefnos neu dair wythnos.

*Byddardod oddiurth anwyd.*—Cymerwch dri diferyn o fustl dafad (*sheep's gall*), twymwch mewn llwyarian uwchben canwyll, a diferwch i'r glust wrth fyned i'r gwely. Rhaid chwysdrellu y glust yn y boreu gyda dwfr sebon cynes. Rhaid cymhwyso y bustl am dair noswaith olynol. Profwyd y feddyg-iniaeth hon lawer gwaith yn effeithiol.

*Bystwng (Felon).*—Enyniad poenus ar y bysedd, y bawd, neu y llaw. Mae yn aml wrth wraidd yr ewin. Dyma gynghor i'w wella mewn chwe' awr, os bydd o darddiad diweddar:—Venice turpentine, 1 owns; ychwanegwch haner llon'd llwy dê o ddwfr, a throwch gyda darn o bren hyd nes yr edrycho y cymysgedd yn debyg i fêl, yna taenwch drwch da ar lian, a lapiwch am y bys. Os diweddar y ffurfiwyd y bystwng, bydd i hwn symud y boen mewn 6 awr. Neu, cymerwch gareg las a hellebore root, swm cyfartal, berwch mewn laeth a dwfr, yna dodwch y bystwng ynddo am 20 munud, mor boeth ag y gellwch ei oddef, a rhwymwch y gwreiddyn wrth y lle am awr. Mae hwn wedi gwella llawer bystwng, ond ei ddefnyddio mewn pryd. HEFYD, mae pwlitis o glai, wedi ei wneyd a'i gadw yn wlyb gyda spirits of camphor, yn dda.

*Enaint Bystwng.*—Cymerwch sweet oil  $\frac{1}{2}$  pint, a stiwiwch  $\frac{1}{2}$  owns o dybaco ynddo hyd nes y byddo y tybaco yn gras; yna gwasgwch ef allan, ac ychwanegwch red lead, 1 owns, a berwch hyd nes y byddo yn ddu; pan wedi oeri ychydig, ychwanegwch owns o pulverized camphor gum.

*Enaint arall.*—Dywedir y gwna enaint wedi ei wneyd trwy losgi llonaid llwy fwrdd o gopras, ei bowdro, a'i gymysgu â melyn wŷ, esmwythau y boen mewn 24 awr; yna defnyddier cymysgedd o hufen a sebon meddal i wella y briw. Cymhwyser yr enaint yn ddyddiol, ar ol mwydo y man dolurus mewn dwfr cynes.

*CALCH YN Y LLYGAI.*—Baddiwch yn dda gyda finegr a dwfr cynes, er gwneyd y calch yn aneffeithiol. Haner

owns o finegr at haner peint o ddwfr. Cedwch orchudd dros y llygaid.

*CANCER (Dafaden Wyllt).*—Sydd chwydd caled, yn gyffredin yn dechreu yn môn y breichiau, llygaid, gwefusau, tafod, croth, neu fronau benywod. Mae yn fwy tueddol i ymosod ar yr hen na'r ieuangc, a gall fod am flynyddau yn ymfurfo. Dechreu yn chwydd caled bychan, yn cynyddu yn raddol, ac yn cael ei ddilyn â phoenau ymsaethol; yn fuan neu yn ddiweddar dechreu llynoriad. Mae y sylwedd a reda o'r llynoryn o'r fath natur fel yr enyna bobpeth ddaw i gyffyrddiad ag ef. Pan yn llynori neu yn tori allan pera esinwythâd am dro, ond treiddia y cancer yn ddyfnach, ac ymleda yn gyflym, gan wenwyno ffrydiau bywyd, darostwng y dyoddefydd i wendia mawr, ac yn anil yn terfynu yn angeuol.

*I'w wella.*—Symud y gwendid, a cheisier ategu a chryfhau yr iechyd cyffredin. Rheoleiddiwch y coluddion, a rhoddwch gyfogiyn (*emetic*). Rhoddwch fadd wedi ei wneyd o lysiau chwercw, megys camomile, hops, catrep, tancy, &c., gyda dwfr berwedig a finegr. Rhwbiwch yr holl gorff yn achlysurol â'r enaint canlynol:—Cayenne, llon'd llwy dê; halen, dwy lon'd llwy fwrdd, tywelltwch arnynt haner peint o ddwfr berwedig; gadewch i sefyll am awr, gan eu troi yn achlysurol. Mae golchi y corff â'r trwyth uchod yn gostwng y chwydd, ac yn symud y boreu. Bydd y peleni canlynol yn wasanaethgar: blood-root, 1  $\frac{1}{2}$  dram; extract of dandelion, 3 dram; hâd lobelia, 1 dram; cayenne, 1 dram; senna, yn bowdwr, 1 dram; ychwanegwch 3 diferyn o oil of mint, a ffurfiwch yn beleni.

*Citric Acid* fel meddyginiaeth. Bydd iddo esmwythau y boen. Yr oedd gan Dr. Brandini, Florence, glaf 71 mlwydd oed, dan ei ofal, yn cael ei boeni gan gancer ar ei dafod. Yr oedd yn annhosibl ei dori ymaith, trwy fod yr afiechyd wedi ymledu gormod. Yn nghanol ei boenau gofynodd y truan am lemon. Esmwythaodd y boen; a dranoeth rhoddodd iddo fwy o esmwythad. Arweiniodd hyn y meddyg i roddi prawf ar *citric acid*; 4 grain o'r acid mewn 4 owns o ddwfr; a darfu i hwn,

trwy ei ddefnyddio fel *gargle*, gario y boen ymaith yn llwyr, a gostyngodd lawer ar y chwydd. Rhoddodd y meddyg brawf ar yr un feddyginiaeth ar ferch a cancer drwg iawn ar ei bron, yr hwn a ystyrir yn anfeddyginiaethol. Yr oedd ei phoenau mor llym, fel nad allai hi, na'r cleifion ereill gael dim gorphwysfa. Cymhwysodd blyg o lint wedi ei wlychu yn y cymysgedd uchod; a chafodd esmwythad ar unwaith. Mae y feddyginiaeth yma yn debyg o fod o wasanaeth mawr i ddydolryw.

*Meddyginiaethau allanol.*—Lledferwch cicota leaves hyd nes y byddont yn dyner, yna cymysgwch hwy a slippery elm bark, i ffurfio pwltice; cymhwyswch foreu a nôs. Mae yn werthfawr. NEU. Cayenne a Lobelia Seed, yr un faint, wedi powdro; blagur Balm o Gilead a Meadow-fern, 3 owns o bob un (gwneuler y rhai hyn yn eli gyda lard, ar ol iddynt fod mewn spirits am 5 neu 6 diwrnod). Unwch yr oil fel pâst, a chymhwyswch at y cancer, gan ei orchuddio a lian. Ar ol cymeryd y plastr ymaith golcher a dwfr a sebon. NEU, llosgwch swm o risgl coch derw yn lludw, a gwnewch yn drwyth. Berwch y trwyth hyd nes byddo mor dew a mêl. Yna cymhwyswch yn wastadol. Gwna y cymhwysiadau hyn lawer at ostwng y chwydd, ac yn aml welliant hollol.

*Plastr Cancer.*—Barc derw gwyn, 4 owns; briwiwch yn dda, ac ychwanegwch ddigon o olch i'w orchuddio. Gadewch iddo sefyll am bedwar diwrnod, a berwch nes y byddo mor dew a thriagl. Ychwanegwch 2 owns o fêl, a 2 owns o turpentine gum wedi ei ystreinio. I wneyd y plastr hwn yn losgol, ychwanegwch 2 dram o vitrol gwyn. Taenwch ar ledr esmwyth, neu lian.—Mae hwn yn blastr gwerthfawr at bob math o chwyddiadau, yn enwedig cancer.

CUR YN Y PEN.—Dyma feddyginiaeth syml ac effeithiol. I beint o ddwfr diferwch lwmp o galch poeth, oddeutu maint cneuen ffreinig; gadewch iddo sefyll trwy'r nôs, yna tywelltwch y dwfr oddiarno heb gyffwrdd a'r gwaelodion, ychwanegwch chwarter peint o'r finegr goreu, a golchwch y pen a'r cymysgedd. Mae yn

holloll ddiniwiad; na wlycher ond gwreiddiau y gwallt.

*Eli at symud cên o benau plant.*—Lard, 2 owns; sulphuric acid gwan, 2 dram; cymysgwch a'u gilydd, ac eneinwch y pen unwaith yn y dydd.

CHWYDD GWYN (*white swelling*).—Anhwyldeb poenus hynod; mae yn du eddol o ymosod ar y glin; weithiau y cymalau ereill. Dechreuau yn boen llym mewn rhyw ran o'r cymal; yna dechreuau chwyddo yn gyflym; ac yn aml tora allan yn friwiau. Cymeradwya Dr. Beach y feddyginiaeth ganlynol:—oil of hemlock: oil of sassafras, gum camphor, tincture of opium,  $\frac{1}{2}$  owns o bob un, a pheint o spirits of wine. Pan wedi toddi a'u cymysgu yn briodol; baddiwch y lle yn aml a'r cymysgedd.—Yna cymhwyswch bwltice bran a blawd ceirch, ac ychydig charcoal powdredig, halen, a cayenne pepper, wedi eu cymysgu ag ef. Os bydd y boen yn llym iawn, diferwch  $\frac{1}{4}$  owns o laudanum ar y pwltice. Cadwch arno hyd ag y gellwch, ac yna dodwch uwch ben dwfr poeth. NEU, cymerwch wyn wÿ, a churwch ef gyda llon'd dwy lwy fwrdd o ddwfr ffynon; rhwbiwch y lle dolurus yn dyner a'r bys. NEU, daliwch y lle bob boreu o dan y sugnedydd (*pump*). Gwellha hwn bob math o boen yn y cymalau. Profwyd.—NEU, Tywelltwch arno ffrwd o ddwfr cyne bob dydd.—NEU, Ffrwd o ddwfr cyne un diwrnod a dwfr oer y diwrnod arall, ac felly o hyd bob yn ail. Dylid arfer y feddyginiaeth yma mor fuan ag y teimlir y boen. Da ydyw rhoddi meddyginiaeth i ryddhau y corff.

CHWYDDIADAU.—*Pwltice rhagorol.*—Cymerwch 6 owns o flawd haidd neu geirch; 2 owns o ddail Hemlock; finegr, swm digonol; berwch yn nghyd am ychydig funudau. Mae yn rhagorol at ostwng chwydd o bob math.

CHWYSIGENOD AR DRAED.—Cyn ac ar ol cerdded, golchwch y traed yn dda a Sal-Ammoniac—hanner owns mewn dau chwart o ddwfr. Bydded i'r hosanau orwedd yn esmwyth am y traed, ac heb lawer o ol trwsio arnynt. Dylai yr esgidiau fod yn esmwyth ac ystywyth. NEU, Rhwbier y traed wrth fyned i'r gwely gyda spirits a gwêr

wodi diferu oddiwrth ganwyll oleuedig i gleder y llaw.

**CHWYSIGENOD YN Y GENEU.**—Achosir y chwysigenau hyn yn gyffredin gan gyflwr anhwylyus yr ystumog, ond yn achlysurol gan ymyl arw dant pydredig. Mae y chwysigenod weithiau fel yspotiau gwynion bychain ar y tafod. Gwelir hyn yn aml mewn babanod pan yn sugno, ac y mae yr afiechyd yn agored i gael ei gario o enau y plentyn i ben bron ei fam. Pan achosir y chwysigenod gan anhwylddeb yn yr ystumog, bydd i ddwy neu dair llwyaid o'r cymysgedd canlynol, trwy ei gymeryd bob yn ail neu drydydd boreu, eu symud:—Rhubarb wedi ei bowdro a bi-carbonate of soda, 2 dram o bob un; infusion of rhubarb a gentian, 4 owns o bob un. Cymysgwch. Pan yn cael eu hachosi gan ymyl dant pydredig, rhaid symud y dant neu lyfnhau ei ymyl. Dylai plant yn dyoddef oddiwrtho, gael paentio eu geneau gyda *gargle* wedi ei wneyd o borax, 2 dram; a glycerine, 1 owns. Defnyddier camel hair brush bychan at baentio.

**CHWYSU YN ORMODOL.**—Dwfr ffynon, 2 owns; sulphuric acid gwan, 40 diferyn; compound spirits of lavender, 2 dram; cymerwch lon'd llwy fwrdd ddwywaith yn y dydd.

**CHWYSU YN Y NOS.**—Cymerwch essence of tansy,  $\frac{1}{2}$  owns, alcohol,  $\frac{1}{2}$  owns; dwfr,  $\frac{1}{2}$  owns; quinine, 15 grain; muriatic acid, 30 diferyn; cymysgwch. Dogn—llon'd llwy dē mewn chwarter peint o dē sage oer. Dylid ei gymeryd ddwy neu dair gwaith yn ystod y dydd, ac wrth fyned i'r gwely; gan yfed tē sage yn aml.

**CLAFR.**—*Florod clafrillyd.*—Dodwch ychydig ddyrneidiau o ferw'r dwfr wedi eu briwio, mewn haner peint o laeth. Berwch yn araf ar y tân nes y byddont o liw gwyrdd; baddiwch y man dolurus â'r trwyth hwn, a rhwbiwch wrth y tân. Yna eneinwch ag eli syml.

*Gums clafrillyd.*—Cymerwch bole ammoniac, 2 dram; myrr, 1 dram; roche alum,  $\frac{1}{2}$  dram; claret, haner peint. Berwch uwch tân araf. Ystreiniwch. Golchwch y geneu ag ef lawer gwaith yn y dydd. NEU, Golchwch hwy bob dydd a thrwyth Peruvian bark,

gan ychwanegu ychydig tincture of rosemary, gyda myrr gwlyb.

**CLAIS NEU YSGIAD.**—Pan fydd y clais yn ffres ac heb fod yn ddrwg iawn, golcher ef â'r cymysgedd canlynol:—Extract of lead, 2 lon'd llwy dē; dwfr meddal, 6 owns; finegr, 2 owns. Os bydd y clais yn agos i'r llygaid, na ddefnyddier y finegr, nac ychwaith os bydd y croen wedi rhisglo ymaith.—NEU, Mindererus's spirit, 6 owns; Hungary water, 2 owns: cymysgwch. Pan y byddo llawer o dduwch, chwydd, a phoen, gellir defnyddio y cymysgedd canlynol: crudō sal ammoniac, 3 owns, finegr, brandi, a dwfr meddal, haner peint o bob un.

**CLEFYD MELYN** (*Jaundice*).—Adnabyddir yr afiechyd hwn oddiwrth felyndra y llygaid, y croen, a'r dwfr.—Cymerwch geiniogwerth o Allspice; yr un faint o flower of brimstone, a turmeric; y pethau hyn i gael eu cymysgu yn nghyd yn dda, ac wedi hyn y gael eu cymysgu â haner pwysodriagl. Dwylon'd llwy fwrdd i'w gymeryd ddwywaith yn y dydd. NEU, cymerwch bilsen fechan o Castile Soap bob boreu am wyth neu ddeg diwrnod. *Profwyd.*—NEU, curwch wyn wŷ yn deneu; cymerwch efforeu â hwyr mewn gwydriad o ddwfr.—NEU, Trwyth danad poethion foreu a hwyr. Haner peint bob tro.

*Gwellhad Dr. Peabody.*—Red iodide of mercury, 7 grain; iodide of potassium, 9 grain; dwfr wedi ei ddistyllio, 1 owns; cymysgwch. Dechreuwch trwy gymeryd 4 dropyn tair neu bedairgwaith yn y dydd, gan gynyddu y dogn un diferyn bob dydd hyd nes y byddo y dogn wedi cyraedd 12 neu 15 diferyn. Rhoddwch mewn ychydig ddwfr yn uniongyrchol ar ol bwyta. Os achosa boen yn y cylla, neu dyndra yn y pen ar ol cyraedd 12 neu 15 diferyn, ewch yn ol i 6 diferyn, ac i fyny drachefn.

*Clefyd Melyn ar blant.*—Cymerwch haner owns o rhubarb wedi ei bowdro; cymysgwch ag ef, trwy eu curo yn dda, ddwy lon'd llaw o gurrants wedi eu glanhau: rhoddwch lon'd llwy dē bob boreu.

**CLWYFAU.**—Cymhwyswch sudd neu bowdwr llysieu gwaedling (*yarow*). NEU, Rhwymwch ddail eiddew'r ddaear



(ground-ivy) wrtho. NEU, wood-betony wedi ei friwio. Mae hwn yn gwella hyd yn nod wythienau toredig yn fuan, ac yn tynu allan ddrain, &c.

*Briwiau, I'w rhwystro i fadru.*—Lluchiwech siwgr ar hyd-ddynt, neu blood-root powdredig.

*Briwiau pydredig.*—Golchwch lwy foreu a hwyr â thrwyth cynes o agrimony. Os byddant yn gwella yn rhy fuan, a sylwedd yn casglu oddi tanodd, cymhwyswech bowltis o'r dail wedi eu curo; gan ei newid unwaith yn y dydd nes y byddo yn iach.

*Briwiau, I'w rhwystro i waedu.*—Hyd y gellir cymerer y cadach poced, neu rwymyn, a dodwch am yr aelod rhwng y clwyf a'r galon, a rhwymwch yn dyn. NEU, Cymerwch lint, gwnewch yn belen, a dodwch yn dynarenau y clwyf.

CLWYR BRENIN.—Gwel *Manwynau*.

CNOI YR EWINEDD.—Dylid rhwystro y plant i arfer cnoi eu hewinedd, gan y bydd iddynt os gadewir hwynt eu hanffurfio. Bydd gwlychlu penau yr bysedd mewn rhywbeth chwerw yn gyffredin yn ddigon i beri iddynt beidio eu doddi yn y genau; ond os ffaela hyny, dylid rhwymo llian am bŵnau y bysedd hyd nes y bydd y duedd at wneyd hyny wedi darfo.

COESAU DRWG A RHEDEGOG.—Golchwch hwy a brandi, a chymhwyswech ddail yr ysŷawen, gan eu newid ddwywaith yn y dydd. Bydd i hwn sychu yr holl friwiau pa mor ddrwg ac amlbynag y byddont.—*Profwyd.*—NEU, Rhoddwch bowltis o afalau pydredig wrthynt. *Profwyd.* Cymerwch feddyginiaeth ryddhaol unwaith neu ddwy yn yr wythnos.

COLERA.—*Rheolau neillduol er atal y Colera* :—

i. Yr ydym yn argymhell yr angenrheidiwrwydd, yn mhob achos o golera, i geisio cymorth meddygol ar unwaith.

ii. *Bydded* i bob person dalu sylw uniongyrchol i unrhyw anhwylder yn y cylla. Gall hyny gadw y colera draw.

iii. *Bydded* i bob *anmhuredd*, anifeilaidd a llysiueol, gael ei symud ar frys oddiwrth y tŷ, a gwneyd pob man mor lân ag y gellir.

iv. *Bydded* i bob *ffosydd* agored gael eu glanhau yn aml a gofalus.

v. *Bydded* i *ffosydd* agored gael eu gwneyd i gario ymaith bob budreddi oddiwrth y tŷ.

vi. *Bydded* i bob *rhwystro* i awyriaf priodol pob ystafell yn y tŷ i gael ei symud yn ddiwed.

vii. *Bydded* i bob *ystafell* yn y tŷ i gael ei hawyru yn ofalus bob dydd; gwneler hyny tua haner dydd, trwy fod yr awyr yn sych yn gyffredin y pryd hyny.

viii. *Gocheler gor-flinder*, a gosod eich hun yn agored i leithder ac oerni, yn enwedig yn ystod y nos.

ix. *Gocheler* pob math o ddiodydd oerion a surion, yn enwedig pan fyddoch wedi blino, neu y corff yn boeth.

x. *Na fwytaer* ffurwthau oerion a sur.

xi. *Gocheler* pob arferiad gormodol o ddiodydd meddwol a thybaco.

xii. *Gocheler ymborth sal*, a dwfr amhur i'w yfed neu at ddibenion cogyddiaeth.

xiii. *Gocheler gwisgo dillad gwlybion*, a rhy ychydig o ddillad.

xiv. *Gwisger gulanen* am y canol.

xv. *Arferer pob glendid personol* yn ddichonadwy.

xvi. *Symuder* pob achos o iselder corff neu feddwl.

xvii. *Gocheler* cysgu mewn ystafelloedd isel a llraith.

xviii. *Na fydded* i ormod o bersonau gysgu yn yr un tŷ neu ystafell.

ENGLISH COLERA. — Ymosoda yn sydyn mewn rhyddni a chyfogiad, a phoen llym yn y cylla. Mor fuan ag y dangosa yr arwyddion eu hunain, rhodder i'r claf y \* *Neutralizing Mixture*. Os cyfogir ef allan, rhodder dogn eilwaith, a bydd iddo effeithio cyfnewidiad yn fuan. Llesiol ydyw baddio y traed mewn dwfr poeth a halen; gellir atal y cyfog trwy roddi halen mewn

\* Gwneir y *Neutralizing Mixture* fel hyn :—Rhubarb wedi ei bowdro. 3 scruples; saleratus, neu crude bi-carbonate of potash, 3 scruples; y planhigyn peppermint wedi ei bowdro, 3 scruples; dwfr berwedig,  $\frac{1}{2}$  pint; trwyth aniseed,  $\frac{1}{2}$  pint. Cymysgwch, streinwch, melyswch a siwgr, ac ychwanegwch ddwy lon'd llwy fwrdd o frandl. Meddyginiaeth effeithiol yn mhob achos o golera, rhyddni, poenau yn yr ymysgaroedd, &c. Dylai fod potelaid dda o hono bob amser yn mhob tŷ.

finegr neu frandi i'r claf. I esmwythau y boen, rhwbier y bol a'r frest gyda'r pethau canlynol: cayenne pepper,  $\frac{1}{2}$  owns; spirits of wine,  $\frac{1}{2}$  pint; finegr, chwarter pint. Twymwch am fynyd neu ddau; yna ychwanegwch lon'd llwy dê o tincture of opium; a dwy lon'd llwy fwrdd o turpentine. Rhoddwch wlanen ynddo, a dodwch wrth yr ystumog yn boeth. Dwfr oddiar fara wedi ei grasu ddylai y ddioid fod.

**ASIATIC CHOLERA.**—Yr un driniaeth a'r *English Cholera*, ond yn fwy egniol. Rhoddwch y *Neutralizing Mixture*; a golchwch y dyoddefydd yn dda gyda'r cymysgedd canlynol: — Bogberry, 3 dram; scull-cap, 1 dram; slippery elm, 1 dram; dwfr berwedig,  $\frac{1}{2}$  pint. Gadewch iddo sefyll mewn lle cynes am ddeg mynyd; yna ychwanegwch ddwy lon'd llwy dê o tincture of myrrh, 8 diferyn o laudanum, a llon'd llwy dê o carbonate of soda. Cymhwyswch mor boeth ag y gellir ei oddf. Rhwbiwch yr aelodau yn dda hefyd; neu cymhwyswch frics poethion, wedi eu lapio mewn gwlanen wedi ei rhoddi mewn finegr, at y traed, coesau, a'r ochrau.

*Anti-cholera Mixture.* — Meddyginiaeth werthfawr rhag y colera: — Tonmentil root, 1 owns; bayberry bark, 1 owns; cayenne pepper,  $\frac{1}{4}$  owns; carbonate of soda,  $\frac{1}{4}$  owns. Berwch yn araf am ddeugain mynyd mewn tri pheint o ddwfr nes y byddo wedi myned yn chwart. Ystreiniwch, ac ychwanegwch tincture of myrrh, 2 owns; ac 1 dram o camphor, wedi eu dodi mewn spirits of wine. Pan ymosoda y colera y tro cyntaf, rhoddwch lon'd gwin-wydr; dodwch y traed mewn dwfr poeth a halen, neu fwstard a dwfr, a rhoddwch y *mixture* bob ugain mynyd, a rhoddwch blastr mwstard, a'r powltis hops wrth yr ystumog. Rhwbiwch yr aelodau dirdynedig a cayenne pepper a finegr; a bydd yr effeithiau daionus yn foddhaol a chyflym. Mae y driniaeth yma wedi meddyginiaethu miloedd.

**COLIC.**—Colic syddanhwylddeb crampiol yn y coluddion. Dechreu y boen arteithiol yn yr ymysgareodd a'r coluddion, cyfog a thafu i fyny. Mae y boen yn llym a dirdynol. Achosir

yr afiechyd hwn gan wynt, ymborth anmhriddol, bile sur, rhwymder, llyngyr, &c.

*Colic gwyntog.* — Rhoddwch lon'd cwpan tê o'r *\*Anti-Spasmotic Tincture*, mewn cwpanaid o dê pepper-mint; neu lon'd llwy dê o turkey rhubarb, ac un o fagnesia, gyda phinsiad o cayenne pepper; bydd i hwn yn aml roddi esmwythder. Rhwbiwch waelod y bol yn dda. Os na fydd y corff yn agored, rhoddwch castor oil, o haner owns i owns.

*Bilious Colic.* — Mae hwn yn fwy llym. Adnabyddir ef oddiwrt y blaenaf trwy chwerwder yn y geneu, syched mawr, gwres, tafu i fyny, poen yn y pen, a rhwymder. Bydded y feddyginiaeth yr un peth, ond yn gryfach. NEU, Yfwrch lemonade poeth. Dywed un meddyg na welodd ddim yn debyg i'r feddyginiaeth syml yma. NEU, Rhoddwch lwyaid o sweet oil bob awr. Gwellhawyd un ar fin marw trwy gymeryd yr oil.

*Cynghorion Wesley rhag y Colic.* — Yfwrch ddwfr camomile cryf a tê ginger. — NEU, o 30 i 40 diferyn o oil of aniseed. — NEU, Cymhwyswch yn allanol gydaid bach o geirch poeth, neu fran. — NEU, Dodwch y coesau mewn dwfr poeth. — NEU, Cymerwch ddigon o *Daffy's Elixir* i weithio. Pur effeithiol.

**COLYN GWENYN NEU GACWN.** — Mae y colynau hyn yn dra phoenus, ond nid ydynt yn beryglus i bersonau iach, oddigerth yn y geneu, gwddf, neu amrant. Gadawa y wenynen ei cholyn yn y clwyf; tynwch ef allan yn ofalus, a rhwbiwch y lle a swm cyfartal o olive oil a hartshorn; cymeradwyir *Goulard's lotion* hefyd at yr un pwrpas.

*Meddyginiaeth Newydd.* — Dywedir fod rhwbio darn o wynwyn cyffredin ar y clwyf, neu os yn y gwddf, ei gnoi yn araf a llyngcu y wynwyn, yn feddyginiaeth sicr. Pigwyd gwraig yn Llundain yn ei gwddf trwy i'r gacynen fyned i'w geneu mewn cwrw yfai. Dechreuodd gnoi wynwyn ar unwaith, ataliwyd y

\* Gwneir yr *Antispasmodic Tincture* fel hyn: — tincture of lobelia, 1 owns; tincture of cayenne, 1 owns; compound tincture of lady's slipper,  $\frac{1}{2}$  owns; oil of aniseed, 20 diferyn. — Meddyginiaeth werthfawr yn mhob achos o dwymyn, cryd, colic, gwyntogwydd, &c. Dylai potelaid o hono fod yn mhob tŷ.

chwyddl yn ebrwydd, a pheidiodd y boen yn fuan.

**CONVULSIONS AR BLANT** (*Dirdyniad-  
au ar blant*).—Dechreu a mewn rhyw  
anhwylddeb yn y coluddion, ystumog,  
ymenydd, neu oddiwrth y dannedd.  
Rhoddwch feddyginiaethryddhaol, megis  
Magnesia neu rhubarb, a badd cynes, a  
chymwyswch lian wedi ei wlychu ynddo  
at y pen. Mae y powdwr canlynol yn  
ddefnyddiol:—Rhubarb yn powdwr, 8  
grain; super-sulphate of potash, 12  
grains. Cymysgwch. Rhoddwch hefyd  
ychydig syrup of poppies. Cyfyd con-  
vulsions yn aml oddiwrth ormodedd o  
fwyd; dylid gochelyd hyn. Os cy-  
merwyd bwyd annhreuliol, rhoddwch  
gyfogleyn, sef ipecacuanha wine. Os  
bydd y dirdyniadau (*convulsions*) yn  
boenus, rhwbiwch y *spine* yn dda pan  
fo'r plentyn yn y badd; neu pan allan o  
hono gyda cymysgedd o 10 diferyn o  
laudanum, 10 diferyn o olew, a 6 dife-  
ryn o tincture of cayenne. Gellir cy-  
mhwyso plastr mwstard am fynyd neu  
ddau at y coesau a'r traed. Os achosir  
y convulsions gan y dannedd, dylid  
lansio ychydig ar y gums.

**CRAMP**.—Rhwbiwch y lle a effeithir  
yn dda. Cymeradwyir dogn o camphor-  
jalap wrth fyned i'r gwely. Estyner y  
swadd allan mor bell ag y byddo yn  
bosibl, gan blygu y bysedd tuag i  
fewn. Dylai personau tueddol i'r cramp  
gysgu ar fatras, a bod yn ofalus wrth  
fwyta ac yfed, oblegid cyfyd yn aml  
oddiwrth dreuliad amherffaith neu  
wan. Bydd i lian wedi ei wlychu  
mewn dwfr poeth a'i gymhwyso at y lle  
roddi rhyddhad uniongyrchol. Dylai  
personau tueddol i'r cramp gadw yr  
aelodau isaf yn gynes, gan olchi y traed  
yn achlysurol mewn dwfr poeth cyn  
myned i'r gwely. Gofaler am gadw y  
corff yn rhydd.

*Cramp yn yr ystumog*.—Rhwbiwch  
yr ystumog yn dda ar unwaith; badd-  
iwch y traed mewn dwfr poeth. Weith-  
iau y mae tē peppermint cryf yn effeith-  
iol; os na bydd, rhoddwch fricsan boeth  
wedi ei lapio mewn gwlaneni wedi eu  
gwlychu mewn finegr wrth yr ystumog.  
NEU, Cymwrwch yn uniongyrchol  
lon'd llwydê o sal-volatile mewn dwfr  
cynes.

*Cramp wrth ymdrochi*.—Cymeradwya  
Dr. Franklin i'r dyoddefydd i roddi ys-  
gydwad cryf a sydyn i'r fan a effeithir,  
trwy estyn allan y goes, yr hon a ddylid  
godi o'r dwfr os gellir.

*Pils rhag y cramp*.—Camphor, 1  
dram; spirits of wine, 1 dram; todd-  
wch ac ychwanegwch opium, 10 grain;  
confection of roses i'w wneyd yn does.  
Cymysgwch, a rhanwch yn 24 o bils.  
Cymwrwch un bob nos.

**CRIPADAU**.—Na fydded i chwi eu  
hesgeuluso. Golchwch yn aml mewn  
dwfr oer; a chauwch hwy gymaint ag  
a alloch, a gorchuddiwch hwy a phlastr  
diachylon. Os bydd enyniad ynddynt,  
cymhwyswch atynt bowltis bara, neu  
bowltis slippery elm.

**CROEN**.—*I'w lanhau oddiwrth ys-  
botiau duon neu gynron y croen*.—Y  
ffordd oreu yw eu gwasgu allan; neu  
olchi y croen a llaeth a flower of brim-  
stone wedi eu cymysgu yn dda. Cy-  
mhwyso plastr enaint elder-flower yn y  
nôs. Mae sudd horse-radish mewn  
llaeth yn dda.

**CROUP** (*Crygwst*).—Mae yr afiechyd  
hwn ar blant yn beryglus; dilynir ef  
gan enyniad y bibell wynt, ac anhwyld-  
deb cyhyrau y gwddf, gan achosi sŵn  
neillduol, anhawdd ei ddarlunio, ond  
eithaf adnabyddus i'r fam; peswch, an-  
hawsdra i anadlu. Coda y crach boer  
(*phlegm*) yn y gwddf, ac atalia yr an-  
adlu yn boenus.—Y peth cyntaf ddylid  
wneyd ydyw cael dwfr poeth yn barod  
mor fuan ag y gellir, a chyrchu potelaid  
o emetic tincture, wedi ei wneyd o swm  
cyfartal o lobelia a blood-root tinctures.  
DOGN (*dose*)—yn ol oedran y plentyn;  
os 2 flwydd oed, oddeutu llonaid llwy  
dê oddeutu pob 10 neu 15 munud hyd  
nes y tafla i fyny yn rhwydd; os 5  
mlwydd oed, dwylon d'llwy dê, ac i fyny  
yn ol yr oedran hyd lon'd llwy fwrdd i  
blentyn 10 oed, a lleihau i blant ieuainge  
iawn, dyweder o 4 i 8 mis oed, i 8 neu  
10 diferyn yn unig. Dodwch y traed  
mor fuan ag y gellir mewn dwfr poeth,  
a chedwch hwy yno hyd nes y cymero  
chwydiad le, a dodder llineiniau wedi eu  
gwasgu o ddwfr poeth, ar y ddwyfron  
a'r gwddf, gan eu newid yn ddiagon aml  
i'w cadw yn boeth. Boreu dranoeth  
rhoddwch feddyginiaeth i ryddhau y

corff yn dda. Dylid rhoddi yr emetic tincture mewn tē poeth. Ond rhoddi y meddyginiaethau hyn yn brydlon, a pharhau i'w rhoddi, byddant yn lled sicr o brofi yn effeithiol. Dylai pob mam yn magu plant gadw yr emetic tincture yn y tŷ yn wastad.

*Enaint rhag y Croup.*—Cymerwch o suet mutton a lard glân,  $\frac{1}{2}$  pwys o bob un; spermaceti tallow,  $\frac{1}{2}$  owns; toddwch yn nghyd ac ychwanegwch haner peint o'r finegr goreu, a berwch ef yn araf hyd nes y byddo y finegr bron wedi wastio yn llwyr, a'i skimio a'i droi yn dda yn aml, hyd nes y byddo yn dechreu gronynu; yna ychwanegwch oil of amber a spruce a sugar o lead wedi ei falurio,  $\frac{1}{2}$  owns o bob un; cymerwch oddiar y tân a throwch hyd nes y byddo yn oer. DOGN.—I blentyn dwy flwydd oed, rhoddwch haner llon'd llwy dé bob haner awr, hyd nes y byddo wedi cael rhyddhad, neu hyd nes y cyfoga; a rhwbier ef ar yr un pryd ar hyd y ddwyfnon a'r gwddf yn dda.

CRUGDARDD (*shingles*).—Afiechyd y croen; tarddiadau blinion ar ranau o'r corff, yn gyffredin y dwylaw, ac weithiau yngasgla yn spiciau gwahanol oddeutu y canol, gan orchuddio haner cylch y corff. Rheda sylwedd anymunol o'r tarddiadau. *Triniaeth.*—Cedwch y corff yn agored trwy gymeryd black draught a seidlitz powder; cymerwch gymysgedd o sarsaparilla. Rhoddwch hefyd fadd o ddail chwerwon, ac yna rhwbiwch y corff a'r \**Stimulating Liniment*. Mae enaint Celandine yn dda; os bydd y costi yn boenus, cymhwysier ef at y fan.

CRUD (*Ague*).—Yr achos o hono yw gwendid, neu y drygsawr afiachus sydd yn cyfodi o ddwfr llonydd neu gorsydd. Yn uniongyrchol ar ol i un gael ei daro a'r afiechyd dylid ei ddodi rhwng dwy flanced, ac iddo yfed cymaint ag a allo o water gruel neu barley water. Dylid

\* Gellir gwneyd y *Stimulating Liniment* fel hyn:—Cayenne,  $\frac{1}{2}$  owns; halen, llon'd llwy fwrdd; spirits of wine, 2 owns; camphor,  $\frac{1}{2}$  owns; spirits of turpentine,  $\frac{1}{2}$  pint. Potelwch, ac ysgydwch yn dda yn awr ac eilwaith am ddiwrnod. Yna ychwanegwch  $\frac{1}{2}$  peint o finegr.—Mae yn rhagorol i rwbio y corff ag ef mewn achos o boen, gwendid, enyniad, gout, dolur gwddf, neuralgia, &c.

rhoddi o 20 i 30 diferyn o laudanum neu ychwaneg, cyn i'r ffit ddechreu. Troa yr ewinedd yn leision cyn i'r ffit ddechreu. Gellir lleddfu llawer hefyd ar y ffit trwy gymeryd 1 scruple o carbonate of ammonia, 8 grain compound powder of ipecacuanha, mint water,  $1\frac{1}{2}$  owns. Mae Peruvian bark, neu sulphate of quinine, yn feddyginiaeth ragorol. Mae cyfoglun cyn ei gymeryd yn angenrheidiol, sef oddeutu 20 grain ipecacuanha powder; yna cymerer dogn bychan o salts a sena, a'r Peruvian bark yn bowdwr; bydd i owns wneyd wyth o ddognau, a dylid cymeryd un o honynt bob awr neu ddwy. NEU, cymerer o 2 i 4 grain o quinine, gydag 1 grain o extract of gentian, wedi ei wneyd yn bils, yn lle y Peruvian bark. Pan fyddo yr afiechyd wedi ei atal, parhaer i gymeryd y pils, gan gymeryd dwy bob dydd am ychydig wythnosau.

*Arall.*—Cymerer 30 grains o snake-root, 40 o worm-wood,  $\frac{1}{2}$  owns o Peruvian bark wedi ei bowdro, a haner peint o Port-wine. Dodwch y cwbl mewn potel, ac rhygdwch yn dda; rhanwch yn bedair rhan gyfartal, a chymerer un ran y peth cyntaf yn y boreu, a'r peth olaf yn y nôs, pan fyddo y ffit drosodd. Dylid mynychu y dogn yn aml, er atal dychweliad yr afiechyd. NEU, pan fyddo y ffit yn dyfod, cymerer wŷ wedi ei guro mewn glasiad o frandi, ac eler i'r gwely yn uniongyrchol.

CRUDCYMALAU (*rheumatism*).—I'w atal, gwisgwch wlan golchedig o dan y traed. I'w wella, defnyddiwch y badd oer gyda rhwbio a chwysu.—NEU, Rhwbiwch a thriagl poeth, a dodwch bapur a thriagl ar hyd-ddo ar y fan boenus; newidiwch mewn 12 awr.—NEU, Dodwch chwech neu saith o ewinedd garllig i sefyll mewn haner peint o win gwyn: yfwrch tra yn gorwedd. Achosa chwys, ac yn aml gwellha yr afiechyd ar unwaith.—NEU, Cymysgwch flour of brimstone a mêl, yr un faint o bob un, cymerwch dair llon'd llwy dé yn y nôs, dwy yn y boreu, ac un wedi hynny, foreu a hwyr, nes gwella. Llwyddo y feddyginiaeth yma yn aml iawn.—*Wesley*.

*Arall.*—Extract of Sarsaparilla, 1 owns. Maluriwch ynddo 2 dram o

iodine of potass; a dechreuwch gyda dognau bach ddwywaith neu dair yn y dydd. Mae hwn yn werthfawr.—**NEU**, Dodwch bowltis gwenith, bran, neu flawd ceirch, cymysgedig â dwfr ac ychydig muriatic acid neu lobelia ynddo, a rhodda esmwythad yn aml.

**Arall**.—Cymerwch ddyrnaid da o ffa'r corysudd, 4 owns o hâd mwstard gwyn, ac 1 owns o lignum vitæ, at ddau chwart o ddwfr; berwch hyd nes y byddo yn dri pheint. Dogn—Llon'd cwpan dê dair gwaith yn y dydd. Defnyddiwch hefyd yr *enaint* canlynol: sal volatile, tair owns; olew, un owns; camphor, chwarter owns; laudanum, un owns. Rhwbiwch y man poenus a'r enaint hwn dair gwaith yn y dydd.

**Twymolchiad at y Rheumatism**.— $\frac{1}{2}$  owns o spirits of turpentine,  $\frac{1}{2}$  owns o'r camphorated spirit cryfaf, 1 wý heb ei ferwi,  $\frac{1}{2}$  peint o'r finegr goreu. Cymysger y cwbl yn dda, a chedwch wedi ei gorcio yn dda. Rhwbier y man poenus ag ef dair neu bedair gwaith yn y dydd. At rheumatism yn y pen, neu boen yn y gwyneb, rhwbier y wâr a thu ol i'r pen, yn ogystal a'r man y teimlir y boen ynddo.

**Arall**.—Olive oil, 2 owns; water of ammonia, 2 dram; oil of rosemary, 10 diferyn; olive of cloves, 5 diferyn. Cymysgwch, a chedwch wedi ei gorcio yn dŷn.

**Diod at y Rheumatism**.—Virginian snake root, 1 dram; sarsaparilla yn bowdwr, 6 dram; burdock seed, 2 dram; poke root, 2 dram; wine-pine bark, 2 dram; cayenne pepper,  $\frac{1}{2}$  dram. Powdrwch yn dda, a dodwch arnynt dri chwart o ddwfr. Berwch nes y byddo yn ddau chwart. Cymerer llonaid cwpan tē ddwywaith neu dair yn y dydd. Mae yn werthfawr mewn rheumatism cyndyn.

**Rheumatic Drops**.—Extract of sarsaparilla, 2 drams; gum camphor,  $\frac{1}{2}$  dram; laudanum, 1 scruple; spirit of wine, 1 owns. Cymysgwch a gadewch i fwydo am 24 awr. Cymerwch o 20 i 40 diferyn dair gwaith yn y dydd.

**Eli at y rheumatism**.—Sassafras oil, 2 owns; tincture of prickly ash, 1 owns; tincture of cayenne, 1 owns; hemlock oil, 1 owns. Cymysgwch a

rhwbiwch y lle poenns yn dda. Bydd i ychydig gymhwysiadau esmwythau, os nad gwella.

**Un arall**.—Tincture of cayenne, oil of turpentine, olive oil, hemlock oil, gum camphor, sassafras oil, tincture of prickly ash, 1 owns o bob un; capsicum wedi ei bowdro, neu cayenne, 1 owns; spirit of wine, 2 chwart; finegr, 1 chwart; ammonia, 1 chwart; ychwanegwch 2 owns o gum camphor. Cymysgwch; dodwch mewn llestr, ac ysgydwch yn achlysurol nes y byddont wedi llwyr doddi a chymysgu. Mae hwn yn feddyginiaeth ardderehog, yn rhoddi esmwythad uniongyrchol o boenus rheumatism, neuralgia, &c., &c. Mae yn werth ei bwysau o aur. Nid yw braidd byth yn methu. Os bydd y swm a enwir yma yn ormod, gellir cymeryd haner neu chwarter y meddyginiaethau a nodir.

**Rheumatic Liquid**.—Sarsaparilla, wedi ei bowdro, 2 owns; cayenne pepper, 1 owns; gum myrrh,  $\frac{1}{2}$  owns; brandy, neu Holland gin, 2 chwart. Gadewch iddo sefyll am ychydig ddyddiau. Cymerer llon'd llwy dê mewn tē neu ddwfr wedi ei felysu. Mae hwa yn feddyginiaeth ragorol.

**Rheumatic Mixture**.—Saltpetre, sulphur, mwstard wedi ei bowdro, Turkey rhubarb, powdrwch sarsaparilla,  $\frac{1}{2}$  owns o bob un; gum guaiacum wedi ei bowdro,  $\frac{1}{2}$  owns. Cymysgwch. Cymerwch lon'd llwy dê bob nôs am dair noswaith, mewn llon'd wine-glass o ddwfr oer; yna, gadawer ef am dair noswaith, a chymerer drachefn, ac felly o hyd.

**Poenau Rheumatism yn yr esgyrn a'r cymalan**—Cymerwch opodeldoc, 1 owns; tincture of cantharides, 3 dram; spirits of sal ammoniac, 3 dram; rectified oil of amber, 3 dram. Ffurfia hwn fath o eli i'w rwbio yn aml ar y man dolurus. Ar ol ei rwbio, rhwymwch i fyny mewn gwlanen esmwythl, a chedwch yn gynes.

**Arall**.—Cymerwch Friar's balsam a tincture of myrrh, 1 owns o bob un; spirits of turpentine, 2 owns; a gwaddod hen gwrw da, 3 owns; cymysgwch yr oll a'u gilydd yn dda, ac encinier y man poenus a'r cymysgedd.

**Arall**.—Cymerwch wý wedi ei guro

yn dda, haner peint o frandi;  $1\frac{1}{2}$  owns o turpentine;  $\frac{1}{2}$  owns o spirits of wine, ac 1 owns o camphor; a llon'd llwy fyrdd o halen. Dodwch mewn potel dwywl (hen botel win), a chymysgwch yn dda. Dylid rhwbio y manau poenus yn dda a hwn dair neu bedair gwaith yn y dydd. Mae yn aml wedi effeithio gwellhad mewn ychydig ddyddiau.

*Rheumatic Pill.*—Gum guaiacum,  $\frac{1}{2}$  dram; compound powder of ipecacuanha,  $\frac{1}{2}$  dram; confection of opium, 10 grain; cymysgwch, a rhanwch yn 20 o beleni. Cymerwch ddwy wrth fyned i'r gwely.

*Rheumatic Powder.*—Ipecacuanha powder, a purified opium, 1 ran o bob un; sulphate of potass, 8 ran; malwch yn nghyd hyd nes y byddont yn llwch. Byddwch ofalus gyda'r opium. Cymeradwya Dr. Dover y powdwr hwn yn fawr. Y dogn yw o 2 i 5 grain. Gochel-er yfed llawer ar ol ei gymeryd neu gall effeithio fel cyfogyln.

CRYGNI.—Rhwbwch wadnau y traed, o flaen y tân, gyda garlleg a lard wedi eu cymysgu yn dda yn nghyd, dros nôs. Bydd y crygni wedi myned erbyn y boreu.—NEU, Cymerer peint o ddwfr oer wedi gorwedd i lawr.—NEU, Llyng-er yn araf sudd radishes.—NEU, Sychwch ddanadl poethion yn y ffwrn; yna powdrwch hwy yn dda, a chymysgwch a swm cyfartal o driagl. Cymerer llon'd llwy dé ddwywaith yn y dydd.—NEU, Berwch lonaid llaw dda o fran gwenith mewn chwart o ddwfr, ystreiniwch, a melyswch a mêl. Yfwch o hono yn aml.

*Cynghorion creill.*—Golchwch eich geneu yn aml a dwfr sage.—NEU, a dwfr alum.—NEU, a dwfr oddiar gum kino.—NEU, Cnowch catechu.—NEU, cymerwch lon'd llwy dé ddwywaith neu dair yn y dydd o spirit nitre mewn llon'd wine-glass o ginger a dwfr gwan.—NEU, Cymerwch yn achlysurol ddwfr oddiar horse-radish.—NEU, Rhoddwch ddernyn o wlanen mewn brandi, neu frandi a halen; a chymhwyswch at y frêst; gorchuddiwch a gwlanen sych; gwisgwch drwy'r nôs.—NEU, Mae wynwyn berwedig weithiau yn llesiol mewn crygni neu anwyd, &c.—NEU, Cymerwch spermacti a sugar candy,

yr un faint o bob un, a gwnewch yn bowdwr.

*Crygni Cantorion.*—Dywed dadganwr enwog, ei fod yn cael y lles mwyaf wrth gymeryd ddwywaith yn y dydd, am bump neu chwech o ddyddiau, 5 neu 6 diferyn o nitric acid mewn glasiad o ddwfr wedi ei felysu a siwgr. Os bydd i'r acid, wrth ei arfer yn fynych golli ei effaith, gellir cynyddu y dogn yn raddol i ddeg neu ddeuddeg diferyn.

CUR YN Y PEN.—Cymerwch lon'd llaw o Ysgol Fair (*centaury*), yr un faint o Feverfew (*lysieu y fam*), ac owns o flodeu camomile, rhoddwch mewn 2 chwart o ddwfr; berwch nes y byddo yn chwart; yna ychwanegwch tra y byddo yn boeth, 1 owns o rhubarb, a chymysgwch yn dda. Cymerer llon'd wine-glass dair gwaith yn y dydd.—Cadwch y gwallt yn fyr, golchwch y pen yn aml mewn dwfr oer, rhwbwch y gwallt yn sych, a chadwch y pen yn ddiorchudd hyd ag y gallwch.—Cafwyd fod baddio coryn y pen bob boreu â dwfr oer yn llesiol hynod. Os bydd y boen yn fawr, dodder plastr mwstard rhwng yr ysgwyddau ac ar wadnau y traed.

*Cynghorion Wesley.*—Rhwbwch y pen am chwarter awr.—Profwyd.—NEU, Defnyddier trydaniaeth.—Profwyd.—NEU, Doder croen melyn melon newydd ei dori ar yr aeliau.—NEU, Doder ychydig frandi a sudd croen lemon neu ychydig æther ar gledd y llaw, a dalier ar y talcen.—NEU, Arogl-er i'r trwyn camphorated spirits of lavender.

*Cur parhaus.*—Cedwch eich traed mewn dwfr cynes am chwarter awr bob nôs wrth fyned i'r gwely, am bythefnos neu dair wythnos.—Profwyd.—NEU, Gwisgwch ddail hemlock tyner o dan wadnau y traed, gan eu newid bob dydd.—NEU, Gorchymynwch ollwng ar eich pen lon'd *kettle* o ddwfr oer bob boreu.—NEU, Cymerwch lon'd cwpan tê mawr o dé cardus heb siwgr y peth cyntaf yn y boreu, am 6 neu 7 boreu.

*Cur yn y pen oddiwrth wres.*—Dodwch lineiniau wedi eu gwlychu wrth y talcen.

CURIAD Y GALON. — Tincture of

flox-glove, 12 diferyn; camphor mixture, 1½ owns; tincture of calumbo, 2 dram; sulphuric æther, 20 diferyn. Cymysgwch, a chymerwch llon'd llwy dê 4 gwaith yn y dydd.—NEU, Yfwch beint o ddwfr oer.—NEU, Cymhwyswch yn allanol gadach wedi ei wlychu mewn finegr.—NEU, Cymerwch drwyth llysieu'r fam (*mother-wort*) bob nos.

**CWLWM GWYTHI** (*spasms*).—Oil of red lavender, 1 ran; sal-volatile, 1 ran; oil of peppermint, 2 ran. Cymysgwch, a chymerwch 10 neu 12 diferyn mewn haner llon'd wine-glass o ddwfr oer neu gynes. Os na bydd y dogu cyntaf yn effeithiol cymerer un arall.

*Arall*.—Cymerwch werth tair ceiniog o balsam of sulphur, a'r un swm o oil of aniseed; rhoddwch y ddau gyda'u gilydd, a gadewch iddynt sefyll mewn lle cynes am 24 awr. Yna cymerwch werth dwy geiniog o spirits of wine, a gwerth dwy geiniog o spirits of turpentine; gadewch i'r rhai hyn sefyll yn nghyd am 24 awr; yna cymysgwch y cwbl a'u gilydd. Cymerwch 7 neu 8 diferyn ar lwmp o siwgr gwyn pan y byddo y boen arnoch, a rhydd esmwyth-had uniongyrchol.

**CYFOGI**.—Cymerer peth o'r *Neutralizing Mixture* (tudal. 177), neu *Black draught*. Y mae plastr uwstard ar yr ystumog, a 10 diferyn o laudanum mewn ychydig frandi a dwfr, yn tueddu at setlo yr ystumog.

**CYFOGI GWAED**.—Doder y dyoddefydd yn ei wely ar unwaith, a galwer am feddyg galluog.

**CYRN AR DRAED**.—Pan yn fychain, gellir eu symud trwy gynhwyso atynt *lunar caustic* bob boreu, ond gofalu gwlychu y corn yn gyntaf; golchwch y traed yn flaenorol mewn dwfr cynes. Neu y cynghorion canlynol:—

1. Cymhwyswch bob boreu furum wedi ei daenu ar gadach. NEU, Ar ol eu naddu yn dda, cymhwyswch ddail eiddew (*ivy*), wedi eu curo, bob dydd, ac yn mhen pyntheg diwrnod byddant wedi diflanu.—NEU, Cymhwyswch chalk wedi ei gymysgu a dwfr. Gwellha hwn ddefaid hefyd. Gwellheir rhai cyrn trwy roddi plastr pitch arnynt.—Esmwytheir hwy yn fawr trwy roddi

y troed mewn dwfr poeth yn yr hwn y berwyd brawd ceirch.

2. Pedair owns o blastr diachlyon gwyn, 4 owns o gwyr crydd, a 50 diferyn o muriatic acid, neu spirits of salt. Berwch y pethau hyn am ychydig funodau mewn llestr pridd, a phan yr oer, gweithiwrch rhwng y dwylaw ar lechen wedi ei gwlychu yn ysgafn ag olive oil. Dodwch beth o hono ar y cyrn.

3. Rhwbiwch yn nghyd mewn mortar, 2 owns o ddail savine wedi eu powdro; ¼ owns o verdigris; a ½ owns o red precipitate. Cymysgwch, a dodwch beth o hono mewn cŵd llian; dodwch wrth y corn wrth fyned i'r gwely.

4. Mae rhai personau yn rhostio ewin garleg, ac yn ei rwymo wrth y corn a chadach wrth fyned i'r gwely. Meddala y corn, a symuda ef ymaith mewn ychydig nosweithiau. Pan y cymerir y garleg ymaith, golchwch y troed gyda dwfr cynes.

5. Gochelwch esgidiau tynion, ac hosanau heb fod yn ffio yn dda, os ydych yn dewis bod heb gyrrn.

6. Baddiwch y traed am 20 neu 30 munud mewn dwfr soda a sebon meddal cryf. Ar ol gwneyd hyny rai gweithiau, gellir tynu y corn allan yn rhwydd.—Os bydd y corn yn feddal, cymhwyswch ato gadach wedi ei wlychu mewn turpentine.—Ni ddylid tori cyrn byth heb eu meddalu yn gyntaf mewn dwfr sebon cynes.

7. Rhydd Syr Ashley Coopery cyngor canlynol fel un anffaelidig:—Gum Ammonia, 2 owns; cwyr melyn, 2 owns; verdigris, 6 dram. Toddwch hwy yn nghyd, a thaeuwch beth o hono ar ledr esmwyth, neu lian; torwch ymaith gymaint o'r corn aga ellwch â chylllell, cyn rhoddi y plastr; dodwch beth eilwaith yn mhen y pythefnos os na fydd y corn wedi diflanu.

8. Dylid doddi corn *caled* mewn dwfr poeth nôs a boreu, a'i grafu yn dda. Bydd doddi Tincture of Iodine arno a brwsh bach ddwywaith yn y dydd, symud corn *caled*. *Solution of potass* ddylid gymhwyso at gorn meddal.

**CYSGU**.—Gwna Dr. Marshall Hall y sylwadau canlynol ar gysgu:—

1. Mewn trefn i godi y foreu fod yn

fanteisiol; angenrheidiol mynedi'r gwely yn gynar, ac ar ol codi i ymgymeryd a rhyw orchwyl buddiol.

2. Dylai pob person gael ei gwsg allan yn llawn; heb hyny ni ellir cyflawni dyledswyddau y dydd yn briodol a chydwybodol.

3. I blant, pobl ieuangc, efrydwy'r, a phersonau ag sydd yn dilyn eu gorchwylion yn y tŷ, cwsg llawn—digon o gwsg esmwyth—yw balm bywyd.

4. Na fydded i chwi byth ddeffroi plant, neu y claf a'r methodig yn y boreu—mae hyny yn greulondeb; gadewch iddynt ddeffroi o honynt eu hunain. Na fydded i chwi brysuro i fynu yr ieuangc a'r iach; ac nid da gwneyd hyny a phersonau llawn-dŵf, os byddant wedi bod yr: gweithio yn neillduol galed y diwrnod blaenorol. Gwell i bawb beidio neidio o'r gwely y foment y deffroi; gwell aros dipyn heb fyned i gysgu eilwaith hyd nes y teimlir y blinder wedi myned ymaith.

5. Eler i'r gwely bob nos trwy'r flwyddyn yn gyson am ddeg o'r gloch, a bydd i'r codi yn foreu ofalu am dano ei hun, a cheir teimlo meddwl wedi ei adfywio a'r corff wedi hollol ddiiflino.

*Methu cysgu.*—Gochelwch bob cynhyrfaid meddyliol trwy wrando neu ddarllen pethau dychrynlyd, rhoddi eich hunan mewn tymer ddrwg, &c.—Gochelwch swper trwm. Os ydych am gysgu trwy'r nos cymerwch swper ysafn. Ewch i'r gwely yn gynar.

**DAFADENAU.**—Rhwbiwch hwy bob dydd a radish. **NEU,** A sudd blodeu marigold: prin y metha un amser. **NEU,** Dwfr a sal-ammoniac wedi ei doddi ganddo. **NEU,** Rhoddwch groen lemon mewn finegr, a chymhwyswch at y ddafaden, y tu allan i'r croen yn gyntaf a'r tu mewn ar ol hyny; cedwch arno am ddwy awr, a newidiwch. **NEU,** Rhwbiwch y ddafaden ag elixir of vitriol; cymhwyswch y vitriol â phren bychan. **NEU,** Cyffyrddwch hwy yn aml a blue vitriol, neu nitric acid, neu chloride of zinc.

**DANNEDD.**—*I lenwi dant nydr-edig.*—Os bydd twll ynddo, rhoddwch ychydig gutta percha mewn dwfr berwedig; yna dodwch beth o hono yn y twll, gwasgwch i lawr yn dŷu, hyd nes

y byddo yn wastad a'r dannedd ereill. Caledwch trwy ddâl dwfr oer yn y geneu am ychydig amser. **SYLWCH.**—Gofalwch am olchi a sychu y twll yn lân cyn rhoildi y gutta percha yuddo.

*I sicrhau dannedd sigledig.*—Toddwch  $\frac{1}{2}$  owns o myrr mewn haner pint o port wine, a 2 owns o oil of almonds. Cymysgwch, a golchwch y geneu ag ef bob boreu.—Cnowch ychydig catechu, neu kino, neu alwm, yn achlysurol.

**DDANNODD.**—Cymeradwyir y rhai canlynol:—

1. Oil of cloves,  $\frac{1}{2}$  dram; laudanum, 2 dram; alwm wedi ei bowdro, 1 dram; spirits of nitre, 2 dram; chloroform,  $\frac{1}{2}$  dram. Cymysgwch. Cymhwyswch gyda lint.

2. Cymysgedd o ddwy ran o liquid ammonia, gydag un ran o tincture of Benjamin, sydd feddyginiaeth effeithiol rhag y ddannodd. Bydd i ychydig lint wedi ei wlychu yn hwn a'i roddi yn y dant poenus, lonyddu y *nerve*, ac atai y boen.

3. Gwlychwch ychydig o gotwm mewn oil of cloves, a dodwch yn y dant. Byddai yn fwy effeithiol pe wedi ei gymysgu a camphor, a 2 neu 3 diferyn o chloroform.

4. Weithiau gwelleir y ddannodd gydag ammonia wedi ei wneyd yn wan. Hefyd, a chymysgedd o camphor, laudanum, oil of cloves, a chloroform. Cymysgwch yn dda. **NEU,** Cedwch yn y geneu ddwfr poeth a halen, gydag ychydig laudanum ynddo.

5. Cymerwch o alwm yn bowdwr, 2 dram; spirits of nitre, 7 dram. Cymysgwch a chymhwyswch at y dant.

6. Cymerwch 3 llon'd llwy o frandi, gan ychwanegu ato 1 dram o camphor, gyda 30 neu 40 diferyn o laudanum. Diferwch ychydig ar lint. Cymhwyswch at y dant a'r gums. Byddai ychydig tincture of cayenne yn ychwanegiad effeithiol.

7. Cymerwch eich electriffio trwy eich dannedd.—**NEU,** Dodwch dafali o faip rhostiedig, mor boeth ag y gelli eu dyoddef, tu cefn i'r giust. **NEU,** Dodwch ewin garleg ar y dant.—**NEU,** Cedwch y traed mewn dwfr poeth, a rhwbiwch hwy yn dda â bran cyn myned i'r gwely.

8. Alwm wedi ei wneyd yn bur fan, 3 dram; nitrous spirit of ether, 1 scrup



ple; cymysgwch; a chymhwyswch at y dant. NEU, Cymerwch o compound tincture of Benjamin, a Battley's solution af opium, 1 dram o bob un. Cymysgwch. Bydd i ychydig wedi ei ddiferu ar gotwm, a'i gymhwyso at y dant, a'i rwbio ar y gums, roddi esmwythad effeithiol.

9. Cymerwch yr un faint o tincture o cayenne, oil of cloves, ac oil of summer savory; dodwch mewn tair llon'd llwy fwrdd o spirits of wine. Ychwanegwch 6 diferyn o chloroform. Cymhwyswch at y dannedd a'r gums dolurus. Cymhwyswch at y gwyneb yr un pryd gŵd gwllanen a hops a blodeu camomile ynddo wedi ei wlychu mewn finegr poeth, a 30 diferyn o laudanum.

10. Mae cadw dwfr poeth a halen yn y geneu am beth amser, a'i adnewyddu pan oero, yn effeithiol.

*I ddyogelu rhagy ddannodd.*—Golchweh y geneu a dwfr oer bob boreu, a glanhewch a dwfr oer ar ol pob pryd.—NEU, Golchweh y geneu yn aml a llwch tybaco.

**DARFODEDIGAETH.**—Cynghorwyd un wedi myned yn mhell yn y darfodedigaeth i yfed dim ond dwfr, a bwyta dim ond gruel dwfr, heb halen na siwgr. Mewn tri mis yr oedd yn holliaeth.—**ARALL.**—Na chymerwch ond laeth enwynd ei gorddi, a bara gwyn. Bu y feddyginiaeth yma yn effeithiol.—**NEU,** Defnyddiwch fel diod gyffredin, chwart o ddwfr ffynon, a chwart o laeth newydd, a dwy owns o siwgr candi ynddo.—**NEU,** Berwch ddwy lon'd llaw o sorssel mewn peint o faidd, ystreiniwch, ac yfwch lasiad o hono deirgwaith yn y dydd.

*Ercill.*—Trowch beint o laeth skim gyda haner peint o ddiôd fain (*small beer*). Berwch yn y maidd yma oddeutu ugain o ddail eiddew, a dau neu dri ysbrigrin o hyssop. Yfwch ei haner yn y nos, a'r haner arall yn y boreu. Gwnewch hyn, os bydd yn angenrheidiol, yn ddyddiol am ddau fis. Profodd hyn yn effeithiol mewn achosion anobeithiol bron.—**NEU,** Bob boreu, ewch a thorwch dywarchen fechan o ddaear lās, ac anadlwch yn y twll am oddeutu chwarter awr.—**NEU,** Anadlwch foreu a hwyr yr agerdd fo'n cyfodi

oddiwrth ystôr gwyn (*white resin*) a chwyr melyn yn llosgi ar y rhaw dân. Daliwch i anadlu yr arogl am chwarter awr.—**NEU,** Cymerwch foreu a hwyr lon'd llwy dê o ystôr (*resin*) gwyn wedi ei falu, a'i gymysgu a mêl. *Profwyd.*—**NEU,** Yfwch deirgwaith yn y dydd sudd berw'r dwfr. Mae hyn wedi gwella llawer.—**NEU,** Pan fetho pob peth arall, sugnwch wraig iach. Gwellhawyd tad Mr. Wesley trwy wneyd hyn.

*Diod ddefnyddiol i rai yn y darfodedigaeth.*—Coltsfoot, 2 owns; horehound, rue, owns o bob un; blood-root, 3 dram. Berwch mewn tri chwart o ddwfr nes y byddo wedi myned yn ddau chwart. Hidlwch y gwlybwr, ac ychwanegwch ato 4 owns o ffygs a 4 owns o siwgr, a berwch am 15 munud. Cymerwch lon'd gwin-wydr dair neu bedair gwaith yn y dydd.

**DELIRIUM TREMENS NEU WALLGOF-RWYDD MEDDWDOD.**—Galwer am feddyg medrus ar unwaith.

**DIFFYG ANADL.**—Cymerwch o milk of gum ammonia, 6 owns; syrup of squills, 4½ owns; cymysgwch. Llon'd llwy i'w gymeryd pan fyddo yr anadl yn boenus. **NEU,** Gum ammoniac, 1 dram; gum assafoetida, squill pill, ½ dram o bob un; oil of cinamon, 6 diferyn; gwnewch yn 24 o bils gyda syrup cyffredin. Cymerwch ddwygwaith yn y dydd.—**ARALL.**—Senna wedi ei bowdro, 1 owns; flour of sulphur, ½ owns; ginger wedi ei bowdro, 2 dram; saffron wedi ei bowdro, ½ dram. Swm nutmeg i'w gymeryd nos a boreu mewn triagl neu fêl. **NEU,** Dwy owns o fêl, ac owns o castor oil wedi eu cymysgu. Llon'd llwy dê i'w gymeryd nos a boreu.

*Arall.*—Carraway a sweet Fennel seeds, ½ owns o bob un; berwch mewn peint o finegr am ugain munud; cymerwch oddiar y tân a dodwch ynddo dair owns o arllwg wedi eu tafellu. Gorchuddiwch, a phan yn oer, gwasgwch, ac ystreiniwch, a thrwy wres cymedrol, cymysgwch ag ef bwys a chwarter o fêl da. Cymerer lon'd llwy dê foreu a hwyr.

*I lacio yr anadl.*—Dodwch blotting paper mewn dwfr alwm cryf; sychwch, a rhowch dân mewn peth o hono ar blât wrth fyned i'r gwely. Mae llawer wedi cael esmwythder trwy wneyd hyn.

*Cynghorion John Wesley.*—Peint o ddwfr oer bob boreu, a golchi y pen a dwfr oer, a defnyddio y badd oer unwaith yn y pythefnos.—*NEU*, Dwfr cryf oddiar liquorice.—*NEU*, Haner peint o ddwfr tar bob dydd.—*NEU*, *Byddwch byw am bythefnos bron yn hollol ar garrots wedi eu berwi.*—*Anaml y y metha.* Gwellhawyd niferoedd trwy y dull syml yma.—*NEU*, Cymerwch o 10 i 60 diferyn o Elixir of vitriol mewn gwydriad o ddwfr ffynon dair neu bedair gwaith yn y dydd.

*Irwystro dychueliad pang o Ddiffyg Anadl, neu i esmwythau Diffyg Anadl.*—Cedwch y corff yn agored a rhubarb, a chryfhewch yr ystumog a phethau chwerwon, megis camomile, gentian, a quinine. Pan y byddo y frest yn gaeth, cymhwyswch blastir mwstard, a chymerwch gyfoglun i glirio y pibellau oddiwrth y poeredd gwydn. Ymgadwch oddiwrth bob peth anhawdd ei dreulio—gwisgwch wlanan yn nesaf at y corff—gochelwch wyntoedd oerion ac awyr laith, a chymerwch *exccrice* cyson. Mae cigfwyd ysgafn yn well na llysieu-fwyd.

*Peswch a diffyg anadl.*—Cymerwch Spanish liquorice, 2 owns; salt of tartar,  $\frac{1}{2}$  owns; berwch mewn 3 pheint o ddwfr hyd nes y byddo wedi wastio yn chwart: ychwanegwch salt of tartar ato pan y byddo wedi oeri i dymheredd y gwaed. Yfwech ddwy lon'd llwy fwrdd o hono bob dwy awr. Braidd byth y ffaela. Gwelais ef yn iachau rhai mewn poenau mawr.

*DIFFYG TREULIAID.*—*Ffordd sicr i'w wella heb feddyginiaeth.*—Yn yr hen amser da pan oedd dynion yn byw ar fara gwenith drwyddo, bara ceirch, potes a chig, ychydig o son a glywid am Ddiffyg Treuliad; ond er pan y mae pobl wedi myned i loddesta wrth fwyta, ac i yfed gormodedd o ddiodydd meddwol, tē, coffi, bwydydd wedi eu sesno yn uchel, gorlwytho eu hystumogau. yfed a bwyta rhwng amseroedd bwyd, llyngcu y bwyd heb ei gnoi yn briodol, diffyg digon o gerdded yn yr awyr agored, &c., y mae dau o bob tri bron o'r boblogaeth yn dyoddef oddiwrth yr afiechyd poenus—*Diffyg Treuliad.* Yr wyf yn eithaf sicr ped ystyrid canlyniadau yr holl loddesta yma, yr ymgedwyd oddiwrtho.

Mae hynny yn gywir beth bynag yn fy achos i. Trwy fwyta gormod, a bwyta ar adegau annhriodol, andwywyd fy ystumog, a daethum i ddyoddef yr arteithiau mwyaf llym. Yr oedd meddwl am fwyta yn faich arnaf—gwres a gwendid a phoen yn yr ystumog. Pa beth a wnaethum? Pa beth allwn gwneyd? Bwyta nis gallwn, yfed nis gallwn; yna pa beth oeddwn i'w wneyd.

*Y feddyginiaeth.*—Cymerwch,—na, peidiwch a chymeryd. Taffwch bob physig i'r cŵn—ie, a bwyd hefyd. Pa beth, a ydych am ein newynu? Nag ydym, ond mae arnom eisieu i chwifined yn newynog; pwy erioed glywodd am un a diffyg treuliad arno yn newynog? o'r hyn lleiaf, y rhai a fwytant deirgwaith yn y dydd. Bwytant am fod y bwyd yn *blasu* yn dda—yn y genue y mae yr holl angen i gyd. Y ddwy flynedd gyntaf y bum yn dyoddef oddiwrth ddiffyg treuliad, yr oeddwn yn bwyta am ei bod yn amser bwyd, a chredwn fod yn rhaid i mi fwyta neu farw, tra yr oeddwn ar yr un pryd yn tybied fy hun yn ddigon claf i farw wrth fwyta.—Yr oedd yr holl feddygon ag yr ymgynghorais a hwy ac y darlennis eu llyfrau, yn dweyd, “Bwyteu chydig yn aml; yfwech ychydig ac yn aml.” Yr wyf fi yn dweyd, bwyteu chydig, ac ar yr adeg briodol, hyny yw, pan y byddwch yn teimlo angen gwtioneddol; yfwech ychydig, ar yr adeg briodol, hyn yw, ar ol i'r bwyd dreulio, ac y mae yn lawm mor bwysig i fwyta ac yfed y pethau priodol, ag ydwy gwneyd hyny ar yr adeg iawn.

*Yn gyntaf.*—Mewn achosion cyffredin, os bydd gwres mawr yn yr ystumog, bydded i chwi, wrth fyned i'r gwely, wlychu llian mewn dwfr oer, gan ei wasgu allan fel na byddo iddo ddiforu, a gosodwch ar yr ystumog, gan ei orchuddio a darn o wlanan rhag gwlychu y dillad. Bydd i hyn symud y gwres: cedwch drwy'r nos, ac ar unrhyw adeg, pan byddo angen am dano.

*Yn ail.*—Bydded eich brecest yn ysgafn, heb gymeryd ond ychydig gigtwyd a bara tywyll. *Bwyteu yn araf, cnoreu eich bwyd yn fân iawn, a llyngwch ef heb ddwfr, tē, neu goffi;* a rhaid i chwi beidio yfed yr un diferyn o ddim

hyd pen yr awr ar ol bwyta, a'r pryd hyny yfwech gan lleied ag a ellwch.

*Yn drydydd.*—Y cwestiwn yn awr yw, a ddarfu i chwi *ddyoddef* poen o herwydd bwyta *gormod* o frewest, neu o herwydd bwyta rhywbeth anmhriodol. Os darfu i chwi, cymerwch lai y tro nesaf, neu newidiwch y bwyd, ac felly parhewch i leihau y *swm*, neu i newid y bwyd hyd nes y byddoch wedi dyfod i ddeall y *swm* a'r bwyd priodol, ac i ochelyd y poenau arteithiol ar ol bwyta; mwy na hyny, i deimlo yn *ddedwydd* ar ol eich prydiau bwyd.

*Yn ddiweddar.*—Dyma ddirgelwch gwellhad diffyg treuliad yn y ffurf fwyaf poenus y gall fod. Ond cofiwch fod *blynyddau* wedi eu treulio mewn glodddest a gormodedd; na fydded i chwi, o ganlyniad, ddisgwyl gwella y drwg mewn ychydig *ddyddiau*, ond cymer *fisoedd*, o bosibl *ffwyddyn* gyfan o hunan-ymwadiad, gwiliadwriaeth, a gofal; ac hyd yn nod wedi hyny, gall un pryd glodddestgar a gornodol eich tafu yn ol fisoedd. Gwnewch eich meddwl i fyny i fwyta bwydydd *syml* yn unig, a hwnw, yn symiau bychain, er i wraig or-bryderus, neu gyfaill arall, i ddweyd, "Yn awr treiwch damaid o'r bastai *nice* yma, neu y pwddin, neu y peth dymunol arall yma." Neu, "O, cymerwch un gwpanaid o'r coffi hyfryd yma." "NA WNAF" raid fod eich ateb penderfynol i bob math o demtasiynau felly, neu dyoddef fydd y canlyniad.—Na fydded i chwi, o dan un amgylchiad, fwyta ond yn *unig* y bwyd fyddo yn cytuno a chwi, a hwnw mewn symiau digon bychain fel ag i'ch cadw mewn iechyd. Na yfwech un math o hylif hyd nes byddo yr ystumog wedi cael digonedd o amser, sef oddeutu pedair awr, i dreulio y bwyd; y pryd hyny yfwech gwpanaid o goffi neu *dê gwan*. Ond y mae mwy o berygl oddiwrth yfed i ormodedd na bwyta i ormodedd. *Rhaid* i rai yn cael eu poeni gan ddiffyg treuliad beidio yfed wrth fwyta. Os bydd i'r *gastric juice*, gael ei deneno gydag unrhyw hylifau, ni bydd ganddo agos gymaint o allu i dreulio yr ymborth.

*Gocheliad.*—Mae un platiad o fwyd yn ddigon ar unwaith—ond bwyteir dau a thri ynaml. Dysgwch faint o *swm* o fwyd

wna y tro i chwi, ac wedi cymeryd hyny aroswech. Os bydd pastai, pwddin, neu deisen ar y bwrdd, a chwithau yn dymuno cael peth o ryw un o honynt, cymerwch ychydig, ond peidiwch a chymeryd peth o bob un o honynt. Mae dynion fel rheol yn bwyta gormod o fwyd o lawer—yn yfed gormod o lawer—ac fel canlyniad anocheladwy, yn dyoddef arteithiau ofnadwy a llogol diffyg treuliad.

**DOLUR GWDDF.**—Mae cyngor yr hen bobl yn un da, "Rhoddwch eich hosan o gylch eich gwddf wrth fyned i'r gwely;" ond yr wyf wedi cael allan fod gwlanen *newydd*, os dodir hi yn boeth wrth y gwddf, lawn mor effeithiol.—Bydd i rai yn cael eu poeni gan ddolur gwddf gael y feddyginiaeth ganlydol yn syml, rhad, ac effeithiol: Tywelltwch beint o ddwfr berweddig ar ugain neu ddeg-ar-hugain o ddail *sage*; gadewch i'r cymysgedd sefyll am haner awr. Ychwanegwch ato ddigon o finegr i'w wneyd yn weddol sur, a mêl fel y byddoch yn ei dymuno o ran melysder. Anaml y profa yn aneffeithiol. Golcher y geneu a'r gwddf ag ef lawer gwaith yn y dydd. Mae yn perthyn iddo y fantais yma ar *gargles* yn gyffredin—mae yn dymunol i'r archwaeth, a gellir ei lyngcu yn achlysurol, nid yn unig heb berygl, ond er mantais. **NEU**, Golchewch y geneu a'r gwddf a chymysgedd o fwrwm a llaeth, a chymerwch lon'd gwin-wydr o fwrwm da unwaith neu ddwy yn y dydd.—**NEU**, Dodwch lian wedi ei wlychu mewn dwfr oer a'i wasgu, wrth y gwddf, wedi ei orchuddio a gwlanen sych.

**DOLUR YN Y GWDDF (Quinsy).**—Dodwch ddarn mawr o fara gwyn wedi ei grasu a'i wlychu mewn brandi, ar goryn y pen, a chedwch yno nes y byddo yn sych.—**NEU**, llyngewch yn araf white rose water wedi ei gymysgu â syrup of mulberries.—**NEU**, anadlwch am ddeg neu ddeuddeg mynyd ager yn cyfodi oddiwrth ddail rhosynau cochion, neu flodeu camomile, wedi eu herwi mewn dwfr a finegr. Dylid anadlu yr ager mor boeth ag y gellir ei oddef.—**NEU**, rhoitiwch dri neu bedwar o wynwyn mawr. Piliwch yn gyflym, a rowliwch hwy yn wastad gyda'r rowling-pin. Dodwch ar unwaith mewn cŵd

muslin gwyn fo'n cyraedd o glust i glust ac oddeutu tair modfedd o led. Cymhwyswch gyda brys ac mor boeth ag y galloch at y gwddf. Cedwch yn ei le ddydd a nos, gan ei newid pan y byddwch yn barnu fod y wynwyn wedi colli eu heffaith. Rhaid gwisgo gwlanen am y gwddf wedi symud y powltis yma ymaith.

**DOLURIAU GORWEDDOG.**—Dodwch soap plaster, a geir yn siop y cyferiwr, wrth y lle.

**DOLUR RHYDD** (*Diarrhœa*).—Ceir y *Neutralizing Mixture* yn effeithiol.—NEU, cymerer llon'd llwy dê o *Composition Powder*, ac un o tincture of myrrh, a chedwch y dyoddefydd yn gyrrh.

*Cynghorion ereill.*—I chwart o sudd blackberries ychwanegwch bwys o siwgr gwyn, llon'd llwy fwrdd o cloves, un o allspice, un o cinamon, ac un o nutmeg. Berwch yr oll yn nghyd am 15 mynyd; ychwanegwch lon'd wine-glass o whiskey, brandi, neu rum. Potelwch tra fyddo yn boeth, corciwch yn dyn a seliwch. Meddyginiaeth ragorol yw hon, a dylid ei chadw yn wastadol yn mhob tŷ. Dogn:—llon'd wine-glass i ddyn mewn oed—haner hyny i blentyn. Cymerwch deirgwaith neu bedair yn y dydd os bydd y dolur yn boenus iawn.—NEU, confection of catechu, 2 drams; cinamon water, 4 owns; syrup of white poppies, 1 owns; cymysgwch yn nghyd. Cymerer un neu ddwy lon'd llwy fwrdd yn y dydd yn ol fel y byddo angen am dano; i blant dan ddeg oed, llon'd dessert-spoon; o dan ddwy flwydd oed, llon'd llwy dê, ddwywaith neu dair yn y dydd.—NEU, cymerwch tincture of opium, 30 diferyn; prepared chalk, 2 dram; powdered gum, 4 dram; tincture of catechu, 2 dram; rose water, 2 owns; cymysgwch, a chymerwch lon'd llwy fwrdd deirgwaith neu bedair yn y dydd.—NEU, llenwch gwpan mawr neu gawg bach â blawd sych, a gorchuddiwch yn glos â llan brasderog; herwch am dair awr. Yna gadewch iddo oeri. Gratiwch lon'd llwy fwrdd o'r blawd i peppermint water; gwna lai y tro i blentyn.—NEU, gwnewch drwyth cryf trwy ferwi dail mafon neu fwyar duon. Mae diod dail mafon yn rhagorol.

Yfych ychydig o *port wine* a ginger wedi ei falu iddo ar ei ol.

**DROFSI.**—*Cynghorion buddiol.*—Mwstard,  $\frac{1}{2}$  owns; juniper berries, milkweed root, horse-radish; black alder bark, mandrake root, bitter-sweet bark, 1 owns o bob un. Curwch hwy, a dodwch mewn 3 chwart o ddwfr poeth, gan ychwanegu sudd un lemon. Llon'd wine-glass ddwywaith neu dair yn y dydd.—NEU, cymerwch gymaint o lwch dail laurel ag a safar ar chwechein-iog bob yn ail ddiwrnod.—NEU, ddwfr tar ddwywaith neu dair yn y dydd.—NEU, sudd cenin, neu ddail yr ysgawen.—NEU, cymerwch sena, cream of tartar, jalop,  $\frac{1}{2}$  owns o bob un. Cymysgwch hwy a chymerwch 1 dram bob boreu mewn potes. Gwellhâ yn gyffredin mewn ugain diwrnod.

**DWFR POETH**—Yfych beint o ddwfr oer iawn.—Profwyd.—NEU, yfych yn araf ddwfr blodeu camomile.—NEU, bwytwch bump neu chwech o wystrys. Os surni ar yr ystumog fydd yr achos o hono, cymerer un owns o powdered chalk,  $\frac{1}{2}$  owns o siwgr gwyn, a  $\frac{1}{4}$  owns o gum arabic, wedi eu cymysgu mewn chwart o ddwfr. Yfer llon'd cwpan dê pan fyddo angen.

*Pills rhag Dwfr Poeth.*—Carbonate of ammonia, extract of gentian,  $\frac{1}{2}$  dram o bob un; cymysgwch, a rhanwch yn 12 o bils; cymerwch ddwy ddwywaith neu dair yn y dydd.

*Powdwr rhag Dwfr Poeth.*—Quassia, rhubarb wedi ei bowdro,  $\frac{1}{2}$  scruple o bob un; ac 1 scruple o calcined magnesia. Cymysgwch, a gwnewch yn 12 o bowdws. Cymerwch dri yn y dydd.

**DWYLAU TOREDIG.**—Rhwbwch hwy nos a boreu a linseed oil.—NEU, rhwbwch ychydig glycerine a borax ar eich dwylaw wrth fyned i'r gwely, a gwisgwch fenyg yn y gwely.—NEU, golchwch â sebon meddal, cymysgedig â thywod coch.—NEU, golchwch mewn dwfr a siwgr.

**ELIGIAN.**—Ilyngwch lon'd eich geneu o ddwfr oer, gan gau y ffroenau a'r clustiau.—Profwyd.—NEU, Cymerwch ryw-beth a wna i chwi disian.—NEU, Cymerwch 3 diferyn o oil of cinamon ar lwmp o siwgr gwyn.—NEU, Dalwch eich anall cyhyd ag y galloch.—NEU, Os bydd yn

boenus iawn, llon'd llwy dê o ether, 8 diferyn o laudanum, mewn gwydraid o ddwfr oer, yw y feddyginiaeth oren.

ENYNIAD YR YMYSGAROEDD (*Inflammation of the Bowels*).—Anfoner yn ddioced am feddyg galluog.

ERGYD HAUL.—Bydded i'r dyoddefydd gael ei gymeryd ar unwaith i'r cysgod, llaciwch ei holl ddillad o gylch ei wddf a'i ddwyfron, a lluchiwch ddwfr oer dros ei ben a'i wddf. Os gall lyngcu rhoddwch iddo 20 diferyn o sal-volatile mewn glasiad o frandi, a gadewch iddo ffed tê oer.

EWINEDD NY TYFU I'R CNAWD.—Torwch agen fechan yn nghanol yr ewin bob tro y byddwch yn ei dori. Bydd i ymdrech yr ewin i gau yr agen ei rwystro rhag tyfu i'r cnawd.

EWIN-REW (*Frost-bitten*).—Cedwch oddiwth y tân, a rhwbiwch y man rhewedig âg eira, ac wedi hyny â dwfr oer.

FFITIAU.—Os syrthia person mewn ffit, gadewch iddo i orwedd ar lawr, os bydd ei wyneb yn llwyd; wrth ei godi gellwch beri ei farwolath. Ond os bydd ei wyneb yn goch neu o liw tywyll, codwch ef ar eisteddle, teflwch ddwfr oer ar ei ben yn uniongyrchol, ac anfonwch am feddyg i agor gwythien, neu gall i wysau gormodol y gwaed ar yr ymenydd beri ei angeu.

FFITIAU LLESMEIRIOL.—Symudwch y dyoddefydd i'r awyr agored, a gosodwch ef ar ei led-orwedd, heb fod dim tyn o'i amgylch. Os bydd y ffit yn parhau am amser, dodwch y traed a'r coesau mewn dwfr cyne, a rhoddwch spirits of harts-horn wrth y ffröenau; a rhoddwch iddo ychydig ddiferion mewn glasiad o ddwfr.

FRECH GOCH.—Y peth pwysicaf yn yr afiechyd hwn ydyw cadw y rash ar wyneb y croen. Baddiwch y traed dair gwaith yn y dydd mewn dwfr cyne; yfer tê saffrwn, a thé thorough-wort yn helaeth. Cadwer i fyny y chwys. Cadwer y corff yn agored. Gofaler am gadw y dyoddefydd yn gynnes. Mae plastr mwstard wrth y traed yn achlysurol yn ddefnyddiol.

FRECH WEN.—Y pwnc mawr i'w ystyried ydyw y modd mwyaf effeithiol i yru y sylweddau gwenwynlyd o'r cyf-

ansoddiad. Os bydd y dyoddefydd yn cyfogi, rhoddwch 10 neu 12 grain o bicarbonate of potash mewn tê balm ddwywaith neu dair yn y dydd. Dylid cadw y corff yn agored. Dylid rhoddi meddyginiaeth i yru allan y frech i'r croen. Gwna trwyth o saffron a catnep, neu balm a hyssop, gyda 10 diferyn o elixir of vitriol, y tro i gyraedd hyny. Dylid cymeryd y feddyginiaeth yma lawer gwaith. Dylid baddio y traed ddwywaith yn y dydd mewn dwfr cyne. Os bydd poen yn y pen cymhwyswch blastr mwstard at wadnau y traed yn ychwanegol at olchi y traed a'r coesau mewn dwfr cyne. Cymhwyswch lineiniau wedi eu gwlychu mewn finegr a dwfr, neu whiskey a dwfr poeth, at y pen. Gadawer digonedd o awyr iach ddyfod i mewn i ystafell y dyoddefydd, a llochier dwfr a finegr yn aml ar hyd llawr yr ystafell; na fydded i chwi roddi gormod o ddillad arno. Rhoddwch iddo dê balm, spear-mint, penroyal, neu catnep, i'w yfed. Os bydd y gwddf yn ddolurus, rhoddwch y meddyginiaethau a welir o dan y penawd *Dolur Gwddf*. Mae tê sage, ychydig finegr, ac ychydig borax, yn gwneyd gargle da. Yn mhob achos, dylid ymfodyn a meddyg medrus, os bydd i'w gael.

ANHWYLDERAU GIEUOL.—Pan na byddo y gŵa yn gweithredu yn briodol bydded i'r dyoddefydd fyned ddigon i'r awyr agored. Dylai godi yn foreu, ac mor fuan ag y byddo y gwllith oddiar y ddaear, i fyned am rodfa; bydded iddo gymeryd tê thyme wedi eu gasglu yn Mehefin, yn lle y tê cyffredin. Bydded iddo fwyta cig llo ffres, cywion ieur, neu futton. Na fwytaed lawer o lysieuwyd. Dylai ochelyd gwin; a phob math o sauces. Pan y byddo y dyoddefydd yn teimlo ei hun yn ddrwg iawn cymered lon'd llwy fawr o tincture of valerian root.

*Nervous Drops*.—Cymysger 8 diferyn o spirits of hartshorn gyda 4 diferyn o oil of lavender, a chymrwch mewn llon'd wine-glass o ddwfr.

*Nervous Mixture*.—Liquid carbonate of ammonia,  $\frac{1}{2}$  dram; compound tincture of cardamom,  $\frac{1}{2}$  owus; oil of lavender, 8 diferyn; mint water, 3

owns; cymysgwch, a chymerwch ar dair gwaith.

*Nervous Pill.*—Assafoetida, extract of hops, carbonate of ammonia, 1 owns o bob un; extract of valerian, 20 grain. Toddwch y ddau beth cyntaf uwch ben tân, yna cymerwch ymaith, ac ychwanegwch y lleill; cymysgwch yn dda, a chydag ychydig oil of lavender ac ychydig liquorice powdredig, flurfiwch yn bils. Dogn, un neu ddwy unwaith neu ddwy yn y dydd.

*Nervous Tincture.*—Compound tincture of bark, 2 owns; ammoniated tincture of valerian, 1½ owns; compound tincture of aloes, ½ owns. Cymysgwch. Mae yn dda at wendid, iselder yspryd, a *nervousness*. Dogn: Dwy lon'd llwy dé ddwywaith y dydd.

*GRAFEL.*—*Cynghorion buddiol.*—Toddwch 3 dram o carbonate of soda mewn chwart o ddwfr oer meddal, a chymerwch ei haner yn ystod y dydd. Parhewch i'w gymeryd cyhyd ag y byddo angen am danu. Mae y feddyginiaeth syml yma wedi gwella llawer.—*NEU*, Cymerwch owns o spirits of sweet nitre, 2 dram o laudanum, ac ½ owns o oil of juniper. Cymerwch lon'd llwy dé mewn diod hâd llŷn wedi ei felysu â mêl. Mae hwn wedi gwneyd rhyfeddodau.—*NEU*, Cymerwch wreiddiau dandelion a marshmallow, 2 owns o bob un, dyrnaid o agrimony, mewn 3 chwart o ddwfr; berwch nes y byddo yn 2 chwart. Dogn—llon'd wine-glass bob tair neu bedair awr.

*Cynghorion John Wesley.*—Bwytwch yn helaeth o spinach.—*NEU*, Yfwech swm mawr o ddwfr cyne wedi ei felysu â mêl.—*NEU*, Dodwch owns o hâd persli gwyllt mewn peint o win gwyn, a gadewch iddo sefyll am ddeuddeg diwrnod Yfwech lon'd gwin wydr o hono bob boreu cyn brecwest, an dri mis.—*NEU*, Sudd wynwyn coch, gymaint ag a all y dyoddefydd gymeryd o hono hwyr a boreu; y mae yn treulio ac yn toddi y gareg.

*GWALLT.*—*I'w gael yn ol ar ol atechyd neu o herwydd henaint.*—Rhwbier y man moel yn aml â sudd wynwyn. Nid yw y feddyginiaeth yma yn anffael-edig, ond y mae yn ddiniwaid, ac yn aml yn effeithiol.

*I lanhau a chryfhau y gwallt.*—1 owns o borax, a ½ owns o camphor; toddwch mewn ychydig spirits o wine; yna cymysgwch â chwart o ddwfr poeth; gadewch iddo oeri, a bydd yn barod i'w ddefnyddio.

*GWAEU O'R TRWYN.*—Defnyddiwch flawd gwenith; gwtiwech i fyny i'r trwyn; anadlwch i mewn. Tynhewch eich gardysau; dodwch rwymanu tynion am eich breichiau, a dodwch eich traed mewn dwfr poeth, er tynu y gwaed tuag i lawr. Os bydd yn cyfodi oddiar rwyredd, dvlid rhyddhau y corff ar unwaith.—*NEU*, Dodwch lon'd y froenau o lint wedi ei wychu mewn finegr cryf, a chymhyswch iineiniau wedi eu gwlychu mewn dwfr oer.—*NEU*, Toddwch 2 scruples o nitre mewn ½ peint o ddwfr, a chymerwch gwpanaid bob awr.—*NEU*, Cymhyswch lian gwlyb at y gwddf.—*NEU*, Anadlwch finegr a dwfr.

*GWAEU O GLWYF.*—Dodwch ddau neu dri o rwymanu tynion am ran uchaf pob aelod; slaciwch hwy yn raddol.—*NEU*, Cymhyswch benau danadl poethion wedi eu curo.—*NEU*, Lluchiwch ar hyd-ddo ludw cerpyn wedi ei losgi. Doder y cerpyn mewn finegr cryf cyn ei losgi.—*NEU*, Cymerwch 2 owns o brandi; 2 dram o castile soap; 1 dram o potass; tafellwch y sebon yn dafellau teneuon, a thoddwch yn y brandi, ychwanegwch y potass, cymysgwch, a chedwch mewn costrel wedi ei chorcio yn dda. Cymhyswch ychydig o hwn at unrhyw friw gwaedlyd, a bydd i'r gwaed beidio ar unwaith.

*GWAEULIF.*—Ymborthwch ar rice, sago, a beef-tea. I'w atal, cymerwch lwyaid o *suet* wedi ei doddi uwch ben tân araf. Na fydded i chwi gymeryd eich gwaedu.

*GWEFUSAU TOREDIG.*—Mêl, llon'd llwy fwrdd; tywelltwch ddiferion o rose neu lavender water iddo. Cymhyswch at y gwefusau yn aml.—*NEU*, mêl, 1 owns; litharge a myrrh, ½ owns bob un; toddwch, a rhoddwch ychydig ddiiferion o lavender water am ei ben; corciwch yn dda.

*GWENWYN.*—*Cyffuriau i wrthweithio ei ddyllanwad.*—Pan wedi cymeryd unrhyw wenwyn, cymerwch halen a

mwstard, llon'd llwy dê o bob un, rhoddwech mewn glasiad o ddwfr. Dyma y cyfoglun mwyaf cyfflyn sydd yn adna-byddus. Dylai bericyflog mewn un mynyd Yna cymerwch wyn dau neu dri o wyau mewn cwpanaid neu ddwy o goffi cryf. Os na bydd coffi, llyngewch yr wyau mewn hufen; os na bydd hufen, mewn llaeth; os na bydd y naill na'r llall, i lawr a'r wyau.

*Iddinystrio grym gwenwyn.*—Llyngewch  $\frac{1}{2}$  peint neu ychwaneg o sweet oil. Bydd i hwn ladd dylanwad pob math o wenwyn.

**GWAEW A PHOEN.**—Rhwbwch yman poenus âg ychydig opodeldoc ddwywaith neu dair yn y dydd, a gwisgwch wlanen wrtho; **NEU**, cymysgwch camphorated spirit, ammonia, sweet oil, a laudanum, rhwbwch y lle poenus yn dda â'r cymysgedd, yna dodwch lian wrtho wedi ei wlychu yn y cymysgedd, a rhoddwch rwymin am dano. Os na rydd hyn esmwythad, cymerwch ugain diferyn o volatile tincture of quiacum, bob nos a boreu.

**GWYNT.**—*Iw chwalu.*—Fennel seeds, aniseeds,  $\frac{1}{2}$  owns o bob un; camomile flowers, 1 owns; thyme gwyllt, gwerth ceiniog; cayenne pepper,  $\frac{1}{4}$  owns. Tywelltwch arnynt 3 peint o ddwfr berwedig. Trowch yn dda, a phan yn oer, hidlwch. Cymerwch o haner i lon'd wine-glass yn achlysurol.

**GWYNT YN YR YSTUMOG.**—Cymerwch oil of juniper, tincture of myrrh, lavender water, sweet nitre, yr un faint o bob un; ysgydwch mewn potel. Dogn: llon'd llwy dê mewn cwpanaid o ddwfr oer. Gwna llai y tro i blant.

**GWYNTOGRWYDD.**—*Mewn plant.*—Cyfyd oddiwrth ddiffyg treuliad. Rhoddwch gyfoglun i beri cyfogiad. Yn mhen dwy awr, rhoddwch ychydig o rhubarb a magnesia, ac ychydig o gaster oil yn achlysurol, mewn dwfr aniseed. Hefyd, badd poeth yn awr ac eilwaith.

**HAINT NEU GLEFYD.**—*I ochelyd ei gael oddiwrth ereill.*—Lluchiwch solution of chloride of lime ar hyd llawr yr ystafell; neu diferwch camphor wedi ei dodi mewn spirits i'ch pocket handkerchief; gellir ei wanha gydag acetic acid.—**NEU**, Ysmociwch y cymysgedd hwn:—Tobacco, 4 owns; cas-

carilla bark,  $\frac{1}{2}$  owns; coffi heb ei losgi, wedi ei falu, 1 owns; cymysgwch, ac ysmociwch yn achlysurol.

**HAUL-LOGSIAD.**—Cymerwch 2 dram o borax, 1 dram o Roman alum, 1 dram o camphor,  $\frac{1}{2}$  owns o siwgr candy, a pwys o ox-gall. Cymysgwch a throwch yn dda am 10 mynyd, a gwnewch felly ddwywaith neu dair bob dydd am bythefnos, nes y byddo yn hollol glir a thryloew. Hidlwch trwy blotting paper, a photelwch.

**HEN FRIWIAU.**—*Enaint.*—Alcohol,  $\frac{1}{2}$  peint; aqua ammonia, 1 owns; oil of organum,  $\frac{1}{2}$  owns; camphor gum,  $\frac{1}{2}$  owns; opium,  $\frac{1}{2}$  owns; gum myrrh,  $\frac{1}{2}$  owns; halen cyffredin,  $\frac{1}{2}$  llon'd llwy frwd. Cymysgwch, ysgydwch yn dda am wythnos cyn ei ddefnyddio.

**HUNLEF (Nightmare).**—Dylai y rhai fyddont yn cael eu poeni gan yr afiechyd annymunol a pheryglus hwn gadw eu meddyliau a'u cryff rhag gorlafur; dylai yr ymborth fod yn syml ac ysgafn, yn neillduol y swper: ni ddylent y pryd hyny fwyta un math o gigfwyd. Mae swm gweddol o lafur (*exercise*) ar draed neu ar gefyll yn llesiol hynod; a gellir cymeryd pilsen yn achlysurol wedi ei gwneyd o'r sylweddau canlynol:—Compound extract of colocynth, haner dram; compound rhubarb pill, un scruple; castile soap, 10 grain; oil of juniper, 5 diferyn; rhaner y cwbl yn 12 o bills. Gellir cymeryd un o honynt yn achlysurol wrth ymied i'r gwely.

**INFLUENZA.**—Gwel *Anwyd trwm.*

**LLESMEIRGLWYF (Epilepsy).**—Rhwystrwch y dyoddefydd rhag niweidio ei hun yn ystod y ffit. Dylid rhoddi darn o bren neu India rubber rhwng ei ddannedd rhag iddo niweidio ei dafod. Symudwch yr holl ddillad tynion oddian dano, yn enwedig oddeutu y gwdff. Codwch y pen a'r ysgwyddau. Os nad â y ffit drosodd, rhoddwch lon'd llwy dê neu ddwy o'r *antispasmodic tincture*. Pan yr â y ffit drosodd, rhoddwch fâdd cynes iddo, a chyfoglun unwaith neu ddwy yn yr wythnos. Dylid rhoddi iddo feddyginiaeth ryddhaol yn awr ac eilwaith. Rhwbier y corff bob yn ail boreu âg yspwng a dwfr oer. Bydded i'r ymborth fod yn syml ac ysgafn.

**LLOSG EIRA.**—I wella llosg eira, golcher y lle â dwfr y byddo pytatws wedi eu berwi ynddo, mor boeth ag y gellir ei oddef. Dalier at y feddyginiaeth syml hon, a cheir gwellhad hollol. **NEU**, Cymerer 1 owns o gopperas gwyn; toddwch mewn chwart o ddwfr, a chymhwyswch yn achlysurol at y man dolurus. Bydded i hyn gael ei wneyd cyn i'r llosg eira dori.—**NEU**, Doder pwltis o wynwyn rhostiedig wrtho.—**NEU**, Golchwch gyda chymysgedd o horse-radish wedi ei wneyd â finegr a dwfr.—**NEU**, Rhwbier hwy o flaen y tân gyda vitriol gwyn a sugar of lead. Ni ddylid defnyddio y feddyginiaeth yma os bydd y llosg eira wedi tori.—**NEU**, Cymerer lard, 2 owns; turpentine,  $\frac{1}{2}$  owns; camphor,  $\frac{1}{2}$  owns; toddwch yn nghyd, a rhwbwch yn dda o flaen y tân.

*Enaint at Losg Eira.*—Un owns o camphorated spirit of wine,  $\frac{1}{2}$  owns o liquid sub-acetate. Cymysgwch, a chymhwyswch yn y ffordd arferol dair neu bedair gwaith yn y dydd.

*Cymysgedd at Losg Eira.*—Un dram o sugar of lead, 2 dram o vitriol gwyn, gwnewch yn bowdwr mân, ac ychwanegwch 4 owns o ddwfr. Dylid ysgwyd y cymysgedd hwn yn dda cyn ei ddefnyddio, yna ei rwbio ar y man dolurus gyda'r llaw o flaen tân da. Yr amser goreu ydyw yr hwyr. Nid yn aml y ffaela a gwella y llosg eira mwyaf cyndyn ar ol ei ddefnyddio ddwywaith neu dair. Ni ddylid ei ddefnyddio os bydd y llosg eira wedi tori.

**LLOSGIADAU AC YSGALDIADAU.**—Os bydd i unrhyw ran o'r corff gael ei losgi neu ei ysgaldio, dylid ei roddi ar unwaith mewn llestraid o laeth newydd, a'i gadw yno hyd nes y byddo y tân wedi ei dynu allan. Rhaid cael swm lled fawr o laeth pan fyddo y rhan fwyaf o'r corff wedi ei losgi; ac os na ellir cael bâdd o laeth newydd, dylid doddi y dyoddefydd i orwedd ar y lle cyfleus cyntaf, a llieniau esmwyth wedi eu gwlychu mewn laeth gael eu cymhwysu yn barhaus ato, hyd nes y byddo y tân wedi ei dynu allan. Rhoddodd y feddyginiaeth yma esmwythâd uniongyrchol i un oedd wedi syrthio i foiler o ddwfr berwedig, nes yr oedd

ei groen yn dyfod ymaith gyda'i ddillad.

*Arall.*—Pilier nifer o bytatws heb eu berwi, a churer hwy mewn mortar; ychwaneger dram o laudanum; cymhwysu ar y man llosgedig fel pwltis. Y mae yn dra effeithiol.

*Arall.*—Gorchuddier y man llosgedig â digonedd o flawd, a gorchudd o gotton wool drosto; a rhodder i'r dyoddefydd ar yr un pryd y cymysgedd canlynol:—Laudanum, 30 diferyn; sulphuric æther, 40 diferyn; brandy, llon'd llwy fwrdd, mewn llon'd wine-glass o ddwfr cynes. Dylid rhoddi hwn yn uniongyrchol, ac eilwaith yn mhen yr awr os na fydd y boen wedi peidio.

*Ereill.*—Gwthier y man llosgedig ar unwaith i ddwfr oer, a chadwch yno nes y byddo y tân wedi ei dynu allan.—**NEU**, Doder llian pedwarplyg wedi ei wlychu mewn dwfr oer wrth y lle, gan ei newid pan fyddo yn dechreu cynhesu.—**NEU**, Doder wynwyn wedi ei ysigo wrth y lle.—**NEU**, Lime-water a sweet oil o dewder hufen. Cymhwyswch gyda phluen. **NEU**, Gorchuddiwch â blawd; neu driagl, a blawd ar hyd-ddo.—**NEU**, Gorchuddier â gwyn wŷ.

**LLOSGI YN Y GWYNER.**—Cyfyd oddiar surni yr ystumog. Cymerwch lon'd llwy dê neu ddwy o magnesia mewn laeth am ychydig o foreuan.

**LUMBAGO.**—Math o gryd cymalau poenus.—*Cyngor*: Rectified oil of turpentine, 25 diferyn; vitriolic æther, 1 scruple; mucilage of gum arabic, 3 dram; syrup of poppies, 1 dram; rose water,  $\frac{1}{2}$  owns; cymerwch wrth fyned i'r gwlyb.

**LLYGAD DU.**—Os bydd yn dra poenus ac yn enynu, golcher yn aml â dwfr cynes, gydag ychydig carbonate of soda yn doddedig ynddo; neu gyda'r un faint o tincture of opium a dwfr. Os bydd y boen yn llym, dodder wrtho bwltis o slippery elm bark. Cymysgwch â laeth, a dodwch arno yn dwym.—I symud y duwch, rhwymwch ychydig o gig amrwd wrtho; neu bwltis o wraidd Solomon's seal.

**LLYGAID.**—*Cochni ynddynt.*—Cymhwysu llian wedi ei wlychu mewn dwfr oer atynt am ddwy awr neu dair.



NEU, dodder wrthynt bwltis o hyssop wedi eu berwi.

*Enyniad y Llygaid.*—Cymysgwech frwision bara gyda gwyn ŵy, 3 diferyn o laudanum, 3 diferyn o frandi, ac ychydig o halen. Cymhwyswech mewn cŵd muslin bychan. Gwell ei ddodi yn y nos pan y byddwch yn gorwedd i lawr. Rhodda esmwythad uniongyrchol. —Yfwech hefyd dē llysieu'r llygaid (*eye-bright*), a golchwech y llygaid âg ef.

*Pilen ar y Llygaid.*—Cymysgwech sudd llysieu'r llygaid (*eye-bright*), a sudd eiddew'r ddaear (*ground ivy*), gyda gronyn neu ddau o bay salt, gydag ychydig o fēl. Diferwch i'r llygaid hwyr a boreu.

*Gwlybor poeth yn y Llygaid.*—Cymhwyswech ychydig ddiferion o double refined sugar wedi ei doddi mewn brandi.—NEU, berwech ddyrnaid o ddail mieri gydag ychydig o alwm mewn chwart o ddwfr ffynon. Berwech nes y byddo yn chwart. Diferwch beth o hwn yn aml i'r llygaid.

*Enyniad yn y Llygaid neu yr Amrantau.* Dodwech arnynt bwltis o afalau wedi eu berwi, eu rhostio, neu wedi pydru, yn gynhes.—NEU, Blodewermod gyda melyn ŵy.

*I symud uwrlaw beth fyddo wedi mynd i'r Llygaid.* Cymerer gafael yn ngonglau yr amrant uchaf gyda bys a bawd y ddwy law, tyner yr amrant allan mor bell ag y gellir, a thyner hi i lawr mor bell ag yr â dros yr amrant isaf, gan ei chadw felly am oddeutu mynyd, a gofalu am rwystro y dagrau rhag llifo o'r llygad. Ar ddiwedd yr amser, pan y bydd i chiwi ollwng yr amrant i'w lle, bydd i ffrwd o ddagrau redeg a golchi ymaith y sylwedd a aeth i'r llygad, yr hwn a geir yn glynu yn agos i'r amrant isaf.

**LYGAIID GWEINIAD.**—Golchwech yn aml mewn dwfr oer, neu mewn trwyth o llysieu'r llygaid (*eye-bright*).—NEU, Baddiwch y llygaid yn aml mewn dwfr a halen, neu mewn brandi gwan, halen, a dwfr.

**LLYNORYN DUGOCH.**—Doder wrtho bwltis o flawd had llin a rhisgl slippery elin, wedi eu berwi yn dda. Bob tro y byddo y lle yn cael ei drin, dylid ei olchi a dwfr a sebon.

**LLYNOROD (Ulcers).**—Sychwech a phowdrwech ddeilen cnau ffreinig (*walnut*), lluchiwech y llwch ar hyd y ploryn, a rhoddwch ddeilen heb ei phowdro ar y llwch.—NEU, Berwech ddail cnau ffreinig mewn dwfr gydag ychydig o siwgr. Cymhwyswech lian wedi ei wlychu yn hwn, gan ei newid bob yn ail ddydd. Iachaodd hwn ganoedd.—NEU, Golchwech hwyr a boreu â thrwyth dail cnau ffreinig, a rhwymwech y dail wrtho.

**LLYNGYR.**—Mae y cymysgedd canlynol yn werthfawr:—Senna goreu, carolina pinkroot, manna, worm-seed, rhubarb,  $\frac{1}{2}$  owns o bob un. Briwiwech, a dodwch i sefyll am ddwy awr neu dair mewn dwfr berwedig. Melyswch â thriagl. Dodwch i blentyn chwech oed oddeutu tair llon'd llwy dē y dydd. Llai i blant ieuangach. *Dylid cadw pob math o felysion oddiwrth blant.*

*Arall.*—Jalap,  $\frac{1}{2}$  owns; rhubarb wedi ei bowdro,  $\frac{1}{2}$  owns; gamboge, 2 dram; syrup o bear's-foot, digon i'w wneyd yn bâst; yna gwnewch yn lozenges o'r maintioli cyffredin, neu gwna y cyfferiwr hwy i chiwi. Dogn:—I blentyn tair blwydd oed, haner lozenge; chwe' blwydd oed, 1 lozenge; ac felly yn y blaen, yn ol yr oedran.—NEU, spirits of turpentine o 8 diferyn i lon'd llwy dē, mewn gruel wedi ei felysu.

*Arall.*—Cymerer dwy lon'd llwy dē o worm-seeds neu hadau llyngyr mewn triagl, am chwech o foreuau.

*Arall.*—Senna, carolina pink, 1 owns o bob un; peach leaves, male fern,  $\frac{1}{2}$  owns o bob un; kouso, 1 $\frac{1}{2}$  owns. Powdrwech, ac ychwanegwech atynt gwpanaid o ddwfr pur, agos yn ferwedig; dodwch mewn potel, ac ysgydwech yn dda am ddiwrnod; yna ychwanegwech lon'd cwpan o spirits of wine. Ysgydwech yn dda amryw weithiau yn y dydd am wythnos, gan gadw y hotel mewn lle cynes. Yna ychwanegwech lon'd cwpan o ddwfr poeth yn yr hwn y bu haner llon'd llwy dē o cayenne pepper yn sefyll yn flaenorol.—Mae y cyngor hwn yn werthfawr, bydd i bob math o lyngyr ffoi o'i flaen. Dogn:—I blentyn 6 blwydd oed, llon'd llwy dē bedair gwaith y dydd. Gellir ei roddi mewn coffi wedi ei felysu yn dda.

*Clefyd y Llyngyr.*—Berwch ddyrnaid o rae a wermod mewn dwfr: golchwch y holl a'r trwyth, a chymhwyswch y dail fel pwltais; gwnewch yr un peth nos a boreu. Bydd i hyn yru llyngyr oddiwrth blant yn aml na bydd yn bosibl cael ganddynt gymeryd unrhyw feddyg-inaeth fewnol.

**MAGU DANNEDD.**—Mae plant weithiau yn dyoddef poen llymdost wrth dori eu dannedd cyntaf, a dilynir hyn y flitiau, y rhai yn aml a derfynant yn angeuol. Y flodd i oehelyd hyn oll ydyw tori y croen fydd dros y dannedd gyda *lance*. Bydd i hyn esmwythau y boen, a rhwyddhau flodd y dannedd i ddyfod allan.

**MANWYNAU** (*scrofula*).—Cymerwch gymaint o cream of tartar ag a safar swllt foreu a hwyr. NEU, Gwnewch ddeilen cacamwei (*burdock*) wedi ei sychu yn beint o dê; cymerwch haner peint ddwywaith yn y dydd am 4 mis. Gwn i hyn wella canoedd.—*Wcsley*.

**MEDDWDOD.**—*I wella fit o feddw-dod.*—Cymerwch owns o minderus spirit mewn llon'd cwpan o ddwfr. Rhoddwch bob chwarter awr.

**MELLT A THARANAU.**—Yn ystod yr ystomydd hyn, gochelwch goed, a lleoedd uchel o bob math. Os dilynir y fellten yn uniongyrchol gan y daran, arwydda fod yr hylif trydanol yn agos iawn, a'r pryd hyn ystum orweddog yw y diogelaf.—Gochelwch afonydd a llyn-oedd, oblegid mae dwfr yn tynu y mell, ac y mae personau mewn llongau neu gychod mewn perygl mawr.—Gochelwch fod yn agos i'r tân, oblegid y mae yr heyrn, yr huddgl, a'r gwres, oll yn arweinwyr da.—Na sefwech yn ymyl ffenestr agored, oblegid mae yr awr gynes o'r ystafell yn arweinydd da. Y gwely yw y lle diogelaf o bob man, oblegid nid oes natur tynu mell mewn plyf, na dillad y gwely.

**METHU CYSGU.**—Gochelwch unrhyw gynhwrf meddyliol trwy wrando ar hanesion dychrynlyd, darllen flug-chwedlan, myned i dymer ddiwg, &c., cyn myned i'r gwely.—Gocheiwch swper trwm. I gysgu yn drwm trwy'r nos, bwyteiwch swper ysgafu a syml.—Ewch i'ch gwely yn gyuar.

**MOELNI.**—Rhwbwch y man moel yn

aml a sudd wynwyn nes y byddo yn goch.—NEU, Dwfr, 1 peint; pearlsh,  $\frac{1}{2}$  owns; sudd wynwyn, chwarter peint; rum, chwarter peint; oil of rosemary, 20 diferyn. Rhwbwch y pen yn drwm a lliau wedi ei wlychu yn y cymysgedd.—NEU, Cymerwch 4 owns o castor oil, 8 owns o rum da, 30 diferyn o lavender water, cymhwyswch yn aml at y pen, a gofalu am ysgwyd y botel yn dda bob tro ygwneleir hyn.—NEU, Mêrbeef, wedi ei olechi yn dda a'i doddi,  $\frac{1}{2}$  pwys; tincture of cantharides, 1 owns; oil of bergamot, 12 diferyn.

**NEURALGIA, NEU TIC DOLOREUX** (*Poen y giaw*).—Rhoddwch haner dram o sal-ammonia mewn owns o camphor water. Cymerwch lon'd llwy dê ar unwaith, a mynychwch y dogu bob pum' mynyd hyd nes yr esmwythâ y boen.—NEU, Cymerwch extract of valerian, 2 owns; henbane,  $1\frac{1}{2}$  owns; aconite,  $\frac{1}{2}$  owns. Cymysgwch yn dda, a chyda; oil of lavender gwnewch yn bills. Cymerwch un neu ddwy bob pedair awr. Mae yn feddyginiaeth werthfawr ac effeithiol.—NEU, Cymhwysor horse-radish wedi eu briwio wrth y man poenus.—Defnyddir chloroform hefyd gyda llwyddiant. Cymhwysor ef at y mau poenus gyda *lint*, a gorchuddir â gwlanen.

**PAS AR BLANT.**—Defnyddiwch y badd oer bob dydd.—NEU, Rhwbwch y traed yn dda gyda blong neu lard mochyn, o flaen y tân, wrth fyned i'r gwely, a chedwch y plentyn yn gynes yno.—NEU, Rhwbwch y cefn pan ar orwedd gyda hen rum. Anaml y metha.—NEU, Rhoddwch lon'd llwy o sudd pennyroyal, cymysgedig a siwgr candy llwyd, ddwywaith yn y dydd.

*Èreill.*—Toddwch scruple o salt of tartar mewn chwarter peint o ddwfr; ychwanegwch 8 diferyn o laudanum, melyswch a siwgr. Rhoddwch i faban lon'd llwy dê bedair gwaith yn y dydd; dwy flwydd oed, dwy lwyaid; i un pedair oed, llon'd llwy fwrdd.—NEU, Cymerwch o flower of Benjamin, ac opium wedi ei ystraenio, 2 dram o bob un; camphire, 2 scruples; essential oil of aniseed,  $\frac{1}{2}$  dram; rectified spirit of wine, 1 chwart; 4 owns o liquorice wedi ei bowdro; a 4 owns o fêl: cymysgwch

ac ystreiniwch.—*NEU*, Cymerwch ipecacuanha, 14 grain; dwfr poeth,  $\frac{1}{2}$  pint. Gadewch i sefyll. Cymerer llon'd llwy dê yn awr ac yn y caner.

*PENDDUYNOD*.—Rhoddwch ychydig venice turpentine wrthynt.—*NEU*, Yr un faint o sebon a siwgr llwyd wedi eu cymysgu yn dda.—*NEU*, Plastr o fêl a blawd.—*NEU*, Plastr o ffigys.—*NEU*, Saffrwm mewn pwltis bara gwyn.—*NEU*, Llon'd llwy fwrdd o furym mewn gwydriad o ddwfr ddwywaith yn y dydd. Cadwer y corff yn agored.

*PENYSGAFNDER*.—Blodeu camomile, valerian root, 1 owns o bob un; rhubarb wedi ei bowdro, 3 drams. Berwch mewn 3 pint o ddwfr nes y byddo wedi myned yn un chwart. Dogn: Llon'd wine-glass 3 neu 4 gwaith yn y dydd.

*P E S W C H*.—*Peswch Gogleisiol*.—Chwe' llon'd llwy fwrdd o driagl; sudd haner lemon; dodwch i ledferwi ar y tân nes y byddont wedi ymgymysgu 'u gilydd yn dda. Cymerwch oddiar tân, ac ychwanegwch lon'd llwy fwrdd o paregoric, ac oddeutu yr un swm a ffeuen o refined nitre. Cymerwch ddwy lon'd llwy dê pan fyddo y peswch yn boenus.—*NEU*, Cymerwch 4 owns o siwgr candy, wedi ei bowdro;  $\frac{1}{2}$  owns o citric acid neu sudd lemon; cymysgwch trwy wres; ychwanegwch ychydig ddi-ferion o oil of aniseed. Os na fydd y peswch yn sych, ychwanegwch 20 di-fer-yn o laudanum, neu lon'd dessert spoon o paregoric.—Cymerwch lon'd llwy dê pan fyddo y peswch yn boenus.—*NEU*, Dwy lon'd llwy fwrdd o hâd llin, 4 owns o liquorice root, neu spanish juice, 4 owns o Elecampane root; dwfr, 3 chwart. Berwch nes y byddo yn 3 pint. Dogn: Llon'd wine-glass 4 neu 5 gwaith yn y dydd.

*Peswch caethiwus*.—Cymerwch ddau ddyrnaid da o ddail carn yr ebol (*colts-foot*), 1 owns o arleg; a 2 chwart o ddwfr. Berwch nes y byddo yn 3 pheint.—Ystreiniwch, ac ychwanegwch ato 8 owns o siwgr, a berwch yn araf am 10 mynyd. Cymerwch haner cwpanaid yn achlysurol.

*Peswch nychlyd*.—Sanctuary, horehound, Bayberry bark, gwerth dwy geiniog o bob un; agrimony, dail mafon, clevers, a ground ivy, ceiniogwerth

o bob un; extract of liquorice, 4 owns; a haner llon'd llwy dê o cayenne pepper. Lledferwch yn araf mewn dau alwyn o ddwfr am awr.

*Peswch cyndyn*.—Cymerwch beint o laeth, poethwch ef, a phan y byddo ar ferwi, ychwanegwch gymaint o fwstard ag a'i try yn gaws. Cymerwch ymaith y caws, a rhoddwch owns o siwgr candy llwyd mewn haner pint o'r gwlybur. Cymerwch pan yn eich gwely, mor boeth ag y gellwch ei oddef. Gwnewch felly am dair noswaith neu bedair.

*Peswch sych*.—Toddwch  $\frac{1}{2}$  owns o gum arabic,  $\frac{1}{2}$  owns o spanish juice, a dwy lon'd llwy fwrdd o driagl, mewn ychydig o ddwfr poeth; ychwanegwch ato 3 dram o syrup of squills, a 2 dram o syrup of poppies. Corciwchac ysgyd-wch yn dda. Cymerwch lon'd llwy dê pan fyddo y peswch yn boenus; yfwech dê hâd llin, wedi ei felysu a siwgr candy.—*NEU*, Cnowch ychydig Peruvian bark, gan lyngeu y poeredd yn barhaus. Anaml y metha.—*NEU*, Llon'd dwy lwy fwrdd neu dair o hâd llin, sypyn bychan o horehound; berwch nes y byddo yn jelly, ac ystreiniwch. Ychwanegwch  $\frac{1}{2}$  pwys o siwgr candy,  $\frac{1}{2}$  pwys o fêl,  $\frac{1}{2}$  pwys o siwgr lwmp. Yn gyntaf berwch yr horehound mewn chwart o ddwfr; yna ychwanegwch yr hâd llin wedi ei ystreinio a'r pethau ereill. Lledferwch am 2 awr. Pan yn oer, ychwanegwch werth swllt o chlorodyne. Potelwch a choreiwch yn dyn. Rhodder ynddo ychydig spirits of wine neu frandi i'w gadiw. Cymerer llon'd llwy fwrdd pan fyddo y peswch yn boenus. *Mae hwn yn gynghor anmhris-iadwy*—*NEU*, Toddwch 2 owns o suet mutton mewn chwart o laeth, ac yfwech yn dwym. Esmwytha beswch angerddol.—*NEU*, Cymerer yr un swm o finegr a thriagl; llon'd llwy fwrdd pan fyddo angen am dano.—*NEU*, Cymerwch fêl a thriagl, 4 owns o bob un; finegr goreu, 5 owns. Cymysgwch, a lledferwch mewn llestr pridd am chwarter awr. Pan yn oer, ychwanegwch lwyaid o paregoric elixir. Dogn: llon'd llwy fwrdd deirgwaith neu bedair yn y dydd. Cymera plant hwn yn rhwydd.

*PIGYN YN YR OCHR (stitch)*.—Cy-

mhwyswch ato driagl wedi ei daenu ar bapur llwyd.

**PIGYN YN Y GLUST.**—Rhwbiwch y glust yn dda am chwarter awr.—**NEU**, Dodwch wynwyn, neu ffygysen, wedi ei rhostio ar y lle, mor boeth ag y gellir ei goddef.—**NEU**, Chwythwch fwg tybaco yn gryf iddi.—**NEU**, Dodwch yn y glust gadach wedi ei wlychu a sweet oil a laudanum.—**NEU**, Gwlychwch gadach mewn laudanum, a gorchuddiwch y glust ag ef.

**PILES.**—Cymhwyswch driagl poeth.—**NEU**, Deilen dybaco wedi bod mewn dwfr am 24 awr.—**NEU**, Pwltis, o hên wŕ (*brook-lime*). Anaml y metha.—**NEU**, Wynwyn wedi ei ysigo, ei bilio, neu ei rostio mewn lludw. Gwellha y piles sychion.—**NEU**, Mygdarthwch a finegr, yn yr hwn y bu flints tanlyd.

**Piles Meunol.**—Llyngwch bilsen o pitch, yn y boreu y peth cyntaf. Mae un bilsen yn aml yn gwella y piles gwaedlyd.—**NEU**, Bwytwch geninen (*leek*) fawr, wedi ei berwi. **NEU**, Cymerwch ddwywaith yn y dydd gymaint ag a saif ar swllt o lwch croen teneu cnau frein-giwedi ei bowdro.

**Piles Gwaedlyd.**—Berwch sudd dan- adl poethion gydag ychydig siwgr; cymerwch 2 owns. Anaml y bydd angen am ei gymeryd eilwaith.

**Eli at y Piles.**—Cymerwch o emolient ointment, 2 owns; laudanum,  $\frac{1}{2}$  owns. Cymysgwch yn nghyd gyda melyn wŕy, a gweithiwch yn nghyd yn dda.

**Piso.**—**Anwiroddol.**—Os gall y dyoddefydd ei oddef, cymered fadd oer.—**NEU**, Cymered lon'd llwy dê o agrimony wedi ei bowdro mewn ychydig ddwfr nos a boreu.—**NEU**, Chwarter peint o bosel alwm bob nos.

**Piso gwaedlyd.**—Yfwrch yn helaeth o ddwfr oddiar lysieu y gwaedling (*yar-row*).

**Methu Piso.**—Gall gyfodi oddiwrth y grafel. Yfwrch yn helaeth o lemonade cynes.—**NEU**, Cymerwch scruple o nitre bob dwy awr.—**NEU**, Llon'd llwy o sudd lemon wedi ei felysu a syrups of violet.

**PISGLWYF** (*diabetes*), neu biso yn ormodol.—Yfwrch win, wedi ei ferwi gyda ginger, gymaint ag a alloch gymeryd. Bydded eich diod yn gynnwysedig o laeth a dwfr.—**NEU**, Yfwrch chwarter

peint o bosel alwm deirgwaith yn y dydd. Gwneir y posel trwy rodli 3 dram o alwm mewn pedwar peint o laeth. Anaml y metha a gwella mewn 8 neu 10 diwrnod.

**PLOROD** (*abcess*).—Dylid cymhwyso atynt bwltis cynes a golchiadau, a meddyginiaeth ryddhaoi. Y peth goreu i'w golchi ydyw trwyth blodeu camomile, poppy-heads, neu ddail hemlock. Gellir gwneyd y pwltis o fara a dwfr, neu flawd hâd llin. Dylid cymhwyso y rhai hyn nes iddo dori. Ar ol iddo dori gadawer i'r mater redeg allan, ac ar ol iddo orphen, dodwch gadachau llai wrtho am ddiwrnod neu ddau; yna tynwch y briw at ei gilydd gyda diachylon plaster, a rhoddwch eli spermacti ar y clwyf. Os bydd y ploryn yn hir yn aeddfedu, dodwch bwltis o flawd ceirch wrtho, wedi ei gymysgu a cŵfr, ychydig furym, a halen.

**PLOROD LLAETH.**—Poenir mamau gan y rhai hyn, a dylid bod yn ofalus gyda hwynt. Cymhwyswch atynt finegr poeth bob dwy awr. Os gwneir hyn mewn pryd, ceir esmwythad buan.

**POEN YN Y CEFN.**—Dodwch wreiddiau y water-fern i sefyll mewn dwfr, nes y byddo y dwfr yn dew a gludiog; yna rhwbiwch y lleoedd poenus ag ef nos a boreu.—**NEU**, Rhoddwch blastr arno, a chymerwch balsam of capivi bob dydd.—**NEU**, Rhwbiwch wadnau y traed gyda lard mochyn a garlleg.

**POENAU YN Y PEN A'R GWYNEB.**—Cymerwch haner peint o rose-water, dwy lon'd llwy dê o finegr gwyn, a chymysgwch. Cymhwyswch at y man dolurus dair gwaith yn y dydd. Rhaid cael cadach glân bob tro y cymhwysir y feddyginiaeth; bydd i'r drin:zeth yma gymeryd y boen ymaith yn raddol mewn deuddydd neu dri.

**POENAU YN YR AELODAU.**—Gwnewch bwltis o ddail ieuaincge llysiu yr ysgyfarnog (*rags-wort*), a dodwch ar y man dolurus mor boeth ag y gellwch ei oddef.

**POEN YN YR OCHR.**—Wrth fyned i'r gwely cymhwyswch ddeilen cabbage ffres, wedi ei phloethi o flaen tân, a'i rhwymo yn dynn am y corff am 12 awr,

neu ychwaneg. Symuda yn y boen yn gyffredin; os na wna, rhodder yn arall.

**POERI GWAED.**—Cymerwch lon'd cwpan tē o *prunes* wedi eu stiwio wrth fyned i'r gwely, am ddau dro neu dri.—**NEU**, Dwy lon'd llwy dē o sudd danadl poethion (*nettles*) bob boreu; a chwpan-aid dda o ddiod dail danadl poethion wrth fyned i'r gwely, am wythnos.—**NEU**, Tair llon'd llwy o sudd sage mewn ychydig dē.—**NEU**, Haner llon'd llwy dē o Barbadoes tar, ar lwmp o siwgr gwyn yn y nos. Gwellhâ hwn yn gyffredin ar unwaith.

**PRYFAID YN MHENAU PLANT.**—*Y modd i'w dinystrio.*—Cymerwch 1 owns o finegr ac owms o stavesacre,  $\frac{1}{2}$  owns o fêl,  $\frac{1}{2}$  owns o sulphur, a 2 owns o sweet oil. Cymysgwch, a rhwbiwch y pen âg ef.

**RING-WORMS** (*Tardd-urceinym*).—Cymhwyswch afalau pydredig, neu arllwg wedi eu hysgion.—**NEU**, Rhwbiwch hwy â sudd cynffon y llygoden (*house-leek*).—**NEU**, Golchwch hwy â camphorated Hungary water.—**NEU**, Rhwbiwch hwy ddwywaith yn y dydd ag oil sweet almonds ac oil of tartar wedi eu cymysgu.

**RHWYMEDD.**—Aloes wedi ei bowdro, jalap, gamboge, colocynth, extract of gentian, mandrake, cayenne pepper,  $\frac{1}{2}$  owns o bob un; castile soap,  $\frac{1}{4}$  owns; oil of peppermint,  $\frac{1}{4}$  dram. Cymysgwch yn dda, a ffurfiwch yn beleni. Gwethiant yn dda, heb beri poen, na gwanhau. Dogn: dwy neu dair o'r peleni.

**RHYDDNI yn yr ymysgarocdd, gyda phoen**—Laudanum, 24 diferyn; sj-irituous cinamon water,  $\frac{1}{2}$  gill; os na ellir ei gael, defnyddier brandy. Cymerwch lon'd llwy fwrdd ar y tro.

**SALWCH Y MOR.**—Cymerwch ychydig ddiferion o camphorated spirit, sal volatile, a Hoffman's æther, mewn ychydig ddwfr, neu ar lwmp o siwgr gwyn.—**NEU**, Llon'd llwy dē o bicarbonate of soda mewn haner peint o ddwfr.

**SCURVY.**—Cymerwch 2 owns bob un o ddail llygaid y dydd a gwreiddiau dandelion. Berwch mewn tri chwart o ddwfr nes y byddo yn chwart. Cymerwch lon'd cwpan nos a boreu.—**NEU**, Cymerwch ddwfr tar, foreu a hwyr, am 3 mis.—**NEU**, Tair llon'd llwy o sudd

danadl poethion bob boreu.—**NEU**, Tywelltwech 3 chwart o ddwfr berwedig ar chwart o frâg wedi ei falu; trowch yn dda, a gadewch i'r cymysgedd sefyll wedi ei orchuddio am 4 awr; ystreiniwch, ac yfswch fel diod gyffredin. Ar dywydd poeth dylid ei wneyd yn ffres bob dydd. Braidd y metha byth.—**NEU**, Cymerwch foreu a hwyr lwyaid neu ddwy o sudd lemon a siwgr. Mae hon yn feddyginiawth werthfawr. Os bydd blas hallt ar y geneu, cymerwch beint o ddwfr calch foreu a hwyr.

**SURNI YN YR YSTUMOG.**—10 grain o Calumba, wedi ei bowdro, a 10 grain o magnesia, wedi eu cymysgu yn dda.

**SURNI A GWYNTOGRWYDD ar blant.**—Cyfyd yn aml oddiwrth anhuredd llaeth y fam; os felly, rhaid i'r fam gymeryd y *Neutralizing Mixture*; os na fydd yn effeithiol, rhodder peth o hono i'r plentyn. Hefyd, golcher y bol â brandy a dwfr poeth, ac ychydig halen ynddo.

**SWN YN Y CLUSTIAU.**—Diferwch sudd wynwyn iddynt.

**TARAWIAD MELLTEN.**—Lluchiwch ddwfr oer ar hyd y pen a'r gwyneb, rhwbiwch y spine, a dodwch bwltis mwstard wrth y traed.

**TARDDIADAU.**—Ipecacuanha wine, 4 drams; flowers of sulphur, 2 dram; tincture of cardamums, 1 owns. Cymysgwch. Un lon'd llwy dē i'w gymeryd deirgwaith yn y dydd, mewn lon'd wine-glass o ddwfr.

**TARDDIADAU AR Y GWYNEB.**—Ar ol ymoichi, twymolcher y tarddiadau gyda camphor spirit ddwywaith neu dair yn y dydd.

**TIC DOLOREUX.**—Cymerwch  $\frac{1}{2}$  peint o rose water, ac ychwanegwch lon'd 3 llwy dē o finegr gwyn. Dodwch wrth y lle dolurus 4 neu 5 gwaith yn y dydd. Rhaid rhoddi cadach glân bob tro. Bydd i hyn gymeryd y boen ymaith mewn 2 neu 3 diwrnod.—Y mac quinine hefyd yn dda rhag y Tic.

*Arall.*—Tywelltwech beint o ddwfr berwedig ar 1 owns o valerian root, a  $\frac{1}{4}$  owns o cassia. Gadewch i sefyll am 24 awr. Cymerwch lon'd wine-glass dair gwaith yn y dydd, cydrhwng prydiau bwyd, gyda llon'd llwy dē o Peruvian bark wedi ei bowdro, yn mhob

glasiad. Na chymerwch dé, coffi, cwrw, porter, na dim sur, ond ymborth ysgafn a maethlon; a chedwch y coluddion yn rheolaidd gydag ychydig Turkey rhubarb.

**TORIADAU.**—Y cwbl sydd yn angenrheidiol ydyw glanhau y gwaed fyddo o'i amgylch, a dwyn mylon y briw at eu gilydd, gan eu cadw yn y sefyllfa hono gyda *slips* o blastr; ac os bydd y toriadau yn ddwfn a hir, dylid cynorthwyo y plastr gyda rhwymyn cryf am yr aelod ar yr hwn y byddo y briw. Ar ol ei wneyd i fyny dylid ei adael heb ei drin am drineu bedwar diwrnod; os bydd poen ac enyniad yn dilyn y ddamwain, dylid cymeryd physig rhyddhaol tyner.—Os byddwch yn methu atal y gwaed o'r briw, gwna ychydig o wê y pryf copyn ei atal.

**WEN.**—Cymerwch gareg galch a rhoddwch i yslacio mewn dwfr sebon; yna cymysgwch gydag ychydig sebon. Iaenwch fel plastr, a chymhwyswch at y wen, a golchwch yn aml â'r dwfr yn yr hwn yr yslaciwyd y calch. Bydd iddo wella yn fuan.

**Y GAREG.**—Curwch wynwyn a chymhwyswch fel pwlitis at y cefn, neu at yr arffed. Rhodda esmwythâd ar unwaith.—**NEU,** Cymerwch foreu a hwyr lon'd llwy dé o wynwyn, wedi eu llosgi yn llwch gwyn ar y rhaw dân, mewn sherry. Bydd i owns yn aml doddi y gareg.—**NEU,** Berwch owns o wraidd ysgall cyffredin, a 4 dram o liquorice mewn peint o ddwfr. Yfwech beth o hono bob boreu.

**YMGRAFU.**—Sweet oil, 1 pwys; suet, 1 pwys; toddwch a chymysgwch; yna ychwanegwch nitre wedi ei bowdro, 3 owns; alwm wedi ei bowdro, 3 owns; sulphate of zinc, 3 owns; oil of aniseed, oil of spike, ac oil of organum, i'w berarogli.—**NEU,** Cymysgwch 2 owns o lard gydag 1 owns o sulphur-vivum, ac ychydig ddiferion o essence of lemons. Rhwbier y lle a flinir yn dda â hwn cyn myned i'r gwely. Yn y boreu ymolchwch â dwfr cynes a sebon; newidiwch eich dillad isaf i gyd. Ewch trwy yr un oruchwyliaeth eilwaith os bydd angen. Cymerwch ar yr un pryd flour of sulphur a cream of tartar, mewn

llaeth neu driagl.—**NEU,** Golchwch y rhanau dolurus â rum. Profwyd.—**NEU,** Eneiniwch â sebon du, ond golchwch ef ymaith yn fuan.—**NEU,** Rhoddwch gryns am haner awr mewn chwart o ddwfr a haner owns o frwmstan powdredig wedi ei ddodi ynddo. Sychwch yn araf, a gwisgwch am wythnos. Os bydd angen, gwnelw hyny eilwaith. Profwyd.—**NEU,** Curwch yn nghyd sudd dau neu dri lemon, gyda'r un swm o oil of roses. Irwch y man dolurus. Gwellhâ yn fuan.

**YMSGAROEDD, POEN YN YR.**—Tincture of rhubarb, 1 owns; syrup of rhubarb, 1½ owns; laudanum, ¼ owns; essence of peppermint, ¼ owns; cymysgwch mewn chwarter peint o frandi goreu, a chorciwch yn dŷn. Pan fo angen am dano, cymerwch ddwy lon'd llwy dé mewn haner glasiad o ddwfr cynes, ac esmwythâ y boen ar unwaith. I *blant*, rhoddwch tincture of kivo, o 6 i 30 diferyn, mewn ychydig o ddwfr cynes wedi ei felysu.

**YSGALDIO A LLOSGI.**—Baddier y fan gyda finegr poeth gyda cadach, ac yna gorchuddiwch âg enaint wedi ei wneyd o turpentine a basilicon melyn. Bydd yn boenus ar y cyntaf, ond peidia yn fuan, a bydd y clwyf yn esmwyth.

**YSIGO.**—Daliwch y lle mewn dwfr oer iawn am ddwy awr.—**NEU,** Cymhwyswch lineiniau pedwarplyg wedi eu gwlychu ynddo at y man a ysigwyd, a chedwch yno am ddwy awr, gan eu newid pan fyddont yn poethi.—**NEU,** Berwch bran mewn finegr gwin nes y byddo yn dew. Dodwch hwn yn bwltis wrtho pan yn boeth, a rhoddwch un arall yn mhen 12 awr.—**NEU,** Cymysgwch ychydig o turpentine gyda blawd a melyn wŷ, a chymhwyswch fel plastr. Mae hwn yn dra effeithiol.

**YSIGO Y TROED.**—Gwthiwch y bysedd o dan y troed, ac ar ol iro y ddau fawd, gwasgwch hwy bob yn ail, yn drymach o hyd, ar y man dolurus, am oddeutu chwarter awr. Parhewch i wneyd hyny lawer gwaith, neu nes y byddo y dyoddefydd yn gallu cerdded. Dyma feddyginiath syml i beth sydd yn dygwydd yn aml, a gellir ei chyflawni gan y mwyaf anwybodus.

**DAMWEINIAU A DYGWYDD-IADAU SYDYN A PHERYGLUS.**—*Mor fuan ag y dygwydd damwain anfonwch ar unwaith am feddyg, ond triniwch fel y cyfarwyddir hyd nes y cyrhueddo.*

**LLOSGI AC YSGALDIO.**—Mewn achos o losgi neu ysgaldio, nis gall y ffeithiau canlynol gael eu hargraffu yn rhy ddwfn ar feddwl y darlennydd, sef mai y peth cyntaf, gorcu, ac yn aml yr unig beth angenrheidiol, ydyw dalenau o wadding, gwlan esmwyth neu gotwm, os na fydd y pethau hyn wrth law, blawd, magnesia, neu chalk. Yr un amcan sydd mewn golwg wrth ddefnyddio pob un o'r pethau hyn yn mhob achos, sef cadw yr awyr oddiwrth y man llosgedig; oblegid os gellir cadw yr awyr draw yn effeithiol oddiwrth y dolur, ac os cymerir gofal o'r man tyner nes y ffurfir y croen newydd, gellir gadael y gwelldhad yn ddiogel i natur. Y foment y gellwir ar berson at achos o losgi neu ysgaldio, dylai orchuddio y man gyda dalen o wadding, gan gymeryd gofal i beidio tori unrhyw chwysigen a all fod wedi codi, neu aros i symud unrhyw ddilledyn llosgedig a fyddo yn glynu wrth y croen, ond mor fuan ag y byddo modd i guddio pob rhan o'r lle dolurus oddiwrth yr awyr; ac os gwlan neu gotwm a ddefnyddir, rhaid gwneyd yr un fath, gan ofalu rhoddi digon o drwch o hono; dylid rhoddi rhwymyn ysgafn am y cwbl. Gellir defnyddio unrhyw o'r meddyginiaethau a nodir isod, pan nas gellir cael gwlan, cotwm, na wadding, oblegid dylid cofio bob amser mai y peth hwnw a geidw yr awyr lwyraf oddiwrth y dolur yw y peth goraf a mwyaf effeithiol. Hyd yn hyn, nid oes dim yn well at gyraedd yr amcan na wadding neu gotwm.

*Os bydd y croen wedi ei niweidio yn fawr mewn llosgiadau, taenwch chalk ointment yn lled dew ar gadach, a dodwch ar y lle, a rhoddwch frandi a dwfr i'r dyoddefydd os bydd wedi ei wanhau yn fawr; yna anfonwch am feddyg. Os heb ei niweidio yn fawr, ac yn dra phoenus, defnyddiwch yr un enaint, neu cymhwyswch gotwm wedi ei drochi mewn dwfr calch a linseed oil. Ymddygwch at ysgaldiadau yr un modd.*

Os na bydd yr un o'r pethau hyn, gorchuddiwch y lle â thriagl, a lluchiwch ddigon o flawd hyd-ddo.

**DILLAD AR DAN.**—Rhoddwch y person i orwedd ar ei hyd ar lawr yr ystafell, a theflwch orchudd y bwrd, neu rhyw frethyn neu lian mawr arall drosto, a rholiwch ar hyd y llawr.

**CALCH YN Y LLYGAD.**—Chwysdrellwch iddo gyflawder o finegr cynes a dwfr (owns o finegr mewn wyth owns o ddwfr), cymerwch feddyginiaeth ryddhaol, a gorchuddiwch y llygad.

**GWAEDU.**—Pan a'chosir gwaedu gan doriad gwythien, dodwch geiniog mewn amryw blygion o lian, a rhoddwch y geiniog gyferbyn a'r archoll, a rhwymwch y lian yn dŷn am yr aelod. Dodwch hefyd rwymyn tŷn arall yn uwch i fyny na'r archoll, gan ofalu bob amser am ei osod cydrhwng yr archoll a'r galon.

**GWNA ERGYD, YSGYDWAD, NEU FRAW SYDYN** syfrdanu person, a bydd iddo orwedd yn ddideimlad. Datodwch llynau, coleri, &c.; llaciwch bob peth fyddo yn dŷn, ac yn ymyraeth â'r anadlu; codwch y pen; edrychwch a fydd gwaed yn dyfod o unrhyw fan; cymhwyswch smelling salts at y trwyn, a photeli poethion at y traed.

**YSGYTIAD.**—Mewn achos o ysgytiad llym bydd arwyneb y corff yn oer a gwelw, a'r gwaed-guriad yn wan ac araf, yr anadliad yn araf a gwan, a chanol y llygaid yn fychan. Gellwch gael atebiad trwy siarad yn uchel, fel ag i gyffroi y dyoddefydd. Rhoddwch ychydig frandi a dwfr iddo, cadwch mor ddistaw ag y gallwch, cymhwyswch wres, ac na chodwch y pen yn rhy uchel. Os coswch y traed, bydd i'r dyoddefydd ei deimlo.

**GWASGIAD YR YMENYDD.**—Pan achosir hyny gan y parlys, neu ddarn o asgrwn toredig yn pwyso arno, bydd y dyoddefydd yn hollol ddideimlad. Er siarad ag ef nis gellwch gael atebiad. Mae curiad y gwaed yn araf a llafurus; yr anadliad yn ddwfn, llafurus, a chwynol. Codwch y pen, llaciwch rwymau neu bethau tynion, ac anfonwch am feddyg. Os na ellir cael un ar unwaith, cymhwyswch bwltis mwstard at y traed a'r morddwydydd, gelod at yr arleisiau, a dwfr poeth at y traed.

**TAGU.**—Pan fyddo asgwrn yn ngwddf unrhyw berson, gwrthiwech eich bys i'w enau, pwyswech ar wraidd ei dafod, fel ag i beri iddo gyfogi; os na wna hyn y tro, gadewch iddo lyngu deryn *mawr* o bytaten neu fara meddal; ac os ffaela y pethau hyn, rhoddwch gyfoglyn mwstard.

**LLEWYGFYDD, LLESMEIRIO, &c.**—Llaciwech y dillad, baddiwech yr arleisiau gyda dwfr neu *cau-de-cologne*; agorwch y ffenestr, gollyngwch ddogonedd o awyr ffres i mewn, lluchiwech ddwfr oer ar y gwyneb, cymhwyswch frics poethion at y traed, peidiwch dangos dim cyffro na gwneyd llawer o drwr.

**BODDI.**—Talwech sylw i'r rheolau *anhebgorol* hyn:—i. Na chollwch ddim amser. ii. Triniwch y corff yn dyner. iii. Cariwch y corff a'i wyneb i lawr, gyda'r pen wedi ei godi ychydig i fyny, ac na ddaliwch ef gyferfydd â'r traed o dan un amgylchiad. iv. Anfonwch am feddyg yn uniongyrchol, ac yn y cyfamser gwnewch fel y canlyn: v. Tynwch y dillad, rhwbiwch yn sych: yna lap-iwch mewn blancedi poethion, a dodwch mewn gwely cynes mewn ystafell gynes. vi. Glanhewch y poeredd oddiwrth y genau a'r trwyn. vii. Cymhwyswch frics poethion, poteli, cydau o dywod, &c., at y cyseiliau, cydrhwng y borddwydydd, ac at wadnau y traed. viii. Rhwbiwch y corff gyda'r dwylaw mewn hosanau gwlan. ix. Os yn bosibl, rhoddwch y corff mewn bâdd poeth (*warm-bath*). x. I adferyd yr anadlu, rhoddwch big megyn gyffredin mewn yn ffroen, gan gau y llall yn ofalus, a'r genau; yr un pryd bydded i'r fegin gael ei gwasgu i lawr yn raddol, a'i chodi yn ol yn raddol, a pharhaer i chwytlu yn araf, i lenwi yr ysgyfaint, nes y byddo y frest yn codi ychydig; yna gollyngwch y genau a'r ffroenau yn rhydd, a gwasgwch yn dyner ar y frest: gwnewch hyn o hyd nes y gwelir arwyddion bywyd. Dylai y corff gael ei orchuddio y foment y dodir ef ar y bwrdd, oddigerth y gwyneb, a'r holl rwbio gael ei gario yn mlaen o dan y blanced neu y cwrlid. Pan y gellir eu cael, cymerer nifer o frics neu *tiles*, a phoether yn lled boeth yn y tân, dodder ar y bwrdd a gorchudd-

ierâ blanced, a dodder y corff yn y fatâ fodd arnynt fel ag i ganiatâu i'r gwres fyned i asgwrn y cefn. Pan yr adfywia y dyoddefydd, cymhwyswch *smelling-salts* at y ffroenau, a rhoddwch iddc win cynes neu frandi a dwfr. *Gocheliedau*:—i. Na rwbwch y corff â halei. neu *spirits*. ii. Na rwbwch y corff argasg-eni. iii. Parhewch i gymhwyso y meddyginiaethau am ddeuddeg awr.

**CROGI.**—Tynwch y rhaff, neu pa beth bynag a ddefnyddiwyd i ymgrogi; gwaedwch o'r fraich; cymhwyswch dry-daniaeth, os wrth law, ac ewch yn mlaen fel y cyfarwyddwyd at foddî, gan gymeryd y rhagochelid pellach o gymhwyso wyth neu ddeg o elod at yr arleisiau.

**MARWOLAETH DEBYGOL ODDIWRTH FEDDWDOD.**—Codwch y pen, llaciwch y dillad, rhwbiwch a chynheswch groen y corff, a rhoddwch gyfoglyn mwstard mor fuan ag y gallo lyngu.

**PARLYS A FFRITIAU YN GYFFREDIN.**—Codwch y pen; llaciwch bob dillad tynion, rhwymynau, &c.; cymhwyswch oer olchiadau at y pen, eilliwch y pen; cymhwyswch elod at yr arleisiau, gwaedwch, ac anfonwch am feddyg.

**MYGIAD TRWY NRYON GWENWYNIC, &c.**—Symudwch i'r awyr iach; lluchiwch linegr a dwfr oer i'r gwyneb, gwddf, a'r frest; cedwch y corff yn gynes; os yn angenrheidiol, cymhwyswch blastr mwstard at wadnau y traed ac asgwrn y cefn, a threiwch adfer yr anadl gyda'r fegin, fel y cyfarwyddwyd gyda boddiad.

**MELTEN A HAUL-ERGYD.**—Yr un driniaeth ag i un wedi ei daro â'r parlys. **GWENWYNAU.**

*Mae gwenwyn yn sylwedd* ag sydd yn alluog i gyfnewid neu ddinystrio yr holl swyddogaethau angenrheidiol i fywyd. Pan y byddo person mewn iechyd da, ond ar ol bwyta neu yfed, yn teimlo poen arteithiol, cramp yn yr ystumog, teimlad o selni neu gyfog, diryziadau ysgytiol, neu deimlad o fgiad; neu os meddienir ef, o dan yr un amgylchiadau, gan ysgafnder, gorphwylldra, neu gysgadrwydd anghyffredin, yna gellir tybio fod yna wenwyniad wedi cymeryd lle.

*Rhenir gwenwynau i bedwar dos-parth*:—i. Y rhai hynny sy'n cynyrcu



arwyddion lleol. ii. Y rhai fo'n cynyrchu arwyddion llewygol. iii. *Narcotic* neu arwyddion cysglyd; ac yn iv. Arwyddion parlysol. Gall gwenwynau fod yn fwnol, anifeilaidd, neu lysieuol.

i. *Anfonwch bob amser am feddyg gyfla phob brys.* ii. Diogelwch yr holl hylifau gyfogyd, bwddydd, diodydd, llestri, &c., a ddefnyddiwyd gan y dyoddefydd cyn ei gyleryd yn glaf, a rhoddwch glo arnynt. iii. Archwilwch y cwpanau er eich cyfarwyddo yn eich triniaeth o'r claf; hyny yw, aroglwch hwy, ac edrychwch arnynt.

*Fel rheol*, rhoddwch gyfogyln ar ol gwenwynau a achosant orphwylltra;—chalk, laeth, wyau, ymenyn, a dwfr cynes neu olew, ar ol gwenwynau a achosant boen yn yr ystumog, gyda rhyddni; a phan na byddo enyniad yn y gwddf, gogleisiwch â phluen i beri cyfogiad.

**ARSENIC**, yn cynwys *white arsenic*, *orpiment*, neu arsenic melyn; *realgar*, neu arsenic coch; *arsenite of copper*; *king's yellow*; *ague drops*; ac *arsenical paste*.—Rhoddwch ddigon o ddwfr cynes, *laeth newydd* yn symiau mawr, dwfr calch, gwyn wŷ, wedi ei gymysgu â gruel neu fêl, gruel, tê hâd llin; cymhwyswch elod at y coluddion, baddiwch y coluddion â dwfr poeth. Crafwch rŵd haiarn oddiwrth rywbeth fyddo'n agos atoch, cymysgwch â digonedd o ddwfr, a rhoddwch yn ddogneau aml, a rhoddwch gyfogyln o fwstard. Ond dylai eich prif hyder, pa fodd bynag, fod ar sugnedydd yr ystumog (*stomach pump*). *Gocheliad*.—Nafydded i chwi roddi swm mawr o hylifau nes y byddo y rhai a roddwyd yn flaenorol wedi peri cyfog a chael eu taflu i fyny, oblegid ni fydd i'r ystumog beri cyfog os yu llawn o hylif, a'r amcan ydyw cael y gwenwyn i fyny mor fuan ag y byddo modd.

**COPR**, yn cynwys *blue vitriol*, *verdigris*, *verditer*, *verdigris crystals*. Rhodder gwyn wŷau wedi eu cymysgu â dwfr (deuddeg at bob pint); llon'd wine-glass bob dau fynydd; llwch haiarn cymysgedig â dwfr, neu goffi hynod gryf, gyda dogneau bychain ac aml o *castor oil*. Os bydd poen yn y coluddion, cymhwyswch elod. Rhodder dogneau

au helaeth o ddwfr a laeth, er cynyrchu cyfog.

**MERCURY**, yn cynwys *corrosive sublimate*, *calomel*, *red precipitate*, *vermilion*, *turbeth mineral*, *prussiate of mercury*.—Gwyn wŷau wedi eu cymysgu â dwfr; laeth; brawd a dwfr,—wedi eu cymysgu yn lled dew; tê hâd llin; a barley water. Rhoddwch ddogneau helaeth o ddwfr cynes, os na ellwch gael dim arall; cyfogyln cryf o *ipeacuanha*, y *stomach-pump*, a dogno o *castor oil* a *laudanum*. Golchwch y coluddion yn dda â dwfr a *poppy-heads* ynddo, a chymhwyswch elod os bydd y bol yn bur dynner.

**ANTIMONY**, yn cynwys *Tartar emetic*, *Kermes' mineral*. *White vitriol*, *ipeacuanha*, fel cyfogyln. Rhodder dogneau helaeth o ddwfr, neu ddwfr a siwgr, i gynyrcu cyfog; cymhwyswch elod at y gwddf a'r ystumog, os yn boenus; a rhoddwch un *grain* o *extract of opium*, wedi ei doddi mewn llon'd gwin-wydr o ddwfr a siwgr, mor fuan ag y peidia y cyfog, a rhoddwch dair gwaith, chwarter awr rhwng pob dogno; ac yn ddiweddaf, un *grain* mewn ychydig castor oil, bob chwe' awr.

**TIN**, yn cynwys *butter of tin*, *putty powder*. Laeth yw y gwrthwenwyn. Rhodder dwfr oer neu gynes i gynyrcu cyfog, neu gogleisiwch y gwddf gyda pluen.

**ZINC**, yn cynwys *white vitriol*, *flowers of vitriol*. Rhodder dogneau helaeth o laeth, a gwyn wŷau a dwfr, olive oil. Esmwythwch y poenau trwy dwyn-olchiadau a gelod, ac ar ol y cyfog rhoddwch castor oil.

**ARIAN**, yn cynwys *lunar caustic flowers of silver*; **AUR**, yn cynwys *chloride of gold*; a **BISMUTH**, yn cynwys *nitrate*, *pearl white*, a *flowers of bismuth*. At arian, halen cyffredin a dwfr yw y gwrthwenwyn; nid oes yr un gwrthwenwyn i aur a bismuth yn adnabyddus.

**ACIDS**, yn cynwys *hydrochloric*, neu spirits of salt; *nitric* neu *aquafortis*; *sulphuric*, neu *oil of vitriol*. Rhoddwch magnesia, chalk, sebon a dwfr. Rhoddwch ddogneau helaeth yn fynych o ddwfr i wanhau yr acid; y carbonate of soda, potass, neu magnesia, i'w anelleithioli;

dwfr sebon tew, wedi ei wneyd o sebon cyffredin, chalk, neu os na bydd peth o hono a'r *alkalies* wrth law, torwch beth o blastr y ty, cymysgwd â dwfr, a rhoddwch i'r dyoddefydd. Rhoddwch beth iddo er cyfogli, a pharhewchi rodidi y meddyginiaethau nes y byddo yr holl acid wedi ei wrthweithio a'i aneffeithioli.

**GAS (Chlorine).** Arogler *caustic ammonia*, neu cymerer deg diferyn o liquid ammonia mewn owns o ddwfr. Lluchiwch ddwfr oer dros y gwyneb, a cheiswch esmwytho y poenau mwyaf artheithiol.

**PLWM**, yn cynwys *sugar of lead, red lead*, a dwfr wedi ei wenwyno gan blwm. Y gwrthwynau ydynt, *Epsom salts, plaster of paris*, neu *phosphate of soda*. Rhodder gyfogllyn o *sulphate of zinc* (24 grains mewn haner peint o ddwfr); gelod wrth y bol; twymolchiadau os yn angenrheidiol; a castor oil a laudanum.

**PHOSPHOROUS (matches, &c.)**. Y gwrthwynau ydynt *magnesia a carbonate of soda*. Rhodder dognau helaeth o ddwfr oer, a gogleisier y gwddf â phluen. *Gocheleid.*—Na rodder olew na laeth.

**CALCH.**—Y gwrthwynau yw finegr neu sudd lemon. Yfer dwfr oddiar *starch* yn aml.

**ALKALIES**, yn cynwys *caustic, potash, soda, ac ammonia*. Y gwrthwynau yw finegr. Rhodder tē hād llin, laeth, olew olive neu almond, a chynyrcher cyfog.

**NITRE.**—Cyfogllyn, dognau helaeth o barley water, gyda castor oil a laudanum.

**GWENWYNAU CYSGIADOL (Narcotic Poisons)**, yn cynwys *banc berries, fool's parsley, deadly nightshade, water hemlock, thorn apples, opium, camphor, &c.* Rhodder cyfogllyn, dognau helaeth o hylifau, gogleisier y gwddf, rhodder smelling salts wrth y ffroenau, lluchier dwfr oer ar hyd y gwyneb a'r frest, cymhwyswr pwltis mwstard, ac uwchlaw y cwbl, ymdrecher dadebru y dyoddefydd trwy ei orfodi i gerdded rhwng dau ddyn; a rhodder deugain diferyn o sal-volatile mewn coffi cryf bob haner awr.

**GWENWYNAU LLYSIEUOL**, yn cynwys *mezeron, monk's-hood bitter apple, gam-*

*boge, white hellebore, &c.* Rhodder cyfogllyn o camomile, mwstard, neu sulphate of zinc; dognau helaeth o laeth cynes; twymolcher a rhodder gelod wrth y bol os yn angenrheidiol, a rhodder coffi cryf yn aml.

**OXALIC ACID.**—Y gwrthwynau yw *chalk*. Rhodder dognau helaeth o ddwfr calch a magnesia.

**SPANISH FLIES.**—Dognau helaeth o olive cil, gruel teneu, laeth, starch, tē linseed, laudanum, a camphorated water.

**PYSGOD GWENWYNLLYD**, yn cynwys *rock fish, tunny, blower, cregyn gleision (mussel), old-wife, &c.* Rhodder cyfogllyn; cymhellwch gyfogi trwy ogleisio y gwddf, a digon o ddwfr cynes. Dilynwch y cyfogllyn â meddyginiaethau rhyddhaol, megys castor oil a laudanum yn benaf, neu opium a calomel, a lleihaer yr ennyd trwy y ffordd gyffredin.

**BRATHIADAU SEIRPH A NADROEDD**, yn cynwys y wiber, y wiber ddu, seirph Indiaidd, y *rattle-snake*. Meddyliwch fod y garddwrn wedi ei frathu: rhwymwch *tape* neu linyr ar unwaith cydrhwng y clwyf a'r galon, torwch y croen ymaith gyda chyllell, ellyn, neu *lancet*, a chymhwyswch *cupping-glass* dros y brathiad, gan ei symud yn aml a baddio y clwyf gyda volatile alkali, neu twymwch y poker a llosgwch y clwyf yn dda, neu diferwch iddo beth o disinfecting fluid Sir Wm. Burnett, neu llosgwch y clwyf yn dda gyda lunar caustic, ond nid cyn i'r clwyf gael ei sugno yn dda a'r genau, neu ei olchi yn dda a'i gupio. Dylid cadw i fyny nerth y dyoddefydd gyda brandi, ammonia, ether, ac opium. Rhoddwch ddigonedd o ddioddydd cynes, a gorchuddiwch yn y gwely.

**BRATHIADAU ANIFEILIAID CYNDEIRIOG.**—Rhwymwch linyr yn dŷu o gylch y lle a frathwyd, torwch allan y brathiad, a llosgwch y lle gyda poker poeth, lunar caustic, neu disinfecting fluid Sir Wm. Burnett. Yna cymhwyswch ddarn o "spongio-pilone," rhoddwch feddyginiaeth ryddhaol, a digonedd o laeth cynes. Pa bryd bynag y gellir cael chloroform, lluchiwch ychydig ddiferion ar hyd cadach llogell, a chymhwyswch at ffroenau a genau y dyoddefydd cyn llosgi y briw. Pan y

byddo yr anadliad yn ymddangos yn anhawdd, peidiwch a chymhwysu y chloroform. Mae meddyg enwog, yn ysgrifenu i'r "*Times*," yn argymhell y cwrs yma, ac yn dweyd nad oes dim perygl, gyda gofal cyffredin, wrth ddefnyddio y chloroform, tra y gellir cyflawni y llosgiad yn fwy effeithiol trwy hyny.

**COLYNAU PRYFAID**, yn cynwys y gacynen, y wenynen, gwybedyn, cacynen y meirch (*hornet*), ysgorpion, &c.— Gwasgwrch faril agoriad *watch* dros y lle, fel ag i gael allan y colyn, yr hwn y dylid ei symud. Rhodder pymtheg diferyn o *harts-horn* neu *sal-volatile* mewn haner llon'd gwin-wydr o *dé camomile*, a gorchuddier y lle a golyngwyd â darn o *tint* wedi ei fwydo mewn *extract of lead*.

**RHYBUDDION ER GOCHELYD DAMWEINIAU**.— Dylai y cyfarwyddiadau canlynol gael eu hargraffu ar gôf pawb:—

i. Gan fod llawer o farwolaethau sydyn yn digwydd trwy ddwfr, dylid bod yn dra gochelgar pan yn ei ymyl.

ii. Na safwch yn agos i goeden, pibau plwm neu haiarn yn cario dwfr o benau tai, neu lidiart haiarn, yn ystod ystwm o fellt a tharanau.

iii. Cadwch ynau llwythog mewn lleoedd diogel, ac na chymwrch arnoch anelu gwn mewn digrifwch.

iv. Na chysgwch yn agos i olog (*charcoal*); os teimlir yn farwaidd wrth unrhyw waith ag y defnyddir tânau golog (*charcoal*) i'w gyflawni, gwneler pob brys i fyned allan i'r awyr.

v. Rhwymwch goed cyn eu tori i lawr, fel na byddo iddynt wrth syrthio niweidio neb.

vi. Pan wedi sferu gan oerder, gofalwch am beidio cysgu allan; rhwbiwch eich hun yn dda âg eira, os gallwch, a pheidiwch myned yn rhyfrysio at y tân.

vii. Gochelwch leithder neu darth.

viii. Na fydded i chwi fyned i gelloedd tanddaearol dyfuon, heb yn gyntaf adael y fynedfa yn agored am beth amser, neu daslu llwch calch i'r lle. Lle na wna canwyll oleuo, nis gall neb fyw; felly, gellir profi lleoedd dwfn a llaiwch trwy ollwng canwyll oleuedig i lawr; os diffodda yn raddol, nac ewch i

lawr; ond os goleua, y mae y lle yn ddiberygl.

ix. Na fydded i chwi byth adael ceffylau cyfrwyedig neu mewn gwaith, wrthynt eu hunain; ac nac ewch y tu ol i gefyll yn cael ei arwain, am ei fod y pryd hyny yn dueddol i gicio.

x. Na farchogwch ar lwybr troed.

xi. Byddwch ofalus am blant; yn enwedig pan y byddont yn agos i dân, elfen ag y maent yn rhy hoff o chwareu â hi.

xii. Na adewch ddim o natur wenwynig heb ei gadw yn ddiogel; a gofalwch am ysgrifenu y gair "**GWENWYN**" ("*poison*") mewn llythyrenau eglur arno, lle bynag y byddo yn cael ei gadw.

xiii. Wrth gerdded yr heolydd, cadwch yn ddigon pell oddiwrth y selerydd, ac na fydded i chwi byth edrych un ffordd a cherdded ffordd arall.

xiv. Na theflwch groen *orange*, neu wydr toredig, i'r heol.

xv. Na fydded i chwi ymhel â phowdwr gwn wrth oleu canwyll.

xvi. Wrth drin lamp yn llosgi *naphtha*, na lanwch hi yn hollol. Gadewch ychydig wagle i'r olew chwyddo wrth wresogi.

xvii. Na adewch yr ystafell a gadael y *poker* yn y tân.

xviii. Pan y digwydda un o'r gwial pres fyddo yn dal y *carpet* ar y grisiau fyned yn rhydd, sicrhewch hi heb golli amser.

xix. Wrth agor poteli yn cynwys *lemonade* neu ddiodydd cynhyrfus ereill, cedwch y corcyn yn eich llaw.

xx. Byddwch yn ofalus wrth adael eich tŷ ar foreu rhewillyd.

xxi. Cofiwch "**ruffio**" pedolau eich ceffylau pan y gwelwch yr arwyddion cyntaf o rew.

xxii. Cedwch "**lucifer matches**" yn eu blychau priodol, ac na adewch iddynt fod yn wasgaredig ar hyd y tŷ.

**DAMWEINIAU MEWN CERBYDAU**.— Pan y digwydda i gefyll eich rhedeg, diogelach, ar y cyfan, yw i chwi gadw eich lle yn y cerbyd, yn hytrach na neidio allan. Y mae myned allan o'r tu ol i'r cerbyd, os gellwch ddal eich gafael a rhedeg gydag ef am ychydig

amser, yn ddiogelach na neidio i'r ochr. Ond gwell i chwi gadw eich lle, a gafael yn dŷn mewn rhywbeth. Mewn dam-weiniau, gweithreda pobl yn fwy oddiar gynhyrfiad na rheswm: ond y mae rheolau da, wedi eu hargraffu ar y côf, yn gyffredin yn dyfod gyntaf i'r meddwl, hyd yn oed yn nghanol perygl.

**AGERDD CHARCOAL.**—Y feddyginiaeth oreu i bersonau wedi eu gorchfygu gan agerdd *charcoal* mewn ystafell glôs, ydyw lluchio dwfr oer i'w gwynebau ar unwaith, a'u gwaedu; hefyd cymhwyswr plant mwstard at wadnau eu traed.

**GOCHELIADAU WRTH YMWELED A'R CLEIFION.**—Na fydded i chwi ymweled â chlaf pan y byddwch wedi blino, neu mewn chwys mawr, na chydag ystumog wâg—oblegid yr ydych y pryd hyn yn fwy tueddol i gael yr haint. Pan y byddo yr afiechyd yn hynod beryglus a heintus, gosodwch eich hun cydrhwng y claf a'r ffenestr. Nac ewch i'r ystafell y peth cyntaf yn y boreu, cyn iddi gael ei hawyru; a phan yn dychwelyd oddiwrth y claf, cymerwch ymborth, newidiwch eich dillad ar unwaith, a gadewch iddynt fod yn yr awyr am rai dyddiau. Y mae mwg tybaco yn ddiogelydd da rhag cael heintiau.

**PLANT A CHYLLILL.**—Mae danweiniau dychrynlyd wedi digwydd trwy i fabanod gydio yn llafnau cyllill neu offerynau miniog, a cheir yr awgrym a ganlyn yn ddefnyddiol. Os cydia plentyn mewn cyllell neu ellyn, na rheisiwch ei thynu ynaith, nac i'w orfodi i agor ei law; ond, daliwch afael yn llaw wâg y plentyn, a chynygwch rhyw degan dynunol i'r llaw arall, a bydd iddo agor y llaw ar unwaith, a gadael i'r erfyn peryglus syrthio.

**RHAGFLAENU TAN.**—Mae y cynghorion syml canlynol yn werth sylw:—Ychwanegwch un owen o alwm at y dwfr a ddefnyddir i rinsio dillad plant, a bydd iddynt gael eu gwneyd yn anfflamedig, ac os cymerant dân o gwbl, ni bydd iddynt flanio. Mae hwn yn rhagocheliad syml, a gellid gwneyd defnydd o hono yn mhob teulu lle byddo plant. Gellid gwneyd yr un fath â chyrteni gwelyau, a dillad yn gyffredin.

**RHAGOCHELIADAU MEWN ACHOS O DAN.**—Dylai y rhagocheliadau canlynol

fod wedi eu hargraffu ar feddwl pob un o'n darllenwyr:—

*Os bydd i dân dori allan, anfonwch i ymofyn yr engine ac at y policeman.*

*Llenwch fwcodi â diofr, cariwch mor agos i'r tân ag y byddo yn bosibl, gwlychweh fop yn y dwfr, a lluchiwch yn gawodydd ar y tân, hyd nes y cyrhaeddo cymhorth.*

*Os bydd tân yn ffyrnig, gwlychweh flanced, a thellwch dros y fan fyddo yn fflamau.*

*Pe torai tân allan yn simneu y gegin, neu rhyw simneu arall, dylid hoelio blanced wlyb dros y lle tân, fel ag i'w orchuddio yn llwyr; bydd i'r tân felly fyned allan o hono ei hun.*

*Pe byddai cyrteni y gwely neu y ffenestr ar dân, cymerwch unrhyw ddefnydd gwlanenog, a churwch yn erbyn y tân nes ei ddiiffodi.*

*Gochelwch adael y ffenestr na'r drws yn agored yn yr ystafell lle y torodd y tân allan, am fod y ffrwd o awyr a ddaw i mewn yn ychwanegu at nerth y tân.*

*Os bydd y grisiau yn llosgi, fel ag i dori ymaith bob cymundeb, ymdrechweh ddiange trwy y trap-door yn nen y tŷ, a dylid cadw ysgol yn ymyl bob amser.*

*Gochelwch orbrysurdeb a gwylltineb; ni ddylid gollwng neb i mewn oddieithr y fire-man, cyfaill, neu gynnydog.*

*Os cymer dillad boneddiges dân, dylai ymdrechlu rholio ei hun mewn gwrthban, rug, carpet, neu y dilledyn gwlan cyntaf a allo gael gafael ynddo.*

*Rhagocheliad da ydyw bod darn mawr o frethyn bras bob amser wrth law, i'w dasfu dros fenyw y byddo ei dillad ar dân, neu i'w wlychu a'i dasfu dros dân fyddo newydd dori allan.*

*Gwna solution of pearl-ash mewn dwfr, a'i dasfu ar dân, ei ddiiffodi ar unwaith. Y cyfartaledd yw chwarter pwys, wedi ei doddi mewn ychydig ddwfr poeth, a'i dywallt i fwcodaidd o ddwfr cyffredin.*

*Argymhellir ty-ddalwyr i feddu dwy neu dair o fwceli pwrpasol a mop mawr a choes hir wrtho wrth law bob amser; ceir y byddant yn ddefnyddiol hynod mewn achos o dân.*

*Dylai pob un fo'n cadw tŷ gerdded i bob ystafell yn y tŷ y peth olaf bob nos,*

er sierhau fod y tânau i gyd yn ddiogel a'r goleuadau wedi eu diffoddi.

**I DDIFFODD TAN MEWN SIMNEUAU.**—Mae cynifer o dânau dychrynllud wedi digwydd trwy simneuau yn cymeryd tân, a'u gadael heb eu diffoddi, fel y dylid talu sylw i'r modd canlynol o wneyd hyny. Teflwech frwmstan powdredig ar y tân yn y grât, neu cymerwch beth o hono ar y pentan, ac yna rhoddwch bren neu ryw beth dros y lle tân i rywstro agerdd y brwmstan rhag dyfod i'r ystafell. Yna bydd i agerdd y brwmstan, wrth esgyn y simneu, hollol ddiffoddi y tân fyddo yn yr huddugl.

**WRTH DDIANGC O DAN,** ymgripiwch ar hyd yr ystafell gyda'ch gwyneb yn agos i'r llawr. Dylid dysgu plant yn foreu y ffordd i ddiffoddi gwreichionen pan y digwyddo ddisgyn ar ryw ran o'u gwisg, ac hefyd fod rhedeg i'r awyr agored yn sicr o beri iddi ffamio ar unwaith.

**DARLEN YN Y GWELY.**—Dylid gochel hyny ar bob cyfrif, trwy ei fod yn gosod yr hwn a'i harfero nid yn unig yn agored i ddamwain, ond yn sicr o wanhau ei lygaid yn fawr.

**I GYNHESU Y GWELY MEWN MYNYD.**—Teflwech ychydig halen i'r warming-pau, a gadewch iddo losgi am ychydig fyndau cyn ei ddefnyddio.

**BLODAU.**—Ni ddylid caniatâu i flodau na llysiâu o un math fod yn yr ystafell wely.

**NOFIO.**—Dylai pob person ymdrechu dysgu nofio. Y mae y ffaith fod y peth ynddo ei hun yn ymarferiad iachus, ac y gall fod yn foddion i achub bywydau, hyd yn nod pan y byddwch yn meddwl leiaf am hyny, yn ddigon o argymelliad i hyny. Y mae y gelfyddyd o nofio, mewn gwirionedd, yn un hawdd iawn i'w dysgu. Y peth cyntaf i sylwi arno, ydyw peidio ceisio dysgu yn rhy frisiog. Hyny yw, rhaid i chwi beidio disgwyl llwyddo yn eich ymdrechion i nofio hyd nes y byddoch wedi cynefino â'r dwfr, ac wedi trechu eich gwrthwynebiad i oerder a newydd-deb ymdrochi. Bydd i bob ymdrech ffaelu hyd nes y byddoch wedi magu ymddiried yn y dwfr ac

ynoch eich hunan, yna bydd i bob anhawdsder ddiffianu.

**DAMWEINIAU AR Y RELWE.**—Pan y byddo genych reswm dros ofni gwrth-darawiad, neu fod y *train* wedi gadael y *rails*, taflwch eich hun i lawr ar waelod y cerbyd, fel y byddo i chwi osgoi gerwinder yr ysgydwad. Mae neidio o'r cerbyd yn neillduol beryglus, oddieithr yn yr un cyfeiriad ag y byddo y *train* yn myned, a'r pryd hyny pan y byddoch yn sicr o syrthio ar ddaear esmwyth. Dylai pob teithiwr ar y relwê feddu agoriad pwrpasol at ddrysau cerbydau y relwê, fel y gallu mewn achos o ddamwain ymyrddhau o'r cerbyd gyda chyflwymder, ac felly i fod yn ddefnyddiol i'r elwysfedigion. Nid ydyw yn ddoeth myned i'r cerbyd agosaf at y peiriant; canol unrhyw gerbyd yw y man diogelaf.

**IECHYD A'I DDIOGELIAD: AWYR, GOLAFUR (*exercise*), A CHWSG.**—**YMDROCHI.**—I bersonau iach, yn enwedig efrydwyr ac ereill fyddont yn byw lawer yn y tŷ, y mae ymdrochi mewn dwfr oer mor fuan ag y codir o'r gwely, yn cadw y corff yn lân, agor y chwysdylau, ac yn diogelu rhag cael anwyd. Dylid rhwbio y corff â llineiniau garw ar ol ymdrochi, nes y byddo yr holl groen yn berffaith sych a chynes. Yr ydym ni, er's blynyddau, y peth cyntaf ar ol codi yn ysbwngio y corff gyda dwfr oer, ac yn ei sychu yn sych â llian brâs, ac yn derbyn dirfawr les oddiwrth yr ymarferiad.

**YMDROCHI YN Y MOR.**—Gall personau iach a chryfion ymdrochi cyn brewcawst; ond ni ddylai merched a phobl weiniaid, a phlant, ymdrochi cyn pen dwyauwr ar ol brewcawst. Gwell ymdrochi y boreu na'r prydawn.

**GLANWEITHDRA.**—Mae afendid yn fai nas gellir rhoddi esgus drosto. Lle y gellir cael dwfr am ddim, neu trwy dalu ychydig arian am dano, y mae glendid o fewn cyraedd gafaél pob person.

*Mae y chwys parhaus* sydd yn dyfod o'n cyrff yn gwneyd yn angenrheidiol newid y dillad yn aml.

*Mae newid dillad* yn aml yn cynorthwyo yn fawr i ddiolli o'r chwys

oddiwrth y croen, yr hyn sydd mor bysig i iechyd.

*Pan y bydd i'r sylwedd ag y dylid ei gario ymaith trwy y chwys gael ei gadw yn y corff, neu ei lyngu i fyny gan ddillad budron, y mae yn dueddol i fagu afiechyd.*

*Mae y nifer fwyaf o afiechydon y croen yn tarddu o ddiffyg glanweithdra.*

*Yr un achos hefyd sydd i'r prysfaid a heigiant y corff, tai, &c. Gellir cael gwaredigaeth oddiwrth y pethau hyn yn gyffredin trwy lanweithdra yn unig.*

*Efallai mai dyben rhagluniaeth yn goddef y fath greaduriaid i boeni dynolryw, ydyw eu symbylu i arfer y rhinwedd hwn.*

*Un achos mawr twymynau (fevers) o bob math yw budreddi.*

*Dechreuau y fevers hyn yn gyffredin yn mhlith preswylwyr tai budron, mewn heolydd arian, y rhai a anadlant awyr drwg, a gymerant ond ychydig o ymarferiad (exercise), a fwytant ymborth afiachus, ac a wisgant ddillad budron. Mewn lleoedd ac yn mhlith pobl fel hyn y dechreuau twymynau a ymlledant o dŷ i dŷ, gan beri dinystr cyffredinol ar fywydau. Fel hyn, y mae glanweithdra yn deilwng o sylw cyffredinol; nid digon i mi ydyw bod yn lân fy hun, tra y mae budreddi yn yr ardal nid yn unig yn effeithio ar iechyd yr ardal hono, ond ar fy iechyd inau hefyd.*

*Os na ellir symud pobl fudron, dylid eu gochelyd fel rhai heintus. Dylai y rhai gofalus am eu hiechyd gadw yn mhell oddiwrth eu tai. Mewn lleoedd ag y byddo nifer fawr o bobl wedi ymgasglu at eu gilydd, y mae glanweithdra o'r pwys mwyaf.*

*Mae yn eithaf hysbys fod afiechydon heintrus yn cael eu hachosi gan awyr afiach. Felly, dylid gochelyd pob peth sy'n tueddu i anmhuro yr awyr, a lledu yr haint.*

*An y rheswm yma, mewn trefydd mawrion, ni ddylid goddef unrhyw fudreddi mewn un man. Anaml y deallir y pwys cysylltiol â gofalu am y glanweithdra cyffredinol yma.*

*Byddai yn dda pe buasai parwb yn Nghymru yn eflgychu yr Isellmyu*

*(Dutch) yn nglendid eu personau a'u tai.*

*Mae yn hynod fod glanweithdra yn rhan o grefydd pobl y dwyrain. Gorchymyna Mahometaniaeth ac Iudewiaeth olchiadau a phuredigaethau neillduol a mynych i fyned trwyddynt. Gwir fod y golchiadau hyn yn arwdd-ocaol o burdeb mewnol; ond yr oeddynt ar yr un pryd yn cael eu bwriadu i amddiffyn yr iechyd.*

*Pa mor ynsyd bynag y gall yr amryw olchiadau hyn fod, byddai talu sylw manwl iddynt, a'u harferyd, yn foddion effeithiol iawn i ddiogelu yr iechyd.*

*Er enghraifft, pe byddai i bob person ar ol bod yn ymhel a chorff marw, ymweled â'r claf, &c., ymolchi cyn myned i gwmmi, neu eistedd i lawr i gwyta, byddai iddo fod yn llai agored i gael yr haint ei hun, neu ei gyfranau i ereill.*

*Mae golchiadau mynych nid yn unig yn symud y budreddi sydd yn glynu wrth y croen, ond ar yr un pryd yn cynorthwyo i chwysu, yn cryfhau y corff, a bywiogi yr yspryd.*

*Mae hyd yn nod golchi y traed yn tueddu yn fawr i ddiogelu iechyd. Nis gall chwys a budreddi lai na chau tyllau y chwys yn aml. Byddai golchi y traed yn gynorthwy mawr i beidio cael twymyn nae anwyd.*

*Pe byddai i bawb olchi eu traed a'u dwylaw wrth fyned i'r gwely, ar ol treulio y dydd mewn oerfel neu wlybaniaeth, anaml y byddai iddynt deimlo dim o'r effeithiau poenus, ac weithiau angeuol, sydd yn dilyn yr achosion hyn.*

*Mewn lleoedd ag y cedwir nifer luosog o gleifion ynddynt, dylid cymeryd gofal i fod yn lanwaith iawn. Y mae arogl y fath leoedd yn aml yn ddigon i wneyd ambell un iach yn glaf. Os felly, gellir dychymygu y fath effaith niweidiol a ga ar y cleifion.*

*Mae gan un iach fwy o siawns i fyned yn glaf, nag i glaf iachâu, mewn tŷ neu glafdy heb fod yn hollol lân.*

*Mae creaduriaid direswm yn rhoddi esiampl o bwys glanweithdra. Maent yn ymddangos yn anesmwyth, ac yn dyfod yn mlaen yn araf, os na chedwir hwy yn lân. Bydd i gefw! a gedwir yu*

hollol lân edrych yn well ar lai o ymborth, nag un arall yn cael mwy o fwyd, ond llai o'i lanhau.

*Mae ein teimladau* ni ein hunain yn brofion digonol o'r angenrheidrwydd am lanweithdra. Mor ddedwydd, ysgafn, a siriol ein hyspryd y byddwn yn teimlo wedi cael golchfa dda, yn enwedig pan wedi esgeuluso hynny am hir amser.

**GOLAFUR** (*Exercise*).—Y mae golafur yn yr awyr agored o'r pwys mwyaf i'r corff dynol, ac eto y fath nifer sydd yn amddifadu eu hunain o'i fanteision trwy beidio trefnu eu hamser yn briodol. Mae merched mewn sefyllfaoedd cyflredin, fel rheol yn gweithio mewn lleoedd cauedig clôs, ac heb ganddynt ond ychydig o amser i fyned allan i gerdded i'r awyr agored, ac y mae yr ychydig sydd ganddynt yn cael ei dreulio bron i gyd gyda'r seremoni o wisgo i fyned allan. Dylai y cyfryw rai ofalu am gadw eu dilladau mewn lleoedd cyfleus wrth law, gofalu fod eu hesgidiau yn lân, fel y byddo iddynt allu ymwisgo mewn ychydig amser, a thrwy hynny fwynhau cymaint ag y mae yn bosibl o olafur (*exercise*) yr hyn sydd mor anheggorol i'w hiechyd.

*Mac tri o bethau* mewn perthynas i'r dull o gymeryd golafur ag y dylid talu sylw iddynt:—i. Y math o olafur. ii. Yr amser priodol i olafurio. iii. Ei barhad. O berthynas i'r mathau o olafur, gellir eu gwahaniaethu i'r gweithredol a'r goddefol. Yn mhlith y cyntaf y gellir nodi cerdded, rhedeg, neidio, nofio, marchogaeth, &c. Yn mhlith yr olaf, sef y golafur goddefol, gellir nodi marchogaeth, hwylio ar y môr neu'r afon, siglo, &c.

*Mae y golafur gweithredol* yn fwy llesiol i'r ieuange, y canol oed, yr iach a'r cryf, ac yn enwedig i rai yn tueddu at fod yn gorffol.

*Mae golafur goddefol*, ar y llaw arall, yn well i blant ieuainge; hen bobl a rhai yn wanaidd eu hiechyd; ac yn enwedig i rai yn dyoddef oddiwrth ddifffyg anadl a'r darfodedigaeth.

*Mae yr amser* goreu yn dibynnu ar amgylchiadau yn hollol.

*Dylai pob un* gymeryd y golafur y mae fwyaf arferol ag ei, er cryfhau ei

gorff. Gall rhyw olafur dicithr gael effaith niweidiol.

*Dylai pob math o olafur* gael ei ddechreu a'i ddiweddu yn raddol, byth yn sydyn.

*Mae golafur yn yr awyr lawer* yn well na dim a ellir gael yn y tŷ.

*Mae parhau golafur* nes bod yn chwys mawr neu deimlo blinder poenus yn mhell o fod yn llesiol.

*Y mae cerdded yn y boreu*, pan na byddo yr ystumog yn rhy lawn, yn iachus neillduol; cryfhâ y treuliad, a phoetha lai ar y corff na phan fyddo yr ystumog yn llawn; ac y mae gallu bwyta gyda mwynhâd ar ei ol yn brawf na chariwyd ef i ormodedd.

*Ar yr un pryd* dylid deall mai nid da cymeryd golafur (*exercise*) yn union o flaen pryd bwyd, am fod hynny yn niweidio y treuliad.

*Ni ddylid* chwaieth eistedd i lawr ar unwaith i fwyta ciniauw neu swper da ar ol golafur, pan y byddo y gwaed yn boeth, a'r corff mewn cyflwr o chwys, gan y gall y canlyniadau mwyaf niweidiol ddilyn, yn enwedig os bwyteir neu os yfir pethau oerion.

*Mae golafur bob amser yn niweidiol ar ol bwyta*, trwy ei fod yn rhwystro treuliad, trwy yru yr hylifau i arwyneb y corff yn lle bod yn yr ystumog yn treulio y bwyd.

**CANU AC IECHYD**.—Dywed Dr. Rush mai anaml y mae y Germaniaid yn dyoddef oddiwrth y darfodedigaeth, trwy eu bod yn genedl o gantorion; a dywedir fod canu yn olafur rhagorol i rai gwineaidd neu yn tueddu at y darfodedigaeth.

**Cwsg**.—Plant sydd âg angen arnynt am fwyaf o gwsg, hen bobl leiaf. Mae chwech awr yn ddigon i bersonau mewn iechyd da, ac wyth i blant a phobl weiniaidd.

*I sicrhau cwsg csmwylth*.—I gyraedd hyn cymerer digon o olafur yn ystod y dydd, ac mor bell ag y gellir gocheler pob peth a thuedd ynddo i afonyddu gweithrediadau y corff neu y meddwl ar yr adeg y bwriedir myned i gysgu. Dylai yr ymborth a gymerir yn yr hwyr fod o natur ysgafn, a chymedrol mewn swm, ac yn hawdd ei dreulio, yr ystafell wely wedi ei hawyru yn dda, a naill ai

drws neu ffenestr yr ystafell yn agored trwy'r nos. Doder pob pryder o'r neilldu, ceisier anghofio pob gwaith meddyliol, a'r gydwybod i fod yn ddi-rwystr.

**CODI YN FOREU.**—Dywed Dr. Wilson Philip:—"Er ei fod yn bwysig i rai o gyfansoddiadau gwanaidd fyned i'r gwely yn gynar, nid oes dim yn fwy niweidiol iddynt nag aros ynddo yn hir. Mae codi awr neu ddwy yn foreuach yn aml yn cynyrcu gradd anarferol o fyw-iogrwydd. I rai iach, ac yn gallu cysgu yn dda, y rheol oreu ydyw codi o'r gwely yn fuan ar ol iddynt ddeffro. A phe byddai i rai yn cwyno o herwydd gwendid a rhyw nychdod parhaus fabwysiadu y rheol hon, byddai iddynt yn fuan deimlo lles mawr—byddent yn alluog i gysgu yn fwy didor y noson wed'yn, nes y hŷddo natur wedi dyfod i'w lle, a rheoleiddio y swm priodol o gwsg angenrheidiol arnynt.

**CHWANT BWYD.**—Collir yr archwaeth at fwyd yn aml trwy fwyta neu yfed gormod o bethau cynhyrfus, bwyta bwyd rhy boeth, arferion eisteddog, rhwymedd, neu angen ani newid awyr. Y gorchwyl cyntaf yw cael allan yr achos, ac yna ei symud ar unwaith. Mae newid bwyd a newid awyr yn aml lawer yn well na chymeryd meddyg-iniaeth.

**CYMEDROLDEB.**—Bu yr Hen Parrfyw yn hir iawn trwy arfer cymedroldeb gyda phob peth. Dyma ei gyfarwyddiadau, ac y maent yn werth eu pwysau mewn aur:—Cadwch eich pen yn oer

trwy gymedroldeb, a'ch traed yn gynnes trwy olafur (*exercise*); codwch yn foreu, ac ewch yn gynar i'r gwely; ac os byddwch yn taeddu at fyned yn dew, cadwch eich llygaid yn agored a'r genau yn gauedig,—mewn geiriau ereill, cysgwch yn gymedrol, a byddwch yn gyuil gyda'ch bwyd;—cyngor rhagorol, yn enwedig i rai tueddol o fyn'd yn dew.

**IEUENGCTYD AC IECHYD.**—Oriau hwyr, arferion afreolaidd, diffyg sylw i ymborthi, ydynt feiau cyffredin dynion ieuainge, ac y mae y rhai hyn yn raddol, er na theimlir hwy ar y cyntaf, yn myned o dan sylfaeni eu cyfansoddiadau, ac yn gosod i lawr hadau afiechydon ac anhwylderau a wnaent eu hymddangosiad yn ddiweddarach mewn bywyd. Eisteddant i fyny yn aml mor hwyr a deuddeg, un, neu ddau o'r gloch, heb deimlo dim anghyfleusdra; ânt heb bryd da o fwyd un diwrnod, a bwyânt ormodedd y diwrnod canlynol, heb deimlo llawer o anghyfleusdra. Un noswaith cysgant dair neu bedair o oriau, a'r noson ganlynol naw neu ddeg; neu, efallai, un noson, yn eu hawydd i fyned i rhyw le o ddifyrwech ni fwyânt ddim swper, a'r noson ganlynol, dichon y bwyânt swper trwm, a myned i'r gwely ar ei ol. Mae y rhai hyn, ac afreoleidd-derau ereill, yn gyffredin i ddynion ieuainge, ac fel y nodwyd yn barod, yn achos llawer o afiechyd mewn oedran addfethach. Yn wir, gellir olrhain yr achos o agos i bob cyfansoddiad a ddifethir, i rhyw ffolineb neu afreoleiddiwch yn eu hieuengetyd.



# TABL AU DEFNYDDIOL.

TABL

*O nifer y dyddiau o unrhyw ddiwrnod mewn unrhyw fis i'r un diwrnod yn unrhyw fis arall.*

O	Ion.	Chwef.	Maw.	Ebrill	Mai	Meh.	Gor.	Awst	Medi	Hyd.	Tach.	Rhag.
Ionawr ... ..	365	334	306	275	245	214	184	153	122	92	61	31
Chwefror ... ..	31	365	337	306	276	245	215	184	153	123	92	62
Mawrth ... ..	59	28	365	334	304	273	243	212	181	151	120	90
Ebrill ... ..	90	59	31	365	335	304	274	243	212	182	151	121
Mai ... ..	120	89	61	30	365	334	304	273	242	212	181	151
Mehefin ... ..	151	120	92	61	31	365	334	304	273	243	212	182
Gorphenaf ... ..	181	150	122	91	61	30	365	334	303	273	242	212
Awst ... ..	212	181	153	122	92	61	31	365	334	304	273	243
Medi ... ..	243	212	184	153	122	92	61	31	365	335	304	274
Hydref ... ..	273	242	214	183	153	122	92	61	30	365	334	304
Tachwedd ... ..	304	273	245	214	184	153	123	92	61	31	365	335
Rhagfyr ... ..	334	303	275	244	214	183	153	122	91	61	30	365

## DEFNYDD Y TABL UCHOD.

Pa nifer o ddyddiau sydd o'r 10fed o Hydref i'r 10fed o Orphenaf ?

Edrycher i'r llinell uchaf am Hydref, a gadewch i'r llygad lithro i lawr ar hyl y golofn nes y daw gyferbyn a Gorphenaf, a cheir mai 273 yw nifer y dyddiau cydrhwng y ddau ddyddiad.

Eto,—Pa nifer o ddyddiau sydd o'r 16eg o Chwefror i'r 14eg o Awst ?

O dan Chwefror, a gyferbyn ag Awst, y ceir ... .. 181 o ddyddiau.

O ba nifer tyner allan y gwahaniaeth rhwng 14eg ac 16eg ... .. 2 o ddyddiau.

A cheir mai y rhif cywir yw ... .. 179 o ddyddiau.

*D.S.—Mewn blwyddyn Naid, os bydd y dydd olaf o Chwefror yn dyfod cydrhwng, ychwaneger un diwrnod i'r rhif geir o dano yn y Tabl.*

# TABL

c

## DREULION, DERBYNIADAU, A CHYFLOGAU,

*Yn dangos ar un olwg faint y Dydd, yr Wythnos, a'r Mis yw unrhyw swm, o £1 i £1,000 y Flwyddyn.*

Yn y Flwyddyn.			Yn y Mis.			Yn yr Wythnos.			Yn y Dydd			Yn y Flwyddyn.			Yn y Mis.			Yn yr Wythnos.			Yn y Dydd					
£	s.	c.	£	s.	c.	£	s.	c.	£	s.	c.	£	s.	c.	£	s.	c.	£	s.	c.	£	s.	c.	£	s.	c.
1	sydd		0	1	8	0	4	0	13	0	1	1	8	0	5	0	0	0	0	0	0	8	½			
1	10		0	2	6	0	7	1	13	13	1	2	9	0	5	3	0	0	0	0	0	9	½			
2	0		0	3	4	0	9	1	14	0	1	3	4	0	5	4	0	0	0	0	0	9	½			
2	2		0	3	6	0	9	1	14	14	1	4	6	0	5	8	0	0	0	0	0	9	½			
2	10		0	4	2	0	11	1	15	0	1	5	0	0	5	9	0	0	0	0	0	10	½			
3	0		0	5	0	1	1	2	15	15	1	6	3	0	6	0	0	0	0	0	0	10	½			
3	3		0	5	3	1	2	2	16	0	1	6	8	0	6	2	0	0	0	0	0	10	½			
3	10		0	5	10	1	4	2	16	16	1	8	0	0	6	5	0	0	0	0	0	11	½			
4	0		0	6	8	1	6	2	17	0	1	8	4	0	6	6	0	0	0	0	0	11	½			
4	4		0	7	0	1	7	2	17	17	1	9	6	0	6	10	0	0	0	0	0	11	½			
4	10		0	7	6	1	8	3	18	0	1	10	0	0	6	11	0	0	0	0	0	11	½			
5	0		0	8	4	1	11	3	18	18	1	11	6	0	7	3	0	1	0	0	0	11	½			
5	5		0	8	9	2	0	3	19	0	1	11	8	0	7	3	0	1	0	0	0	11	½			
5	10		0	9	2	2	1	3	20	0	1	13	4	0	7	8	0	1	1	0	0	11	½			
6	0		0	10	0	2	3	4	30	0	2	10	0	0	11	6	0	1	7	0	0	11	½			
6	6		0	10	6	2	5	4	40	0	3	6	8	0	15	4	0	2	2	0	0	11	½			
6	10		0	10	10	2	6	4	50	0	4	3	4	0	19	3	0	2	9	0	0	11	½			
7	0		0	11	8	2	8	4	60	0	5	0	0	1	3	0	3	3	0	0	0	11	½			
7	7		0	12	3	2	10	4	70	0	5	16	8	1	6	11	0	3	10	0	0	11	½			
7	10		0	12	6	2	10	5	80	0	6	13	4	1	10	9	0	4	4	0	0	11	½			
8	0		0	13	4	3	1	5	90	0	7	10	0	1	14	7	0	4	11	0	0	11	½			
8	8		0	14	0	3	2	5	100	0	8	6	8	1	18	5	0	5	5	0	0	11	½			
8	10		0	14	2	3	3	5	200	0	16	13	4	3	16	11	0	10	11	0	0	11	½			
9	0		0	15	0	3	5	6	300	0	25	0	0	5	15	4	0	16	5	0	0	11	½			
9	9		0	15	9	3	7	6	400	0	33	6	8	7	13	10	1	1	11	0	0	11	½			
10	0		0	16	8	3	10	6	500	0	41	13	4	9	12	3	1	7	4	0	0	11	½			
10	10		0	17	6	4	0	7	600	0	50	0	0	11	10	9	1	12	10	0	0	11	½			
11	0		0	18	4	4	3	7	700	0	58	6	8	13	9	2	1	18	4	0	0	11	½			
11	11		0	19	3	4	5	7	800	0	66	13	4	15	7	8	2	3	10	0	0	11	½			
12	0		1	0	0	4	4	7	900	0	75	0	0	17	6	1	2	9	3	0	0	11	½			
12	12		1	1	0	4	10	8	1000	0	83	6	8	19	4	7	2	14	9	0	0	11	½			

TABL LLOG AM ENILLION, &c.

£	1 DI- WRNOD.		2 DI- WRNOD.		3 DI- WRNOD.		4 DI- WRNOD.		5 DI- WRNOD.		6 DI- WRNOD.		7 DI- WRNOD.		8 DI- WRNOD.		9 DI- WRNOD.		10 DI- WRNOD.		20 NI- WRNOD.		30 DI- WRNOD.	
	s.	c.	s.	c.	s.	c.	s.	c.	s.	c.	s.	c.	s.	c.	s.	c.	s.	c.	s.	c.	s.	c.	s.	c.
1	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
2	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
3	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
4	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
5	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
6	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
7	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
8	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
9	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
10	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
20	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
30	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
40	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
50	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
60	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
70	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
80	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
90	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
100	0	3	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
200	0	6	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1
300	0	9	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1	1
400	1	1	2	2	2	2	2	2	2	2	2	2	2	2	2	2	2	2	2	2	2	2	2	2
500	1	4	1	2	2	3	3	3	3	3	3	3	3	3	3	3	3	3	3	3	3	3	3	3

Y mac y Tabl hwn yn dangos pa faint a gynyrcbir gan unrhyw swm, o £1 i £500, mewn nifer penodol o ddyddiau, yn ol £5 y cant. Trwy "Simple Addition" gellir defnyddio y Tabl hwn i gyfrif Llog am FISOEDD neu FLYNYDDOEDD, i fyny at £5,000, neu unrhyw swm arall.

### TABL LLOG AM FLWYDDYN.

Trwy y Tablau canlynol gellir gwneyd cyfrifon diderfyn.  
 Fel hyn:—I wybod y Llog am Flwyddyn ar £1,256, ychwanegwch y symiau a roddir am £1,000, £200, a £50.  
 Gellir cael llôg 2 y cant trwy gymeryd haner 4 y cant; 8 y cant trwy ddyblu 4 y cant; 7½ y cant trwy ychwanegu 5 y cant at 2½ y cant; ac felly yn y blaen.

PŵERSWM	2½ Y CANT.			3 Y CANT.			3½ Y CANT.			4 Y CANT.			5 Y CANT.		
	£	£ s.	d.	£ s.	d.	£ s.	d.	£ s.	d.	£ s.	d.	£ s.	d.		
1	0	0	6	0	0	7½	0	0	8½	0	0	9½	0	1	0
2	0	1	0	0	1	2½	0	1	4½	0	1	7½	0	2	0
3	0	1	6	0	1	9½	0	2	1½	0	2	4½	0	3	0
4	0	2	0	0	2	4½	0	2	9½	0	3	2½	0	4	0
5	0	2	6	0	3	0	0	3	6	0	4	0	0	5	0
6	0	3	0	0	3	7½	0	4	2½	0	4	9½	0	6	0
7	0	3	6	0	4	2½	0	4	10½	0	5	7½	0	7	0
8	0	4	0	0	4	9½	0	5	7½	0	6	4½	0	8	0
9	0	4	6	0	5	4½	0	6	3½	0	7	2½	0	9	0
10	0	5	0	0	6	0	0	7	0	0	8	0	0	10	0
20	0	10	0	0	12	0	0	14	0	0	16	0	1	0	0
30	0	15	0	0	18	0	1	1	0	1	4	0	1	10	0
40	1	0	0	1	4	0	1	8	0	1	12	0	2	0	0
50	1	5	0	1	10	0	1	15	0	2	0	0	2	10	0
60	1	10	0	1	16	0	2	2	0	2	8	0	3	0	0
70	1	15	0	2	2	0	2	9	0	2	16	0	3	10	0
80	2	0	0	2	8	0	2	16	0	3	4	0	4	0	0
90	2	5	0	2	14	0	3	3	0	3	12	0	4	10	0
100	2	10	0	3	0	0	3	10	0	4	0	0	5	0	0
200	5	0	0	6	0	0	7	0	0	8	0	0	10	0	0
300	7	10	0	9	0	0	10	10	0	12	0	0	15	0	0
400	10	0	0	12	0	0	14	0	0	16	0	0	20	0	0
500	12	10	0	15	0	0	17	10	0	20	0	0	25	0	0
600	15	0	0	18	0	0	21	0	0	24	0	0	30	0	0
700	17	10	0	21	0	0	24	10	0	28	0	0	35	0	0
800	20	0	0	24	0	0	28	0	0	32	0	0	40	0	0
900	22	10	0	27	0	0	31	10	0	36	0	0	45	0	0
1000	25	0	0	30	0	0	35	0	0	40	0	0	50	0	0

CYFRIFYDD PAROD.

NHIR	2c.		2½c.		3c.		3½c.		4c.		4½c.		5c.		5½c.		6c.		6½c.		7c.		7½c.		8c.		9c.		10c.		11c.			
	s.	c.	s.	c.	s.	c.	s.	c.	s.	c.	s.	c.	s.	c.	s.	c.	s.	c.	s.	c.	s.	c.	s.	c.	s.	c.	s.	c.	s.	c.				
2	0	4	0	5	0	6	0	7	0	8	0	9	0	10	0	11	0	0	0	1	1	1	2	1	3	1	4	1	6	1	8	1	10	
3	0	6	0	7½	0	9	0	10½	1	0	1	1½	1	3	1	4½	1	1	1	2	2	2	3	2	3	2	3	2	4	3	6	2	9	
4	0	8	0	10	0	11	0	12½	1	4	1	6	1	8	1	10½	2	2	2	3	3	3	4	3	4	3	4	3	5	4	9	3	8	
5	0	10	1	0½	1	3	1	5½	1	8	1	10½	2	1	2	3½	2	3	3	4	4	4	5	4	5	4	5	4	6	5	10	4	6	
6	1	0	1	3	1	6	1	9	2	0	2	7½	2	1	3	4½	3	3	3	4	4	4	5	4	5	4	5	4	6	5	10	6	5	
7	1	2	1	5½	2	0	2	4	2	8	3	0	3	4	5	6	4	4	4	5	5	5	6	5	6	5	6	5	7	6	11	7	4	
8	1	4	1	8	2	3	0	7½	3	0	3	4½	3	4	5	6	4	4	4	5	5	6	5	6	5	6	5	7	6	11	8	7	4	
9	1	6	1	10½	2	3	0	11	3	0	3	4½	3	4	5	6	4	4	4	5	5	6	5	6	5	6	5	7	6	11	8	7	4	
10	1	8	2	1	2	6	2	11	3	3	4	5	6	4	7	8	5	5	5	6	6	6	7	6	7	6	8	7	12	9	2	2	1	
11	1	10	2	3½	3	2	3	4	4	8	4	1½	4	7	5	0½	5	6	6	7	7	7	8	7	8	7	8	7	9	4	2	10	1	0
12	2	0	2	6	3	0	3	6	4	0	4	6	4	10½	6	0	6	6	6	7	7	7	8	7	8	7	8	7	9	4	10	10	11	0
13	2	2	2	8½	3	3	0	3	9½	4	4	10½	5	5	11½	6	6	6	7	7	7	8	7	8	7	8	7	9	4	10	10	11	11	0
14	2	4	2	11	3	6	4	1	4	8	5	3	5	10	6	5	7	7	7	8	8	8	9	8	9	8	9	8	10	6	11	8	12	10
28	4	8	5	10	7	0	8	2	1	9	4	10	6	11	8	12	10	14	0	15	2	16	4	17	6	18	8	21	0	23	4	25	8	8
56	9	4	11	8	14	0	16	4	18	8	21	0	23	4	25	8	28	0	30	4	32	8	35	0	37	4	42	0	46	8	51	4	4	

## LLOG NEU DISCOUNT WRTH Y CANT.

				s.	c.	
2½ y cant sydd yn	...	...	...	0	6	yn y bunt.
3	„	„	...	0	7½	„
4	„	„	...	0	9½	„
5	„	„	...	1	0	„
7½	„	„	...	1	6	„
10	„	„	...	2	0	„
12½	„	„	...	2	6	„
15	„	„	...	3	0	„
17½	„	„	...	3	6	„
20	„	„	...	4	0	„
22½	„	„	...	4	6	„
25	„	„	...	5	0	„

## BILIAU NEU NODAU ARIANOL

*(Bills and Promissory Notes).*

		s.	c.
Heb fod dros £5	...	0	1
Dros £5 ac heb fod dros 10	...	0	2
„ 10	25	0	3
„ 25	50	0	6
„ 50	75	0	9
„ 75	100	1	0
„ 100	200	2	0
„ 200	300	3	0
„ 300	400	4	0
„ 400	500	5	0
„ 500	750	7	6
„ 750	1000	10	0

Mae'r *duty* yn codi hyd i £4,000.Ceiniog am *Note-of-Hand* yn daladwy ar gais, faint bynag fo'r swm.

## CYTUNDEBAU.

Am werth £20 ac uchod, 2s. 6c. ; ac os yn cynwys 2,160 o eiriau neu uchod, 2s. 6c. am bob 1,080 ar ol yr 1,080 cyntaf o eiriau. Ar ol 14 niwrnod ar ol dyddiad yr enw, nis gellir stampio cytundeb heb dalu £10.

## RHWYMSGRIFAU PRENTISIAID

*(Apprentices' Indentures).*

Os na bydd Premium	...	...	0	2	6	
Premium dan £30	...	...	1	0	0	
Os £30 a than £50	...	...	2	0	0	
„ 50	„	100	...	3	0	0
„ 100	„	200	...	6	0	0
Egwyddorwas Cyfreithiwr	...	80	0	0	0	

## RHWYMAU I DDIOGELU ARIAN

*(Bonds and Mortgages).*

	s.	c.
Am unrhyw swm na byddo	}	1 3
dros £50		
Dros £ 50 ac nid dros £100	...	2 6
„ 100	150	3 9
„ 150	200	5 0
„ 200	250	6 3
„ 250	300	7 6
Yna am bob £100, ac am bob cyfran o £100	...	2 6

**PWYSAU Y CYFFRYDD.**

- 20 grain wna 1 scruple.
- 3 scruple wna 1 dram.
- 8 dram wna un owns.
- 12 owns wna un pwys.

*Yn ol y pwysau uchod y gwerthir ac y cymysgir cyffyrïau.*

**PWYSAU CYFFREDIN.**

- 16 dram wna 1 owns.
- 16 owns wna un pwys.
- 14 pwys wna 1 stone.
- 28 pwys neu 2 stone wna 1 chwarter.
- 4 chwarter, neu 8 stone, neu 112 pwys wna 1 cant.
- 20 cant wna 1 dunell.

*Wrth y pwysau uchod y gwerthir agos i holl angenrheidiau bywyd: bara, caws, ymenyn, cig, tē a choffi, glo, &c.*

**PWYSAU BARA A BLAWD**

	Pwys	Owns	Dram
Torth becaid a bwysa ...	17	6	1
Haner pecaid ... ..	8	11	0½
Chwarter ( <i>quartern</i> ) ...	5	5	8¼
Pecaid neu stone o flawd	14	7	0
Bwsiel o flawd ... ..	57	12	0
Baril o flawd America ...	196	0	0
Sachaid, neu 5 bwsiel o flawd ... ..	288	12	0

**PWYSAU AR GYFARTALEDD**

*(Average Weights).*

1 Pecaid o Bytatws ... ..	20	pwys.
1 " Faip ... ..	16	"
1 " Swedes ... ..	18	"
1 " Wynwyn ... ..	16	"
1 " F'fa ... ..	10	"
1 " Kidney-beans ... ..	9	"
1 " Afalau ... ..	16	"
1 " Erlylg ... ..	18	"
1 " Goosberries ... ..	16	"
1 " Eirin ( <i>plums</i> )	18	"
neu ffrwythau â cheryg		
ynddynt ... ..		

# CYNWYSIAD DOSRANOL.

(Gwel y Cynwysiad Cyffredinol yn y dechreu.)

<b>A</b>		TUDAL.			TUDAL.
Abwyd, gwiall, a Tacle Pysgota ..	29		wella .. ..	170	
Acen mewn darllen .. ..	21		Apricots, I'w preserfio .. ..	102	
Acen Angylchenedig .. ..	17		Apricots mewn Jelly, I'w preserfio ..	102	
Acen Ddisgynedig .. ..	17		Ardreth, Moddau i godi .. ..	37	
Acen Ddychafedig .. ..	17		Ardreth, Talu .. ..	34	
Adar Dofaidd, Adar Canu, Gwen-			Arian a Choel, Cyfraith .. ..	39	
yn, &c., y modd i'w magu ..	153		Artichokes, I'w berwi .. ..	88	
Adwahanod .. ..	16		Arwystliad, Cyfraith .. ..	44	
Afalau, I'w cadw .. ..	104		Asen Fran Mochyn, I'w choginio ..	75	
Afalau, I'w sychu .. ..	103		Asparagus, I'w berwi .. ..	89	
Afiechyd, Ei arwyddion .. ..	167		Atal-dywedyd, I'w wella .. ..	169	
Angenrheidiau y Bwrdd Trwsio			Awgrymiadau Buddiol i Bawb ...	1	
(Toilet Table) .. ..	139		Dewis Cyfeillion .. ..	1	
Perarogl hyfryd .. ..	139		Geiriau .. ..	1	
Lavender Water .. ..	139		Chwedleua .. ..	1	
Mel sebon ( <i>Honey Soap</i> ) ..	139		Rheolau ymddygiad .. ..	2	
Dwylaw, Y .. ..	139		Tymerau Menywaidd .. ..	2	
Ewinedd, I'w wynu yr ..	139		Ieuange, Cynghorion i'r ..	2	
Ysteiniau, I'w symud ..	139		Cynghorion i Ferched Ieu-		
Cold Cream at Wallt ..	140		aingc .. ..	2	
Tyneru y croen a gwella y			Gwraig, Gallu .. ..	3	
wedd .. ..	140				
Dannedd, Powdr .. ..	140				
Gwallt, Cymysgedd i gyn-					
yrchu Tyfiant y .. ..	140				
Gwalltoltchiad rhagorol ..	140				
Gwallt-olewon ( <i>Hair Oils</i> )	140				
Angladdau a Chofrestriad Marwol-					
aeth .. ..	129				
Anadl Byr, I'w wella .. ..	169				
Anadlu, Y ffordd i .. ..	169				
Anadl Drewllyd, I'w wella ..	170				
Anhwyldeb yr Ysgyfaint, I'w wella	170				
Anwyd, I'w wella .. ..	171				
Anwyd, Y modd i' beidio ei gael ..	171				
Anwyd, Y modd i'w wella ..	171				
Anwyd yn y Pen, I'w wella ..	171				
Anwyd Trwm ( <i>Catarrh</i> ), I'w wella	171				
Anesmwythder ( <i>Irritation</i> ), I'w					

## B

Bara Da, Y modd i'w wneyd ..	109
Bacon ac Wyau, I'w firio ..	77
Bacon, I'w giwrio .. ..	77
Bacon, Dull arall i'w giwrio ..	77
Bacon, Y ffordd i ddewis ..	52
Banciau Cynilo y Llywodraeth ..	42
Barilau, I'w pereiddio .. ..	121
Barley Gruel, I'w wneyd .. ..	98
Barnwyr, Y modd i' anerch ..	25
Bath Buns, I'w gwneyd .. ..	110
Bedyddiadau .. ..	128
Beef, I'w friwlio .. ..	64
Beef, I'w ferwi .. ..	64
Beef, I'w firio .. ..	64
Beef, I'w rostio .. ..	64
Beef, I'w ystiwio .. ..	65
Beef, I'w hushio .. ..	65



	TUDAL.
Beef, I'w hashio ffordd arall ..	65
Beef oer wedi ei ferwi ..	65
Beef, rhostio Calon Buweh ..	65
Beef, Mince ..	66
Beef, I wneyd Pastai o hono ..	66
Beef Steaks, I wneyd Pwdin ..	66
Beef, Berwi Round o Beef wedi ei halltu ..	67
Beef, I'w gadw ..	67
Beef, I'w halltu ..	67
Beef, I'w halltu yn goch ..	67
Beef, Dull newydd i'w halltu ..	67
Beef, Corned ..	68
Beef, Y ffordd i'w ddewis ..	52
Beef Tea i Gleifion ..	98
Beet-root, I'w biclo ..	100
Beet-root, I'w goginio ..	89
Bendigaeth, Y modd i anerch y ..	24
Bill of Sale, Cyfraith ..	39
Birdlime, I'w wneyd ..	144
Blackberry Wine, I'w wneyd ..	104
Blacking, I'w wneyd ..	137
Blacking i Stoves ..	123
Blinbeth a Ffiecidd-dra ( <i>Nuisance</i> ), Cyfraith ..	42
Blond Lace, I'w hadnewyddu ..	142
Blwydd-daliadau ( <i>Annuities</i> ), Cyfraith ..	40
Bolnoi ar Blant ( <i>Gripping</i> ), I'w wella ..	172
Boneti Gwellt, I'w glanhau ..	142
Boneti gwellt, I'w gwynu ..	142
Boneti, I'w lliwio ..	141
Botasau ac Esgidiau, I'w cadw ..	137
Botasau ac Esgidiau i ddal dwfr ..	137
Brasder o velfet, I'w symud ..	124
Brawn Mochyn, I'w wneyd ..	76
Brathiad Ci Cynddeiriog, I'w wella ..	172
Brathiad Nadroedd, I'w wella ..	172
Brech debyg i bigiad danadl ( <i>Nettle Rash</i> ) ..	172
Brenhinol Deulu, Y modd i anerch y ..	24
Brithyllod, Y modd i bysgota ..	29
Brocoli, I'w berwi ..	89
Brocoli, I'w piclo ..	100
Bronau Drwg, I'w gwella ..	173
Bronchitis, I'w wella ..	173
Bronfraith, I'w magu ..	158
Brunswick Black i loewi Gratiau, I'w wneyd ..	123
Brychau mewn Dillad, I'w symud ..	142
Brychni, I'w wella ..	173
Bugs, I'w difetha ..	165
Bulfinches, I'w magu ..	158
Buns Plaen, I'w gwneyd ..	110
Burym rhagorol, I'w wneyd ..	109
Bwydydd, Tymhorau Gwahanol— Ionawr ..	54
Chwefror a Mawrth ..	54
Ebrill, Mai, Mehefin ..	54

	TUDAL.
Gorphenaf, Awst, Medi ..	54
Hydref ..	54
Tachwedd ..	55
Rhagfyr ..	55
Byddardod, I'w wella ..	173
Byrddau, I'w diogelu ..	120
Byrddau Mahogany, I'w glanhau ..	122
Bystwng ( <i>felon</i> ), I'w wella ..	174
Bywyd a Thân, Cyfraith Yswiriad ..	41
Bywyd Yswiriad, Cyfraith ..	40

## O

Cabbage, Savoy, &c., I'w berwi ..	89
Cabbage Cochion, I'w piclo ..	90
Cabldraith ( <i>libel</i> ), Cyfraith ..	43
Cacenau, Y modd i'w gwneyd ..	109
Cacen ragorol a rhad ..	110
Cacwn, I'w lladd ..	148
Cadeirian Cane Bottom, I'w golchi ..	122
Calch yn y Llygad, I'w symud ..	174
Calon Llo, I'w choginio ..	70
Canaries, I'w magu ..	157
Cancer, I'w wella ..	174
Canwyllau, pa fodd i'w prynu ..	125
Carfio Bwyd, Ymddygiadau wrth y Bwrdd, &c. ..	56
Carp, I'w ystiwio ..	60
Carp neu Tench ..	60
Carped ar haner ei wisgo ..	122
Carpedau, I'w dewis ..	118
Carpedau, I'w glanhau ..	121
Carped y Gristiau ..	122
Carrots, I'w hystiwio ..	89
Carrots a Parsnips, I'w berwi ..	89
Caru, Priodi, Geni, a Chladdu— Merched Ieuange, Amgryniadau i ..	125
Gŵr, I'w ddewis ..	125
Gwraig, I'w dewis ..	126
Priodas, Trefniadau ..	127
Bedyddiadau ..	128
Angladdau a Chofrestriad Marwolaethau ..	129
Priodas, Modrwyau ..	130
Cathod, I'w magu ..	163
Caws, I'w wneyd ..	152
Caudle i Gleifion ..	98
Ceffylau a'u Hanhwylderau, a'r modd i'w hiachau ..	149
Ceffylau, Rhoddi Dwfr i ..	150
Cements, Gwahanol fathau ..	143
Champagne Dirwestol, I'w wneyd ..	105
Charcoal, Ei ddefnyddioldeb ..	123
Chwedleua ..	1
Cheek Mochyn, I'w berwi ..	76
Cheek Mochyn, I'w sychu ..	77
Cherries, I wneyd Jam ..	102
Cheese—ffirwythau wedi eu preserfio— ..	103

	TUDAL.		TUDAL.
Apple Cheese .. ..	103	Crancod poeth .. ..	63
Plum and Damson Cheese..	103	Crancod, Y ffordd i'w dewis ..	52
Cholera, I'w wella .. ..	177	Crape Du, I dynu yr yspotiau oddiar	139
Cholera (Asiatic), I'w wella ..	178	Creaduriaid Dofaidd, Y modd i'w	
Cholera (English), I'w wella ..	177	magu .. .. ..	163
Chwilod, I'w difetha .. ..	165	Cream Cheese, Y modd i'w wneyd	153
Chwyddiadau, I'w gwella .. ..	175	Cream Nectar, I'w wneyd..	105
Chwydd gwyn, I'w wella .. ..	175	Cripiadau, I'w gwella .. ..	179
Chwysigenod ar Draed, I'w gwella	175	Croen, I'w wella .. .. ..	140
Chwysigenod yn y genau, I'w		Cromfachau .. .. ..	17
gwella .. .. ..	176	Croup, I'w wella .. .. ..	179
Chwysu yn ormodol, I'w wella ..	176	Crugdardd ( <i>Shingles</i> ), I'w wella ..	180
Chwysu yn y Nos, I'w wella .. ..	176	Cryd, I'w wella .. .. ..	180
Cig, Coginio gwahanol fathau o ..	64	Crydeymalau ( <i>Rheumatism</i> ), I'w	
Cig, Rhadlonrwydd Cydmarol gwa-		wella .. .. ..	180
hanol ddarnau o .. .. ..	53	Crygni, I'w wella .. .. ..	182
Clafir, I'w wella .. .. ..	176	Cucumbers Ieuaingc, I'w piclo ..	100
Clais neu Ysgiad, I'w wella .. ..	176	Cucumbers, I'w hystiwio .. ..	90
Clefyd Melyn, I'w wella .. ..	176	Cucumbers, I'w piclo .. .. ..	100
Clwyfau, I'w gwella .. .. ..	176	Cucumbers a Wyuwyn, I'w piclo	100
Clwy'r Brenin, I'w wella .. ..	177	Currants Coch, Gwyn, neu Ddu,	
Cnoir Ewinedd, I rwystro .. ..	177	I'w preserfio .. .. ..	101
Cockroaches, I'w difetha .. ..	165	Currants, I'w cadw .. .. ..	103
Cod, Y ffordd i ddewis .. .. ..	51	Currant Wine, I'w wneyd..	105
Cod, I'w berwi .. .. ..	59	Cur yn y Pen, I'w wella .. ..	182
Cod, Y pen a'r ysgwyddau .. ..	60	Curriad y Calon, I'w wella..	182
Cod, Y dernyn canol o hono	60	Cwlwm Gwythi, I'w wella .. ..	183
Coesau Drwg, I'w gwella .. ..	177	Cwn, I'w magu .. .. ..	163
Cogyddes, Awgrymiadan i .. ..	135	Cwningod, I'w magu .. .. ..	163
Cogyddiaeth i Blant— .. ..	113	Cwningod, I'w berwi .. ..	79
Llaeth ffres .. .. ..	114	Cwningan, I'w choginio i archwaethu	
Bywd Blawd Ceirch .. .. ..	114	fel Ysgyffarnog .. .. ..	79
Cigfwyd i Blant .. .. ..	114	Cwningod, I'w hystiwio .. ..	79
Llysieufrwyd i Blant .. .. ..	114	Cwningod, I'w rhostio .. .. ..	79
Pytatws a Phys .. .. ..	114	Cŵyr, I'w dynu oddiar ddillad ..	139
Pwddin Rice gyda ffirwythau	114	Cydseiniaid, Cyfnewidiad y ..	10
Pwddinau i Blant .. .. ..	114	Cyfeillion, Dewis .. .. ..	1
Ffrwythau i Blant, Y modd		Cyfogi Gwaed, I'w wella .. ..	183
i'w parotoi .. .. ..	114	Cyfogi, I'w wella .. .. ..	183
Afalau a Rice .. .. ..	115	Cyfraith: Gwybodaeth a Chy-	
Teisen Afalau i Blant .. .. ..	115	nghorion Cyfreithiol .. ..	32
Ffrwythau i Blant .. .. ..	115	Meistr Tir a'r Deiliad .. ..	32
Currants Cochion .. .. ..	115	Talu Ardreth .. .. ..	34
Jam Mwyar Duon .. .. ..	115	Rhybydd i Ymadael .. .. ..	35
Cold Cream at Wallt, I'w wneyd	140	Lletyau a Lletywyr.. .. ..	35
Colic, I'w wella .. .. ..	178	Lletyau Dodrefnedig .. ..	36
Coliflowers, I'w berwi .. .. ..	89	Ardreth, Moddau i godi .. ..	37
Colomenod, Y ffordd i ddewis ..	53	Methdaliad, Cyfraith Ne-	
Colomenod, I'w hystiwio .. ..	81	wydd .. .. ..	38
Colomenod, I'w briwlio .. .. ..	81	Bill of Sale .. .. ..	39
Colomenod, I'w rhostio .. .. ..	81	Trosiad, Cyfraith .. .. ..	39
Colomenod, I'w magu a'u porthi..	157	Arian a Choel .. .. ..	39
Colyn Gwenyn neu Gacwn, I'w		Tori ymddiried, Twyll gan	
wella .. .. ..	178	Ymddiriedolwyr ac ereill	40
Convulsions ar Blant, I'w gwella	179	Blwydd-daliadau ( <i>Annuities</i> )	50
Corn Beer, I'w wneyd .. .. ..	105	Bywyd Yswiriad .. .. ..	40
Cowslip Wine, I'w wneyd..	105	Bywyd a Than Yswiriad .. ..	41
Cramp, I'w wella .. .. ..	179	Yswiriant y Llythyrdý neu	
Crancod, I'w hystiwio .. .. ..	63	y Llywodraeth .. .. ..	41
Crancod oer .. .. ..	63	Banciau Cyniloy Llywodraeth	42

	TUDAL.
Cvfraith Blwyfol .. ..	42
Blinbeth a Fficeidd-dra (Nuisance) .. ..	42
Meistr a'i Esgwyddorwas .. ..	43
Meistr a Gwas .. ..	43
Cabldraith (libel) .. ..	43
Arwystliad .. ..	44
Receipt Stamps .. ..	44
I. O. U. .. ..	44
Priodas, Tori Amod .. ..	44
Priodas, Cyfraith .. ..	45
Gŵr a Gwraig .. ..	45
Eiddo Gwragedd Priod .. ..	45
Gwneyd Ewyllys .. ..	46
Ewyllys, Cynllun syml o .. ..	47
Cyllill a Ffyr, I'w glanhau .. ..	123
Cynildeb Teuluaid .. ..	131
Cyrn ar Draed, I'w gwella .. ..	183
Cysgu, Awgrymiadau ar .. ..	183
Cystrawen, Y gwallau mwyaf cy- ffredin mewn .. ..	18
Cysur Teuluaid .. ..	132
Cysylltnod .. ..	17

D

Dafadenau, I'w gwella .. ..	184
Damson a Cherries, I'w cadw .. ..	104
Damsons, I'w cadw at basteiod yn y gauaf .. ..	104
Damsons, I'w preserfio .. ..	102
Damson Wine, I'w wneyd .. ..	105
Damweiniau a Digwyddiadau sy- dyn a pheryglus: y modd i ym- ddwyn pan y digwyddant .. ..	199
Llosgi ac ysgaldio .. ..	199
Dillad ar dân .. ..	199
Calch yn y llygad .. ..	199
Gwaedu .. ..	199
Ysgytiad .. ..	199
Gwasgiad yr ymenydd .. ..	199
Tagu .. ..	200
Llewygfeydd .. ..	200
Boddi .. ..	200
Crogi .. ..	200
Meddwdod .. ..	200
Parlys .. ..	200
Mygiad .. ..	200
Meliten a Haul Ergyd .. ..	200
Gwenwynau .. ..	200
Arsenic .. ..	201
Copr .. ..	201
Mercury .. ..	201
Antimony .. ..	201
Tin .. ..	201
Zinc .. ..	201
Arian .. ..	201
Bismuth .. ..	201
Acids .. ..	201

	TUDAL.
Gas .. ..	202
Plwm .. ..	202
Phosphorous .. ..	202
Alkalies .. ..	202
Nitre .. ..	202
Gwenwynau Cysgiadol .. ..	202
Gwenwynau Llysieuol .. ..	202
Oxalic Acid .. ..	202
Spanish Flies .. ..	202
Pysgod Gwenwynllyd .. ..	202
Brathladau Seirph a Nad- roedd .. ..	202
Brathladau Anifeiliaid cyn- ddeiriog .. ..	202
Colynau Pryfaid .. ..	203
Damweiniau mewn Cerbydau .. ..	203
Damweiniau, Rhybuddion er goch- elyd .. ..	203
Gocheliadau wrth ymweled a'r cleision .. ..	204
Plant a Chyllill .. ..	204
Rhagflaenu Tân .. ..	204
Rhagocheliadau mewn achos o Dân .. ..	204
Darllen yn y Gwely .. ..	205
Blodau .. ..	205
Nofio .. ..	205
Damweiniau ar y Railway .. ..	205
Dandelion Beer, I wneyd .. ..	105
Dannedd, I wneyd Powdwr .. ..	140
Dannedd, I lenwi rhai pydredig a sicrhau rhai sigleddig .. ..	184
Dannodd, I'w gwella .. ..	181
Darfodedigaeth, I'w wella .. ..	185
Darleniaeth .. ..	20
Darllen ac Ysgrifenu yn Gywir: Cyfarwyddiadau .. ..	9
Yr Orgraif Gymreig .. ..	9
Llefariaid, Cyfnwidiad y .. ..	10
Cydseniaid, Cyfnwidiad y .. ..	10
I ac U. Y gwahaniaeth rhyngddynt .. ..	10
Sillau, Am .. ..	10
Sillebu, Am .. ..	11
Geiriau a Sillebir wahanol ffyrdd .. ..	12
Geiriau o gyffelyb Seiniau .. ..	13
Unsilliaid Hir a Byr .. ..	14
Gwahannodiad .. ..	14
Gwahannod .. ..	16
Adwahannod .. ..	16
Gorwahannod .. ..	16
Diweddnod .. ..	17
Gofynnod .. ..	17
Rhyfeddnod .. ..	17
Sillgoll .. ..	17
Cysylltnod .. ..	17
Cromfachau .. ..	17
Gwallnod .. ..	17
Difynodiad .. ..	17

	TUDAL.		TUDAL.
Acen Amgylchynedig .. ..	17	Orange Wine .. ..	107
Acen Ddisgynedig .. ..	17	Parsnip Wine .. ..	107
Acen Ddyrchafedig.. ..	17	Persian Sherbet .. ..	107
Diffyglin .. ..	17	Raspberry Wine .. ..	107
Didolnod .. ..	17	Rhubarb Wine .. ..	107
Sernodau .. ..	17	Root Beer (cwrw gwreiddiau)	108
Myneffys .. ..	17	Soda Water .. ..	108
Prif Llythrenau .. ..	17	Diodydd i Gleifion .. ..	108
Cystrawen, Gwallau cyffred- in mewn .. ..	18	Tê Balm a Mint .. ..	108
Rhanau ymadrodd, Gwall- au mwyaf cyffredin mewn	19	Hyson Tea .. ..	108
Darlleniaeth .. ..	20	Llaeth Mules .. ..	108
Acen .. ..	21	Dynwarediad o Laeth Mules	108
Pwyslais .. ..	21	Diod Cream of Tartar .. ..	108
Gorphwysiadau .. ..	21	Lemonade Halenaidd .. ..	108
Goslef .. ..	22	Seidlitz Powders .. ..	108
Dringraddau... ..	23	Barley Water .. ..	108
Ysgrifenu Llythrenau .. ..	23	Granulated Effervescent Cit- rate of Magnesia .. ..	108
Ysgrifenu i'r Wasg .. ..	24	Dwfr Lemon .. ..	108
Defaid, Cynrhon mewn .. ..	149	Toast a Dwfr .. ..	108
Delirium Tremens, neu Wallgof- rwydd Meddwdod, I'w wella	185	Egg Wine .. ..	109
Dewis, Prynu, ac adeiladu Tŷ .. ..	116	Disgyblaeth Plant .. ..	115
Dewis Tŷ .. ..	116	Diweddnod .. ..	17
Prynu Tŷ .. ..	117	Dodrefn : eu dewis a'u trefnu .. ..	118
Adeiladu Tŷ .. ..	117	Dodrefn Tŷ, Awgrymiadau	118
Simnai fyglyd, I'w gwella... ..	117	Carpadau .. ..	118
Muriau gwlybion .. ..	118	Papyr papyro .. ..	119
Didolnod .. ..	17	Pictiws .. ..	119
Diffyg Anadl, I'w wella .. ..	170	Dodrefn, I'w glanhau .. ..	121
Diffyg Anadl, I'w wella .. ..	185	Dodrefn a wneir yn y gauaf	120
Diffyglin .. ..	17	Dolur gwddf, I'w wella .. ..	187
Diffyg Treuliad, I'w wella .. ..	186	Doluriau Gorweddog, I'w gwella...	183
Dillad Brethyn, I'w glanhau .. ..	141	Dolur Rhydd, I'w wella .. ..	183
Dillad, Gofalu am .. ..	121	Dolur yn y Gwddf ( <i>Quinsy</i> ), I'w wella .. ..	187
Dillad yn anfflamadwy, I wneyd	142	Dringraddau... ..	23
Diodydd Dirwestol .. ..	104	Drop Cakes .. ..	110
Blackberry Wine .. ..	104	Drwg Dymer .. ..	7
Champagne Dirwestol .. ..	105	Dropsy, I'w wella .. ..	183
Corn Beer .. ..	105	Dwfr .. ..	120
Cowslip Wine .. ..	105	Dwfr Cabbage .. ..	120
Cream Nectar .. ..	105	Dwfr, I'w feddalu os yn galed	120
Currant Wine .. ..	105	Dwfr Poeth, I'w wella .. ..	188
Damson Wine .. ..	105	Dwylaw, I'w glanhau .. ..	139
Dandelion Beer .. ..	105	Dwylaw Toredig, I'w gwella	183
Diod Adfywiol .. ..	106	Dyfynnodiad .. ..	17
Elder Wine .. ..	106		
Danadl Poethion .. ..	105	<b>E</b>	
Ginger Beer .. ..	106	Egg Draught, I'w wneyd .. ..	98
Dull arall .. ..	106	Ehedyddion, I'w magu .. ..	158
Ginger Wine .. ..	106	Eigian, I'w wella .. ..	188
Gingerette Ysphaenaidd .. ..	106	Elder Wine .. ..	106
Ginger Pop .. ..	106	Enaint Gwallt .. ..	140
Grape Wine pur .. ..	106	English Rabbit, I'w gwneyd	88
Imperial Water .. ..	106	Enwau, Eu harwyddocad .. ..	25
Lemonade .. ..	107	Enyniad yn yr ymysgareodd, I'w wella .. ..	189
Lemon Beer .. ..	107	Ergyd Haul, I'w wella .. ..	189
Lemonade Llaeth .. ..	107	Ewinedd, I'w wyntu yr .. ..	139

	TUDAL.
Ewinedd yn tyfu i'r enawd, I'w rhwystro .. ..	189
Ewyllys, Cynllun syml o .. ..	47
Ewyllys, Gwneyd .. ..	46

## F

Ffa, I'w coginio .. ..	89
Ffermwriaeth .. ..	143
Gwair, I sicrhau pwysau .. ..	149
Pytatws, I'w cadw .. ..	149
Defaid, Cynrhon mewn .. ..	149
Ceffylau a'u Hanhwylderau, a'r modd i'w hiachau .. ..	149
Ceffylau, Rhoddi dwfr i .. ..	150
Fire-proofing, I wneyd .. ..	144
Ffitiau, I'w gwella .. ..	189
Ffitiau Llesmeiriol, I'w gwella .. ..	189
Fly-fishing .. ..	30
Ffowls Gwylltion, I'w coginio .. ..	78
Ffowls, I'w berwi .. ..	80
Ffowls, I'w briwlio .. ..	81
Ffowls, I'w rhostio .. ..	80
Ffowl oer, I'w goginio .. ..	81
Ffowls neu Adar Dŵf, I'w coginio .. ..	79
Ffowls, Y ffordd oreu i ddewis .. ..	53
Frech Goch, I'w gwella .. ..	189
Frech Wen, I'w gwella .. ..	189
French Beans, I'w piclo .. ..	99
French neu Kidney Beans, I'w coginio .. ..	89
French Polishes, I'w gwneyd .. ..	136
French Polish at Esgidiau a Botasau .. ..	137
French Kid Gloves, I'w glanhau .. ..	138
Ffraniau Mahogany, I'w glanhau .. ..	122
Ffrwythau, I'w preserfio at Darts Teuluaidd .. ..	104
Ffrwythlondeb Anferth .. ..	29
Furs, I'w diogelu rhag pryfaid .. ..	139
Furs, I'w glanhau .. ..	141

## G

Garddwriaeth .. ..	145
Garddwriaeth y blwyddyn .. ..	145
Ionawr .. ..	145
Chwefror .. ..	145
Mawrth .. ..	145
Ebrill .. ..	145
Mai .. ..	145
Mehefin .. ..	146
Gorphenaf .. ..	146
Awst .. ..	146
Medi .. ..	146
Hydref .. ..	146
Tachwedd .. ..	146
Rhagfyr .. ..	147
Glanhau coed rhosynau oddi-wrth fallod .. ..	147
Llwydfrychni ar Goed, I'w rwystro .. ..	147

	TUDAL.
Llyffiantod mewn Gerddi .. ..	147
Malwod a Gwlith falwod, I'w lladd .. ..	147
Malwod, Trap i'w dal .. ..	148
Grubs, I'w lladd .. ..	148
Lindys .. ..	148
Gloewon Byw, I'w lladd .. ..	148
Cacwn, I'w lladd .. ..	148
Gardd yn y Ffenestr, I'w ffurfio .. ..	148
Geiriau .. ..	1
Geiriau o gyffelyb seiniau .. ..	13
Geiriau a Sillebir wahanol ffyrdd .. ..	12
German Paste i Adar .. ..	159
Giau, Anhwylderau y, I'w gwella .. ..	183
Gilt Frames, I'w glanhau .. ..	120
Ginger Beer, I'w wneyd .. ..	106
Gingerette Ysapaenaid, I'w wneyd .. ..	106
Ginger Cakes, I'w gwneyd .. ..	110
Ginger Pop, I'w wneyd .. ..	106
Ginger Wiue, I'w wneyd .. ..	106
Gini-ffowls a Phaunod, I'w coginio .. ..	78
Glanweithdra .. ..	6
Glanweithdra, ei bwysigrwydd er diogelu iechyd .. ..	205
Glue, I'w wneyd gwahanol fathau o .. ..	143
Godro, Y modd i'w wneyd .. ..	151
Gofynod .. ..	17
Golafur ( <i>exercise</i> ), ei bwysigrwydd er diogelu iechyd .. ..	207
Golchi, Y ffordd i .. ..	142
Gooseberries, I'w cadw .. ..	104
Gooseberries, Dull arall i'w cadw .. ..	104
Gooseberry Jam Gleision, I'w wneyd .. ..	102
Gooseberry Jam Coch, I'w wneyd .. ..	101
Gorphwysiadau .. ..	21
Gorwahannod .. ..	16
Goslef .. ..	22
Grafel, I'w wella .. ..	190
Grape Wine pur, I'w wneyd .. ..	106
Gravy, Y modd i'w wneyd .. ..	85
Gravy Beef .. ..	85
Gravy Brown .. ..	86
Clear Gravy .. ..	86
Rich Gravy .. ..	86
Veal Gravy .. ..	86
Gravy at Bysgod .. ..	86
Grouse, I'w rhostio .. ..	78
Guinea-fowls, I'w magu a'u porthi .. ..	155
Guinea Pigs, I'w magu .. ..	163
Gwaedu o glwyf, I'w atal .. ..	190
Gwaedu o'r Trwyn, I'w atal .. ..	190
Gwaedlif, I'w atal .. ..	190
Gwair, I sicrhau pwysau .. ..	149
Gwahannodiad .. ..	14
Gwahanod .. ..	16
Gwaith Paentiedig, I'w olchi .. ..	123
Gwallnod .. ..	17
Gwallt, Cymysgedd i gynrychu tyllant y .. ..	140

TUDAL.	TUDAL.		
Gwallt Olewon ( <i>Hair Oils</i> ), I'w gwneyd .. .. .	140	Brunswick Black at loewi gratiau .. .. .	123
Gwalltŵlchiad rhagorol, I'w wneyd	140	Blacking i Stoves .. .. .	123
Gwallt, I'w gael yn ol ar ol ei goll, a'i gryfhau .. .. .	190	Cyllill a ffyrce, I'w glanhau	123
Gwely Ystafelloedd, I'w glanhau	120	Gwaith Paentiedig .. .. .	123
Gwenyn, a'r modd i'w cadw .. .. .	159	Lloriau, I'w hysgwrio .. .. .	123
Y Frenhines .. .. .	160	Charcoal .. .. .	123
Gwenyn Gweithgar .. .. .	160	Ysteiniau o ddodrefn, I'w tynu .. .. .	123
Gwenyn Segur .. .. .	160	Inc oddiar Arian, I'w dynu	123
Heidio y Gwenyn .. .. .	160	Inc o goed, I'w dynu .. .. .	124
Sefyllfa y Cychod .. .. .	161	Lampau Bronzed, I'w glanhau .. .. .	124
Bwyd i'r Gwenyn .. .. .	161	Pres, Britannia Metal, Tins, Copr .. .. .	124
Dwfr i'r Gwenyn .. .. .	161	Looking Glasses, I'w glanhau	124
Haul a Chysgod .. .. .	161	Gwydr, Glanhau Llestri	124
Gelynyon y Gwenyn .. .. .	161	Gwydr .. .. .	124
Lladron Wenyn .. .. .	162	Ysteiniau o Lineiniau, I'w tynu .. .. .	124
Gweithrediadau Teuluauidd: Saer- niaeth, Adgyweiriadau, Trwsio, &c. .. .. .	119	Brasder o Velvet, I'w dynu	124
Arfau at wasanaeth y Ty .. .. .	119	Gwayw a Phoen, I'w wella .. .. .	191
Byrddau, I'w diogelu .. .. .	120	Gwefusau Toredig, I'w gwella .. .. .	190
Gilt Frames .. .. .	120	Gwenwyn, Cyffyrniau i wrthweithio eu dylanwad .. .. .	190
Muriau Llaith .. .. .	120	Gwisgoedd a'r modd i'w cadw mewn trefn	136
Gwely Ystafelloedd .. .. .	120	Gwisgoedd Merched .. .. .	136
Paent .. .. .	120	Het, sut i gymeryd gofal am dani .. .. .	136
I gadw Drws yn agored .. .. .	120	French Polishes .. .. .	136
I sicrhau a fydd gwely yn llaith ai peidio .. .. .	120	French Polish at esgidiau a Botasau .. .. .	137
I wrystro i lamp fygu .. .. .	120	Patent Leather, I'w ddis-glaerio .. .. .	137
Dwfr .. .. .	120	Botasau ac Esgidiau .. .. .	137
Dwfr, I feddalu dwfr caled	120	Blacking, I'w wneyd .. .. .	137
Dwfr Cabbage .. .. .	120	Botasau ac Esgidiau i ddal dwfr .. .. .	137
Dodrefn wneir yn y gauaf .. .. .	120	Topiau Botasau .. .. .	137
Poteli a pluro .. .. .	120	Menyg, Gofal am .. .. .	137
Barilau, I'w perarogli .. .. .	121	Menyg Kid, I'w glanhau .. .. .	138
Oil Paintings .. .. .	121	French Kid Gloves, I'w glanhau .. .. .	138
Stoppers Gwydr, I'w llacio	121	Lliwiau Gwisgoedd, I'w diogelu .. .. .	138
Olew Lampau .. .. .	121	Sidan, I'w adnewyddu .. .. .	138
Teapots China .. .. .	121	Sidan Du, I'w adnewyddu...	138
Dillad, I ofalu am .. .. .	121	Crape Du, I'w dynu yr yspotiau oddiarno .. .. .	139
Dodrefn, Eu glanhau .. .. .	121	Mourning Dresses, I symud yr ysteiniau oddiar .. .. .	139
Carpedau, I'w glanhau .. .. .	121	Cwyr .. .. .	139
Carped y Grisiau .. .. .	122	Inc, I symud ysteiniau .. .. .	139
Carped ar haner ei wisgo .. .. .	122	Sidan, I symud yspotiau brasder oddiar .. .. .	139
Oil Cloth .. .. .	122	Furs, I'w diogelu rhag pryf-aid .. .. .	139
Matiau Gweltt .. .. .	122	Melfed, I'w lanbau .. .. .	139
Papyrau Gwelydd, Y modd i'w glanhau .. .. .	122	Gwlaneni, I'w golchi .. .. .	139
Rosewood, I'w lanbau .. .. .	122		
Sofas ac Ottomas .. .. .	122		
Byrddau Mahogany .. .. .	122		
Fframiau Mahogany .. .. .	122		
Cadeiriau Cane Bottom .. .. .	122		
Alabaster .. .. .	122		
Marble, I'w lanbau .. .. .	122		
Gwydr, I'w lanbau .. .. .	122		
Gwydr, Llestri .. .. .	123		
Poteli, I'w glanhau .. .. .	123		
Papier Mache, I'w lanbau	123		

	TUDAL.
Gwsg wedi ffudio, I gauu ..	142
Gwiwerod, I'w magu ..	163
Gwlaneni, I'w golchi ..	139
Gwlith ..	31
Gŵr, I'w ddewis ..	125
Gwraig, I'w dewis ..	126
Gwraig, Gallu ..	3
Gŵr a Gwraig, Cyfraith ..	45
Gwragedd Priod, Cyfraith ..	45
Gwydr, Glanhau Llestri Gwydr ..	123
Gwydr, I'w lanbau ..	123
Gwydr, Llestri gwydr i'w glanhau ..	123
Gwyddau, I'w rhestio ..	80
Gwyddau, Y ffordd i ddewis ..	53
Gwydd, Ystiwio Giblets ..	80
Gwyddau, I'w magu a'u porthi ..	155
Gwynt, I'w chwalu ..	191
Gwyntogrwydd ar Blant, I'w wella ..	191
Gwynt yn yr Ystumog, I'w chwalu ..	191

## H

Haddocks, I'w berwi ..	60
Haddocks, I'w briwllo ..	60
Haddocks, I'w sychu ..	60
Haddocks neu Whittings ..	60
Haint neu Glefyd, I ochelyd ei gael oddiwrth ereill ..	191
Halltu cig ..	67
Ham, I'w berwi ..	78
Hams, I'w ciwrio ..	77
Ham Veal ..	70
Haucherchief, yr ..	6
Haul-losriad, I'w wella ..	191
Helwriaeth ( <i>game</i> ), Cogyddiaeth ..	78
Hen Friwiau, I'w gwella ..	191
Het, Sut i gymeryd gofal am dani ..	136
Hinfesurydd cywir a syml ..	32
Hotch-potch Mutton ..	72
Hunllef, I'w rwystro ..	191
Hwyaidd, I'w berwi ..	80
Hwyaidd, I'w coginio ..	80
Hwyaidd, I'w hashio ..	80
Hwyaidd, I'w magu a'u porthi ..	154
Hwyaidd, Y ffordd i ddewis ..	53
Hydd-gig, Y ffordd i ddewis ..	52

## I

I ac U, Y gwahaniaeth rhyngddynt ..	10
Iau ac Ysgyfaint Llo, I'w coginio ..	69
Iau Llo, I'w goginio ..	69
Iechyd a'i ddiogeliad : Awyr, Golafur ( <i>exercise</i> ), a Chwsg ..	205
Yndrochi ..	205
Yndrochi yn y Môr ..	205
Glanweithdra, Ei bwysigrwydd ..	205
Golafur ( <i>exercise</i> ) ..	207
Canu ac Iechyd ..	207
Cwsg ..	207

	TUDAL.
Chwant Bwyd ..	208
Cymedroldeb ..	208
Ieuengetyd ac Iechyd ..	208
Iechyd, Awgrymiadau arei ddiogelu ..	205
Ieir : Y modd i'w magu a'u porthi ..	153
Ieuainge, Cynghorion i'r ..	2
I. O. U., Cyfraith ..	44
Imperial Water, I'w wneyd ..	106
Inc Coch, I'w wneyd ..	143
Inc Dr. Ure, I'w wneyd ..	142
Inc, I symud ysteiniau ..	139
Inc oddiar Arian, I'w dynu ..	123
Inc o Goed, I'w dynu ..	124
Influenza, Gwel Anwyd Trwm ..	191
Irish Rabbits, I'w gwneyd ..	88

## J

Jellies, I'w gwneyd ..	97
Jelly Traed Llo ..	97
Shank Jelly ..	97
Chicken Jelly ..	97
Arrowroot Jelly ..	98
Orange Jelly ..	98
Sago Jelly ..	98
Panada i Gleifion ..	98
Jelly Ffrwythau, I'w wneyd ..	102
Jelly Currants ..	102
Jelly Cherries ..	101
Jelly Grapes ..	102
Jelly Afalau ..	102

## K

Kidneys Llo, I'w coginio ..	70
Kidneys Llo, I'w hystiwio ..	70

## L Ll

Lard Mochyn ..	77
Lambstones, I'w coginio ..	74
Lavender Water ..	139
Lampau Bronzed, I'w glanhau ..	124
Lemonade, I'w wneyd ..	107
Lemonade Llaeth, I'w wneyd ..	107
Lindys, I'w lladd ..	147
Linnets, I'w magu ..	158
Lobsters, I'w hystiwio ..	62
Lobsters, I'w potio ..	62
Lobsters, I'w rhostio ..	63
Lobsters, Y ffordd i'w dewis ..	52
Looking Glasses, I'w glanhau ..	124
Lumbago, I'w wella ..	192
Llaethdy, Y modd i'w reoleiddio ..	151
Lledi, I'w ffrio ..	61
Llefariaid, Cyfnewidiad y ..	10
Llesmeirglwyf, I'w wella ..	191
Lletyau Dodrefnedig, Cyfraith ..	36
Lletyau a Lletywyr, Cyfraith ..	35
Lliwiau Gwisgoedd, I'w diogelu ..	138
Lliwio, Glanhau, a Golchi ..	140

	TUDAL.		TUDAL.
Lliwio dillad .. ..	140	Llyswod, I'w berwi .. ..	62
Lliwio boneti .. ..	141	Llyswod, I'w ffrio .. ..	62
Satin gwyn a flowered, I'w lanbau .. ..	141	Llyswod, I'w hystiwio .. ..	62
Sidanau, Satins, Gwisgoedd gwlan a lliau, I'w llifo ..	141	Llyswod, I'w piclo .. ..	62
Dillad Briethyn du, I'w glanhau .. ..	141	Llywodraethiad teuluaidd .. ..	130
Furs, I'w glanhau .. ..	141	Rheolau teuluaidd .. ..	130
Ostrichfeathers, I'w glanhau	141	Penteuluyddes icuange, Cyfarwyddiaidau .. ..	130
Boneti gwellt, I'w glanhau	142	Cynildeb teuluaidd .. ..	131
Gwisg wedi ffiadio, I gánu ..	142	Cysur teuluaidd .. ..	132
Boneti gwellt, I'w gwynu ..	142	Llywodraeth, Y ffordd i ancrch Aelodau y .. ..	25
Veil lace wen, I olchi .. ..	142		
Blond lace, I'w hadnewyddu	142	<b>M</b>	
Cyrteni gwelyau, I'w golchi	142	Magu dannedd, I esmwythau plant yn .. ..	194
Golchi .. ..	142	Manwynau, I'w wella .. ..	194
Brychni mewn dillad .. ..	142	Maip, I'w berwi .. ..	89
Dillad yn anfflamadwy, I wneyd .. ..	142	Malwod a gwlith falwod, I'w lladd	147
Iloriau, I'w hysgwrio .. ..	123	Malwod, I'w difetha .. ..	165
Llosgiadau ac Ysgaldiadau, I'w gwella .. ..	192	Malwod, Trap i'w dal .. ..	148
Llosg eira, I'w wella .. ..	192	Marble, I'w lanbau .. ..	122
Llosgi yn y gwyneb, I'w wella ..	192	Marchnata, Rheolau .. ..	55
Llyffiantod mewn gaudd .. ..	147	Marchnata, Y ffordd oreu i brynu gwahanol fwydydd .. ..	51
Llygad du, I'w wella .. ..	192	Marmalade Apricots .. ..	103
Llygaid, Eu gwahanol anhwylder- au a'u gwellhad .. ..	192	Marmalade Currants cochion .. ..	103
Llygaid gweiniad, I'w cryfhau ..	193	Marmalade Gooseberries .. ..	103
Llygod gwynion, I'w magu .. ..	163	Marmalade Quinces .. ..	103
Llygod, I'w dinystrio .. ..	164	Marmalade Oranges .. ..	102
Llygriad a chymysgiad nwyddau, Y modd i'w darganfod .. ..	48	Masnachwyr a Masnach : Awgrym- iadau .. ..	3
Brandy .. ..	48	Arferion masnachwyr .. ..	3
Bara a blawd .. ..	48	Cymeryd siop .. ..	4
Ymenyn .. ..	49	Cyfalufyddion bychain .. ..	4
Pupur Cayenne .. ..	49	———— mwy .. ..	4
Chicory .. ..	49	Cymydogaeithau .. ..	4
Coffi .. ..	49	———— newyddion .. ..	4
Chocolate a Cocoa .. ..	49	Methdaliadau .. ..	4
Té .. ..	49	Rhagocbeliadau .. ..	5
Tybaco .. ..	49	Angerheidiau neu foethau .. ..	5
Mwstard a Phupur .. ..	49	Moeggarwch .. ..	5
Snuff .. ..	50	Cywirdeb .. ..	5
Siwgr .. ..	50	Dyledswyddau siopwyr .. ..	5
Lard .. ..	50	Matiau Gwellt, I'w glanhau .. ..	122
Llaeth .. ..	50	Mecryll, I'w berwi .. ..	61
Marmalade .. ..	50	Mecryll, I'w briwlio .. ..	61
Blawd Ceirch .. ..	50	Mecryll, I'w piclo .. ..	61
Rum .. ..	50	Mecryll, I'w potio .. ..	61
Gin .. ..	50	Mecryll, Y ffordd oreu i ddewis .. ..	51
Gwin .. ..	50	Meddwdod, I wella fit o .. ..	194
Cwrw a Porter .. ..	50	Meddyg y Teulu: Cynghorion gwerthfawr i wella yr anhwylder- derau mwyaf cyffroddin .. ..	166
Picl a Phreserves .. ..	50	Diogeliad Iechyd: Awgrym- iadau .. ..	166
Llynoryn dugoeh, I'w wella .. ..	193	Y modd i fyw yn hen .. ..	167
Llyngyr, I'w symud .. ..	193	Afechyd, Ei arwyddion .. ..	167
Llynorod ( <i>Ulcers</i> ), I'w gwella .. ..	193		
Llyisiau, I'w coginio .. ..	88		
Llyswod, I'w briwlio .. ..	62		



	TUDAL.
Rhagocheliadau wrth ymwel- ed ag ystafelloedd cleifion	168
Rhagocheliadau wrth roddi meddyginiaethau ..	168
Ysgyfaint, Afiechyd yr ..	169
Atal dywedyd ..	169
Anadl byr ..	169
Anadlu ..	169
Anadl, Diffyg ..	170
Anadl drewllyd ..	170
Anesmwythdra ( <i>Irritation</i> )	170
Anwyd ..	171
Anhwyldeb yr ysgyfaint ..	170
Anwyd yn y pen ..	171
Anwyd, Y modd i beidio ei gael ..	171
Anwyd, Y modd i'w wella	171
Anwyd trwm ( <i>Catarrh</i> ) ..	171
Bolgnoi ar blant ..	172
Brathiad ci cynddeiriog ..	172
Brathiad nadroedd ..	172
Brech debyg i bigiad danadl ( <i>Nettle Rash</i> ) ..	172
Bronau drwg ..	173
Bronchitis ..	173
Brychni ..	173
Byddardod ..	173
Byetwng ( <i>felon</i> ) ..	174
Calch yn y llygaid ..	174
Cancer ..	174
Chwydd gwyn ..	175
Chwyddiadau ..	175
Chwysigenod ar draed ..	175
Chwysigenod yn y geneu	176
Chwysu yn ormodol ..	176
Chwysu yn y nos ..	176
Clafr ..	176
Clais neu ysigiad ..	176
Clefyd melyn ..	176
Clwyfau ..	176
Clwy'r brenin ..	177
Cnoi'r ewinedd ..	177
Coesau drwg ..	177
Colera ..	177
Cholera, English ..	177
Cholera, Asiatic ..	178
Colic ..	178
Colyn gwenyn neu gacwn	178
Convulsions ar blant ..	179
Cramp ..	179
Cripiadau ..	179
Croen ..	179
Croup ..	179
Crugdardd ( <i>Shingles</i> )	180
Cryd ..	180
Crydcymalau ( <i>Rheumatism</i> )	180
Crygni ..	182
Cur yn y pen ..	175
Cur yn y pen ..	182
Curiad y galon ..	182

	TUDAL.
Cwlwm gwythi ..	183
Cyfogi ..	183
Cyfogi gwaed ..	183
Cyrrn ar draed ..	183
Cysgu ..	183
Dafadenau ..	184
Dannedd ..	184
Ddannodd ..	184
Darfodedigaeath ..	185
Delirium Tremens, neu Wall- gofrwydd meddwod ..	185
Diffyg anadl ..	185
Diffyg treuliad ..	186
Dolur gwddf ..	187
Dolur yn y gwddf ..	187
Doluriau gorweddog ..	188
Dolur rhydd ..	188
Dropsi ..	188
Dwfr poeth ..	188
Dwylaw toredig ..	188
Eigian ..	188
Eyniad yn yr ymysgaroedd	189
Ergyd haul ..	189
Ewinedd yn tyfu i'r onawd	189
Ewin-rew ( <i>frost bitten</i> ) ..	189
Ffitiau ..	189
Ffitiau llesmeiriol ..	189
Frech Goch ..	189
Frech Wen ..	189
Giau, Anhwyldeirau y	189
Grafel ..	190
Gwallt, I'w gael yn ol ar ol ei golli, a'i gryfhau ..	190
Gwaedu o'r trwyn ..	190
Gwaedu o glwyf ..	190
Gwaedlif ..	190
Gwefusau toredig ..	190
Gwenwyn, Cyffyrtau i wrth- weithio ei ddylanwad ..	190
Gwayw a phoen ..	191
Gwynt, I'w chwalu ..	191
Gwynt yn yr ystumog ..	191
Gwyntogrwydd mew'n plant	191
Haint neu glefyd ..	191
Haul-losgiad ..	191
Hen friwiau ..	191
Hunllef ..	191
Influenza ..	191
Llesmeirglwyf ..	191
Llosg eira ..	192
Llosgiadau ac ysgaldiadau	192
Llosgi yn y gwyneb ..	192
Lumbago ..	192
Llygad du ..	192
Llygaid, Eu gwahanol an- hwyldeirau ..	192
Llygaid gweiniad ..	193
Llynoryn dugoch ..	193
Llynorod ( <i>Ulcers</i> ) ..	193
Llyngyr ..	193

	TUDAL.		TUDAL.
Magn dannedd ... ..	194	Methdaliad, Cyfraith newydd ..	38
Manwynau ... ..	194	Merched Ieuainig, Cynghorion i ..	2
Meddwdod .. ..	194	Methu cysgu, I'w symud... ..	194
Mellt a tharanau .. ..	194	Mellt a tharanau, Pa fodd i ym-	
Methu cysgu .. ..	194	ddwyn yn ystod ysturm o ... ..	194
Moelni .. ..	194	Milk Porridge, I gleifion ... ..	98
Neuralgia neu TicDoboureux	194	Miltir y gwahanol genhedloedd	28
Pâs ar blant .. ..	194	Moelni, I'w wella ... ..	194
Pendduynod .. ..	195	Moesau ac ymddygiadau .. ..	5
Penysgafnder ... ..	195	Awgrymiadau ar foesgarwch	5
Peswch, Gwahanol fathau o	195	Cyflwyniad i gymdeithas .. ..	5
Pigyn yn yr ochr ... ..	195	Gwisgiad ... ..	5
Pigyn yn y glust .. ..	196	Gwallt, Trefniad y ... ..	6
Piles .. ..	196	Gwisgiad wrth dalu ym-	
Piso anmhrïodol, gwaedlyd,		weliadau ... ..	6
a methu piso ... ..	196	Gwisgoedd boneddigesau ... ..	6
Pisglwyf .. ..	196	Priodoldeb addurniadau ... ..	6
Plorod ( <i>Abscess</i> ) .. ..	196	Symlrwydd ac urddasolrwydd	6
Plorod llaeth .. ..	196	Glanweithdra ... ..	6
Poen yn y cefn .. ..	196	Moesau personol, Awgrym-	
Poenau yn y pen a'rgwynneb	196	iadau ... ..	6
Poenau yn yr aelodau .. ..	196	Materion pobl ereill... ..	6
Poen yn yr ochr .. ..	196	Llyfrau ar foes .. ..	6
Poeri gwaed .. ..	197	Gochelwch gelwydd ... ..	7
Pryfaid yn mhenuau plant ...	197	Byddwch gyson ... ..	6
Ring worms ... ..	197	Drwg dymer i'w ochelyd ... ..	7
Rhwymedd .. ..	197	Balchder i'w ochelyd ... ..	7
Rhyddni yn yr ymysgaroedd	197	Mursendod ... ..	7
Salwch y môr .. ..	197	Tyngu ... ..	7
Scurvy .. ..	197	Byddwch yn foneddwr ... ..	8
Surni yn yr ystumog ... ..	197	Byddwch onest .. ..	8
Surni a gwyntogrwydd ... ..	197	Pethau i'w gochelyd .. ..	8
Swm yn y clustiau .. ..	197	Moesau personol ... ..	6
Tarawiad mellen ... ..	197	Morgrug, I'w difetha ... ..	165
Tarddiadau ... ..	197	Morwynion, I'w dewis ... ..	134
Tic Doloureux ... ..	197	Morwyn tŷ, Awgrymiadau ... ..	134
Toriadau ... ..	198	Moch, I'w magu a'u porthi ... ..	163
Wen .. ..	198	Mourning Dresses, I symud yr ys-	
Y Gareg .. ..	198	potiau oddiar .. ..	139
Ymgrafu .. ..	198	Muffins, I'w gwneyd ... ..	110
Ymysgaroedd, Poen yn yr	198	Mulled Egg ... ..	98
Ysgaldio a llosgi .. ..	198	Muriau gwlybion, I'w gwella ... ..	120
Ysigo .. ..	198	Muriau llaith, I'w sychu .. ..	118
Ysigo y troed .. ..	198	Mushrooms, I adnabod rhai da	
Mefus, I wneyd Jam .. ..	101	oddiwrth rai ffagiol ... ..	53
Meistr a gwas, Cyfraith .. ..	43	Mushrooms, I'w hysitiwio .. ..	90
Meistradoedd a gweision a mor-		Mushrooms, I'w piclo ... ..	100
wynion ... ..	134	Mutton, Briwlio Brest o .. ..	71
Morwynion, I'w dewis .. ..	134	Mutton, Berwi Leg o... ..	72
Morwynion, Awgrymiadau i	134	Mutton Chops, I'w briwlio	71
Cogyddes, Awgrymiadau i	135	Mutton Chops, I'w ffrio ... ..	72
Meistr a'i Egwyddorwas, Cyfraith	43	Mutton Hanu .. ..	72
Meistr tir a'i ddeiliad, Cyfraith	32	Mutton, I'w ddewis ... ..	52
Melfed, I'w lanhau... ..	139	Mutton, I'w hashio ... ..	72
Mel Sebon ( <i>Honey Soap</i> ), I'w		Mutton, I'w goleru .. ..	72
wneyd .. ..	139	Mutton, Rhostio Fillet o .. ..	71
Melônau, Mangoes, a Cucumbers,		Mutton, Rhostio Haunch o .. ..	71
I'w piclo ... ..	100	Mutton, Rhostio Saddle o .. ..	71
Menyg, Gofal am .. ..	137	Mutton, Rhostio y Leg, y Shoulder,	
Moung Kid, I'w glanhau .. ..	138	a'r Lwyn .. ..	71

	TUDAL.		TUDAL.
Mutton, Ystiwio Shoulder o .. ..	72	Pastai Mutton .. ..	91
Mwnciod, I'w magu .. ..	163	Pastai Beef Steaks .. ..	91
Mynegfys, Y .. ..	17	Pastai Veal .. ..	91
		Pastai Lamb .. ..	91
<b>N</b>		Pastai Cywion Ieir.. ..	91
Neuralgia, I'w wella .. ..	194	Rabbit Pie .. ..	91
		Pastai Ysgyfarnog .. ..	91
<b>O</b>		Pastai Colomenod .. ..	91
Oengig ( <i>lamb</i> ), Berwi Leg o .. ..	74	Pastai Giblets .. ..	91
Oengig, Dysglaid ragorol o .. ..	74	Pastai Hwyađen .. ..	91
Oengig, Lamb Chops, I'w ffrio .. ..	73	Pastai Llyswod .. ..	92
Oengig, Lamb Chops .. ..	73	Pasteiod ffirwythau, Tarts, &c. ...	92
Oengig, Lamb Cutlets .. ..	73	Puff Paste .. ..	92
Oengig I'w rostio .. ..	73	Pást at Basteiod ffirwythau .. ..	92
Oengig, Rhostio y chwarter blaen .. ..	73	Pást heb ymenyn ynddo .. ..	92
Oengig, Y ffordd i ddewis .. ..	52	Rhubarb Tart .. ..	92
Offeiriad, Y modd i anerch .. ..	25	Tarts Gooseberries .. ..	92
Oil Cloth, I'w olchi .. ..	122	Pastai A falau .. ..	92
Oil Paintings, I'w glanhau .. ..	121	Pastai Cherries .. ..	92
Olew Lampau, I'w ddewis .. ..	121	Tarts Cranberries .. ..	92
Olew, pa fodd i'w brynu .. ..	125	Mince Pies .. ..	93
Orange Wine, I'w wneyd .. ..	107	Patent Leather, I'w ddisglaerio .. ..	137
Orgraff Gymreig, Yr .. ..	9	Peaches, I'w sychu .. ..	103
Ostrich Feathers, I'w glanhau .. ..	141	Pen Dafad, I'w goginio .. ..	73
		Pen Llo, I'w ferwi .. ..	69
<b>P</b>		Pen Llo, I'w hashio .. ..	69
Paent, I'w olchi .. ..	120	Pen Oen, I'w goginio .. ..	74
Paentio .. ..	144	Pen Mochyn, I'w goleru .. ..	76
Papier Mache, I'w lanhau .. ..	123	Pendduynod, I'w gwella .. ..	195
Papyrau Gwelydd: Y modd i'w glanhau .. ..	122	Penteuluyddes Ieuange, Cyfarwydd-iadau .. ..	130
Papyr papyro, I'w ddewis .. ..	119	Peswch, Gwahanol fathau, a'r modd i'w wella .. ..	195
Parotoadau defnyddiol: Inc, Gum, Glue, Cement, &c. .. ..	142	Petris, Y ffordd i ddewis .. ..	53
Inc Dr. Ure .. ..	142	Petris, I'w rhostio .. ..	78
Inc coch .. ..	143	Pethau dyddorol a buddiol .. ..	25
Marking Ink .. ..	143	Arwyddocad geiriau .. ..	25
Cement i drwsio llestri toredig .. ..	143	Milltir y gwahanol genhedloedd .. ..	28
Cement i drwsio boilers copr .. ..	143	Ffrwythlondeb anferth .. ..	29
Cement i drwsio ceryg .. ..	143	Penwaig, I'w briwlio .. ..	62
Cement i drwsio marble .. ..	143	Penwaig, I'w cochi.. ..	62
Cement at wydr .. ..	143	Penwaig, I'w ffrio .. ..	62
Cement blawd Rice .. ..	143	Penwaig, I'w piclo .. ..	62
Gwyn Wy fel Cement .. ..	143	Penwaig, Y ffordd i ddewis .. ..	52
Cement i drwsio China .. ..	143	Penysgafnder, I'w wella .. ..	195
Cement at wydr neu liain .. ..	143	Perarogl hyfryd, I'w wneyd .. ..	139
Glue, Gwahanol fathau o .. ..	143	Persian Sherbet, I'w wneyd .. ..	107
Pást, Gwahanol fathau o .. ..	144	Pheasants, I'w rhostio .. ..	78
Birdlime, I'w wneyd .. ..	144	Picls cymysgedig .. ..	99
Fire-proofing, I'w wneyd .. ..	144	Picl Indiaidd .. ..	101
Water-proofing, I'w wneyd .. ..	144	Piclo, Preserfio, cyfarwyddiadau .. ..	99
Parrots, I'w magu .. ..	157	Pictiws, I'w gosod .. ..	119
Parsnip Wine, I'w wneyd .. ..	107	Pigyn yn y glust, I'w wella .. ..	196
Pás ar blant, I'w wella .. ..	194	Pigyn yn yr ochr, I'w wella .. ..	195
Past, I'w wneyd .. ..	144	Piles, I'w gwella .. ..	196
Pasteiod, I'w gwneyd .. ..	90	Pisglwyf, I'w wella .. ..	196
Past at orchuddio Pasteiod Cig .. ..	90	Piso anwirfoddol, gwaedlyd, a methu piso .. ..	196
		Plant a chyllill .. ..	204

	TUDAL.		TUDAL.
Plant: Y modd i'w magu a'u porthi	110	Pwddin Rice .. ..	95
Plorod ( <i>abscess</i> ), I'w gwella	196	Pwddin Tapioca neu Sago ..	95
Plorod llaeth, I'w gwella .. ..	196	Roll Pudding .. ..	96
Plum Cake, I'w gwneyd .. ..	109	Pwddin Afalau ac Wy .. ..	96
Poen yn y cefn, I'w wella .. ..	196	Pwddin Afalau .. ..	96
Poenau yn yr aelodau, I'w gwella	196	Pwddin Ffrwyth .. ..	96
Poenau yn y pen a'r gwyneb, I'w gwella .. ..	196	Pwddin Pys .. ..	96
Poen yn yr ochr, I'w wella .. ..	196	Pwddin Pytatws .. ..	96
Poeri gwaed, I'w wella .. ..	197	Pwddin Cig .. ..	95
Porc, Berwi leg o .. ..	73	Cwstard .. ..	96
Porc Chops, I'w briwlio .. ..	75	Cwstard Pwddin .. ..	96
Porc Chops, I'w ffrio .. ..	75	Omeletts .. ..	97
Porc fel Lamb, Coginio .. ..	75	Crempogau .. ..	97
Porc, I'w biclo .. ..	77	Fritters .. ..	97
Porc, I'w rostio .. ..	75	Pwddin gwaed mochyn, I'w wneyd	76
Porc Griskin .. ..	75	Pwyslais .. ..	21
Porc, Y ffordd i ddewis .. ..	62	Pys gleision, I'w berwi .. ..	89
Porchell, I'w rostio .. ..	75	Pys gleision, I'w hystiwio .. ..	90
Potes neu Broth, Y modd i'w wneyd	84	Pysgod dwfr croyw, Y ffordd i ddewis .. ..	52
Broth Mutton .. ..	84	Pysgod, I'w coginio .. ..	53
Broth cryfhaol .. ..	85	Pysgota ac ymdrochi .. ..	29
Broth Cyw .. ..	85	Pysgota .. ..	29
Broth Veal cryfhaol .. ..	85	Abwyd, Gwiall, Tackle, &c. ..	29
Broth traed Llo .. ..	85	Brithyllod .. ..	29
Broth traed Llo, dull arall .. ..	85	Salmon .. ..	30
Broth Beef, Mutton, a Veal .. ..	85	Fly fishing .. ..	30
Broth i gadw yn hir .. ..	85	Ymdrochi .. ..	30
Broth a ellir ei wneyd mewn hanner awr .. ..	85	Pytatws, I'w cadw .. ..	149
Poteli a Phuro, Y modd i wneyd	120	Pytatws mewn bara .. ..	109
Poteli, I'w glanhau .. ..	123	Pytatws newyddion, I'w berwi ..	89
Prawns a Shrimps, I'w coginio ..	63		
Prawns, Gurry .. ..	63	<b>B</b>	
Pres, Britannia Metal, Tins, Copr, I'w glanhau .. ..	124	Raspberry Jam, I'w wneyd .. ..	101
Presertio ffrwythau, Cyfarwydd- iadau .. ..	101	Raspberry Wine, I'w wneyd .. ..	107
Preserves, Gorchudd ar .. ..	104	Receipt Stamps, Cyfraith .. ..	44
Prif Lythyrenau .. ..	17	Relwe, Damweiniau ar y .. ..	205
Priodas, Cyfraith .. ..	45	Rhanau ymadrodd, Y gwallau mwyaf cyffredin .. ..	19
Priodas, Cyfraith Tori Ammod ..	44	Ansoddair .. ..	19
Priodas, Modrwyau .. ..	130	Rhagenw .. ..	19
Priodas, Trefniadau .. ..	127	Cysylltiad .. ..	19
Pryfaid a chreaduriaid dinystriol, Y modd i'w difetha .. ..	164	Bannod .. ..	20
Pryfaid clustig, I'w difetha .. ..	165	Berf .. ..	20
Pryfaid dillad, I'w difetha .. ..	165	Rhagferf .. ..	20
Pryfaid yn mhenau plant, I'w synud .. ..	197	Arddodiad .. ..	20
Pwddin .. ..	93	Rhubarb Wine, I'w wneyd .. ..	107
Sylwadau cyffredinol .. ..	93	Rhwymedd, I'w wella .. ..	197
Plum Pudding Nadolig .. ..	94	Rhyddi i ymadael, Cyfraith .. ..	35
Plum Pudding Plaen .. ..	94	Rhyddi yn yr ymysgaroedd, I'w wella .. ..	197
Lemon Suet Pudding .. ..	94	Rhyfeddnod .. ..	17
Pwddin Bara ac Ymenyn .. ..	94	Rice mewn bara .. ..	109
Pwddin Bara .. ..	95	Ring Worms, I'w gwella .. ..	197
Pwddin Currants .. ..	95	Rolls, I'w gwneyd .. ..	110
Dumplings Suet Plaen .. ..	95	Rosewood, I'w lanhau .. ..	122
Butter Pudding .. ..	95	Root Beer (Cwrw Gwreiddiau), I'w wneyd .. ..	108
		Rumps a Kidneys, I'w coginio ..	73

	TUDAL
<b>S</b>	
Salmon, I'w biclo ... ..	59
Salmon, I'w botio ... ..	59
Salmon, I'w ferwi ... ..	58
Salmon, I'w friwlio ... ..	58
Salmon, I'w sychu ... ..	59
Salmon, Y ffordd i ddewis ...	52
Salmon, Y modd i bysgota ...	30
Salads, I'w gwneyd ... ..	90
Salad rhagorol ... ..	90
Salwch y môr, I'w wella ...	197
Satin gwyn a flowered, I'w lanhau	141
Sauces ... ..	86
Ymenyn toddi ... ..	86
Onion Sauce ... ..	86
Egg Sauce ... ..	86
Persli Sauce ... ..	86
Mint Sauce ... ..	87
Bread Sauce ... ..	87
Apple Sauce ... ..	87
Fish Sauce .. ..	87
Oyster Sauce .. ..	87
Lobster a Crab Sauce .. ..	87
Anchovy Sauce .. ..	87
Sauce at Blum Pudding ..	87
Sauce at Ffowls .. ..	87
Sauce at Gig neu Bysgod ..	87
Ystwffing .. ..	87
Force Meat Balls .. ..	88
Force Meat Balls at Bysgod	88
Sausages Beef .. ..	66
Sausages Mutton .. ..	72
Sausages Porc .. ..	75
Sausages Veal .. ..	69
Scurvy, I'w wella ... ..	197
Scotch Rabbit, I'w gwneyd ..	88
Senedd, Y modd i anerch y ..	25
Sernodau .. ..	17
Shrimps a Prawns, Y ffordd i ddewis	52
Shrimps, I'w potio .. ..	63
Sidan du, I'w adnewyddu .. ..	138
Sidan, I'w adnewyddu .. ..	138
Sidan, I symud yspotiau braser oddier .. ..	139
Sidanau, Satins, Gwisgoedd Gwlan, I'w lifo .. ..	141
Sillau, Am .. ..	10
Sillebu, Am .. ..	11
Sillgoll .. ..	17
Siop, Cymeryd .. ..	4
Siopwyr, Dyledswyddau .. ..	5
Simneu fyglyd, I'w gwella ..	117
Skates, I'w berwi .. ..	60
Soda Cakes, I'w gwneyd .. ..	110
Soda Water, I'w wneyd .. ..	108
Sofas ac Ottomas, I'w glanhau ..	122
Soles, I'w berwi .. ..	61
Soles, I'w briwlio .. ..	61
Soles, I'w ffrio .. ..	61
Soups, I'w gwneyd .. ..	81

	TUDAL
Soup da a rhad ... ..	81
Gravy neu Brown Soup ... ..	81
Beef Tea ... ..	82
Ox-tail Soup ... ..	82
Mock-turtle Soup ... ..	82
Soup Pys ... ..	82
Soup Pytatws ... ..	83
Giblet Soup ... ..	83
Macaroni Soup ... ..	83
Green Peas Soup ... ..	83
Vegetable Soup ... ..	83
Onion Soup ... ..	84
Soup Llŷwod ... ..	84
Lobster Soup ... ..	84
Oyster Soup ... ..	84
Stock at Soup Pysgod ... ..	84
Stock Brown at Gravy Soup	84
Spinach, I'w ferwi ... ..	88
Sponge Cake, I'w gwneyd ... ..	109
Stoppers Gwydr, I'w llacio ...	121
Sturgeon, I'w ferwi .. ..	60
Sturgeon, I'w goginio yn ffres ..	60
Sturgeon, I'w rostio .. ..	60
Surmi yn yr ystumog, I'w wella ...	197
Sweetbread Lamb, I'w goginio ..	74
Sweetbread Llo, I'w goginio ..	70
Swn yn y clustiau, I'w symud ..	197
Symrlwydd ac urddasolrwydd ..	6

**T**

Tablau defnyddiol ... ..	209
Tabl o nifer y dyddiau o unrhyw ddiwrnod mewn unrhyw fis i'r un diwrnod yn unrhyw fis arall .. ..	209
Tabl o dreulion, derbyniadau a Chyfflogau .. ..	210
Tabl Llog ac Enillion .. ..	211
Tabl Llog am flwyddyn .. ..	212
Tabl Llog neu Discount wrth y cant .. ..	214
Cyfrifydd Parod .. ..	213
Biliau neu Nodau arianol .. ..	214
Cytundebau .. ..	214
Rhwymysgrifau Prentisiaid Rhwymau i ddiogelu Arian .. ..	214
Pwysau Cyffrydd .. ..	215
Pwysau eyffredin .. ..	215
Pwysau Bara a Blawd .. ..	215
Pwysau ar Gyfartaledd .. ..	215
Tafod, at ei fwyta yn oer .. ..	66
Tafod, I'w biclo at ei ferwi .. ..	66
Tafod, I'w ferwi .. ..	66
Tafod a Phwrs Buwch, I'w rhostio	66
Tân, Rhagflaenu ... ..	204
Tân, Rhagocheiliadau mewn achos o	204
Tanwydd a Goleuni: Y modd i'w prynu a'u trefnu .. ..	124
Cynildeb gyda Tanwydd ... ..	124
Oil ... ..	125

	TUDAL.
Tanwydd a Goleuni—Canwyllau..	125
Tarawiad mellten ... ..	197
Tarddiadau, I'w gwella .. ..	197
Tê, Coffi, &c. : Y ffordd i'w gwneyd	115
Tea Cakes, I'w gwneyd ... ..	110
Teapots China, I'w glanhau ...	121
Teyrn-genadon, Y modd i anerch..	25
Tie Doloureux, I'w wella .. ..	197
Topiau Botasau, I'w glanhau ...	137
Toriadau, I'w gwella .. ..	198
Tori ymddiried, Twyll gan Ymddiriedolwyr ac ereill ... ..	40
Traed a chlustiau mochyn, I'w coginio ... ..	76
Traed gwartheg, I'w berwi .. ..	67
Tripe, I'w ffrio ... ..	66
Trosiad, Cyfraith ... ..	39
Trouts, I'w briwlio ... ..	61
Trouts, I'w ffrio ... ..	61
Turbot, I'w ffrio ... ..	59
Turbot, I'w ferwi .. ..	59
Turbot, Y ffordd i ddewis ... ..	51
Twrci, I'w ferwi ... ..	80
Twrci, I'w rostio ... ..	79
Twrci, Y ffordd i ddewis ... ..	52
Twrcis, Y modd i'w magu a'u porthi	156
Tymberau menywaidd ... ..	2
Tyngu, I'w ochelyd ... ..	7
Tywydd, Y ... ..	31
Arwyddion y tywydd ... ..	31
Gwlith ... ..	31
Cymylau ... ..	31
Cyrfi wybrenol ... ..	32
Hin-fesurydd cywir a syml	32
<b>U</b>	
Unsilliad hir a byr ... ..	14
<b>V</b>	
Veal Collops ... ..	69
Veal Cutlets, I'w ffrio ... ..	68
Veal, I'w ferwi ... ..	68
Veal, I'w gadw ... ..	68
Veal, I rostio Filet o ... ..	68
Veal, I'w rostio ... ..	68
Veal Olives ... ..	69
Veal Minco .. ..	69
Veal Sausages ... ..	69
Veal, Y ffordd i ddewis ... ..	52
Veal, Ystiwio ... ..	68
Veil Lace Wen, I olchi ... ..	142
Venison, I'w ffrio ... ..	70
Venison, I'w gadw .. ..	70
Venison, I'w rostio ... ..	70
Venison, Ystiwio Shoulder o	70
<b>W</b>	
Water Gruel, I'w wneyd ... ..	98

	TUDAL.
Walnuts, I'w piclo ... ..	100
Water-proofing, I wneyd .. ..	144
Welsh Rabbit, I'w gwneyd ... ..	88
Wen, I'w gwella .. ..	198
Woodcocks, Snipes, a Quails, I'w coginio .. ..	78
Woodcocks, Y ffordd i ddewis ..	53
Wyau, I'w coginio .. ..	88
Berwi Wyau .. ..	88
Poachio Wyau .. ..	88
Wyau i Gleifion, I'w coginio .. ..	98
Wyau, I'w cadw ... ..	159
Wyan, I'w piclo .. ..	101
Wynwyn, I'w hystiwio ... ..	90
Wynwyn, I'w piclo ... ..	99
Wynwyn, Dull arall i'w piclo .. ..	99
Wystrys, I'w dewis ... ..	52
Wystrys, I'w ffrio .. ..	63
Wystrys, I'w hystiwio .. ..	63
Wystrys, I'w piclo .. ..	64
Wystrys, I'w porthi .. ..	64
Wystrys—Oyster Patties .. ..	63
Wystrys—Scallop Oysters .. ..	63

**Y**

Y Fuwch : Llaethdy : Ymenyn :	
Caws ... ..	150
Y Fuwch, Y moddau i'w chadw ..	150
Y Gareg, I'w gwella ... ..	198
Ymborth rhagorol i gleifion ... ..	98
Ymborth rhagorol arall i gleifion	98
Ymborth, Y ffordd oreu i ddewis...	51
Ymdrochi, Ei iachusurwydd ... ..	205
Ymdrochi, Y ffordd i ... ..	30
Ymdrochi yn y Môr, Cyfarwyddiadau	205
Ymddygiad, Rheolau ... ..	69
Ymenydd Llo, I'w goginio ... ..	2
Ymenyn, I'w drin .. ..	151
Yngraffu, I'w wella .. ..	198
Ymweliadau, Gwisgiad wrth dalu	6
Ymysgaroedd, Poen yn yr .. ..	198
Ysgaldio a llosgi, I'w wella ... ..	198
Ysgrifenu, Y modd i anerch personau urddasol ... ..	24
Ysgrifenu i'r Waag .. ..	24
Ysgrifenu Llythyrau ... ..	23
Ysgyfaint, Afiechyd yr, I'w wella	169
Ysgyfarnog, I'w briwlio ... ..	79
Ysgyfarnog, I'w hashio a'i hystiwio	79
Ysgyfarnog, I'w photio ... ..	79
Ysgyfarnog a Cwningod, Y ffordd i ddewis	53
Ysgyfarnog, I'w rhostio .. ..	78
Ysigo, I'w wella .. ..	198
Ysigo y Troed, I'w wella .. ..	198
Yspotiau Inc o Ddodrefn, I'w symud	123
Ysteinio a Phaentio .. ..	144
Coed yn ddu .. ..	144

	TUDAL.		TUDAL.
Coed yn Las .. ..	144	Alabaster, Marble, a Cheryg,	
— yn Wyrdd .. ..	144	I'w hysteinio .. ..	144
— yn lliw Mahogany ..	144	Paentio, Cyfarwyddiadau ..	144
— yn Goch .. ..	144	Ysteiniau o Ddodrefn, I'w tynu ..	123
— yn efelychiad o Rose-		Ysteiniau, I'w symud .. ..	139
wood .. ..	144	Ystiw Gwyddelig, I'w wneyd ..	73
— yn Felyn .. ..	144	Yswiriant y Llythyrdŷ neu y	
		Llywodraeth .. ..	41

DIWEDD











